

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Wyneb yn wyneb Hunaniaethau llenyddol Cymraeg a Chymreig yn erbyn cefndir refferenda 1979 a 1997

Jones, Menna Machreth; Jones, Menna

Award date:
2012

Awarding institution:
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Wyneb yn Wyneb:

*Hunaniaethau Llenyddol Cymraeg a Chymreig
yn erbyn Cefndir Refferenda 1979 a 1997*

TRAETHAWD PhD

Menna Machreth Jones

Ysgol y Gymraeg

Prifysgol Bangor

2012

CYNNWYS

Cynnwys	i
Diolchiadau	ii
Crynodeb	iii
Rhagymadrodd	1
Pennod 1: Beirdd y Ddau Refferendwm: Jon Dressel a T. James Jones	7
Pennod 2: Hunaniaethau Dewisol: Twm Morys a Jan Morris	59
Pennod 3: Raymond Garlick: Creu a Golygu Hunaniaeth	95
Pennod 4: Llenorion yr Achos: Gareth Miles ac Angharad Tomos	135
Pennod 5: Gwyneth Lewis: Ar Daith	169
Pennod 6: Y Nam Perffaith: Cyfieithu / Trosi Cerddi Menna Elfyn o'r Gymraeg i'r Saesneg	207
Diwedd glo	257
Llyfryddiaeth	270
Atodiad 1: Cyfweiliad â T. James Jones	294
Atodiad 2: Cyfweiliad â Gillian Clarke	298
Atodiad 3: Cyfweiliad â Nigel Jenkins	300

DIOLCHIADAU

Carwn ddiolch i'r canlynol: i Dr. Jason Walford Davies am ei gymorth parod a'i arweiniad wrth i mi lunio'r traethawd hwn; i staff Ysgol y Gymraeg ac i'm cydfyfyrrwyr am eu cefnogaeth a'u hanogaeth; i'm ffrindiau am eu gofal a'u caredigrwydd; ac yn olaf i Mam a Dad ac Elen am eu cariad a'u haelioni.

CRYNODEB

Yn y traethawd hwn, byddir yn archwilio agweddau ar hunaniaethau Cymraeg a Chymreig yn erbyn cefndir ac yng nghyd-destun y ddwy refferendwm ar ddatganoli yng Nghymru – y gyntaf ym 1979, pan gafwyd pleidlais sylweddol yn erbyn mesur o ddatganoli, a'r ail ym 1997, pan lwyddodd yr ymgyrch o blaid mesur o hunanreolaeth o drwch blewyn. Yn y cyswllt hwn, beirdd yn bennaf fydd dan sylw, ond ceir hefyd ymdriniaeth â dau lenor, na ellir, oherwydd eu harwyddocâd cwbl ganolog, anwybyddu eu cyfraniad i'r maes, a hynny ar ffurf gweithiau rhyddiaith, cyhoeddiadau uniongyrchol wleidyddol a dramâu. Byddir yn ymdrin â gwaith y beirdd a'r llenorion dan sylw trwy gyfrwng ystyriaeth o wahanol barau neu bartneriaethau creadigol, gyda natur y pâr yn wahanol ym mhob achos. Yn y bennod gyntaf, creffir ar ymateb y Cymro T. James Jones a'r Americanwr Jon Dressel i ganlyniadau'r ddwy refferendwm; pâr teuluol yw ffocws yr ail bennod, lle trafodir gweithiau Twm Morys a'i fam Jan Morris, a hynny yn unigol ac ar y cyd; bwrir golwg yn y drydedd bennod ar waith Raymond Garlick ac ar y cysyniad o newid hunaniaeth bersonol a phennu ymlyniadau diwylliannol newydd; yn y bedwaredd, astudir gweithiau dau awdur cynhyrchiol a ystyrir yn 'Llenorion yr Achos' yn y Gymraeg, sef Angharad Tomos a Gareth Miles; *oeuvre* Bardd Cenedlaethol cyntaf Cymru, Gwyneth Lewis – yn Gymraeg ac yn Saesneg – yw pwnc y bumed bennod; ac yn y bennod olaf, byddir yn ymchwilio i'r berthynas rhwng Menna Elfyn a'r grŵp o gyfieithwyr a gynhyrchodd, rhyngddynt, gyfres o gasgliadau dwyieithog o waith y bardd. Ceir hefyd Ddiweddglo lle y bwrir golwg yn ôl ar y parau hyn, a lle y trafodir gwaith Iwan Llwyd fel modd o bennu trywydd buddiol pellach.

Rhagymadrodd

Yn eu rhagair i'r gyfrol *Postcolonial Wales* a gyhoeddwyd yn 2005, gofynna Jane Aaron a Chris Williams a fydd datganoli yn sgil sefydlu Cynulliad Cenedlaethol o drwch blewyn yn refferendwm 1997, yn arwain at newid yn ymwybyddiaeth y Cymry ac adfywiad yn y diwylliant Cymraeg a Chymreig. 'Is the current form of devolution superficial rather than meaningful?', gofynnant: 'Is the new political climate conducive to Welsh culture regeneration?'.¹ A Chynulliad Cenedlaethol Cymru newydd sicrhau drwy gyfrwng refferendwm arall bwerau deddfu pellach (Mawrth 2011), daeth yn amser bwrw golwg yn ôl dros y daith gyfansoddiadol y gellir yn fuddiol bennu ei man cychwyn gyda methiant refferendwm 1979 ynghylch datganoli. Mewn erthygl yn 2011, bu i Angharad Price ystyried ymateb nofelwyr Cymraeg i ddatganoli yn dilyn y bleidlais lwyddiannus o blaid sefydlu'r Cynulliad ym 1997.² Yn yr ymdriniaeth dan sylw, amlinella Price y diffyg ymateb a fu i refferendwm 1997 ym maes y nofel Gymraeg gyfoes. Noda enghreifftiau amlwg megis *Wele'n Gwawrio* Angharad Tomos a *Llafur Cariad* Gareth Miles – dwy nofel y cyfeirir atynt yn y thesis hwn – ond ei chasgliad yw mai ychydig iawn o effaith y mae datganoli wedi ei gael ar waith nofelwyr Cymraeg ar ôl 1997, yn ôl tystiolaeth y gweithiau cyhoeddedig a chyfweliadau Price â'r nofelwyr hyn. O'i gymharu â'r ymateb i ganlyniad refferendwm '79 ar ffurf barddoniaeth a rhyddiaith, ymddengys nad yw ysbryd llwyddiant refferendwm 1997, hyd yn hyn o leiaf, wedi ysbrydoli'r nofel Gymraeg yn yr un modd. Serch hynny, diau y gellid dadlau ei bod yn ddyddiau cynnar eto.

Pwnc y traethawd hwn – pwnc gwleidyddol a beirniadol cyfoes a pherthnasol – yw archwilio agweddau ar hunaniaethau Cymraeg a Chymreig cyfres o feirdd a llenorion, a hynny yn erbyn cefndir cyffredinol refferenda '79 a '97. Ffordd fuddiol, newydd o wneud hyn yw craffu ar y maes drwy gyfrwng ystyriaeth o wahanol barau neu bartneriaethau o feirdd a llenorion. Dyma dull sy'n dadlennu'r cyfoeth a'r

¹ Jane Aaron a Chris Williams, *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2005), t. xvi.

² Angharad Price, "'Dim Oll'? Ymateb Nofelwyr Cymraeg i Ddatganoli', *Llên Cymru*, 34 (2011), tt. 237-47.

amrywiaeth yn ymatebion y beirdd a'r llenorion hyn i faterion yn ymwneud â hunaniaethau personol, cymdeithasol, cenedlaethol a rhyngwladol mewn perthynas â datblygiadau cyfansoddiadol Cymru dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain. At hyn, y mae'r dull hwn o edrych ar barau penodol yn fodd o ddadlennu'r deialogau, y llinynnau cyswllt a'r cyfatebiaethau diwylliannol rhwng gwahanol unigolion (ac, fel y cawn weld, *o fewn* gwahanol unigolion), a rhwng gwahanol ffurfiau llenyddol a gwahanol ideolegau. O ran y parau a ddewiswyd, fe welir fod natur y berthynas yn wahanol ym mhob achos, ac yn sgil yr amrywiaeth dan sylw amlygir sawl math o ymwneud creadigol – rhwng y mewnol a'r allanol, y Gymraeg a'r Saesneg, Cymru ac America a hefyd rhwng gwaith gwreiddiol a chyfieithiadau.

Yn y bennod agoriadol, edrychir ar ymateb y Cymro T. James Jones a'r Americanwr Jon Dressel, yn y lle cyntaf, i'r hyn a welent fel chwalfa canlyniad '79, a hynny ar ffurf cerddi 'Ianws' – dilyniant dwyieithog y cyflwynwyd ei gerddi Cymraeg i gystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol '79. Fe'i diarddelwyd gan ei fod yn ffrwyth cywaith rhwng y ddau fardd. Diau mai'r cywaith hwn oedd yr ymateb mwyaf cyflawn ar y pryd i'r siom a deimlai datganolwyr yn dilyn y bleidlais 'Na' ddigyfaddawd. Bwriedir craffu ar union natur y ddeinameg rhwng y bardd Cymraeg a'r bardd Americanaidd yn y cyswllt hwn, er mwyn dadlennu ymateb rhyngwladol diddorol i'r digwyddiad diffiniol hwn yn hanes y Gymru fodern, ac er mwyn archwilio'r tensiynau a'r teimlad o anobaith a geir yng ngwaith y beirdd yn sgil eu cred fod cenedl y Cymry ar fin cael ei chymhathu'n llwyr â hunaniaeth Brydeinig. Gwneir hyn drwy gyfrwng ystyriaeth fanwl o gerddi unigol, ac yn benodol o berthynas cerddi Cymraeg a cherddi Saesneg y gyfres. Ochr yn ochr â hyn – neu'n hytrach wyneb yn wyneb – ystyrir ailymweliad yr un pâr o feirdd â materion refferendaidd, a hynny ar lun astudiaeth o'r gyfrol *Wyneb yn Wyneb* (1997) – cywaith arall sydd, y tro hwn, yn ddehongliad o brofiad gwrthgyferbyniol, sef llwyddiant y bleidlais 'Ie' yn '97. Y mae i'r gwaith hwn dôn a naws wahanol, mewn ymateb i'r gymuned sifig newydd a ddatblygasai yn ystod y 1980au a'r 1990au ac a oedd ar fin esgor ar fesur o ymreolaeth ym mis Medi 1997 ar lun Cynulliad i Gymru. Yn achos Cerddi Ianws, fe gafwyd ymateb emosiynol a phwerus i'r hyn a ystyrir gan y beirdd fel ymwrthodiad cywilyddus â'r cysyniad o Gymru fel cenedl; yn *Wyneb yn Wyneb*, gellir dadlau y ceir ymgais i lunio trafodaeth fwy gwrthrychol-ddisgybledig, ar ffurf sgwrs ddychmygol rhwng dau ffigwr cenedlaethol, Owain Glyndŵr ar y naill law a

Robert E. Lee ar y llall. Ac eto, fel y byddir yn dangos, y mae anawsterau a pheryglon gwirioneddol ynghlwm wrth ddewis ffigwr fel Lee fel lladmerydd, ac, at hynny, wrth ei ddefnyddio fel cyfatebiaeth Americanaidd i Glyndŵr (pâr arall, fe ellid nodi).

Datblygir y cysyniad o bartneriaeth yn yr ail bennod drwy ganolbwyntio ar bâr teuluol, sef y bardd Twm Morys a'i fam, yr awdur taith a'r newyddiadurwraig Jan Morris. Bwriedir yma archwilio ffiniau o wahanol fathau: y lleol a'r rhyngwladol, y Gymraeg a'r Saesneg, barddoniaeth a rhyddiaith, y gwrywaidd a'r benywaidd. Byddir yn trafod y cysyniad o 'hunaniaeth ddewisol' ('elective identity'), a defnyddio term Mike Savage,³ sef penderfyniad yr unigolyn i fabwysiadu hunaniaeth 'amgen', a all gynnwys elfennau megis yr ieithyddol a'r diwylliannol, ac, fel y pwysleisia Savage yn benodol, y daearyddol. Yn achos Twm Morys, bwriedir mynd i'r afael â'r newidiadau rhwng ei gyfrol gyntaf, *Ofn fy Het* (1992), a'i ail, 2 (2002). Yn y gyntaf, ymddengys Morys ar ffurf y Clerwr liwdig, ôl-fodernaidd sy'n ymhyfrydu mewn cyfuno cyweiriau (yr aruchel-farddol a'r poblogaidd-dorfol, er enghraifft), a thraddodiadau (Cymru a Llydaw, er enghraifft), ac sydd hefyd yn chwarae'n hylifol â'r cysyniad o wahanol bersonau. Yn 2, mewn gwrthgyferbyniad, gwelir newid pwysig yn y modd y mae'n ymlynu wrth ddarn penodol o dir, sef Eifionydd, a byddir yn ystyried yn y cyswllt hwn y modd y mabwysiaida rôl draddodiadol y bardd gwlad mewn ymateb i'r hyn a ystyria Morys yn argyfwng o ran y bygythiadau i gymunedau cefn gwlad Cymraeg yn y Gymru ôl-1997. Defnyddir gwaith Jan Morris yn y bennod hon fel cyfatebiaeth a gwrthbwynt: archwilir yng nghyd-destun Morris bynciau megis y cysyniad o berfformio a hyrwyddo gwahanol hunaniaethau, a'r modd y troes James Morris, y newyddiadurwr Saesneg a'r milwr, yn Jan Morris, yr awdures Gymreig. Agwedd bellach ar berthynas Morys a Morris y bwrir golwg arni yn y bennod dan sylw yw'r enghreifftiau hynny lle bu i'r ddau gydweithio, megis yn achos *A Machynlleth Triad* (1993) ac *Our First Leader* (2000) / *Ein Llyw Cyntaf* (2001).

Pâr o fath gwahanol eto – un 'mewnol' y tro hwn – fydd dan sylw yn y drydedd bennod, lle'r eir i'r afael â gyrfa'r bardd a'r beirniad Raymond Garlick. Dyma Sais a aned yn Llundain a ddewisodd ailddyfeisio ei hunaniaeth bersonol a chenedlaethol drwy ymuniaethu â Chymru a'r Gymraeg, gan ddatblygu hefyd yn bont rhwng dwy

³ Mike Savage *et al.*, *Globalization and Belonging* (London: Sage Publications, 2005), t. 29.

lenyddiaeth Cymru. Cynigiai Cymru iddo ef dir ffrwythlon ar gyfer magu hunaniaeth bersonol a oedd mewn gwrthgyferbyniad llwyr – o ran gwerthoedd, iaith, tirlun a gwleidyddiaeth – â'r hyn a nodwedddai ei hunaniaeth Saesneg, ddinesig, ddsbarth canol flaenorol. Creffir yn arbennig, yn erbyn y cefndir hwn, ar yr hyn a ddisgrifiwyd gan Tony Conran fel 'triple catastrophe'⁴ bywyd Garlick yn 1979, sef methiant y refferendwm ar ddatganoli, diwedd ei briodas a'r profiad o golli ffydd. Dyma'r cenedlaethol a'r personol yn cyd-daro'n boenus, a'r rheswm paham y bu i Garlick roi'r gorau i lenyddiaeth am yn agos at ddegawd wedi hynny. Ochr yn ochr â hyn, ystyrir mewn perthynas â gwaith Garlick y cysyniad o anabledd, a hynny ar lefel gorfforol a diwylliannol. Ystyrir, at hyn, waith Garlick fel golygydd – yn achos gwaith llenorion eraill (er enghraifft, ei waith pwysig fel beirniad llenyddol ac fel antholegydd), a hefyd yn achos ei waith ei hun, yn y modd y bu iddo, wrth lunio ei *Collected Poems* (1987), fynd ati i ddileu'n olygyddol yr elfennau hynny o'i fywyd blaenorol nad ydoedd, erbyn diwedd yr 1980au, bellach yn eu harddel (ei ffydd Gatholig yn fwyaf penodol).

Byddir yn troi yn y bedwaredd bennod at ddau lenor rhyddiaith – dau awdur cynhyrchiol a ystyrir yn 'Llenorion yr Achos' yn y Gymraeg, sef Angharad Tomos a Gareth Miles. Prif ffocws y traethawd hwn yw ymateb y beirdd, ond yn achos y pwnc dan sylw, go brin y gellir anwybyddu *oeuvres* y ddau lenor rhyddiaith hyn, ac fe haeddant le amlwg yma yng nghanol y thesis hwn. Cynyddu y mae'r ymdriniaethau beirniadol â gwaith Angharad Tomos (y mae cyhoeddiadau Jane Aaron ac Awel Mehefin Edwards, er enghraifft, werth eu nodi yma⁵), ond prin yw'r astudiaethau hyd yma o waith Gareth Miles, a dyma gyfiawnhau ymhellach, felly, y sylw canolog a roddir i'r ddau lenor hyn ar y cyd yn y cyd-destun presennol. Bwriedir yn y bennod dan sylw ystyried eu gweithiau creadigol ochr yn ochr â'u cyhoeddiadau mwy esblygwleidyddol. Bwrir golwg yn benodol ar y modd y mae'r ddau yn defnyddio eu cymeriadau creadigol er mwyn archwilio amryw ideolegau cyferbyniol, ac er mwyn turio i seicoleg a thensiynau mewnol yr ymgyrchydd. Canolog, yn hyn o beth, yw

⁴ Tony Conran, 'An Abdication from Time: an Essay on the *Collected Poems* of Raymond Garlick', *New Welsh Review*, 1, 1 (1988), t. 52.

⁵ Gweler, er enghraifft, Jane Aaron, "'Glywi di 'nghuro?': Agweddau ar Nofelau Angharad Tomos 1979-1997', yn John Rowlands (gol.), *Y Sêr yn eu Graddau* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000); ac Awel Mehefin Edwards, 'Yr Awdures Aflonydd: Astudiaeth o Ffuglen Angharad Tomos (1975-2004)', Traethawd M. Phil. (Prifysgol Cymru, Bangor, 2006).

ymateb y ddau lenor i'r pâr arall hwnnw, refferenda '79 a '97, a'r modd y maent ill dau yn eu gweld fel digwyddiadau diffiniol sy'n cael effaith bellgyrhaeddol ar eu bydolwg yn bersonol a'u dirnadaeth o hunaniaeth genedlaethol a rhyngwladol. Y mae'r dimensiwn rhyngwladol hwn yn bwnc arwyddocaol yng nghyd-destun y ddau lenor. Er mwyn datblygu'r ymdriniaeth feirniadol â gwaith Miles, bwriedir hefyd alw sylw at arwyddocâd ei gyfieithiadau o ddramâu gan awduron rhyngwladol (Arthur Miller ac Ionesco, er enghraifft). At hynny, byddir yn manteisio wrth drafod gwaith Miles ar ddeunydd anghyhoeddedig na chafodd hyd yma unrhyw sylw beirniadol.

Oeuvre Bardd Cenedlaethol cyntaf Cymru, Gwyneth Lewis, fydd dan sylw yn y bennod ddilynol. Dyma bâr mewnlol o fath arall, a hynny yn yr ystyr fod yma fardd sy'n cyfansoddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Edrychir yn y cyswllt hwn ar ddatganiadau Lewis ei hun ynghylch y broses o dyfu'n fardd dwyieithog, a gosodir hyn yng nghyd-destun naratif y Gymru ddwyieithog ôl-1997. Ni fyddai unrhyw ymdriniaeth â hunaniaethau Cymraeg a Chymreig yn y cyfnod dan sylw yn gyflawn heb roi ystyriaeth i'r swydd arwyddocaol honno, Bardd Cenedlaethol Cymru, a grewyd ym Mai 2005 – un arwydd o farddoniaeth yn symud o'r sffêr ddiwylliannol i'r safle sifig. Eir i'r afael yn y bennod hon â'r berthynas rhwng Gwyneth Lewis y bardd Cymraeg a Gwyneth Lewis y bardd Saesneg drwy ystyried yn fanwl destunau 'cyfatebol', megis *Y Llofrudd Iaith* (1999) ar y naill law a'r gyfres 'The Language Murderer' (yn y gyfrol *Keeping Mum*, 2003) ar y llall. Y bwriad yn hyn o beth yw dadlennu'r gwahaniaethau sylfaenol a'r tensiynau gwaelodol rhwng y testunau 'cyfatebol' hyn. Tynnir yr agweddau hyn ynghyd drwy ddatblygu'r ddelwedd o daith, a nodwyd gyntaf mewn perthynas â gwaith Lewis gan Angharad Price mewn astudiaeth yn 2000.⁶

Yn y chweched bennod, cynigir astudiaeth o'r berthynas rhwng Menna Elfyn a'r grŵp o gyfieithwyr y bu iddi ei gasglu o'i chwmpas, sy'n cynnwys R. S. Thomas, Tony Conran, Gillian Clarke, Elin ap Hywel, Joseph Clancy, Robert Minhinnick, a Nigel Jenkins. Yma gellir yn fuddiol ystyried Elfyn a phob un o'i chyfieithwyr unigol fel pâr, a ffrwyth y partneriaethau hyn yw corff o waith a gyhoeddwyd ar ffurf cyfrolau dwyieithog ac a farchnatwyd yn rhyngwladol. Disgrifiodd Tony Conran Elfyn fel 'the

⁶ Angharad Price, 'Chwarae Geiriau fel Gwyddbwyll', *Taliesin*, 110 (Gaeaf 2000), tt. 113-25.

first Welsh poet in fifteen hundred years to make a serious attempt to have her work known outside Wales'.⁷ Beth yn union, gofynnir, yw natur yr 'export' barddol hwn? Drwy ddatblygu'r hyn a geir yn erthygl bwysig Tudur Hallam, 'When a *Bardd* Meets a Poet: Menna Elfyn and the Displacement of Parallel Facing Texts'⁸ yng ngoleuni sylwadau mewn adolygiad gan Damian Walford Davies, byddir yn craffu ar y rhesymau pam y bu i rai o ddarllenwyr Cymraeg Elfyn fynegi pryder ynghylch y 'prosiect' dwyieithog dan sylw, ac edrychir hefyd ar broffiliau a dulliau trosi y beirdd-gyfieithwyr unigol.

Yn y Diweddglo, teflir cipdrem yn ôl ar rai o ganfyddiadau'r thesis yn achos pob pennod unigol, gan hefyd, yn Ianwsaidd, daflu golwg ymlaen, gan awgrymu rhai trywyddau pellach buddiol – yn benodol, ymwneud y bardd Iwan Llwyd â refferendwm 1979 ac â'r artistiaid a'r ffotograffwyr y bu'n cydweithio â hwy ar hyd ei yrfa.

Byddir yn cynnwys hefyd Atodiadau ac ynddynt gyfweiliadau â T. James Jones, Nigel Jenkins a Gillian Clarke.

⁷ Tony Conran yn disgrifio cyfrol Elfyn, *Cell Angel* (1996). Dyfynnir Conran ar gefn clawr Menna Elfyn, *Cusan Dyn Dall / Blind Man's Kiss* (Tarsset: Bloodaxe Books, 2001).

⁸ Tudur Hallam, 'When a *Bardd* Meets a Poet: Menna Elfyn and the Displacement of Parallel Facing Texts', yn Daniel Williams (gol.), *Slanderous Tongues: Essays on Welsh Poetry in English 1970-2005* (Bridgend: Seren, 2010), tt. 89-111.

Pennod 1

Beirdd y Ddau Refferendwm: Jon Dressel a T James Jones

Un o'r digwyddiadau mwyaf dadleuol yn hanes yr Eisteddfod Genedlaethol fu cyhoeddi mai cywaith oedd y dilyniant o gerddi buddugol yng nghystadlaeth y Goron ym 1979. Gofynion y gystadlaeth oedd cerddi ar y thema 'serch neu siom',¹ a daeth y gyfres o gerddi 'Dilyniant Dygwyl Dewi' gan Ianws i'r brig - 'un o'r ymatebion barddol grymusaf a gafwyd i fater y Refferendwm' yn ôl Peredur Lynch.² Penderfynodd yr Eisteddfod ddiarddel y cywaith ac fe goronwyd Meirion Evans am ei ddilyniant yntau. I ychwanegu at yr helynt, datgelwyd mai Americanwr o dras Cymreig o'r enw Jon Dressel oedd awdur un rhan o'r cywaith, a'r bardd T. James Jones o deulu Parc Nest, a oedd yn llawn ymwybodol o gonfensiynau'r Eisteddfod, oedd y llall. Er mai yn St. Louis, Missouri y ganed Jon Dressel, o Lanelli y daw teulu ei fam ac yn ystod ei fywyd meithrinodd berthynas agos â Chyrmru.³ Bu'n byw yn Sir Gaerfyrddin yn y 1970au tra cydlynai'r cwrs Llenyddiaeth Eingl-Gymreig yng Ngholeg y Drindod gan ymgartrefu yn Llansteffan, yn yr un pentref â T. James Jones.

Ergyd y cerddi yw'r sylweddoliad gan y beirdd nad oes dyfodol i genedl y Cymry: 'Pan wrthyd cenedl fabwysiadu sefydliadau gwleidyddol i ddiogelu ei hunaniaeth, nid oes iddi ddyfodol fel cenedl',⁴ meddai T. James Jones yn rhagair; prif bwrpas ennill grym gwleidyddol i Gymru iddo ef, felly, yw sicrhau parhad y pethau hynny sy'n rhoi hunaniaeth i'r genedl, gan gynnwys yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Ddeunaw mlynedd yn ddiweddarach cafwyd refferendwm arall ar ddatganoli ac fe enillwyd pleidlais ddigonol i sefydlu Cynulliad Cenedlaethol i Gymru. Ysgrifennodd y ddau fardd dan sylw gyfres arall o gerddi ar drothwy refferendwm 1997, sef *Wyneb yn Wyneb / Face to Face*, er mwyn ymateb i'r newid a fu yng ngwleidyddiaeth Cymru

¹ T. M. Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau: Caernarfon a'r Cylch 1979* (Llandysul: Gwasg Gomer dros Lys yr Eisteddfod Genedlaethol, 1979), t. 25.

² Peredur Lynch, 'Refferendwm 1979, Cerddi Ianws a Thopos y "Y Cymry Taeog"', yn Gerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXX* (Bethesda: Gwasg Gee, 2011), t. 83.

³ Jon Dressel, 'Looking Both Ways', *New Welsh Review*, 32 (Gwanwyn 1996), t. 58.

⁴ T. James Jones a Jon Dressel, *Cerddi Ianws Poems* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1979), t. 4.

yn y cyfamser, a hynny ar ffurf deialog rhwng dau naratif cenedlaethol – Cymru a thaleithiau deheuol America – y gellir, yn nhyb y beirdd, eu cymharu â'i gilydd. At hynny, nod y bennod hon yw trafod rhyngberthynas y ddau fardd wrth iddynt gydweithio ar y cerddi hyn, yn syniadaethol ac o ran arddull.

Nod Dressel a Jones wrth dorri confensiwn un o brif gystadleuaethau'r Eisteddfod oedd pwysleisio'r argyfwng yr oedd Cymru fel cenedl yn ei wynebu yn dilyn methiant refferendwm 1979. Drwy herio'r sefydliad Cymraeg cyfleur y neges na ellid bod yn oddefol a difraw bellach, a bu iddynt alw am 'weithredu'n ymarferol wleidyddol er ceisio diogelu parhad ein gwlad a'n hiaith'.⁵ Noda Dressel: 'Our motivation had been to make the Welsh people confront the enormity of what they had done, as we saw it, rather than win the Crown'.⁶ Roedd Ianws yn llais ar gyfer pawb a siomwyd gan ganlyniad y refferendwm a bu'n gatharsis i'r sawl a ymdeimlai â chyflwr o fod dan warchae yng nghyd-destun cenedlaetholdeb Cymreig y dwthwn hwnnw.

Nid methiant y refferendwm oedd prif destun y siom ond y ffaith mai dim ond 20.3% o'r bleidlais oedd o blaid sefydlu Cynulliad cenedlaethol i Gymru. Cynigiwyd y refferendwm gan y Blaid Lafur a oedd yn wynebu cyfnod o wrthwynebiad y gaeaf hwnnw, ac arweiniwyd yr ymgyrch 'Na' yng Nghymru gan chwech o aelodau seneddol Llafur gan gynnwys Neil Kinnock a Leo Abse. Dywedodd John Davies am ganlyniad y refferendwm: 'Fe'i dehonglwyd fel buddugoliaeth yn erbyn Cymreictod, fel datganiad fod y syniad o genedligrwydd y Cymry yn annerbyniol i'r mwyafrif ohonynt'.⁷ Roedd gweld bod y bleidlais 'Na' mor gryf mewn ardaloedd a ystyrid yn gadarnleoedd y Gymraeg a'i diwylliant yn ergyd drom, ac yng Ngwynedd cafwyd mwyafrif o 33.1% yn erbyn datganoli.⁸ Ym marn John Osmond, nid oedd synnwyr digon cryf yn bodoli ynghylch gwerth gwleidyddol Cymru fel uned annibynnol. Galluogwyd gwrthwynebwyr i ddadlau bod modd coleddu gwladgarwch heb orfod cael sefydliad a biwrocratiaeth Gymreig. Dywed Osmond nad oedd y syniad o 'Gymru' fel endid gwahanol a haeddai'r cyfrfioldeb i drin ei faterion ei hun yn cyfateb i

⁵ Jones a Dressel, *Cerddi Ianws*, t. 4.

⁶ Jon Dressel, 'The Road to Shiloh', *New Welsh Review*, 6, 3 (1993/94), t. 20.

⁷ John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain: argraffiad newydd Penguin Books, 2007), t. 615.

⁸ *Ibid.*, t. 614.

realiti'r Gymru a oedd ohoni yn 1979:

Disputes around the position and status of the Welsh language were only the most salient illustration of a lack of Dooyeweerd's 'internal political solidarity' [cysyniad sy'n arwyddo trafodaeth wleidyddol a hunaniaethol gynhwysol]. In itself this was a major reason, I would argue the major reason, why at that time a referendum could not succeed, and, indeed, why the 1979 referendum was lost so heavily.⁹

Oherwydd nad oedd gan Gymru synnwyr o ddinasyddiaeth Gymreig, megis yr hyn a ddatblygwyd yn yr Alban drwy ymwneud sefydliadau a chyrrff cenedlaethol â materion y wlad, cyfyng fu natur y drafodaeth wleidyddol yng Nghymru cyn 1979. Dadleua Osmod y byddai angen datblygu cymdeithas sifig cyn i'r achos o blaid datganoli ennill ei blwyf ymysg mwyafrif y boblogaeth. Ym marn Tweli Griffiths yn y drafodaeth a gafwyd wedi'r canlyniad yn *Barn*, bu'r holl ymgyrch 'allan o sync', hynny yw, dadl academiaidd ac afreal a gafwyd gan yr ymgyrch o blaid datganoli – ymgyrch na lwyddodd i gyfathrebu'r dadleuon i drwch y boblogaeth; roedd 'iwfforia gwladgarol' yr 1960au wedi'i diffodd, meddai.¹⁰ Er ei siom, gwelai John Osmond ganlyniad y refferendwm fel cyfle i ymylu cenedlaetholdeb diwylliannol a oedd â'r iaith Gymraeg yn sail iddo:

In a very real sense the Welsh Assembly stood for the survival of the old Welsh metaphor. The referendum signaled its end. This will be sad news for those, perhaps romantic, nationalists who sought to recover a Wales built in their own image, in which the deracinated mass society of industrial Wales would be leavened by the impulses from a healthier rural Wales. But for those who deal in realities rather than images the referendum result should be welcomed as extinguishing such cosy projections. For they would have eliminated any possibility of a truly self-determined future for the greater number of the people of Wales.¹¹

Amlygir yma y myth boblogaidd yng nghyfnod y refferendwm ynghylch cymhellion yr hyn a welwyd fel lleiafrif o genedlaetholwyr Cymraeg, ac anelir y sylwadau

⁹ John Osmond, *Accelerating History: The 1979, 1997 and 2001 Referendums in Wales* (Cardiff: Sefydliad Materion Cymreig, 2011), t. 3.

¹⁰ Tweli Griffiths, 'Allan o Sync', *Barn*, 194 (Mawrth 1979), t. 552.

¹¹ John Osmond, 'Mr. Morris and the Elephant: The Referendum, The Election, and The Future of Welsh Politics', *Planet*, 48 (Mai 1979), t. 8.

mileinig hyn tuag at genedlaetholwyr, megis Jon Dressel a T. James Jones, a oedd yn gweld y bleidlais fel ymwrthodiad â'r syniad o Gymru, ei hiaith a'i diwylliant.

Mabwysiadodd Dressel hunaniaeth Gymreig, a throi'n genedlaetholwr o Gymro, yn ystod blynyddoedd yr 'iwfforia gwladgarol', chwedl Griffiths. Ystyria Dressel ei fod yn enghraifft o theori Hansen ynglŷn â diaspora trydedd genhedlaeth yr Unol Daleithiau, sy'n ymchwilio'n ddyfnach na'u rhieni i'w hachau diwylliannol, ac mai arwydd o'r cam diwethaf ar y ffordd i ymdoddi'n llwyr i'r wlad newydd yw hyn: 'what the son wishes to forget, the grandson wishes to remember'.¹² Ymfudodd rhieni ei fam i America yn 1895, ond aeth Dressel ati i adfer ei gysylltiad â Chymru o 1961 ymlaen. Pan ddarllenodd bamffled yn Eisteddfod Genedlaethol 1964 gan Blaid Cymru, daeth yn ymwybodol o'i argyhoeddiad fod Cymru'n genedl ac y dylai ei llywodraethu ei hun.¹³ Dechreubwynt ei ymlyniad at Gymru oedd hanes ei gyndeidiau a'i ddiddordeb mewn deall pam y bu iddynt symud: 'My partial expatriation, or repatriation, to Wales has, in my mind, always been both a response, and a challenge, to his [ei dad-cu] decision to emigrate to America'.¹⁴ Fel y nodwyd, cafodd y cyfle i symud i Gymru ym 1976 i ddysgu ar gwrs Llenyddiaeth Eingl-Gymreig, a phrynodd ef a'i deulu dŷ yn Llansteffan. Cyn hynny, bu'n rhedeg tafarn Gymreig yn St. Louis, Missouri o'r enw Tafarn Llywelyn ap Gruffydd.¹⁵ Mewn erthygl yn y gyfrol *Discovering Welshness*, mae Dressel yn disgrifio'r chwilfrydedd a oedd ganddo ynghlych Cymru, ynghyd â'r holl ystrydebau y disgwyliai eu canfod pan ymwelodd â'r wlad am y tro cyntaf. Cafodd ei swyno gan y Fro Gymraeg a'r didwylledd a welai yn y diwylliant yno, ac yn sgil hynny daeth yn ymwybodol o'r bygythiadau i'r iaith Gymraeg hefyd:

For me it is a matter of seeing, and feeling, Wales as a whole. For if my experience in the Welsh heartland has taught me that it is the whole of Wales that is under cultural assault, it has also taught me that the 'whole of Wales' is worth defending has got the heartland at its core.¹⁶

¹² Dressel, 'Looking Both Ways', t. 56.

¹³ Dressel, 'The Road to Shiloh', t. 20.

¹⁴ Dressel, 'Looking Both Ways', t. 57.

¹⁵ Dressel, 'A Saloon of my Own', *Planet*, 58 (Awst/Medi1986), t. 52.

¹⁶ Fiona Bowie ac Oliver Davies, *Discovering Welshness* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1992), t. 25.

Mae naws ramantaidd y sylw hwn yn awgrymu ei fod yn gweld cadarnleoedd y Gymraeg fel hanfod Cymru, a'i bod yn werth amddiffyn Cymru gyfan er mwyn amddiffyn y cadarnleoedd. Wrth ddiffinio Cymru fel hyn, cenedlaetholdeb diwylliannol a arddangosir ganddo oherwydd gwraidd ei hunaniaeth yw'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.

Roedd T. James Jones eisoes wedi ei sefydlu'i hun fel addaswr creadigol o'r Saesneg i'r Gymraeg o ganlyniad i lwyddiant *Dan y Wenallt* (1968), sef addasiad o *Under Milk Wood* Dylan Thomas. Dechreuodd ei yrfa fel gweinidog gydag Undeb yr Annibynwyr, ond rhwng 1975 a 1982 bu'n ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod. Bu'n gweithio ymhellach fel sgriptiwr ar gyfer cyfresi teledu fel *Pobol y Cwm* (BBC) ac *Y Palmant Aur* (S4C). Yn y cyd-destun eisteddfodol, enillodd y Gadair yn 2007, ynghyd â'r Goron ddwywaith (1986 a 1988).

Duw Rhufeinig oedd Ianws a chanddo ddau wyneb a edrychai i ddau gyfeiriad pegynol, a chanddo'r gallu i edrych i'r gorffennol a'r dyfodol yr un pryd. Theorïwr sydd wedi defnyddio'r ddelwedd o Ianws, diddorol yw nodi, yw Tom Nairn, cenedlaetholwr Albanaid, awdur y gyfrol ddylanwadol ym maes cenedlaetholdeb, *The Break-Up of Britain*, sy'n cynnwys ysgrif bwysig dan y teitl 'Modern Janus'. Yn yr erthygl, mae Nairn yn trafod tarddiad cenedlaetholdeb modern o safbwynt Marcsaidd, gan ystyried y twf mewn mudiadau cenedlaethol yn y 19eg ganrif. Dadleua fod gan wledydd fel Cymru eu hanes a'u pobl eu hunain, ac, oherwydd eu bod wedi dioddef gorthrwm o wahanol fathau, cânt eu clymu ynghyd. Bu lefel y datblygiad economaidd ym mhob gwlad yn anwastad, meddai, a chryfhaodd y farchnad ffiniau cenedloedd wrth i'r gwledydd imperialaidd gymryd mantais o genhedloedd llai. Nid oedd dewis gan y rheini a ddymunai warchod eu hunaniaeth ond mabwysiadu cenedlaetholdeb modern er mwyn ennill grym i'w gwlad a hawlio lle ynghanol gwladwriaethau mawr. Cydnebydd Nairn nad yw pob cenedl yn hanfodol 'dda' ac felly fod angen asesu gwerthoedd pob un yn unigol; dywed fod gan bob cenedl natur sy'n ei gwrth-ddweud ei hun a bod angen cwestiynu moesoldeb cenedlaetholdeb:

In short, the substance of nationalism as such is always morally, politically, humanly ambiguous. This is why moralizing perspectives on the phenomenon always fail,

whether they praise or berate it. They simply seize upon one face or another of the creature, and will not admit that there is a common head conjoining them. But nationalism can in this sense be pictured as like the old Roman god, Janus, who stood above gateways with one face looking forward and one backwards. Thus does nationalism stand over the passage to modernity, for human society. As human kind is forced through its strait doorway, it must look desperately back into the past, to gather strength wherever it can be found for the ordeal of 'development'.¹⁷

Cadarnha Nairn y syniad poblogaidd ymysg cenedlaetholwyr ynghylch edrych yn ôl ar hanes er mwyn canfod sail i'w throï'n egni i weithio dros y genedl yn y presennol. Gellir dadlau, felly, fod y syniad o wyneb yn edrych i'r gorffennol a'r dyfodol yn addas iawn ar gyfer cyfres genedlaetholgar Jones a Dressel a'r datganolwyr a oedd wedi eu siomi yn 1979. Cyfeiria nifer o'r cerddi at seiliau'r cenedlaetholdeb a fynegir drwy gyfrwng y cerddi, sef cymunedau gwledig, yr iaith ac yn arbennig yr apêl emosiynol at hanes ac arwyr cenedlaethol. Caiff yr wyneb sy'n edrych yn ôl ei ysbrydoli gan y gorffennol ac etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru, ond syllu i ddifancoll y mae'r wyneb sy'n edrych i'r dyfodol gan gwestiynu a fyddai'r syniad o genedl y Cymry yn parhau o gwbl oherwydd taogrwydd a materoliaeth ei phobl. Nid cenedlaetholdeb modern Nairn sydd yn Ianws, felly, oherwydd nid ymfuddio economaidd yw'r nod ond gwarchod rhag y 'cultural assault' yn ôl Dressel. Dadl Nairn yw bod rhaid i bobl Cymru naill ai ddewis cenedlaetholdeb modern a chyfleon i ymelwa'n economaidd er budd cynnal hunaniaeth Gymreig, neu wynebu cymathiad gan bwerau globaleiddiol. Gellir gweld y refferendwm fel croesffordd, felly, ond penderfynodd pobl Cymru ymwrthod â'r syniad o fod yn genedl, yn ôl y beirdd.¹⁸ Sonia Richard Wyn Jones mewn ysgrif ar refferenda ddoe a heddiw am y *débâcle* a wynebai datganolwyr wedi methiant refferendwm 1979:

Reference to 'shame' or 'dishonour' is characteristic of the period. The 1979 result was regarded by devolutionists as shaming and shameful. The people of Wales had exposed themselves as completely lacking in self-confidence and imagination. There was, it seemed, no way back.¹⁹

¹⁷ Tom Nairn, *The Break-up of Britain: Crisis and Neo-nationalism*, (London: NLB, 1977), tt. 348-9.

¹⁸ Lynch, 'Refferendwm 1979, Cerddi Ianws a Thopos y "Y Cymry Taeog"', t. 83.

¹⁹ Richard Wyn Jones, 'In the Shadow of 1979', *Planet*, 194 (Gwanwyn 2009), t. 8.

Dywed Dressel mai rôl broffwydol sydd ganddo ef a Jones fel beirdd; wrth gyhoeddi'r sarhad hwn ar y genedl gobeithiant ddeffro pobl i newid eu tynged: 'though the prophet speaks what he feels to be true, his hope is that utterance will change the hearts of men'.²⁰ Er nad oes elfen gymharol amlwg â'r Amerig yng ngherddi Ianws, mae Dressel wedi adnabod un elfen o'i etifeddiaeth Americanaidd a fedr amlygu goblygiadau methiant refferendwm 1979, sef y cymathu anochel a fydd yn dilyn. Ergyd y gerdd olaf yw bod yn rhaid i'r Cymry dderbyn eu cymathu, ac er nad yw'n amlwg pa fath o gymathu yn union a olygir, rhagdybir mai cymathu seicolegol â Phrydeindod sydd wrth wraidd y pryder. Fel yr esbonia Jones yn y rhagair:

Pa hawl oedd gan Ianc o Missouri gyhoeddi angladd y Cymry? Eto, o'r diwedd, mi welais mai un o blant cymathiad o genhedloedd yw Jon Dressel. Onid yw'r broses o gymathu y bu ef a'i dras yn rhan ohoni ym Missouri ac Illinois yn un o nodweddion amlycaf hanes y genedl Americanaidd? Trwy ei lygaid profiadol ef cawsom weld ein bod ninnau'r Cymry, o bosibl, yn rhan o'r un broses.²¹

Bygythiad a wêl Dressel i Gymru sydd fel 'melting-pot' yn hytrach na chyfle; dyma osod Ianws ynghanol disgwrs cenedlaetholdeb diwylliannol yn hytrach na chenedlaetholdeb sifig (y syniadaeth ynghlwm wrth refferendwm 1997), a fyddai'n gweld potes cymysg fel modd o greu Cymru a allai atgyfnerthu gwerthoedd rhyddfrydol a chynhwysol. Yn ei ysgrif 'O'r Ymfudwr Ffuglennol i'r Twrist Barddol: Teithiau Llenyddol i America', mae Jerry Hunter yn trafod y syniad a fagodd America amdani hi ei hun fel iwtopia, lle caiff pawb feithrin eu goddefgarwch ac elwa o ymdoddi i'r 'potes cenedlaethol': 'Sylwer mai ystrydeb ddeufiniog ydyw; awgryma y gall unrhyw un ymdoddi, ond mae'r weithred o ymdoddi ei hun yn awgrymu colli elfen o'ch hunaniaeth wreiddiol'.²² Wrth rybuddio am gymathiad Cymru â Phrydain, felly, cyfeirir at brofiad America a sut yr ymdoddodd y sawl a symudodd yno a cholli

²⁰ *Ibid.*, t. 5.

²¹ Jones a Dressel, *Cerddi Ianws Poems*, t. 4. Defnyddia Jones y term 'Ianc' i ddisgrifio Jon Dressel, ond tarddiad y term dilornus hwn yw'r enw a roddwyd ar filwyr Gogledd America yn ystod y Rhyfel Cartref (1861-1865), enw cyffredin i ddisgrifio brodor o daleithiau'r gogledd yn gyffredinol wedi'r rhyfel. Yn eironig, daw Dressel o'r De, ac felly anaddas yw defnyddio'r term yn y cyswllt hwn.

²² Jerry Hunter, 'O'r Ymfudwr Ffuglennol i'r Twrist Barddol: Teithiau Llenyddol i America', yn M. Wynn Thomas (gol.), *Gweld Sér: Cymru a Chanrif America* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2001), t. 42.

eu hunaniaeth ddiwylliannol.

Yn ei ragair i'r cerddi, dywed Dressel fod Jones ac yntau yn rhannu'r un safbwynt gwleidyddol: 'There is a very real sense in which these poems are the work of one personality', sy'n pwysleisio'r syniad o ddau yn gweithredu fel un. Ym marn Peredur Lynch, mae'r beirdd yn derbyn ac yn defnyddio topos 'y Cymry taeog' sydd wedi ei amlygu ei hun ers canrifoedd yng ngherddi'r traddodiad barddol. Dadleua Lynch nad yw'n syndod bod y ddau yn medru cyd-weld fel efeilliaid politicaidd oherwydd 'rheithreg syniadaethol a gwerthoedd y mudiad cenedlaethol – a'r modd y'u mynegwyd mewn corff o lenyddiaeth Gymraeg yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif – sydd yn gwau drwy'r cwbl. Y mae Dressel a T. James Jones yn llefaru ag unllais cytûn, nid am eu bod yn efeilliaid barddol, ond am eu bod, wrth ymateb i Refferendwm 1979, yn ddarostyngedig i'r un disgwrs cenedlaetholaidd'.²³ Dyma bwynt arwyddocaol gan fod Dressel wedi dewis mabwysiadu hunaniaeth Gymreig sydd wedi ei hymrwymo i genedlaetholdeb diwylliannol. Meddianna holl reithreg y 1960au ynghylch taeogrwydd a chywilydd ac ymgorffora'r syniadau hyn oll yn ei gywaith barddol ar argyfwng '79.

Mewn erthygl ddadlennol yn *Poetry Wales* yn Hydref 1979, haera Dressel fod angen i'r bardd ymroi i Gymru os oes arno eisiau cynhyrchu gwaith o bwys sy'n codi'r lleol i'r lefel ryngwadol:

This may sound political, and God knows I don't see how any poet who regards himself as Welsh in these horrific times times can avoid the political, but I see it in the end as a matter of quality. I hold with those who put quality first. I simply do not think it is possible for a Welsh poet to write any quantity of quality poetry in English without committing himself first to the articulation of the only world that is undeniably his. I would be prepared to argue...that the corpus of first-rate poetry in English by Welsh writers that exists at present could not have been written by men and women in whom a sense of Wales was not inherent.²⁴

Safbwynt eithafol iawn a geir yma oherwydd honna Dressel nad oes gwerth i

²³ Lynch, 'Refferendwm 1979, Cerddi Ianws a Thopos y "Y Cymry Taeog"', t. 84.

²⁴ Jon Dressel, 'U. S. Viewpoint', *Poetry Wales*, 15, 3 (Hydref 1979), t. 26.

farddoniaeth yng Nghymru os nad yw'n ddarostyngedig i Gymreictod o fath cenedlaetholgar, sef barddoniaeth sy'n ymwybodol Gymreig yn wleidyddol. Pwrpas gwleidyddol, felly, sydd i ysgrifennu barddoniaeth yng Nghymru a datgela'r dyfyniad hwn mai un gwir syniadaeth y gellir ei phriodoli i farddoniaeth Gymraeg, sef cenedlaetholdeb diwylliannol.

Cyhoeddwyd cerddi'r gyfres gyda'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr, a nodir yn y rhagair mai Dressel a fu'n gyfrifol am 'architectual conceptions of the sequence' ond i Jones gyfrannu at y broses greadigol drwy addasu'r cerddi i'r Gymraeg oherwydd nid cyfieithiadau uniongyrchol ydynt. Fframwaith y gyfres yw wythnos cynnal y bleidlais a dynodwyd un gerdd ar gyfer pob diwrnod (Sul i Sul), gan ddilyn taith feddyliol persona'r gerdd cyn y bleidlais, ar ddiwrnod y bleidlais ac wedi hynny. Daw'r wythnos dan sylw, felly, yn symbol o oes neu fywyd cenedl: o'i gorffennol gobeithiol arwrol hyd Ddydd y Farn (fel y delwedda'r beirdd ddiwrnod y bleidlais) ac ymlaen at ei chymathiad â chenedl arall. Noda Dressel mewn ysgrif o'i eiddo mai Jones a ddaeth â'r syniad o lunio cywaith yn ymateb i '79 a'i gyflwyno i gystadleuaeth y Goron tua deng niwrnod cyn y bleidlais. Ysbrydolwyd Dressel ymhellach mewn sgwrs a gafodd â John Tripp ar noswyl Dydd Gŵyl Dewi 1979 gan deimlo fod 'something truly deadly in the air that night'.²⁵

Wrth fynd rhagom i astudio *Cerddi Ianws Poems*, buddiol fyddai craffu ar y cerddi yn unigol a rhoi sylw manwl iddynt fel cyfres o gerddi. Y cwestiwn sydd o ddiddordeb yma yw beth yw natur y ddeinameg sydd rhwng Jones a Dressel yn y cerddi Saesneg a'u haddasiadau Cymraeg. Noda Dressel yn y rhagair i *Wyneb yn Wyneb / Face to Face*, sy'n dathlu refferendwm 1997, iddynt gychwyn ar y gwaith o greu Ianws cyn diwrnod y refferendwm: 'We began work on the poems before the St David's Day poll, and finished them within the month following. We knew from the outset that the issue was lost, and the tension under which we worked throughout was one of a sense of doom, impeding and then realized'.²⁶ Dywedir mai Dressel a greodd y drafft cyntaf o'r cerddi, er bod y ddau yn unfarn ynghylch y cynnwys mewn trafodaeth cyn dechrau llunio'r dilyniant. Dywed Dressel fod amwysedd ynghylch y ffaith ai cywaith

²⁵ Dressel, 'The Road to Shiloh', t. 20.

²⁶ T. James Jones a Jon Dressel, *Wyneb yn Wyneb / Face to Face* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1997), t. 9.

neu gyfieithiad yw'r cerddi, ond dywed fod 'considerable contributions' wedi eu gwneud gan Jones, a bydd hyn o ddiddordeb penodol wrth astudio'r ddeinameg rhwng y ddau fardd. Dywed Dressel ymhellach:

Jim Jones deserves the fullest of credit for the power and linguistic complexity of the Welsh poems, yet I am sure he would agree that this collaboration could not have been successful unless I, or my equivalent, had had a reasonable command of Welsh.²⁷

Roedd modd i Dressel, felly, roi sêl ei fendith ar y fersiynau Cymraeg yn ogystal â chysoni neu newid y Saesneg yn ddiweddarach. Mewn cyfweiliad â'r awdur presennol, sonia T. James Jones am natur y broses o gydweithio â Jon Dressel a sut yr oedd fersiynau'r ddwy iaith yn effeithio ar ei gilydd:

Ar ôl ei thrafod a'i golygu, a thra oedd Jon yn cyfansoddi drafft o'r ail gerdd, fe es innau ati i gynnig fersiwn Cymraeg o'r gerdd gyntaf. Ac yn y modd yna y cyfansoddwyd y dilyniant. Roedd gan Jon ddigon o Gymraeg i ddeall drafftiau o'm fersiynau innau. Ambell dro fe effeithid y fersiwn Saesneg gan yr un Cymraeg.²⁸

Yn ogystal â'r cerddi a gyhoeddwyd yn Hydref 1979, cyhoeddodd Jones fersiynau diwygiedig o'r cerddi Cymraeg yn ei gyfrol *Eiliadau o Berthyn* (1991), ac felly buddiol fydd ystyried y newidiadau a wnaed i'r cerddi yn y cyswllt hwn, gan edrych yn benodol ar y newidiadau o ran pwyslais a mynegiant.

*

*

*

Egyr y casgliad â'r gerdd 'Sul' / 'Sunday', sy'n disgrifio'r gwanwyn sydd ar droed cyn y refferendwm ar Fawrth 1af, tymor sydd hefyd yn symbol o'r disgwyl am ddadeni gan y cenedlaetholwyr a obeithiai am bleidlais gadarnhaol; y metaffor ar gyfer hyn yw'r cysyniad o'r gwanwyn yn aros ei gyfle i saethu o'r ddaear. Nododd

²⁷ Jones a Dressel, *Cerddi Ianws*, t. 5.

²⁸ Cyfweiliad yr awdur presennol â T. James Jones, 13 Mawrth 2009. Gweler Atodiad 1.

Dafydd Johnston yn ei erthygl ‘Moderniaeth a Thraddodiad’ fod y gwanwyn wedi bod yn thema gyson yng ngwaith beirdd cenedlaetholgar megis Saunders Lewis, Gwenallt a Bobi Jones i gyfleu ysbryd adfywiad y genedl, ac awgryma Johnston ymhellach fod hyn i’w ystyried fel rhan o’r ymateb Cymraeg unigryw i Foderniaeth.²⁹ Y mae’r gerdd gyntaf, felly, wedi ei gosod yn erbyn cefndir y naws obeithiol a gafwyd yng ngherddi’r cyfnod dan sylw. Nododd Dressel hefyd y teimlai fod gobaith mawr ymysg deallusion diwylliannol ar y pryd: ‘a sense that the nation was finally reasserting itself, and might well be on the road to political independence’.³⁰

Mae’r gerdd gyntaf hon yn llawn berfenwau sy’n pwysleisio gweithgarwch yn ogystal ag atgyfodiad natur: ‘pryfeta’, ‘chwynnu’, ‘trotian’, ‘rhampio’. ‘Winter is pregnant with spring to the burst’, meddai Dressel er mwyn disgrifio sut y mae’r gwanwyn, sef y gobaith sydd o’u mewn ynghylch dyfodol Cymru, ar fin cael ei eni a’i droi’n realiti.³¹ Ychwanega Jones elfen arall at y disgrifiad hwn: ‘Y mae’r fam afradlon, ddiniwed / o’r newydd yn feichiog’.³² Mae Jones yn ehangu’r disgrifiad felly ac yn darlunio Cymru fel menyw – trosiad cyfarwydd ar gyfer Cymru yn ein llenyddiaeth – er mwyn awgrymu’r grym adnewyddol y teimla ef sydd ar droed. Defnyddir y gair ‘afradlon’ wrth ddarlunio’r fam hon er mwyn pwysleisio ei natur hunanol a gwastraffus, a gweithreda yn hyn o beth fel rhagargoel o ran nesaf y gerdd. Yn wrthyferbyniol, nid yw Dressel yn defnyddio’r ddelwedd o’r fam yn uniongyrchol, ond yn hytrach dywed, a thymor y gaeaf yn esgor ar dymor y gwanwyn ym myd natur, mor anodd yw meddwl, ynghanol y tyfiant ‘allanol’ hwn, y bydd yna ‘stupendous aborting of the green force within us’, gyda’r term olaf hwnnw’n ein hatgoffa am y llinell ‘The force that through the green fuse’ gan y bardd Dylan Thomas. Dewisa Jones ddweud ‘y disgwyl sydd ynom’ yn y cyswllt hwn, gan lynu’n nes at y ddelwedd o fenyw yn esgor ar blentyn. Drwy gyfosod y darlun o wraig yn erthylu babi â’r darlun o Gymru yn ei gwadu a’i gwrthod ei hun, caiff y darlun ei ddwysáu:

Mor anodd credu, y bydd ymhen pedwar machlud,
erthylu anferthol y disgwyl sydd ynom,

²⁹ Dafydd Johnston, ‘Moderniaeth a Thraddodiad’, *Taliesin*, 80 (Ionawr/Chwefror 1993), t. 27.

³⁰ Dressel, ‘The Road to Shiloh’, t. 19.

³¹ Jones a Dressel, *Cerddi Ianws*, t. 7.

³² *Ibid.*, t. 6.

y genir, yn lle gwanwyn,
y tymp hynod hwnnw na ellir mo'i enwi,
tymp y galon wenwynig a'i casaodd ei hun.³³

Mae'r gair 'tymp' yn air trwm a thrwmlwythog, sy'n dwyn pwyslais y frawddeg ac yn awgrymu delweddau o enedigaeth arwyddocaol, ond, gwydroir y darlun, gan drawsnewid yr esgor yn dranc. Ailadroddir y gair 'tymp' unwaith eto ar ddechrau llinell olaf y gerdd, gan gyfleu sŵn cloc. Nododd Derec Llwyd Morgan yn ei feirniadaeth ar gystadleuaeth y Goron yn 1979 nad oedd yn hoff o'r gair 'tymp' yng ngherdd gyntaf y gyfres,³⁴ ond gellir dadlau fod y gair yn effeithiol yma er mwyn dychmygu'r erchylltra sydd ar fin digwydd. Dewisa Jones beidio â chynnwys llinell olaf cerdd Dressel: 'and lay us waste with ash for which we lust'. Mae'r ddelwedd afiach o bobl yn chwenychu lludw yn creu darlun grotésg o natur wydroedig. Sefydlir agenda thematig y gyfres gan y gerdd hon, sef yr ymwrthod â bod yn genedl a amlygwyd yng nghanlyniad y refferendwm, canlyniad a eglurodd i Dressel 'the limit of my ability to psychically identify with Wales'.³⁵

Yn y gerdd nesaf, 'Monday', mae Dressel yn defnyddio yr enw Cymraeg 'cwm' yn ei gerdd Saesneg. Mae'r glosio ieithyddol hwn yn dechneg a ddefnyddir yn aml er mwyn cryfhau hunaniaeth cerdd a'i chysylltiad â lleoliad arbennig. Meddai Dressel:

A lone fox barks. I hear an owl.
It is as though only the three of us
now exist, and the moon with its chill
reflected light will never come back
to illumine this place, where in three days
we will embrace our own eclipse...³⁶

Drwy ddefnyddio'r gair 'cwm' mewn cerdd Saesneg, mae Dressel fel pe bai'n awgrymu fod y syniad o gwm Cymraeg yn amhosib ei gyfieithu, ac felly'r unig opsiwn yw arfer y gair Cymraeg. A ellir awgrymu ei fod yn dueddol o ramantu'r

³³ *Ibid.*

³⁴ Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau: Caernarfon a'r Cylch 1979*, t. 48.

³⁵ Dressel, 'Looking Both Ways', t. 56.

³⁶ Jones a Dressel, *Cerddi Ianws*, t. 9.

syniad o'r cwm Cymreig (a Chymraeg) gwledig, ac mai dyma'r darlun sy'n cynrychioli delfryd y beirdd o Gymru? Cyfeddyf Jon Dressel mewn erthygl yn 1994 fod 'romantic infatuation' wedi dylanwadu ar ei syniad o Gymru yn gynharach yn ei fywyd, 'partly rooted in a revulsion to the Vietnam War in the late 1960s and early 1970s'.³⁷ Fodd bynnag, gellir dadlau mai eironi sy'n rhedeg drwy'r gerdd ac mai dychanu'r cwm rhamantus y mae, a'r trigolion ar fin gwrthod y cyfle i sicrhau grym datganoledig i Gymru.

Mae Jones ar ddechrau ei gerdd gyfatebol ef yn atgoffa ei gynulleidfa Gymraeg o Ganu Heledd wrth ddisgrifio unigrwydd ingol tebyg i'r hyn a fynegir yn y canu englynol cynnar wedi colli Cynddylan a theyrnas Powys yn sgil cyrch y Saeson. Amlwg yw'r adlais o'r cylch:

Nos, ys dudew heno,
heb loer i loywi cwm
na'i llewyrch clir a llym fel iâ
i'm tynnu tuag ati.³⁸

Wrth gyfeirio at Ganu Heledd, mae Jones yn uniaethu ei deimladau ef a'i gyd-fardd yn 1979 â'r ymbiliad i oroesi a bortreadwyd yn y cylch englynol yn y 9ed ganrif, emosiwn a fyddai'n taro tant â chynulleidfa o genedlaetholwyr mewn gwewyr. Arwyddocaol yw nodi yma fod un gwahaniaeth trawiadol rhwng y fersiwn a gyhoeddir yn y gyfrol *Cerddi Ianws Poems* a'r fersiwn Cymraeg a gyhoeddwyd yng nghyfrol T. James Jones, *Eiliadau o Berthyn* yn 1991. Yn y gerdd 'Llun' yn yr olaf, newidir 'rhigolau' i 'rhigol' ac ychwanegwyd y gair 'estron' i'r llinell olaf, fel a ganlyn:

Pan ddaw'r lloeren eto yn ei hôl
i rynnu uwch y lle hwn,
caf weld
rhandir hesb yn dathlu
anferthedd ei dibyniaeth,

³⁷ Dressel, 'Looking Both Ways', t. 57.

³⁸ Jones a Dressel, *Cerddi Ianws*, t. 8.

ac yn moli'r treiglo di-droi-nôl
wrth gylchu'n ddeddfol, mewn rhigol,
estron fyd sy'n fwy ac yn fyw.³⁹

yn hytrach na'r hyn a geir yn fersiwn 1979 sef:

wrth gylchu'n ddeddfol, mewn rhigolau,
fyd sy'n fwy ac yn fyw.

Gellid dyfalu bod y gair 'estron' wedi ei ychwanegu er mwyn cadw'n nes at y fersiwn Saesneg sy'n cyfeirio at yr 'alien world' y mae'n rhaid i'r Cymry fod yn rhan ohono. Yn rhyfedd, mewn cyfweliad â'r awdur presennol, nododd Jones na fu newidiadau o gwbl wedi cyhoeddi fersiwn 1979.⁴⁰ Gyda'r pwyslais newydd ym 1991 ar natur aliwn ('estron') y byd newydd hwn, a hefyd ar yr ymgyfyngu o ran meddylfryd a gorwelion ('rhigolau' yn troi'n 'rhigol'), gellir dadlau hefyd fod y bardd yn cyfleu'r encilio gan genedlaetholwyr i fath ethnig o genedlaetholdeb wedi i'r ymgais i sefydlu cenedlaetholdeb sifig fethdalu yn refferendwm 1979. Erbyn 1991, buasai Cymru dan law Thatcheriaeth ers degawd a mwy, ac o bosibl, oherwydd y penderfyniadau a orfodwyd ar Gymru o'r tu allan, teimlai Jones yn fwy ymwybodol fyth mai grymoedd 'estron' a oedd yn rheoli pobl Cymru yn eu 'rhigol'.

Cerdd 'Mawrth' yw'r wannaf yn y gyfres yn ôl beirniadaeth Derec Llwyd Morgan yng nghystadleuaeth y Goron ym 1979.⁴¹ Gellir dadlau nad yw delweddau Dressel o haul y dwyrain a haul y gorllewin wedi eu cyfleu gystal yn y gerdd Gymraeg. Mae bardd y gerdd Saesneg yn ailadrodd 'eastern sun' yn aml ar ddiwedd brawddegau, ac i'r glust mae'r geiriau i'w clywed bron fel byrdwn; mae'r ailadrodd hefyd yn cyflwyno darlun o bobl y dref yn addoli ac yn gwasanaethu haul y dwyrain, ond ni chyfleir y momentwm hwn yn y gerdd Gymraeg. Y syniad llywodraethol yng ngerdd Dressel yw dau rym pegynol i'w gilydd – haul y dwyrain a haul y gorllewin – fel pe baent yn ymladd am deyrngarwch y bobl. Haul y dwyrain sy'n denu'r dref:

The town is alive with the eastern sun.

³⁹ T. James Jones, *Eiliadau o Berthyn* (Llandybie: Cyhoeddiadau Barddas, 1991), t. 49.

⁴⁰ Cyfweliad yr awdur presennol â T. James Jones, 13 Mawrth 2009.

⁴¹ Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau: Caernarfon a'r Cylch 1979*, t. 48.

It shines through hothouse windows
of a score of well-kept shops
on little gardens laid with quaint tall hats,
proper aprons, inoffensive shawls,
clutches of daffodils
drooped in stale water.⁴²

Cyfeiria'r bardd at yr addurniadau Cymreig traddodiadol a welir yn y siopau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Awgryma'r ansoddeiriau 'inoffensive', 'quaint' a 'stale' mai agwedd 'ddiddrwg didda', fel y dywed y gerdd Gymraeg, sydd gan y bobl tuag at ddathlu diwrnod nawddsant Cymru. Dywed Dressel mai rhywbeth i edrych arno a'i roi mewn ffenest siop yw symbolau diwylliannol iddynt hwy, yn hytrach na gwrthrychau y dylai fod iddynt, fel y gwêl ef bethau, rym sy'n sail i genedlaetholdeb. Gellid dadlau hefyd fod *kitsh* Cymreig y siopau yn arwydd fod diwylliant Cymru 'ar werth'. Pryder ynghylch cymathiad a welir yn y gerdd oherwydd disgrifir y bobl fel gwasanaethwyr haul y dwyrain, a'r dwyrain yn cynrychioli Lloegr. Dyma hunllef y cenedlaetholwr diwylliannol sy'n gweld ei ddiwylliant wedi ei ddarostwng yn symbolau ystrydebol, ac i bwysleisio hyn cyferbynnir materoliaeth mwyafrif y boblogaeth ag ysbrydolrwydd cenedlaetholgar y datganolwyr. Gellir synhwyro yn gyffredinol elfen eironig yn fersiynau Dressel o'u cymharu â'r emosiwn amrwd yn fersiynau Cymraeg Jones. Allanolyn yw Dressel a thrwy'r dôn eironig a geir yn y cerddi cyfleir ei fod ef, fel Americanwr, wedi profi hyn oll o'r blaen yng nghyswllt y 'melting-pot' diwylliannol trawsatlantig.

Nid yw Jones yn cynnwys y llinell, 'When has this land been a match for the town?' yn y gerdd Gymraeg. Yn ychwanegol at hyn, mae Jones yn fwy agored-feirniadol o'r dref o'i gymharu â Dressel yn y gerdd Saesneg. Y mae'r archfarchnad yn 'rhodresgar',⁴³ tra disgrifia cerdd Dressel y siopau hyn yn eironig fel 'good things of the east'. Gellid awgrymu fod fersiynau Dressel yn gyffredinol yn fwy cynnil ac yn cyfleu'n drawiadol bersona a llais unigolyddol y cerddi Saesneg. Erbyn cyhoeddi *Eiliadau o Berthyn* (1991), fe welir bod Jones wedi hepgor y gair 'rhodresgar', fel rhan o'i ymgais sicrhau mwy o gynildeb efallai yn y cerddi Cymraeg wrth eu

⁴² Jones a Dressel, *Cerddi Ianws*, t. 11.

⁴³ *Ibid.*, t. 10.

hailgyhoeddi.⁴⁴ Dylid cofio mai amcan y beirdd yw siarad fel un bersonoliaeth, ond mae'r gwahaniaethau mewn agwedd a'r amrywiadau rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn Ianws yn ymyrryd yn y portread o'r un bersonoliaeth hon y ceisiant ei chyfleu. Meddai Dressel am y cywaith: 'the emotional tenor of the original English poems is registered almost exactly in the Welsh adaptations. Whatever else we did, I do not think we exaggerated the depth of the despairing reaction of many in Wales to what had happened'.⁴⁵ Caiff y datganiad hwn ei danseilio wrth i wahaniaethau ddod i'r amlwg yn sgil darlleniad manwl o'r testun; ar rai adegau mae personoliaeth wahanol yn perthyn i leisiau'r fersiynau Cymraeg a'r fersiynau Saesneg.

Mae'r gerdd Saesneg 'Tuesday' yn cloi â'r darlun pwerus o'r hen Gymru yn cilio fel yr haul yn machlud:

All the showrooms
burgeon with the good things of the east.
The western sun is good for nothing,
except, perhaps, at the end of the day,
to make the castle cast its shadow,
dark as all our blood congealed,
towards the east, as it goes down.⁴⁶

Gellir cymharu'r gerdd hon â cherdd R. S. Thomas, 'Looking at Sheep', a gyhoeddwyd yn gyntaf yn ei gyfrol *The Bread of Truth* ym 1963. Yn nhyb y bardd, byd modern masnachu sydd i gyfrif am ddirywiad 'enaid' Cymru. Mae'r llinellau clo yn enwedig yn cyflwyno'r un ddelwedd o waed, cestyll a machlud:

What would they say
Who bled here, warriors
Of a free people? Savagely
On castles they were the sole cause
Of the sun still goes down red.⁴⁷

⁴⁴ Jones, *Eiliadau o Berthyn*, t. 50.

⁴⁵ Dressel, 'The Road to Shiloh', t. 21.

⁴⁶ Jones a Dressel, *Cerddi Ianws*, t. 11.

⁴⁷ R. S. Thomas, *Collected Poems 1945-1990* (London: J. M. Dent, 1993), t. 151.

Dengys cerdd Dressel mor ddylanwadol oedd gwaith R. S. Thomas ar feirdd â chredoau cenedlaetholgar. Fodd bynnag, mae Dressel yn yn mynd â'r ddelwedd ymhellach drwy awgrymu fod y cysgod fel gwaed carfan o bobl yn y presennol – ‘our blood’ – yn hytrach na gwaed rhyfelwyr rhyddid y gorffennol. Collasant hwy eu gwaed, ond yn y cyd-destun presennol, mae gwaed dinasyddion wedi ceulo.

Newidir y tempo yn llwyr eto yn y gerdd nesaf, ‘Mercher’ ‘Wednesday’, a dyma un o’r cerddi lle gwelir y gwahaniaeth mwyaf yn arddull y ddau fardd. Egyr ‘Wednesday’ wrth i bersona’r gerdd chwilio am ffordd allan o’r hunllef y mae’n ymwybodol y bydd rhaid iddo ei wynebu drannoeth ar ôl colli’r bleidlais dyngedfennol:

I walk the road up the cwm tonight,
I must get out. There is a meeting
in the chapel. It blazes carved light
like a jack o’lantern. Beyond the village,
there is only the flicker
of a farm on a hill, and the potent,
ancient movement of the water and the wind.
The flicker dies.⁴⁸

Wrth gyfeirio at ‘jack o’lantern’ mae Dressel yn torri ar draws yr olygfa Gymreig o gapel a ffermydd ar draws y cwm wrth ei chyfosod â delwedd arswydus o draddodiad Americanaidd yr *Hallowe’en* sy’n creu naws sinistr ac yn awgrymu’r meirw byw. Wrth basio cyfarfod canol wythnos y capel a gweld y golau’n pylu ar y bryn ystyria llefarydd y gerdd oferedd gweddïo am achubiaeth grefyddol mwyach, a dewisa ymbil ar ysbrydion Llywelyn a Glyndŵr yn hytrach na’r Duw Cristnogol y bu’r traddodiad anghydfurfiol yn rhoi ei ffydd ynddo, gan awgrymu fod methdaliad Anghydfurfiaeth ynghlwm â methdaliad cenedlaetholdeb diwylliannol yn sgil y refferendwm. Gwna Dressel ddefnydd helaethach na’i gyd-fardd o frawddegau byr ac mae’r staccato yn cyfleu panig ac awydd i ddianc yn fwy effeithiol na’r gerdd Gymraeg. Wrth i bersona’r gerdd edrych ar symudiad y dŵr o’i flaen, yr hyn a welir yw ‘the potent, /

⁴⁸ Jones a Dressel, *Cerddi Ianws*, t. 13.

ancient movement of the water and the wind,⁴⁹ tra bo persona'r gerdd Gymraeg yn gweld y dŵr yn nhermau 'hoen / hen wanwyn dŵr ac awel'.⁵⁰ Llwydda Jones i gyfeirio'n ôl at y gerdd gyntaf yn y gyfres wrth wneud hyn, sef y motiff o'r gwanwyn gobeithiol cyn yr alanas sy'n eu gwyrddroi. Fodd bynnag, mae cyfeiriad Dressel at hynafolrwydd elfennol yn y cyswllt hwn yn amlygu natur drosgynnol y frwydr hon am barhad fel y gwêl ef bethau, gan arwain yn fwy uniongyrchol at y llinellau nesaf:

I am left
with wind and water and I dream
them sacramental, I dream the wind and water
host Llywelyn and Glyndŵr, passing over
and through the land.

Gan wrthgyferbynnu â rhan gyntaf y gerdd, pair Dressel i'r geiriau oferu o'r naill linell i'r llall er mwyn awgrymu'r naws freuddwydiol sy'n rhithio arwyr y gorffennol yn fyw o'i flaen. Y mae'r cronolegol yn hylifol. Adeiladir tuag at y gair 'sacramental' ac yn y pwyslais ar y gair hwnnw ymdeimlir ag enbydrwydd y sefyllfa sy'n rhoi bod i ymbiliad y persona. Cyflwynir y llinellau hyn yn gwbl wahanol gan Jones, a dywed fel hyn am y dŵr a'r awel:

O! na baent yn sacramentaidd.
O! na baent yn Llywelyn a Glyndŵr
yn iro ac ysgubo'r tir.

Dyma ebychiadau uniongyrchol sy'n creu darlun rhamantus, aruchel o bersona'r gerdd yn ceisio gorchymyn natur i wysio Llywelyn a Glyndŵr o'i flaen. Er bod Jones yn ymbil am rym tragwyddol y tywysogion, nid yw'n dangos yr un argyhoeddiad â'r gerdd Saesneg o weld y sacrament yn dod i fod. Mae'r agwedd yn y gerdd Saesneg yn fwy oeraidd-wrthrychol nag yn y Gymraeg lle ceir mwy o emosiwn amrwd:

It will take
no less than that, than sacred passage,
the touching, metaphysical,

⁴⁹ *Ibid.*

⁵⁰ *Ibid.*, t. 12.

of all who live here owing blood.⁵¹

Daw'r uchafbwynt yn y gair 'blood', sef y gair a gysylltwn yn bennaf â'r sacrament mwyaf adnabyddus, sef sacrament yr eglwys Gristnogol; ond yma disodlir gwaed Crist gan waed Glyndŵr a Llywelyn. Mae'r llinell 'of all who live here owing blood' yn adeiladu ymhellach ar fotiff 'gwaed' y fersiynau Saesneg. Awgryma'r cymal 'sacred passage' fod angen grym metaffisegol er mwyn achub Cymru o'i thynged ac mae'r ymadrodd 'of all who live here owing blood' yn atgyfnerthu'r angen am aberth o ryw fath er mwyn achub y genedl o'i thrallod. Tynnir ar syniadau'r Hen Destament yma am angen pob teulu yng nghenedl Israel i gael rhyw fath o arwydd o waed ac aberth er mwyn eu hachub rhag marwolaeth a'u gwahaniaethu oddi wrth yr Eifftiaid: 'the deadly pass of this next day'. Nid cenedl etholedig yw Cymru yng ngolwg y bardd mwyach oherwydd nid oes achubiaeth i fod iddi; cenedl gondemnedig ydyw. Mae'r llinell hon, 'of all who live here owing blood', yn arwyddocaol oherwydd ymdrinia'r bardd yma â grŵp cyfansawdd o bobl fel pe baent o'r un gwaed neu'r un hil. Fodd bynnag, yn syth wedi i'r gerdd ddod i uchafbwynt yn y gair 'blood' fel hyn, mae'r bardd yn newid naws y gerdd ac yn mabwysiadu tŷn eironig sy'n chwerthin ar ei ramanteiddio ei hun:

It is a pretty thought, and the blackness
is so clean and cool that I almost embrace it.⁵²

Tanseilir y weledigaeth o dderbyn cyffyrddiad Llywelyn a Glyndŵr â'r sylw hunanymwybodol, hunanfeirniadol hwn. Ni bwysleisir motiff y 'gwaed' ac ni chyfleuir y newid mewn tŷn yn y gerdd Gymraeg. Pwysleisir adferiad yn hytrach na'r angen am aberth trwy waed:

Rhaid cael eu trywydd ysol, gwyrthiol hwy,
a'u cyffwrdd tragwyddol,
cyn adfer urddas cenedl a phridd.
Laned noethni'r fagddu,
esmwythed, felysed ei chofleidio.

⁵¹ *Ibid.*, t. 13.

⁵² *Ibid.*

Yn fersiwn *Eiliadau o Berthyn*, newidiwyd ‘cyffwrdd tragwyddol’ i ‘a’u twtsh metaffisegol’.⁵³ Dyma enghraifft dda o Jones yn defnyddio tafodiaith i gyfleu’r awydd i deimlo agosatrwydd; ac mae ‘metaffisegol’ yn awgrymu rhywbeth mwy hudol na’r gair ‘tragwyddol’, Cristnogol ei naws, a ddefnyddiwyd yn fersiwn 1979.

Llwydda’r gerdd Saesneg yn y cyswllt hwn i gyfleu enbydrwydd sefyllfa – fel pe bai’n noson cyn yr apocalyps – ac mewn cymhariaeth mae’r gerdd Gymraeg braidd yn rhamantaidd ac, fe ellid dweud, yn gorfarddoni’r darlun. Nid yw Jones ychwaith yn dewis cyfeirio at waed carfan o bobl – am yr ail gerdd yn olynol – a dewisa sôn am ‘adfer urddas cenedl a phridd’ yn lle hyn. Yn hytrach na pharhad yr hil a bwysleisir yn y gerdd Saesneg yn y llinell gyfatebol, adennill urddas a chryfder seicolegol y genedl yw byrdwn y gerdd Gymraeg. Yn y llinell cyn y darn a ddyfynir uchod, sef yr alwad ar Llywelyn a Glyndŵr i ‘iro ac ysgubo’r tir’, gellir dadlau bod Jones yn defnyddio cyfeiriadaeth Feiblaidd, yng ngeiriau Salm 23:5:

Ti a arlwyi ford ger fy
mron y’ngŵydd fy
ngwrthwynebwyr: iraist fy
mhen âg olew; fy phiol sydd lawn.⁵⁴

Ystyr ‘iro’ yma wrth gwrs yw eneinio, felly llwydda’r gerdd Gymraeg i gyfleu’r ysfa a deimla’r persona i weld ysbryd Glyndŵr a Llywelyn yn bendithio pobl Cymru - fel pe bai’r ddau ffigwr hyn yn dduwiau. Ac eto, gan fod y pwyslais ar ‘iro ac ysgubo’r tir’, mae’n gwestiwn a yw’r bardd yn golygu iro neu eneinio pobl - a dilyn y ddelwedd Feiblaidd - neu adfywio mewn ystyr ehangach dir a daear Cymru. Mae’n bosib felly fod y ddelwedd hon o ‘iro’ fel cyfrwng adfywio yn ffyddlonach i fotiff gwanwynol a’r gobraith am ailenedigaeth y genedl a welir yn y gyfres Gymraeg.

Mae’r trosiad trawiadol a welir ar ddiwedd eithaf cerdd Jones yn ychwanegu at ei naws arswydus i’r gerdd gyfatebol Saesneg, yn arbennig wrth drawsblannu’r gyfeiriadaeth at y ‘jack o’lantern’ i gyd-destun diwylliant gwerin Gymraeg :

⁵³ Jones, *Eiliadau o Berthyn*, t. 50.

⁵⁴ *Y Beibl Cyssegr-Lan* (Rhydychen: Y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor, 1908), t. 538.

Nid wyf am ei throi hi tua thre
heibio i olau pitw'r capel
at yr aelwyd a'r teulu a'r dowlad
a thoili'r yfory.⁵⁵

Cyfeiria 'toili' at y ddrychiolaeth lôn gwerin, sef golygfa o orymdaith angladdol yn pasio sef rhagfynegiad o farwolaeth. Dyma ddelwedd arswydus i orffen y gerdd Gymraeg sydd eto, fel y gerdd Saesneg, yn cyfosod y capeli heddiw a'r ellyllon a fydd ar gerdded yfory. Mae'r bardd fel proffwyd yn cynnig rhagargoel o'r dyfodol, sef angladd y genedl. Chwarae ar eiriau y mae Jones fan hyn oherwydd fod 'toili' yn amrywiad ar y gair 'teulu' – y teulu fel cenedl o gyd-chwiorydd a chyd-frodyr. Disodlwyd y teulu tangnefeddus gan y toili hunllefus.

Mae'r gerdd Gymraeg 'Iau' a'r gerdd Saesneg 'Thursday' yn nes at ei gilydd o ran yr arddull a'r dweud. Eistedda persona'r ail mewn caffi ar ddiwrnod glawiog y refferendwm gan edrych ar y bobl o'i gwmpas sydd wedi dod i mewn gysgodi: 'I am / close to my people and the smell of wet wool. / They are like wet sheep'.⁵⁶ Brawddegau byr a chynnil a geir yn y ddwy gerdd i gyfleu ymateb swta a diamynedd y beirdd i'w cyd-ddyn yng Nghymru sydd wedi ymwrthod â'r syniad o fod yn 'Gymry'. Cyferbynnir yn y gerdd Gymraeg y defaid disynnwyr a'u 'gwynt gwlan gwlyb' â'r darlun o geffylau gosgeiddig ac urddasol a welwyd mewn cae yn gynharach y diwrnod hwnnw:

Yng nghaffe coegwych yr Eidalwr,
balfais ym mhalfais â 'mhobol,
clywaf wynt gwlan gwlyb.
Ym mrig y bore, cyn dod o'r glaw,
gwelais geffylau yn y perci,
yn unig a balch a diymod yn y gwynt;
mor odidog, ac am eiliad, yn gedym.
Rhaid bod y glaw yn ysgryd
ar farmor eu cyhyrau hwythau 'nawr.⁵⁷

⁵⁵ Jones a Dressel, *Cerddi Ianws.*, t. 12.

⁵⁶ *Ibid.*, t. 15.

⁵⁷ *Ibid.*, t. 14.

Deisyfa persona'r gerdd weld urddas mewn pobl sy'n debycach i geffylau yn hytrach na'r defaid – hynny yw, dymuna weld anrhydedd yn perthyn i genedl y Cymry yn hytrach na thaeogrwydd a bodloni ar gael eu harwain gan genedl arall. Defnyddia Jones y gair 'palfais', sef padell yr ysgwydd; y mae'r persona 'balfais ym mhalfais â 'mhobol', hynny yw, ysgwydd yn ysgwydd â'i bobl ei hun – pobl a gymherir â defaid ganddo. Rhydd yr eirfa gorfforol hon gynildeb i'r gerdd Gymraeg nas gwelir yn y fan hon yn y fersiwn Saesneg, sy'n dweud yn fwy uniongyrchol: 'In the tawdry cafe, I am close / to my people and the smell of wet wool. / They are like wet sheep'. Ailadroddir y gair 'wet' ddwywaith yma i ddangos mor ddiymgeledd yw'r 'defaid'. Rhan o lwyddiant y gerdd Saesneg yw ei bod yn rhoi argraff o ddatblygiad meddwl y persona wrth iddo eistedd ymhlith ei bobl yn y caffï a synhwyro mai dewis bod yn ddefaid y bydd y bobl hyn yn y bleidlais fawr sydd ar y gweill:

I must not dwell on it.

People have been great with sheep

And had the horse as well. These people

Smell like sheep. I cannot help it.

They are sheep. They bleat.⁵⁸

Ceisio'r llefarydd ei orau i beidio â dod i'r casgliad mai defaid yw'r hyn a wêl o'i amgylch yn hytrach na phobl, gan ei gysuro ei hun bod cenhedloedd mawr yn gymysg o geffylau, sef yr hyn a ystyria'n genedlaetholwyr - ac yn gyfystyr ag urddas - a defaid gwan. Er hynny, synhwyra ('smell') nad ydynt wedi pleidleisio fel y dymuna iddynt wneud, ac felly caiff y bobl hyn eu corlannu oll, yn ddefaid, ganddo. Defnyddia'r bardd frawddegau byrion sy'n dechrau â 'they' neu 'I' i bwysleisio'r gwahaniaeth a wêl ef rhyngddo ef a'i gyd-Gymry. Cynigia'r trosiad yn y gerdd Gymraeg agwedd wahanol, wrth ddewis peidio â mynd ati i adlewyrchu twf a datblygiad y syniad ym meddwl y persona o'r bobl fel defaid, gan yn hytrach ailadrodd delwedd eithafol dechrau'r gerdd, sy'n sefydlu bod y bobl yn ddefaid eisoes:

Yma, y mae arogl gwllân gwlyb ar fy mhobol,

⁵⁸ *Ibid.*, t. 15.

arogl y defaid delffaidd,
y gweddillion praidd sy'n gwasgu
at ei gilydd mewn corlan wleb.⁵⁹

Ar ôl y darlun o'r ceffylau, llwydda'r ddelwedd hon o'r bobl fel defaid i greu cyferbyniad mwy llwyddiannus rhwng urddas a thaeogrwydd. Nid yw'n gwestiwn i'r persona yn y gerdd Gymraeg a yw 'fy mhobol' yn wamal ai peidio, fe'u gwelir yn bendant fel defaid 'delffaidd' – taeogaidd, hurt – cyn dechrau'r gerdd, yn wahanol i'r gerdd Saesneg. Mae'r gair, gellid dweud, hefyd, yn fwys, wrth iddo hefyd atgoffa'r darllynydd o 'Delffi' a'r oracl a ragfynegai'r dyfodol yn y byd clasurol. Ai awgrymu y mae'r bardd yn y fan hon bod tynged y genedl wedi ei selio ers amser maith oherwydd diffyg dyhead pobl y genedl i weld Cymru'n meddu ar urddas unwaith eto trwy ennill mesur o hunanreolaeth? Gellid dadlau mai dyma'r esboniad pam y cymer y bardd yn ganiataol o ddechrau'r gerdd fod 'fy mhobol' yn ddefaid.

Yn *Eiliadau o Berthyn*, bu newid pellach i'r llinell 'Yma, y mae arogl gwlan gwlyb ar fy mhobl' yn fersiwn 1991: dywedir 'gwynt gwlan ar bawb',⁶⁰ yn hytrach na phwysleisio 'fy mhobol'. Dyma newid arwyddocaol oherwydd gellir dadlau nad yw Jones am ei uniaethu ei hun o gwbl â'r bobl o'i gwmpas bellach, hyd yn oed flynyddoedd wedi'r refferendwm, a'i fod o ganlyniad yn dileu unrhyw arwydd o berthynas drwy ddefnyddio'r 'pawb' amheronol ar gyfer y bobl â wêl o'i amgylch.

Ar ddiwedd y ddwy gerdd personolir y tai hwythau fel defaid: fel y dywedir yng ngherdd Dressel, 'I hear the huddled houses bleat', a chlywir y fref hygryw yn y gerdd Gymraeg hefyd:

Clywaf, ar fy llw,
clywaf fref unsill y cartrefi.⁶¹

Wrth y 'fref unsill', golygir y floedd 'Naaaaa!' a ragwelir o ran y gwrthwynebiad cryf (a 'delffaidd') i ddatganoli. Mae'r beirdd yn fodlon cyhoeddi mai defaid yw pobl y genedl, yn dilyn ei gilydd heb feddwl drostynt eu hunain: dyma yn wir y sarhad

⁵⁹ *Ibid.*, t. 14.

⁶⁰ Jones, *Eiliadau o Berthyn*, t. 52.

⁶¹ Jones a Dressel, *Cerddi Ianws*, t. 14.

mwyaf y gallent ei leisio a'i fynegi yn achos 'eu pobl'. Yn y fersiwn diwygiedig o'r cerddi Cymraeg a gyhoeddwyd yn *Eiliadau o Berthyn* dros ddegawd yn ddiweddarach, mae Jones wedi ychwanegu 'uniaith' at y llinell olaf: 'Clywaf fref unsill, uniaith y cartrefi'.⁶² Dyma ddatblygiad pwysig, oherwydd awgryma mai Cymry Saesneg eu hiaith sydd wedi gwrthod datganoli, nid y Cymry Cymraeg. Yn fersiwn 1991 o'r cerddi, drwy osod pwyslais ar iaith, awgrymir y bu yna droi cefn ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant wrth bleidleisio 'na' ym 1979. Mae'n arwyddocaol i Jones ychwangu'r pwyslais hwn wrth iddo ailymweld â'r casgliad, oherwydd adlewyrcha'r ymwrthodiad â chenedlaetholdeb diwylliannol, Cymraeg ei iaith a oedd yn eiriol dros bleidlais 'ie' yn 1979. Gellir dadlau bod y bardd yn gweld y bleidlais yn nhermau'r Cymry yn troi cefn ar rethreg genedlaetholgar a oedd yn seiliedig ar iaith a diwylliant Cymraeg, ac yn dewis rhoi eu ffydd yn hytrach yn yr iaith Saesneg fel cyfrwng y dyfodol i Gymru. Gellid dadlau hefyd fod yna berygl bod Jones yn bwydo'r myth cyffredin mai Cymry di-Gymraeg a bleidleisiodd yn erbyn datganoli, ac mai Cymry Cymraeg yn unig a bleidleisiodd o blaid.

Mae rhai o'r cwestiynau sy'n wynebu theorïwyr ym maes theori ôl-drefedigaethol yn berthnasol yn y cyswllt hwn. Os ystyriwn Gymru fel cenedl a goloneiddiwyd yn y gorffennol, gellir yn fuddiol ystyried rhai materion ynghylch adennill llais y sawl sydd wedi eu gormesu, fel y gwna'r theorïwraig Gayatri Spivak yn ei hysgrif enwog, 'Can the Subaltern Speak?'. Canolbwyntia Spivak ei hastudiaethau ar fenywod ond mae ei phwynt yn berthnasol yma. Cyfyd y cwestiwn ynghylch a oes modd adfer lleisiau'r 'colledig' mewn hanes? A ellir ceisio ailganfod llais y gorthrymedig mewn testunau, a sut y gellir sicrhau llais iddynt yn y presennol? A yw'n dderbyniol i ddeallusion siarad dros y sawl sydd heb lais a rhagdybio eu dymuniadau? Dehongla Spivak hyn fel enghraifft o natur ddyrys y weithred o geisio adfeddiannu llais y gorthrymedig: 'there is no space from where the subaltern {sexed} subject can speak.'⁶³ Cyhudda Spivak nifer o ddadadeiladwyr fel Foucault a Deleuze am siarad am grwpiau a ormeswyd mewn termau 'sofran'; yn ei geiriau hi maent yn euog o 'a clandestine restoration of subjective essentialism'.⁶⁴ Yn refferendwm 1979 fe gafodd

⁶² Jones, *Eiliadau o Berthyn*, t. 52.

⁶³ Ania Loomba, *Colonialism / Postcolonialism* (Llundain: Routledge, 1998), t. 234.

⁶⁴ Gayatri Spivak, 'Can the Subaltern Speak?' yn Laura Chrisman a Patrick Williams (goln.), *Colonial Discourse and Post-Colonial Theory* (London: Harvester Wheatsheaf, 1993), t. 74.

y 'subaltern', yn ôl dehongliad ôl-drefedigaethol o Gymru, y cyfle i leisio eu barn drwy bleidlais. Am y tro cyntaf, cafodd pobl Cymru gyfle democrataidd drwy bleidlais agored i bawb ddatgan a oeddent yn dymuno mesur o ymryddhad oddi wrth Brydain; a'u hateb, yn ddiamwys, oedd 'na'. Roedd hyn yn fwy niweidiol i ymgyrch y deallusion a arddelai ac a ymgyrchai am ymreolaeth oherwydd nid oedd ganddynt dir i ddadlau eu hachos mwyach, gan fod y lleisiau distaw wedi cael siarad. Roedd y ffaith fod pobl Cymru wedi cael cyfle i ymateb, ac wedi gwrthod, wedi torri calon y beirdd. Yn y gerdd hon, mae Dressel a Jones yn ateb y cwestiwn, 'Can the Subaltern Speak?' ar ran Cymru drwy ddweud nad ydynt yn gallu siarad oherwydd na allant feddwl drostynt eu hunain; gan hynny nid ydynt yn haeddu llais ac fe'u disgrifir fel defaid.

Ymhellach, gan fod Jones yn dychmygu'r genedl fel benyw yn y gerdd gyntaf, 'Sul', a'r ddau fardd yn defnyddio'r ddelwedd o'r genedl yn erthylu, sy'n weithred fenywaidd, gellir dadlau eu bod yn dehongli ymateb negatif y genedl yn rhywbenodol fenywaidd (*gendered*). Mae cyfres Ianws, gellid dadlau, yn dychmygu'r cenedlaetholwyr mewn ffordd wrywaidd iawn yn y modd yr ymdrinia ag arwyr a diwylliant Cymru, tra bu'r 'arall' y tu allan i'r disgwrs a goledda'r beirdd yn annibynadwy – fel yr hinsawdd a byd natur – yn greaduriaid ('defaid') ac yn 'fenywaidd'. Gellir dadlau fod hyn yn awgrymu math o Ddwyrainoldeb (theori Edward Said ynghylch diffinio'r 'arall'); yn y cyswllt hwn, gellir dadlau fod hanfodoli o'r fath yn ymateb i sefyllfa pan fo hunaniaeth dan fygythiad.

Nid dilys bellach yw'r modd y mae Jones a Dressel yn mynnu hanfodoli'r genedl â set o nodweddion. Wrth bleidleisio yn erbyn datganoli, roedd pobl Cymru yn gwrthod yr hyn a ystyriant hwy yn hunaniaeth Gymreig a Chymraeg. Dewisodd Dressel uniaethu â Chymru a mabwysiadu o ganlyniad i hynny genedlaetholdeb diwylliannol a oedd yn seiliedig ar iaith, diwylliant a hanes cyffredin. Serch hynny, nid oedd yr hunaniaeth ddiwylliannol a welsai ef fel yr unig fath priodol o hunaniaeth genedlaethol wedi ei dewis gan fwyafrif pobl Cymru ym 1979. Perthnasol yma yw'r modd y mae Peredur Lynch yn cymhwyso camau Miroslav Hroch at ddatblygiad cenedlaethol Cymru: cam A yw diddordeb ysgolheigion yn llên, iaith a hanes y bobl; cam B yw ymgais yr ysgolheigion i rannu'r diwylliant hwn yn ehangach; cam C yw ysbrydoli mudiad a fydd yn sicrhau cenedlwladwriaeth. Dywed Peredur Lynch am y theori hon yng

nghyd-destun Ianws:

Yr hyn sy'n dra diddorol ynghylch *Cerddi Ianws* yw eu bod, ar y lefel drosiadol ehangaf, yn amlygiad o'r hollt a'r methiant hwnnw i gyfannu'r diwylliannol a'r economaidd. Mae yma bersona barddol sy'n rhyw fath o ymgorfforiad o'r traddodiad deallusol cenedlgarol Cymreig (camau A a B yn sgema Hroch, os mynner), ond anathema anarwrol yn ei olwg yw ymdrech ei gyd-Gymry – y defaid delffaid – i ymgynnal yn faterol o ddydd i ddydd.⁶⁵

Dwyseir y teimlad o hunaniaeth ddewisol yn y gerdd 'Iau' 'Thursday': fe wêl persona'r gerdd ei hun fel yr un sy'n meddu ar fath o etholedigaeth-fraint nad yw ar gael i bawb. Nid oes cydymdeimlad gan y beirdd tuag at eu cyd-Gymry ac mae'r ymdriniaeth â hwy fel defaid yn sarhaus a nawddoglyd, ac yn cadarnhau'r gagendor rhwng yr elit deallusol a'r werin. Dywed Lynch ymhellach: 'nid yw *Cerddi Ianws* yn condemnio'r Cymry di-Gymraeg yn benodol, ond y mae'r sôn sydd ynddynt am ddiffyg ymwybyddiaeth y Cymry ynghylch eu hanes'.⁶⁶ Mae Richard Wyn Jones yn atgyfnerthu'r pwynt hwn drwy ddweud bod diffyg ymddiriedaeth rhwng pleidwyr datganoli a thrwch y boblogaeth hyd heddiw wrth ystyried cynnig refferendwm ar bwerau deddfu: 'Lurking behind this feeling, I believe, is the shadow of "1979" and a sense, dare I say it, that the *demos* – the people – are not entirely to be trusted; they "failed" in 1979 and might yet do it again'.⁶⁷

Mae'r cerddi 'Gwener' a 'Friday' eto yn darlunio pydredd natur o ganlyniad i'r amharu a fu ar drefn naturiol pethau - trosiad ar gyfer yr ysictod a deimla'r persona o weld ei holl obeithion am ddatganoli yn cael eu chwalu:

The land is rotten.
Rotten to its bowels.
The trees ooze corruption. The hedges drip
with it. The goat sickens
and averts his head

⁶⁵ Lynch, 'Refferendwm 1979', t. 105.

⁶⁶ *Ibid.*, t. 99.

⁶⁷ Jones, 'In the Shadow of 1979', t. 9.

from the putrefying grass...⁶⁸

Mae yna elfen o sofraniaeth yma – y myth hwnnw sy'n ymwneud â'r cyswllt bywiol rhwng ffyniant y tir a ffyniant y gwir frenin ar y naill law, a rhwng dihoeni'r tir a methiant neu farwolaeth y brenin hwnnw ar y llall. Yma, mae'r ddaear yn ymwrthod ag ailededigaeth ac yn colli unrhyw obaith o adferiad. Gellir cymharu'r gerdd hon â cherdd a ysgrifennwyd gan y bardd Raymond Garlick (1926-2010) ar ddiwrnod y Refferendwm ym 1979 i fynegi ei alar. Sonia Dressel yn ei ysgrif 'The Road to Shiloh' sut y bu iddo ef a Garlick drafod cyn y refferendwm a fyddai unrhyw obaith i'r bleidlais ehangu tu allan i'r cadarnleoedd Cymraeg.⁶⁹ Mae 'The Eighth Day' yn sôn sut y lluniodd Duw Gymru ar yr wythfed dydd, fel rhyw ôl-nodyn, ac o'r herwydd fe ragordeiniwyd ar gyfer Cymru hanes o wae a gormes. 'Let them be unfit / To rule themselves', meddai Garlick, gan ddarlunio'r Cymry fel cenedl anabl ac analluog. Mae'n bwysig nodi bod Garlick yn y cyswllt hwn dan ddylanwad cerddi R. S. Thomas, yn enwedig cerddi fel 'The Island', lle ceir darlun o Dduw yn condemnio un genedl i afiechyd a thlodi a rhoi calonau caled i'w phobl.⁷⁰ Mae'r ddelwedd o ddadfeilio a chyrff marw yn nodweddiadol o gerddi R. S. Thomas. Yn y gerdd 'Welsh Landscape', a gyhoeddwyd gyntaf yn y gyfrol *An Acre of Land* (1952), darlunnir cenedl o bobl wyrgam â nam corfforol a'u golygon oll ar y gorffennol. Sonia R. S. Thomas am obsesiwn y Cymry â bri honedig y gorffennol, ond yr hyn a wna Dressel a Jones yng Ngherddi Ianws yw dweud na fu i neb brofi emosiwn, neu 'dywydd' mewnl fel y'i geilw, ers i Gruffudd ab yr Ynad Coch ganu Marwnad Llywelyn ap Gruffudd (m. 1282) a chyhoeddi concwest Cymru gan Edward I. Fe'u gwelant eu hunain, felly, yn llinach farddonol y Gogynfeirdd wrth ddarlunio Cymru, sydd, yn eu tyb hwy, yn ei chyflwr mwyaf truenus ers saith can mlynedd:

Nid oes burdeb ond purdeb yr eigion,
ond fel môr Mab yr Ynad Coch,
ni ddaw i wedduso'r cynhebrwng.

Yn fersiwn Dressel o'r gerdd, dywedir:

⁶⁸ Jones a Dressel, *Cerddi Ianws*, t. 15.

⁶⁹ Dressel, 'The Road to Shiloh', t. 20.

⁷⁰ R. S. Thomas, *Collected Poems 1945-1990*, t. 223.

Only the deep
Of the sea is clean,
and it will not come,
as it did not come for the Son
of the Red Judge, to give relief, to end.

Mae'r pwyslais ar burdeb yn y trosiad Cymraeg yn effeithiol oherwydd ei fod yn dweud bod angen rhyw rym fel y môr i olchi dros bopeth ar ôl i'r genedl gollir syniad o burdeb a berthynai iddi, gan bwyntio'n ôl eto at y syniad a gafwyd yn gynharach yn y gyfres am yr angen am waredigaeth i'r genedl a ystyrir yn y gorffennol yn etholedig. Yn y gerdd Saesneg yn ogystal, mae'r 'Judge' yn gyfeiriad mwys a allai awgrymu mai dyma ddydd y farn i'r genedl a'i bod yn derbyn ei haeddiant am ymddwyn mewn ffordd mor annaturiol. Ym marn Tony Conran, mae'r defnydd o iaith a welir yn y fersiwn Saesneg o waith Dressel yn 'intemperate':⁷¹ 'Not even metaphorically could the process of democratic choice, however warped by propoganda, be fairly referred to in those kinds of terms. Ideology is in control and it is blinding the poet to what is really going on'.⁷² Barn Conran yw na ddylai'r bardd sarhau dewis democrataidd y bobl, ond gellir dadlau mai un o brif bwyntiau'r gerdd yw sut y gwêl y beirdd eu hunain fel proffwydi sy'n condemnio er mwyn sbarduno newid.

Yn ei ysgrif, 'Ffantasi Hil-laddiad a'r Diwylliant Cymraeg: Dirnad Cenedlaetholdeb Ethnig, a Syniadaeth Slavoj Žižek', trafoda Simon Brooks yr adferiad a fu yn nisgwrs cenedlaetholgar llenyddiaeth Gymraeg ar ôl refferendwm 1979. Cenedlaetholdeb ethnig yng Nghymru yn ôl Brooks yw hunaniaeth yn seiliedig ar iaith, nid cenedlaetholdeb yn seiliedig ar hil fiolegol. Dadl Brooks yw i genedlaetholdeb ethnig ddod yn brif nodwedd y diwylliant llenyddol Cymraeg wedi methdaliad cenedlaetholdeb sifig yn refferendwm 1979: 'Parhad a difodiant ethnig yw prif thema nofelau o'r 1980au, fel y bu'n thema bwysig yn y 1920au a'r 1930au hefyd'⁷³ - a dadl Brooks yw bod coleddu ymwybod o 'ysbryd' y genedl yn debyg i syniadaeth y

⁷¹ Tony Conran, 'The Referendum and the Poetry of Jon Dressel', yn Tony Conran, *Frontiers in Anglo-Welsh Poetry* (Cardiff: University of Wales Press, 1997), t. 263.

⁷² *Ibid.*

⁷³ Simon Brooks, 'Ffantasi Hil-Laddiad a'r Diwylliant Cymraeg: Dirnad Cenedlaetholdeb Ethnig, a Syniadaeth Slavoj Žižek', yn Gerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXX* (Bethesda: Gwasg Gee, 2011), t. 145.

theoriwr Slavoj Žižek ynghylch yr hyn a ddisgrifia fel ‘y Peth’. Dywed Žižek bod ‘y Peth’ ynghlwm wrth ‘fwynhad’ a syniad o bwrpas, yr aruchel a’r rhywiol, ac ‘y Peth’ sy’n gyrru cenedlaetholdeb ethnig a chymell pobl i’w amddiffyn yn wyneb bygythiadau yn ei erbyn:

Ond ni ellir ymateb i fodolaeth ‘y Peth’ ethnig Cymraeg fel y gwna’r cenedlaetholwyr sifig trwy wadu ei bwysigrwydd. Mae’r mwynhad y mae’r Cymry yn ei gael ohono’n real, ac yn arbennig felly gan mai gafael fregus sydd gan unrhyw leiafrif ar ddyfodol ei ddiwylliant ei hun.⁷⁴

Yng nghyswllt Cerddi Ianws, y mae cenedlaetholdeb ‘ethnig’ (yn ei ystyr ehangach o iaith) yn sicr yn ei amlygu ei hun wrth i lefarydd y gerdd ddeisyf ymdeimlo ag ‘ysbryd y genedl’ unwaith eto – ymwybyddiaeth sy’n absennol ymhlith ei gyd-Gymry yn ei dyb ef. Yn hyn o beth, cyflea fath o etholedigaeth ynghylch ei safle breintiedig o weld y ‘gwir’ am ei genedl. Ymhyfryda ym mrwydrau arwyr y gorffennol, a deisyf achubiaeth iddo’i hun ac i’w genedl ganddynt.

Yn y pâr nesaf o gerddi, ‘Sadwrn’ a ‘Saturday’ ceisia’r persona ailafael yn ei fywyd beunyddiol ar ôl y golled enfawr yn sgil methiant y refferendwm. Iaith dafodieithol a geir yn y gerdd Gymraeg, sy’n cynorthwyo i newid naws y cerddi a fu’n ymgynyddu’n farddonol ac aruchel hyd at y pwynt hwn yn y gyfres. Mae’r geiriau tafodieithol megis ‘erfyn’ (yn yr ystyr ‘disgwyl’), ‘gwala’, ‘dyletswydd ddywedwst’, yn troi naws y gerdd yn ôl at fywyd bob dydd a’i gwneud yn fwy gwerinol, a chadarnheir hyn gan y bardd pan ddywedir, ‘Yr ydym yn werin ymarferol, wâr, / yn trefnu ein mân farchnadoedd’. Erbyn diwedd y gerdd, gwelir eto’r persona’n ei uniaethu ei hun â Gruffudd ab yr Ynad Coch – fel y dywed y gerdd Saesneg:

Even the Son of the Red Judge must
have gone forth in the rain after
his apocalypse to fetch eggs for his children,
poke amongst cheeses, tote sacks for his wife,
his grieved tongue held against a world gone gray.⁷⁵

⁷⁴ *Ibid.*, t. 157.

⁷⁵ Jones a Dressel, *Ianws*, t. 19.

Crëir delwedd drawiadol o'r persona, yn llinach yr Ynad Coch, yn gwneud y pethau beunyddiol ac yntau'n ymwybodol o'r hyn a ystyria'n apocalyps o'i gwmpas. Mae'n ddarlun comig bron, ond llwydda i gyfleu ei unigrwydd llethol ynghanol byd sy'n dal ymlaen i wneud y pethau bychain, dibwys yng nghyd-destun ei drallod ef. Cynhwysa Jones gyfeiriad Beiblaidd arall yma, sef y disgrifiad o fynd allan o'r tŷ drannoeth yr apocalyps i 'rodio glyn cysgod y glaw / i geisio wyau a chaws, cig ac ymenyn / a'i wawd yn ddywedwst ym myd gwelw'r gwarth'.⁷⁶ Cyfeiria at 'glyn cysgod angau' o Salm 23, sef darlun o fygythiad marwolaeth a barn. Oherwydd hyn, llwydda Jones i atgyfnerthu'r syniad o'r ymgais i geisio goroesi dydd barn y genedl yn fwy esblyg nag yn achos y gerdd Saesneg.

Yng ngherddi olaf y gyfres o wyth, dychwelir at fotiff yr haul a welwyd ar ddechrau'r gerdd gyntaf ac sydd yn amlwg iawn yn 'Mawrth' 'Tuesday' hefyd. Mae'r gyfres yn grwn oherwydd y motiff hwn, sy'n dynodi parhad dynoliaeth a'r newid a wêl yr haul yn y byd a'i ddiwylliannau drwy'r oesoedd. Gair proffwydol sydd gan y beirdd yma, yn dweud y bydd rhywun yn canu cân 'dychwel yr haul' ar y darn hwn o dir, ac mae'n debygol nad cenedl y Cymry fydd y bobl hynny oherwydd bod Cymru wedi dewis cael eu cymathu o ganlyniad i'r bleidlais 'Na'.

Yn hanner cyntaf y gerdd, mae'r llefarydd yn cydnabod na fu ymddatod yn y byd naturiol wedi'r refferendwm. Pwysleisir y parhad yma ym myd natur o gymharu â'r darluniau o alanas yn y cerddi blaenorol er mwyn dangos nad yw tranc y genedl yn mynd i effeithio ar fywyd beunyddiol pobl na byd natur. Awgrymir unigrwydd persona'r gerdd yn ei alar dros Gymru a'i anallu i reoli'r dyfodol, ac yn ymhlyg yn hyn mae her i'r sawl a gydymdeimla â'i wewyr y bydd diwedd i'r genedl fel y bu diwedd i gannoedd o genhedloedd eraill o'u blaen:

That things are different now for some of us
too sick with thought is of no consequence
to the land's majority. That the hills
and shore, the stones, the river, trees and sky,
are less hospitable now than a week before
is in no way concerned with the innocent

⁷⁶ *Ibid.*, t. 18.

land itself. There were others here before us.
We took them in, their blood, their bones, their tongues,
and made them us. No one but us will ever grieve
the difference, and even we will only
grieve it for a while.⁷⁷

Rhestrir gwaed, esgyrn a thafodau i gynrychioli'r cenhedloedd a fu ar y tir cyn y Cymry, gan ddweud mai cael eu cymathu fu eu hanes hwythau. Mewn cyferbyniad, nid yw'r gerdd Gymraeg yn rhestru nodweddion biolegol ond yn hytrach cyfeirir at iaith a hil: 'Bu ein hiaith yn forwyn i benaethiaid / a'n hil yn haeddu marw drosti'. Mae Jones yn nodi y bu'r iaith Gymraeg yn iaith lywodraethol yng Nghymru yn y gorffennol, gan awgrymu mai adfer yr iaith oedd un o'r ffactorau pwysicaf pam y byddai wedi dymuno gweld pobl Cymru yn gwrthod cael eu cymathu drwy ymrwymo i ddatganoli. Noda hefyd y bu pobl yn ddigon cryf eu teimlad i frwydro a cholli gwaed, gan awgrymu mai codi a gwneud safiad yw'r ffordd i wrthdroi'r cymathu hwn. Diddorol yw'r defnydd o'r gair 'hil' yn y fan hon. Dyma'r tro cyntaf i Jones ddefnyddio ieithwedd fiolegol yn y cerddi i gyfeirio at genedl y Cymry. Gellir dadlau mai at grŵp o bobl y cyfeiria, nid o reidrwydd at hil fiolegol benodol, sy'n ddigon cyffredin yn y traddodiad barddol Gymraeg.⁷⁸ Mae Dressel ar y llaw arall yn cyfeirio at nodweddion biolegol, ac mae 'gwaed' yn fotiff cyson yn y gyfres o gerddi Saesneg.

Daw cyfres Ianws i ben wrth broffwydo y bydd y genedl yn darfod drwy gymathiad a fydd yn ei dro yn esgor ar genedl newydd:

Can gwanwyn eto, a bydd yr holl golledion
dan gloeon hen glai hanes,
ynghyd â'n cywilydd.
Cenedl arall a geiriau newydd a gân
gerdd i ddydd dychwel yr haul.⁷⁹

⁷⁷ *Ibid.*, t. 21.

⁷⁸ Mae Simon Brooks wedi dadlau bod tuedd i ddefnyddio'r gair 'hil' mewn barddoniaeth Gymraeg ond yn ei ystyr ehangaf, i olygu carfan o bobl â nodweddion cyffredin, yn hytrach na bioleg gyffredin, yn ei erthygl, "'Yr Hil': Ydy'r Canu Caeth Diweddar yn Hiliol?' yn Owen Thomas (gol.), *Llenyddiaeth mewn Theori* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), tt. 1-32.

⁷⁹ Jones a Dressel, *Ianws*, t. 20.

Yn y fersiwn Cymraeg defnyddir y gair ‘cywilydd’, sy’n gysyniad a adleisia ddefnydd Gerallt Lloyd Owen o’r term a’r cysyniad yn ei farddoniaeth, yn enwedig ei gyfrol *Cerddi’r Cywilydd* (1972). Yn y *débâcle* a ddilynodd arwisgo Tywysog Cymru ym 1969, datblygodd rhethreg ‘cywilydd’ a ‘gwarth’ ac y mae’r defnydd o’r rhethreg honno yn cyrraedd ei binacl yma: mae Cymru, o gael y cyfle, wedi dewis peidio â chael ei chydabod fel cenedl. Nid yw’r gerdd Saesneg yn gallu tynnu ar rethreg mor bwerus, ond mae’r gair ‘dishonour’ yn cyfleu’r sarhad sydd wedi disgyn ar Gymru yn nhyb y beirdd. Yr hyn a geir yw datganiad proffwydol y bydd pobl eraill yn cymryd lle’r Cymry ac yn gweld haul ar eu diwylliant. Nid yw’r geiriau hyn yn gadael lle i obaith am adfywiad, dim ond yr ymwybyddiaeth y bydd bywyd yn parhau wedi diwedd hanes y genedl.

Gwelir W. R. P. George, yn ei feirniadaeth yn Eisteddfod 1979, yn mynegi pryder ynghylch gwobrwyo cerdd mor ddigalon ag eiddo Ianws, oherwydd credai y dylid mynd ati i geisio adfywio ysbryd y genedl:

Rwy’n gofidio’n bersonol mai cerdd anobaith cenedl y Cymry fydd cerdd y goron eleni: mae fel pe bai’r genedl, trwy gyfrwng y bardd hwn, wedi llunio ei hewyllys olaf yn gain ar ddarn o femrwm hynafol. Ni allwn ond gobeithio na fydd y genedl farw, ac na ddaw yr ewyllys i rym; credaf fod Ianws yn gweld arwyddocâd rhy dywyll yn nedfryd y refferendwm. Dim ond hanes a ddengys a all bywyd diwylliannol Cymru a’i hiaith barhau heb sylfeini gwleidyddol.⁸⁰

Mae Tony Conran hefyd yn beirniadu ‘A diary of St. David’s week, 1979’, fel y mae’n ymddangos yng nghyfrol Dressel *Out of Wales: Fifty Poems 1973-1983*. Dywed fod y gyfres wedi ei chyfyngu gan y sioc a deimla’r bardd, ac na chynigir gweledigaeth ar gyfer y dyfodol sy’n codi uwchlaw hynny. Gwendid barddoniaeth Dressel yn nhyb Conran yw ei fod yn defnyddio gwelediad unigolyddol, ôl-ddelweddol a realaidd y traddodiad barddol Americanaidd i ddisgrifio cydberthynas dorfol pobl â’i gilydd. Dyma ffurf ‘anghymreig’, ac felly anaddas, yn ôl Conran, gan fod y beirniad yn ystyried gweledigaeth gymdeithasol cerddi’r traddodiad barddol fel un o’i brif nodweddion.⁸¹ Honna Conran nad yw’r math yma o farddoniaeth sy’n cilio

⁸⁰ Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau: Caernarfon a’r Cylch*, t. 42.

⁸¹ Gweler sylwadau Conran yn Anthony Conran, *Welsh Verse* (Bridgend: Poetry Wales Press,

i'r 'private suburbs of intimate sensibility'⁸² yn addas ar gyfer creu barddoniaeth sy'n ymwneud â'r cymdeithasol a'r torfol, fel yn achos pwnc y refferendwm yng ngherddi Ianws: 'the content of these poems is the social continuum, the interplay of people, and the desire to affect that interplay – to some extent – by what you are saying. The form demands I-it relationships to be dominant, the material demands I-thou'.⁸³ Gellir dadlau, fodd bynnag, mai'r ymdeimlad unigolyddol hwn o fod ar drothwy dinistr cenedlaethol yw ergyd Cerddi Ianws. Cryfder y cerddi Cymraeg yw'r modd yr ychwanegant gyfeiriadaeth ac y pwysleisiant fotiffau gwahanol i'r Saeseg, yn arbennig y gyfeiriadaeth Gristnogol. Yn Ianws, llwyddwyd i greu llais iasol, unigryw i ymateb i'r argyfwng a deimlent a hynny drwy gyfuno ffurf a mynegiant Americanaidd a chynnwys cyhoeddus a chenedlaethol y cerddi. Effaith hyn fu herio cenedlaetholwyr ynghylch y math o negeseuon a hyrwyddasant cyn 1979, a chwestiynu cenedlaetholdeb diwylliannol fel naratif ar gyfer ennill datganoli i Gymru.

* * *

Ar ôl y refferendwm, bu newid yn agwedd Dressel tuag at Gymru. Am resymau ymarferol yn ymwneud ag addysg ei ferch, penderfynodd ef a'i deulu symud yn ôl i St. Louis. Serch hynny, cyfeddyf yn ei ysgrif 'A Saloon of my Own' fod y siom yn sgil methiant y refferendwm wedi peri iddo ailfeddwl am ei ymrwymiad i Gymru a'r modd y bu iddo fabwysiadu hunaniaeth Gymreig:

by the summer of 1979 I felt a strong desire myself to get back to America for part of each year. Like most of my friends in Wales I had been hugely discouraged by the size of the negative vote in the referendum, and on an immediate level I simply felt a need for contact with a more virile, optimistic and confident society after the spectacle of national debility which the referendum had, for me, represented...I understand now, that for all my love of Wales, no process of evolution, no sustained act of will, is ever going to alter the psychological and emotional fact that I am,

1986), t. 16.

⁸² Tony Conran, 'The Referendum and the Poetry of Jon Dressel', t. 264.

⁸³ *Ibid.*

ultimately, an American...Wales has forced me to shed many illusions, and to discover harder truths, yet it will not let go of me, nor am I willing, finally, that it should'.⁸⁴

Penderfynodd archwilio cwestiynau ynghylch ei hunaniaeth Americanaidd yn ddyfnach drwy ysgrifennu cyfres o gerddi, sy'n naratif dramatig ac iddo 33 o raniadau. Un o'r pethau a gysylltai ei brofiad o fod yn Gymro â sut i'w ystyried ei hun fel Americanwr eto oedd y syniad gwaelodol ynglŷn â'r angen i 'gadw' hunaniaeth ac urddas mewn sefyllfaoedd sy'n codi o goncwest neu fethiant ar ran y genedl. Dywed iddo weld fod dwy sefyllfa'n eu cynnig eu hunain iddo yn America a fyddai'n gallu ymgysylltu â'r profiad o Gymru, sef sefyllfa'r Americanaid brodorol (a ystyriai'n drasig) a hefyd brofiad taleithiau deheuol America: 'This, as a border Southerner, I found I knew something about, though I had never, to my limits, felt the need to confront it. In the aftermath of 1979 in Wales, I realized that I had to'.⁸⁵ Yr oedd canlyniad y refferendwm, felly, wedi ei orfodi i ailystyried ac ailymweld â'i hunaniaeth Americanaidd. Ar ei symlaf, dywed mai'r gymhariaeth a wêl yw'r frwydr i gynnal hunaniaeth ddiwylliannol ac urddas yn sgil concwest. Cydnebydd fod y gymhariaeth yn anodd oherwydd yr hyn a gynrychiolai taleithiau'r De yn Rhyfel Cartref America, a chred ei bod yn gyfiawn fod y Gogledd wedi ennill y rhyfel. Dywed ymhellach y bu'n rhaid i bobl wyn y De yn sgil y rhyfel ymgymryd â byrdwn rhyw fath o bechod gwreiddiol.⁸⁶ Haera fod y gymhariaeth rhwng Cymru a thaleithiau deheuol America yn ddilys iawn wrth ystyried gwerthoedd gwledig y ddwy 'genedl' wrth iddynt frwydro yn erbyn moderniaeth:

Here, the parallels with Wales run truly close, for there is a sense (call it mythic if you will, but remember as you do so the myth of 'progress') in which the struggle of both the South and of Wales has been one of trying to preserve traditional, small-scale human values against mechanistic forces driven essentially by capitalistic greed.⁸⁷

Dywed ymhellach fod Missouri yn gymysg o ran ei barn a'i safbwyntiau yn achos y

⁸⁴ Jon Dressel, 'A Saloon of my Own', t. 54.

⁸⁵ Dressel, 'The Road to Shiloh', t. 22.

⁸⁶ *Ibid.*, t. 23.

⁸⁷ *Ibid.*

Rhyfel Cartref hyd heddiw, a noda hefyd iddo gael ei fagu mewn man lle'r oedd rhaniadau byw llym iawn ar gyfer y bobl ddu. Yn rhyfeddol, gwelir Dressel yn datgan: 'Yet there was a positive side as well. To be a boy of my generation in Granite City was to grow up among many peers of Southern yeomen stock, descendants of the foot soldiers in the Confederate army. Their racial attitudes, like mine, left something to be desired, but they were healthily earthy in the way they went at life, and naturally possessed of a strong folk humour'.⁸⁸ Gellid dadlau bod Dressel yn cyfiawnhau agweddau hiliol ei ddinas enedigol er mwyn gallu ffurfio cymariaethau â'r Gymru wledig, wrth-fodern a ddelfryda, ond nid yw'r tebygrwydd yn argyhoeddi oherwydd gwahaniaethau hanesyddol a diwylliannol amlwg – nid lleiaf yn y cyswllt hwn yw'r ffaith nad yw hiliaeth ar raddfa America wedi ei hamlygu'i hun yn hanes diweddar Cymru.

Cyhoeddwyd *The Road to Shiloh: Poems since 1984* ym 1994:

When *Shiloh* was completed, and after the passing of the customary decent interval, I found, and perhaps not strangely, that I was free, and indeed compelled, to engage with the question of just what in the world I had been doing in Wales. That is, had I been playing some kind of self-indulgent game, or acting out (or at least growing into) a genuine sense of Welsh-American identity?⁸⁹

Ymdrech a welir gan Dressel yn y fan hon i wneud synnwyr o'i hunaniaeth bersonol a chenedlaethol. Noder mai deialog yw ffurf *The Road to Shiloh*, ac yr oedd Dressel yn gweld y ffurf hon yn gymorth i'r drafodaeth, gan ganiatáu i leisiau amrywiol ymyrryd yn y disgwrs yr oedd wedi dysgu ei gwestiynu. Mewn adolygiad ar y gyfrol, mae Don Dale-Jones yn dweud mai'r hyn a amlinellir yma yw'r freuddwyd Americanaidd a'r holl densiynau a'r gwrth-ddweud sydd ynghlwm wrthi.⁹⁰ Diddorol yw nodi hefyd i Dressel gyfansoddi cerdd ddramatig arall er mwyn archwilio ei hunaniaeth fel disgynnydd i ymfudwyr i America, sef 'You, Benjamin Jones: A Welsh American Tale', sy'n adrodd stori ei deulu o'i bersbectif ef. Mae Benjamin Jones, sef ei dad-cu, yn gymeriad yn y naratif ac yn torri ar draws y dweud o bryd i'w gilydd. Cerddi

⁸⁸ *Ibid.*, t. 24.

⁸⁹ Dressel, 'Looking Both Ways', t. 56.

⁹⁰ Don Dale-Jones, 'Review: *The Road to Shiloh: Jon Dressel*', *Books in Wales*, 1 (Gwanwyn 1995), t. 16.

rhyddieithol yw'r rhain. Gellir gweld un rhan o'r gerdd 'On The Road', sy'n disgrifio'r daith rhwng Llansteffan a Chaerfyrddin, fel trosiad am ei bererindod hunaniaethol, a llwydda i greu darlun o hunaniaeth bersonol fel rhywbeth symudol a chyfnewidiol.

* * *

Pan benderfynwyd y byddai refferendwm arall yn cael ei chynnal ym 1997, blwyddyn ac iddi gymesuredd rhifol damweiniol â '79, penderfynodd T. James Jones a Jon Dressel fod yn rhaid iddynt ailymweld â'r pwnc hwn eto, ond o safbwynt gwahanol y tro hwn. Llwyddwyd y tro hwn i ennill y bleidlais ynghylch sefydlu Cynulliad Cenedlaethol i Gymru, wedi ymgyrch gref ar draws Cymru. Roedd amgylchiadau cynnal y refferendwm yn dra gwahanol i gyd-destun 1979. Y ffactorau pennaf a nodir gan Dafydd Trystan a Geoffrey Evans yn eu hastudiaeth gymharol o'r pleidleisio yn refferenda 1979 ac 1997 yw bodlonrwydd pobl â llywodraeth Lafur yn San Steffan, pleidlais gadarnhaol yn yr Alban yr wythnos flaenorol o ran sefydlu senedd yng Nghaeredin, yr amser cyfyngedig a oedd ar gael i graffu ar wendidau'r cynllun datganoli, ac ymgyrch 'na' wan. Honnant ymhellach i ymwybyddiaeth genedlaethol dyfu rhwng 1979 ac i hynny gyfrannu at lwyddiant y refferendwm:

People with a Welsh identity have become more pro-devolution. And Plaid Cymru, the nationalist party, has become markedly more acceptable to the mass of the population of Wales. This can also be understood in political terms. As there were no marked social changes that might account for why a Welsh identity became more politically salient, this too is likely to be a political creation.⁹¹

Fodd bynnag, dadleua J. Barry Jones nad uchelgais cenedlaetholgar oedd y tu ôl i lwyddiant y refferendwm, ond teimlad cynyddol – a oedd gan y Cymry Cymraeg eisoes, meddai, ac a ehangodd i'r rhanbarthau diwydiannol, Saesneg eu hiaith, sef nad oedd llywodraeth San Steffan yn deall anghenion Cymru: 'The post-1979 changes were the product of a sense of grievance against a Conservative government which

⁹¹ Geoffrey Evans a Dafydd Trystan, 'Why was 1997 different?' yn Bridget Taylor a Katarina Thomson (goln.), *Scotland and Wales: Nations Again?* (Cardiff: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), t. 113.

controlled the Westminster Parliament, and had failed to take sufficient account of the Welsh “interest” or, to be more precise, a range of Welsh interests’.⁹² Oherwydd yr amrywiol ffactorau hyn, bu refferendwm 1997 yn llwyddiannus o drwch blewyn; 6,721 o bleidleisiau a sicrhodd bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dod i fod ym 1999. Dengys John Osmond sut y bu i’r refferendwm fod yn gatalydd i ddatblygiadau newydd – datblygiadau a fyddai’n arwain at adeiladu cymdeithas sifig yng Nghymru, er enghraifft: gwelwyd cynllunio mwy bwriadol gan Ysgrifenyddion Gwladol Cymru i adfywio economi Cymru; ffurfiwyd sefydliadau cenedlaethol; ehangwyd cyfrifoldebau’r Swyddfa Gymreig; sefydlwyd S4C a Bwrdd yr Iaith Gymraeg; sefydlwyd cyrff cyhoeddus ym maes iechyd ac ati.⁹³ Gwelwyd datblygiad gweinyddiaeth fiwrocraidaidd yng Nghymru, felly, a chyn bo hir dechreuwyd dadlau y dylid cael sefydliad democrataidd er mwyn trafod y sefyllfa newydd yma a chraffu arni. Daeth y cysyniad o greu cymdeithas ‘sifig’ i rym a bu’n rhan allweddol o’r disgwrs cyn refferendwm 1997: ‘Revitalizing democracy was also a clear aim in the campaign for devolution. It was argued that devolution would result in inclusive, open, participative and accountable governance in Wales’.⁹⁴

Esbonia Dressel yn y rhagair i’r casgliad o gerddi newydd, *Wyneb yn Wyneb / Face to Face* (1997), gyd-destun y cydweithio a fu unwaith eto i ymateb yn farddonol i refferendwm yng Nghymru:

And we found, too, that a different poetic approach was required; it was not possible to work again in the vein of 1979. We had to find a different voice, or as it turned out, voices. What suggested themselves, finally, were the voices of owain Glyndŵr, and of his closest counterpart in the American experience, Robert E. Lee.⁹⁵

Mae dechreubwynt y beirdd yn ganlyniad i’r newid mewn pwyslais yn y blynyddoedd cyn y bleidlais ym 1997; nid adwaith personol yn ymateb i’r bleidlais a geir yma. Cawsant hyd nid i lais – ond i leisiau, a hynny yn ffigurau hanesyddol Owain

⁹² J. Barry Jones, ‘Changes to the Government in Wales 1979-1997’ yn J. Barry Jones a Denis Balsom (goln.), *The Road to the National Assembly for Wales* (Cardiff: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 26.

⁹³ John Osmond, ‘The Modernisation of Wales’, yn Neil Evans (gol.), *National Identity in the British Isles*, 3 (Coleg Harlech Occasional Papers in Welsh Studies, 1989), t. 83.

⁹⁴ Elin Royles, *Revitalizing Democracy?* (Cardiff: University of Wales Press, 2007), t. 2.

⁹⁵ Jones a Dressel, *Wyneb yn Wyneb / Face to Face*, t. 9.

Glyndŵr a Robert E. Lee. Ymgom ddramatig rhwng y ddau yw'r gyfres o gerddi, sydd wedi ei lleoli ar dir Coleg Washington, Lexington yn Nyffryn Shenandoah - sefydliad yr oedd Lee yn llywydd arno wedi Rhyfel Cartref America. Yn y cerddi cyfoddir a chymherir bywyd y ddau gan fyfyrion ar eu cyraeddiadau a'u cyfraniadau ar ran eu cenedloedd. Gŵr o deulu bonheddig oedd Lee a ddaeth yn arwr cenedlaethol oherwydd ei arweiniad milwrol fel Uwch-gadfridog byddin Gogledd Virginia, prif bŵer militaridd Taleithiau Cydffederal America yn y Rhyfel Cartref, 1861-65, fel y nodir yn y nodiadau cyd-destunol manwl, a geir yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar ddiwedd y gyfrol. Gwasanaethodd fyddin y llywodraeth yn ymroddedig a chafodd gynnig arwain byddin yr Undeb gan yr Arlywydd Lincoln yn 1861, ond gwrthododd am fod ei dalaith frodorol, Virginia, yn un o'r taleithiau a oedd wedi dadgysylltu o'r undeb ac felly teimlai fod yn rhaid iddo ddilyn ei dalaith. Ar ôl trechu Byddin Gogledd Virginia yn Antietam yn 1862 a Gettysberg yn 1863, daeth diwedd y rhyfel i bob pwrpas. Ildiodd Lee yn Appomatox Court House ar Ebrill 9fed, 1865, gan ddod â gobeithion y fyddin gydffederal i ben, a galwodd am gymod rhwng y de a'r gogledd. Derbyniodd swydd fel Llywydd Coleg Washington, lle y bu'n lladmerydd cymod cenedlaethol; anogodd ei fyfyrwyr i 'wneud eich meibion yn Americanaid'.⁹⁶

Yn achos ail gymeriad y gyfres, roedd Owain Glyndŵr yntau o uchel dras, ac fe wasanaethodd Goron Lloegr yn yr Alban a thramor. Cododd yn erbyn ei gymydog, Reginald Grey, am iddo ddwyn tir oddi wrtho, ac am na chafodd gefnogaeth Senedd Lloegr ymosododd ar dref Rhuthun. Ar yr 16eg o Fedi 1400 yng Nghorwen, cyhoeddodd ei ddilynwyr mai Owain Glyndŵr oedd Tywysog Cymru, a gallai honni erbyn 1405 yn sgil ei wrthryfel fod ei bŵer yn ymestyn dros Gymru gyfan. Erbyn 1408, fodd bynnag, roedd Lloegr yn dechrau adfer eu gfael ar gestyll Cymru, ac erbyn 1413 diflanasai Glyndŵr, gan ddod yn ddeunydd chwedl a myth.

Yn hytrach na'r 'un bersonoliaeth' honedig a welwyd yng ngherddi *Ianws* mae yma ddwy bersonoliaeth yn ymateb i gyfnod newydd. Beth felly yw arwyddocâd y teitl *Wyneb yn Wyneb*? Y mae'n sicr yn dwyn i gof y duw Ianws a chanddo ddau wyneb; mae'r beirdd yn ailymweld â thema'r refferendwm, felly, ond nid edrych i'r gorffennol a'r dyfodol y maent y tro hwn, ond wyneb yn wyneb.

⁹⁶ *Ibid.*, t. 33.

Yn gyntaf, priodol fydd mynd i'r afael â'r rhesymau dros ddewis Lee a Glyndŵr fel ffigyrau sy'n tafleisio ymateb y ddau fardd i refferendwm 1997. Bu cryn ddryswch ynghylch agwedd Lee tuag at gaethwasanaeth yn yr Unol Daleithiau: bu iddo wrth gwrs ymladd ar ochr y fyddin a wrthwynebai ddirwyn caethwasanaeth i ben, ond awgrymwyd gan nifer wedi'r rhyfel cartref fod Lee yn gwrthwynebu caethwasanaeth, ac ar ôl y rhyfel a'i farwolaeth datblygodd Lee yn ffigwr canolog yn y dehongliad 'Lost Cause' o'r rhyfel cartref. Gellir disgrifio'r mudiad 'Lost Cause' fel carfan o bobl a geisiai gymodi rhwng pobl wyn y De a phobl y Gogledd, drwy bwysleisio mai'r rheswm y bu'n rhaid iddynt hwy ymladd oedd er mwyn amddiffyn eu traddodiadau a'r urddas oedd ynghlwm â hynny. Tuedd y 'Lost Cause' yw darlunio'r cyfnod o ailadeiladu wedi'r rhyfel fel ffordd y Gogleddwyr o ladd y diwylliant a'r ffordd draddodiadol o fyw yn y De. Bu'r syniad bod Lee yn wrthwynebus i gaethwasiaeth, felly, yn gymorth i roi hygreddedd i'r darlun ohono fel ceidwad anrhydedd y De yn ogystal â bod yn flaenllaw yn y broses o gymodi wedi'r rhyfel.

Ceir tystiolaeth sy'n tystio i'w gydymdeimlad â'r caethweision fel pobl, oherwydd iddo gefnogi ymgyrch ei wraig a'i ferch i agor ysgol (anghyfreithlon) ar gyfer caethweision a'u hymaelodi yn y fyddin. Ond, mewn llythyr at ei wraig yn 1856, dywed ei fod yn credu fod gan bobl ddu fywydau o safon well fel caethweision nag oedd ganddynt yn Affrica, 'morally, socially & physically'.⁹⁷ Yn ei gofiant i Robert E. Lee, mae Douglas Freeman yn gosod daliadau Lee yn eu cyd-destun hanesyddol a'i gred fod cyfiawnhad i gaethwasiaeth. Gellir dadlau, mewn cyfnod pan oedd consensws yn tyfu dros ddileu caethwasiaeth yn llwyr, bod rhaid cwestiynu amwysedd Lee ynghylch y pwnc: 'At the same time, he was under no illusion regarding the aims of the Abolitionists or the effect of their agitation.'⁹⁸ Yn ogystal, gwrthwynebai'n gyhoeddus roi'r bleidlais i bobl ddu.⁹⁹ Er bod Lee yn gefnogol i ddiwygio agweddau ar gaethwasiaeth, mae'n glir o'r dystiolaeth a gasglwyd ei fod o blaid gwahaniaethu ar sail hil a hynny mewn cyfnod lle'r oedd agweddau blaengar yn cael eu normaleiddio yn yr Unol Daleithiau.

⁹⁷ Douglas Freeman, *R. E. Lee, A Biography* (New York: Charles Scribner's Sons, 1934), t. 372.

⁹⁸ *Ibid.*

⁹⁹ Michael Fellman, *The Making of Robert E. Lee* (New York: Random House, 2000), tt. 267-8.

Yn ei erthygl ‘American Freaks’, mynega Daniel G. Williams bryder gwirioneddol ynghylch cyd-destun ac oblygiadau cymharu Owain Glyndŵr â Robert E. Lee yn y gyfres o gerddi *Wyneb yn Wyneb / Face to Face*. Amcan Jon Dressel yw cymharu taleithiau deheuol America â Chymru oherwydd, fel y gwêl ef y sefyllfa, mae tebgrwydd yn y frwydr y gorfu i’r ddwy garfan o bobl ei hwynebu er mwyn gwarchod traddodiad a hunaniaeth. Yn y cerddi hyn, dyrchefir Robert E Lee i statws arwr ac anghofir am ei ymwneud â chaethweision a’r modd yr oedd yn cynnal cyfundrefn hiliol. Mae Daniel G. Williams yn feirniadol iawn o’r gymhariaeth hon gan Dressel a Jones, gan ddweud ei bod yn ymylu ar ddarlleniad y dyn gwyn goruchafol o’r Rhyfel Cartref:

In order, ultimately, for the comparison between Wales and the South to be sustained the ‘slave must be laid aside’. But to construct a South, or a history of the Civil War, that marginalises the experience of slavery is ethically repugnant, and historically inaccurate if not ‘utterly disgraceful.’¹⁰⁰

Er bod Dressel yn honni bod sail i’r gymariaeth, mae’r cyd-destun cymdeithasol a hanesyddol yn dra phroblematig. Mewn cyfweliad â’r awdur presennol, dywedodd T. James Jones:

Erbyn hyn rwy’n ymwybodol o feirniadaeth Jerry Hunter ac eraill ynglŷn â’r priodoldeb o “ddyrchafu” cymeriad fel Lee oherwydd ei gysylltiad â chwaethwasiaeth yn America. Ond ar y llaw arall fe ddylid cofio’r creulonderau a ddiodefwyd yn sgil goresgyniad Glyndŵr. Onid plant eu gwahanol gyfnodau oedd y ddau fel ei gilydd? Eu safiad fel cenedlaetholwyr, eu methiannau ynghyd â goroesiad eu breuddwydion am annibyniaeth wleidyddol a’u gwnânt [sic] yn debyg.¹⁰¹

Gellid dadlau bod y ddadl hon yn annilys oherwydd roedd gan Lee y cyfle i ddangos gwrthwynebiad llwyr i gaethwasanaeth, ond yn lle hynny fe benderfynodd gefnogi atal dinasyddiaeth lawn i’r dyn du. Yng nghyd-destun cenedlaetholdeb diwylliannol Cymraeg, mae’n beryglus iawn uniaethu ag unrhyw garfan a chanddi hanes o

¹⁰⁰ Daniel Williams, “‘American Freaks’: Welsh Poets and the United States’, yn Daniel G. Williams (gol.), *Slanderous Tongues: Essays on Welsh Poetry in English 1970-2005* (Bridgend: Seren, 2010), t. 178.

¹⁰¹ Cyfweliad yr awdur presennol â T. James Jones, 13 Mawrth 2009.

ymddwyn mewn modd hiliol.

Nid oes esboniad manwl yn rhagair *Wyneb yn Wyneb / Face to Face* o natur y broses creadigol yn achos llunio'r cerddi hyn. Y tro hwn, mae'r rhagair Saesneg a Chymraeg yn cyfateb i'w gilydd yn union, lle'r oedd y rhagair yn nghyfrol Ianws yn unigryw yn y ddwy iaith, gan adlewyrchu'r broses ddeinamig rhwng Jones a Dressel. Esbonnir yn y rhagair i gyfrol 1997 fod y cyd-destun ar gyfer refferendwm y flwyddyn honno yn gwbl wahanol i'r hyn oedd gyda refferendwm 1979, oherwydd synhwyr'ai'r beirdd fod mwy o obaith i'r bleidlais fod yn gadarnhaol yr ail waith. Aethant ati i ysgrifennu'r cerddi cyn y refferendwm, ac er bod ymdeimlad y tro hwn y gallai'r canlyniad fod yn gadarnhaol, yr oedd hefyd elfen gref o bryder: 'Roedd y tyndra y buom yn gweithio ynddo gydol yr haf eleni yn un llawn gobaith, ond yn cael ei ddwysáu gan ein hofnadwyaeth y byddai ein "na" y tro hwn, o bosibl, yn "na" am byth'.¹⁰² Nodant i'r cerddi ddod ar ôl iddynt deithio gyda'i gilydd i Virginia a Pennsylvania, lleoliadau sy'n gysylltiedig â Rhyfel Cartref America. Y daith tuag at y refferendwm yw stori'r gyfres o gerddi y tro hwn. Noda Jones mewn cyfweliad â'r awdur presennol nad yr un oedd y broses o ysgrifennu wrth gyfansoddi cerddi *Wyneb yn Wyneb* ag wrth ysgrifennu cerddi Ianws: 'Creadigaeth Jon yn bennaf yw'r Robert E. Lee a glywn yn y dilyniant. Roedd Jon hefyd wedi ymdrwytho yn hanes Glyndŵr. Felly, y mae'n wir dweud mai trosiadau o'r Saesneg gwreiddiol yw cerddi *Wyneb yn Wyneb*. Roedd mwy o gyfnewid syniadau wedi digwydd yng ngherddi *Ianws*'.¹⁰³ Dyna sydd i gyfrif felly am unoliaeth y cerddi Cymraeg a'r cerddi Saesneg ac am y gostyngiad sylweddol o ran yr amrywiadau a'r gwahaniaethau rhyngddynt. Dressel a gynigiodd yr arweiniad creadigol sylfaenol, ond y mae'r cerddi'n ffrwyth hir baratoi ac felly roedd cytundeb rhwng y beirdd. Yn Ianws cafwyd dau lais mewn un persona, ond yn *Wyneb yn Wyneb*, mae dau bersona yn cyfarfod ond un llais creadigol sy'n tralywodraethu. Noda Jones hefyd yn y cyfweliad fod y ddau fardd yn dymuno llunio diwedd glo diamwys o obeithiol oherwydd y newid positif, fel y gwelent hwy bethau, yn ffawd y genedl.

Mewn nodyn ar ddechrau'r gyfres, nodir amser a lleoliad fel hyn: 'Y diwrnod yw Medi 18, 1997, ynghyd â'i drannoeth. Trefnodd y Pwerau i Ddyffryn Shenandoah

¹⁰² Jones a Dressel, *Wyneb yn Wyneb*, t. 8.

¹⁰³ Cyfweliad yr awdur presennol â T. James Jones, 13 Mawrth 2009.

Virginia, a thref Lexington, ymddangos fel yr oeddent ym mis Medi, 1866'.¹⁰⁴ Ceir golygfa yn y gerdd agoriadol o Glyndŵr yn marchogaeth tuag at Goleg Washington, sefydliad bychan ger Coleg Milwrol Virginia yn nhref Lexington, Dyffryn Shenandoah, y sefyldiad y bu Lee yn llywydd arno wedi diwedd y rhyfel. Ceir delweddau o ddiwydiant yn disodli'r 'aelwydydd' – delweddau sy'n amlygu'r agwedd wrth-fodern y sylwodd Daniel Williams arni yng ngwaith Dressel.¹⁰⁵ Arddull foel sydd gan Dressel a symlrwydd yn y dweud, tra bo Jones yn fwy ymwybodol o sŵn a sawr geiriau:

He came,
beyond, to a handsome house, where a man
stood waiting on the entrance porch. It was,
he saw, a man his age, erect at sixty,
with a white-gray beard and head of hair,
and a bearing that he recognized, as equal
to his own.¹⁰⁶

Dod at urddas preswyl lle safai, yn ddisgwylgar,
gyfoed, trigain talaidd, ei wallt a'i farf yn frith.
Dau debyg, cydradd eu hymarweddiad.¹⁰⁷

Mae Dressel yn creu naws dawel a gosgeiddig drwy linellu'r gerdd yn ofalus, fel mai ychydig o frawddegau sy'n dechrau ar yr un pryd â'r llinell ei hun, gan greu llyfnder a goferu sy'n rhoi rhythm i'r gerdd. Nid yw Jones yn adlewyrchu hyn oherwydd mae pob brawddeg newydd yn dechrau â llinell newydd yn ei drosiadau ef, ac felly mae'r dweud mewn perthynas â'r llinell yn llai hylifol.

Wedi'r gerdd gyntaf, ceir araith gan Owain Glyndŵr a Robert E. Lee am yn ail, y ddau yn ystyried eu gweithredoedd a'u dylanwad ar eu cenedloedd unigol. Perthyn yr ail gerdd yn y gyfres i bersona Owain Glyndŵr, sy'n cyfarch Lee ag edmygedd yn ogystal ag eiddigedd tuag at y gwaddol a adawodd Lee ar ei ôl ar ffurf sefydliadau -

¹⁰⁴ Jones a Dressel, *Wyneb yn Wyneb*, t. 10.

¹⁰⁵ Williams, 'American Freaks', t. 170.

¹⁰⁶ Jones a Dressel, *Wyneb yn Wyneb*, t. 13.

¹⁰⁷ *Ibid.*, t. 12.

yn wahanol iddo ef (a oedd, fe gofir, am sefydlu dwy brifysgol yng Nghymru). Sefydli'r y prif beth sydd ganddynt yn gyffredin, sef '[b]rwydrau hirnych / dros annibyniaeth',¹⁰⁸ y naill yn pledio annibyniaeth i Gymru a'r llall dros annibyniaeth i Virginia oddi wrth ddeddfau Unol Daleithiau America. Meddai'r persona yn y fersiwn Gymraeg:

Serch ein methiannau fe'n dyrchafwyd,
gan y gweddill sydd â gweld, yn ddau
bwerus i ysbrydoli; fe'n dwyfolwyd.¹⁰⁹

Mae'r gerdd Gymraeg a'r gerdd Saesneg gyfatebol yn cymeradwyo'r sawl sy'n dilyn athroniaeth y ddau arwr – 'y gweddill sydd â gweld' – gan awgrymu fod gan y bobl hyn weledigaeth amgenach na'r rhelyw. Mae gan y gair 'dwyfolwyd' rym ar ddiwedd y llinell sy'n darlunio trawsffurfiad y ddau o arweinwyr milwrol i ffigyrau chwedlonol, sancteiddiedig sy'n dal ysbryd cenedl. Diddorol yw sylwi sut yr ystyrir y bydolwg hwn fel rhyw fath o ffydd neu greddo a hwythau'r arwyr yn wrthrychau'r ffydd neu'n waredwyr dwyfol. Ymhelaetha Glyndŵr yn y fersiwn Saesneg:

Why that is, what it has meant, and what
it might mean for the future, interests me
most greatly, as the matter stands, today.¹¹⁰

Gofynnir a yw yr hyn a gynrychiolai Glyndŵr, sef yr hedyn a blannodd yn nychymyg y Cymry i frwydro am ryddid cenedlaethol, yn mynd i ddwyn ffrwyth. Cyfyd cwestiynau ynghylch beth fydd ei arwyddocâd ef yn hanes Cymru yn ôl a bleidleisir o blaid neu yn erbyn datganoli. Yng ngherddi Ianws, roedd Glyndŵr yn symbol o'r cenedlaetholwr diwylliannol a oedd yn frwydrwr tanbaid dros ryddid i Gymru, ond ailddehonglir ei gyfraniad yma yn nhermau gwleidydd craff. Noda hyn newid yn agweddau'r beirdd hefyd: nid emosiwn dros yr achos cenedlaethol sy'n eu sbarduno i ymateb yn llawn dieter i farn eu cyd-Gymry sydd wrth wraidd y cerddi hyn, ond myfyrdod mwy cytbwys cyn diwrnod y refferendwm ynghylch y daith tuag at y pwynt hwnnw. Dywed Cyril Jones mewn adolygiad ar y gyfres: 'Mae'r rhain yn fwy

¹⁰⁸ *Ibid.*, t. 14.

¹⁰⁹ *Ibid.*

¹¹⁰ *Ibid.*, t. 15.

meddylgar-wrthrychol eu naws [na cherddi Ianws] ac yn arddangos elfennau dramatig rhwng y ddau brif gymeriad. O'r herwydd mae'r arddull yn fwriadol yn fwy troetrwm a rhyddieithol'.¹¹¹ Awgrymir gan y newid dehongliad a fu yn achos cymeriad yr arwr fod newid wedi bod hefyd yn agwedd y beirdd fel ymgyrchwyr dros ddatganoli, ac yn y cyswllt hwn holant sut y gallant addasu eu cenedlaetholdeb diwylliannol ar gyfer gofynion y ddadl wleidyddol mewn cymdeithas sifig. Cenfigenna Glyndŵr wrth y coleg a arweiniai Lee, gan resynu na chawsai ef gyfle i wireddu ei freuddwyd o sefydlu prifysgolion a fyddai wedi bod yn ddechrau ar sefydliadau sifig yng Nghymru: 'O na fyddwn i wedi gadael gwaddol debyg'.¹¹² Y mae ymwybyddiaeth yma ar ran y persona ynghylch yr angen am gymdeithas sifig yn y prosiect o godi cenedl – darlun sy'n portreadu Glyndŵr fel arweinydd cenedlaethol hirben a deallus. Yn Glyndŵr, gwelir yr arwr diwylliannol a'r gwladweinydd yn dod ynghyd i greu portread o'r math o wleidyddiaeth y gellir gobeithio amdano yn sgil datganoli – yn gyfuniad o'r diwylliannol a'r sifig. Fodd bynnag, ni ellir trafod gwleidyddiaeth a diplomatiaeth mewn ffordd ystyrlon yma, yn enwedig gan fod un o rinweddau gwleidyddiaeth sifig – sef cynwysoldeb – yn cael ei danseilio'n llwyr gan bresenoldeb Lee a fu'n rhwystr i'r agenda honno yn America.

Yn y trydydd pâr o gerddi, ymetyb Robert E. Lee i gyfarchiad Glyndŵr drwy rybuddio ynghylch y gwahaniaethau mawr yn amcanion a chyd-destunau Virginia a Chymru:

When all is said, you fought another nation;
we fought to leave a Union we had joined
in war to forge, and which Virginia men
had led. Defeat, for us, was hard to bear,
but could not, finally, mean subjection.¹¹³

Mae Lee yn cydnabod yn y fan hon mai'r gwahaniaeth mawr oedd rhyngddynt oedd natur eu brwydrau. Un genedl fawr oedd Amercia, ac er ei fod yn awyddus i warchod buddiannau Virginia, ni olygai y collai ei dir nac, i raddau helaeth, ei synnwyr o hunaniaeth, yn wahanol i'r sefyllfa yn achos Glyndŵr. Ar ddiwedd y gerdd mae

¹¹¹ Cyril Jones, 'Ianws a Nest', *Taliesin*, 101 (Gwanwyn 1998), t. 121.

¹¹² Jones a Dressel, *Wyneb yn Wyneb*, t. 14.

¹¹³ *Ibid.*, t. 17.

Robert E. Lee yn dderbyniodd bardwn a dinasyddiaeth gyflawn am ganrif a mwy wedi ei farwolaeth, a gofynna i Owain Glyndŵr pam na dderbyniodd ei bardwn yntau wedi'r gwrthryfel: 'It took another hundred years and more / to make me, ghostly, a full citizen / again'.¹¹⁴

Yn y cerddi dilynol, amlygir y gwahanol agweddau sydd gan y ddau arwr hanesyddol tuag at eu hachosion unigol. Dywed Robert E. Lee y byddai wedi bod yn falch petai wedi llwyddo i wneud Taleithiau'r De yn genedl ar wahân, ond ni pharhaodd â'r frwydr honno wedi'r methinat milwrol: 'but I could not, / the martial verdict in, become a lingering / shadow of appeal'.¹¹⁵ Ystyrir hefyd werth y cerfluniau ohonynt a'u harwyddocâd i bobl heddiw. Medd Glyndŵr:

O na fyddai gennyf eich lluniau a'ch cerfluniau.
Ni'm gwelir i ar furiau yn tremio ar fy nghenedl,
nac yn marchocáu yn llygad haul y cyhoedd.
Pe'm gwelid, fe ddynodai hynny hanes amgen
na'r un a'm dygodd yma i'ch cyfarfod heddiw.¹¹⁶

Mae Glyndŵr yn sôn yma am arwyddocâd cerfluniau ac am bwysigrwydd eiconograffeg genedlaethol. Cyfeirir yng ngherdd V at un o'r cerfluniau niferus sydd i Lee yn y De, gan gynnwys y cerflun marmor gwyn yn New Orleans, a godwyd ym 1884 ac sy'n 18 metr o uchder. Mynega persona'r gerdd y farn y bu prinder o gerfluniau o Glyndŵr, ond cyfeirir at y cerflun yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd, lle y dywedir y bydd pobl yn disgwyl canlyniad y refferendwm ynghylch datganoli i Gymru. Yng ngherdd Dressel, mae Glyndŵr yn dweud bod Lee yn derbyn y cerfluniau, er bod rhaid iddo fyw gyda'r ffaith iddo golli'r frwydr:

If events should prove my feeling wrong,
as they well may, my future, I would think,
will be more one with yours, as a figure,
mainly, of consoling pride, on which rests
a conviction, whether right or wrong,

¹¹⁴ *Ibid.*

¹¹⁵ *Ibid.*, t. 21.

¹¹⁶ *Ibid.*, t. 22.

that courage only sheathed its sword and yielded
when force of numbers left no other way.
You have made your peace, for good, with that.
It would not be an easy thing for me.¹¹⁷

Cysur yn unig yw'r cerfluniau o Lee, yn cynrychioli safbwynt a oedd yn werth ymladd drosto yn nhyb personau'r cerddi, ond nid yw'n hyrwyddo unrhyw ddeffroad cenedlaethol oherwydd ystyria Lee ei ymdrech a'i waith ar ben. Hunllef Glyndŵr fyddai gweld ei genedl yn gweld ei gerfluniau ef yn yr un ffordd, ac awgrymir na fyddai modd dod i delerau â cholli'r cyfle am ddatganoli y tro hwn. Y pryder a fynegir gan y beirdd yma yw y posibilrwydd y bydd eu dehongliad hwy o hunaniaeth genedlaethol yn diflannu os collir y bleidlais, ac mai stori mewn amgueddfa neu gerflun mewn parc fydd y naratif cenedlaetholgar a gynrychiolir gan Owain Glyndŵr. Gan fod eu hunaniaeth wedi ei seilio ar y dehongliad hwn o hanes Cymru a'r argyhoeddiad ynghylch yr angen am ryddid i Gymru, gwelant y cyfle hwn am ddatganoli fel y cyfle olaf i sicrhau nad rhywbeth statig fydd y syniad o genedlaetholdeb ond rhywbeth byw y bydd nifer cynyddol o bobl yn uniaethu ag ef.

Yng ngherdd VII y gyfres, dywed Robert E. Lee wrth Glyndŵr y byddai'r ddau wedi ennill eu brwydrau petaent wedi'u hymladd ar lun pleidlais ('torri croes') ac nid mewn rhyfel. Byddai Glyndŵr wedyn, meddai, yn 'bathu / eich gobeithion seren-gynffon am eich Cymru'.¹¹⁸ Ond ar ddiwedd cerdd VII nodi Lee y profiad tebyg a gafodd y ddau wrth sylweddoli nad oedd dewis ond gadael eu hymrwymadau a brwydro dros eu credoau:

Codwyd baich y noson honno,
yn union fel eich profiad chi yng Nghorwen.
Ein dau yn dweud, 'Gorffennwyd'. Doedd dim troi'n ôl.
Estynnai'r ffordd i mi bob cam i Appomattox.
A'ch ffordd chithau? I Gaerdydd? Cawn weld.¹¹⁹

Un gwahaniaeth pwysig rhwng y gerdd Gymraeg a'r gerdd Saesneg y dylid dwyn

¹¹⁷ *Ibid.*, t. 23.

¹¹⁸ *Ibid.*, t. 24.

¹¹⁹ *Ibid.*

sylw ato yma yw'r defnydd o gyfeiriadaeth Feiblaidd – gorffennwyd' – yn y gyntaf, sy'n cyfeirio at air olaf Iesu Grist ar y Groes. Dyma Jones unwaith eto yn pwysleisio'r elfen grefyddol sydd ynghlwm wrth y cysyniad o'r Mab Darogan, ac yn esblyg, yn dyrchafu ei arwyr i lefel ddwyfol wrth eu cymharu â Duw. Y mae'n chwarae ar yr un pryd wrth gwrs â'r syniad o aberth dros genedl. Cryfheir felly y syniad fod agweddau crefyddol yn ymhlyg yng nghenedlaetholdeb Jones wrth ystyried y gyfeiriadaeth yng ngherddi Ianws ac yng ngherddi *Wyneb yn Wyneb*. Wrth ddefnyddio'r gair 'Gorffennwyd' dywedir bod rhywbeth cosmig ac aruthr wedi ei ddechrau gan y ddau y diwrnod y daethant i benderfyniad a fyddai'n llunio eu dyfodol a dyfodol eu cenedl – hynny yw, roedd y naratif genedlaethol a fodolai cyn 1979 wedi methdalau. Ni chyfeirir at yr arwr fel ffigwr meseianaidd yn y fersiwn Saesneg: 'Something lifted for me / then, as it did, I trust, for you in Corwen. / It was done, there could be no turning back. / The road for me ran on to Appomattox. / Yours may yet find Cardiff. We shall see'.¹²⁰ Prin yw defnydd Dressel o gyfeiriadaeth Feiblaidd, a gellir dadlau fod hyn yn cyfrannu at nod y gyfres o osod trywydd newydd i genedlaetholdeb yng Nghymru, ac yn sgil hynny, ymddihatrau o'r cysylltiadau crefyddol a fu ynghlwm wrth y mynegiannau o genedlaetholdeb yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r elfen ddwyfol, cawn bortread o Glyndŵr yma fel diplomat yn brwydro am weledigaeth i'w genedl ac yn gofyn i'r bobl ddilyn ei drywydd, a thrwy'r newid mewn pwyslais a thôn, cydnebydd Dressel fod angen rethreg newydd ar genedlaetholwyr er mwyn ennill y refferendwm ac i gymell eraill i bledio achos Cymru. Gellir dadlau fod y Glyndŵr a welir yn y cerddi hyn yn fynegiant o feddylfryd y cenedlaetholwr aeddfed, sydd â'r un daliadau ag o'r blaen ond sydd wedi caffael rethreg newydd. Gellir dadlau fod Dressel yn awgrymu Lee fel model ar gyfer portreadu Owain Glyndŵr – gŵr a oedd yn meddu ar weledigaeth ac ymroddiad i'w genedl, ond a oedd hefyd yn ddiplomat a fedrai gymodi'r elfennau diwylliannol y mae Lee a Glyndŵr am eu diogelu. Yr hyn sy'n anodd ei ddeall yn y cyswllt hwn yw daliadau Lee ynghylch atal y bleidlais i bobl ddu a'i ymwrthodiad â'r cynnig hwn fel rhan o'r cymod wedi'r rhyfel. Nid yw hyn yn cyfateb i'r adferiad diwylliannol a bleidiai Glyndŵr Dressel a Jones oherwydd ei fod yn seilieig ar hiliaeth.

Trafoda Glyndŵr yr hyn a allai fod wedi digwydd yn wahanol ym mrwydrau'r ddau

¹²⁰ *Ibid.*, t. 25.

arwr, ond mae persona Lee yn ei gerdd nesaf yn awyddus i ddweud nad yw am osgoi mater caethwasanaeth, ac esgusoda ei ddaliadau gan ddweud fod yr agwedd honno'n norm yn ei ddyddiau ef. Haera na fyddai'r Americanwr Affricanaidd wedi dioddef cymaint pe bai'r cyd-destun sosio-gymdeithasol wedi esblygu'n naturiol heb ddeddfau na rhyfel:

The world and a new
century would have so demanded, the better
men among us would have seen it done.
I doubt the black American would have suffered
more, had that been so, than was the dreadful,
hateful, case.¹²¹

Dyma honiad na ddylid ei wneud yn ysgafn oherwydd dengys tystiolaeth na fu i Lee bledio hawliau llawn i bobl ddu. Arddengys Dressel agwedd y 'Lost Cause' yma eto oherwydd ceisia arbed parch ac urddas achos y De ac ymylu'r lleisiau sy'n gofyn am le yr Americanaid Affricanaidd yn y darlun hwn o'r cyfarfyddiad rhwng Glyndŵr a Lee.

Nid yw cerdd olaf y gyfres yn trafod yn uniongyrchol ymateb Owain Glyndŵr o glywed fod ei genedl wedi pleidleisio o blaid datganoli, ond mae'r disgrifiadau o wanwyn yn dychwelyd i'r cerddi:

It was clear and cool, the sun still rising,
a clean breeze lifted through the green-leaved trees,
and looking up, he saw, beyond the town,
the western ridges washed with light.¹²²

Mae'r darlun o'r haul yn edrych tua'r gorllewin yn cyfeirio'n ôl at y gerdd yng nghyfres Ianws sy'n gobeithio gweld 'dydd dychwel yr haul'. Dychwela'r delweddau o wanwyn llawn addewid sy'n symbol o ddyfodol y genedl: 'Bore clir, clærwyn, a'r haul; wrthi'n codi / i olchi esgeiriau'r gorllewin â'i llif goleuni'.¹²³ Dyma

¹²¹ *Ibid.*, t. 29.

¹²² *Ibid.*, t. 31.

¹²³ *Ibid.*, t. 30.

ddisgrifiadau sy'n gwyrddroi'r darlun o'r crebachu a welwyd yng ngherddi Ianws:

Dwy wên dau debyg, dwysach na geiriau.
Gollyngir y fraich a sbardunir y cadfarch
i gario'r Cadfridog i dalaith ei chwedlau.
Ymsytha'r Tywysog tal yn ei gyfrwy,
cyn carlamu tua thref i ail-fyw ei chwedl.¹²⁴

* * *

Bu cydweithio rhwng Dressel a Jones ar sawl achlysur arall, yn fwyaf nodedig yn achos y pamffled yn cynnwys dwy gerdd, yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ôl eu patrwm arferol, o dan y teitl 'Rhubanau Dur / Ribbons of Steel'. Cyflwynwyd y ddwy gerdd yn y bamffled i 'bobl Llanelli yn y flwyddyn 2000'.¹²⁵ Darlunia'r gerdd daith Cymro o Lanelli i wlad yr addewid yn yr Unol Daleithiau a'i etifeddiaeth fel Cymro yn ei boced. Ni nodir beth oedd y broses o gydweithio y tro hwn, ond ymddengys mai trafodaeth sy'n debyg i'r broses yn achos *Wyneb yn Wyneb*, a esgorodd ar fersiynau tebyg yn y Gymraeg a'r Saesneg, a fu. Argraff a geir yn y gerdd o Americanwr yn cerdded stryd brysur ac yn mynd i mewn i siop sy'n llawn o hen bethau, ac yn dod ar draws addurn o hen fenyw Gymreig yn canu'r delyn:

The human figure on it
sits familiar, a lady, shawled, tall-hatted,

at a harp. Stark, bare hills rise up behind her,
and off to one side, as in tinny air,
a curving ribbon, like a horseshoe in ascent,
wraps round a ram's horn, and a date, 1930.

¹²⁴ *Ibid.*

¹²⁵ Jon Dressel a T. James Jones, *Rhubanau Dur / Ribbons of Steel* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000).

Says the ribbon: *Eisteddfod Genedlaethol Llanelli*.

Dyma adlais o'r gerdd 'Mawrth', sydd, fe gofir, yn disgrifio symbolau o'r traddodiad Cymreig a Chymraeg yn y siopau ac sy'n ffeiddio at y fateroliaeth fas. Gwelir newid agwedd sicr yn y gerdd hon, wrth i bersona'r gerdd gael ei atgoffa o'i wreiddiau Cymraeg a dychmygu'r Cymry a symudodd i'r Amerig i chwilio am waith yno. Yn hytrach na beirniadu'r cymathu, fel y gwelir yn Ianws, gwerthfawrogir y daith i fyd y freuddwyd Americanaidd yr ymgymeryd â hi gan yr holl grwpiau ethnig a'r cymhlethdod sydd ynghlwm â hynny:

Dod â'u breuddwydion hunllefus
i neuaddau dan sang Ynys Ellis,
a'u gwasgar i'r gorllewin gwyllt

i godi trefi unnos, a bwrw'u doniau,
drwy chwys a dagrau, ym melinau
gleision y barwniaid dur. Crynhoi,

o'u horiau meithion, gyfalaf hawliau
gweithiwr, ac o'i golli, ei adennill
mewn melin arall. Rhoi cyfoeth iaith

i'w plant, a'i morio hi mewn cymanfa
ac eisteddfod; marw, gan waddoli
sosban fach eu straeon crasboeth, berw'r

Pethe, ac atgofion fel dur, fel Llanelli,
fel Cymru'n ffrwtian.¹²⁶

Eir i'r afael â'r cymodi rhwng y waddol Gymraeg a hunaniaeth Americanaidd llefarydd y gerdd gan archwilio ei etifeddiaeth ddeuol. Mewn erthygl bwysig o'i eiddo ynghylch ei daith hunaniaethol, mae Dressel yn esbonio sut y synia ynghylch perfformio ei hunaniaeth gan ei fod yn teimlo bellach nad yw'r profiad o fod yn Gymro ac yn Americanwr yn fater o ddewis y naill neu'r llall, ond yn hytrach yn fater

¹²⁶ *Ibid.*, t. 4.

o'r ddeubeth yn cyd-fynd â'i gilydd, ac adeiladu ar ei gilydd:

We construct for ourselves an imaginative world which we find both satisfying and challenging, and which in some way is always changing...Both Wales and America are central to the structure of that world for me; in it Robert E. Lee coexists with Owain Glyndŵr, Cilmeri with Wounded Knee...We build such a world by selection, but if we select the best, it implies that we understand, and acknowledge, the worst. What hope I have for the future of Wales resides in the fact that there persists in some Welsh men and women a rich, complex and elevated vision, a Wales of the imagination, which will always be a better place than the Wales they must live in immediately, but which sustains their will to act.¹²⁷

Dengys y datganiad hwn sut y mae ei hunaniaeth fabwysiedig neu 'hunaniaeth ddewisol' yn ymwneud â'r dychymyg; gall y dychymyg ethol yr elfennau gorau o'r wlad honno gan gynnig seiliau hunaniaethol i'r unigolyn. Gwelir yn y fan hon fod Dressel yn parhau i anwybyddu'r rhan fwyaf o boblogaeth Cymru ac yn 'ethol' y dinasyddion Cymreig sy'n rhannu ei weledigaeth a'i ddelfrydau ef o Gymru ac mai'r dychymyg hwn a fydd yn cynnal y genedl, yn hytrach, efallai yr awgrymir, na chyfansoddiad.

Bu i T. James Jones ailymweld â thema hunaniaeth sawl tro ac mewn amryw ffyrdd. Mae'r cysyniad o 'amser' wedi bod yn nodwedd yn nheitlau ei gyfrolau - ystyrier *Eiliadau o Berthyn* (1991) a *Nawr* (2008) er enghraifft. Ceir ambell gerdd ganddo sy'n trafod y newidadau gwleidyddol a fu yng Nghymru; mae 'Cwm Hir', er enghraifft, a ysgrifennwyd ar Orffennaf 25, 2006, pan ychwanegwyd at bwerau Senedd Cymru, ac a gynhwyswyd yn y gyfrol *Nawr* yn ailymweld â thema'r haul yng nghyswllt datblygiad cyfansoddiadol Cymru: 'Heddiw mae'r haul yn hawlio'r awyr / ac adduned ei wên ar lechen lân / fy nghenedl'.¹²⁸ Dengys Jones yn ei waith diweddar ymwybyddiaeth fod y berthynas rhwng datganoli a'r Gymraeg yn fwy cymhleth nag yr oedd ei ymdriniaeth ei hun â'r pwnc yng ngherddi Ianws yn ei awgrymu. Rhan o'r cymhlethdod ychwanegol hwn yw ei benderfyniad ef i symud o gefn gwlad i'r ddinas. Mewn ysgrif dan y teitl 'Fy Ngherdd Bwysicaf a Pham', mae Jones yn rhannu ei

¹²⁷ Dressel, 'A Saloon of my Own', t. 58.

¹²⁸ T. James Jones, *Nawr* (Llandybie: Cyhoeddiadau Barddas, 2008), t. 26.

bryder ynghylch diflaniad tafodieithoedd, a'r erydu ar y Gymraeg fel iaith naturiol yn y bröydd traddodiadol Gymraeg. Teimla ei fod ef ei hun yn ymddieithrio oherwydd ei fod yn byw yng Nghaerdydd ac felly nid yw'n gallu cyfrannu i atal trai y Gymraeg. Fe'i disgirifia ei hun yn *Eiliadau o Berthyn* fel y 'mab-a'th-o-gartre / heb gau'r iete'.¹²⁹ Yn yr ysgrif, meddai Jones: 'Ac mae'r fro hithau, oherwydd y mewnlifiad trychinebus, yn prysur ddieithrio oddi wrthyf fi. Os caf fyw cyn hyned â Dat, a fydd rhaid i fi, ymhen rhai blynyddoedd, ddibynnu ar fap ordenans wrth ymweld â phlwyfi Cenarth a Chilrhedyn?'.¹³⁰ Gellir dadlau fod defnydd cynyddol o dafodiaith yng ngwaith Jones yn fynegiant o'i bryder ynghylch dyfodol yr iaith Gymraeg yn ei gymuned a hefyd yn gyfraniad tuag at amddiffyn a gwarchod y dafodiaith gynhenid honno, er nad yw'n byw yno.

Ni chafodd *Wyneb yn Wyneb* yr un effaith â cherddi Ianws oherwydd bod Ianws wedi llwyddo i gynrychioli'r siom ddofn a deimlai cenedlaetholwyr ethnig wedi i refferendwm 1979 fethu. Fodd bynnag, dywed M. Wynn Thomas i'r bartneriaeth ddwyieithog gynnig arweiniad i artistiaid i feddwl o'r newydd ynghylch y berthynas rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru. Medd Thomas:

In retrospect, the *Ianws* translation/collaboration may seem prophetic in quite another sense, appearing to prefigure, in its very form if not in actual intent, a period of rebuilding alliances between the two linguistic cultures of Wales. This was a painful process but it effected a gradual change in the political climate that found important expression in the new Welsh Language Act of 1993.¹³¹

¹²⁹ Jones, *Eiliadau o Berthyn*, t. 32.

¹³⁰ T. James Jones, 'Fy Ngherdd Bwysicaf a Pham', *Barddas*, 285 (Tachwedd/Rhagfyr 2005/2006), t. 33.

¹³¹ M. Wynn Thomas, 'The Good Thieves? Translating Welsh Literature into English', *Corresponding Cultures: The Two Literatures of Wales* (Cardiff: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), t. 144.

Pennod 2

Hunaniaethau Dewisol: Twm Morys a Jan Morris

Awdur toreithiog a theithwraig fyd-eang yw Jan Morris. Fel gohebydd i bapurau newydd Llundain ac yna fel awdur taith, mae ei golygon yn rhyngwladol, ond, ochr yn ochr â hynny, gwnaeth benderfyniad ymwybodol i'w phortreadu ei hun yn ei gwaith a'i datganiadau cyhoeddus fel Cymraes, ac ymroi i hunaniaeth Gymreig. Dadleuodd Katie Gramich y gellir cymhwyso at hunaniaeth Jan Morris y diffiniad hwnnw o 'hunaniaeth ddewisol' a geir gan Mike Savage yn y gyfrol *Globalization and Belonging*.¹ Mae 'elective belonging' meddai Savage, yn golygu:

belonging not to a fixed community, with the implications of closed boundaries, but is [something] more fluid, seeing places as sites for performing identities. Individuals attach their own biography to their 'chosen' residential location, so that they tell stories that indicate how their arrival and subsequent settlement is appropriate to their sense of themselves.²

Yn ei hysgrif, dywed Gramich nad yw hunaniaeth genedlaethol sydd wedi ei seilio ar ddewis personol yn syniad newydd: dyma fath amgen o hunaniaeth i'r math hwnnw sy'n seiliedig ar hil, ethnigrwydd neu ach. Dyma hunaniaeth sy'n seiliedig ar yr egwyddor o ddewis ar ran yr unigolyn – cysyniad sydd wrth wraidd nifer o theorïau diweddar ynghylch cenedlaetholdeb sy'n pwysleiso natur ddychmygol cymuned a chenedl, a'r modd y gall allanolyn wneud penderfyniad ymwybodol i ymroi i hunaniaeth genedlaethol arbennig.³ Dengys Gramich sut y bu i awduresau (Anne Beale a Kate Bosse-Griffiths ymhlith eraill) nad oeddent o Gymru yn wreiddiol fynd ati i'w sefydlu eu hunain fel ysgrifenywyr Cymreig: 'These overt demonstrations of the

¹ Katie Gramich, "'When I came hither, a stranger": Women Writers and Elective Welsh Identities', papur anghyoeddedig a gyflwynwyd yn WISCA, Prifysgol Bangor, 2008.

² Mike Savage *et al.*, *Globalization and Belonging* (London: Sage Publications, 2005), t. 29.

³ Benedict Anderson, *Imagined Communities* (London: Verso, 1983), t. 6.

way in which individuals construct an imagined community, can, I think, tell us a great deal about the political and cultural Zeitgeist'.⁴

Yn wir, awgryma Gramich fod hunaniaeth ddewisol yn berthnasol i Morris mewn sawl ystyr. Ganed James Humphrey Morris yng Ngwlad yr Haf yn 1926, ei dad yn Gymro a'i fam o Loegr. Cafodd fagwraeth gonfensiynol ddosbarth-canol uwch Seisnig: bu iddo fynychu ysgol fonedd; cafodd hyfforddiant milwrol yn Sandhurst; gwasanaethodd yn y Royal Lancers ac yna astudio Saesneg yn Rhydychen. Caiff ei yrfa gynnar ei nodweddu gan yr hyn a eilw Gramich yn 'exaggerated maleness and by its central concern with Britishness and the Empire'.⁵ Morris oedd y newyddiadurwr cyntaf i adrodd fod mynydd Everest wedi ei goncro yn y 1950au, ac mae ei *magnum opus*, trioleg *Pax Britannica*, yn croniclo hanes yr Ymerodraeth Brydeinig o 1837 tan y 1960au. Fodd bynnag, tanseiliwyd y ddelwedd o'r gwryw hwnnw a oedd yn ymgawdoliad o ddyheadau Prydeindod, ac a oedd yn briod a chanddo pump o blant, gan ei gyfrol hunangofiannol, *Conundrum* (1974), a ddatgelodd yr awydd a fu ganddo drwy gydol ei fywyd: '[to] escape from maleness into womanhood'.⁶

Ysgrifennodd Jan Morris nifer o lyfrau am Gymru a Chymreictod yn ystod ei gyrfa, ac yn ychwanegol at hynny, cyfrannodd at amryw o drafodaethau gwleidyddol a diwylliannol yn ei gwaith a hefyd fel ffigwr cyhoeddus. Pan fydd Morris yn trafod Cymru neu ei Chymreictod, gwna hynny mewn termau rhamantaidd yn aml iawn, gan bwysleisio'r syniad o berchnogaeth a'r synnwyr o berthyn a rydd Cymru iddi. Er enghraifft, meddai yn *The Matter of Wales*: 'everything I have described in this book belongs to me, as it belongs to all the Welsh who recognize it'.⁷ Noda Gramich i Morris dderbyn ymateb misogynistaidd gan y wasg yn Llundain i'w gwaith ysgrifenedig wedi iddi newid ei rhyw, yn arbennig felly yng nghyswllt sylwadau sy'n sarhau ei chynnyrch ar sail y ffantasiau Celtaidd a amlygwyd yn ei gwaith fel benyw.⁸ Yn hyn o beth, cred Gramich mai strategaeth ar ran Morris yw'r datganiadau

⁴ Gramich, "'When I came hither, a stranger": Women Writers and Elective Welsh Identities', t. 1.

⁵ *Ibid.*, t. 12.

⁶ Jan Morris, *Conundrum* (London: Faber and Faber, 1974; argraffiad newydd, 2002), t. 7.

⁷ Jan Morris, *The Matter of Wales* (Harmondsworth: Penguin, 1986), t. 45.

⁸ Gramich, "'When I came hither, a stranger": Women Writers and Elective Welsh Identities', t. 13.

rhamantaidd hyn er mwyn sefydlu ei hunaniaeth o'r newydd fel benyw ac awdures Gymreig:

Jan Morris's construction of herself as a Welshwoman can be seen as an overt and defiant escape from maleness, from Britishness identified with vestiges of Empire, and from a prefabricated class position which brought with it both privileges and restrictions.⁹

Os nodweddyd ei gyrfa fel dyn ar lun awdur a oedd yn ysgrifennu ar ran yr ymerodraeth, mae'r cyfnod dilynol yn un lle gwelir Morris yn troi hyn ar ei ben ac yn ysgrifennu bellach 'yn ôl at y canol', a mabwysiadu term Ashcroft, Griffiths a Tiffin, theorïwyr ym maes theori ôl-drefedigaethol.¹⁰ Gellir gweld peryglon yn nadl Gramich yn yr ystyr ei bod yn awgrymu fod newid hunaniaeth rhyw yn esgor ar newid o ran hunaniaeth genedlaethol. Fodd bynnag, nid dyna a awgrymir ond yn hytrach y modd y'i cyflwyna Morris ei hun yn fwy amlwg fel awdures Gymreig ar ôl newid ei rhyw. Ymhellach, awgrymir gan Morris ei hun fod newid rhyw yn weithred sy'n ymestyn y tu hwnt i'r corff: 'In my mind it is a subject far wider than sex: I recognize no pruriency to it, and I see it above all as a dilemma neither of the body nor of the brain, but of the spirit'.¹¹ Mater ysbrydol yw ei hunaniaeth i Morris, felly, a thrwy gael y rhyddid i fynegi ei hunaniaeth fenywaidd fe'i rhyddheir hefyd i ailddyfeisio ei hunaniaeth genedlaethol yn ogystal.

Mae prosiect barddol mab Jan Morris, Twm Morys, wedi ei wreiddio'n llwyr yn y traddodiad llenyddol Cymraeg. Cafodd ei ei eni yn Rhydychen, ond ei fagu yng nghartref y teulu, Trefan, yn Llanystumdwy, Eifionydd, a thafodiaith yr ardal honno sy'n nodweddu ei waith. Fe'i haddysgwyd mewn ysgol fonedd yn Amwythig, ond astudiodd ar gyfer ei Lefel A yn y Gymraeg yn Ysgol Gyfun Aberhonddu, ac yno fe ddysgwyd iddo gynganeddu gan yr athro Cymraeg, Arwyn Evans. Astudiodd y Gymraeg a'r Llydaweg yn Aberystwyth, a mynd ati i ymchwilio i faes y canu dychan yn Llyfr Coch Hergest wedi hynny. Cyhoeddodd hyd yma ddwy gyfrol, sef *Ofn Fy*

⁹ *Ibid.*, t. 14.

¹⁰ Gweler teitl llyfr Bill Ashcroft, Gareth Griffiths a Helen Tiffin, *The Empire Writes Back: Theory and Practice in Post-Colonial Literatures* (Abingdon: Routledge, 1989). Cydnabyddant mai eiddo Salman Rushdie yw'r ymadrodd 'the Empire writes back to the Centre'.

¹¹ Morris, *Conundrum*, tt. 6-7.

Het (1995) a 2 (2002), a bu'n rhan o nifer o deithiau barddol o amgylch Cymru a thu hwnt, gan gynnwys taith i Dde America ar y cyd ag Iwan Llwyd a esgorodd ar gyfres deledu a chyfrol, *Eldorado: Llwybrau Dau i Le Diarth* (1999). Yn ogystal, bu'n cynnal sawl colofn mewn cylchgronau megis *Barddas* a *Taliesin*, ac ym mhapur wythnosol *Y Cymro*. Y mae hefyd yn ganwr adnabyddus ac yn brif leisydd y band gwerin Bob Delyn a'r Ebillion.

Ni fu i Twm Morys ethol hunaniaeth ar sail iaith, felly, oherwydd cafodd ei fagu mewn cymuned iaith Gymraeg. Serch hynny, mae'n ddewis ymwybodol ganddo fabwysiadu persona neu bersonâu sy'n tynnu ar nifer fawr iawn o elfennau o'r traddodiad llenyddol Gymraeg, gan greu'r hyn a eilw Sioned Puw Rowlands yn estheteg 'sgwarnogrwydd' yn ei ysgrifau,¹² ac fe ellir dadlau fod yr egwyddorion hynny'n ymestyn trwy ei broiect barddol cyfan. Drwy ei estheteg farddol, cais greu byd neu 'ddychymyg' sy'n drwyadl Gymraeg yn ei dyb ef, ac felly'n fyd cyferbyniol, amgen, i'r diwylliant mwyafrifol sy'n bygwth y Gymraeg. Er nad yw Twm Morys yn ymateb yn benodol i ddatganoli, mae ei gonsŷrn ynghylch dyfodol y Gymraeg a chymunedau Cymraeg yn y cyfnod ar ôl datganoli yn ganolog i'w ddatblygiad fel bardd.

Yn y bennod hon astudir taith hunaniaethol Twm Morys yn bennaf, gan archwilio agweddau ar yrfa Jan Morris fel sylwebydd gwrthbwyntiol yn y cyswllt hwn. Rhydd y strwythur hwn gyfle i ymchwilio i'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt fel pâr teuluol. At hyn, byddir yn dilyn datblygiad gyrfa Twm Morys o'i rôl fel 'clerwr' i'w ddewis i ymroi i rôl y bardd gwlad radicalaidd.

* * *

Cyhoeddwyd cyfrol gyntaf Twm Morys, *Ofn fy Het*, yn 1995. Cyn cyhoeddi'r llyfr, roedd wedi ennyn sylw iddo'i hun fel bardd crwydrol, a oedd yn mabwysiadu delwedd y clerwr. Gellir dweud ei fod wedi llwyddo i greu 'myth' o'i bersona barddol

¹² Sioned Puw Rowlands, *Hwyaid, Cwningod a Sgwarnogod: Estheteg Radical Twm Morys, Vaclav Havel a Bohumil Hrabal* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), t. 39.

a oedd yn berfformiad parhaus. Er hyn, nid yw Nia Heledd Jones o'r farn fod label y clerwr yn gwneud cyfiawnder â Twm Morys: 'Fodd bynnag, pan ystyrir cyfraniad Twm Morys i farddas Cymru yn ei grynswth, gwelir ar unwaith ei fod yn deitl diffygiol ac annigonol. Mae ei awen yr un mor amrywiol ac amlweddog â'i ddelwedd gyhoeddus'.¹³ Amlygir y pwynt hwn yn y gyfrol *Ofn fy Het*, oherwydd cyflwynir cymysgedd o gerddi yn y mesurau caeth a rhydd, yn ogystal â geiriau caneuon ei bersona wrth berfformio gyda'r band Bob Delyn a'r Ebellion. Drwy gyfosod y cerddi hyn oll yn yr un gyfrol, mae'n cyfuno ei ymlyniad wrth y traddodiad barddol ag agweddau mwy cyfoes-boblogaidd, ac o ganlyniad caiff y ffin rhwng ffurfiau a chonfensiynau ei niwlogi gan y cymysgedd o arddulliau a ffurfiau. Nid cyfosod *genres* yn unig sy'n peri i'r ffiniau gael eu chwalu, ond y cyfosodiadau rhwng y gwahanol bersonâu gan yr un awdur sy'n eu hamlygu eu hunain yn y gyfrol.

Nid cywyddau hir a gawn yn y gyfrol, ond rhai cryno a phwrpasol i ddisgrifio teimlad byrhoedlog neu brofiad a myfyrdod sydyn. Un o'r cerddi byr hynny yw 'Y Cwm':

Rwy'n ei weld rŵan o hyd,
y fuwch a'r llo'n cilfachu
dan y derw, a'r erw irwair,
rhai'n gwag-swmera'n y gwair,
llawr cwm oll a'r caeau mân
llafurfawr nawr yn arian,
nawr yn aur... tithau'r teithiwr,
be' weli di, heblaw dŵr?¹⁴

Cywyddau anghonfensiynol o fyr sy'n nodweddu'r gyfrol. Mae'n eironig ar un wedd mai'r teithiwr yw gwrthrych y sinigiaeth yn y gerdd hon, o ystyried fod Jan Morris wedi creu gyrfa o ysgrifennu am ei phrofiadau o deithio a dadansoddi'r llefydd yr ymwelodd â hwy. Ergyd y gerdd yw mai dim ond Cymro a all edrych ar fannau fel Tryweryn a deall eu harwyddocâd cenedlaethol, ac na all y teithiwr amgyffred hynny wrth basio heibio. Dyma arwyddion yn gynnwys yn y gyfrol o safbwynt y gellir ei hystyried yn amddiffynnol ar ran Morys tuag at Gymru a'r Gymraeg. Gellir edrych ar

¹³ Nia Heledd Jones, 'Canu Poblogaidd Diweddar', Traethawd Ph.D. (Prifysgol Cymru, Bangor: 1997), t. 240.

¹⁴ Twm Morys, *Ofn fy Het* (Llandybie: Cyhoeddiadau Barddas, 1995), t. 18.

y gerdd hon fel enghraifft hefyd o'r ffordd y mae'r bardd yn defnyddio iaith lafar yn ei gerddi, iaith ddealladwy â meistrolaeth gadarn ar y gynghanedd, i dynnu'r geiriau pwrpasol at ei gilydd. Yn ei gyflwyniad i *Ofn fy Het*, mae'r Athro Neil Sagam - sef dyfais a ddefnyddia'r bardd i'w ddychanu ei hun drwy gyfrwng defnydd o bersona ysgolhaig ffug - yn diffrïo bwriad y bardd yn hyn o beth: 'Yn wir, rhyw Gymraeg llafar, yn frith o eiriau sathredig a chwbl anfarddonol y byddai hyd yn oed clown o Gaernarfon yn eu deall, yw iaith ei gerddi, mwy na neb'.¹⁵

Mae canu serch yn nodwedd gyson ar y gyfrol *Ofn fy Het*, fel y cywydd 'Dod', a egyr ag adleisiau erotig. Defnyddir y gynghanedd i fynegi gorffwylltra'r bardd wrth iddo ddychmygu lle mae ei gariad ('rwyt ti mewn bar ym Mharis, / rwyt ti'n noeth ar iot yn Nice'). Drwy gyfrwng sŵn y llinellau, disgrifia'r brys sydd arno i deithio i weld ei gariad gan gyfeirio at Guto Nyth Brân a Sgilti Sgafndroed (o chwedl Culhwch ac Olwen) wrth geisio mynegi ei awydd i deithio'n gyflym at ei gariad:

Dros lyn du, dros lan dywyll,
drwy fwg yr hen drefi hyll,
heb ddim maen-tramwy imi
ond hwylbrennau llongau'r lli,
yno y dof yn union deg,
o gael traed Sgilti i redeg.¹⁶

Yn ôl Nia Heledd Jones, syrthia'r canu serch i gategori neu bersona y trwbadŵr, syniad a gaiff ei gefnogi gan y cyswllt a wneir rhwng teithio a serch, gan adleisio canu serch Dafydd ap Gwilym. Yn yr awdl 'Y Môr', disgrifir ymateb Cymraes ifanc i'w chariad o Lydaw sy'n ei gadael i fagu'r plentyn ar ei phen ei hun. Llwyddir i gyfleu eu perthynas stormus drwy gynnal y ddelwedd o'r môr drwy'r gerdd, delwedd sy'n gweithredu fel cerbyd i'r syniad o daith y cariadon o'r gwirioni cyntaf, i'r sgwrsio drwy'r nos a'r meddwi, ac yna'r gwahanu. Er mwyn cryfhau'r syniad o daith ar y môr, llunia Twm Morys resi o doddeidiau yn hytrach na'r ffurf hir a thoddeidiau mwy cyfarwydd a disgwylidig. Cyflenwa'r ddyfais hon rythm sy'n awgrymu tonnau'r môr ac sy'n llwyddo i gyfleu elfen o fudolrwydd. Defnyddir iaith lafar a

¹⁵ *Ibid.*, t. 8.

¹⁶ *Ibid.*, t. 25.

phytiau o sgysiau o bryd i'w gilydd, gan ddangos sut y gellir ffurfio cerdd grefftus sy'n harneisio idiom gyfoes, fywiog:

Ei law yn fy nwylo i – hyd y nos,
A'r llaw yn aros, a'r lle'n oeri,
A 'Duwcs, gad i'r hen dacsî – fynd yn wag.
Daw hi'n ola' gyda hyn, yli'¹⁷

Mae'r sgwrs a'i hiaith lafar yn llwyddo i fywiogi'r dweud, yn enwedig wrth chwarae â synau fel 'Duwcs' a 'dacsî'. Caiff y môr, sy'n drosiad estynedig o deimpladau'r ferch, ei gynhyrfu gan eiriau ei chariad, ac fe deimla 'ias' serch nwydus wrth iddi sylweddoli iddi gael ei thynghedu i gyrraedd y man hwn:

A sŵn y traeth fel sŵn trê – rhagluniaeth,
A ias o hiraeth wrth weld seren.
Dim lol, dim siarad am lôn – hynafiaid,
Ond bwrw enaid fel bonclust Branwen.¹⁸

Mewn erthygl yn y cylchgrawn *Taliesin* cyflwyna Twm Morys y gerdd, cyn cyflwyno dadansoddiad Yr Athro Neil Sagam o'r gwaith. Drwy gyfrwng persona'r Athro, dychenir gorddadansoddi honedig y byd academiaidd a'r gagendor y cred y bardd y mae ysgolheictod yn ei achosi - un sy'n symud cerddi'n rhy bell o'u cynefin naturiol. Amlygir y dychan drwy gyfrwng cyfrol newydd Neil Sagam, sef '*Sick with Bardic Boredom*',¹⁹ ac aiff yr Athro ati i ymchwilio i ystyr 'reusennau': "'Spliffsan" neu "joint" o'r hyn a elwir yn fariwana yw'r ystyr, meddant i mi. Dim ond dweud yr wyf, nid cefnogi ymgymryd â chyffuriau'.²⁰ Serch hynny, cyfyd amwysedd ynghylch persona'r ysgolhaig mewn rhai manau wrth i lais y bardd ei ddatgelu ei hun. Wrth drafod y dyfyniad uchod o'r gerdd, mae'r Athro Sagam yn gorddadansoddi wrth ddefnyddio ei wybodaeth am fywyd y bardd, ond yna cawn glywed llais y bardd ei hun wrth ddadansoddi arwyddocâd 'bonclust Branwen', yn enwedig yn nhelynegrwydd y cymal 'fel petai hanes ei hun yn gwrlid amdanynt':

¹⁷ *Ibid.*, t. 71.

¹⁸ *Ibid.*

¹⁹ Twm Morys, 'Môr Mari', *Taliesin*, 91 (Hydref 1995), t. 75.

²⁰ *Ibid.*, t. 81.

Cofiaf i'r bardd sôn wrthyf fel na fu dim sôn am hanes yr iaith na dim rhyngddo ef a'i gariad Lydaweg pan oeddent yn snogio yn y caeau yn ystod mardigra Douarnenez flynyddoedd yn ôl. Ond yn Llydaweg a Chymraeg yr oeddent yn siarad, ac yr oedd hynny fel petai hanes ei hun yn gwrlid amdanynt. Credaf fod y cyfeiriad trist at 'fonclust Branwen' i fod i gyfleu, nid yn unig hynny, ond hefyd bod pethau mawr yn aml o dan ryw sgwrsio arwynebol.²¹

Defnyddia Morys bersona Yr Athro Neil Sagam fel ffordd o esbonio ei waith yn ogystal ag fel strategaeth (hunan)ddychanol, gan ei fod yn teimlo fod angen esbonio'r gyfeiriadaeth a'r amryfal haenau ystyr yn y gerdd. Mae yma awydd i esbonio crefft a negeseuon y gerdd, ond wrth wneud hyn drwy gyfrwng persona ffug na ellir ymddiried yn llawn ynddo, llwydda'r bardd i ddianc rhag gafael y darllynydd unwaith yn rhagor.

Amlygir motiff 'y cof' yn gyson yng ngwaith Twm Morys, ac yn awdl 'Y Môr' gwelir arwyddion cynnar o'r syniad hwn o gof Cymro, sef sut y cyfeiria'r bardd at yr hyn a dybia sy'n feddylfryd Cymreig neu Gymraeg:

Ond mae'r co', yn Gymro i gyd,
Yn mynnu gweld bob munud
Frân yn lle gwylan, a gwell
Ydi'r eithin na'r draethell.²²

Mae motiff y cof yn arwyddocaol iawn yng nghyd-destun canu caeth yr ugeinfed ganrif, ac yn benodol yng ngwaith Gerallt Lloyd Owen. Defnyddia Owen y syniad o'r cof dro ar ôl tro yn ei waith er mwyn pwysleisio fod rhaid magu ymwybyddiaeth o 'Gof' cenedlaethol – ymwybod torfol â hanes cenedl a'r aberth wrth wraidd hynny - er mwyn annog cenedlaetholdeb gweithredol. Dywed Jerry Hunter wrth drafod awdl Owen, 'Cilmeri', a'r llinell enwog honno o'r gerdd, 'Maen y cof yn miniocáu': 'Rhan bwysig o'i ganu gwleidyddol yw'r dybiaeth mai *cofio* hanes y genedl yw'r cam cyntaf ar lwybr cenedlaetholdeb, ac felly mae'r awdl hon yn tanlinellu pwysigrwydd cofio

²¹ *Ibid.*, t. 82.

²² Morys, *Ofn fy Het*, t. 72.

fel gweithred sydd yn esgor ar weithredoedd eraill'.²³ Yn y dyfyniad uchod o'r gerdd 'Y Môr', fodd bynnag, ceir golwg sinigaidd ar y cof Cymraeg gan Morys gan fod cof y Cymro yn mynnu gweld ochr besimistaidd. Gwendid y cof i Morys yw tuedd y Cymro i ddehongli pethau o safbwynt negyddol yn hytrach nag yn gadarnhaol.

Amlygir motiff y cof yn ei awdl fuddugol yn Eisteddfod Meifod 2003, 'Drysau', lle disgrifir bachgen sy'n casglu trolïau mewn archfarchnad sydd wedi colli'r 'co' Cymraeg, sef hanes ei fro a'r diwylliant y bu ei deulu'n rhan ohono. Breuddwydion America sy'n mynd â'i fryd:

Ydi o'n un ohonyn nhw,
â'i fathodyn un enw?
Mae'r cap o America,
mae'r co'n Americana;
nid oedd sioe a gydiodd, siŵr,
cyn bod Americanwr.
Dyna yw byw'r dynion bach,
heb ail enw, heb linach.²⁴

Os oedd y cof yn hwb i'r milwyr frwydro yn awdl 'Cilmeri', brwydr seicolegol a gaiff ei harwyddo gan y cof yng ngwaith Morys. Bellach, y mae'r cof wedi ei goloneiddio ac mae'r angof yr oedd Owen yn ceisio amddiffyn y Cymry oddi wrtho yn realiti. Dyma'r realiti sy'n arwain at gri Morys i agor drws Aberhenfelen er mwyn i'w gyd-Gymry ddeffro i argyfwng y sefyllfa. Er bod y gerdd yn pwysleisio bod angen gweithredu er mwyn lleddfu effeithiau'r mewnllifiad i Wynedd, craidd y broblem yn ôl Morys yw gwamalrwydd seicoleg y Cymry. Trawsffurfir motiff y cof gan Morys, felly: lle'r oedd Gerallt Lloyd Owen yn defnyddio'r cof mewn termau amddiffynnol yn achos tir ac iaith Cymru, ac yn drosiad ar gyfer yr angen i gofio er mwyn gallu gweithredu, mae Morys yn gweld y cof fel lleoliad y frwydr ei hun yn erbyn coloneiddio. Gellir dadlau fod Twm Morys yn creu'r motiff hwn o 'gof cenedl' mewn ymgais i amddiffyn y meddwl a'r dychymyg Cymreig yn erbyn coloneiddio seicolegol parhaus (nid daearyddol yn unig) y diwylliant Eingl-Americanidd. Ei nod

²³ Jerry Hunter, 'Maen y Cof a'r Gofeb Fydryddol', *Barn*, 410 (Mawrth 1997), t. 58.

²⁴ J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Meifod a'r Cyffiniau 2003* (Llandybïe: Gwasg Dinefwr dros Lys yr Eisteddfod Genedlaethol, 2003), t. 12.

yw dweud fod yna ddychymyg Cymraeg, neu ‘ffordd’ Gymraeg o weld y byd, ac ynghlwm â hynny y mae ymwybyddiaeth o holl hanes a diwylliant y genedl. Strategaeth wrthdrefedigaethol sydd yma, felly, sy’n gorseddu meddylfryd diwylliannol Cymraeg fel y norm yn erbyn metanaratif y byd, sy’n bygwth llygru’r ‘cof’ yn nhyb Morys.

Ceir yn y gerdd ‘Y Môr’ gyfeiriadau at ddiwylliant poblogaidd hefyd, fel y sylwa’r Athro Sagam. Mae’r llinell ‘Dros y bŵts o ledar Sbaen’,²⁵ er enghraifft, yn cyfeirio at ‘boots of Spanish leather’ mewn cân gan Bob Dylan – delwedd y dychwel Morys ati’n gyson yng nghaneuon Bob Delyn a’r Ebillion. Dyma enghraifft o’r bardd yn cymhwyso at ei ddefnydd a’i ddiwylliant ei hun agwedd ar y diwylliant poblogaidd Eingl-Americanaidd. Daw’n rhan o gynhygaeth naturiol a Chymreigrwydd ei ganu. Yn yr un modd, mae’n benthg llinell o ganeuon Bob Delyn – llinell sydd hefyd yn adleisio’r Hen Benillion: ‘A ninnau’n gwllwm yn ein gilydd’.²⁶ Dengys y gyfeiriadaeth at y gwahanol ddiwyllianau poblogaidd a thraddodiadol awydd Twm Morys i greu cerddi sy’n agor haenau newydd o ystyron a chysylltiadau ond sydd hefyd yn defnyddio traddodiad a gwybodaeth ddiwylliannol i gynhyrchu deunydd newydd. Drwy gyfosod a chymysgu, llwydda i adfywio’r traddodiad a’i wneud yn gyfoes. Meddai Dafydd Johnston:

Y nodwedd ôl-fodernaidd fwyaf amlwg yng ngwaith Twm Morys yw’r ysbryd chwareus, y duedd i barodïo, i gymysgu cyweiriau ac i greu pastiche. Y cyfosod annisgwyl, swrreal, yw ei ddilêit a’i nod amgen...Nid ymwrthod â thraddodiad a wna’r ôl-fodernydd, ond ei dderbyn yn llawen a’i drin yn wamal.²⁷

Strategaeth y bardd yw dewis a dethol yn graff pa elfennau i’w cynnwys yn ei gynhygaeth o’r traddodiad Cymraeg, gan dynnu ar y Cywyddwyr a’r hen benillion, er enghraifft, yn ogystal ag ar Bob Dylan o’r diwylliant Eingl-Americanaidd. Er bod y syniad ynghylch y ‘cof’ Cymraeg yn awgrymu rhywbeth unffurf, puryddol, caiff hynny ei danseilio gan ddefnydd y bardd o gyfeiriadaeth at y traddodiadol a’r poblogaidd, y defnydd o’r iaith lafar a’r modd y cyfosodir gwahanol ffurfiau a *genres*

²⁵ Morys, *Ofn fy Het*, t. 22.

²⁶ Morys, ‘Môr Mari’, t. 84.

²⁷ Dafydd Johnston, ‘Adolygiad: *Ofn fy Het*’, *Taliesin*, 94 (Haf 1996), t. 119.

barddol. Allan o'r *pastiche* hwn, creïr naratif sy'n fytholegol ei naws ac eto'n gyfoes ei thestun a'i hymdriniaeth. Ar ddiwedd awdl 'Y Môr', mae'r chwalfa rhwng y ddau gariad yn atseinio yn y gynghanedd:

Nofiais efo chdi'n ufudd, – a'r lli gwyn
Yn chwalu'n ewyn gan dy awydd,
Ac fel mellt hyd bennau gelltydd – y lli,
Trewaist fi, nes i'r llenni llonydd
Rwygo'n don ac yn adenydd – llachar,
A bwrw adar hyd dy barwydydd.²⁸

Clywir rhythm y môr unwaith eto, ac mae sŵn y llinellau yn darlunio natur stormus ac angerdd y berthynas, gan greu darlun graffig o berthynas y Gymraes a'r Llydäwr.

Ceir amrywiaeth o ganu dychan yn y gyfrol *Ofn fy Het*. Ymgais i ddychanu ffigur y beirniad yw 'Y Dryw', drwy ei ddarlunio fel dryw bach a gaiff ei rostio gan y bardd: 'Dyna'i frest / Yn frown gan y menyn, / A dyna'i big du'n y bin'.²⁹ Ceir canu swrreal hefyd megis yn y cwpled hwn o'r gyfres o ddiarhebion: 'Daw adeg y dywedwn / I beth y prynasom fabŵn?'.³⁰ Mae'r gyfres hon o ddiarhebion digrif yn gwyrddroi ein disgwyliadau ynghylch difrifolwch diarhebion, gan chwarae â'r cysyniad o arucheled ac o ddoethineb cynhenid sy'n gysylltiedig â thraddodiad (neu lenddull) y ddihareb. Fel y dywedir ar ddiwedd yn y ddihareb olaf yn y gyfres, yn eiconoclastig-ddoniol, 'Pwy wâd y ddihareb hon? / Rybish yw diarhebion'.³¹

Cyfranna'r amrywiaeth o ran tŷn, ffurf ac arddull yn y cerddi at lunio delwedd o fardd anwadal, un na ellir bod yn sicr beth i'w ddisgwyl nesaf oddi wrtho. Serch hynny, mae o hyd yn perfformio ei bersona gan fynegi hunaniaeth Gymraeg sy'n coleddu traddodiad ond sydd hefyd yn ei radicleiddio drwy gymysgu deunydd a chonfensiynau.

²⁸ Morys, *Ofn fy Het*, t. 74.

²⁹ *Ibid.*, t. 30.

³⁰ *Ibid.*, t. 33.

³¹ *Ibid.*

Yn y cyswllt hwn y mae'n werth tynnu sylw at y gerdd 'Y Clerwr Ola', sy'n sôn am yr hiraeth am ffordd o fyw a dawn goll y clerwr sydd wedi marw. Edmygir y myth sy'n amgylchynu ffigwr y clerwr a'i boblogrwydd: y mae yna, chwedl y gerdd, 'fil yn dod i fynd â'r hedydd adre' – sef i'w fedd. Mae 'mwrllwch mawr' ar ei ôl, a darlunnir cariad y clerwr yn galaru amdano'n wyllt. Fel y dywed y llefarydd:

O na fasen ninnau'n cael dy ganlyn
a hel y siwrwd sêr yn ôl i'r sach
a chlywed eto'r dwylo ar y delyn,
dy weld di'n codi megis cawr
a'r hen fyd mawr yn fach.³²

Y mae'r gerdd yn glytwaith o gywydd a phenillion sy'n tynnu ar arddull yr Hen Benillion ac yn llunio darlun hiraethus gan ddelfrydu'r clerwr a'r diwylliant poblogaidd Cymraeg a gynrychiolai. Y mae creu darlun o'r fath eto yn gysylltiedig ag adfywio'r cof am ddiwylliant o'r fath, ond y mae unrhyw awgrym o ramant yn cael ei danseilio gan y datganiad ar ddechrau'r gerdd fod y clerwr hwn wedi marw eisoes. Awgrymir ymwybyddiaeth y bardd o'i sefyllfa baradocsaid ei hun, sef ei fod ef fel bardd yn ceisio adfywio diwylliant y Clerwr er bod y diwylliant hwnnw wedi marw eisoes. Mewn ysgrif yn y gyfres 'Codi Sgwarnogod' yn *Taliesin*, daw'r awdur ar draws bedd dienw a dyfala pwy yw'r gŵr sy'n gorwedd yno: 'Ai trafaeliwr oedd o? Ai rhyw glerwr mewn bwtsias mawr o ledar Sbaen?'.³³ Y mae apêl i'r bardd yn y ffigyrau dienw hynny a fu'n cynnal y diwylliant Cymraeg ac yn rhamant y teithiwr sy'n symud o fan i fan. Mae'r ddelwedd 'bwtsias mawr o ledar Sbaen' yn cael ei hailadrodd gymaint ganddo nes ei bod yn datblygu'n fotiff, sy'n symboleiddio'r dull clerwrol o fyw y mae Morys ei hun wedi ei fabwysiadu.

Mae ysgrifau'r gyfres 'Codi Sgwarnogod' yn dadlennu llawer ynghylch strategaeth y bardd wrth berfformio persona'r clerwr ac amryw bersonâu arall. Ymhelaetha ar yr hyn a eilw'n 'ffordd y Sgwarnog', sef y dull o fyw y mae wedi gwneud dewis ymwybodol i'w ddilyn:

³² *Ibid.*, t. 54.

³³ Twm Morys, 'Codi Sgwarnogod', *Taliesin*, 84 (Gwanwyn 1994), t. 8.

y ffordd dwmpathog wibiog jibiog, oedd yr unig ffordd. Mi es i ar fy mhennau gliniau yn Eglwys Melangell, Santes y Sgwarnogod, yn drwm ac yn drist, ond mi godais yn llawn neidio, a mynd oddi yno i ddysgu ei henwau Hi – y Gwta, y Geinach, y Gâd, Oen Melangell, Dechrau Mul – ac i fyfyrion galed ar egwyddorion Sgwarnogrwydd – Meindrwyndod, Hirglustrwydd a Llamgarwch – nes bod y rheini'n rhan o'm natur innau. A'r mwya o'r rhai hyn yw Llamgarwch. Petai gen i goesau llyffant neu gangarw, a heb gen i lamgarwch, yr wyf fel malwan yn ymlusgo neu bry lludw yn ymlwybro.³⁴

Defnyddia'r ieithwedd Feiblaidd yn llawn hiwmor yma i gyfleu sut y mae wedi gosod 'Sgwarnogrwydd' yn batrwm i'w efelychu yn ei fywyd ei hun. At hyn, yn ddiweddarach yn yr ysgrif, mae'n chwarae â'r term 'llif yr ymwybod' drwy gynganeddu'r term, gan greu enwau eraill i ddychanu'r arddull: 'Llif yr ymwybod...Llyfr am Wybed...Leufer Wombat'.³⁵ Dyma ddwy enghraifft, felly, o amrywio a chyfuno cyweiriau. Mae dull Morys yn unigryw yn y ffordd y mae'n gwibio o un man i'r llall ac yn trafod sefyllfaoedd y mae'r bardd yn ei ganfod ei hun ynddynt, gan awgrymu ei argraffiadau yn hytrach na thrafod syniadau'n uniongyrchol. Y mae a wnelo hyn â chyfoeth a dyfeisgarwch cynhenid iaith, ac aiff ati i gymharu y Gymraeg a'r Llydaweg. Edmyga Morys Jul Gros sydd â 'Llydaweg mawr brethyn brasyn',³⁶ gan dynnu sylw at iaith idiomatig y Llydawyr fel 'Mae'r dŵr wedi dod ar ei melinau'. Er bod gan y Gymraeg ei chyfryngau ei hun, mae wedi colli'r priod-ddulliau ac yn troi tuag at idiomau Saesneg; 'a chyflwynwyr radio, a holl gyfoeth ymadrodd y Gymraeg ar eu tafodau nhw, fel easy peasy lemon squeezy'.³⁷ I'r bardd, felly, mae arddull iaith yn cynrychioli meddylfryd a hunaniaeth genedlaethol, ac mae colli safon yr iaith a rhywiogrwydd y Gymraeg yn golygu fod y meddwl Cymraeg yn cael ei lygru gan y diwylliant Eingl-Americanaidd. Mae'r estheteg Sgwarnogaidd hon, felly, yn ffordd i'r bardd berfformio ei ddehongliad ef o'r meddylfryd Cymraeg, a chreu gwrthbwynt i'r diwylliant Saesneg: 'A thoc dyma fi'n mynd i 'nghwrcwd yn dynn dynn fel sbring, ac yn llamu fel Sam bedyddiol i'r awyr, ac yn hedfan am hydoedd. Mi ddois i lawr yng Ngwent, wrth ochor Carw Rhedynfre,

³⁴ Twm Morys, 'Codi Sgwarnogod' *Taliesin*, 80 (Ionawr/Chwefror 1993), t. 7.

³⁵ *Ibid.*, t. 8.

³⁶ Morys, 'Codi Sgwarnogod', *Taliesin*, 80, t. 10.

³⁷ *Ibid.*, t. 12.

y cynta o Dri Hynaif Byd'.³⁸ Yn y cyswllt hwn mae Carw Rhedynfre wedi colli ei Gymraeg ac yn cynnig darlun trist o ardaloedd lle collwyd yr iaith: 'Sorry about the Cwmrâg. My grand-daughter speaks it like'.

Yn ei chyfrol *Hwyaid, Cwningod a Sgwarnogod: Estheteg Radical Twm Morys, Vaclav Havel a Bohumil Hrabal*, mae Sioned Puw Rowlands yn dangos sut y mae Twm Morys, trwy gyfrwng ei ysgrifau yn *Taliesin*, yn cyflwyno ei estheteg ei hun. Mae'r ysgrifau hyn yn naratif unigryw sy'n neidio o un ddelwedd ac enghraifft o gyfeiriadaeth i'r llall, fel y dyfynnwyd uchod pan siarada Morys â Charw Rhedynfre - neu wrth ateb cyhuddiadau ystrydebol am Gymru mewn ffordd gwbl absŵrd, fel yn ei ateb i gwynion nawddoglyd A. N. Wilson am y Gymraeg.³⁹ Enw Sioned Puw Rowlands am yr estheteg hon yw 'Sgwarnogrwydd', a dywed fod Morys yn cyflwyno ei broject diwylliannol ei hun mewn ffordd sy'n mynnu ymateb. Mae'r estheteg hon yn berfformiad ynddi'i hun, felly, sy'n gwahodd ymateb i'w hunaniaeth ddiwylliannol. Dywed Rowlands:

Yn y modd hwn, er bod cenedlaetholdeb diwylliannol yn yr amlwg ar ffurf eithafol, mae gwleidyddiaeth yr ysgrifau'n cyfateb i fwy na'u hideoleg, gan beri mwy o syniadau, mwy o feddwl, mwy o bwysa a mesur trwy gymell cysylltiadau annisgwyl parhaus, nad ydynt byth yn setlo yn gynghanedd gyfforddus ac ystyrlon, neu fodel strwythurol trosiad marw.⁴⁰

Mae'r estheteg sgwarnogaidd hon, felly, yn ffordd i'r bardd gael perfformio ei ddehongliad ef o'r 'dychymyg' Cymraeg a chreu gwrthbwynt i'r diwylliant Saesneg gan wrthsefyll unrhyw fath o gymhathu gwleidyddol.

Un o 'hunaniaethau dewisol' eraill Twm Morys yw ffigwr y Llydäwr. Ni cheir muriau diadlam, neu ffiniau set, rhwng y personâu hyn. Maent yn gwau trwy'i gilydd, ac yn aml cânt eu perfformio ar y cyd; gall newid yr hunaniaeth y dewisa ei pherfformio o un eiliad i'r llall, gan ddangos fod ceisio categoreiddio'n ddestlus ei wahanol 'hetiau', fel y nododd Nia Heledd Jones, yn ofer. Yn aml iawn yng ngwaith Twm Morys ceir

³⁸ *Ibid.*, t. 9.

³⁹ Rowlands, *Hwyaid, Cwningod a Sgwarnogod*, t. 46.

⁴⁰ *Ibid.*, t. 51.

cyfeiriadau at y cyswllt agos rhwng y Llydaweg a'r Gymraeg: ystyria'r ddwy iaith a'r ddau ddiwylliant yn chwiorydd i'w gilydd yn y modd y maent yn rhannu nifer o nodweddion cymeriad, cymdeithas, iaith a hunaniaeth sydd wedi goroesi yn y bobl er eu gwahanu'n ddwy garfan wahanol.

Mae llawer o ryddiaith Twm Morys yn disgrifio diwylliant Llydewig gwerinol nid fel diwylliant sydd ar farw, ond fel diwylliant byw a phoblogaidd. Disgrifia Ffest-Nos yn Llydaw lle y gwelir dathlu'r Llydaweg yn gyfrwng byw yn achos y meddwi a'r gerddoriaeth werin a berfformir. Mewn erthygl yn *Golwg* ymetyb i adroddiad gan ddyn o'r enw Mr Toili (arwyddocaol yma yw'r enw 'Toili', sef y term Cymraeg am ddrychiolaeth angladdol) ynghylch cyflwr yr iaith Lydaweg; nid yw'n hapus â chynnwys yr adroddiad sy'n cyflwyno ffigyrau sy'n dangos gostyngiad yn nifer siaradwyr yr iaith. Mae'n rhoi'r cyfenw 'Deryn Corff' i'r awdur gan ei fod yn bradychu'r iaith Lydaweg yng ngolwg Morys:

Yn ôl Mr Toili, mae yna 410,000 o bobol sy'n methu siarad Llydaweg ond sy'n medru ei deall hi. Does yna ddim sôn am eu hoed nhw, ond mi fentra'i eu bod nhw i gyd yn bobol weddol ifanc: y rheiny sy'n dweud wrthach chi yn hwyr yn y nos a chitha bron â marw isio cysgu: 'Na, tydw i ddim yn siarad Llydaweg, ond dwi'n ei deall hi'n iawn, achos mae 'Nhad a Mam yn ei siarad hi, a toedd Nain a Taid yn siarad dim un gair o Ffrangeg. Myrddin ydi fy enw i. Mae gen i delyn.⁴¹

Yn hytrach na chynnig datganiadau moel, mae'n well gan Morys ddweud stori sy'n darlunio'r sefyllfa fel ag y gwêl hi yn Llydaw. Mae'r ffaith ei fod yn rhoi'r stori yng nghyd-destun noson o ddathlu yn strategaeth er mwyn dangos nad diwylliant ar farw yw'r diwylliant Llydaweg. Drwy ddweud stori, y mae hefyd yn dod â ni yn nes at y bobl Lydewig yn hytrach na chanolbwyntio'n wyddonol ar ffeithiau sydd yn rhoi popeth mewn golau negyddol. Yn ôl Twm Morys, pe bai cyfleon ar gael i'r bobl ifainc ddysgu'r iaith, fe fyddent yn gwneud hynny. Ac unwaith eto, mae natur ddyfeisgar arddull Morys yn cynnig gwrthbwynt trawiadol i natur ddadansoddiadol ddiddychymyg ffeithiau moel empiraidd ac imperialaidd.

⁴¹ Twm Morys, 'Gweledigaethau Dydd y Farn: Twm Morys a'r Iaith yn Llydaw', *Golwg* 3, 39 (13 Mehefin 1991), t. 8.

Bu i Twm Morys ysgrifennu'n gyson i'r cylchgrawn *Llafar Gwlad* am y cysylltiad rhwng y diwylliant Llydaweg a'r diwylliant Cymraeg. Drwy olrhain geiriau a'u hystyron, dengys Morys fod y cyswllt rhwng y ddwy genedl yn un agos a byw:

Mae'r hen air Cymraeg 'diarchen' ('troednoeth') yn air byw yn Llydaweg. Y gair cyffredin am fefus ydi 'sivi', yn union fel yn sir Benfro. Yn aml iawn hefyd, gall y Llydaweg daflu goleuni ar ryw air Cymraeg o ran ei oed neu ei ystyr ers talwm.⁴²

Y mae'n arbennig o feirniadol o'r Seisnigeiddio ar enwau yng Nghymru, a dengys fod llu o enghreifftiau o hyn yn Llydaw hefyd. Tyn sylw, er enghraifft, at y ffaith fod pentref o'r enw 'Croissant' yn ymddangos ar arwyddion ffordd Llydaw, wedi ei sillafu yn y modd hwn, fel y bara-brecwast Ffrengig, ond 'Kroashent' yw'r enw cywir yn Llydaweg, sef, fe ddangosir, 'croes-hynt'. Llygrwyd y gair gan y Ffrancwyr: 'mewn gwlad yn llawn o feiri bach trilliw, gwell gair Ffrangeg ar arwydd, hyd yn oed un gwirion bost, na hen air Llydaweg'.⁴³

Dywed Twm Morys fod Ffrancwyr yn honni – yn gyfeiliornus – mai iaith ddiffygiol ei geirfa yw'r Llydaweg, a chymherir hyn â'r agwedd tuag at y Gymraeg hefyd. Yn achos mathau gwahanol o eirfa, meddir: 'Un o'r rheiny ydi iaith caru, a iaith rhyw. Byddai'n fwy cywir, efallai, dweud bod y Llydaweg wedi cadw'r eirfa – sy'n amal yn fanwl iawn, a chwbl ddi-lol – a'r Gymraeg, am wahanol resymau, wedi gollwng llawer ohoni dros go'.⁴⁴ Y mae'n rhoi'r bai ar Anghydfurfiaeth am wahardd nifer o'r dywediadau ynglŷn â rhyw, a hyn sydd i gyfrif am y ffaith nad yw pobl yn gweld y Gymraeg fel iaith werinol, boblogaidd, sef y cysylltiad y deisyfa ei adfer.

Agwedd arall ar y gyfrol *Ofn fy Het* yw cerddi caeth Twm Morys yn yr iaith Saesneg. Mae'n debyg i'r rhain gael eu hysgrifennu ar gyfer cynhadledd Saesneg er mwyn enghreifftio crefft a sain y gynghanedd. Mae'n parhau wrth adleisio cerddi rhamantaidd y traddodiad llenyddol Saesneg, fel yn y gerdd hon, 'My First Love Was a Plover':

⁴² Twm Morys, 'Dawn Dweud y Brython', *Llafar Gwlad*, 75 (Ionawr 2002), t. 21.

⁴³ Twm Morys, 'Dawn Dweud y Brython', *Llafar Gwlad*, 82 (Hydref 2003), t. 7.

⁴⁴ Twm Morys, 'Dawn Dweud y Brython', *Llafar Gwlad*, 79 (Chwefror/Ebrill 2003), t. 7.

My First Love was a Plover.
Beautiful things her wings were.
Tiny eyes shining at night,
(though mainly in the moonlight).
We ate cakes by a lakeside,
I caressed her crest and cried
all night. Then the kite called,
unshaven and dishevelled.
He saw from the bristling sedge
my playmate's handsome plumage.
She made a tryst, kissed the kite
so dearly in the starlight.
I thought of only one thing:
my plover lover leaving.⁴⁵

Yn y cyswllt hwn dilyna yn ôl troed Ieuan ap Hywel Swrdwal (fl. 1430-1470) a ganodd yr 'Owdyl i Fair a wnaeth kymbro yn Rhydychen', sef yr enghraifft gynharaf o gerdd gaeth yn Saesneg.⁴⁶ Mae orgraff y gerdd a gofnodwyd yn y Gymraeg, ond gellir clywed mai'r iaith Saesneg a geir yma o'i darllen yn uchel: 'O meichti ladi our leding tw haf'. Y mae llawer o ffwlbri, yn sicr, yng nghynnwys cerddi Saesneg cynganeddol Morys: gellir dadlau mai ei fwriad yma yw 'cyfieithu'r' gynghanedd a 'chyfieithu' ei feddwl a'i ddychymyg ei hun yn ogystal. Ymhellach, rhaid yw dieithrio'r gynulleidfa er mwyn iddi sylweddoli nad gwahaniaeth iaith sydd yma'n unig, ond gwahaniaeth hefyd o ran diwylliant a meddwl. Gellir olrhain y bwriad yn hyn o beth yn ôl i bwyslais y bardd ar y cof Cymraeg ac ar ei argyhoeddiad fod ymwybyddiaeth wahanol gan bobl o ddiwylliannau gwahanol oherwydd eu hanes, eu llên a'u cymdeithas unigryw. Wrth baradïo cerddi Wordsworth a Tennyson, gesyd Morys y traddodiad Cymraeg ben-ben â'r traddodiad Saesneg, gan wadu fod modd eu hystyried yn yr un ffordd, a chan orfodi'r gynulleidfa ddi-Gymraeg i feddwl nid am wahaniaeth iaith yn unig, ond am y gwahaniaeth o ran y diwylliant ehangach hefyd.

⁴⁵ Morys, *Ofn fy Het*, t. 44.

⁴⁶ Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Hywel Swrdwal a'i Deulu* (Aberystwyth : Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, 2000), t. 33.

Bu i Twm Morys gyhoeddi na fyddai'n caniatáu i'w farddoniaeth gael ei chyfieithu i'r Saesneg. Yn ei golofn yn *Taliesin*, cyflwyna ddelwedd gofiadwy o'r newid sy'n digwydd yn sgil y broses o gyfieithu, fel y gwêl ef bethau:

Y cwbl sy'n digwydd os rhowch chi bwt o Gymraeg iddo, yr un fath â tharo crys mewn rhyw beiriant golchi mawr blin, ydi rhyw fflagio a sagmagio mawr nes ei fod o'n colli pob mymryn o'i liw ac yn crychu a rhychu. Mi luchiais siaced fraith Dinogad i mewn dro'n ôl a dyma i chi'r fest rhwylllog ddôth ohono (y fi piau'r botymau):

Pies do not get it right, right?
Oh grain balad barn-wraith;
Wit, wit, we dug it,
Gotcha, nun. Gotcha, nun with gate!⁴⁷

Dyma ddarlun didrugaredd gan Morys o ganlyniadau cyfieithu ei waith ef – a barddoniaeth Gymraeg yn gyffredinol. Er mwyn rhoi cyd-destun i'w bwynt mae'n defnyddio enghraifft o ganu'r Hengerdd i bwysleisio cyfoeth a hynafolrwydd y traddodiad Cymraeg, ac, yn enwedig, y farn na fyddai modd i'r gerdd hon gael ei chyfieithu'n llwyddiannus i iaith arall oherwydd mai hanfod y darn yw sŵn y geiriau; gan mai hwiangerdd ydyw. Dengys Morys mewn ffordd ffraeth iawn y peryglon o gyfieithu'r sain ac esgor ar gerdd gwbl garbwl. Ei ddadl yw y gallai cyfieithiad awgrymu mai cerdd wamal ydoedd yn y Gymraeg yn ogystal, ac felly y byddai hynny'n rhoi sail i bobl nad ydynt yn deall yr iaith i farnu safon y traddodiad barddol - er mai trwy gyfrwng y Saesneg y byddent hwy wedi profi'r gerdd. Dychwel Morys at bersona Neil Sagam unwaith eto fel modd o drafod agwedd pobl fel yr Athro tuag at agweddau cyferbyniol pobl fel y bardd ei hun. Geilw Sagam agwedd pobl fel Morys yn 'elitaidd a thraddodiadol': 'pobl sy'n credu fod gan feirdd rym. Pobl sy'n credu, yn nannedd yr Ystadegau, bod chwaeth y Cymry'n wahanol i chwaeth trigolion Luton...pobl sy'n credu bod bwrdd y gegin yn bwysicach na'r un Bwrdd...bod 'na ffordd Gymreigaidd o wneud rhaglenni radio a theledu'.⁴⁸ Trwy bentyrru agweddau ar farn 'elitaidd' y bardd, mae Sagam yn anuniongyrchol yn dadlau'n gadarnhaol o blaid y safbwynt hwnnw, ac unwaith eto yn datgelu llais y bardd ei hun.

⁴⁷ Twm Morys, 'Codi Sgwarnogod', *Taliesin*, 85 (Gwanwyn 1994), t. 5.

⁴⁸ Twm Morys, 'Codi Sgwarnogod', *Taliesin*, 95 (Hydref 1996), t. 7.

* * *

Yn ei Ragair i'r gyfrol *Ofn fy Het*, dadlenna'r bardd sut y bu iddo ddewis ei het: y mae a wnelo hyn â dewis ei hunaniaeth. Ar ddechrau'r Rhagair, ceir un o'r esiamplau prin lle y trafoda Morys ei fywyd yn Amwythig fel gŵr ifanc:

Pan ôn i dipyn yn iau na rŵan a bri ar fy chwedlau anhygoel i gan hogiau Amwythig, mi wyddwn ddigon eisoes. Gwaith Chaucer a Byron i gyd, ac Eliot. Ac ôn i'n gwybod eu bod nhw'n bell ar ei hôl; bod yr hwn fu'n stafell wag i Cynddylan yn well, yn ganmil gwell, na rhyw gonmyn felly. Efallai bod gofyn cael Cymry bach hy fel hyn, fel tywod sy'n rhoi bod ryw ben i berl, yn boen yn y gragen...⁴⁹

Dyma arwydd clir ei fod yn gweld y diwylliant Cymraeg a'r diwylliant Saesneg fel pethau cwbl ddeoledig oddi wrth ei gilydd, a'i fod yn dyrchafu'r traddodiad Cymraeg yn uwch na'r traddodiad Saesneg. Yna, dechreua drafod hetiau gyda chymeriad dychmygol y dyn cyfrif sêr o Lanberis: 'Rhyw het saer neu gowboi...rhyw het fawr hy y daw pobol fawr hy fel fi ar ei hôl hi 'lawr y stryd...Ond sgin ti'm isio un *rhy* gas. Rhag ofn iti ddychryn rhag dy het dy hun, yli'. Mae'r bardd yn rhedeg i'r stryd ac yn edrych i lawr yr afon ac yn wynebu'r realiti o orfod dewis ei 'het', sef ymadrodd a ddefnyddir i arwyddo rôl arbennig:

Dyna'r oedd mynd i weini i Loegar yn olygu. Colli eich awch, a'ch prydfferthwch chi ar y lôn... Roedd yr hen afon islaw'n gloywi. Rhaid oedd dewis, fel y dyn sy'n taflu dis. Ai taflu'r het fel rhyw hen enw hurt rŵan hyn i Hafren, ynteu'i chadw? Gwg 'ta gwên? Het i bawb, het y bobol? Neu het wen yn twynnu. Anarferol o het wen. Het wahanol...⁵⁰

Mae defnydd o'r gynghanedd yn y rhyddiaith yn brigo'n hollol naturiol yng ngwaith Twm Morys, ac yn cyfrannu at delynegrwydd y gwaith a'r cysyniad o fyd hudol, gwahanol, 'arall'. Gellid dadlau fod y bardd yn siarad am ei ffurfio ef ei hun yn y fan

⁴⁹ Morys, *Ofn fy Het*, t. 7.

⁵⁰ *Ibid.*, t. 12.

hon, a'r dewis ymwybodol a wnaed yn Lloegr i ymroi i amrywiaeth a gweddau amrywiol y dychymyg Cymraeg. Mewn ysgrif yn *Barn* dywed Simon Brooks:

Wrth ddefnyddio (ac eto danseilio) y syniad o persona, mae Twm Morys wedi bathu estheteg chwyldroadol. Mae'i hathrylith yn syml. Mae o wedi dilyn strategaeth o dynnu wynebâu lluosog ohono'i hun – ar lwyfan ac mewn llyfr. Dyma lenor sydd yn anwireddus yn arddel lluosogeddau ac yn meddu mwy nag un enw a mwy nag un hunaniaeth. Llenor sydd yn diosg y syniad o persona sefydlog ac yn mabwysiadu nifer o bersonau perffrastig.⁵¹

Mae'r syniad o fabwysiadu persona yn ganolog i waith Twm Morys, felly, ac yn deillio o'i benderfyniad i arddel a bod yn bencampwr i'r diwylliant Cymraeg.

* * *

Yn ei thraethawd doethuriaethol, tyn Nia Heledd Jones sylw at un o leisiau Twm Morys, sef y Prydydd sy'n canu mawl. 'Cerddi "strêt"' yw'r rhain, chwedl Jones, sy'n cynnwys cywydd Morys, 'I Ifan Gwyn' a'r cywydd croeso i Eisteddfod yr Urdd yn Llŷn ac Eifionydd. Meddai Jones ymhellach: 'Ceir elfennau anghyffredin yn y cywydd comisiwn yn ogystal, y cyffyrddiad o hiwmor, a'r modd y gosodir her uniongyrchol a chyfoes, yn lle troi i'r gorffennol pell am ysbrydoliaeth drwy restru enwogion yr ardal a rhygnu ar hen hanes'.⁵² Ymddengys y gerdd hon yn ail gyfrol Twm Morys, 2, ac mae'n torri confensiwn drwy osod cefndir gwleidyddol clir i'r gerdd sydd i groesawu plant a phobl ifainc i'r ardal dan sylw. Egyr â chwpled sy'n tywys y darllenydd i fyd cynhanesyddol:

Cyn bod sôn am Eifionydd
Dôl haul dros y Garn bob dydd,
Roedd Mai yn wallgofrwydd mwyn,
Roedd gwin ym mhridd y gwanwyn,
Roedd adar mân yn canu'n

⁵¹ Simon Brooks, 'Wynebâu ar Dywod', *Barn*, 397 (Chwefror 1996), t. 28.

⁵² Jones, 'Canu Poblogaidd Diweddar', t. 243.

Y lliaws dail cyn llais dyn.
Canai Dwyfor cyn dyfod
Y beirdd, a chyn i feirdd fod
Roedd Llŷn, achos hŷn yw hi
Na'r cerrig yn Nhref Ceiri,
A hŷn na'r delyn yw'r don
A dyrr yn Aberdaron.⁵³

Mae'r pwyslais yn y fan hon ar y darn tir, cyn i ddyn a'i ddiwylliant gyrraedd yno ac ymyrryd ag ef. Y tir a'r natur sy'n bwysig yn y gerdd, a'r un tir hwnnw a oedd yn bod cyn gwareiddiad dyn sy'n croesawu'r plant yno yn awr. Geilw'r bardd ar bawb i ddod i Llŷn, ond nid i ganu a dathlu diwylliant yn y ffordd gonfensiynol, ond i gyfranogi o rym ysgogol y 'ddraig sy'n cynddeiriogi'. Annog gweithredu gwleidyddol y mae'r bardd yn y gerdd, ac mae'n bosib ei fod yn gweld diwylliant fel ffordd o adfywio ac ammdiffyn yr hen ddarn o dir, sef Eifionydd. Daw'r gerdd i ben wrth i'r bardd ddweud wrth yr ifainc am weithredu mewn ffordd na wnaeth eu cyndadau, a defnyddio eu lleisiau i floeddio protest ynghylch problem y mewnlifiad yn Llŷn:

Mor gas y buom ar goedd
Yn addo ers blynyddoedd
Y daw adeg y dwedwn
'Digon!' wrth Saeson a'u sŵn.
Dewch chi, blant, i godi'ch bloedd
Â rhyfyg y canrifoedd,
I beri i Sais Abersoch
Gau'i ddwrn a gweiddi arnoch,
A daw'r wên nad yw ar werth
I wynebau Penyberth.⁵⁴

Rhaid anghytuno â honiad Nia Heledd Jones mai dyma un o gerddi 'strêt' Twm Morys fel Prydydd. Un o'i nodweddion yw sut yr aiff ati i chwarae â chonfensiwn: yn y fan hon mae'n chwarae â *genre* y cywydd croeso, ac yn cyflwyno neges wleidyddol gref mewn cerdd o fawl i'r ardal. Mae'n gerdd dra heriol ac un sy'n gwyrddroi'n

⁵³ Twm Morys, 2 (Llandybïe: Cyhoeddiadau Barddas, 2002), t. 31.

⁵⁴ *Ibid.*, t. 13.

disgwyliadau parthed natur a rôl y cywydd croeso confensiynol. Dywed y bardd fod y ‘Sais’ a’r ‘Saeson’ yn fygythiad ecolegol i’r darn hwn o dir, ac mae’n galw ar blant yr Urdd i adfer eu cymunedau. Gellir cymharu’r gerdd hon â chywydd croeso Eryri a’r Cyffiniau 2005 gan Gerallt Lloyd Owen, sydd hefyd yn gwyrddroi’r *genre* drwy groesawu ond yna dynnu’r croeso hwnnw’n ôl wrth geisio deffro pobl i realiti’r bygythiad i’r Fro Gymraeg:

Mae gwledd o groeso heddiw
ond croeso dan amod yw:
croeso bro sy’n mynd am bris,
croeso dan forthwyl creisis.
Wrth yr awr syrth Eryri
wrth yr awr y’i gwerthir hi.⁵⁵

Crea’r bardd gysgod mawr dros y dathlu, ac mae’n gwyrddroi *genre* y cywydd croeso fel bod yn y gerdd agenda wleidyddol, heriol. Mae’r ddwy enghraifft hon yn dangos cryfder teimlad y beirdd ynghylch argyfwng y bröydd Cymraeg. Rhaid newid a herio’r *genre* ei hun – dyma’r awgrym – gan nad yw difrifoldeb y sefyllfa bresennol yn caniatáu i’r *genre* barhau fel yr oedd. Ymateb y mae’r beirdd i’r argyfwng sydd wedi ei amlygu ei hun mewn ardaloedd Cymraeg wrth i nifer o’r bobl sy’n medru’r Gymraeg ddisgyn mewn cymunedau a fu gynt â chanran uchel iawn o siaradwyr Cymraeg. Ni all hyd yn oed confensiwn y cywydd croeso esgus fod popeth yn iawn, fe awgrymir. Y prif wahaniaeth, efallai, rhwng y ddwy gerdd yw eu tôn: mae Gerallt Lloyd Owen yn dra amddiffynnol tra bo Morys yn galw’n hygryw am weithredu uniongyrchol, gan annog yr ifainc i gymryd y mater i’w dwylo eu hunain er mwyn adfer y Fro Gymraeg. Geilw Morys am ymwybyddiaeth wleidyddol i weithgarwch diwylliannol oherwydd maint yr argyfwng a wêl.

Yn achos Twm Morys a’r Fro Gymraeg, mae’n werth tynnu sylw at un o’i ysgrifau yn *Taliesin*. Yn yr ysgrif dan sylw mae Morys a’i frawd yn eistedd ar fryn ac yn dychmygu pa enwau fydd ar leoedd fel Ynys Giffan, Nant Pasgan Bach, Moel

⁵⁵ Eisteddfod Genedlaethol Cymru, *Rhaglen: Eisteddfod Genedlaethol Cymru Eryri a’r Cyffiniau 30 Gorffennaf - 6 Awst 2005* (Caernarfon: Llys yr Eisteddfod, 2005), t. 9.

Sgwarnogod⁵⁶ yn y dyfodol, gan ragweld ‘Giftan Island’, ‘Little Easterbrook’, a ‘Hare Hill’ - symbolau o golli enwau a hanes y Gymraeg mewn perthynas â’r tir:

Roedd yr adar ynfyd yn canu draw ar ryw draeth, a gwair yn y gwyll, a bron na welwn wynebau Rhys Bach a Ianto yng ngolau’r tân heno i fyny yn y lle uchel. A dyma fy nghyfaill yn sibwrdd: ‘Y Fro Gymraeg... Y Fro Gymraeg... Y Fro Gymraeg...’ yn iasau drwom ein dau. A dyma sôn am y ffynnon a’r ffin, y naill mor llawn o faw a’r llall heb fod yn glawdd ddim mwy, ond yn rhyw we larpïog yma ac acw ym mhob man. Dach chi’n ei chroesi hi bellach wrth groesi’r stryd, neu ar dywydd mwyar duon, a chant o blant ymhob lôn, a Deio’n agor ffenast car i ofyn sut mae mynd i Dywyn neu ambell waith wrth sbio heibio trwyn rhywun ar ochr arall ei wyneb...A dyna dderbyn y Fro Gymraeg, yr Ateb Terfynol, fel y mae’n rhaid derbyn na fydd byth mwy lond afon o eogiaid ar li, na chyflogaeth lawn, na llawer o gariadon.⁵⁷

Mae’r cysylltiad rhwng y Gymraeg a’i diwylliant ar y naill law, a’r tir ar y llall, yn bwysig iawn i’r bardd. Mater ecolegol yw’r iaith a’r fro iddo mewn sawl ffordd. Yn y cyswllt hwn, y mae cysyniad yr athronydd J. R. Jones ynghylch cydymdreiddiad iaith a thir yn berthnasol. Cred mai’r berthynas rhwng iaith a thir yw sylfaen cenedligrwydd, ac mewn ysgrif o’i eiddo esbonia’r cysylltiad rhwng hynny a marwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf:

Yn sumbolaidd ac ym myd yr ysbryd, nid oes i ni Dywysog ond yr un y torrwyd ar freiniau a sofraniaeth ei linach pan dorrwyd ac y cipiwyd ymaith ei ben yng Nghilmeri...Nid oedd ond un lle i’r sofraniaeth ddychwelyd iddo pan dorrwyd felly arni, sef yn ôl i lygad y ffynnon – i weddillion gwahanrwydd y Bobl Gymreig: i mewn yn ôl i *glymau eu ffurfiant*, sef i gydymdreiddiad daear Cymru â’r iaith Gymraeg.⁵⁸

Mae Dafydd Johnston yn gweld dylanwad yr athroniaeth hon ar Gerallt Lloyd Owen: ‘Gellir casglu felly fod rhwymedigaeth foisol y bobol i’w tywysog wedi’i throsglwyddo i’r cwlwm hwnnw, ac mai’r frwydr i gadw’r iaith yn fyw yn y tir sy’n hawlio eu ffyddlondeb nawr. Rwy’n meddwl fod hyn yn egluro sut y mae moesoldeb

⁵⁶ Twm Morys, ‘Codi Sgwarnogod’, *Taliesin*, 85 (Hydref 1994), t. 6.

⁵⁷ *Ibid.*, t. 7.

⁵⁸ J. R. Jones, *Gwaedd yng Nghymru* (Lerpwl: Cyhoeddiadau Modern Cymreig, 1970), tt. 36-7.

arwrol Gerallt yn berthnasol i'r cyfnod modern, neu mewn geiriau eraill, sut y mae ei draddodiadaeth a'i genedlaetholdeb yn cyd-fynd â'i gilydd'.⁵⁹ Y mae Morys yn tynnu ar y cysyniadau hyn, fel y gwelir yn y cywydd croeso 'Croesawu Eisteddfod yr Urdd' pan bwysleisia hynafolrwydd nodweddion daearyddol yr ardal, dylid nodi – ond y mae hefyd yn pwysleisio fod yr ardal yn hŷn na'r bobl sydd wedi mynd a dod ar y tir ac yn hŷn felly na'u diwylliant (Cymraeg a Saesneg). Cerdd yw hon sy'n gosod y drafodaeth ar densiynau diwylliannol cyfoes yn erbyn cefndir Cynhanes ('Cyn bod sôn am Eifionydd / Dôl haul dros y Garn bob dydd...Canai Dwyfor cyn dyfod / y beirdd, a chyn i feirdd fod / Roedd Llŷn, achos hŷn yw hi / Na'r cerrig yn Nhre'r Ceiri, / A hŷn na'r delyn yw'r don / A dyrr yn Aberdaron').⁶⁰ At hyn, perthnasol yw dwyn sylw at ddefnydd o'r term 'Yr Ateb Terfynol' yn yr ysgrif o *Taliesin* a ddyfynnwyd uchod, pan â Morys mor bell (yn rhy bell?) â gweld y mater fel hyladdiad: ystyried fod hunaniaeth Gymraeg wedi ei seilio'n llwyr ar yr iaith Gymraeg – nid cyfrwng yn unig ydyw, ond yn hytrach cynrychiola ffordd gyfan o weld y byd.

Gellid dadlau fod y cywydd croeso a drafodwyd uchod yn gerdd ganolog yn *oeuvre* Morys yn yr ystyr ei fod yn cynrychioli'r newid mawr yn natur ei gerddi erbyn cyhoeddi ei ail gyfrol, 2. Rhaid cofio fod Morys yn fardd a enillasai fri cenedlaethol erbyn cyhoeddi ei ail gyfrol yn 2002 – cyfrol sy'n mynd i'r afael ag ehangder y cenedlaethol trwy gyfrwng archwiliad o'r lleol. Mae hanner cyntaf ei gyfrol yn canolbwyntio'n llwyr ar gymeriadau neu wahanol lefydd yn ardal Eifionydd. Nid oes golwg o'r teithiwr bellach, ond bardd sydd yn ymrwymedig i'w ardal leol ac yn canu'n benodol i'r ardal honno.

Cynigia'r *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* ddiffiniad hylaw o natur a dyletswyddau ffigwr traddodiadol y bardd gwlad yng Nghymru:

Fel arfer, y mae ei waith yn canmol ei gynefin ei hun ac yn dathlu'r bywyd cymdeithasol yno. Y mae'r bardd gwlad fel rheol yn feistr ar y mesurau traddodiadol a'r gynghanedd, ac y mae'n cyflawni ei weithgarwch cymdeithasol trwy gofnodi

⁵⁹ Dafydd Johnston, 'Yr Ing a'r Angerdd: Awen Gerallt Lloyd Owen', *Barddas*, 118 (Chwefror 1987), t. 1.

⁶⁰ Morys, 2, t. 31.

achlysuron fel genedigaethau, priodasau a marwolaethau, a thrwy ddisgrifio digwyddiadau ym mywyd y gymdogaeth.⁶¹

Mae'r bardd gwlad yn rhan annatod o'r gymdogaeth ac yn canu i'r hyn sy'n digwydd yn feunyddiol yn yr ardal ac yn y modd hwn, y mae'n ei gwasanaethu drwy gyfrwng ei grefft. Mewn adolygiad ar *Beirdd y Babell* (gol. Dewi Emrys), bu i Saunders Lewis ddiffinio 'the truly unique character of the bardd gwlad' yn nhermau: 'the poet who lived amongst his people and who composed the poetry of civilisation and habitation (cyfannedd)'.⁶² Perthnasol yw gofyn pa mor realistig yw medru galw bardd yn fardd gwlad ar ddechrau'r 21ain ganrif yn sgil y newid aruthrol i natur cymunedau o ganlyniad i rymoedd globaleiddio. Enghraifft o fardd gwlad o Eifionydd a ganai yn y 60au a'r 70au yw Tecwyn Jones, awdur yr englyn ffraeth hwn, 'I gyfarch Mr a Mrs E. Breese Jones ar eu priodas, ef yn naturiaethwr adnabyddus':

Dal yn gaeth y naturiaethwr, – a rhoi
Yn y rhwyd seiadwr;
Deryn yn dal adarwr, –
Dyna od, a'i wneud yn wr.⁶³

Bardd gwlad arall o Eifionydd oedd R. W. Jones, y dyfynnir isod o'i englynion coffa i nyrs yr ardal, Elisabeth Jones, Chwilog:

Cwynwn am angel cyni – a'i gofal
Yn argyfwng geni;
Rhyw ddofn archoll fu colli
Ei gofal dihafal hi.⁶⁴

Cerddi cyfarch syml sydd yma i glodfori a choffâu gwahanol ffigyrau allweddol yn y gymuned.

⁶¹ Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997), t. 367.

⁶² Dyfynnir yn W. Rhys Nicholas, *The Folk Poets* (Cardiff: University of Wales Press, 1978), t. 3.

⁶³ Tom Bowen Jones a Tecwyn Jones, *O Windy a Gweithdy'r Gân* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 1981), t. 37.

⁶⁴ R. W. Jones, *Cerddi Eifionydd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1972), t. 31.

Rôl bardd gwlad Eifionydd a fabwysiadwyd gan Twm Morys yn y gyfrol 2, wrth iddo ganu i amrywiol gymeriadau a llunio cerddi ar gyfer achlysuron arbennig. Enghraifft o gerdd i'w gymdogaeth leol yw 'I Dewi Vaughan Pritchard o'r Garn', adeiladwr o Eifionydd. Mae'r gerdd fawl hon yn disgrifio'r gŵr dan sylw gan ddefnyddio gwrthrychau o fyd adeiladu - 'Yn ferfa o ddyn, yn farfog' – ac fe'i cyffelybir i ddewin sy'n gallu gwneud y 'niwl yn dai i ni.' Mae'r bardd yn ymestyn y ddelwedd o'r gŵr hwn fel dewin drwy restru'r gwyrthiau y gall eu cyflawni: 'Mi wneith o dŷ mewn wyth dydd, / A gwneud to rhag y naw tywydd.' Dyma foli crefftwr yn yr ardal, felly - dyn sy'n gwneud cyfraniad i'w gymuned ac sy'n gymeriad hoffus. Mae un cwpled, fodd bynnag, sy'n taflu golau gwahanol ar y gerdd:

Mi wneith o dŷ mewn wyth dydd,
A gwneud to rhag naw tywydd.
Gwneud tŷ i'r hen Gymry gael
Byw 'ma wedyn heb 'madael.
Gwneud tŷ wedi carthu'r côr,
Addas i fab Llecheiddior.⁶⁵

Yn yr ail gwpled uchod fe welir sut y gwleidyddolir y gerdd yn ddirybudd a'i thynnu'n ôl at fater y mewnlifiad. Bydd y tai y mae Dewi'n eu hadeiladu yn dai ar gyfer Cymry, nid ar gyfer pobl o'r tu allan i'r gymdogaeth. Mae her yng ngeiriau'r bardd wrth ddweud 'heb 'madael', wrth iddo fwydo ei gynulleidfa leol a chenedlaethol â delfrydau o wreiddiau a phwysigrwydd perthyn. Un rhan o'r gymuned yw Dewi, ond mae'n allweddol ym mywyd yr ardal leol. Ar yr olwg gyntaf, mae Morys yn canu i ddyn cyffredin, ond mae'r bardd yng nghwrs y gerdd yn ei osod ar lwyfan uwch oherwydd ei fod yn chwarae rhan bwysig ym mheirianwaith warcheidiol y fro y mae'n byw ynddi, a'r fro honno yn un sy'n cadw cof a gwarchod diwylliant y Gymraeg. Dylid nodi hefyd fod yr arbrofi cynganeddol wedi cynyddu yn y gyfrol hon, ac yn y cyswllt hwn, diddorol yw nodi theori Jane Aaron ynghylch y gynghanedd fel strategaeth wrthdrefedigaethol:

The old bards consciously and deliberately made princes princely and nobles noble through their descriptions and praise; since the eighteenth century their poetry and

⁶⁵ Twm Morys, 2, t. 20.

that of modern successors has been used consciously and deliberately to make Wales Welsh and resist the effects of English cultural colonization.⁶⁶

Yn wahanol i'r sefyllfa yn achos yr englynion gan y beirdd gwlad a nodwyd uchod, mae amgylchiadau gwleidyddol y Fro Gymraeg wedi dwysáu gryn dipyn erbyn i Twm Morys ddewis ailgartrefu yn Llanystumdwy, Eifionydd. Fel yn achos ei gywydd croeso, oherwydd y cyd-destun hwn nid oes modd osgoi'r sefyllfa argyfyngus hon hyd yn oed yn rôl ddisgwyliedig ddidramgwydd y bardd gwlad. Â Twm Morys ati i'w sefydlu ei hun fel bardd gwlad gwleidyddoledig ac i ganu i'w gymuned er mwyn lleisio pwysigrwydd y gymuned honno a'r angen iddi barhau. Y canlyniad, felly, yw ei fod yn politiceiddio rôl y bardd gwlad ar gyfer anghenion yr oes bresennol. Dewis gwleidyddol, felly, yn rhannol, yw ei ddatblygiad o fod yn glerwr i gyflawni swyddogaeth y bardd gwlad ac ymateb i argyfwng y mewnlifiad ac anallu pobl ifainc i aros yn eu cymunedau. Gellir dadlau ymhellach fod hyn yn agwedd ar 'hunaniaeth ddewisol' wrth i'r bardd crwydrol benderfynu ymwreiddio'n ideolegol ac yn ddaearyddol yn Eifionydd.

* * *

Yn debyg i Twm Morys, gellir archwilio hunaniaeth Jan Morris yn nhermau 'perfformiad'. Yn y cyflwyniad i gasgliad o'i hysgrifau fel awdur taith, medd am y cynnwys: 'It is more in the nature of an exhibition or a performance'. A dywed ymhellach yn y cyflwyniad hwn: 'This is the substance of my performance'.⁶⁷ Mae'r elfen o berfformio yn gryf iawn yng ngwaith Morris, a gwêl berfformio fel ffordd o fynegi hunaniaeth. Daw oblygiadau hyn yn amlwg wrth i ni edrych ar sut y dewisodd berfformio ei Chymreictod. Pan ymwêl â chenhedloedd gwahanol, disgwylia iddynt berfformio eu hunaniaeth a'u holl wahanol agweddau iddi. Wrth ddisgrifio Accra, Ghana, pan ymwelodd â'r wlad yn y 60au, teimla fod y genedl yn gwneud sioe fawr o'i lliwiau er mwyn dangos ei hunaniaeth: 'If Moscow is like an old dressing-gown,

⁶⁶ Jane Aaron, 'Bardic Anti-Colonialism', yn Jane Aaron a Chris Williams, *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2005), t. 146.

⁶⁷ Jan Morris, *A Writer's World: Travels 1950-2000* (Llundain: Faber and Faber, 2003), t. xi.

as Tolstoy thought, then Accra is a fancy dress pom-pom.⁶⁸ Yn yr un modd, gwêl berfformiad dinas Delhi fel ‘display’ a’i beirniadaeth yn achos y ddinas yw na all ymdeimlo â realiti y tu hwnt i’r perfformiad hwn: ‘Most disconcerting of all, you may well come to feel that the pomp and circumstance of Delhi, which struck you first as illusionary display, is in fact the only reality of the place. All the rest is mirage!’⁶⁹ Y mae gan Morris ddiddordeb yn yr hyn sy’n gorwedd o dan y perfformiad arwynebol.

James Morris, fel y nodwyd, oedd y gohebydd cyntaf i gyhoeddi’r newyddion fod Everest wedi ei goncro, ac fe enillodd fri mawr fel newyddiadurwr. Y concro hwn, yn ei farn ef, oedd camp olaf yr Ymerodraeth Brydeinig. Er bod ganddo feddwl mawr o Rydychen, parchu diwylliant a thraddodiadau’r colegau y mae yma, nid o reidrwydd Brydeindod y lle. Colled fawr fyddai colli’r traddodiadau unigryw hyn, medd Morris, oherwydd dyna sy’n gwneud Rhydychen yn lle arbennig: ‘All that is most remarkable about Oxford, setting it apart from other towns, or from other universities, comes from the lost order of the English’.⁷⁰ Mae’r ffatrïoedd a’r datblygiadau tai yn ‘intruders’ yn Rhydychen, medd Morris, a’r prif ofid a leisir yw y caiff diwylliant ac ysbryd cynhenid y lle eu colli ynghanol y moderneiddio. Amlygir agwedd wrth-fodern yng ngwaith Morris, felly, yn yr ystyr ei bod yn erbyn goruchafiaeth diwylliant torfol a chymdeithas unffurf. Yn ystod ei gyrfa fel awdur taith, bu iddi ddyrchafu traddodiadau sydd mewn perygl o fynd yn angof. Yn yr ystyr hon, gellir gwneud cymhariaeth â’r motiff hwnnw gan Morys sy’n ymwneud â’r cof: wrth ddwyn ffyrdd o fyw sy’n ymylol i’r diwylliant Eingl-Americanaid i’n sylw, y mae gwaith Morris fel awdur taith yn gweithredu fel math o ‘Gof’ yng nghyd-destun hanes a diwylliant amrywiaeth o draddodiadau ar draws y byd. Yn yr un modd ag y maes Morys yn dwyn Eifionydd i sylw cenedlaethol, y mae Morris yn dwyn sylw rhyngwladol i leoliadau a thraddodiadau amrywiaeth o fannau ar draws y byd.

Pan edrycha Morris ar seremonïau’r Ymerodraeth Brydeinig yn achos gadael Hong Kong ym 1997, fe edmyga’r perfformiad o hunaniaeth y mae’r Prydeinwyr yn ei gyflwyno i’r byd:

⁶⁸ *Ibid.*, t. 157.

⁶⁹ *Ibid.*, t. 204.

⁷⁰ *Ibid.*, t. 144.

As a Welsh nationalist republican I thought I had grown out of such flummery but I cannot deny an atavistic tug of the heart when, in the gathering dusk and the relentless rain, the Union Jack came gently down from its high flagpole.⁷¹

Ni olyga hyn mai Prydeiniwr yw Jan Morris mewn gwirionedd. Gellir dadlau bod ei hoffter o weld perfformiad o hunaniaeth yn ei chyffroi ac yn ei denu. Mae ysgrifau Morris yn llawn emosiwn, ac ynddynt awydd i uniaethu â phobl y wlad dan sylw. Sylwer mai ‘grown out’ yw sut y disgrifia Morris ei datblygiad o fod yn imperialydd ifanc i fod yn wraig sy’n ymroi’n llwyr i ddiwylliant lleiafrifol.

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i’r bennod hon, honna Katie Gramich fod Morris wedi dewis bod yn Gymraes yn yr un modd ag y mae wedi dewis bod yn fenyw. Rhaid bod yn ofalus iawn wrth wneud honiadau o’r fath, ac yn sicr roedd Jan Morris yn gwybod ei bod yn fenyw am amser maith cyn penderfynu ymroi i hunaniaeth Gymreig. Yn ei chyfrol *Conundrum*, defnyddia Affrica er mwyn delweddu y newid ysbrydol/hunaniaethol a aethai drwyddi yn ystod y broses o newid rhyw. Fel yr esbonia yn y gyfrol:

I saw now...fears and embarrassments I had not grasped before, insights I could not share, traditions I could never master...and I began to see there could be African versions of myself, mirror images of me, whose emotions, beneath the fluff and the racket, were at least profound.⁷²

Dyma Morris yn cydnabod ei bod yn uniaethu â’r ‘arall’, neu’r ‘lleiafrifol’ ac y mae’n gysyniad sy’n atyniadol iddi. Gellir gweld, felly, bod cysylltiad rhwng ei safle fel menyw a’i safle o fabwysiadu hunaniaeth cenedl leiafrifol.

Yn y cyswllt hwn, diddorol yw’r modd y mae’n disgrifio’r profiad o weithio i’r *Guardian* fel profiad ‘benywaidd’, o’i gymharu â gweithio i’r *Times* ‘gwrywaidd’. Yn *Conundrum*, rhydd Morris ddarlun byw a gafaelgar o’r profiad a gafodd wrth sylweddoli ei bod yn fenyw a’r broses yr aeth drwyddi o ganlyniad. Ar ddechrau’r

⁷¹ *Ibid.*, t. 438.

⁷² Morris, *Conundrum*, t. 87.

llyfr mae'n edrych am ddiffiniad o hunaniaeth, a chanfod nad oedd ganddi hi yr hyn y gellid ei alw'n identiti:

I realize now that the chief cause of my disquiet was the fact I had none. I was not to others what I was to myself. I did not conform to the dictionary's definition – 'itself and not something else'.⁷³

Nod Jan Morris yw ceisio creu a sefydlu hunaniaeth o'r newydd yn sgil y teimlad nad oedd ganddi o'i phlenytyndod hunaniaeth benodol, yn bennaf oherwydd yr amwysedd a deimlai ynglŷn â'i rhyw. Oherwydd hyn, fe'i galluogwyd i wneud y dewis i fabwysiadu hunaniaeth bendant – i fod yn fenyw ac yn Gymraes. Awgrymir gan y gyfrol *Conundrum* mai ei dyhead oedd dod o hyd i hunaniaeth y gallai ymrwymo'n llawn iddi, hunaniaeth y medrai ei mynegi a'i pherfformio'n gyson yn ei gwaith.

Cymreictod, y diwylliant a'r tir a ddewisodd yn sail i'w hunaniaeth: fel y dywed am y garfan a ymfudodd i'r Wladfa: 'Finally like them, I saw the land of milk and honey'.⁷⁴ Meddai ymhellach am y diwylliant yn y Wladfa: 'The culture of the Welsh is slowly fading here too, but I felt it was going out in style'.⁷⁵ Mae urddas yn bwysig iawn iddi, a theimla fod byw y diwylliant yn llawn yn bwysicach nag ystadegau:

I have come to think of myself as a minority patriot, a cultural patriot perhaps – one who believes that the characteristics of a people, however insignificant, a language, a tradition, an ideal, are worth preserving for their own sakes.⁷⁶

Daw'r dyfyniad hwn o'r gyfrol hynod, *A Writer's House in Wales* lle mae'r awdur yn disgrifio ei chartref ac yn cyd-destunoli'r cysyniad o gartref yn hanes Cymru. Wrth ddisgrifio ei chartref yn erbyn cefndir o'r fath y mae'n ei ddyrchafu'n symbol o'r cartref Cymraeg traddodiadol a sut mae'n amcanu iddo fod yn symbol o'r cartref Cymraeg traddodiadol. Gellir dweud bod elfen glir o ramantu yn dod i'r amlwg yn y gyfrol hon wrth iddi ddarlunio cartref a fyddai'n ddieithr iawn, bid siŵr, i'r rhan

⁷³ *Ibid.*, t. 56.

⁷⁴ Morris, *A Writer's World*, t. 360.

⁷⁵ *Ibid.*, t. 360.

⁷⁶ Jan Morris, *A Writer's House in Wales* (Washington D.C.: National Geographic Society, 2002), t. 6.

fwyaf o Gymry'r unfed ganrif ar hugain. Ymhyfryda, er enghraifft, mewn nodweddion fel 'sweet elemental fragrance' y coed yn llosgi - 'since bards entertained the uchelwyr'.⁷⁷ Ceir ganddi argraff o gartref sydd yn llinach yr uchelwyr Cymraeg wrth iddi esbonio i'r ymwelydd dychmygol – ysgrifennwyd y llyfr fel pe bai'n tywys rhywun o gwmpas y tŷ – pa mor bwysig yw'r egwyddor o letygarwch a sut y carai gynnal y syniad hwnnw yn y tŷ hwn: 'Ah! Hospitality! To my mind it is much better for the giver than for the receiver'.⁷⁸ Mae hyn oll yn rhan o'i pherfformiad hi o fod yn Gymraes – gymaint felly nes ei bod yn ymgolli mewn darlun rhamantus o bryd i'w gilydd:

Beams that breathe the flowers of the woods and sea, stones that glow with an inner warmth and small like donkeys, cold slate floors, echoes of lost songs – romantic fancies perhaps but obsolete. Even in this far corner, where Welsh ways are still entrenched, and romantic fancies are not scoffed at, the Executive Home is arriving, central heating is a prerequisite of civilised living, and a modern bungalow is more in demand than a venerable cottage.⁷⁹

Unwaith eto, mae moderneiddio yn rhan o'r dirywiad yn y traddodiad ac o ran hunaniaeth ddiwylliannol. Disgrifia'r awdur ddiwylliant Eingl-Americanaid sy'n ysgubo drwy'r wlad fel 'ordinary', ac nid da ganddi unrhyw beth sy'n perthyn i'r tyrfaoedd. Yr hyn sy'n apelio ati yw'r diwylliant cynhenid â'r dychymyg Cymraeg:

I live...in a Wales of my own, a Wales in the mind, grand with high memories, poignant with melancholy. It is in that Wales, that imperishable Wales, that my house prospers... Fortunately close around us many another household shares my dream citizenship.⁸⁰

Cydnebydd ei bod hi'n creu ei byd ei hun - byd sydd ynghlwm â dychymyg ei mab Twm Morys mewn perthynas â'r diwylliant Cymraeg. Ymfalchïa yn y werin ddiwylliedig – carfan sy'n mynd ar chwâl wrth i'r diwylliant Eingl-Americanaid ddyllanwadu ar y 'cof' Cymraeg. Nid yw'n hoff o'r gair 'cenedlaetholdeb' oherwydd

⁷⁷ *Ibid.*, t. 32.

⁷⁸ *Ibid.*, t. 37.

⁷⁹ *Ibid.*, t. 47.

⁸⁰ *Ibid.*, t. 48.

cysyniad wedi ei greu gan ddyn ydyw, meddai: ‘As for nationality, another word that crops up whenever Welshness is discussed, it is of course purely artificial. It is ersatz. There is nothing organic to nationality’.⁸¹ Deisyfiad Morris yw Cymreictod organaidd, ond gellir taflu’r un cyhuddiad yn ôl ati sef mai rhywbeth wedi ei lunio – creadigaeth y dychymyg yw’r diwylliant Cymraeg yn ogystal.

* * *

Buddiol yn awr fyddai craffu ar yr enghreifftiau hynny o gydweithio a fu rhwng Jan Morris a Twm Morys. Maent wedi cydweithio ar ddau destun: bu i Twm Morys addasu’r gyfrol *Our First Leader* gan Jan Morris a’i chyhoeddi dan y teitl *Ein Llyw Cyntaf*; y mae *A Machynlleth Triad* yn gyfrol ar-y-cyd sy’n cynnwys testun gan Jan Morris a throsiad Cymraeg gan Twm Morys. Yn ogystal, bu i’r ddau gydweithio ar y gyfrol *Wales: The First Place*, sy’n cynnwys lluniau gan Paul Wakefield. Cyfrol o ysgrifau ydyw hon yn bennaf, gyda rhai cerddi Cymraeg enwog wedi eu cyfieithu i’r Saesneg gan Twm Morys.⁸²

Mae *Our First Leader* yn chwedl ddychanol sy’n sôn am sefyllfa ddychmygol ynghylch yr Almaenwyr yn ennill yr Ail Ryfel Byd ac yn ystyried tynged Cymru fel cenedl o ganlyniad i hynny. Darlunia *A Machynlleth Triad* dri chyfnod gwahanol yn oes tref farchnad Machynlleth - y gorffennol, y presennol a’r dyfodol. Caiff y ddau gyhoeddiad eu disgrifio fel damhegion neu fythau: ar ddiwedd *Our First Leader* dywedir; ‘And so another Welsh fable found its own conclusion, and joined the folklore’.⁸³ Ar glawr llwch *A Machynlleth Triad*, dywedir bod syniad y triawd wedi ei gymryd o ddyfais y Trioedd yn llên Gymraeg yr Oesoedd Canol. Dywedir hefyd fod y cyfieithiad gan Twm Morys yn ddatliad yn sgil y twf a welwyd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng nghanlyniadau cyfrifiad 1991.

⁸¹ *Ibid.*, t. 32.

⁸² Paul Wakefield a Jan Morris, *Wales: The First Place* (London: Aurum, 1982).

⁸³ Jan Morris, *Our First Leader* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000), t. 131.

Disgrifiad ffantasiol a geir o Fachynlleth y gorffennol a'r dyfodol, ac mae'r dyfodol hwnnw'n ymgorffori holl ddyheadau Morris ynghylch dyfodol Cymru ar lun cenedl annibynnol a gweriniaeth ddwyieithog, lle na orseddwyd un grefydd yn benodol. O gadw mewn cof haerid Twm Morys fod yna ffordd Gymraeg o 'wneud pethau', mae'n ddiddorol sylwi ar ei addasiadau yn y cyswllt hwn wrth iddo gyfieithu'r testunau i'r Gymraeg. Yn adran Y Gorffennol yn *A Machynlleth Triad*, er enghraifft, gellir gweld sut y mae arddull Jan Morris yn cael ei thrawsnewid yn arddull Gymraeg sy'n ymwybodol o'i chynulleidfa ddiwylliannol yng ngwaith Twm Morys. Arwyddocaol yn hyn o beth yw ei ddefnydd o gynghanedd: 'Ond peth unigryw i'r cyflwr Cymreig ydi chwerwedd y werin bobol yn erbyn eu meistri. O Went i Fôn Saeson sydd, yn boen ar Gymru beunydd, a hynny ers dau gan mlynedd.'⁸⁴ Yn y fersiwn Saesneg o'r un paragraff, dyfynna Jan Morris Farwnad Gruffudd ab yr Ynad Coch i Lywelyn, ond hepgorwyd y dyfyniad yn y fersiwn Gymraeg. Yn hytrach, rhoddodd Morys y frawddeg gynganeddol uchod yn ei le, o bosib oherwydd y dymunai roi mwy o bwyslais ar amgylchiadau pobl Cymru yn hytrach nag ailadrodd cerdd sy'n gyfarwydd i'w gynulleidfa ddychmygol eisoes. Mae'r defnydd o gynghanedd yn cyfrannu at arddull soniarus Morys, ac yn dwysáu'r teimladrwydd wrth iddo sôn am ing lladd Llywelyn ein Llyw Olaf. Mae arddull Morys hefyd yn adleisio arddull y chwedlau Cymraeg Canoloesol yn y ffordd y defnyddia gysyllteiriau i yrru'r stori yn ei blaen. Dyma, er enghraifft, y disgrifiad o Owain Glyndŵr yn cyrraedd Machynlleth:

A dyma fo'n codi ar farch du, ac yn pydru mynd ar hyd y ffordd byllog at groes y farchnad, ac i fyny'r stryd, a haid yn benelinoedd i gyd o wŷr y llys, a milwyr y bwrdeiswyr bach prysur ar ei ôl.⁸⁵

Gellir gweld yma y defnydd a wna Morys o gysyllteiriau er mwyn adeiladu cyffro. Cymharer â'r hyn a geir yn y Saesneg gan Jan Morris:

The moment he steps ashore a bristling bodyguard of toughs surrounds him, and mounting a black horse he swiftly rides, followed by a jostle of courtiers, soldiers and

⁸⁴ Jan Morris a Twm Morys, *A Machynlleth Triad / Triawd Machynlleth* (London: Viking, 1993), t. 105.

⁸⁵ *Ibid.*, t. 114.

fussing citizens, along the puddled track to the market cross, up the main street to the common land at the eastern end of the town.⁸⁶

Drwy adleisio arddull gysyllteiriol gyflym y chwedlau canoloesol, mae Morys yn awgrymu fod yna ‘ffordd Gymreig o wneud pethau’, chwedl Sagam – hynny yw, nid cyfieithu’n uniongyrchol i’r Gymraeg yw ei nod oherwydd cred fod angen ymwybyddiaeth o ddychymyg a meddylfryd y Gymraeg er mwyn trosi’n ystyrllon. Craffer ar hyn mewn cymhariaeth â’r fersiwn Saesneg, sy’n creu cyffro trwy restru’r sawl sy’n bresennol, ond heb y defnydd o gysyllteiriau. Mae dechrau’r frawddeg gyda ‘A dyma fo...’ yn creu naws o ddisgwyliad ac o arbenigrwydd o’i gymharu â’r ‘bwrdeiswyr bach prysur’.

Ceir enghreifftiau o Twm Morys yn medru manteisio ar gynulleidfa ddiwylliedig Gymraeg yn *Ein Llyw Cyntaf* hefyd, yn enwedig yn y ffordd y defnyddia emynau neu briod-ddulliau Cymraeg. Yn *Our First Leader*, mae cyfeiriad at y ffaith fod yn rhaid i’r Saeson symud yn ôl i’w cartrefi yn Lloegr – ‘induced to emigrate’⁸⁷ – disgrifiad a gaiff ei aralleirio gan Morys fel: ‘y Saeson i gyd i’w hel hi yn eu holau i’w hardaloedd helaeth hyll’.⁸⁸ Nid trosi i iaith arall yn unig a wna Morys, ond trosi i ideoleg y cenedlaetholwr diwylliannol sy’n feirniadol o gartrefi’r Saeson, a fynegir yn glywadwy drwy’r ailadrodd bwriadol-ormodiaethol ar y llythyren ‘h’.

Gellir disgrifio’r ddau waith hyn fel alegori, sy’n ddadlennol wrth ystyried sut y cysylltwyd alegori yn ddiweddar â llenyddiaethau ôl-drefedigaethol. Mae Bill Ashcroft, Gareth Griffiths a Helen Tiffin yn ymhelaethu ar y cysylltiad hwn:

Allegory has long been a prominent feature of literary and mythic writing throughout the world, but it becomes particularly significant for post-colonial writers for the way it disrupts notions of orthodox history, classical realism and imperial representation in general.⁸⁹

⁸⁶ *Ibid.*, t. 19.

⁸⁷ Morris, *Our First Leader*, t. 16.

⁸⁸ Twm Morys, *Ein Llyw Cyntaf* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2001), t. 16.

⁸⁹ Bill Ashcroft, Gareth Griffiths, Helen Tiffin (goln.), *Post-colonial Studies: The Key Concepts* (London: Routledge, 2000), t. 7.

Awgryma Simon Slemon fod ffurf yr alegori'n ddeniadol iawn i awduron ôl-drefedigaethol fel ffordd o herio disgwrs imperialaidd, ac fe wêl alegori fel rhywbeth sy'n amod o'r ôl-drefedigaethol. Dadleua fod yr alegori yn cael ei defnyddio fel ffurf lenyddol gan gymunedau ôl-drefedigaethol er mwyn herio naratifau'r coloneiddwyr. Esgorwyd ar ffræe yn sgil cyhoeddi ysgrif Fredric Jameson ynghylch alegori genedlaethol, 'Third World Literature in an Era of Multinational Capitalism' – gwaith sy'n dadlau fod pob testun o'r Trydydd Byd 'o reidrwydd' yn alegori. Y mae hyn, meddai, oherwydd yng ngwledydd y Trydydd Byd, nad yw cyfalafiaeth wedi cael cyfle i rannu'r profiad personol oddi wrth y sffêr gyhoeddus, ac o ganlyniad, fel y dywed Jameson: 'the story of the private individual destiny is always an allegory of the embattled structure of the public...culture and society'.⁹⁰ Beirniadwyd ei haeriad gan nifer o feirniaid a gredai ei fod yn cyffredinoli drwy haeru hyn, ond gwadu hynny a wnaeth Jameson, gan ddweud mai bwriad y traethawd oedd ceisio olrhain sut y gwnaeth ffurfiau fel yr alegori ddatblygu mewn cyd-destunau diwylliannol a gwleidyddol amrywiol. Drwy ddewis lleoliad yng nghanol Cymru ac ailymweld â'r dref mewn tri chyfnod gwahanol, mae *A Machynlleth Triad* yn adrodd hanes Cymru mewn ffordd anghonfensiynol sy'n cyfuno'r hanesyddol, y ffuglenol a'r proffwydol. Gellir disgrifio'r gwaith fel alegori oherwydd ei fod yn ail-greu ac ailddiffinio'r dref fel gwrthbwynt i ganolfannau dinesig, gyda'r bwriad o archwilio cyflwr ôl-drefedigaethol Cymru yn y drydedd ran, sef pan gyflwynir darlun o'r Gymru Rydd. Drwy gynnig proffwydoliaethau ynghylch Machynlleth a Chymru'r dyfodol, y mae Jan Morris a Twm Morys yn dychmygu eu Cymru ddelfrydol eu hunain - gan obeithio y caiff eu naratif ei ddychmygu'n realiti.

* * *

Dangoswyd yn y bennod hon fel y bu i Twm Morys yn ystod ei yrfa farddol hyd yma berfformio hunaniaeth mewn lleoliad arbennig ynghyd â sut yr aeth ati – yn wyneb yr argyfwng ieithyddol sy'n wynebu'r gymuned y mae'n rhan ohoni – i boliticeiddio rôl y bardd gwlad. Fel yn achos yr estheteg 'sgwarnogrwydd' honno ganddo – a oedd yn

⁹⁰ Frederic Jameson, 'Third World Literature in an Era of Multinational Capitalism', *Social Text*, 15 (1986), t. 67.

fodd o fynegi cenedlaetholdeb diwylliannol gwrthimperialaidd – defnyddia Morys *genre* a chonfensiwn rôl boblogaidd y bardd gwlad mewn cymunedau cyfrwng Cymraeg er mwyn creu naratif newydd sy'n talu gwrogaeth i'r sawl sy'n ymroi i warchod tiriogaeth y Gymraeg. Trwy ddyrchafu'r ymrwymiad hwn, gellir gweld y cysylltiad â 'hunaniaeth ddewisol' sy'n golygu y gall hunaniaeth fod yn fater o ddewis ymwybodol i ymroi i ddiwylliant neu genedl benodol.

Awgrymodd Angharad Price y gallai'r sefydliad democrataidd newydd a ddaeth i fod yng Nghymru ar ôl 1997 ddisodli rôl llenyddiaeth Gymraeg fel fforwm i drafod gwleidyddiaeth.⁹¹ Serch hynny, fel y dywedodd Sioned Puw Rowlands, mae'n bwysig fod y sawl sy'n coleddu safbwyntiau ymylol yn canfod cyfrwng i wyntyllu eu syniadau, am fod gwleidyddiaeth dymor byr a'r angen parhaus am gonsensws yn ymylu gweledigaeth 'iwtopaidd' fel un Morys.⁹² Er nad yw Morys yn beirniadu datganoli yn benodol, gellir dadlau fod ei waith yn feirniadaeth anuniongyrchol ar fethinat y Cynulliad Cenedlaethol i fod yn waredigaeth i'r Gymraeg - ac yn benodol i gymunedau Cymraeg eu hiaith. Ar ôl datganoli, mae amodau economaidd Llŷn ac Eifionydd yn parhau'n wan o'u cymharu ag eiddo Caerdydd. Er mwyn mynegi hyn, mae Morys yn dyrchafu'r lleol fel neges wleidyddol i'r 'Canol' newydd, sef Caerdydd, a, thrwy gyfrwng ei ailddehongliad a'i ailddyfeisiad o rôl draddodiadol y bardd gwlad, yn rhoi gwedd a llais newydd i genedlaetholdeb diwylliannol – syniadaeth sydd bellach ar yr ymylon yn wleidyddol wedi i genedlaetholdeb sifig ddod i rym.

⁹¹ Angharad Price, *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2002), t. 168.

⁹² Rowlands, *Hwyaid, Cwningod a Sgwarnogod*, t. 150.

Pennod 3

Raymond Garlick: Creu a Golygu Hunaniaeth

Ym 1987 cyhoeddodd Raymond Garlick gasgliad o'i gerddi, *Collected Poems 1946-86*, wedi cyfnod mudan gan y bardd. Mewn ysgrif ddadlennol sy'n olrhain ei yrfa farddol, rhestra Garlick rai o'r ffactorau a gyfrannodd i'w benderfyniad i ymatal rhag ysgrifennu barddoniaeth ar ôl 1979:

Events in private life, the anticipated referendum debacle, the increasing physical sanctions of disability, all warned of the renewed danger of letting go, of the urgent need for a strategic withdrawal in order to concentrate all remaining energies upon the support of the life-force itself, the tension of will with reality, the coiled spring.¹

Cyfeiria'r ffactorau hyn at ddigwyddiadau a ddisgrifiwyd gan Tony Conran fel y 'triple catastrophe' ym mywyd y bardd, sef y modd y bu i Garlick golli ei ffydd Gatholig, ysgaru â'i wraig ac anobeithio yn wyneb methiant refferendwm 1979 i sicrhau pleidlais ddigonol o blaid mesur o hunanlywodraeth i Gymru.² Yn y dyfyniad uchod, nid yw Garlick yn sôn am ei ymwadiad â Chatholigiaeth, rhywbeth sy'n arwyddocaol ynddo'i hun mewn perthynas â chyhoeddi'r casgliad o gerddi. Gosodwyd y cerddi yn *Collected Poems* mewn trefn thematig yn hytrach nag mewn trefn gronolegol, ac fe sylwodd Tony Conran, ymhlith eraill, fod un thema amlwg o yrfa farddol y bardd wedi ei hepgor yn llwyr – sef ei gerddi Cristnogol. Daethai Garlick yn aelod o'r Eglwys Gatholig ym 1948, y noson cyn iddo briodi ag Elin Hughes, a hynny er ei fagwraeth Brotestannaidd ac ymwybyddiaeth falch ei deulu eu bod yn ddisgynyddion i Biwritaniaid radical a fu'n

¹ Raymond Garlick, 'Inspiration and Perspiration', *Poetry Wales*, 24, 1 (Mawrth 1988), t. 37.

² Tony Conran, 'An Abdication from Time: an Essay on the Collected Poems of Raymond Garlick', *New Welsh Review*, 1, 1 (Haf 1988), t. 52.

bleidiol i achos y Senedd yn y Rhyfel Cartref.³ Bu i Hughes, hithau, ymuno â'r eglwys Gatholig yn oedolyn yn sgil dylanwad ymweliadau cyson wrth iddi dyfu â lleiandy a leolwyd ar dir fferm ei theulu.⁴ Daeth priodas Garlick â'i wraig a'i eglwys i ben; gwahanwyd y ddau yn derfynol ym 1977 ac fe gafwyd ysgariad ffurfiol ym 1982.⁵

Yn achos y penderfyniad i ddileu'r cerddi crefyddol o'r *Collected Poems*, dadleua Tony Conran ei fod wedi mynd ati i sensora'r elfen grefyddol, gan gyflwyno ei *oeuvre* mewn trefn 'thematig' – dwy strategaeth amheus yn ôl Conran am eu bod yn awgrymu fod y bardd wedi ymyrryd â hanes. Dywed Conran yn ei ysgrif feirniadol 'An Abdication from Time' fod Catholigiaeth Garlick wedi cyfrannu at ei weledigaeth farddol ac felly fod ymwadu â'r elfen hon o'i fywyd fel ymgais i newid yr hyn a ddigwyddodd:

For there is no doubt that he has compromised with his 'sense of time' – ditched it, in fact, along with the Catholicism. Martyrdom was an important dimension of what he gave expression to in Wales. To leave it out denies history as much as he says those Welshmen were doing who voted against devolution. His faith in Christianity may only have been imagination, but imagination is what poetry is made of. To deny the proper sphere of poetry in the name of morality or politics or a change of religious belief is what we say dictators do, or intolerant churches. He has opted for an identity and a survival that is basically timeless. Clio, the muse of history, is not so easily set aside.⁶

Mae *Collected Poems*, felly, yn ddatganiad fod un o feirdd mawr yr 'Ail-Flodeuo' a welwyd yn achos llên Cymru yn Saesneg (neu lôn Eingl-Gymreig, fel y gelwid hi am y rhan helaethaf o yrfa Garlick) wedi newid ei ewylllys farddol: hynny yw, bu i Garlick, o ran ei ddewis o gerddi yn y gyfrol hon, olygu'r gwaddol llenyddol yr oedd yn ei adael i'r 'canon' Cymreig. Gwnaeth hynny trwy olygu ei ganon ei hun. Yn ei rôl fel golygydd ei *Collected Poems* ei hun, mae ganddo'r grym wrth gwrs i ddehongli hanes fel y myn ac i ddiarddel y ffactorau hynny nad ydynt yn ennill ei ffafr mwyach, ac aiff ati i'w gwahardd

³ Raymond Garlick, 'A Small Boy in the Thirties III', *Planet*, 104 (Ebrill 1994), t. 79.

⁴ Don Dale-Jones, *Raymond Garlick* (Cardiff: University of Wales Press, 1996), t. 20.

⁵ *Ibid.*, tt. 32-3.

⁶ Conran, 'An Abdication from Time: an Essay on the Collected Poems of Raymond Garlick', t. 52.

Mae'r term 'abdication' â chysylltiadau brenhinol ac â'r syniad o newid trefn amser, ac mae hefyd yn addas ar gyfer cymeriad bonheddig Garlick ei hun.

o'i wladwriaeth farddol. Fodd bynnag, fel y nododd Conran yn y dyfyniad uchod, gellir cymharu penderfyniad Garlick i wadu agwedd arbennig ar ei gynnyrch barddonol â sut y gwêl Garlick ei hun fod penderfyniad pobl Cymru yn achos refferendwm 1979 yn ddatganiad sy'n gwadu fod Cymru'n genedl. Bu pleidlais 1979 yn ffactor a gyfrannodd, fel y nodwyd, at fudandod Garlick yn dilyn sawl degawd o ysgrifennu ynghylch sut y penderfynodd fabwysiadu hunaniaeth genedlaethol Gymreig a rhoi llais, drwy gyfrwng ei farddoniaeth a'i ryddiaith, i'r math o Gymru a ddyfeisiai ac a ddelfrydai. Y mae refferendwm 1979, felly, yn chwarae rhan allweddol nid yn unig yn ei fywyd personol, ond yn nhrywydd ei yrfa farddol yn ogystal.

Mae'r thema o 'olygu' yn berthnasol yn achos y bennod hon mewn ystyr arall hefyd, oherwydd nid dyma'r tro cyntaf i Garlick ailddyfeisio ei hunaniaeth. Wedi i Garlick symud o Lundain i Gymru, bu iddo ymroi'n llwyr i Gymru gan fabwysiadu hunaniaeth Gymreig (a Chymraeg hefyd, yn sgil ei benderfyniad i ymgynabod â'r iaith, ei llenyddiaeth a'i diwylliant). Bu hefyd yn olygydd cylchgronau a geisiai hyrwyddo a chreu deialogau rhwng dwy lenyddiaeth Cymru ('the relationship between the two languages and literatures should not be an either/or rivalry but a both/and integration' fel y dywed Garlick yn 1971)⁷ a chynnig fforwm ar gyfer llenorion Eingl-Gymreig – carfan a deimlai eu bod y tu allan i'r byd llenyddol Cymraeg ond a oedd hefyd yn gwrthod ymuniaethu â llenyddiaeth Lloegr. Ef, wrth gwrs, oedd golygydd *Dock Leaves* a droes yn ddiweddarach yn *Anglo-Welsh Review*. Yn ogystal, golygodd, ar y cyd â Roland Mathias, yr antholeg *Anglo-Welsh Poetry 1480-1936* (1984), a nifer o ysgrifau a oedd yn fanifestoau a geisiai sefydlu, cadarnhau a hybu hunaniaeth a dilysrwydd beirdd a llenorion Eingl-Gymreig.

Parau *mewnol* sy'n eu hamlygu eu hunain wrth astudio gwaith a dewisiadau hunaniaethol Raymond Garlick; Raymond Garlick y Sais ar y naill law a'r Cymro mabwysiedig ar y llall; Raymond Garlick ante-1979, a'r Raymond Garlick post-1979. Mae'r prosiect llenyddol yr ymgwymerodd ag ef er mwyn ennill statws i lôn Cymru yn Saesneg yn fodd iddo adeiladu canon llenyddol wrth iddo fynd ati i ddiffinio'r hyn a oedd yn ei dyb ef yn

⁷ Raymond Garlick, 'A Short Walk in the Desert', *Planet*, 4 (Haf 1971), t. 30.

gorff anrhydeddus o lenyddiaeth Eingl-Gymreig: dyma ganon llenyddol ar ei lun a'i ddelw ei hun. Ochr yn ochr â hyn, y mae'r prosiect hunangofiannol sydd yn ei waith yn amlygu'r dewis a dethol personol a wnaeth wrth ddyfeisio ac ailddyfeisio ei hunaniaeth.

* * *

Ganed Raymond Garlick ym 1926 yn Harlesden, yng ngogledd-orllewin Llundain. Treuliodd flwyddyn yn ystod 1930-31 yn gaeth mewn ysbyty lle cafodd amryw lawdriniaethau.⁸ O ganlyniad i'r afiechyd a fu ganddo fe'i hystyria Garlick ei hun fel rhywun ag anabledd – ffaith sy'n dra pherthnasol i'w waith a'i archwiliad o'i hunaniaeth bersonol, fel y cawn weld. Bu i'r profiadau erchyll yn yr ysbyty o weld â'i lygaid ei hun y dioddefaint a'r triniaethau o'i gwmpas esgor ar flynyddoedd o hunllefau. Y gred ar y pryd oedd bod ymweliadau gan rieni a theulu yn tristáu'r plant a oedd yn gleifion yn yr ysbyty, felly ni fyddai'n gweld ei rieni ond unwaith mewn pythefnos neu fis. Disgrifia'r profiad o fod yn yr ysbyty fel cyfnod o fod dan glo,⁹ a dadleua Don Dale-Jones y bu i'r cyfnod yn yr ysbyty arwain at synnwyr o ymddieithrio oddi wrth ei rieni a fyddai'n dwysáu wedi iddo symud i Ddeganwy – synnwyr, dadleua Dale-Jones, 'which...in part explains the poet's eventual severing of his roots in England in favour of new ones in Wales'.¹⁰ Bu'r broses o geisio gwella yn araf a phoenus iddo, yn seicolegol yn ogystal ag yn gorfforol. Disgrifia ymhellach brofiad a gafodd ar ei ddiwrnod cyntaf mewn ysgol sirol i fechgyn – pan orchmynnwyd iddo aros ar ei draed, peth na fedrai wneud, ac o ganlyniad fe'i gwnaed yn destun dirmyg gan ei athro. Dywed Garlick mewn ysgrif am y digwyddiad: 'Such experiences probably strengthened the life-force, exercising the nerves and will-power, encouraging individuality, independence, endurance and possibly a certain imaginative projection into the predicaments of others'.¹¹

⁸ Dale-Jones, *Raymond Garlick*, t. 4.

⁹ Raymond Garlick, 'A Small Boy in the Thirties II', *Planet*, 103 (Chwefror 1994), t. 41.

¹⁰ Dale-Jones, *Raymond Garlick*, t. 4.

¹¹ Garlick, 'A Small Boy in the Thirties II', t. 42.

Bu ei laslencyndod yn her iddo oherwydd ei sylweddoliad na fyddai byth yn gallu cerdded heb gymorth. Fodd bynnag, wedi symud i Ddeganwy fel ifaciwî yn ystod yr Ail Ryfel Byd a mynychu Ysgol Sir John Bright, fe'i hysbrydolwyd gan ei athrawon i ddarllen llyfrau a fyddai'n dylanwadu'n fawr arno, megis *The Story of San Michele* gan Axel Munthe a oedd yn ddylanwad pwerus ar y dyn ifanc o ran ei ymwybyddiaeth o faterion megis arddull lenyddol, arwyddocâd teithio, Ewrop, a Chatholigiaeth, gan fagu awydd ynddo i ysgrifennu ei hun. Pan dorrodd ei ysbryd, fe'i cynghorwyd gan ei athrawon i beidio â mynychu'r ysgol heblaw i sefyll arholiadau, ac i fynd i orwedd ar y traeth yn lle hynny. Profodd y cyngor hwn yn fendith fawr i Garlick, ac fe ddisgrifia mewn ysgrif sut yr ailsefydlodd ei synnwyr ohono ei hun: 'The crutches which had finally been discarded some years before were still necessary for the mind and will and imagination'.¹² Y ffon gyntaf a fabwysiadodd oedd meddylfryd penderfynol a'r hunanddisgyblaeth i beidio â chael ei orchfygu fyth eto – 'thus was established that deep tension between will and the reality which is a manifestation of the life-force itself'.¹³ Yr ail ffon oedd ei ffydd Gatholig. Mabwysiadodd ffon fagl feddyliol arall erbyn diwedd ei laslencyndod, sef celfyddyd, a'r ffurf a ddewisodd oedd barddoniaeth.

Eglura Garlick ei atyniad at roi trefn ar eiriau ar ffurf barddoniaeth ymhellach yn ei ysgrif 'Inspiration and Perspiration'. Y mae'n werth dyfynnu'r darn perthnasol yn ei gyfanrwydd:

What all the poems encountered from early childhood on had in common was a strong sense of structure. The precision with which English could be articulated, the grace of its sound, certainly led to a conscious determination to try to write and speak it as well as possible. But over and above precision and grace, language was dimly perceived to offer – particularly in the mode of poetry – a means of re-structuring experience, achieving a symmetry and elegance inexorably denied at the physical level. It is not something outside a man which depends upon him, breathes into him: on the contrary it is a tension, a coiled spring, sometimes a wounding of the consciousness, sometimes a gnawing worm, within the self – which he comes to discover can be controlled, exploited,

¹² Garlick, 'Inspiration and Perspiration', t. 35.

¹³ *Ibid.*

resolved, made creative, by shaping and structuring clay or paint or sound or language. Thus the famous words of Yeats: ‘We make out of the quarrel with others rhetoric, but of the quarrel with ourselves poetry...we sing amid our uncertainty; and smitten even in the presence of the most high beauty by the knowledge of our solitude, our rhythm shudders’.¹⁴

Mae’r llith hon yn cyfleu’n bwerus atyniad ysgrifennu iddo fel cyfrwng a all feithrin ynddo synnwyr cyflawn o’i hunaniaeth, a’r gallu i fynegi hynny trwy eiriau – fel na all wneud yn gorfforol. Darganfu fod modd rheoli’r tensiwn a deimlai rhwng dychymyg a realiti sefyllfa trwy gyfrwng ei ddefnydd o eiriau.

Yng nghyswllt y nod artistig hwn o ganfod trefn a chymesuredd yn ei achos ef ei hun trwy’r modd y caiff geiriau eu trefnu a’u saernïo, fe welir fod ei arddull farddonol ddiffiniadol yn adlewyrchu ei awydd i ddewis a dethol geiriau. Y thema gyntaf a amlygir yn *Collected Poems* yw hunaniaeth a chreffft yr artist ac awydd y bardd i weld geiriau fel cyfryngau sy’n ei alluogi i’w ail-greu ei hun. Dywed y bardd yn y gerdd ‘Bailing Out’, cerdd agoriadol y casgliad:

Be my escape, my parachute,
Fabric of words; unshut for me
Your cupola to catch my shout

And calm it to a silver curve.
Harness of great verbs, carry me;
Your ropes must float me down the cave

Of silence to the vowelled earth.¹⁵

Creu cerddi, felly, yw’r modd y cais y bardd sefydlu gwareidd-dra ac ymwadu ag anhrefn. Ymhellach, mewn erthygl yn *Anglo-Welsh Review*, disgrifia Garlick sut yr aiff

¹⁴ *Ibid.*

¹⁵ Raymond Garlick, *Collected Poems 1946-86* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1987), t. 13.

ati i ddewis a dethol geiriau penodol ar gyfer ei gerddi yng nghyd-destun schema lliw. Dywed na fyddai wedi mentro sôn am y broses hon yn gyhoeddus, oni bai iddo ddod ar draws y ffaith fod y bardd Rimbaud yn dilyn proses debyg. Fel yr esbonia'r bardd:

My colour-scheme, however, is not at all the same as Rimbaud's. A is apple-green, E is golden, I is luminous black, O is ivory-white and U is a medium blue. The colours are definite and unvarying. Sometimes in paint-and-wallpaper shops I have filled in odd moments by identifying the exact shades on those sample cards they have to help you choose and match your print.¹⁶

Â rhagddo i esbonio nad yw'n gweld cyfatebiaeth rhwng y lliwiau a sŵn y llythyren, felly nid yw'r lliw yn cynrychioli sain arbennig iddo. Yn hytrach, mae'r llafariaid yn lliwio geiriau fel ei fod yn darllen geiriau fel cyfuniad o liwiau gwahanol. Mae ei ddull o ddewis geiriau ar sail y lliw a wêl yn datgelu sut yr aiff ati i lunio ei gerddi: caiff y gair gweledol ei ddarllen fel lliw gweledol. Dywed fod ffurf weledol pob gair yn unigryw ac yn gerbyd i sŵn, teimlad, gramadeg, a geirdarddiad: '[it] embodies several other properties which give the word its meaning'.¹⁷ Ymhellach, iddo ef, mae rôl y bardd yn ymwneud â throï'r goddrychol yn wrthrychol. Fe rydd Garlick fwy o wybodaeth i'r darllenydd am rôl y bardd a'r broses o farddoni sy'n greadigol ac yn feirniadol yr un pryd: 'It is creative in so far as we are building up a unique variation of the pattern of language, shaped by the inward experience we are externalizing. It is critical inasmuch as the shaping – the selection of this word, the rejection of that – is a process of judgement'.¹⁸ Datgelir yma fod Garlick yn gweld y broses o farddoni fel creu clytwaith o wahanol ddeunyddiau; daw'r elfen greadigol o'i rôl ef yn dewis a dethol y geiriau priodol er mwyn dod â'r lliwiau cywir at ei gilydd. Y mae siâp, ffurf a phatrwm y geiriau yn wrthrychol bwysig iddo, oherwydd y gwrthrych sy'n dal y 'lliw', sef yr hyn y mae'r gair yn ei arwyddo iddo ef o ran syniad ac ystyr.

Priodol yma yw tynnu sylw at y tair cerdd o'r *Collected Poems* sy'n trafod ei farddoni

¹⁶ Raymond Garlick, 'The Words of my Life: Passages from an Autobiography', *Anglo-Welsh Review*, 13, 31 (Haf 1963), t. 16.

¹⁷ *Ibid.*, t. 18.

¹⁸ *Ibid.*, t. 19.

yng nghyd-destun yr hyn a wêl fel ei anabledd ('disablement', chwedl y bardd). Cynhwyswyd y tair cerdd – 'Personal Statement', 'Biographical Note' ac 'Indirect Speech' – yn ei gyfrol *A Sense of Europe* (1968), ond cyhoeddwyd 'Biographical Note' yn wreiddiol yn *The Welsh Speaking Sea* (1954) ac 'Indirect Speech' yn *Landscapes and Figures* (1964), cyn eu casglu ynghyd yng nghyfrol 1968.

Yn 'Biographical Note', defnyddia Garlick ddelweddau gwrthrychol i ddisgrifio corff a grebachodd, ac mae sŵn y geiriau a ddewiswyd yn pwysleisio teimlad annaturiol a gwrthoddedig persona'r gerdd, a'i unigrwydd ar drugaredd pwerau goruwchnaturiol:

And who am I? you ask. My mask is spare.
I live in a rakish body framed
About a spine like a buckled spire

Or twisted spring, my uncurled crown of thorn.
One crystal tear of God, one devil's flame,
Lies clear or leaps on this lop-sided throne.

As Earth desires the rain, the womb the seed, pain
Rest, conception birth, the burning lover
His beloved's breast; just so, to pin

A syntax on existence and to voice
The vowels of being is the hot desire
Locked in my knotted limbs and body's vice.

And thus I am, and thus you see me now:
A hustings for a heart wrapped in a wrack,
Lusting for words to shape itself anew.¹⁹

Egyr y gerdd wrth i'r llefarydd awgrymu ei unigrwydd a'i safle ymylol wrth ateb y

¹⁹ Garlick, *Collected Poems*, t. 20.

cwestiwn ynghylch pwy ydyw. Ceir darlun grotésg ac annaturiol o'r corff yn y disgrifiadau 'buckled' a 'twisted', ac awgrymir mai'r gwrthodedig sydd yma gan ei fod yn gwisgo coron ddrain. At hyn, y mae'n ansicr lle y mae'n sefyll rhwng melltith y diafol a thrugaredd Duw. Cyffelybir angen llefarydd y gerdd i leisio'r geiriau sy'n berwi yn ei gorff fel angen natur i genhedlu; gwêl eiriau fel yr unig gyfrwng sy'n rhoi gobaith er mwyn ailsiapio neu aildyfeisio'r hunan. Yn y gerdd hon gwelir gafael gref Garlick ar ffurf benodol y pennill tair llinell, gyda'i oferu crefftus a'r defnydd o odl Wyddelig i glymu'r llinell gyntaf a'r drydedd.

Yn yr un modd, mae'r gerdd 'Indirect Speech' yn trafod sut y mae geiriau yn gallu esgor ar rym cywirol a mynegiant ffisegol yn ogystal â mynegiant syniadol ac emosiynol. Disgrifia'r gerdd y corff heb strwythur, 'a sack of bones' sydd wedi colli'r gallu i ddarganfod ei gymesuredd ('symmetry' hollbwysig Garlick). Dengys y pennill olaf sut y mae'r corff yn llwyddo i adfeddiannu ei alluoedd trawsffurfiol coll drwy gyfrwng y broses o lenyddu – o lunio geiriau:

A symmetry of stanzas forms neat fours
Upon the placid square. Straight as a pen
He marches down the lines of metaphors.²⁰

Mae rhythm pendant y pennill hwn yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â sŵn lliipa pennill cyntaf y gerdd ('Trapped in a sack of bones swinging askew / Which no imperative of flesh can snap / Back into symmetry'). Lle'r oedd y corff yn siglo i bob cyfeiriad, erbyn diwedd y gerdd mae geiriau yn galluogi persona'r gerdd i orymdeithio'n fuddugoliaethus ac i fynd ar drywydd y grymoedd trawsnewidiol eraill hynny, trosiadau. Dyma ail-greu hunaniaeth bersonol drwy gyfrwng parch at adeiladwaith celfyddydol ac atyniad at sicrwydd ffurfiau a chreffft farddonol.

Pwysleisia Garlick eto yn y gerdd 'Personal Statement', drwy gyfrwng trosiad trawiadol, mor bwysig yw ffurf iddo: 'For me a poem is first a frame, / Form is the cane on which I

²⁰ *Ibid.*, t. 21.

lean'.²¹ Awgryma'r llinellau hyn fod arwyddocâd isymwybodol i'w awydd i ddefnyddio ffurf; mae strwythur penodol unwaith eto yn ddisgyblaeth farddonol iddo yn ogystal ag yn fodd i fodloni ei angen a'i ddyhead am gymesuredd geiriol ar gyfer ei feddwl a'i gorff. Ymhellach, ar ddiwedd y gerdd, ychwanega'r bardd haen arall o ystyr drwy awgrymu ei fod hefyd wedi dewis strwythur thematig i'w waith:

These syllables swarm
In Wales, Europe. Europe and Wales
Commit them to a theme and form.

And you see the vivid braille
I seek to punch, and slide beneath
Your fingertips: and why I fail.²²

Mae'r ddelwedd hon o'r dull *braille* o ddarllen eto yn cyfeirio'n ôl at gyflwr o anabledd. Awgryma'r bardd drwy gyfrwng y ddelwedd hon ei fod yn ceisio cyflwyno yn ei waith creadigol syniadau i'w gynulleidfa (sylwer mai'r awdur sy'n gwthio'r *braille* dan fysedd y darlennydd), gan ddadlennu ei awydd i oleuo'r gynulleidfa honno ac agor eu llygaid o'u dallineb mewn ffordd arbennig am Gymru ac Ewrop. Cyflea'r ddelwedd hon y syniad gan Garlick o 'lle'r oeddwn gynt yn ddall, rwy'n gweld yn awr' – syniad yn wir o dröedigaeth, sy'n thema gyson yn ei waith creadigol a'i fywyd personol. Sylwer hefyd, yng nghyd-destun yr archwiliad yn y gerdd hon o hunaniaeth bersonol artistig a mabwysiedig-genedlaetholgar, ar y mwysair cyrhaeddgar hwnnw yn nhrydedd linell y dyfyniad uchod, sef 'Commit'. Dyma air sy'n cyfuno'r ystyr sylfaenol 'trosglwyddo' â'r ystyr bellach 'cysegru', sy'n pwysleisio'r ymlyniadau cenedlaethol a chenedlaetholgar a ddewiswyd gan y bardd.

Gwelir felly yn y cyswllt hwn sut y bu i Garlick ddewis geiriau a'u paru â lliwiau, dewis a dethol ffurf, thema – y cyfan er mwyn cyflawni nod gwleidyddol yn ei farddoniaeth yn ogystal â gwneud iawn i ryw raddau am ei anabledd drwy gyfrwng sylw manwl i

²¹ *Ibid.*, t. 17.

²² *Ibid.*, t. 18.

batrymau cain a ffurfiau set (a sic) y gelfyddyd farddonol. Cyflwynir y syniad o ymroi i *grefft* barddoniaeth fel dewis yr oedd yn rhaid iddo ei wneud er mwyn goroesi. Erys, serch hynny, y geiriau ‘why I fail’. Er y cymhellion a'r strwythur pendant sydd ganddo wrth lunio cerddi, mae'n gyson ymwybodol o'i fethiant fel llenor. Lleda'r synnwyr hwn trwy lawer o'i waith, ac mae'n rhan ganolog o'i ymwybyddiaeth lenyddol a gwleidyddol.

Yn mae dewis Cymru ac Ewrop ('Wales, Europe. Europe and Wales', chwedl 'Personal Statement') fel prif fwrddwn ar gyfer ei weledigaeth fel bardd yn arwyddocaol. Sylweddolodd Garlick yn fuan iawn ar ôl dechrau ymweld â Chymru ei fod mewn lle gwahanol iawn – lle a oedd yn antithesis i'r bywyd swbwrbaidd Saesneg a brofasai yn Harrow. Dywed am Harrow:

it represented boredom, dullness, rootlessness...The acres of pink semi-detached houses on their well laid-out roads, with grass verges and flowering trees, seemed a desert in which none of the things which I was obscurely aware were going to be important to me – history, the past, art, books, nature, the countryside, Europe – had any place.²³

Mewn cyfres o erthyglau hanfodol bwysig yn *Planet* yn disgrifio ei blentyndod, cofia Garlick sut y rhyfeddai at y syniad y gallai fod y fath beth â gwlad ac iddi gymeriad, gwreiddiau ac amrywiaeth. Mewn ysgrif dan y teitl 'Choosing Wales' yn y gyfrol *Discovering Welshness*, fe'i gwelir yn datgan fod dewis Cymru, iddo ef, yn golygu:

choosing its diversity, its plurality, Gwynedd and south Pembrokeshire, Carmarthen and Cardiff, the industrial valleys of Gwent and Glamorgan as well as those of Eryri, Welsh-language and Anglo-Welsh cultures (for to ignore the latter is to be ignorant of a long dimension of Wales). This is something that many Welsh people have still to do clearly, and choosing Wales involves being clear-sighted about its weaknesses too – of which this very tendency to fragmentation is one. Like that of any other country ancient in origins but living in the last decade of the twentieth century, the identity of Wales is rich and complex. Those who seek to identify with it, to commit themselves to it, must grow into

²³ Raymond Garlick, 'Small Boy in the Thirties I', *Planet*, 102 (Rhagfyr 1993), t. 68.

this complexity and discover their own place there.²⁴

Sylwer ar y defnydd yn y fan hon drachefn o'r gair hwnnw 'commit'. Yng ngwaith Raymond Garlick, mae'r prosiect llenyddol hwn yn cydreddeg â'r prosiect hunangofiannol oherwydd, dro ar ôl tro, fe'i gwelir yn manylu ar sut y daeth i ddewis Cymru yn genedl i ymroi iddi. Ceir gan Raymond Garlick yn ystod yr 1980au a'r 1990au gorff o ryddiaith hunangofiannol hynod o bwysig. Y mae'r penderfyniad i fabwysiadu hunaniaeth Gymreig yn thema y dychwel Garlick ati yn ffiwgaid dro ar ôl tro. Dylid nodi yn y cyswllt hwn y casgliad o erthyglau a gyhoeddwyd yn y cyfnod ôl-1979: y gyfres o dair ysgrif dan y teitl 'A Small Boy in the Thirties'; 'Inspiration and Perspiration'; 'A Poet Looks Back'; 'Choosing Welshness' a'r ail gyfres o dair ysgrif, 'One Boy's War'. Ceir hefyd ganddo ailymweliadau â chyfnod sefydlu'r cylchgrawn *Dock Leaves*.²⁵ Yn y cyswllt hwn hefyd, y mae llawer o'r ysgrifau yn trafod yr un sefyllfa neu gyfnod, fel pe bai Garlick – trwy fabwysiadu'r dull ffiwgaid eto – yn ceisio gwneud synnwyr o'i benderfyniadau a'i ddewisiadau.

Rhydd Raymond Garlick bwyslais arbennig ar y 'dröedigaeth' ddiwylliannol a gafodd ar ôl symud i Gymru a dehongla'r lle fel man cyferbyniol iawn i'w fagwrfan ar gyrion Llundain. Darlunia Loegr mewn cyferbyniad â Chymru, a thrwy restru rhinweddau Cymru mae'n dilorni'r genedl Seisnig:

What a limited experience of Wales gave to this little boy in the Thirties was the glimmering of an idea that there was somewhere in these Islands where life need not be as boring, bland, restricting, characterless, unvaried, rootless as it was in London suburbia. And I wonder now whether even the older generation, though of course suburbia had quite different connotations for them, did not feel an obscure need to maintain links with places that had character and meaning.²⁶

Dyma'r 'Great Harrow Complex' y mae'n ei ddisgrifio dro ar ôl tro yn ei ysgrifau

²⁴ Raymond Garlick, 'Choosing Wales', yn Fiona Bowie, Oliver Davies (goln.), *Discovering Welshness* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1992), t. 53.

²⁵ Gweler y manylion yn Dale-Jones, *Raymond Garlick*, tt. 117-18, 119.

²⁶ Garlick, 'A Small Boy in the Thirties III', t. 77.

hunangofiannol. Fe'i gwelir yn gosod Cymru fel gwrthbwynt i Loegr, gyda phopeth diddorol, amrywiol a bywiol yn tarddu o Gymru, ac yntau'n ysu i ddianc oddi wrth unffurfiaeth ddiflas ei fagwrfan. Yn hyn o beth roedd y syniad o feddu ar wreiddiau cadarn yn atyniad amlwg iddo, ynghyd â hunaniaeth ddiwylliannol lawer mwy diriaethol na'r hyn a brofodd yn Llundain. Gwêl Gymru fel dewis amgen, sy'n cynnig posibiladau gwahanol iawn i'r hyn a nodweddai ei blentyndod – lle sy'n cynnig, yn ei farn ef, amrywiaeth a hanes a thraddodiad. Gellir dweud fod disgrifio newid hunaniaethol Garlick yn nhermau tröedigaeth neu ailenedigaeth yn addas o ystyried ei ddefnydd ef o'r ail derm hwn yn y gerdd 'Footnote', a gyhoeddwyd yn y gyfrol *A Sense of Time* ond a hepgorwyd, mae'n ddi-ddorol nodi, o'i *Collected Poems*. Dywed y bardd iddo brofi ailenedigaeth fel Cymro:

To be frank, England
is a country that I just don't know.
I was born there, of course,
in London, some forty years ago;
grew up, was schooled there,
in my fifteenth year was forced to go

to a factory there
to earn my bread. And then at eighteen
I was born again
in the granite and ultramarine
of Bangor, made free
at last of suburbia's pink patine.²⁷

At hyn, dywed Garlick, mewn ysgrif sy'n trafod sut y bu iddo ddewis hunaniaeth Gymreig, y caiff hunaniaeth ei ffurfio mewn dau gam: y cyntaf o'r rheini yw antipathi at rai pethau a thueddiad tuag at bethau eraill. Dywed ymhellach yn yr ysgrif y bu ganddo antipathi greddfoll tuag at nodweddion a gwerthoedd swbwrbia Llundain: 'To begin with it was simply so vast and sprawling and raw and characterless. Even then there was an

²⁷ Raymond Garlick, *A Sense of Time* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1972), t. 73.

awareness of fields, hedges, farms, woods, being devoured by the brash, new, pink housing-estates. By the beginning of adolescence there was an obscure consciousness of some of the suburban values of the late 1930s – British chauvinism, Philistinism, xenophobia, petty snobbery, Protestant sectarianism, and overall an ineffable smugness and complacency – and an inarticulate hostility to them.²⁸ Awydd y bardd i ddianc oddi wrth y gwerthoedd hyn sydd wrth wraidd ei hunaniaeth newydd. Tirlun Cymru fu'r atyniad cyntaf i Garlick y plentyn, ac yna fe ddatblygodd ymwybyddiaeth y gallai'r tirlun gwahanol hwn fod yn gartref i werthoedd amgen: 'Yet from the beginning there was an awareness that it was not only the magnificence of the landscape which moved and attracted, but its otherness – its Welshness, its place-names, its history, its daily language, its life and values so far as these could be glimpsed'.²⁹ Gallai Cymru, felly, gynnig lleoliad newydd i Garlick ddychymygu hunaniaeth amgen ar gyfer yr hunan newydd. Yn y darn sydd newydd ei ddyfynnu, ceir yr awgrym hefyd ei fod yn gweld Cymru fel rhywle egsotic, 'arall', ar gyrion Prydain Fawr ac sy'n cynnig iddo fydolwg gwahanol. Dyma'r genedl y mae ef yn ei chreu yn ôl ei anghenion seicolegol. Mae'r hunan blaenorol heb wreiddiau, ac mae'r syniad o berthyn yn Harrow yn cymharu'n dra anffafriol â'r hunan Cymreig.

Yr ail gam er mwyn sefydlu hunaniaeth yn ôl Raymond Garlick yw gweithred o ewyllys: 'The full and final formulation of identity is reached by acts of choice and will. The process of legal naturalization in states which provide for it is a recognition of this fact'.³⁰ Dywed ei fod yn credu fod cyfrifoldeb dros iaith a diwylliant y genedl fabwysiedig, dyletswydd i amddiffyn y genedl a phleidleisio'n briodol i bwy bynnag sy'n hybu diddordebau'r genedl, yn rhan hanfodol o rôl y dinesydd. Dywed ymhellach yn yr un ysgrif ei fod yn ystyried Gwynedd fel y 'wir Gymru' wedi iddo symud i Sir Benfro ym 1949 a gweld mor wahanol oedd y ddau le yn ieithyddol. Sylweddolodd yn ddiweddarach y bu ei agwedd yn anghywir yn hyn o beth oherwydd bod yr amrywiaeth oddi mewn i un wlad yn rhywbeth i'w ddathlu. Noder hefyd mai yn Sir Benfro y cydsefydlodd gylchgrawn newydd ar gyfer llên Eingl-Gymreig, sef *Dock Leaves*. Yn ail rifyn y

²⁸ Garlick, 'Choosing Wales', t. 57.

²⁹ *Ibid.*

³⁰ *Ibid.*

cylchgrawn hwnnw (Pasg 1950), y mae'n cyflwyno dadl ynghylch yr hyn yw hunaniaeth Gymreig:

What is it, in short, that makes a nation – is it language?...More than half the population of Wales does not speak the Welsh language...Participation in a literature and culture...is insufficient ground for nationality...Ultimately a man is of a certain nationality because he wills it so...³¹

Yn achos Garlick mae mabwysiadu hunaniaeth Gymreig yn golygu cymryd cyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg fel rhan hanfodol o fyw yng Nghymru. Ar y llaw arall, y mae'n datgan yn y cylchgrawn *Dock Leaves* fod modd bod yn ddinesydd Cymreig heb fod meddu'r Gymraeg yn amod o hynny.

Mae swmp mawr o gerddi Garlick yn ymwneud â'i berthynas â Chymru. Yn y gerdd 'Points of Departure', ystyria sut y gall fynegi'r syniad eang o Gymru sydd ganddo ac sy'n ei ysbrydoli: 'How / to articulate / Wales?'.³² Dywed y gerdd mai canu am natur a thirwedd Cymru y mae am ei wneud:

Sing
the smooth sands' face,
the blank, unruffled wing
of the evening. Wales is a place
to write on: slate for incising,

air
unsigned, and night
like a blackboard there
over Eryri, where in chalks of light
tomorrow will canticle and flare.³³

³¹ Dyfynnwyd yn Dale-Jones, *Raymond Garlick*, t. 93.

³² Garlick, *Collected Poems*, t. 14.

³³ *Ibid.*

Mae'r syniad hwn o Gymru fel llechen lân yn atyniadol iawn i'r bardd oherwydd y mae'n cyd-fynd â'i syniad o ailddyfeisio hunaniaeth. Cynigia Cymru fan lle gall ei ail-greu ei hun, ac ymhellach, y mae ef ei hun yn rhydd i ddyfeisio'r Gymru a rhamanteiddio'r gwerthoedd hynny sy'n ei atynu at Gymru sef tirlun gwledig, hynafolrwydd ei hiaith a'i diwylliant, a'i heddychiaeth.

Ategir hyn mewn cerddi fel 'Explanatory Note' a 'Directions for Visitors'. Yn yr ail, y mae'r bardd yn efelychu neges rhai o gerddi R. S. Thomas sy'n dweud nad yw'r ymwelydd yn gweld y Gymru 'go iawn': 'If you want to see Wales, / Measure the long isosceles / Of Snowdon with your feet; / Fly your heart through the dappled trees / Of calm Cwm Cynfal'.³⁴ Rhywbeth i ymdeimlo ag ef yw Cymru: rhaid yw ei gweld â'r galon yn ogystal â'r llygaid. Mae'r gerdd hon yn cloi wrth gyfeirio at fan claddu Dafydd ap Gwilym a'r traddodiad barddol a ystyrir gan y bardd fel rhan mor hanfodol o hunaniaeth Cymru:

Beyond the transept seek the yew,

The flame of evergreen
That streams up from the dead Dafydd's bones,
And know that there, under
The sheep-cropped turf and tumbled stones,
Are clenched the corded roots
Stronger than new pence or old thrones.³⁵

Yn 'Explanatory Note', dywed y bardd ei fod yn cyfystyru Cymru â heddwch – sydd eto'n enghraifft o sut y gwêl Gymru fel lleoliad ei ddelfrydau. Y mae ei Gymru ef yn rhydd oddi wrth y drefn Seisnig y ceisia ddianc oddi wrthi: 'Wales is a word for life / Without kings and lords, and the cakes / Of living expertly sliced / Into great wedges, slender flakes'.³⁶ Wrth drafod lleoliadau Cymru yn ei gerddi, tuedd y bardd yw

³⁴ *Ibid.*, t. 95.

³⁵ *Ibid.*

³⁶ *Ibid.*, t. 123.

canolbwyntio ar y gorffennol a mawrygir hynafolrwydd diwylliant Cymru. Yn y gerdd ‘Dyfed’, er enghraifft, portread rhamantus a geir o ‘Dyfed, Wales within Wales, world / Within world, within whose heart lay curled / The flowers from which the Four Branches were unfurled’.³⁷

Y mae’n briodol tynnu sylw yn y fan hon at feirniadaeth Robert Minhinnick mewn adolygiad ar *Collected Poems* Garlick. Haerodd Minhinnick nad oedd y Gymru a ddarlunnir yng ngwaith Garlick yn wlad y medrai ei hadnabod. Dywed ei fod yn lle diddorol, ond cyhuddir Garlick o ddarlunio gwlad heb bobl: ‘And really the poet’s “Wales” is difficult to discover because it is unpeopled’.³⁸ Dadleua Minhinnick nad yw Raymond Garlick yn ymgysylltu â phobl Cymru – heblaw am ymgyrchwyr iaith fel carfan.³⁹ Serch hynny, mae’n edmygu defnydd Garlick o ffurf a sut y defnyddia strwythur i ddisgyblu ei gerddi: ‘There is real bone in Garlick’s verse, his poems stand erect and vivid as guardsmen’.⁴⁰ Ar un wedd, dyma sylw anffodus braidd, efallai, o gofio am un o ddelweddau diffiniol Garlick o Gymru yn ‘Explanatory Note’ – ‘The changing of the guard / Is not our national frontispiece’ – ond un addas o ystyried parch Raymond Garlick at strwythur a ffurfioldeb barddonol. Fel y noda Minhinnick, prin iawn yw’r bobl, ond ceir rhai cerddi am wragedd cymuned Llansteffan, megis ‘Miss Prytherch’ a ‘Miss Puw’, sy’n dangos ei ddawn i greu portreadau annwyl a chofiadwy. Fodd bynnag, mae ‘Miss Prytherch’ yn ddarlun o wraig ddiwylliedig sy’n cyd-fynd â syniad y bardd o Gymru – gwraig sy’n darllen cylchgronau Cymraeg – a drosglwyddir iddi gan y bardd ei hun: ‘She likes to know / What’s happening in her Wales – / Those well-farmed uplands and vales / of the word and its culture, / Landscapes where values are sure / As the seasons, their appeal / To the taste like an apple’.⁴¹

Y mae Minhinnick yn chwyrn ei farn wrth ddweud fod Garlick yn tueddu i ddefnyddio

³⁷ *Ibid.*, t. 101.

³⁸ Robert Minhinnick, ‘Problem Class: Raymond Garlick and the Welsh’, *Poetry Wales*, 23, 2, 3 (1988), t. 26.

³⁹ Gweler, er enghraifft, gerddi fel ‘Public Gallery’, ‘Anthem for Doomed Youth’, ‘Judgement Day’, Garlick, *Collected Poems*, tt. 130-34.

⁴⁰ *Ibid.*, t. 26.

⁴¹ Garlick, *Collected Poems*, t. 121.

barddoniaeth fel math o bropaganda:

For human relationships are rarely his subject and it is at times dismaying to realize that the writer's broad European canvases are based around theories, and that those theories are being used on the reader as form of propaganda.⁴²

Treuliodd Garlick a'i deulu rai blynyddoedd yn yr Iseldiroedd pan fu'n gweithio fel athro mewn ysgol ryngwladol yno (1961-67). Yn y gyfrol *Collected Poems*, ailgyhoeddwyd nifer o'i gerddi a gyfansoddwyd yn yr Iseldiroedd, lle'r amlygir y thema o heddwch a'i ddaliadau personol fel heddychwyr. Un o'r rheini yw 'Fourth of May', ac y mae'n enghraifft o gerdd lle ymdrinnir â heddychiaeth a Chymru mewn cyd-destun Ewropeaidd. Dywed y bu i dri llinyn ei sbarduno i ysgrifennu'r gerdd hon: arwyddocâd Mai 4ydd – 'Herdenkingsdagl' – sef diwrnod cofio am yr Iddewon a laddwyd yn yr Ail Ryfel Byd yn yr Iseldiroedd; rhaglen ddogfen am ystad Eerde ger tref farchnad Ommen (sef lleoliad y gerdd); a rhaglen ddogfen am weithgarwch parafilwrol yng Ngogledd Iwerddon a chan y Free Wales Army yng Nghymru. Wrth gerdded ystad Eerde a gwerthfawrogi ei heddwch gwledig, roedd yn ymwybodol ar yr un pryd y bu ofn a thrais yn bresennol yno yn y gorffennol: 'Recalling uneasily the television documentaries I had seen, I could only hope that in pastoral Wales – for centuries untouched by bloodshed, unaware of planned violence as a local, rural experience – such things would never happen'.⁴³ Y mae'r gerdd hon hefyd yn cynrychioli'r newid mewn strwythur a fu yng ngwaith Garlick yn ystod ei gyfnod yn yr Iseldiroedd, pan fabwysiadodd yn ei gerddi am y wlad honno, fel y nododd Don Dale-Jones, ffurf y pennill pedair-llinell-fer mydr ac odl:⁴⁴

On this still night

I think of the men

And women and children

Made victims here,

⁴² Robert Minhinnick, 'Confessions of a Formal Man', *Planet*, 24, 1 (Gwanwyn 1988), t. 39.

⁴³ Raymond Garlick, 'Fourth of May', *Anglo-Welsh Review*, 62 (1978), t. 87.

⁴⁴ Dale-Jones, *Raymond Garlick*, t. 55.

The shock of blood
And the smell of fear

In the pink, scrubbed farms;
The school courtyard
An anvil hammered
By heels on guard;

The tall boots bruising
The sunlit lawn;
Doom at the door
In the cold of dawn.

I think of this
And remember Wales,
The size of Holland.
Don't let the scales

Skew down for casual
Violence there,
Tilted by hands
Half unaware.⁴⁵

Y mae'r gerdd hon yn cynrychioli nifer o gerddi gan Garlick sy'n ceisio gosod Cymru yn ei chyd-destun Ewropeaidd. Dengys cyd-destun y gerdd nad yw Garlick yn ddall i ffaeleddau Cymru a'i fod yn barod i leisio barn yn erbyn datblygiadau syniadaethol sydd, yn ei dyb ef, yn peryglu'r wlad. Beirniadwyd 'Fourth of May' gan John Pikoulis am geisio. Ymatebodd Jon Dressel i gŵyn gan John Pikoulis ynghylch priodoldeb cymharu sefyllfa Cymru â sefyllfa'r Iddewon yn 'Fourth of May'. Honnodd Dressel y dylid condemnio'r weithred o ddinistrio hunaniaeth genedlaethol yn yr un modd ag y condemnir dinistrio bywydau:

⁴⁵ Garlick, *Collected Poems*, t. 91.

The Nazis, after all, were militarily defeated (with not a few Welsh lives given in the process); their occupation of Holland *did end*, but the economic and psychological occupation of Wales has gone on for centuries, and goes on now. The crisis of the Welsh Spirit, the threat of Welsh cultural annihilation, is real, present, continuous.⁴⁶

Yn ogystal, mae Dressel yn ymosod ar Pikoulis am iddo awgrymu fod cerddi Garlick yn coleddu'r gwledig ac yn hen ffasiwn o'u cymharu â barddoniaeth Saesneg gyfoes. Ymetyb Dressel trwy ddweud nad oes raid i feirdd geisio efelychu ffasiynau cyfoes yr iaith Saesneg:

There may be some places on earth fortunate enough in terms of geography, history, persistence of cultural tradition to avoid total engulfment by consumer industrialism. Wales may be one of them, and the poetry that Mr. Pikoulis and others dislike may be avant-garde rather than re-actionary, the product of sensibilities on an emergent cutting edge, the work of men whose memory and vision are such that they are slowly awakening their people to the possibilities of Wales going on, again.⁴⁷

Yma, mae Dressel – yn yr un modd â Garlick – yn credu fod hunaniaeth a dychymyg Cymreig yn esgor ar farddoniaeth a fydd yn wahanol iawn i'r nodweddion hynny a ddatblygir o safbwynt diwylliant gwahanol. Mater Cymru sy'n rhoi cyfeiriad i'w menter farddonol ac sy'n golygu y bydd eu cynnyrch celfyddydol yn amgen i'r hyn a ystyrir yn flaengar yn Lloegr a thu hwnt.

Perthnasol yw galw sylw yma at y cerddi hynny gan Raymond Garlick sy'n darlunio achosion llys Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Ceir y mwyafrif o'r cerddi hyn yn y gyfrol *A Sense of Time* (1972): mae'r gyfrol yn ymdrin â defnydd pobl o amser a'u hanallu i ddysgu gwersi o hanes – o greigiau hynafol traeth Llansteffan, hanes personol, hanes Cymru, Ewrop a'r byd. Mae uniongyrchedd ergydiol newydd yn nodweddu'r cerddi sy'n ymdrin ag ymgyrchwyr iaith ac sy'n cofnodi'r achosion llys, ac wrth gofnodi hefyd nodi edmygedd y bardd o'r aberth a wnaed gan y protestwyr. Dylid nodi yn y cyswllt hwn fod

⁴⁶ Jon Dressel, 'Correspondence', *The Anglo-Welsh Review*, 26, 58 (Gwanwyn 1977), t. 227.

⁴⁷ *Ibid.*, t. 230.

gwraig a mab Garlick wedi'u carcharu yn ystod yr ymgyrchoedd i godi statws y Gymraeg.⁴⁸ Dywed Garlick fod y digwyddiadau hyn yn ysgogiad creadigol annisgwyl iddo yn y cyfnod hwn:

Shortly after the permanent return to Wales in 1967, life pulled out another drawer and scattered a whole series of new pictures which, very unexpectedly, were to give rise to a lot of new poems: a police boot on a hand, young people dragged by the hair, court scenes reminiscent of Daumier, respectable citizens standing in the dock, the gates of Swansea and Cardiff prisons. This was a context, these were scenes, for which one was almost totally unprepared (apart from detached observation of something similar in Flanders), but they were at once felt to fit into the general pattern of growing Civil Rights awareness of the time, where colour or religion were the issues elsewhere, and language here. Most poetry originates in emotions of wonder, love, grief, but these events gave rise to an emotion which Gwenallt in Welsh and Idris Davies in English had shown could be productive of poetry, namely anger.⁴⁹

Yn y cerddi hyn ceir y syniad fod y bardd yn *spectator ab extra*, yn wylwr o'r tu allan. Mae'n aros yn y galeri cyhoeddus mewn cerddi fel 'Public Gallery' ac yn beirniadu'r awdurdodau o'r ymylon, ac unwaith eto ceir y teimlad ei fod yn alltud cymdeithasol. Cais danseilio awdurdod y barnwr wrth feirniadu sut y caiff y protestwyr eu trin yn y llys a'r gosb a roddir iddynt. Disgrifir y barnwr ei hun fel 'Pert or insolent, mute, uncritical, / No Welsh at all, and English pitiful'.⁵⁰ Y mae ymdriniaeth y bardd â'r protestwyr eu hunain yn gwbl wahanol: 'Appalled, I watch the alienation / Of the finest minds of a generation'.⁵¹ Amlyga'r llinell hon mai o bell y mae Garlick yn dyst i ddigwyddiadau'r llys: mabwysiaida rôl sylwebydd sy'n rhoi golwg amgen ar yr achosion llys, a hynny trwy gyfrwng y Saesneg. Yn yr un modd ag y gwêl werthoedd Cymru a swbwrbia Llundain ei fagwraeth mewn termau deuol, dyma hefyd sut y cyflwynna'r awdurdodau (diweledigaeth a diddeall) mewn cyferbyniad â'r protestwyr (arwrol a deallus). Y mae'r gerdd 'Documentary' yn *A Sense of Time*, sy'n cofnodi digwyddiadau mewn protest yn

⁴⁸ David Lloyd, 'An Interview with Raymond Garlick', *Poetry Wales*, 26, 3 (Ionawr 1991), t. 38.

⁴⁹ Garlick, 'Inspiration and Perspiration', t. 37.

⁵⁰ Garlick, *Collected Poems*, t. 130.

⁵¹ *Ibid.*

Abertawe ar Fai'r 8fed, 1971, yn achos prin lle gwelir Garlick yn amrywio ac yn arbrofi'n deipograffig â ffurf cerdd ar y dudalen. Chwaraea'r bardd rôl y dogfennydd yma gan adeiladu tensiwn tuag at ymyrraeth dreisiol yr heddlu yn y brotest heddychlon ('The violence succeeds').⁵² Gesyd y bardd y llinellau yn y cyswllt hwn fel bod dwy golofn o eiriau ar y dudalen er mwyn cyfleu'r ddwy res o heddlu a oedd yn cerdded tuag at y brotest. Er mwyn cyflwyno darlun gweledol o banig, ceir newid gweledol lle try'r ddwy golofn drefnus hon o eiriau yn enghraifft o osod y geiriau yn flêr ar hyd y dudalen, gan gyflenwi bylchau amlwg rhyngddynt. Llwydda'r ffurf i gyfleu emosiwn ac anhrefn yn weledol, gan gryfhau'r syniad o'r bardd fel llygad-dyst – yn gofnodwr digwyddiadau – ar ran allanolion eraill. Cerdd arall berthnasol yn y cyd-destun hwn yw 'Anthem for Doomed Youth' lle dyfynnir mewn cyfieithiad y llinell honno, 'Gobeithiaw a ddaw ydd wyf', a ddefnyddir fel byrdwn mewn cywydd gan Siôn Cent:

My hope is on what is to come.

I turn in anguish from the servile, dumb

Present – from an indifferent people, shut

To justice, crouching in the heart's dark hut.

I turn to the future, to a Wales hung

With the names, like garlands, of today's young.

Outside the court the three stood in the sun,

Poised, at ease, in the soft chrysanthemum

Light of Swansea, the bitter city. They

Alone knew freedom on that icy day.⁵³

Y mae'r Cymry ifainc sydd yn y llysoedd yn ymgorffori gwerthoedd y Gymru a ddewisodd Garlick: gweithredant mewn modd heddychlon ac urddasol er mwyn

⁵² Garlick, *A Sense of Time*, t. 38.

⁵³ *Ibid.*, t. 132.

gwireddu eu gweledigaeth o gael statws i'r iaith Gymraeg ac i Gymru. Mewn cerdd a hepgorwyd o'r *Collected Poems*, 'Passion 72: 9 Chwefror 1972', mae Garlick yn cymharu'r ymgyrchwyr sydd yn y llys ag achosion enwog eraill lle camweinyddwyd cyfiawnder, ac fe gyfeiria at Socrates, Crist a Portia, Peilat, Moscow ac Ulster, gan ryfeddu at ddiffyg ymwybyddiaeth yr awdurdodau ac at y ffaith na ddysgwyd yn ei dyb ef unrhyw wersi o'r gorffennol: 'A peppercorn still / on the judgement seat, / he's ground in the mill / of the police, the scribe / and the pharisee, / washes his hands of / justice, goes to tea'.⁵⁴

Y mae'r gerdd 'Acclamation' yn ddadlennol am ei bod yn dangos fod y bardd yn parchu aberth y protestwyr iaith o safbwynt Catholig. Fel epigraff i'r gerdd y mae dyfyniad o 'Wedi'r Canrifoedd Mudan' Waldo Williams, sy'n adfer y cof am y merthyron Catholig o Gymru – nifer ohonynt yn ffigyrau y bu Garlick yn ymgyrchu am statws saint iddynt.⁵⁵ Fel y gerdd honno, mae 'Acclamation' yn coffáu merthyrodod ac yn dwyn i gof hanes Catholig Cymru, a gesyd y bardd yr ymgyrchwyr iaith yng nghyd-destun y merthyron newydd hyn: 'I shall not name / today's – young men, young women, of Wales / who go singing to the prisons for love / of things invisible, like those of old, / resplendent in the wisdom of the dove'.⁵⁶ Dengys y gerdd hon fod cydblethu rhwng safbwyntiau gwleidyddol a chrefyddol Garlick, yn arbennig yn achos ffigwr y merthyr, a bod ei safbwyntiau crefyddol, felly, yn sail i'w gydymdeimlad tuag at yr ymgyrchwyr iaith. Fodd bynnag, yn ei *Collected Poems* hepgorwyd y cerddi ganddo a drafoda'r merthyron Catholig, ac felly collir darn hanfodol o ddatblygiad syniadaethol y bardd sy'n esbonio'r uniaethu hwn rhwng gwleidyddiaeth a chrefydd.

Mae'r gyfrol *Incense* (1976) yn cwblhau'r drioleg o gyfrolau gan Garlick rhwng 1968 ac 1976, ac yn cynnwys cerddi a gyfansoddwyd rhwng 1972 ac 1975. Mae teitl y gyfrol yn ein cyfeirio at y Catholig, ac mae nifer o'r cerddi yn ymdrin â materion personol ac ysbrydol, sy'n cyd-fynd â naws dawelach a mwy ystyriol y gyfrol o'i chymharu â

⁵⁴ Garlick, *A Sense of Time*, t. 51.

⁵⁵ Conran, 'An Abdication from Time: an Essay on the Collected Poems of Raymond Garlick', t. 51.

⁵⁶ *Ibid.*, t. 69. Noder mai cerdd gomisiwn ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru oedd y gerdd hon. Fe'i darlledwyd mewn cynhyrchiad ar gyfer Radio Cymru yn Chwefror 1972.

gweddill y drioleg. Mewn adolygiad ar y gyfrol, gesyd Tony Bianchi bwyslais ar Gymreictod y casgliad gan dynnu sylw at yr hyn a wêl fel natur ‘anfodddhaol’ y cerddi. Meddai:

I wonder whether their unsatisfactoriness does not stem from the old dilemma which faces most writers in English who consider themselves Welsh and who write in Wales – a dilemma which distinguishes them from the traditional Welsh writer. While the latter find (or at least used to find) both his public and his subject matter in a ready made and clearly defined community (of which he was a member), the Anglo-Welsh writer has no secure place or function. To re-discover Wales, in order to make it the background from which he feels he must write, he can do two things: he can attempt to identify himself with the Welsh speaking community, or he can turn in upon himself and seek an ideal Wales of the imagination (the ‘secret place within the source of tears’ where Vernon Watkins discovered his ‘native land’).⁵⁷

Dywed Bianchi fod hyn yn wendid yn achos y llenor Eingl-Gymreig oherwydd yr amwysedd a deimla ynghylch ei hunaniaeth a’r iaith Saesneg sy’n gyfrwng i’w farddoniaeth. Ond cred Bianchi fod arwyddion yn y gyfrol *Incense* fod Garlick yn gwisgo’r ‘masg’ yn llai amlwg, yn bennaf y gyfres o gerddi ‘Intersections’. Dywed Bianchi: ‘Several of the poems in *Incense* reveal that at least the public mask is being worn less awkwardly, yet there is a loss of muscularity, variety, and experimentation in the public poems since *A Sense of Time*... The way ahead, perhaps, is no longer with the aid of either of these well-worn masks, but in writing unashamedly of himself, as he has began to do in “Intersections”’.⁵⁸ Yn eironig, dyma gyfres o gerddi sy’n ymdrin â’i ffydd Gatholig. O fewn tair blynedd, byddai’r ddwy agwedd hon ar ei waith – Cymreictod a ffydd Garlick – yn cael eu hailystyried yn llwyr ganddo yn sgil Trychineb Triphlyg 1979.

* * *

Fel y gwelwyd, wrth fynd ati i lunio ei *Collected Poems* – ei ddiffiniad ei hun o’i yrfa

⁵⁷ Tony Bianchi, ““Let the Poem Shout Praise” – a View of Raymond Garlick’s *Incense*”, *Planet*, 40, (Haf 1977), t. 26.

⁵⁸ *Ibid.*

farddonol – penderfynodd Garlick osod y cerddi mewn trefn thematig yn hytrach na threfn gronolegol. Cyfyd amheumon ynghylch y penderfyniad hwn pan ystyrir y ffaith bwysig honno fod un thema gyson drwy gydol ei yrfa yn absennol yma – sef cerddi yn ymwneud â'i ffydd Gatholig. Y mae'n werth oedi yn y fan yma i gynnig rhestr o'r themâu hynny yn eu trefn: hunaniaeth a chreffft yr artist; hunangofiant; celfyddyd (arlunio, cerddoriaeth, llenyddiaeth) a gwaith beirdd eraill; lleoedd arbennig; Cymru; yr Iseldiroedd; Ewrop; lleoliadau yng Nghymru; gwleidyddiaeth; yr hunan a'i golledion / anabledau. Amlygodd ei gyfrolau unigol ddatblygiad ym meddylfryd ac arddull y bardd: sail y gyfrol *A Sense of Europe* (1968) oedd y flwyddyn a dreuliodd Garlick yn yr Iseldiroedd; pwyslais *A Sense of Time* (1972) yw achosion llys protestwyr Cymdeithas yr Iaith Gymraeg; mae *Incense* (1976) yn datgelu'r bardd myfyriol ar draethau Llansteffan ac yn trafod materion crefyddol. Dywedodd Leslie Norris fod gwerth i'r drefn thematig: y mae arwyddocâd y cerddi unigol yn gryfach o'u gosod ar y cyd â cherddi eraill sy'n rhannu'r un thema. Â Norris rhagddo i nodi:

I would say then, that the organization of the poems is generally very successful. I would have liked the work of the last ten years printed as a group, I would have liked to have seen the newer roads on which Garlick was moving; but he has in my opinion certainly presented his work in an interesting new light, showing us a man at once complex and very direct, keeping faithful to early principles and applying them to whatever new experiences came his way. On the other hand, there are some drawbacks. He is a careful and painstaking craftsman and one of the pleasures of reading his work in successive collections is to recognize his developing interest in formally complex patterns, to admire his increasing mastery of craft.⁵⁹

Yn y cyswllt hwn, dylid nodi fod nifer o'r cerddi ar ddiwedd y gyfrol *Collected Poems* yn rhai a luniwyd yn sgil y 'triple catastrophe'. Mewn ysgrif yn y gyfrol *Welsh Writing in English*, mae Tony Conran yn trafod yr ailflodeuo a fu ym maes llên Cymru yn Saesneg (neu lên Eingl-Gymreig), yn enwedig ar ôl sefydlu cyfnodolion fel *Poetry Wales*. Archwilia Conran waith Raymond Garlick a cheir ganddo sylwadau ynghylch sut y mae

⁵⁹ Leslie Norris, 'Raymond Garlick, Collected Poems 1946-1986', *The New Welsh Review*, 1, 1 (Haf 1988), tt. 54-5.

ego'r bardd yn ganolog i'w holl waith:

This condition of partial impotence – not sexual, of course, but a failure of feeling and emotional spontaneity – is grounded in what his later poems call 'survival' and 'identity', which seem to me merely names for his ego, locked in its self-preoccupation and assertion; and to be the opposite of the negative capability (as Keats called it) of the artist or poet.⁶⁰

Dadl Conran yw fod elfennau bywyd Raymond Garlick, fel ei ffydd, ei deulu a Chymru, yn ei wneud yn fardd gwell oherwydd bod y rhain yn ddihangfa oddi wrth ei ego. Drwy ymroi i'r elfennau hyn – seiliau hunaniaethol a barddol – roedd modd iddo ateb y gri am oroesiad yn wyneb ei anabledd ac ymateb yn greadigol i'r argyfwng a'i angen am identiti. Dyna pam y bu'r 'trychineb triphlyg' (y 'triple catastrophe'), chwedl Conran, yn 1979 mor andwyol i'w fywyd personol; fe ddaeth ei briodas i ben ym 1977; pleidleisiodd pobl Cymru yn erbyn mesur o ymreolaeth ym Mawrth 1979; ac fe gollodd ei ffydd Gatholig yn llwyr. Drwy golli'r tripheth hyn, dychwelodd at argyfyngau a wynebodd pan fu'n rhaid iddo ddygymod â realiti ei gyflwr corfforol yn ôl Tony Conran: 'He was experiencing again the wound of his lameness, only this time as a crisis in his world-view, not simply in his physical being. The remarkable poems which he wrote some years after he thought his poetry had stopped for good seem to me a real breakthrough into the true voice of feeling'.⁶¹

Un o gerddi hir Garlick y mae'n werth cyfeirio ati yn y fan hon yw 'Notes for an Autobiography' a orffennwyd ganddo ym Medi 1979 – chwe mis wedi'r refferendwm. Egyr y gerdd â theyrnged Raymond Garlick i'r modd y mae geiriau wedi ei ryddhau i oroesi, gan wneud iawn i ryw raddau am ei anabledd corfforol: 'Art was the infra-skeleton / That crippled body craved and spun'.⁶² Â rhagddo i ddisgrifio'r awydd a deimlodd yn ifanc i fod yn annibynnol – 'to stand alone, / Without crutches, on one's own

⁶⁰ Tony Conran, 'Poetry Wales and the Second-Flowering', yn M. Wynn Thomas (gol.), *Welsh Writing in English* (Cardiff: Gwasg Prifysgol Cymru, 2003), t. 240.

⁶¹ *Ibid.*

⁶² Garlick, *Collected Poems*, t. 147.

/ Two feet...'.⁶³ Disgrifia'r gerdd yr her anodd o ddod i delerau â'i anabledd a'r unigrwydd llethol a deimlai wrth wynebu'r dasg hon – 'you're on / Your own by definition'.⁶⁴ Mae'r pennill olaf yn crynhoi ei ddyhead a'i ddymuniad y bydd Cymru, fel y bu'n rhaid iddo ef ei hun, yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb am ei thynged ei hun er mwyn goroesi a chofleidio hunaniaeth ar wahân i eiddo Prydain:

My theme's the need to go and meet
Your fate upon your own two feet,
Learning to walk without a crutch,
Teaching the heart to leave its hutch:
Survival and identity,
And the primacy of pity.

These were people who didn't think
Such things important; who could sink
Identity as though of not much
Value, choose the British crutch.
These verses stumble out to try
To stir you into asking why.⁶⁵

Noder ei fod yn y fan hon yn ystyried fod Cymru wedi dewis hunaniaeth Brydeinig a'i fod yn defnyddio delwedd sy'n gysylltiedig ag anfantais gorfforol i wneud hynny. Awgryma ei fod yn ystyried Cymru'n wlad nad yw'n gorfforol alluog, ac, o gael y dewis, mae ei phobl yn dewis hunaniaeth Brydeinig. Mewn cyferbyniad, dywed Garlick fod ei benillion a'i gerddi yn clunhercian: mae'n well ganddo geisio cerdded heb gymorth na phwyso ar Brydain.

Ar ddiwedd *Collected Poems* ceir cyfres o gerddi pwerus sy'n ymdrin ag identiti, anabledd a cholledion personol a diwylliannol Garlick oddeutu 1979. Sonia 'The Wreck', er enghraifft, am ddadfeiliad y berthynas rhyngddo ef a'r ddelwedd o longddrylliad er

⁶³ *Ibid.*

⁶⁴ *Ibid.*, t. 148.

⁶⁵ *Ibid.*, t. 158.

mwyn darlunio'r sefyllfa: 'He, because he had always feared / This shipwreck, drifted paralysed / Clinging to flotsam, too inert / To sink or swim'.⁶⁶ Yn 'Rites of Passage' sonia'r bardd am y pleser o sefyll ar greigiau mewn afon a sylwi ar ryfeddodau'r dŵr, tan iddo syrthio un diwrnod; ar ôl hynny ystyria'r creigiau fel sarn yn unig:

It was only after the day
He stepped on one that suddenly
Tilted, toppled, threw him in the
Shock of water, that he started
Thinking of them as mere stepping
Stones; warmed to the grip of ready
Hands, thrust at once to pull him out.⁶⁷

Gellid dadlau mai trosiad yw'r gerdd hon ar gyfer y profiad o golli ffydd a gafodd y bardd ddiwedd y 1970au. Seiliau dros dro fu seiliau ffydd iddo fel yr awgryma'r llinellau olaf a ddyfynnwyd uchod (sef diwedd y gerdd), ynghyd â'r teitl ei hun – 'Rites of Passage' – ceir ymwybyddiaeth mai rhan naturiol ac angenrheidiol o'r daith oedd colled o'r fath – colled y mae modd ei goroesi. Dichon mai'r gerdd fwyaf arwyddocaol yn y cyswllt hwn yw 'Beginning Again', sy'n gofyn y cwestiwn 'Can a man be born again?', a lle gwrthoda'r bardd y syniad o ailenedigaeth – syniad a fu'n ganolog i'w waith cyn hynny. Mewn ysgrif hunangofiannol a ysgrifennwyd ar ôl iddo golli ei ffydd, ac sy'n sôn sut y gwelai erbyn hynny iddo droi at Gatholigiaeth yn y lle cyntaf fel ffordd o ddygymod â'r hyn a wêl fel anabledd, meddai: 'When people talk about what they believe they are in fact saying something about themselves and their own capacities, and not about any objective reality'.⁶⁸ Awgryma yn y fan hon ei fod yn gweld Catholigiaeth fel rôl seicolegol sy'n ei helpu i ddygymod â'i gyflwr corfforol – peth sydd efallai'n cyferbynnu'n llwyr â'r asbri sy'n nodweddu ei gerddi crefyddol. Aeth Raymond Garlick ati i ddileu y rhan hon o'i fywyd drwy ddileu'r cerddi crefyddol o'i gasgliad o gerddi. Trefnodd y bardd y casgliad yn ôl thema, fel y nodwyd eisoes – gweithred sydd unwaith

⁶⁶ *Ibid.*, t. 159.

⁶⁷ *Ibid.*, t. 161.

⁶⁸ Garlick, 'Inspiration and Perspiration', t. 55.

eto yn amlygu'r bwriad golygyddol cryf i sicrhau rheolaeth dros ei waith, ei neges a'i fywyd. Wrth geisio cyhoeddi casgliad diffiniol o'i waith, fe'i hailddyfeisiai ei hun drachefn gan gael gwared â'r elfennau hynny o'r gorffennol na allai ddygymod â nhw mwyach.

Cyhoeddwyd *Travel Notes*, cyfrol olaf Garlick, ym 1992, ac ynddi ceir cerddi newydd sy'n ymwneud yn bennaf â chyfres o deithiau a mordeithiau. Dywed Garlick iddo ddechrau ysgrifennu eto yn dilyn genedigaeth wyres iddo a hefyd wedi iddo gael ei ysbrydoli ar ôl gwyllo rhaglen ddogfen am y bardd Yeats. Y mae cerdd olaf y gyfrol, 'The Odyssey Continues', yn clymu ynghyd nifer o themâu a delweddau'r gyfrol ac yn ystyried bywyd ei hun fel taith:

Manned and buoyant and still on course
Through the Aegean of the heart,
The many islanded, the wine-
Dark channeled; helping it to chart
The seaways to flowered Delphi, Troy,
The high Byzantium of art,
Led by dolphins and white sea-birds
Leaping and fluttering like words.⁶⁹

Meddai Joseph Clancy am y gyfrol hon: 'This quietly assured style is particularly expressive of what I find relatively new to this poet's work – a mellowness, a serenity, a tranquil acceptance of human limitations (not least one's own), a gratitude for the gifts of sight and language and for the moments of joy when they come'.⁷⁰

Ymhellach, bu i refferendwm 1979 beri iddo weld anabledd mewn termau diwylliannol yn ogystal â chorfforol. Yma, y mae'n werth tynnu sylw eto at eiriau Tony Conran ynghylch effaith '79 ar Garlick: 'He was experiencing again the wound of his lameness,

⁶⁹ Raymond Garlick, *Travel Notes* (Llandysul: Gomer, 1992), t. 64.

⁷⁰ Joseph Clancy, 'Travel Notes', *Books News from Wales*, Gaeaf 1992, t. 10.

only this time as a crisis in his world-view, not simply in his physical being'.⁷¹

Y gerdd sy'n amlygu hyn glir iaf yw 'The Eighth Day', a ysgrifennwyd mewn ymateb i refferendwm 1979 (yr is-deitl yw '1st of March 1979'). Disgrifiad o Dduw yn creu'r byd ac yn creu Cymru ar yr wythfed dydd a geir yma, sef diwrnod ar ôl y saith diwrnod traddodiadol a grybwyllir yn Genesis. Adroddir y stori yn oeraidd-wrthrychol a llwyddir i esgor ar awyrgylch bygythiol a chwerw. Mae'r Duw a ddisgrifir yn y gerdd yn un sy'n caniatáu dioddefaint, a hynny heb gydymdeimlad na thosturi. Awgrymir cyfyngder ei greadigaeth pan ddywedir fod yr elfennau cryfaf wedi eu dihysbyddu yn y broses o greu. Y gwan a'r anffurfiedig sydd ar ôl:

It was the evening of the sixth
Day, and he was irritable.
The sacred dust of creation
Was running out, the pigment paled.
The lustrous brown of the firstborn
Thinned and drained away into white,
And he stared at them with distaste.

It grew late and the seventh day
Approached. The molecules of bone
Ran short, and of the lastborn some
Were sent forth twisted and weak spined.
Then let them crawl, he said, and fawn.
Let them deny their nature and
Their language. Let them be unfit

To rule themselves, and let them give
Their healthy offspring up to the
Prisons and the boots of the police.⁷²

⁷¹ Yng nghyswllt y berthynas rhwng anabledd corfforol ac anabledd diwylliannol yng nghyd-destun cyfeillgarwch personol a llenyddol Raymond Garlick ag R. S. Thomas, gweler Jason Walford Davies (gol.), *R. S. Thomas: Letters to Raymond Garlick 1951-1999* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2009), tt. xlv-xlvii, lvi (troednodyn 109).

Dyma Dduw meddylfryd y ‘trechaf, treisied’. Y mae’r gwannaf – y rhai nad oeddynt yn ddigon cryf – yn gorfforol i oresi – wedi eu taflu i un llecyn, sef Cymru. Cysylltir yn syth y syniad o anabledd corfforol â’r cywilydd o berthyn i genedl y Cymry, pobl wydroëdig sy’n gwadu eu hiaith a’u hunaniaeth. I’r bardd hwn, nid yw canlyniad refferendwm ’79 yn ddim llai na gwydroad llwyr o’r drefn naturiol. Dyma Gymru, nid ar lun y genedl etholedig, ond ar lun y genedl *golledig*, ac mae’r bardd hefyd, ochr yn ochr â chondemnio Cymru, yn condemnio’r Duw y rhoddwyd ffydd ynddo y byddai achubiaeth yn dod ryw ddiwrnod. Mae Duw’r gerdd yn ‘bored’, ond ar yr wythfed dydd fe gaiff ei gydwbybod ei phigo: ‘But on the eighth day he remembered / Them, and repented of his deed. / It was too late’. Fe’i gwelir yn sgil hynny yn creu gwlad o fynyddoedd, ogofâu a chreigiau: ‘That nature may enable them / Sometimes to hide and to forget / Their own unnaturalness of heart’.⁷³ Pwysleisir yn y modd hwn yr hyn a wêl Garlick fel annaturioldeb y bleidlais ‘Na’: roedd Garlick, fel cenedlaetholwr, wedi gobeithio y byddai’r refferendwm yn gyfle i ail-greu cenedl y Cymry – Cymraeg a Saesneg eu hiaith. Gwêl Garlick ei gyd-Gymry fel pobl sy’n dioddef o anabledd llawer mwy difrifol na’i anabledd corfforol ef, sef anabledd seicolegol yn achos y syniad o genedl ar wahân i Brydain. Mae ei weledigaeth dywyll yn y gerdd hon yn condemnio Cymru gyfan – ac ef ei hun gyda hi – i ystad o anallu corfforol a seicolegol.

Mae'r gerdd hon yn adleisio cerdd R. S. Thomas, 'The Island', sy'n sôn am Dduw yn condemnio pobl i ddioddef, a hynny er ei fod yn ymwybodol eu bod wedi ei wasanaethu'n ffyddlon am flynyddoedd:

And God said, I will build a church here
 And cause this people to worship me,
 And afflict them with poverty and sickness
 In return for centuries of hard work
 And patience.
 And its walls shall be hard as

⁷² Garlick, *Collected Poems*, t. 135.

⁷³ *ibid.*

Their hearts, and its windows let in the light
Grudgingly, as their minds do, and the priest's words be drowned
By the wind's caterwauling. All this I will do,
Said God, and watch the bitterness in their eyes
Grow, and their lips suppurate with
Their prayers. And their women shall bring forth
On my altar, and I will choose the best
Of them to be thrown back into the sea.

And that was only on one island.⁷⁴

Gellir dadlau mai cerdd am y ddynoliaeth gondemnedig a'r cyflwr dynol, yn gyffredinol, yw 'The Island' Thomas. Yn 'The Eighth Day' – y mae 'The Island' yn ddylanwad diamheuol arni o ran syniadaeth a thôn – troes Garlick y cyffredinolrwydd hwn yn benodol, trwy synio am y Cymry fel y condemniedig – pobl na allant synio am Gymru fel cenedl, a phobl a chanddynt anabledd seicolegol.

Cyfyd yma y cwestiwn pam y mae'r delweddau grotésg hyn yn eu hamlygu eu hunain yng ngwaith y ddau fardd dan sylw, dau o brif feirdd cenedlaetholgar y traddodiad Eingl-Gymreig. Fel y nododd Jason Walford Davies, y mae'r cysyniad o anabledd diwylliannol i'w ganfod hefyd yng ngwaith R. S. Thomas – bardd y bu Garlick yn gohebu ag ef am dros hanner canrif:

It is also interesting that Thomas often speaks of this anguish in bodily terms – as of a wound, a scar, a pain or a breaking heart. And it is appropriate that one of the most dramatic examples occurs in a poem of tribute to Raymond Garlick himself. Early on in the period of the correspondence, in the 1955 poem 'Commission: *for Raymond Garlick*', published in *Dock Leaves*, Garlick is greeted with the challenge:

You know our grievance, know the bitter poison,
Black as despair, seeping from the wound

⁷⁴ R. S. Thomas, *Collected Poems: 1945-1990* (London: J. M. Dent, 1993), t. 44.

Your country dealt us; plead our rightful case
To those who come to us for what we give,
Who take and leave us ruined by their taking,
Since we must give in ways they understand.

The poem closes with the line, 'Open their eyes, show them the heart that's breaking'. The cultural disability as a writer that Thomas kept exploring connects through the metaphor with the actual physical disability that is one of Garlick's themes.⁷⁵

Tardda'r syniad hwn o anabledd diwylliannol o'r un dechreubwynt, sef yr ymchwil am hunaniaeth. Cynigia profiad Garlick o anabledd corfforol dermau addas ar gyfer archwilio cyflwr seicolegol y genedl. Yn ei astudiaeth ar ddelweddau o'r corff ym maes llên Cymru yn Saesneg, mae Harri Garrod Roberts yn dadlennu sut y mae'r darlun o'r corff yn arwydd o effaith coloneiddio treisgar ar feddylfryd y Cymry Saesneg eu hiaith. Cyfeiria Roberts at drafodaeth Tony Conran ar y mater mewn cyfrol sy'n cynnwys gwaith tri llenor Eingl-Gymreig, sef Harri Webb, Meic Stephens a Peter Gruffydd. Disgrifia Conran brofiad y llenor Eingl-Gymreig fel un o alltudiaeth – 'not necessarily physical exile, but exile from the inmost heart of their own country'⁷⁶ – delwedd sy'n dadlennu, yn nhyb Roberts, sut y gwêl Conran iaith mewn termau daearyddol, a sut y gwêl Gymru fel endid sy'n gorfforol ac yn ddiwylliannol ar yr un pryd. Mae modd, felly, synio am y llenor Eingl-Gymreig yn nhermau alltud o'i ddiwylliant ei hun:

The experience of exile is thus inscribed *within* the Anglo-Welsh subject, becoming, indeed, the defining feature of an Anglo-Welsh self that, as a species of non-identity, exists solely in terms of its relationship to Wales and Welsh-language culture. Thus, the three poets are presented as somehow 'other' to their true (Welsh) selves, only able to 'approach' or 'return' to Wales (and hence their 'real' selves) through a commitment to political nationalism and the Welsh language – a commitment that offers the only hope of healing the 'wound' of non-identity that is the unhappy condition of being Anglo-Welsh.⁷⁷

⁷⁵ Davies (gol.), *R. S. Thomas: Letters to Raymond Garlick 1951-1999*, t. xlvi.

⁷⁶ Dyfynnwyd yn Harri Garrod Roberts, *Embodying Identity: Representations of the Body in Welsh Literature* (Cardiff: University of Wales Press, 2009), t. 119.

⁷⁷ *Ibid*, t. 120.

Dywed Roberts fod Eingl-Gymreictod yn gyflwr briwiedig – un sydd ar yr un pryd yn troedio ffiniau, yn gyflwr poenus o fodoli rhwng dau ddiwylliant cryf, y naill yn Gymraeg a'r llall yn perthyn i Loegr. Dadleua Roberts fod modd synio mai'r disgwrs Cymraeg sydd wedi gosod y teimlad hwn o israddoldeb mewn rhai llenorion Eingl-Gymreig yn y lle cyntaf oherwydd y condemniad fod unrhyw beth y tu allan i'r iaith Gymraeg yng Nghymru yn anghymreig: cofier fel y bu i Saunders Lewis wadu fodolaeth y fath beth â llenyddiaeth Eingl-Gymreig.⁷⁸ At hyn, gellir dadlau fod y teimlad hwn o israddoldeb hefyd yn un o sgil-ffeithiau'r coloneiddio a ddietifeddodd y Cymry Saesneg eu hiaith o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Gellir dadlau fod y delweddau grotésg mewn llenyddiaeth Eingl-Gymreig yn symptom o'r berthynas amwys a deimlai llenorion llên Gymreig yn Saesneg ynghylch eu hunaniaeth Gymreig. Yn wir, gellid dadlau bod y dieithriad a deimlent – a'r delweddau corfforol yn y llenyddiaeth o ganlyniad i hynny – yn gynnrych y broses goloneiddio. Amlygir delweddau corfforol ffaidd yn y gerdd 'It Hurts Him To Think' gan R. S. Thomas, er enghraifft, a dadleua Roberts y deillia'r delweddau o'r ymwybyddiaeth o lygreddigaeth *oddi mewn*. Ffieiddir yma at y weithred o ysgrifennu yn Saesneg ynddi'i hun, a bygythiad hynny i ddiwylliant Cymraeg. Fel y dywed Roberts: 'Figuring the English language as an infectious disease, transmitted from mother to child in a parodic perversion of the essential nurturing act, "It Hurts Him To Think" presents the very process of writing in English as an act of abjection'.⁷⁹ Eithr dylid nodi na welir yr agwedd hon tuag yr iaith Saesneg yng ngwaith Raymond Garlick. Y mae'n ymfalchïo yn y traddodiad Saesneg sydd yng Nghymru, ac yn gresynu ynghylch y gred nad oes modd bod yn Gymro heb fod yn medru'r Gymraeg. Y rheswm y defnyddia Garlick ddelweddau corfforol grotésg yn 'The Eighth Day' (yn ddiau dan ddylanwad Thomas) yw er mwyn darlunio ei ffieidd-dod at anallu seicolegol y Cymry i'w cydnabod eu hunain yn genedl yn refferendwm 1979.

Er gwaetha'r sylwadau dilornus gan Garlick ynghylch ei fagwraeth yn Llundain a ddyfynnwyd uchod, gellir ymdeimlo hefyd â chymhlethdod ac elfen o densiwn yng

⁷⁸ Saunders Lewis, *Is there an Anglo-Welsh Literature?* (Cardiff: University of Wales Guild of Graduates, 1939).

⁷⁹ Roberts, *Embodying Identity*, t. 122.

nghyswllt Llundain ei eni. Mae gan Garlick nifer o gerddi yn darlunio amryw gymeriadau yn ei fywyd cynnar sy'n gwrth-ddweud y ddelwedd ddiflas sydd ganddo o Lundain. Mae'r anwyldeb a welir yn y portreadau hyn yn bwysig iawn fel cofnod o gyfnod sydd wedi mynd heibio. Mae'r ffaith ei fod yn ysgrifennu amdanynt yn dangos mor bwysig ydynt iddo, a'r penbleth a brofa o fod wedi ymwrthod â'r hunaniaeth a gynrychiolent hwy am hunaniaeth Gymreig. Dyma olion o'r tensiwn sydd ynddo ynghylch ei hunaniaeth bersonol, oherwydd mae'r ailadrodd a'r pwyslais cyson yn ei waith (y rhyddiaith yn arbennig) ar ei fywyd cynnar yn Llundain ar un ochr er mwyn dangos pam y cafodd y dröedigaeth tuag at hunaniaeth Gymreig. Hefyd, mae'n dangos ei fod – o dan sicrwydd ymddangosiadol – yn ymwybodol o'i safle ar y cyrion ac o'i safle amwys o fod yn allanolyn. Ateba'r gerdd bwysig, 'The Rebuttal', honiadau a wnaed ('this bitter hatred for his native / Land, it said') ei fod wedi datblygu casineb tuag at y Saeson:

He was appalled. How
Hate the innocent earth, the hills,
Elgar adagio, the remembered
Long-grassed fields of childhood, dense
With buttercup and purple vetch,
On which his mother-tongue had flowered?
How think except with tenderness
Of villages whose names were poetry,
In which tranquil centuries
The coded genes that made him slowly grouped,
Pattered and paired, like movements in
A morris dance?⁸⁰

Diddorol iawn, yng nghyd-destun y pwyslais yng ngwaith Garlick ar ei anabledd corfforol ac ar yr angen am gymorth i gerdded, yw'r sôn yma am enynnau ei gyfansoddiad yn nhermau *dawns*. Dengys y gerdd hon nad yw Garlick wedi ymwrthod â'i wreiddiau Seisnig yn llwyr a bod ei hunaniaeth yn fwy cymhleth ac amwys nag y caniatodd yn aml i'w ddarllenwyr ddeall. Fel hyn, noder, y daw'r gerdd i ben:

⁸⁰ Garlick, *Collected Poems*, t. 137.

Exposed to the heat
Of half a lifetime, the invisible ink
Of Englishness indelible showed up.⁸¹

* * *

Un o nodweddion diffiniadol gyrfa Raymond Garlick yw ei waith yn hyrwyddo'r cysyniad o ganon Eingl-Gymreig. Yn y cyswllt hwn, y testunau canolog yw'r antholeg bwysig (ar y cyd â Roland Mathias), *Anglo-Welsh Poetry 1486-1980* (1984) a'i fonograff *An Introduction to Anglo-Welsh Literature* (1970). Ni ddylid anghofio chwaith am 'Seventy Anglo-Welsh Poets' – cyhoeddiad cynnar o'i eiddo yn y maes yn *The Welsh Anvil* ym 1954 – sef rhestr hir o awduron o'r 17eg ganrif ymlaen a gynullwyd, gellid dadlau, er mwyn ceisio ffurfio traddodiad y gallai awduron Eingl-Gymreig modern deimlo'n rhan ohono. Dadleua Jane Aaron ac M. Wynn Thomas fod canlyniad y refferendwm wedi bod yn siom aruthrol i awduron llên Cymru yn Saesneg:

The concept of a distinct Welsh identity was so shadowy that there seemed to be little of substance left to which aspiring artists might anchor themselves. It was feared that Welsh writers in English, after 1979, would give up the struggle of upholding and defending an amorphous identity which dared not stake its claim to independent life, and turn towards England for their subject matter.⁸²

Gallasai datganoli ym 1979, a chydnabod Cymru fel endid annibynnol, fod wedi cadarnhau hunaniaeth llenorion Eing-Gymreig fel na fyddent yn teimlo fel lleiafrif rhwng dau draddodiad llenyddol – llenyddiaeth Gymraeg a llenyddiaeth Lloegr. Gellir ystyried antholeg 1984, felly, fel ymgais gan Garlick a Mathias i gadw'r fflam Eingl-Gymreig yn

⁸¹ *Ibid.*

⁸² Jane Aaron ac M. Wynn Thomas, 'Pulling You Through Changes: Welsh Writing in English Before, Between and After Two Referenda', yn M. Wynn Thomas (gol.), *Welsh Writing in English* (Cardiff: University of Wales Press, 2003), t. 285.

fyw wedi *débâcle* 1979.

Yn hyn o beth, gellir cymharu ymdrechion Raymond Garlick i sefydlu canon o lenyddiaeth Eingl-Gymreig â phrosiect Saunders Lewis wrth lunio canon Cymraeg rai degawdau ynghynt. Nod Saunders Lewis oedd datblygu'r syniad fod unoliaeth i lenyddiaeth Gymraeg drwy dynnu ynghyd destunau a oedd wedi eu seilio ar 'y safonau hynny a ddyrchafodd Saunders Lewis ei hun yn *Williams Pantycelyn* a'r *Braslun*, sef safonau "barddoniaeth yn gweini mewn cymdeithas".⁸³ Fel beirniad llenyddol aeth Saunders Lewis ati i astudio llenorion Cymraeg ac ystyried sut yr oeddent yn plethu i mewn i'r traddodiad hwn. Fel y dywed Tudur Hallam yn *Canon Ein Llên*, ei astudiaeth ar y canon Saundersaidd: 'Yr awgrym cyson yn y portreadau hyn yw fod yma ddechreubwynt: ffordd newydd o edrych ar lenyddiaeth Gymraeg a fyddai maes o law yn datblygu'n *episteme*, sef ffordd newydd o ddarllen llenyddiaeth, a honno'n cydreddeg â ffordd newydd o'i dysgu i fyfyrwyr Cymraeg a fyddai maes o law yn addysgu eraill'.⁸⁴ Mae canon yn medru cynnig undod unigryw, ac roedd prosiect Saunders yn sicr wedi llwyddo i glymu'r traddodiad Cymraeg at ei gilydd a chyflwyno nodwedddion arbennig i lenyddiaeth Gymraeg. Yn *Canon Ein Llên*, esbonia Tudur Hallam sut y bu i Saunders Lewis ddewis testunau'r canon a damcaniaethu ynghylch yr hyn a gynhwysid ynddo, a hynny cyn i'r testunau gael eu golygu a'u cyhoeddi. Bu hyn o fudd i brosiect y canon yn ôl Tudur Hallam: 'Ein dyled fawr i Saunders Lewis yw iddo dorri'r rheol honno, oherwydd amlygodd beth oedd *telos* yr ysgolhaig a'r hanesydd llên – pen draw eu gwaith – sef llyfryn bychan o wybodaeth a fyddai'n ganon dysg i'r brifysgol a'r werin fel ei gilydd'.⁸⁵ Lewis a oedd yn gosod y ddamcaniaeth, felly, gan bennu cyfeiriad i waith beirniaid a'u hannog i weithio ar sail testunau ei ganon. Apêl fawr y canon yw ei ddylanwad ar lefel cynneddf, chwedl Hallam, hynny yw, ymwybod o berthyn i draddodiad cyfoethog ac anrhydeddus yn ogystal â synnwyr o ymnerthu deallusol drwy bwysleisio bod hunaniaeth a thraddodiad y Gymraeg ar wahân i Brydain. Gellir dadlau fod Raymond Garlick yn gweld ei brosiect ef o lunio canon Eingl-Gymreig fel un

⁸³ Tudur Hallam, *Canon Ein Llên: Saunders Lewis, R. M. Jones ac Alan Llwyd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2007), t. 88.

⁸⁴ *Ibid.*, t. 99.

⁸⁵ *Ibid.*, t. 103.

gwrthdrefedigaethol a fyddai'n gosod y llenyddiaeth honno ar wahân i lenyddiaeth Lloegr, nid ar sail iaith ond o ran hunaniaeth a thraddodiad.

Yr oedd y syniad o sefydlu canon Eingl-Gymreig yn ganolog i weledigaeth Raymond Garlick. Poenai'n fawr nad oedd myfyrwyr a phlant yn cael y cyfle i ddarllen llenyddiaeth Eingl-Gymreig a thrwy hynny'n dod i adnabod awduron a gweithiau a archwiliai Gymru drwy gyfrwng y Saesneg. Fel yn achos Saunders Lewis, roedd bwriad gwleidyddol i'r prosiect llenyddol hwn: gobaith Raymond Garlick oedd y byddai llenyddiaeth drwy gyfrwng y Saesneg ac iddi ymwybyddiaeth o hunaniaeth Gymreig yn normaleiddio'r syniad fod modd meddu ar hunaniaeth o'r fath heb y gallu o angenrheidrwydd i siarad Cymraeg. Yn ogystal, roedd Garlick wedi ei ddenu gan y pwyslais Saundersaidd o osod hanes a llenyddiaeth Gymraeg mewn cyd-destun Ewropeaidd.⁸⁶ Penderfynodd Raymond Garlick ar nifer o nodweddion yr oedd ef yn eu hadnabod fel nodweddion Cymreig. Roedd yn awyddus i weld y traddodiad mawl Cymraeg yn cael ei adlewyrchu mewn llenyddiaeth Eingl-Gymreig; gwelai hefyd y syniad o ddatlu, ymwybyddiaeth o ffurf, a thechneg yn hollbwysig, ynghyd â'r pwyslais nid ar y personol, ond ar y cymdeithasol.

Bwriad maniffesto Raymond Garlick oedd gwneud datganiad gwleidyddol fod modd meddu ar ymlyniad i Gymru fel y nodwyd, heb o angenrheidrwydd feddu ar y gallu i siarad Cymraeg. Mewn ysgrif dan y teitl 'English as a language of Wales' ddwy flynedd wedi'r refferendwm, meddai: 'if English is taught in the same way in Cardiff as in Carlisle, in Swansea and in Swanage, isn't the obvious implication of this that English is essentially concerned with Englishness, with being English, with the life of England?'.⁸⁷ Teimlai gyfrifoldeb i ddatblygu disgwrs a oedd yn brosiect gwleidyddol yn ogystal ag un llenyddol, a hefyd, gellid dadlau, er mwyn ei argyhoeddi ei hun o'i safiad hunaniaethol. Dengys y safbwynt hwn yn glir yn y gerdd hunangofiannol bwysig honno, 'Notes for an Autobiography', lle'r â i'r afael â'r broses – a'r sialensau – sydd ynghlwm wrth greu hunaniaeth ac ymwybyddiaeth Gymreig yn yr iaith Saesneg. Dyfynnir y darn perthnasol yn llawn:

⁸⁶ *A Sense of Europe*, fe gofir, oedd y teitl a roddodd i gasgliad o'i gerddi yn 1968.

⁸⁷ Raymond Garlick, 'English as a language of Wales', *Quest*, 3 (1981), t. 9.

In Wales, though, those whose true Welsh mind
Speaks only English have to find
Through English their identity
As Welshmen, their integrity
As citizens. For English speech
As a tongue of Wales stretches the reach

Of centuries: another dress,
A second weave to Welshness.
What makes millions American,
The English language, clearly can
Make others Welsh or Scots: the tongue
Speaks of the life to which it's strung.

What education, media say
Crumbles the life of Wales each day
By its persistent vandalism
Of the mind – provincialism:
*Real life, it says, goes on elsewhere –
London, Los Angeles. Look there.*

*Welshness is being Welsh-speaking.
Any identity you're seeking
Who don't speak Welsh must be found
Somewhere else, on the rented ground
Of some big multi-national.
You're not really Welsh at all.*

*If you use English then you must
Be something else, not Welsh. So thrust
Aside any quaint sense of clan.
Be British, Anglo-American.*

And it goes.⁸⁸

Yn erbyn y math hwn o feddylfryd yr adweithiodd Garlick, gan gymryd rôl y cymodwr rhwng dwy lenyddiaeth Cymru. Cyfraniad o bwys oedd ei ymdrechion i greu gofod amgen ar gyfer hunaniaethau Cymreig nad oeddent o reidrwydd yn gallu neu'n dewis ysgrifennu yn y Gymraeg. Yr oedd gosod agenda ar gyfer llên Cymru yn Saesneg yn her yr ymroddodd iddi drwy ei farddoniaeth ei hun ac fel golygydd a hyrwyddwr y llenyddiaeth honno. Wrth wneud hynny, gosododd seiliau ar gyfer y posibilrwydd o sefydlu hunaniaethau nad oeddent yn seiliedig ar allu i siarad yr iaith Gymraeg yn unig – er yr ystyriai gyfrifoldeb at y Gymraeg yn ddyletswydd etifeddol i bawb a welai Gymru fel cartref iddynt. Dywed Garlick na ddylid bychanu cyfraniad yr iaith Saesneg i lenyddiaeth Cymru na thrin yr iaith ag atgasedd oherwydd credai fod awduron y gorffennol wedi dangos sut y gallasai llên Saesneg ei hiaith greu celfyddyd werthfawr yng Nghymru ochr yn ochr â'r Gymraeg:

The long history of English as a language of Wales, of its complementary relationship to Welsh, of its use by writers of Wales down the centuries as an instrument of beauty and precision, must make it unbearable that it should ever be employed as a crude political counter, as an instrument of injustice, as a bludgeoning or provincializing or alienating force.⁸⁹

⁸⁸ Garlick, *Collected Poems*, tt. 153-4.

⁸⁹ Raymond Garlick, *An Introduction to Anglo-Welsh Literature* (Cardiff: University of Wales Press, 1972), t. 8.

Pennod 4

Llenorion yr Achos: Gareth Miles ac Angharad Tomos

Daeth y ffigur y gellir ei ddisgrifio fel 'llenor yr achos' – sef y llenor sy'n trafod ei brotest wleidyddol drwy gyfrwng llenyddiaeth – i amlygrwydd yn y Gymraeg yn y 1960au. Ysgrifennwyd corff o nofelau realaidd a oedd yn trafod y bwrlwm gwleidyddol cyfoes a'r ymgyrchu a fu dros yr iaith Gymraeg. O ganlyniad, daeth y nofel yn fodd i drafod a chyfleu meddylfryd yr oes. Geilw Enid Jones y nofelau dan sylw yn rhai ôl-drefedigaethol ar sail y pwyslais newydd a oedd ynddynt: 'Calon y neges ôl-drefedigaethol yw'r alwad ar bobl Cymru i ehangu'u gorwelion – i adael ystafelloedd unig, clawstroffobaidd rhai o'r nofelau y buom yn eu trafod – drwy ystyried eu dyfodol fel cenedl'.¹ Noda Jones fod nofelau realaidd ôl-drefedigaethol o anian wahanol oherwydd eu bod yn fwy parchus o ran cynnwys ac iaith o'u cymharu â'r nofelau ôl-fodern, dinesig a oedd yn datblygu'n gydamserol. Dywed Jones fod y parchusrwydd yn gysylltiedig â'u hamcanion cenedlaetholgar: 'Megis yn y nofelau hanes, ymddengys fod goblygiadau moesol personol i'r ymrwymiad cenedlgarol neu genedlaetholaidd'.²

Yn gyffredinol, gellir dweud fod beirniaid yn amheus o ddylanwad agenda wleidyddol ar greadigrwydd cynnyrch llenyddol. Ceir sylwadau gan Gerwyn Wiliams sy'n dadlennu sawl ffactor a allai fod wedi cyfyngu ar ddatblygiad y nofel Gymraeg yn ystod yr ugeinfed ganrif: yn gyntaf gwêl ddylanwad Anghydfurfiaeth (gan gytuno yn y cyswllt hwn ag M. Wynn Thomas) fel cyfundrefn gymdeithasol a oedd wedi caethiwo'r dychymyg a oedd yn angenrheidiol er mwyn datblygu ffurf y nofel.³ Yn ail, ystyria Wiliams ymrwymiad llenorion Cymraeg i genedlaetholdeb fel llestair i lenyddiaeth gan ei fod yn creu llenyddiaeth 'amddiffynnol ei hysbryd'.⁴ Rhestra

¹ Enid Jones, *FfugLen* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2008), t. 232.

² *Ibid.*

³ Gerwyn Wiliams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), t. 15.

⁴ *Ibid.*, t. 16.

Wiliams Kate Roberts a Saunders Lewis fel llenorion nad oeddent wedi gadael i'w hathroniaeth wleidyddol uwchlywodraethu ar eu gwaith fel llenorion; noda, serch hynny, fod yn rhaid ystyried eu gwleidyddiaeth ochr yn ochr â'u gwaith llenyddol. Dywed Wiliams fod cenedlaetholdeb Cymreig wedi cynnig cyfeiriad a hunaniaeth i lenyddiaeth, ond ar y llaw arall roedd peryg i'r llenyddiaeth 'fynd yn syniadol ragweladwy ac yn dechnegol geidwadol'.⁵ Ond, mae Wiliams yn awgrymu y bu i'r ddau ffactor uchod dros amser bylu o ran maint eu dylanwad, gan achosi newid cywair o fewn nofelau Cymraeg, a oedd yn newydd a hyderus o'u cymharu â'r amddiffynoldeb cynharach:

Yn sicr, wrth i lenorion Cymraeg gael eu rhyddhau oddi wrth ymrwymadau cenedlaetholaidd, fe'u rhyddhawyd yn greadigol hefyd. Ers diwedd y 1970au, fe heriwyd yn sylfaenol holl ffordd o feddwl a sgubo nifer o ragdybiaethau o'r neilltu. Tra chwalai'r consensws cenedlaetholaidd yn ystod y 1980au a'r 1990au, ymledodd efengyl hunan-les dan ddylanwad Thatcheriaeth: bychanwyd y cysyniad o gymdeithas a difethwyd cymunedau ledled Cymru wrth i ddiwydiannau trymion fel y diwydiant glo droi'n sglyfaeth i bolisiau monetaraidd. Gorseddwyd unigolyddiaeth a phreifateiddiwyd moesoldeb. Trosiad o'r byd datgymaledig hwn a ddarlunnir rhwng cloriau *Dirgel Ddyn*. Fel yr awgrymai teitl nofel Aled Islwyn, *Cadw'r Chwedlau'n Fyw* (1984), ni welwyd unrhyw barodrwydd ar ran nofelwyr y to ieuengaf i gynnal yr hen fytholeg draddodiadol yn y byd newydd oedd ohoni. Ond er gwaetha'r hinsawdd ddiwylliannol fygythiol ar y pryd, ymatebodd ein nofelwyr yn greadigol i'r her drwy lunio cyfres o chwedlau newydd.⁶

Cyfeiria Wiliams at waith Wiliam Owen Roberts a Robin Llywelyn fel enghreifftiau o'r ysbryd eclecticig o ran cywieriau a chynnwys a ddatblygodd mewn nofelau Cymraeg, a dywed i ffurf y nofel ffynnu o ganlyniad i ansicrwydd ac anghydfod y cyfnod. Ni olyga hyn nad oedd nofelau Roberts a Llywelyn yn wleidyddol; i'r gwrthwyneb, roedd neges glir gan nofelau Marcsaidd Roberts ac alegori ôl-drefedigaethol Llywelyn yn *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, sydd – fel y dywed Wiliams – 'fel petai'n gwireddu'r broffwydoliaeth genedlaetholaidd y daw dydd y bydd mawr

⁵ *Ibid.*

⁶ *Ibid.*, t. 17.

y rhai bychain. Ond perthnasedd yn nhraed ei sanau yw hwn, nid rhywbeth a gyhoeddir gan yr awdur mewn esgidiau hoelion wyth'.⁷

Bydd y bennod hon yn mynd i'r afael â dau awdur a gaiff eu hadnabod am wisgo'r esgidiau hoelion wyth, fe ellid dweud, sef Gareth Miles (1938-), ac Angharad Tomos (1958-). Gellir ystyried y pâr hwn fel disgynyddion llenyddol i bâr cynharach, sef Kate Roberts a Saunders Lewis, yn yr ystyr eu bod ill dau'n llenorion â chonsŷrn gwleidyddol yn eistedd yn gyfochrog â'u gwaith llenyddol. Yn gyffredin rhwng Miles a Tomos y mae eu daliadau gwleidyddol sosialaidd, gwrth-Brydeinig a'u hymgyrchu dros yr iaith Gymraeg. Yn wir, mae gwreiddiau'r ddau fel awduron ynghlwm â'u gweithgarwch fel aelodau o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Gareth Miles oedd cadeirydd y mudiad hwnnw rhwng 1966-8;⁸ bu'n olygydd y misolyn *Tafod y Ddraig* yn ystod blynyddoedd cynnar y mudiad, a daeth ei gyfres o ysgrifau dychanol, 'Llythyr i'r Cwîn', yn rhan boblogaidd o gynnyrch y cylchgrawn a oedd â'r nod o ledu neges wleidyddol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Bu ei ffraethineb yn sail i gydweithio â'r cartwnydd Elwyn Ioan i gyhoeddi'r nofel graffig gyntaf yn y Gymraeg, *Pelydr-Ll* (1970), sy'n defnyddio fframwaith stori ysbïwr – tebyg i *James Bond* – er mwyn dychanu ffigur y taeog o Gymro oedd yn casáu unrhyw fath o genedlaetholdeb ac a oedd yn fodlon aberthu ei fywyd dros Brydeindod. Cyhoeddodd, at hynny, gyfrol o straeon byrion, *Cymru ar Wasgar* (1974), casgliad arall o straeon am griw o gymeriadau, *Treffin* (1979) – ond a farchnatwyd fel nofel gan y Lolfa – a'r nofel *Trefaelog* (1989). Yn yr un cyfnod, bu'n cyhoeddi papurau gwleidyddol a oedd yn herio cenedlaetholwyr i fynd i'r afael â Marcisiaeth ac i goleddu Sosialaeth fel nod gwleidyddol ynghyd â chenedlaetholdeb: *Cymru Rydd*, *Cymru Gymraeg*, *Cymru Sosialaidd* (1972), a gyhoeddwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ac a gyfieithwyd i'r Saesneg yr un flwyddyn gan Hywel Davies; *Sosialaeth i'r Cymry* (1979) ar y cyd â Robert Griffiths, ynghyd â fersiwn Saesneg, *Socialism for the Welsh People* (1979), a gynhwysai ragymadrodd gan Dafydd Elis-Thomas; a *Cymru, Marcisiaeth a'r Cwestiwn Cenedlaethol: Dwy Ysgrif* (1988), eto ar y cyd â Robert Griffiths. Ar ôl cyhoeddi dwy ddrama yn ystod yr 1980au, *Diwedd y Saithdegau* (1983) ac *Unwaith*

⁷ *Ibid.*, t. 18.

⁸ Dylan Phillips, *Trwy Ddulliau Chwyldro...?: Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1962-1992* (Llandysul: Gomer, 1998), t. 313.

eto Nghymru Annwyl (1986), bu'r 1990au yn bennaf yn gyfnod o ysgrifennu dramâu llwyfan fel *Hunllef yng Nghymru Fydd* (1995), *Dyrnod Branwen* (1993) a *Byd y Banc* (1996), a chyfieithu i'r Gymraeg nifer o weithiau theatr Ewropeaidd, yn cynnwys gweithiau Ionesco, Marivaux, a Carlos Dante Ferrari. Yn ddiweddarach, cyfieithodd Miles waith Molière ar gyfer Theatr Genedlaethol Cymru, sef *Cariad Mr. Bustl* (2007), a chafwyd ganddo hefyd *Y Pair* (2008), sy'n gyfieithiad o *The Crucible* Arthur Miller. Ym 1999, cyhoeddodd gyfres o straeon byrion, *Romeo: A Straeon Eraill* ac wedi hynny bu'n cyhoeddi nofelau'n gyson, gan gynnwys *Llafur Cariad* (2001), a fu hefyd yn gyfres deledu, *Cwmtec* (2002), *Ffatri Serch* (2003) a *Lleidr Da* (2005). Enillodd *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (2007) wobwr Llyfr y Flwyddyn 2008 iddo a chyhoeddodd nofel arall yn 2010 sef *Teleduwiol*. Dengys yr hyn a nodwyd uchod mor doreithiog fu Miles dros gyfnod o ddeugain mlynedd a mwy.

Angharad Tomos oedd ail gadeirydd benywaidd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg pan ddaliodd y swydd rhwng 1982 a 1984. Roedd wedi ymaelodi â'r mudiad ym 1973, a chyhoeddwyd ei gwaith am y tro cyntaf – stori fer genedlaetholgar – yn y misolyn *Tafod y Ddraig* ym 1975. Enillodd nifer o wobrau am ysgrifennu creadigol mewn eisteddfodau rhyng-golegol, a bu ei chasgliad o ysgrifau ar y thema 'Caethiwed' yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Fedal Lenyddiaeth yn Eisteddfod yr Urdd, Dyffryn Teifi ym 1981. Gellir ystyried dwy nofel Tomos o'r 1980au, *Hen Fyd Hurt* (1982) ac *Yma o Hyd* (1985), fel 'llynyddiaeth yr achos' – dwy nofel sy'n ymdrin yn uniongyrchol â pherthynas yr ymgyrchydd â'i hymgyrch dros ei hiaith a'i chenedl. Gwnaed astudiaeth fanwl gan Awel Mehefin Edwards o'r datblygiad a fu yng ngwaith Tomos o'r gwaith cynnar hwn i'r cynnyrch o'r 1990au ymlaen, gan osod gwaith Tomos yng nghyd-destun y dadeni a fu ym maes rhyddiaith Gymraeg, sef y newid a amlinellwyd gan Gerwyn Williams uchod. Mae'r nofelau *Si Hei Lwli* (1991), *Titrwm* (1994) ac *Wele'n Gwawrio* (1997) yn benodol yn dangos newid cywair yng ngwaith yr awdur a gellir disgrifio'r *genre* mewn mannau fel realaeth hudol. Gwelir Awel Mehefin Edwards yn herio'r datganiad hwnnw yn *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* fod y gwleidyddol wedi'i gelu yng ngwaith diweddarach Tomos, a dengys Edwards mai byd-olwg ymgyrchydd iaith sydd dan yr wyneb, ac ymhellach:

[b]od yr elfen wleidyddol amlwg a welir yn hanner cyntaf gyrfa ffuglennol Angharad Tomos yno hefyd, yn bresennol allweddol, yn yr ail hanner. O durio dan yr wyneb, er

enghraifft, gwelwyd bod *Titlwm* yn nofel dra gwleidyddol ei hosgo, a hynny yn y syniad o lunio hunaniaeth genedlaethol a phersonol, ac yn y berthynas alegoriaidd rhwng Awen ac Eli Guthrie. Dadleuwyd hefyd, er enghraifft, pa mor wleidyddol yw *Wele'n Gwawrio* o'i gosod yn erbyn canlyniadau'r Refferendwm ar ddatganoli ym mis Medi 1997. Ac ymhellach, dangoswyd pa mor arwyddocaol – yn wir, allweddol, – yw'r gweithiau anghyhoeddedig hynny gan Angharad Tomos yng nghyd-destun datblygiad llenyddol yr awdures a'r 'bont' rhwng gweithiau politicaidd yr 1980au a thestunau mwy arbrofol-greadigol y 1990au.⁹

Dengys y nofel *Rhagom* (2004) newid cyfeiriad pellach yng ngwaith Tomos. Dyma waith sy'n camu i faes y nofel hanes oherwydd trafodir yma'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail, ac mae un o gymeriadau'r nofel yn seiliedig ar ei thaid, David Thomas. Cyflawnodd Tomos at hynny waith ymchwil ar fywyd a gwaith David Thomas a esgorodd ar gyfrol sy'n cyflwyno hanes ei thaid a'i weithgarwch gwleidyddol dan adain y Blaid Lafur, sef *Hiraeth am Yfory: David Thomas a Mudiad Llafur Gogledd Cymru* (2002). Yn ogystal, cyhoeddwyd casgliad o'i cholofnau ym mhapur yr *Herald*, sef *Y Byd a'r Betws: Colofnau Angharad Tomos*, a hi oedd y ferch gyntaf i gyhoeddi hunangofiant fel rhan o *Gyfras y Cewri, Cnonyn Aflonydd* (2001). Nofel ddiweddaraf Tomos yw *Wrth Fy Nagrau I* (2007) lle ceir hanes cymeriadau dychmygol-lenyddol (gellid dweud) mewn uned seiciatryddol.

Bwriad y bennod hon, gan hynny, yw ymchwilio i'r berthynas rhwng gwleidyddiaeth a llenyddiaeth yng ngwaith y pâr hwn o nofelwyr tra chynhyrchiol, Miles a Tomos. Edrychir ar eu gweithiau cynnar ac ystyried i ba raddau y defnyddir llenyddiaeth fel offeryn ar gyfer eu hamcanion gwleidyddol. Gofynnir a yw eu llenyddiaeth yn bropropaganda wleidyddol ac a yw eu nofelau ar eu colled o fod yn ceisio hyrwyddo safbwynt arbennig, gan ystyried yr hyn a ddysgir am hunaniaeth genedlaethol cyfnod y gweithiau dan sylw, sef yn syth wedi'r flwyddyn dyngedfennol honno, 1979. Yn olaf, ystyrir gwaith y ddau awdur ar ôl datganoli gan graffu ar effaith y newid gwleidyddol cenedlaethol sylweddol hwn ar rôl gwleidyddiaeth a llenyddiaeth. Oherwydd cyfyngder lle, nid oes modd rhoi sylw llawn i holl waith y ddau awdur,

⁹ Awel Mehefin Edwards, 'Yr Awdures Aflonydd: Astudiaeth o Ffuglen Angharad Tomos (1975-2004)', Traethawd M. Phil. (Prifysgol Cymru, Bangor: 2006), t. 267.

wrth reswm. Pwysleisir, felly, mai detholiad o waith y ddau awdur a fydd, o reidrwydd, dan sylw yma.

Mewn erthygl bwysig, defnyddia Jane Aaron fframwaith y cyfnod 1979 hyd 1997 i edrych ar ddatblygiad gwaith creadigol Angharad Tomos. Yn ôl Aaron, mae'r portreadau a geir yn nofelau Tomos yn ystod y cyfnod hwn yn 'ymgnawdoliad byw o'r hyn a ddigwyddodd yng Nghymru rhwng y ddau refferendwm, a'r datblygiadau a esgorodd ar eu canlyniadau gwahanol'.¹⁰ Prin yw'r astudiaethau beirniadol o waith Gareth Miles hyd yn hyn. Amlinella ysgrif bwysig Jerry Hunter, 'Y Dychymyg Dilechdidol: Ffuglen Gareth Miles',¹¹ ymrwymiad Miles i'r cysyniad Marcsaidd o'r broses ddilechdidol. Mae Marcsiaeth yn dal mai'r gwrthdaro rhwng dosbarthiadau cymdeithasol ynghylch eu buddiannau yw'r broses sy'n gyrru hanes ac yn ffurfio cymdeithas; mae'r thesis a'r antithesis yn ymrafael â'i gilydd er mwyn creu synthesis o'r strwythurau/ideolegau gwrthgyferbyniol. Nid yw'r broses ddilechdidol o reidrwydd yn dileu'r grymoedd cyferbyniol yn gyfan gwbl, ond yn cymryd yr hyn sy'n werthfawr ac yn dir cyffredin rhyngddynt er mwyn ei fwydo i greu cynnyrch sy'n synthesis o'r holl safbwyntiau.¹²

Fel y dywedwyd eisoes, y mae gweithgarwch y ddau ffigurwr dan sylw ar ran Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cydblethu â genesis eu gyrfaoedd llenyddol. Dyma ddau ffigurwr sydd wedi mynd ati i gyfuno eu gweithgarwch gwleidyddol a'u gweithgarwch llenyddol-greadigol, fel bod y naill yn ymdoddi i'r llall. Wrth reswm, ar yr un gwynt â nodi'r tir cyffredin amlwg hwn rhyngddynt, dylid hefyd dynnu sylw at y gwahaniaethau ideolegol sylfaenol rhwng y ddau. Y mae Miles, ar y naill law, yn Farsydd sydd hefyd yn aelod o'r Blaid Gomiwnyddol; y mae Tomos yn sosialwraig sydd hefyd yn Gristion o argyhoeddiad. Yn gyffredin i'r ddau, y mae archwiliad o'r effaith ieithyddol, gymdeithasol, ddiwylliannol a gafodd trefedigaethu ar Gymru. Yn achos Gareth Miles, byddir yn edrych yn y bennod bresennol ar ei archwiliad o'r sefyllfa hon drwy graffu ar sut y mae'n cyfosod gwahanol ideolegau gan ddadlennu'r

¹⁰ Jane Aaron, "'Glywi di 'nghuro?': Agweddau ar Nofelau Angharad Tomos 1979-1997', yn John Rowlands (gol.), *Y Sêr yn eu Graddau* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2003), t. 141.

¹¹ Jerry Hunter, 'Y Dychymyg Dilechdidol: Ffuglen Gareth Miles', yn John Rowlands (gol.), *Y Sêr yn eu Graddau* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2003), t. 100-121.

¹² Raymond Williams, *Keywords: A Vocabulary of Culture and Society* (London: Croom Helm, 1976), t. 107.

ymrafael rhyngddynt er mwyn herio ei gyd-Gymry i holi pa lwybr gwleidyddol fydd yr un mwyaf buddiol yn y frwydr i drechu'r meddylfryd Prydeinig. Yn achos Angharad Tomos, byddir yn edrych ar ei harchwiliad hi o'r sefyllfa drwy ystyried ei phortread o seicoleg a chyflyrau mewnol yr ymgyrchydd unigol, gan dynnu sylw arbennig at y defnydd a wna'r awdures o'r corff yn y cyswllt hwn.

Cyn troi at y pâr dan sylw, mae'n werth oedi i edrych ar enghraifft o lenor ôl-drefedigaethol arall a gyfunodd ei agenda wleidyddol â'i waith creadigol, sef Ngugi Wa Thiong'o o Kenya. Yn ddramodydd a nofelydd, prif destun ei waith yw'r drafodaeth ar effaith caethwasiaeth, coloneiddio a neo-goloneiddio yn Kenya, ac fe'i carcharwyd sawl tro am ei safbwyntiau gwleidyddol. Mewn cyfrol o ysgrifau, *Homecomings* (1972), mae Ngugi yn esbonio ei safbwynt ynghylch rôl llenyddiaeth mewn cymdeithas. Dywed nad yw llenyddiaeth yn datblygu mewn gwagle oherwydd caiff ei ffurfio gan rymoedd economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol: 'There is no area of our lives which has not been affected by the social, political and expansionist needs of European capitalism'.¹³ Dywed fod a wnelo llenyddiaeth ag effaith grymoedd o'r fath ar ysbryd a gwerthoedd pobl. Beirniadwyd ei nofel, *Petals of Blood* (1977), oherwydd credwyd bod syniadau Ngugi am Farcisiaeth wedi dyddio – sef ei alwad ar i'r tyrfaoedd wrthryfela, dileu'r dosbarth bwrgeisiol du, a chwyldroi'r system gyfalafol a'i gyfnewid am sosialaeth Affricanaidd – ac mai effaith hyn oedd gostwng gwerth llenyddol y nofel. Meddai J. D. Killam, fodd bynnag, fod angen llenyddiaeth o'r fath er mwyn hybu trafodaeth yn Kenya, er i'r syniadau gael eu hystyried yn hen ffasiwn mewn gwledydd eraill. Yr hyn sy'n gwneud Ngugi yn artist, yn ôl Killam, yw bwrlwm ei weledigaeth wleidyddol:

Yet for all his assertion over the specific social role that his fiction and the plays are meant to have, the artist controls the didactic or polemical elements in the fiction. Here we can trust the teller *and* the tale. The essays and the creative writing are companion pieces, the one explicating the other. Ngugi is consistent in the attention he pays to his basic themes; the more he thinks on the implications of those aspects of the Kenyan experience of the forces of imperialism and colonialism – the more his

¹³ Ngugi Wa Thiong'o, *Homecoming* (London: Heinemann Educational Books, 1972), t. xv.

vision sharpens – the more his invention goes to work on the imaginative presentation.¹⁴

Yn y bennod hon, byddir yn cyfeirio at waith Ngugi Wa Thiong’o er mwyn gosod rhyddiaith a dramâu Miles a Tomos yn eu cyd-destun rhyngwladol ac amlygu’r agwedd ôl-drefedigaethol yn eu gwaith creadigol.

* * *

Mae cyhoeddiadau cynharaf Gareth Miles yn amlygu ei ddawn reddfol fel dychanwr. Soniwyd eisoes am y nofel graffig *Pelydr-Ll* ac mai nod y gwaith hwn ar y cyd ag Elwyn Ioan oedd tynnu sylw at agwedd wasaidd y Cymry tuag at Brydain a datguddio’r diffyg urddas a oedd yn perthyn i’r safbwynt hwnnw. Mae Cledwyn Jones, y prif gymeriad, yn Brydeiniwr triw, a thrwy gyfrwng ei lais ef y dychenir pobl sy’n rhannu ei safbwynt. Gwelir Miles felly yn defnyddio’r un dechneg ag yr oedd wedi ei datblygu’n llwyddiannus yn ei gyfres ‘Llythyr i’r Cwîn’. Dychenir y cenedlaetholwyr mewn ffordd ysgafn hefyd: eu cynllun yn y stori yw defnyddio peiriant newydd ‘Pelydr-Ll’ a fydd, o’i danio, yn peri i bawb yng Nghymru siarad Cymraeg. Bwriadant wneud yr un peth yn Lloegr, ond gan beri i bawb siarad pob math o ieithoedd, fel yn yr hanes beiblaidd am Dŵr Babel. Yn *Pelydr-Ll*, ymddengys sawl cymeriad o’r byd gwleidyddol, megis Cledwyn Hughes, a oedd yn destun dychan i Miles am ei fod yn ffigwr a oedd yn bleidiol i’r Gymraeg ac eto’n cefnogi Prydeindod drwy fod yn aelod seneddol dros y Blaid Lafur. Ceir golygfa lle y mae Cledwyn Jones yn darganfod cymeriad sy’n edrych fel Cledwyn Hughes ym myncar y cenedlaetholwyr, ond fe’i geilw’n ‘Nat Siencyn’ yn y stori. Esbonia Nat wrth Cledwyn ei fod wedi cydweithio â’r cenedlaetholwyr yn y dirgel ond ei fod bellach wedi gweld mai camgymeriad oedd hynny:

Nat Siencyn: wrth feddwi’r ddau arall yna a gwthio’r neges o dan dy ddrws di, fe ddiddymes fy hun oddi wrthyn nhw ac ymuno unwaith eto â’r lliaws mawr gonest ac anrhydeddus o’r cyd-wladwyr sy’n deyrngar i’r Goron ac yn ffeiddio

¹⁴ G. D. Killam, *An Introduction to the Writings of Ngugi wa Thiong’o* (London: Heinemann, 1980), tt. 6-7.

gweithredoedd y lleiafrif byachn sy'n dwyn y fath anfri ar eu gwlad gyda'u campau swnllyd ac anwaraid.

Cledwyn: Nat, 'rwy'n falch fy mod i wedi cael bod yn gyfrwng i dy ddwyn di 'nôl oddi wrth gyfeiliorniada cenedlaetholdeb i gôl Prydeindod unwaith eto...beth am ganu un bennill [*sic*] o 'Tywysog Gwlad y Bryniau' efo'n gilydd.¹⁵

Ceir portread doniol hefyd o'r heddlu nad ydynt yn gallu dal y paentwyr arwyddion ffyrdd: mewn un olygfa mae'r gweithredwyr yn chwistrellu slogan ar gefn yr heddwes tra bo yntau'n meddwl sut y gall eu dal. Portreadir yr heddlu a Cledwyn ar y naill law fel llypynnod gwasaid a thwp, a'r ymgyrchwyr ar y llall fel y garfan werinol, synhwyrol a chlyfar. Hynny yw, yr ymgyrchwyr sy'n 'normal' tra ymddengys y taeogion fel pobl ryfedd ac ansicr. Darlun hwyliog a geir yn y gyfrol o'r protestwyr – ceir cartŵn o Dafydd Iwan yn canu yn nhafarn y byncar, swyddogion blin Pelydr-Ll, y protestwyr diniwed y mae arnynt ofn yr heddlu cudd, a'r academydd, sef meddwl deallusol y cynllwyn – ond colli wna'r protestwyr hyn yn y diwedd a hynny er mor anobeithiol yw'r awdurdodau. Dyma ymgais gan yr ymgyrchydd o lenor i ddangos sut roedd yr ymgyrchwyr yn gweld y taeogion, sef y bobl Brydeinig-wasaidd yn eu golwg hwy. Drwy ddefnyddio dychan a chartwnau roedd modd herio – a hynny'n fywiog-weledol – safbwyntiau pobl a oedd yn amheus o'r ymgyrchoedd dros yr iaith drwy geisio dangos ffolineb y taeogion.

Yng nghyfrol nesaf Miles, *Cymru ar Wasgar*, cyfunir ei genadwri wleidyddol, genedlaetholgar, â llenyddiaeth boblogaidd. Bwriad y casgliad hwn o straeon byrion yw adlewyrchu'r Gymru gyfoes yn 1974 gan osod y byd hwnnw mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r Gymru draddodiadol, wledig a pharchus. Trafodir themâu fel rhagrith, dosbarth cymdeithasol, rhyw a chenedlaetholdeb, a lleolir sawl golygfa mewn gwledydd heblaw am Gymru, er mai Cymry yw cymeriadau rhan fwyaf y storïau. Mewn stori o'r enw 'Paham yr Wyf i'n Aelod o Blaid Cymru', teitl amlwg-wleidyddol yn y lle cyntaf, adroddir y stori yn y person cyntaf, a hynny o safbwynt Cofi dosbarth gweithiol sy'n sôn am ei gyfarfyddiad cyntaf â Gwyn Parri, cenedlaetholwr brwd. Fel Cledwyn yn *Pelydr-Ll*, mae cenedlaetholwyr yn atgas gan y

¹⁵ Gareth Meils ac Elwyn Ioan, *Pelydr-Ll* (Talybont: Y Lolfa, 1970), t. 16.

Cofi hwn. Yn yr olygfa hon, gwrthoda Gwyn Parri godi ar ei draed pan gaiff ‘God Save the Queen’ ei chanu ar ddiwedd y cyngerdd, er mawr boendod i’w gariad:

‘Cod, Gwyn,’ meddai hi, ‘ma pawb yn edrach arna chdi.’

‘Gad iddyn nhw edrych,’ medda fynta, ‘fe gan weld wedyn fod *un* Cymro yma o leia.’

‘Tydi bod yn Gymro ddim yn golygu bod raid ichdi dynnu sylw atat ti dy hun bob man da ni’n mynd,’ medda hitha.

‘Sda neb hawl i alw’i hunan yn Gymro ne’n Gymraes os yw e’n sefyll tra ma’r gân yna’n whare,’ medda fynta. ‘Alla i ddim diodde i chlwed hi, hyd yn oed. Ma hi’n hala pen tost arna i’.¹⁶

Dengys Miles yma ei allu i adlewyrchu tafodiaith yn effeithiol ac i ddeialogi’n rhwydd. Fodd bynnag, masg yw’r dafodiaith i guddio cymeriad sy’n ymgorfforiad o syniadaeth arbennig. Ar ôl ymladd yn gorfforol a geiriol, daw’r Cofi i adnabod Gwyn, a thrawsnewidir yn sgil hyn ei agwedd tuag at genedlaetholdeb. Fe wêl nad yw Gwyn yn esgus ei fod yn berffaith, fel y mae ei ddelwedd gyhoeddus, ddosbarth canol yn ei awgrymu, ac mae ei ffyddlondeb i’w safbwynt gwleidyddol yn apelio at y Cofi. Amcanion gwleidyddol sydd i’r stori, sef dangos i ymgyrchwyr yr angen i ddenu cefnogaeth y dosbarth gweithiol i’r ymgyrch, yn hytrach na myfyrwyr a deallusion yn unig – rhywbeth a boenai brotestwyr iaith y cyfnod.¹⁷

Mae storïau eraill yn y gyfrol yn amlygu rhagrith y Cymry Cymraeg, fel yn achos Glenda sy’n dioddef dramor mewn priodas dreisiol â Sais sydd hefyd yn berchennog ar buteindy, ond stori barchus a geir amdani yn y papur bro yn ôl yng Nghymru. Testun gwawd arall yw gwerthoedd llygredig anghydfurfiaeth, fel pan gais rhieni Geraint Green ei orfodi i briodi merch y mae wedi ei beichiogi. Yn hytrach, mae’n rhedeg i ffwrdd ac yn magu teulu yn Lloegr a cheir felly awgrym yn y stori fod gwerthoedd hen ffasiwn y Cymry Cymraeg yn tanseilio Cymru yn hytrach na’i hamddiffyn. Sefyllfa mewn tafarn a sgwrs am wleidyddiaeth rhwng ffrindiau yw ‘Noson Allan’, a leolir ym Mharis. Unwaith eto, trafodaeth am safbwyntiau ideolegol/gwleidyddol yw’r stori hon yn ei hanfod, a’r unig gymeriad cofiadwy yw

¹⁶ Gareth Miles, *Cymru ar Wasgar: Chwe Stori* (Talybont: Y Lolfa, 1974), t. 42.

¹⁷ Gweler Jones, *Ffuglen*, t. 233. Trafodir pryder Meg Elis ynglŷn â’r un pwnc yn ei nofel *I’r Gad* (1975) o’r un cyfnod.

Roger, y Ffrancwr, oherwydd ei agwedd tuag at y cysyniad o ddosbarth cymdeithasol a'i awydd i fyw bywyd bwrgeisiol. Ystyria ei hun yn sosialydd, ond nid yw, fel cymeriadau eraill y stori, yn bwriadu byw bywyd tebyg i'r dosbarth gweithiol oherwydd ei gred fod modd newid y drefn trwy weithio o fewn sefydliadau a chorfforaethau. Meddai Roger:

‘Yli, rydw i’n sosialydd, a tawn i’n credu y gellid codi’r baricêds eto ryw bryd yn ein hoes ni, i sgubo’r gyfundrefn bwdwr bresennol i ebargofiant, mi faswn i’n fodlon gweithio nos a dydd i beri i hynny ddigwydd. Ond ma’r peth yn amhosib. Welwn ni fyth Chwyldro arall yn Ffrainc. Nag yn unrhyw wlad arall yng Ngorllewin Ewrop chwaith. Neith y Werin fyth wrthryfela eto. Ma hi’n fyd rhy braf arni. Ma hi wedi cal i llwgr-wobrwyo gan i meistri bwrdeisaidd a’i mesmareiddio gan y teli. Dyna’r ffaith, a rhaid i gwynebu hi. Yr unig ffor y gellir gobeithio diwygio Cymdeithas heddiw ydi drwy i unigolion, unigolion goleuedig, os mynni di, weithio’n ddistaw ac yn ddygn y tu mewn i sefydliada a chorfforaetha, i’w gwella nhw ac i liniaru rhywfaint ar y tueddiada mwya gormesol.’¹⁸

Awgryma’r prif gymeriad – nas enwir – mai rhesymau hunanol ac ariannol sydd tu ôl i’r rhesymeg hon pan y’i gwyntyllir gan amlaf, neu hyd yn oed y chwant am rym, ond haera Roger nad yw pethau materol yn bwysig iddo. Y mae’n ddiddorol fod Miles yn trafod y testun hwn o geisio newid cymdeithasol wrth frwydro tu allan neu y tu mewn i’r drefn, oherwydd un o brif bynciau ei gyhoeddiadau uniongyrchol-wleidyddol, fel y cawn weld, yw ei alwad ar i’r dosbarth canol ymuniaethu ac ymuno â brwydr y dosbarth gweithiol ac ymwrthod â’r gyfundrefn ddosbarth Brydeinig er mwyn ysgogi chwyldro gwirioneddol. Diddorol, felly, yw ei fod yn rhagfynegi hyn yn y cyhoeddiad ffuglennol cyntaf hwn. At hyn, rhydd ‘Noson Allan’ gyfle i’r cymeriadau wneud areithiau a moesoli ynghylch gwleidyddiaeth:

‘Y Celtiaid,’ ebe Yveline. ‘Ddwy fil a hanner o flynyddoedd yn ôl mi oedd sŵn carna’n meirch ni’n arswydo Ewrop ac Asia. Mi oedd ar Rufain ei hun yn hofn ni. Y’n beirdd a’n hartistiaid ni oedd goreuon y byd...a drychwch arnon ni rŵan – sbwriel ethnig! Dyna’i gyd ydan ni. Sbwriel ethnig yn disgwyl i gael i daflu ar ddoman Hanes.’¹⁹

¹⁸ Miles, *Cymru ar Wasgar*, t. 33.

¹⁹ *Ibid.*, t. 24.

Diddorol yma yw nodi'r syniad am y genedl fel 'sbwriel ethnig' a bod y cymeriad yn gweld y Cymry fel hil. Pwysleisia Yveline y bu'r Cymry yn rhan bwerus o gymuned ryngwladol, ond eu bod bellach yn lleiafrif a ffeiddir. Yn gynharach yn y stori, wrth i'r prif gymeriad ystyried a oedd am fynd allan, dywed: 'Y mae'n rhaid fod atgof am remp wythnosol yr hil wedi deffro rhywbeth yn yr isymwybod, neu yn y gwaed'.²⁰ Canlyniad yr ymwybyddiaeth o fod yn lleiafrif yw ceisio dihagfa, yn ôl Harrison: 'Trwy feddwi ar grefydd neu ar alcohol mae dynion yn llwyddo i anwybyddu'r gwirionedd truenus amdanyn nhw'u hunan'.²¹ Nod Miles yn y storïau hyn yw rhoi llais i'w bersbectif ef ei hun a'i genhedlaeth mewn llenyddiaeth. Roedd rhai o'r datganiadau amrwd a ddeuai o enau'r cymeriadau yn cael eu gweld fel safbwyntiau radical yn y 1970au ac yn herio ei gynulleidfa. Yn ei hanfod, safbwyntiau amrywiol a geir yma a ffurfir plot realaidd a chymeriadau i roi llais iddynt; yn aml, dysgir mwy am safbwyntiau gwleidyddol y cymeriadau nag am y cymeriadau eu hunain.

Cyfrwng yw'r storïau i drafod tensiwn rhwng cenedlaethau a dosbarthiadau cymdeithasol. Cred Jerry Hunter fod y stori 'Cenhadon Hedd' yn y gyfrol *Treffin* (1979) yn codi i safon uwch na gweddill y storïau. Caiff Dafydd, sy'n aelod o Gymdeithas yr Iaith, ei holi ynglŷn â gweithgarwch gwleidyddol ei ffrind mewn mudiad treisgar o'r enw'r 'Patriotic Front'. Oherwydd pwysau'r heddlu a'r gwahaniaeth mewn ideoleg ynglŷn â'r defnydd o drais, mae Dafydd yn trosglwyddo gwybodaeth i'r heddlu. Mae ffrind Dafydd, Morus y fferyllydd parchus, yn llwyddo i achub Dafydd rhag mynd i'r llys drwy ddefnyddio gwybodaeth sydd ganddo – o droi mewn cylchoedd cymdeithasol tebyg i eiddo'r arolygydd heddlu – a defnyddia'r wybodaeth honno i lwgrwobrwyo'r arolygydd. Medd Hunter: 'Cynhwysa "Cenhadon Hedd" ddyfnder a chymhlethdod nas ceir yn y straeon eraill. Rhydd inni gip ar y delfrydwr ifanc ar ei eiliad wan yn ogystal â phortread o ddyn cyffredin nad oes ganddo'r "gyts" i weithredu'n wleidyddol yn camu'n ddistaw ond yn effeithiol i'r llwyfan wleidyddol'.²²

²⁰ *Ibid.*, t. 18.

²¹ *Ibid.*, t. 24.

²² Hunter, 'Y Dychymyg Dilechdidol: Ffuglen Gareth Miles', t. 107.

Gellir ystyried y straeon byrion yn *Cymru ar Wasgar* a *Treffin* fel brasluniau neu ymdrechion *juvenilia* i geisio plethu gwleidyddiaeth a llenyddiaeth. Er y gellid beirniadu'r gweithiau am fod yn amrwd o ran cynnwys, ac ar sail diffyg cydbwysedd rhwng llais personol y cymeriad a'u lleisiau gwleidyddol, mae'r gweithiau yn cyflawni eu pwrpas. Maent yn gofnod o asbri cyfnod arbennig ac o genhedlaeth ifanc yn ceisio ailddarganfod hunaniaeth Gymraeg. Gellir dadlau fod y straeon wedi dyddio bellach oherwydd eu bod wedi eu gwreiddio'n gadarn mewn cyfnod arbennig, ond ar y llaw arall gellid dweud eu bod yn cynrychioli corff o waith llenyddol arwyddocaol o'r cyfnod sy'n trafod y deffroad gwleidyddol a fu yng Nghymru yn y 1960au a'r 1970au.

Yn gyfochrog â'i waith llenyddol, cyhoeddodd Gareth Miles nifer o ddogfennau yn cynnig trywyddau athronyddol i Gymdeithas yr Iaith a Phlaid Cymru, gan ddadlau y dylid gosod yr ymgyrch dros Gymru rydd a thros y Gymraeg yng nghanol yr ymgyrch ddogfennau. Noder fod Ngugi, yn yr un modd â Miles, wedi llunio'r ysgrifau a gyhoeddwyd yn *Homecomings* yn yr un cyfnod â'i dair nofel gyntaf. Eironig, medd Ngugi, yw'r ffaith fod Affrica yn rhan o'r system gyfalafol, sef yr union system a achosodd eu dioddefaint, ac meddai: 'The writer cannot be exempted from the task of exposing the distorted values governing such a jungle precisely because this distorts healthy human relationships'.²³

Meddai Miles, wrth dalu teyrnged i Saunders Lewis am orfodi pobl ifainc Cymru i ddewis rhwng Prydeindod a Chymreictod:

there is no hope of solving the problems of Wales unless they are considered in an international context, and...Welsh nationalism will never become a truly revolutionary creed unless it is placed within the framework of a wider ideology. When that happens, there will be room to believe that the Welsh language and the Welsh nation will survive as long as the other languages and nations of mankind.²⁴

Er cymaint y gwahaniaethau syniadaethol rhwng Saunders Lewis a Gareth Miles, nid oes yr un llenor arall y mae Miles wedi ysgrifennu cymaint yn ei gylch. Gwêl

²³ Thiong'o, *Homecoming*, tt. xvi-xvii.

²⁴ Gareth Miles, 'A Personal View', yn Alun R. Jones a Gwyn Thomas (goln.), *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff: University of Wales Press, 1973), t. 19.

Saunders fel ffigwr a oedd yn fodlon herio a phwysleisio fod yn rhaid ymwrthod ag imperialaeth Prydain yn llwyr cyn y gellid mynd ati i ennill Cymru. Yr ideoleg sydd gan Miles mewn golwg yn y cyswllt hwn yw sosialaeth. Mewn cyfweiliad ag awdur y traethawd hwn, disgrifiodd Gareth Miles ei hun fel Marcsydd sy'n aelod o'r Blaid Gomiwnyddol ac yn wlatgarwr sydd â bydolwg rhyngwladol.²⁵ Ym 1972, yn y pamffled *Cymru Rydd, Cymru Gymraeg, Cymru Sosialaidd*, amlinellodd ei weledigaeth ar gyfer rhyddid cenedlaethol, cymdeithasol ac ieithyddol. Edrycha'n ôl dros ddeng mlynedd cyntaf Cymdeithas yr Iaith gan sylwi sut yr arweiniwyd hwy at y dull di-drais, yn eironig gan Saunders Lewis nad oedd yn heddychwyr ei hun. Roedd y Gymdeithas ar fin ennill y frwydr dros arwyddion ffyrdd, ond prif gyfraniad y Gymdeithas yn ôl Miles oedd politiceiddio cenedlaeth o Gymry ifainc – 'dysgodd iddynt elfennau gwleidyddiaeth ymarferol ac arweinyddiaeth ddemocrataidd'²⁶ – rhywbeth a oedd yn anarferol mewn cenedl ddarostyngedig. Er hyn, digalon yw'r rhagolygon, ac efallai mai diwerth fydd yr ymdrech yn ôl Miles. Geilw ar y Gymdeithas i ddatblygu athroniaeth wleidyddol newydd a fyddai'n arwain, yn ei dyb ef, at 'bolisiâu cymdeithasol a thactegau gwleidyddol a fydd yn peryglu einioes y Drefn Seisnig yng Nghymru'.²⁷ Ymhellach, beirniada Blaid Cymru am nad yw ei pholisiâu yn ddigon gwahanol i eiddo'r pleidiau eraill; byddai Cymru â mesur o hunanlywodraeth, er yn ceisio 'ffordd Gymreig' o wneud pethau, yn rhwym i rymoedd y corfforaethau a thueddiadau'r Farchnad.²⁸ Dylid cydnabod, medd Miles, mai *petite bourgeoisie* yw'r cenedlaetholwyr Cymreig sydd wedi eu dieithrio oddi wrth ddiodefaint y dosbarth gweithiol dan law dirfodaeth Imperialaeth:

Anwladu rhwng y Chwith a'r Dde a'i athrawiaethau ei hun fu hanes y Mudiad Cenedlaethol Cymreig o'i ddechreuad, ac y mae'n hen bryd i ni, gynheiliaid presennol y mudiad hwnnw, sylweddoli mai difodiant buan ddaw i'w ran, ac i'n gwlatgarwch ninnau gydag ef, oni uniaethwn [*sic*] ein hunain yn llwyr â dyheadau ac amcanion y dosbarth gweithiol, sef yr unig ddosbarth Cymreig sy'n ddigon cryf i ryddhau'r Genedl gyfan o afael Imperialaeth wrth ei ymryddhau [*sic*] ei hun.²⁹

²⁵ Cyfweiliad yr awdur presennol â Gareth Miles ym Mhontypridd, 17 Mehefin 2010.

²⁶ Gareth Meils, *Cymru Rydd, Cymru Gymraeg, Cymru Sosialaidd* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, 1972), tt. 6-7.

²⁷ *Ibid.*, t. 11.

²⁸ *Ibid.*, t. 13.

²⁹ *Ibid.*, t. 17.

O edrych ar gyhoeddiadau llenyddol Miles yn y cyfnod dilynol, gellir eu gweld fel ymdrechion gan y llenor i fynegi ei syniadau gwleidyddol mewn ffordd amgen. Nid ydynt yn uniongyrchol wleidyddol wrth gwrs, ond maent yn dechrau codi cwestiynau ynghylch gwerthoedd cenedlaetholdeb a'r gwahaniaethau ideolegol rhwng cenedlaetholwyr a thrwch y boblogaeth. Mae *Treffin* yn benodol, er enghraifft, yn codi cwestiynau ynghylch mathau gwahanol o weithredwyr, pwnc a gaiff ei drafod yn y pamffled gwleidyddol *Cymru Rydd*, *Cymru Gymraeg*, *Cymru Sosialaidd*. Beirniada Miles yn hallt y bobl hynny sy'n gadael yr ymgyrchu aberthol ac 'eithafol' i'r genhedlaeth ifanc oherwydd cyfrifoldebau swyddi ac ati. Dyma bwnc, serch hynny, sy'n ddeunydd llenyddiaeth gan ei fod yn ymwneud â pherthynas pobl â'u hymroddiad i'r ymgyrch.

Yn y misoedd yn dilyn methiant refferendwm 1979 a phenderfyniad pobl Cymru i wrthod mesur o hunanreolaeth, wynebai Plaid Cymru argyfwng o ran cyfeiriad a phwrpas. Cyhoeddodd Miles, ar y cyd â Robert Griffiths, *Socialism for the Welsh People* (1979), er mwyn cynnig trywydd ac i annog y Blaid i wreiddio ei hathroniaeth mewn sosialaeth wrthdrefedigaethol. Yn fras, cynigiant y dehongliad canlynol o hanes Cymru: i Gymru gael ei choncuro a'i meddiannu gan drefn ffiwdal; na fu i Gymru ddatblygu dosbarth bwrgeisiol, ac i hynny olygu y bu'n rhaid ildio i gyfalafiaeth ac felly mai Prydeinwyr oedd y dosbarth uwch yng Nghymru; arweinwyr Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd y dosbarth bwrdeisiol a lwyddodd i Seisnigo Cymru drwy grefydd ac addysg. Roedd Plaid Cymru yn yr un traddodiad ac wedi parhau'n blaid a amlygai 'compromise, cowardice, vacillation, gradualism and opportunism'.³⁰ Roedd canlyniad refferendwm 1979 yn adlewyrchiad o wendid y Blaid Lafur Brydeinig a Phlaid Cymru, yn ôl Miles a Griffiths, a rhaid oedd darbwyllo'r ddwy garfan dan sylw fod rhaid i'r dosbarth gweithiol a'r cenedlaetholwyr ddod at ei gilydd er mwyn ffurfio ffrynt a fyddai'n medru herio Prydeindod.

Bu'r cyhoeddiad hwn yn un o nifer a ddechreuodd drafodaeth ynghylch creu synthesis chwith-genedlaetholgar ym Mhlaid Cymru, trafodaeth a esgorodd ar ffurfio athroniaeth Plaid Cymru yn yr 1980au, yn ôl Richard Wyn Jones:

³⁰ Gareth Miles a Robert Griffiths, *Socialism for the Welsh People* (Caerdydd: Cyhoeddiadau Clegen, 1979), tt. 12, 25.

Mae'n anodd gorbwysleisio arwyddocâd hyn oll. Wedi i refferendwm 1979 gau'r drws yn glep ar obeithion cenedlaethau o genedlaetholwyr Cymreig, byddai'n hawdd iawn i genedlaetholdeb Cymreig ddatblygu yn rym cwbl negyddol a nihilistaidd, hyd yn oed, ym mywyd Cymru. Y chwith yn anad neb a sicrhodd na ddigwyddodd hynny trwy ddarparu gweledigaeth a geirfa amgen a gysylltodd (unwaith yn rhagor) dueddiadau yng Nghymru â datblygiadau a thueddiadau rhyngwladol. Ac er i raglen y chwith-genedlaetholgar brofi'n fethiant etholiadol – roedd canlyniadau'r Blaid yn etholiad cyffredinol 1983, heb sôn am isetholiadau megis isetholiad Brycheiniog yn 1985, yn drychinebus o wael – mae'n anodd credu na fu'r penderfyniad i gefnu ar drydedd ffordd a mabwysiadu disgrifiad mwy confensiynol o'r cyfeiriad y deisyfai'r [sic] Blaid ar gyfer Cymru o fudd iddi yn yr hir-dymor.³¹

Ceir ymateb creadigol i refferendwm 1979 yn nofel Gareth Miles, *Trefaelog*. Dywed Jerry Hunter fod y broses ddilechdidol ar ei hamlycaf yn y nofel hon, lle ceir cymysgedd o gymeriadau a phob un yn cynrychioli ideoleg arbennig: er enghraifft, y cenedlaetholwr adain dde, y llafurwr sosialaidd, y mudiad ffeminyddol. Meddai Hunter: 'Mae'r nofel yn gyfrwng [i Miles] ddehongli'r gwahanol weddau ar Gymreictod cyfoes gan archwilio hefyd y ffactorau hanesyddol sydd wedi ffurfio hunaniaeth gymhleth y Cymry. Rhydd Gareth Miles bortread o blethwaith ideolegol deinamig sy'n cynnwys grym diwylliannol Ymneilltuaeth, agweddau ceidwadol ar genedlaetholdeb Cymreig a sosialaeth'.³² Yn *Trefaelog*, gwelir llu o syniadaethau yn cael eu trafod drwy gyfrwng ac ar ffurf cymeriadau: yn yr ymrafael rhwng y gwahanol syniadaethau hyn y ffurfir cymeriad Gerwyn Owen, prif gymeriad y gwaith. Mewn cyfweiliad â'r awdur presennol yn ei swyddfa ym Mhontypridd, dywedodd Miles nad oedd wedi gosod map iddo ef ei hun ar ddechrau ei yrfa ac nad oedd ganddo gynllun penodol. Esboniodd ei fod yn edmygwr o waith Daniel Owen a'i fod yn gweld y cymeriadau yn nofel *Rhys Lewis* yn nhermau gwahanol rymoedd sy'n ffurfio synthesis o fewn Rhys Lewis ei hun: y fam Galfinaidd, Abel Hughes, y diwydianwyr a'r dynion busnes. Y cynnyrch ar ddiwedd y nofel yw cymeriad sy'n ymgorfforiad o Ryddfrydiaeth Gymreig.

³¹ Richard Wyn Jones, *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru (Cyfrol 1)* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2007), t. 224.

³² Hunter, 'Y Dychymyg Dilechdidol: Ffuglen Gareth Miles', t. 102.

Mae *Trefaelog* yn adlewyrchu'r archwilio ideolegol a gafwyd yng Nghymru yn sgil refferendwm 1979. Roedd digon o weithgaredd gwleidyddol yn digwydd yng Nghymru, fel y dywed Gerwyn wrth ei gariad Ffran, wrth geisio ei rhwystro hi rhag gadael Cymru wedi i'w gwaith o ohebu ar y refferendwm ddod i ben: 'O safbwynt straeon, ma'na ddigon yn digwydd: llosgi tai haf, yr ymgyrch deledu, glowyr a gweithwyr dur yn bygwth streicio'.³³ Nid gwagle oedd yng Nghymru ar ôl 1979, felly, ond proses o ail-greu, a thrwy Gerwyn Owen archwilir trywyddau ideolegol newydd.

Awgryma Gerwyn, mewn sgwrs rhyngddo ef a Goronwy Kyffin, fod ei gyd-wladwyr wedi gwrthod yr iaith Gymraeg ynghyd â'r syniad o Gymru fel cenedl yn refferendwm 1979:

'Mi ddaliodd Saunders ati i wthio'r graig tua'r copa er pob siom a brad,' mynnodd Goronwy. 'Â holl nerth ei gorff eiddil a'i feddwl mawr, tra gallai o, ac yna, pan aeth o'n llegach, â grym ei weddïau.'

'Pob parch iddo fo, ac i chitha,' atebodd Gerwyn, 'ond ma arna'i ofn bod angen grym mwy...diriaethol...na gweddi i 'sgytwad y Cymry o'u syrthni a'u llwfrdra...Ond be fedra i gynnig? Ma dyn yn teimlo mor ddiymadferth. Mor amherthnasol...'

'Ma'ch gwaith chi yn y Coleg yn dal i roi boddhad ichi?' awgrymodd Cynthia. 'Mi fedrwch ddal i weithio dros Gymru felly.'

'Be dâl "proffesu'r Gymraeg" a'r rhan fwya o 'nghydwladwyr i'n gweld dim gwerth ynddi hi? Be dâl dim byd dyddia hyn?''³⁴

Roedd y syniad o Gymru fel cenedl gyfansoddiadol wedi diflannu ar ôl y refferendwm. Yr unig beth a oedd ar ôl i fod yn sail i'w hunaniaeth oedd yr iaith Gymraeg. Dyma sy'n gyrru penderfyniad Gerwyn i droi at Fyddin Owain a oedd yn grŵp unbeniaethol ac a goleddai ddulliau treisgar er mwyn gwireddu'r nod o amddiffyn y Gymraeg. Sylweddola Gerwyn mai 'Rhwystredigaeth ynglŷn â'r sefyllfa wleidyddol yng Nghymru a barodd iddo ymaelodi', yn hytrach nag uniaethiad ag amcanion y fyddin.³⁵ Erbyn diwedd y nofel, mae llwyddiant streic y gweithwyr llaeth

³³ Gareth Miles, *Trefaelog* (Caernarfon: Annwn, 1989), t. 87.

³⁴ *Ibid.*, t. 101.

³⁵ *Ibid.*, t. 121.

yn erbyn trefn Thatcheriaidd Hywel Kyffin yn dangos fod safbwynt Gerwyn wedi bod yn gywir wedi'r refferendwm: mae'r Gerwyn a welir yn ei uniaethu ei hun â'r gweithwyr ar y diwedd yn synthesis o nifer o ffactorau o fewn y nofel, sef gwerthoedd sosialaidd ei dad a balchder mewn etifeddiaeth a welwyd yn Goronwy Kyffin. Gwelir, felly, sut yr oedd syniadaeth Miles yn ei gyhoeddiadau uniongyrchol-wleidyddol yn ymdreiddio i'w waith llenyddol, gan ffurfio plot a chymeriadau a fyddai'n amlygiad o'r hyn y dyheai Miles am ei weld ar gyfer Cymru, sef synthesis o genedlaetholdeb a sosialaeth. Dylid nodi fod John Rowlands wedi beirniadu *Trefaelog* oherwydd ei fod yn cael trafferth credu yn y berthynas rhwng y cymeriadau a'i gilydd – 'daliad i deimlo nad oes trwch i'r gymeriadaeth, a bod yr ymdriniaeth yn rhy fratiog ac arwynebol drwodd a thro i wneud cyfiawnder â phwnc y nofel'.³⁶

Yn yr un modd, gesyd Miles gymeriadau unigol ynghanol croesffyrdd ideolegol Cymru ôl-1979 yn y ddwy ddrama *Diwedd y Saithdegau* ac *Unwaith eto 'Nghymru Annwyl*. Yn yn gyntaf ohonynt, a gyhoeddwyd yn 1983, mae Gwenda yn ymgyrchydd iaith sydd wedi dewis bywyd 'saff' fel gwraig i blismon, ac yn ystod y ddrama datgelir ei rhwystredigaeth ynghylch ei bywyd presennol dosbarth canol. O ddechrau'r gwaith, amlygir y tensiwn chwerw sydd rhwng Gwenda a'i gŵr, John – gymaint felly yn wir fel na ellir credu yn eu perthynas. Dwysâ John y gynnen sydd rhyngddynt, sef gorffennol Gwenda fel ymgyrchydd iaith brwd rai blynyddoedd ynghynt, mewn ffordd letchwith wrth drafod ffilm am Wlad Pwyl: 'Mi fus di'n byw'n eithafol ar un adeg'.³⁷ Anghytunant ynghylch lladrad gan Gymry lleol o dŷ haf y mae John yn ymchwilio iddo: yn ôl y plismon, lladrad yw lladrad. Cyhudda Gwenda ef o siarad fel Tori, ond dywed John mai cenedlaetholwr ydyw ac un a gaiff ei siomi'n rheolaidd gan ei gyd-wladwyr, ond myn Gwenda: 'Dwi'n cael 'yn siomi gin wahanol gyd-wladwyr a gwahanol ffaeledge. Tasa 'na fwy ohonan ni fel cenedl yn efelychu Wil Glec a Selwyn mi gaen well parch gin y "white settlers"'.³⁸ Mae'r refferendwm yn esgor ar drafodaeth am genedlaetholdeb a'i nod, a defnyddia Miles ei gymeriadau ar y llwyfan i roi llais i'r drafodaeth honno gan herio ei gynulleidfa ynghylch pa athroniaeth sy'n sail i'w cenedlaetholdeb hwy – cenedlaetholdeb Cymreig adain dde John neu genedlaetholdeb Cymreig sosialaidd gwrthdrefedigaethol Gwenda. Heria

³⁶ John Rowlands, *Llais Llyfrau* (Gaeaf 1989), t. 9.

³⁷ Gareth Miles, *Diwedd y Saithdegau* (Penygroes: Cyhoeddiadau Mei, 1983), t. 16.

³⁸ *Ibid.*, t. 21.

John Gwenda wrth ofyn sut y pleidleisiodd Wil a Selwyn (cynrychiolwyr y dosbarth gweithiol yn y ddrama) yn y refferendwm, gan honni i hyd yn oed y mewnfudwyr Saesneg a adwaenai bleidleisio o blaid cael Cynulliad. Wrth iddynt ddadlau ynghylch canlyniad y refferendwm, ceir y sgwrs a ganlyn:

Gwenda: Tae Plaid Cymru ddim yn hollol wasaidd mi fasa wedi gwrthod cynigion tila Wilson a Callaghan a chychwyn ymgyrch benderfynol dros annibyniaeth lwyr.

John: Ac wyt ti'n meddwl basa 'na obaith mul i ymgyrch fel 'na lwyddo?

Gwenda: Mwy o obaith na chrafu am friwsion a llyfu tîn Michael Foot; cefnogi ymgyrch anonest y Blaid Lafur a chwyno wedyn, y petha bach diniwad, bod y Blaid Lafur wedi'u twyllo nhw.³⁹

Yma, mae'r gwleidydd yn y dramodydd ar y llwyfan. Pair i'w gymeriadau fod yn ymgawdoliad o'r grymoedd syniadaethol a oedd yn eu hamlygu eu hunain wedi'r refferendwm.

Fel gyda'r refferendwm, defnyddir cyfundrefn apartheid De'r Affrig fel cefnlen i drafod safbwyntiau gwahanol ynghylch iaith a chenedl a rôl yr 'arwr' yn *Unwaith eto 'Nghymru Annwyl* (1986). Yn y cyflwyniad i'r ddrama, dywed Miles mai cenedlaetholwyr brwd neu ddadrithiedig oedd y sail i'r cymeriadau. Deillia'r stori o hanes Wilses yn dychwelyd at ei wraig Penelope ar ôl ei anturiaethau, a chyplysir hynny â hen goel y beirdd ynghylch y Mab Darogan. Ynglŷn â'r broses o droi'r stori'n sgript, meddai Miles: 'Rhyw ddeng niwrnod o gydweithio ar y sgript wreiddiol, yn actorion, cyfarwyddwr ac awdur a roes fywyd i'r cymeriadau a throi'r stori'n ddrama'.⁴⁰ Ceir plethwaith o gymeriadau yn y ddrama hon: mae Owain wedi bod yn cynorthwyo ymgyrch yr Affricaniaid du sydd dan orthrwm, ac mae bellach ar ffo rhag heddlu De'r Affrig; mae Dewi yn gynhyrhydd teledu sydd yn ceisio gwneud rhaglen am helyntion ei hen ffrind – ac mae Owain yn awyddus i gael y sylw a'r statws; prentis gwleidyddol i Owain yw Siôn, ac mae ar goll heb arweiniad ei arwr; gwraig Owain yw Morfudd sydd wedi syrffedu o orfod byw heb wybod lle mae ei

³⁹ *Ibid.*, t. 22.

⁴⁰ Gareth Miles, 'Unwaith Eto 'Nghymru Annwyl', *A2*, 2 (Haf 1986), t. 38.

gŵr a heb ei gwmi. Adeiladir tensiwn dramatig yn effeithiol cyn dyfodiad Owain yn ôl i'r tŷ, ac fe ddywed i ddechrau mai ar ochr yr Afrikaans yr oedd ac iddo ddysgu llawer ganddynt am greu diwylliant dwyieithog – a allai fod o help i Gymru. Strategaeth er mwyn dadlennu mor arwynebol yw cenedlaetholdeb ac ymgyrchu iaith yng Nghymru yw dweud hyn. Gwylltia Siôn pan gyhudda Owain ef o lyncu'r geiriau hynny heb gwestiwn:

Siôn: Mi wyt ti'n siaradwr mor huawdl on'd wyt? A dwi'na wedi arfar gwrandio arna chdi a derbyn bob dim ti'n ddeud. Mi *ydau* ni'n wahanol i'r Afrikaansers. 'N gwlad ni ydi hon, a ma'n hiaith a'n diwylliant ni'n gynhenid.

Owain: Ma' diwylliant y Cymro a diwylliant y Boer yn bur debyg, Siôn...eilradd, plwyfol, mewnblyg, ffug-werinol – ac ymhongar.

Siôn: Tydi'r Gymraeg ddim yn bwysig i ti rŵan.

Owain: Tydi hi ddim yn holl-bwysig. Tydw i ddim yn meddwl, bellach, hefo Mr Saunders Lewis, mai'r iaith Gymraeg yw'r unig fater politicaidd y mae'n werth i Gymro ymboeni ag ef heddiw.⁴¹

Ar ôl i Owain gyrraedd, dadleuon gwleidyddol a geir am y rhan fwyaf o'r ddrama. Nid oes adeiladwaith tuag at y foment o ddadrithiad ar ddiwedd y ddrama pan ddatgelir fod Morfudd yn cael perthynas â Sais ac yn bwriadu gadael Owain; nid yw ymateb Owain 'yr arwr' yn gredadwy oherwydd ni all ymddihatru o'i rôl fel gwleidydd.

Un o linellau mwyaf cofiadwy y ddrama *Diwedd y Saithdegau* yw disgrifiad Gwenda o'r ffeidd-dra o wybod fod ei gŵr yn was i'r system imperialaidd y mae'n ei chasáu: 'Rhyfedd meddwl bod talp byw o'r Wladwriaeth Brydeinig yn rhochian wrth f'ymyl i bob nos. A phan fyddwn ni'n caru, ma grym ag Awdurdod y Wladwriaeth Brydeinig ynof fi! Ni allaf ddianc rhag hon!'.⁴² Er mai bwriad eironig sydd i'r sylw hwn, awgrymir y gorthrwm a deimla Gwenda o fewn y berthynas ac a ddwyséir gan gyddestun gwleidyddol y berthynas honno. Rhydd y ddelwedd ysgytwol ac amrwd hon

⁴¹ *Ibid.*, t. 63.

⁴² Miles, *Diwedd y Saithdegau*, t. 25.

o'r gwleidyddol-orthrymus yn ymdreiddio i'r corff – yn wir, yn tresmasu arno – gyswllt diddorol, fel y cawn weld, â gwaith Angharad Tomos. Yn yr un modd, mae cymeriadau benywaidd Angharad Tomos a'u perthynas â'u cyrff yn datgelu agweddau o'u hunaniaeth.

Yn gyntaf, pwysig yw nodi mai ymgyrchu dros y Gymraeg yw prif gymhelliad Angharad Tomos wrth ysgrifennu. Perthnasol yn y cyswllt hwn yw'r hyn a ddywed ynghylch ei hysgrifennu gwleidyddol a'i hysgrifennu creadigol:

Nid yw swm a sylwedd yr hyn a ysgrifennais yn ystod yr Wythdegau, ar wahân i gyfres *Rwdlan*, yn fawr iawn. Yr unig beth y byddwn yn cyfrannu'n rheolaidd iddo oedd *Tafod y Ddraig*...Byddai ysgrifennu rhywbeth fel hyn yn dod yn llawer rhwyddach i mi na chreu o'r dychymyg, ac oni bai fy mod yn cael fy ngorfodi i gyfansoddi stori fer, ni fyddai'n dasg y byddwn yn ei gwneud o'm gwirfodd. Weithiau rwy'n meddwl fy mod yn fwy o ohebydd nag o awdur. Os oes dewis rhwng ymgyrchu ac ysgrifennu'n creadigol, yr ymgyrchu gaiff y flaenoriaeth. Mae ysgrifennu llythyr, taflen neu lyfryn gymaint haws, mae gan rywun ddyddiad pendant i anelu ato, a chaiff canlyniad y gwaith ei weld y syth. Does yna ddim y fath frys efo sgwennu creadigol.⁴³

Caiff hyn ei adlewyrchu gan ei hysgrifennu pytiog, pwrpasol. Wrth bwysleisio mai'r ymgyrch yw ei blaenoriaeth, mae Tomos yn awgrymu mai eilbeth yw ei chynnyrch 'lleyddol'. Dengys Jane Aaron yn ei hastudiaeth o waith Tomos fod refferendwm 1979 wedi siomi'r awdures – yn bennaf gan fod yr addysgu gwleidyddol a wnaed wedi digwydd ymhlith y dosbarth canol, ac nid ymysg trwch y boblogaeth a fyddai'n pleidleisio yn y refferendwm. Dyma a wnaeth i Tomos ac i Gymdeithas yr Iaith sylweddoli 'fod rhaid brwydro dros ffyniant cymdeithasol ac economaidd cymunedau dosbarth gweithiol a di-Gymraeg Cymru yn ogystal, os yw Cymru a'r Gymraeg i oroesi'.⁴⁴ Yn ei hunangofiant, noda Tomos ffactor arall a gadarnhaodd ei safle fel sosialydd ac fel ymgyrchydd iaith, sef ei ffydd Gristnogol: 'Ond mi ddaru dod i gredu yn Nuw newid fy mywyd. Rhoddodd ystyr mewn bywyd i mi, a'i roi mewn persbectif. Yn hytrach na meddwl mai achub Cymru oedd prif bwrpas byw,

⁴³ Angharad Tomos, *Cnonyn Aflonydd: Cyfres y Cewri 23* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 2001), tt. 196-7.

⁴⁴ Aaron, "'Glywi di 'nghuro?'" , tt. 125-6.

sylweddolais fod yna ddiben amgen, a bod brwydr yr iaith yn ffitio i batrwm ehangach. Rhoddais y gorau i fod yn llwrymwrthodwr gan mai rheol er mwyn rheol oedd honno, – moesoldeb a dim arall'.⁴⁵ Ei phrofiad o fynd i garchar Risley oedd y ffactor arall a ffurfiodd ei hymwybyddiaeth gymdeithasol:

Am wn i mai effaith fwyaf carchar arnaf oedd fy ngwneud yn fwy ymwybodol yn gymdeithasol, agor fy llygaid i ddiodefaint eraill, a sylweddoli mai dim ond y dosbarth gweithiol oedd oddi mewn i waliau Risley. Euthum i Risley yn garcharor iaith. Deuthum oddi yno yn sosialydd o argyhoeddiad.⁴⁶

Er bod Blodeuwedd, prif gymeriad *Yma o Hyd* (1985), yn galw ar bobl Cymru i ddeffro o'u trwmgwsg, ceir ar yr un pryd y syniad ei bod hi'n cyflawni rhyw fath o ragluniaeth, a noda Enid Jones fod 'nodyn etholedigaethol' tebyg yn seicoleg Blodeuwedd a Heulwen, prif gymeriad *Hen Fyd Hurt* (1982).⁴⁷ 'Mi ges i ngeni'n Weithredwr a fedr neb newid hynny',⁴⁸ meddai Blodeuwedd. Mae Heulwen ar y llaw arall yn gymeriad mwy unigolyddol fyth, ac fe glyw lais Llywelyn y Llyw Olaf yn galw arni'n uniongyrchol o'r Oesoedd Canol i sefyll ar ei ran ac achub Cymru rhag '[t]aeogion y wlad hon'.⁴⁹ Efallai fod yr enghreifftiau hyn yn amlygiad mwy amrwd o'r alwad a deimlodd Tomos ei hun i fod yn ymgyrchydd iaith: 'Hon oedd fy ngyrfa mewn bywyd. Dyma'r peth y gallwn ei wneud dros Gymru. Fe'i hystyriwn yn gryn fuddugoliaeth i mi ddod drwy'r profiad heb i'r Drefn dorri f'ysbryd'.⁵⁰

Yn eu hastudiaeth *The Politics and Poetics of Transgression* (1986), mae Peter Stallybrass ac Allon White yn dangos mai fel ffenomen gymdeithasol y dylid gweld arwyddocâd y corff:

[T]he body cannot be thought separately from the social formation, symbolic topography and the constitution of the subject. The body is neither a purely natural

⁴⁵ Tomos, *Cnonyn Aflonydd*, t. 68.

⁴⁶ *Ibid.*, t. 73.

⁴⁷ Jones, *Ffuglen*, t. 235.

⁴⁸ Angharad Tomos, *Yma o Hyd* (Talybont: Y Lolfa, 1985), t. 49.

⁴⁹ Angharad Tomos, *Hen Fyd Hurt* (Urdd Gobaith Cymru, 1982), t. 17.

⁵⁰ Tomos, *Cnonyn Aflonydd*, t. 73.

given nor is it merely a textual metaphor, it is a privileged operator for the transcoding of these other areas.⁵¹

Yn y cyswllt hwn, mae theori Julia Kristeva ynghylch y ‘dirmygedig’ yn berthnasol. Theori yw hon sy’n ymwneud â’r broses o lunio hunaniaeth bersonol – proses sy’n golygu ymwrthod ag elfennau y synnir amdanynt fel rhai aflan neu wrthun. Yn *Powers of Horror* (1980), disgrifia Kristeva sut y gwahenir deunydd a ddirmygir oddi wrth yr hunan. Proses gorfforol yw hon sy’n diffinio beth yw’r ‘corff glân’, ond gan fod yr hyn a ddirmygir yn rhan o’r corff, ni ellir ei wahanu oddi wrth yr hunan. Enwa Kristeva dri pheth a ddirmygir gan yr hunan, sef bwyd, ysgarthiad a’r corff benywaidd/mamol. Dywed Harri Garrod Roberts fod modd defnyddio’r theori hon er mwyn astudio’r synnwyr o berthyn i grŵp neu garfan o bobl:

I would argue that the construction of cultural or group identities is itself informed by the logic of abjection, the attainment of a collective identity by the subject requiring first the jettisoning of all elements that are incompatible with this identity: elements which, in order for the subject to ‘belong’, must be deposited on the far side of a border separating self from other. It is no coincidence, for example, that the Other of colonial discourse is often both feminized and the possessor of attributes – bestiality, immorality, profligacy – which the normative self (the dominant colonizing group) must deny and displace.⁵²

Buddiol fyddai edrych ar gymeriadau Angharad Tomos a darllen eu cyrff fel amlygiad o ffenomen gymdeithasol. Yn *Hen Fyd Hurt*, caiff Heulwen ei hymylu’n gynyddol yn ystod y nofel: o fod yn academydd addawol fe’i gwelwn ar gofrestr y di-waith, ac fe deimla’n ddiymadferth o ran ei gallu i ymgyrchu dros ei hiaith a’i chenedl. Fe’i gwelir mewn caffï yn mwydro am y bom niwclear a’i allu i chwythu pawb a phopeth i ddifancoll (motiff cyson yn ei gwaith yw’r ofn hwnnw), ond try cwsmer arall ati a dweud yn Saesneg nad yw’n deall beth mae’n ei ddweud. Ym mhennod olaf y nofel, clyw Heulwen lais Saunders Lewis ac araiith ‘Tynged yr Iaith’: ‘ni cheid mohoni’n iaith swyddogol o gwbl, a byddai tranc yr iaith yn gynt nag y bydd

⁵¹ Peter Stallybrass ac Allon White, *The Politics and Poetics of Transgression* (New York: Cornell University Press, 1986), t. 192.

⁵² Harri Garrod Roberts, *Embodying Identity: Representations of the Body in Welsh Literature* (Cardiff: University of Wales Press, 2009), t. 9.

ei thranc hi dan Lywodraeth Loegr'.⁵³ Mae'r geiriau hyn yn ormod i Heulwen ac felly fe'i teifl ei hun drwy ffenest:

Wrth edrych arnaf fy hun, gwelais fod yna waed yn dod trwy fy siwmpwr. Yr oedd y staen yn mynd yn fwy ac yn fwy; yr oeddwn yn 'stillo gwaedu. Roedd gwaed yn wlyb ar fy wyneb fel dagrau; mae'n siŵr fod yna andros o olwg arnaf. Ni allwn symud dim ac er yr holl boenau, yr oedd rhywbeth braf mewn gorwedd yn y fan honno a methu symud. Clywais sŵn radio yn y pellter.⁵⁴

Yn yr achos hwn, Heulwen ei hun yw'r dirmygedig. Fe'i hystyria'i hun mor wahanol i'r Cymry llywaeth a wêl o'i chwmpas am ei bod hi – fel ei harwr Llywelyn – yn barod i gollu gwaed – yn llythrennol – dros ei chenedl. Oherwydd ei ffeidd-dra at ddiymadferthedd sefyllfa'r Gymraeg o'i chwmpas, ac am na all ddelio â bod yn wrthodedig, mae'n ei thaflu ei hun drwy'r ffenest. 'Roeddwn eisiau cael fy nerbyn gan rywun',⁵⁵ meddai, ond yr unig ffordd o gael ei derbyn fyddai drwy gydymffurfio; i Heulwen, roedd dewis bod yn lloerig yn ddewis mwy pleserus na chydymffurfio â byd lle nad oedd neb yn ei deall – yn arbennig felly y Cymry Cymraeg nad oedd arnynt, yn ei barn hi, eisiau bod yn genedl.

Ailystyried neges y gân 'Yma o Hyd' gan Dafydd Iwan oedd dechreubwynt nofel nesaf Angharad Tomos. Meddai'r awdures:

Wrth wrando ar Dafydd yn canu ei gân a sylwi ar ddyrnau'r gynulleidfa yn yr awyr dechreuais feddwl a oedd o'n gystal syniad â hynny ein bod ni 'yma o hyd'? Roedd rhywbeth diflas iawn ynglŷn â byw ar erchwyn dibyn. Gwell fyddai gen i fyw yn y gorffennol pan oedd y Gymraeg mor naturiol ag awyr iach i bobl. Gwell fyddai gen i fyw yn y dyfodol pan fyddai'r Gymraeg yn farw gelain; pan na fyddai unrhyw ddiben poeni yn ei chylch – rhyw adeg 'blaw rŵan' fel yr wyf yn ei ddweud yn y nofel. Gellir dweud fod hwn yn gyfnod diflas pan na allwch roi'r gorau i frwydro, ac eto mae'n amlwg nad oes fawr o obaith am wellhad. Dyna fan cychwyn y nofel, y syniad y gallai 'yma o hyd' olygu syrffed, petaem yn ddigon dewr i gydnabod hynny.⁵⁶

⁵³ Tomos, *Hen Fyd Hurt*, t. 58.

⁵⁴ *Ibid.*, t. 59.

⁵⁵ *Ibid.*, t. 64.

⁵⁶ Tomos, *Cnonyn Aflonydd*, t. 192.

Cymhlethdod seicolegol yr ymgyrchydd iaith yw prif thema'r nofel hon. Mae'r prif gymeriad, Blodeuwedd, yng ngharchar nid am ei gweithred fel rhan o fudiad iaith, ond am iddi achosi difrod mewn siop yn ei dicter. Ar ddechrau'r nofel, nodir mai ar bapur tŷ bach yr ysgrifenna ei dyddiadur – gweithred sy'n amlygu ei statws ymylol; yn ychwanegol, awgrymir mai carthion ei meddyliau a gynigir, gan gynnwys ei syniadau mwyaf ffaidd – dyheadau sy'n wrthun gan ei chyd-Gymry yn nhyb Blodeuwedd. Disgrifiodd M. Wynn Thomas *Yma o Hyd* fel 'An example of anti-literature', gan fynd rhagddo i ddisgrifio dyddiadur Blodeuwedd yn y termau hyn: 'her crabbed entries on disposable paper are written more in anger than in sorrow, and communicate the aggravated ferocity of the caged mind.'⁵⁷

Mae annealltwriaeth Blodeuwedd o ddifaterwch ei chyd-Gymry'n ei gwylltio'n llwyr:

Be wnewch chi o hynny, Gymry bach? Rhywun yn y jêl drosoch chi. Yn y jêl! Ych a fi, sut gallwch chi oddef eich cydwybod ac un o'r genedl â chi yn y JÊL. DROSOCH CHI. A BE WNEWCH CHI? DIM. D.I.M. Dydach chi ddim gwerth eich achub. A wedyn bydda 'ngwep i ar bosteri i aflonyddu mwy ar gydwybod pawb. Ond doedd o ddim yn gweithio, achos y cwbl oedd yn digwydd oedd fod y Cymry'n gwingo mwy a mwy ac yn defnyddio mwy o *Basildon Bond*.⁵⁸

Dylid nodi i Ngugi hefyd dreulio amser dan glo ac wedi ei ynysu, ac yno y gwnaeth y penderfyniad – fel safiad gwrthdrefedigaethol – i ysgrifennu yn yr iaith Gikũyũ. Yn wir, megis ymgawdoliad o Flodeuwedd, fe ysgrifennodd *Caitani Mũtharaba-Inĩ* (*Devil on the Cross*, 1982) ar bapur tŷ bach y carchar. Dywed Ngugi y gellir ystyried ei nofelau fel hunangofiant: 'my creative autobiography over the last twelve years...[touching] on ideas and moods affecting me over the same period. My writing is really an attempt to understand myself and my situation in society and in history'.⁵⁹

Mewn erthygl sy'n trafod *Yma o Hyd*, â Simon Brooks i'r afael â'r cysyniad o gasineb hiliol mewn llenyddiaeth genedlaetholgar. Am i genedlaetholdeb sifig fethdalau ym 1979, dywed Brooks i Tomos droi at genedlaetholdeb ethnig er mwyn lleisio ei

⁵⁷ M. Wynn Thomas, 'Prison, Hotel and Pub: Three Images of Contemporary Wales', *Internal Difference* (Cardiff: University of Wales Press, 1992), t. 164.

⁵⁸ Dyfynnir yn Tomos, *Yma o Hyd*, t. 11.

⁵⁹ Reinhard Sandler ac Ian Munro, 'Tolstoy in Africa', *Ba Shiru*, 5 (1973), t. 22.

phryder ynghylch difodiant yr iaith Gymraeg. Cofier hefyd fod y papur tŷ bach yn dynodi mai carthion seicolegol yw'r rhethreg a geir yn y nofel, megis y dyhead i weld bom yn lladd y Saeson. Dywed Simon Brooks:

Byddai rhai beirniaid 'rhyddfrydol' yn darllen *Yma o Hyd* ac *Y Lloggi* [Robat Gruffydd] fel ymateb amrwd a hanfodaidd i wleidyddiaeth y 1980au yng Nghymru. Yn wir, priodolwyd buddugoliaeth 'sifig' refferendwm datganoli 1997 gan rai sylwebyddion i'r 'hyder' Cymreig newydd nad oedd yn 'prescriptive about language boundaries'. Ond o ystyried ffaeiddau'r sifig o ran parchu hygredd diwyllianau lleiafrifol cynhenid, onid yw hanfodaeth y nofelau hyn yn rhinwedd? Beirniadwyd *Yma o Hyd* gan Enid Jones am drin y Cymry Cymraeg fel '*rare exhibit*' cadwedig, ac anwybyddu'r di-Gymraeg. Ond methu ergyd y nofel yw hynny. Ffundamentaliaeth *Yma o Hyd* yw ei gwendid, ond dyna hefyd ei chryfder. Mae'r nofel yn dal ei gafaél ar ffantasiau gwadedig ond anorthrech y Gymru Gymraeg wrth fynnu bod y 'Bobl' Gymraeg eu hiaith 'yma o hyd'.⁶⁰

Perthnasol yma yw nodi fod Awel Mehefin Edwards wedi tynnu sylw at lythyr o eiddo Angharad Tomos at Islwyn Ffowc Elis ym 1990 yn amlinellu plot nofel anghyhoeddedig ganddi dan y teitl 'Achos Mae'. Mae'n nofel sy'n ymateb yn uniongyrchol i chwalfa refferendwm 1979 ac yn ymchwilio i effaith hynny ar genedlaetholwyr. Nofel yn darlunio tair cenedlaeth o Gymry ydoedd i ddechrau – Pleidiwr Gwynforaidd gobeithiol, Adferwr wedi chwerwi a pherson un ar bymtheg oed. Y mae'n werth dyfynnu'n helaeth o'r llythyr pwysig dan sylw:

Yr adeg pan euthum i ddyfroedd dyfnion oedd pan benderfynodd yr Adferwr – mewn ffit o ddigalondid wedi'r Refferendwm – i biclo ei fab – fel y'i cadwer i'r oesoedd a ddél – fel petai. 'Roedd o'n syniad da ar y pryd, ond 'rwyf bellach yn ceisio mynd i'r afael â theithi meddwl plentyn sydd wedi ei biclo, ac effaith hynny ar ei chwaer. Mae ei chwaer yn un ar bymtheg, ac yn adweithio'n gryf yn erbyn ei thad a holl syniadaeth ei genhedlaeth. Mae hi'n ceisio ffordd o fynegi ei chenedlaetholdeb, ond ar yr un pryd yn gwrthryfela yn erbyn ceidwadaeth ei rhieni, yn enwedig yr hyn y maent wedi ei wneud i'w brawd. Ei chred sylfaenol yw fod gan bawb yr hawl i fyw, pa lanast bynnag a wna o'i fywyd. Y syniadaeth tu ôl iddo yw cwestiynu'r [*sic*]

⁶⁰ Simon Brooks, 'Ffantasi Hil-Laddiad a'r Diwylliant Cymraeg: Dirnad Cenedlaetholdeb Ethnig, a Syniadaeth Slavoj Žižek', yn Gerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXX* (Bethesda: Gwasg Gee, 2011), t. 155.

math o Gymreictod a thraddodiad yr ydym ni'r Cymry mor brysur yn ei ffosaleiddio [*sic*]. Ai piclo ein diwylliant a wnawn, a'i rwystro rhag datblygu?⁶¹

Gellir dehongli'r weithred afiach a grotésg a wneir i'r brawd fel gwrthodiad y cenedlaetholwyr diwylliannol o ganlyniad y refferendwm. O safbwynt theori *abjection*, gwelir y Gymru ddiwylliannol draddodiadol cyn refferendwm 1979 fel corff marw – sy'n frawychus o gyfarwydd ac eto'n hollol ddieithr – rhywbeth na ellir ei wynebu'n iawn yn seicolegol. Arwydda'r crynodeb hwn o'r nofel awydd Tomos i drafod y genhedlaeth iau (y chwaer a'r mab) a chanfod mynegiannau newydd o genedlaetholdeb Gymreig o lwch 1979.

Ymosodir yn gorfforol ar Awen hithau yn y nofel *Titrwm*. Canlyniad gweithred o drais yw ei beichiogrwydd â Titrwm, y babi y mae'r nofel yn rhodd iddo. Ar ôl ei threisio, synia Awen am ei chorff yn nhermau perchnogi a meddiannu: 'Corff i gael ei ddefnyddio ydi hwn. Does yna ddim "fi" bellach. Mae o wedi mynd, wedi ei ddryllio'.⁶² Gwleidyddolir y termau hyn, gan droi'r corff yn lleoliad tiriogaethol ar sail y ffaith i Awen gael ei threisio gan y Sais, Eli Guthrie. Teimla Awen fod Titrwm yn meddiannu ei chorff, a chyferbynnir yr eirch y mae tad Awen yn eu creu a'r groth sydd ar fin rhoi bywyd.

* * *

Yn ystod y 1990au, canolbwyntiodd Gareth Miles ar fyd theatr. Llwyfannwyd nifer o'i ddramâu gwreiddiol, megis *Y Madogwys* (1999) a *Byd y Banc* (1996). Darn comisiwn i Gymorth Cristnogol oedd *Byd y Banc* a geisiai godi ymwybyddiaeth ynghylch anghyfiawnder sefyllfa'r gwledydd tlawd wrth iddynt geisio ad-dalu eu dyled i Fanc y Byd a'r IMF. Gellir dadlau, fodd bynnag, fod Gareth Miles yn fwyaf llwyddiannus fel dramodydd pan aiff ati i gyfieithu dramâu i'r Gymraeg – boed yn gyfieithiadau lled-uniongyrchol neu'n addasiadau creadigol o glasuron.

⁶¹ Llythyr gan Angharad Tomos at Islwyn Ffowc Elis, 9 Ionawr 1990, a ddyfynnir yn Edwards, 'Yr Awdures Aflonydd: Astudiaeth o Ffuglen Angharad Tomos (1975-2004)', t. 133.

⁶² Angharad Tomos, *Titrwm* (Talybont: Y Lolfa, 1993), t. 114.

Dewisodd Miles gyfieithu nifer o ddramâu Ewropeaidd i'r Gymraeg, ac mae sawl rheswm am hyn: er mwyn cael blas o'r theatr Ewropeaidd yn y Gymraeg; er mwyn llenwi gwagle o fewn y theatr Gymraeg o ran darparu dramâu o anian wahanol i eiddo'r theatr yng Nghymru – hynny yw, dramâu na fyddai Cymro wedi gallu eu cyfansoddi, yn ôl Miles, am nad yw'n barod i ddatguddio'r gwir am gymdeithas: dramâu yn dadlennu rhagrith a'i effaith ddifaol ar Gymdeithas; dramâu yn cyflwyno iaith glasurol, yr absŵrd neu ffars i'r Gymraeg; a dramâu yn ymchwilio i raniadau dosbarth a chynllwyniau gan yr awdurdodau.

Y mae'n werth craffu yma ar sawl enghraifft o ddeunydd anghyhoeddedig. Trosiad yw *Y Gosb Ddiddial* gan Gareth Miles o *El Castigo Sin Venganza* gan Lope de Vega. Trasiedi yw'r ddrama am ddug hunanol a balch sy'n ceisio twyllo ei gymdogaeth ei fod wedi newid ei ffyrdd – ond rhagrith yw'r cyfan. Pan sylweddola fod ei wraig newydd mewn cariad â'i fab, esgora ar gynllwyn sy'n arwain ei fab i lofruddio ei gariad ar ddamwain, gan roi hawl i'r Dug orchymyn dienyddio ei fab ei hun fel cosb. Datgelir mor dywyll yw meddwl dyn a'i reddf ddifaol i dalu'r pwyth:

Anrhydedd fydd y barnwr yn yr achos, a dedfrydu a chosbi ar fyrder. Ond rhaid gwneud hynny heb lychwino f'enw da, heb i undyn byw glywed am yr helynt. Claddu'r drosedd a'r troseddwr gyda'i gilydd. All dyn fyth ddiddymu sarhad sy'n wybyddus i eraill.⁶³

Mae drama arall a drosodd i'r Gymraeg – *Y Cadeiriau (Les Chaises (1952))* gan Ionesco) – yn ddrama absŵrd sy'n ymchwilio i seicoleg wasaidd pobl tuag at y frenhiniaeth. Eu hunig ddymuniad mewn bywyd yw cyfarfod y brenin a'i blesio. Ychwanega Miles gyffyrddiadau Cymreig i'r ddrama er mwyn ei lleoli yng Nghymru a'i gosod yng nghyd-destun y Goron Brydeinig:

Yr Hen Ŵr: Gwers hanes eto fyth. Cachu Mot, rwyf wedi syrffedu ar hanes Cymru. Rwy'n moyn gweld: mae'r cychod sydd ar y dŵr yn codi brychau ar y haul.⁶⁴

⁶³ Gareth Miles, *Y Gosb Ddiddial*, heb ei chyhoeddi; trwy garedigrwydd yr awdur.

⁶⁴ Gareth Miles, *Y Cadeiriau*, heb ei chyhoeddi; trwy garedigrwydd yr awdur.

Perthnasol hefyd yw tynnu sylw yma at drosiad Miles, *Lludw'r Garreg* (o *Cendres de Cailloux* gan Daniel Danis) yn ymdrin â stori serch wedi ei gosod mewn cymuned ddosbarth gweithiol, ac â'r drasiedi sy'n digwydd pan gais Shirley ddilyn ei breuddwyd i fod gyda'i chariad newydd. Gellir dadlau i'r ddrama hon apelio at Miles fel deunydd i'w drosi gan ei bod yn gyfuniad o stori ynghyd ag areithiau ysgytwol am ddiflastod y dosbarth gweithiol:

Gas gin i...
Gas gin i giwio o flaen cowntar y banc
a sbio ar bawb
efo'i gelc o ddyledion
dylad ar y tŷ
dylad ar y car
dylad ar y stereo
dylad ar y gwylia'n Ffrainc
dylad ar y time-share yn Sbaen.
Gas gin i neud bwyd i mi'n hun.
Gas gen i dynnu sylw ataf i'n hun.
Gas gin i wlad
sy'n methu derbyn
na fydd hi fyth yn wlad
go-iawn.
Fasa'n dda gin i
tasa'r iaith
yn lapio'i hun
saith gwaith
am wddw pob un ohonan ni
a'n tagu ni i gyd.
Ni a'r Iaith
yn trengi efo'n gilydd.⁶⁵

Wrth ddewis dramâu megis y rhai uchod i'w trosi, y mae Miles yn gorfodi'r theatr Gymraeg, ei dramodwyr a'i chynulleidfa, i wrando ar leisiau sy'n trafod pynciau a safbwynt nad ydynt hwy, ym marn Miles, bob amser yn barod i'w hystyried. Gellir

⁶⁵ Gareth Miles, *Lludw'r Garreg*, heb ei chyhoeddi: trwy garedigrwydd yr awdur.

dadlau, felly, fod agenda wleidyddol tu ôl i'r weithred o drosi i Gareth Miles er mwyn gwireddu'r math o theatr yr hoffai ei weld yng Nghymru.

Bu i Miles honni fod y bleidlais o blaid datganoli yn 1997 sicr o gael effaith ar y theatr Gymraeg. Nid syniad 'o'ch mewn' fyddai Cymru mwyach, ond endid gwleidyddol, diriaethol:

Gallwn greu ymwybyddiaeth o Ddinasyddiaeth Gymreig fydd yn coleddu'r gwerthoedd a eilw'r Ffrancwyr yn *vertus republicaines*. Hyd yn hyn, cyfyngwyd ystyriaethau artistiaid Cymru ynglŷn â'r Cynulliad, fel pawb arall, i'r cwestiwn: 'Beth all y Gymru Newydd wneud drosta i a 'mhrosiectau'? Efallai ei bod hi'n bryd dechrau gofyn: 'Beth alla'i wneud fel bod y Gymru honno'n gymdeithas ddyneiddiol, ddemocrataidd, heddychlon a gwâr?'. (Ei beirniadu'n ddiostur pan fo angen, er enghraifft.)⁶⁶

Yn y cyswllt hwn, yn y Gymru ôl-ddatganoledig, cyfieithodd Miles nifer o ddramâu ar gyfer y Theatr Genedlaethol, yn cynnwys *Y Pair*, trosiad o *The Crucible* gan Arthur Miller. Dywed mai'r rheswm dros ymhél â'r testun hwn oedd yr hyn a welai fel ffundamentaliaeth grefyddol yr Unol Daleithiau – grym yr oedd Miles yn ei weld ar waith yn arlywyddiaeth George W. Bush. Aeth ati i gyfieithu'r *Pair* oherwydd ei fod yn awyddus i ddechrau trafodaeth yng Nghymru ynghylch y materion hyn, ac ynghylch sut y gall cymdeithas adael i unrhyw grefydd unigol reoli ei chyfreithiau a'i threfn.⁶⁷ Yr un nod sydd gan nofel Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (2007), sy'n nofel realaidd am rymoedd cymdeithasol yn ystod diwygiad 1904/05. Y tro hwn, elwa Miles o ddefnyddio persona newyddiadurwr a oedd yn gohebu ynghylch y diwygiad i adrodd y stori, gan roi mwy o gyfle i ddadansoddi o fewn y naratif. Fel yn nifer o'i nofelau diweddar, cais dynnu'r llen oddi ar Anghydfurfiaeth a datgelu'r rhagrith a oedd yn rhan ohoni.

Wedi datganoli, dychwelodd Miles at ffurf y nofel realaidd. Cofier fod y nofel realaidd yn rhan bwysig o'r 'genedl ddychmygol', chwedl Benedict Anderson, a bod ffurf y nofel yn arwyddo fod pobl, nad ydynt yn adnabod ei gilydd, yn gweithredu ac

⁶⁶ Jerry Hunter a Manon Rhys, 'Theatr Cymru Fydd: Taliesin yn cyfweld â Gareth Miles', *Taliesin*, 105/6 (Haf 1999), t. 43.

⁶⁷ Cyfweliad Gareth Miles â'r awdur presennol, 17 Mehefin 2010.

yn byw eu bywydau mewn gwlad ac amser cyffredin.⁶⁸ Yn hynny o beth, mae'r nofel *Llafur Cariad* (2001) yn mynd i'r afael â thri degawd o hanes Cymru, yn cynnwys yr oes bresennol ôl-ddatganoledig, ac yn benodol, ag aelodau'r Blaid Lafur yn yr hanes hwnnw. Adroddir y stori o safbwynt Arwel Williams, mab i weinidog, a gwleidydd craff sy'n hoff o ddadasoddi. Caiff Arwel drafferth wrth ddod i delerau â'i gefndir dosbarth canol, ac mae ei garwriaeth â Sylvia Pankhurst yn dirywio wrth i'w greadoau gwleidyddol newid dros y blynyddoedd. Gellir dadlau fod Miles wedi seilio nifer o themâu a chymeriadau'r nofel ar *Cysgod y Cryman* Islwyn Ffowc Elis. Cymharer nodweddion cymeriad Sylvia â'r nodweddion hynny y tyn Miles sylw atynt yn achos cymeriad Gwylan, er enghraifft, mewn papur anghyhoeddedig yn 2010: '*Opportunist* uchelgeisiol a bradwres o'r radd flaenaf yw Gwylan Thomas; teip a gynyddodd mewn nifer, bri a dylanwad yn y Mudiad Llafur ers pumdegau'r ganrif ddiwethaf'.⁶⁹ Mewn gwrthgyferbyniad â Sylvia, portread cydymdeimladol a geir gan Miles o Arwel Williams, prif gymeriad *Llafur Cariad*:

Aeth ymgyrch y Cynulliad a beichiogrwydd Ann rhagddynt ar y cyd. Gwelwn gyfatebiaeth hynod rhyngddynt. Enynnai'r naill broses a'r llall obaith y gwelwn wireddu dyhead fy nghalon, ynghyd ag ofn yr âi pethau'n ddychrynlyd o chwith, gan beri galar, nid llawenydd; digalondid nid hyder.

Cydgymysgai fy ngofal am Ann a'r baban yn ei chroth ag ofn i'r refferendwm esgor ar erthyl arall. Poenydid fi gan y cwestiwn 'Be 'di'r pwynt o fagu plentyn yn Gymro neu'n Gymraes ac i siarad Cymmraeg, os bydd Cymru'n dewis marw?'. Ni ofynnais hyn i Ann.

Wrth i'r ymgyrch fynd yn ei blaen, ac i'r polau piniwn arwyddo fod neges wâr, ddemocrataidd y datganolwyr yn apelio at ganran uwch nag a wnâi negyddiaeth bitw ein gwrthwynebwy, cynyddai fy ffydd y byddai refferendwm 1997 yn bwrw 'Ysbryd '79' o'm henaid i a *psyche* Cymru am byth.⁷⁰

⁶⁸ John McLoad, *Beginning Postcolonialism* (Manchester: Manchester University Press, 2000), t. 73.

⁶⁹ Gareth Miles, 'Islwyn a Saunders', papur anghyhoeddedig trwy garedigrwydd Cymdeithas Niclas y Glais, 2010.

⁷⁰ Gareth Miles, *Llafur Cariad* (Llanishen: Hughes a'i Fab, 2001), t. 234.

Fel yn achos beirdd cerddi Ianws mewn perthynas â refferendwm 1979, pryder Arwel Williams yw y byddai'r gobraith am ddatganoli yn cael ei erthylu. Ymhellach, gellir dadlau fod Arwel yn ddatblygiad ar gymeriad Gerwyn Owen *Trefaelog*: dewisodd Miles y tro hwn osod ei gymeriad, a fyddai'n synthesis o ddylanwadau – fel Gerwyn – yn rhengoedd y Blaid Lafur, gan archwilio'r modd y datblygodd cenedlaetholdeb o fewn y blaid honno yng Nghymru. Mae rhai cymeriadau, megis Sylvia, yn dewis ymwrthod â'r synthesis ac yn rhoi ei theyrngarwch i'r Blaid Lafur Brydeinig uwchlaw ei theyrngarwch i Gymru. Gellir dadlau hefyd fod Miles wedi llwyddo i lunio a chynnal cymeriadau mewn modd mwy effeithiol nag yn achos rhai o'i nofelau eraill. Er bod deialogi Miles yn gyffredinol yn llwyddiannus iawn ac yn gyrru ei nofelau yn eu blaenau, dichon y gellir dweud nad yw'r dechneg hon bob amser yn ddigon i fedru cuddio'r gwendidau o ran ymwneuthuriad amryw gymeriadau.

* * *

Yn *Wele'n Gwawrio* Angharad Tomos, gwelir criw o brotestwyr ar ddechrau'r nofel yn ansicr ynghylch eu dyfodol a heb unrhyw beth i'w wneud.⁷¹ A hwythau ar drothwy datganoli, a ydynt wedi cyflawni eu dyletswydd dros eu hiaith a'u cenedl? Darlun o brotestwyr heb gyfeiriad a geir ar ddechrau *Wele'n Gwawrio*, a hynny oherwydd bod y buddugoliaethau ar fin dod â'r posibilrwydd o fwy o sicrwydd ynghylch hunaniaeth yn eu sgil. Meddai Jane Aaron: 'Ond y Cymry sy'n rheoli'r Cymry yn *Wele'n Gwawrio*, ac er yr ymddengys fod rhai ohonynt wedi anghofio eu harddeliadau radicalaidd nodweddiadol Gymreig a throi'n Saeson i bob pwrpas, eto mae'r berthynas â grym wedi newid yn sylfaenol. Wrth i'r Gymru newydd gael ei geni gyda chanlyniad refferendwm 1997, mae'r hen ffordd Gymreig o wrthdystio yn marw'.⁷²

Marw a wnaiff llefarydd y nofel hon, hefyd, sef Ennyd – arwres yr ymgyrch dros yr iaith Gymraeg. Serch hynny, y mae'n bresennol yn ei chorff marw am rai dyddiau ac yn medru clywed pobl yn siarad amdani. Ar ddiwedd y nofel, mae Ennyd yn dod wyneb yn wyneb â'i Gwarddwr ac fe'i meddiennir gan gariad. Nododd Katie Gramich

⁷¹ Angharad Tomos, *Wele'n Gwawrio* (Talybont: Y Lolfa, 1997), t. 18.

⁷² Aaron, "'Glywi di 'nghuro?'" t. 142.

na allai dderbyn diweddglor nofel: ‘Rwy’n cyffesu fy mod i’n methu â llyncu *Wele’n Gwawrio* am fod ganddi neges Gristnogol-efengylaidd mor amlwg. Rwy’n sylweddoli fod modd darllen y llyfr mewn sawl ffordd: drwy edrych arni fel dameg am dranc posibl y Gymraeg ar drothwy’r mileniwm, er enghraifft. Er hynny, y neges efengylaidd sydd yn gwthio ei hun i lawr fy nghorn gwddf⁷³. O edrych ar y gyfrol o safbwynt y corff, serch hynny, datgelir neges sy’n cymodi rhwng yr hen Gymru a’r Gymru newydd. Mae’r stad o fod ‘rhwng’ un byd ac un arall, chwedl Ennyd, yn fodd o gymell y cymeriad Ennyd i geisio edrych ar y byd y bu’n byw ynddo yn fwy cytbwys. Un o nodweddion diffiniol ffigyrau benywaidd nofelau Angharad Tomos hyd at y pwynt hwn yw eu bod yn ofni eu caethiwed mewn bedd, mewn tywyllwch parhaus neu ddiymadferthedd, fel y noda Jane Aaron.⁷⁴ Datgelir gobraith *Wele’n Gwawrio* yn y modd yr arweinir Ennyd i osod ei brwydr mewn cyd-destun ehangach. Ar drothwy’r mileniwm, law yn llaw â datganoli, mae cyfnod o aros a disgwyl: beth a ddaw – ennill neu golli, achubiaeth neu ddamnedigaeth? Dewisa Angharad Tomos y cadarnhaol yn *Wele’n Gwawrio*. Er bod y corff yn llonydd, nid yw ofnau’r awdures yn cael eu gwireddu wrth i enaid Ennyd fynd ymlaen i fyd arall.

Yn ei nofel ddiweddaraf, *Wrth fy Nagrau i* (2007), gwelir y cysyniad o wallgofrwydd wedi tyfu i’w lawn dwf. Mae *impetus* hunangofiannol cryf iawn i’r nofel hon hefyd, oherwydd i Angharad Tomos dreulio cyfnod mewn ysbyty meddwl ei hun. Fe’i cenfydd y prif gymeriad dienw ei hun mewn ward ysbyty, a’i chyd-gleifion yn gymeriadau benywaidd o lenyddiaeth Gymraeg: Sal, Gwladys Rhys, Monica, Mrs Prichard, a Bet. Wrth ddefnyddio’r gymeriadau yn y modd hwn, mae Angharad Tomos yn ailymweld â’r ffigyrau llenyddol benywaidd hyn ac yn rhoi bywyd creadigol newydd iddynt. Gellir dadlau fod hon yn ymgyrch ffeministaidd oherwydd cais ddadlennu gwedd amgen ar gymeriad a seicoleg y merched i’r hyn a botreadwyd gan eu creawdwyr gwrywaidd. Gwelir hefyd fod yn y nofel hon drafodaeth ar bynciau megis y sicrwydd a gynigiai’r hen werthoedd, megis Cristnogaeth. Lle bu Cristnogaeth yn achubiaeth, gan osod yr etholedig ar wahân yn *Wele’n Gwawrio*, cyll ffydd ei apêl yma. Meddai’r prif gymeriad: ‘Erstalwm, mi fyddai crefydd yn golygu sicrwydd, cariad. Waeth pa mor ddrwg oedd yr hen fyd ’ma, roedd yna gysur i’w gael o wybod fod yna Dduw hollalluog yn gofalu amdanom, ac yn ein caru. Y cysur yna

⁷³ Katie Gramich, ‘Dewr...a Dof’, *Golwg*, 30 Hydref 1997, t. 19.

⁷⁴ Aaron, “‘Glywi Di ’Nghuro?’”, t. 123.

sydd wedi mynd. Wrth i mi fynd yn hŷn, fedra i ddim credu fod Duw yn rheoli'r byd 'ma. Mae'r holl greulondeb sydd ynddo fo yn gwbl groes i Dduw cariad. Mae O wedi ei adael i ryw ffawd greulon'.⁷⁵

Os yw Arwel Williams yn llawenhau yng ngenedigaeth ei blentyn a genedigaeth y Cynulliad, ansicrwydd seicolegol sy'n meddiannu cymeriadau Angharad Tomos yn ei nofel ddiweddaraf. Er hynny, ar ddiwedd y nofel encilio a wna'r prif gymeriad i ofal ei Duw ac i gysur ei llyfrau. Saesneg yw iaith y driniaeth yn yr ysbyty meddwl, sy'n ychwanegu at gyflwr bregus y cleifion. Os ystyrir negeseuon gwleidyddol y gyfrol, mae'r Gymraeg dan fygythiad o hyd – hyd yn oed dan driniaeth meddygon yng Nghymru: ffaith sy'n cymhlethu seicoleg yr ymgyrchydd a'r cenedlaetholwr iaith ymhellach.

⁷⁵ Angharad Tomos, *Wrth fy Nagrau i* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2007), t. 66.

Pennod 5

Gwyneth Lewis: Ar Daith

Yn 2005, enwyd Gwyneth Lewis yn Fardd Cenedlaethol Cymru gan yr Academi, y corff sy'n hyrwyddo llenyddiaeth Cymru. Nid tasg hawdd, y mae'n deg dyfalu, oedd dewis y bardd cyntaf i dderbyn y swydd honno oherwydd rhaid oedd dewis rhywun a oedd yn dderbyniol gan ddau draddodiad llenyddol – Cymraeg a Saesneg. Pe dewisid bardd Saesneg ei iaith, byddai'r Academi yn sicr o gael ei beirniadu am flaenoriaethu'r iaith honno cyn y Gymraeg. At hyn, bu i'r Archdderwydd, Dr. Robyn Léwis, ddatgan bod 'enillwyr y gadair a'r goron eisoes yn cyflawni'r gwaith' o fod yn Feirdd Cenedlaethol Cymru, ac nad oedd galw am y swydd ychwanegol hon.¹ Ar y llaw arall, pe dewisid bardd Cymraeg ei iaith, gellir dychmygu y byddai'r corff cyhoeddus hwn mewn perygl o gael ei feirniadu ar gorn y farn nad oedd beirdd Saesneg eu hiaith yn mwynhau'r un statws â beirdd Cymraeg eu hiaith yng Nghymru. Y naill ffordd neu'r llall, gallai'r penodiad danseilio disgwrs 'y Gymru ddwyieithog' a oedd yn cael ei hybu gan y Cynulliad Cenedlaethol newydd-anedig.

Fodd bynnag, ni ellir honni o gwbl i Gwyneth Lewis, bardd sy'n cyfansoddi yn y Gymraeg a'r Saesneg, gael ei phenodi er mwyn ticio bocsys biwrocraidd y Gymru ddatganoledig. I'r gwrthwyneb, yr oedd Gwyneth Lewis eisoes wedi gwneud cyfraniad sylweddol i lenyddiaethau'r ddwy iaith. Fel symbol gweladwy trawiadol o'i haddasrwydd roedd geiriau o'i heiddo wedi eu cerfio ar *façade* Canolfan y Mileniwm, un o adeiladau eiconig Bae Caerdydd, a hynny yn y Gymraeg – 'Creu Gwir fel Gwydr o Ffwrnais Awen' – a'r Saesneg – 'In These Stones Horizons Sing'. Ac wrth gwrs, yr oedd ardal y Bae yn rhan o'r brifddinas a oedd yn prysur gael ei dilladu i edrych yn deilwng o'r statws o fod yn gartref i'r grym democrataidd (ac economaidd) newydd yng Nghymru.

Y mae Gwyneth Lewis hyd yma wedi cyhoeddi pedair cyfrol o farddoniaeth yn y Gymraeg: *Sonedau Redsa a Cherddi Eraill* (1990), *Cyfrif Un ac Un yn Dri* (1996) ac *Y Llofrudd Iaith* (1999), ac, fel dathliad o'i chyfnod yn Fardd Cenedlaethol, fe gasglwyd y tair hyn mewn cyfrol o gerddi detholedig, sef *Tair Mewn Un* (2005). Cyhoeddodd dair cyfrol yn y Saesneg cyn ei phenodi yn

¹ Gwyneth Lewis, 'Y Gyhoeddus Arswydus Swydd', *Golwg*, 35, 17 (12 Mai 2005), t. 19.

Fardd Cenedlaethol Cymru: *Parables and Faxes* (1995), *Zero Gravity* (1998), *Keeping Mum* (2003), a gasglwyd ynghyd yn y gyfrol *Chaotic Angels: Poems in English* (2005). Ymddangosodd dwy gyfrol bellach o farddoniaeth Saesneg ganddi: sef *A Hospital Odyssey* (2010) a *Sparrow Tree* (2011). Cyhoeddodd hefyd dair cyfrol o ryddiaith: *Sunbathing in the Rain: A Cheerful Book about Depression* (2002), *Two in a Boat: A Marital Voyage* (2005) a *The Meat Tree* (2010). Nodweddir ei chyfrolau o farddoniaeth gan gyfresi o gerddi, nifer ohonynt yn ymchwilio i themâu a chysyniadau arbennig, ac mae hyn yn arbennig o wir am ei chyfresi Cymraeg oherwydd yr oedd nifer ohonynt yn gerddi a gyflwynwyd i gystadleuaeth y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r gyfres 'Parables and Faxes'² yn ymchwiliad i'r ddwy idiom a fynegir ganddi yma, yr idiom ddeongliadol mewn cyferbyniad â'r idiom uniongyrchol, tra mae'r gyfres 'Y Llofrudd Iaith' yn chwarae â genre y nofel *whodunnit*. Arbrofa Lewis yn chwaraeus â *genre* ym mhob un o'r cyfrolau rhyddiaith yn ogystal: ysgrifennwyd *Sunbathing in the Rain* ar lun llyfr hunangynorthwyol - strategaeth sy'n ei chynorthwyo rhag troi'r gyfrol yn hunangofiant. Gellir dadlau fod *Two in a Boat* yn barodi bwriadol o un o glasuron llenyddiaeth Lloegr, sef *Three Men in a Boat* gan Jérôme K. Jérôme (1889), ac mae ei chyfrol ddiweddaraf, *The Meat Tree*, yn nofel gomisiwn sy'n ailddyfeisio chwedl o'r Mabinogi yn stori ar gyfer yr oes sydd ohoni, ac fe ddewisodd Lewis ymdrin â phedwaredd gainc y Mabinogi ar ffurf nofel wyddonias.

Mewn astudiaeth ar hunaniaethau mewn llenyddiaeth mewn perthynas â datganoli, y mae'n briodol felly inni graffu ar waith y bardd cyntaf i sicrhau statws swyddogol fel Bardd Cenedlaethol y Gymru ddatganoledig. Fel y nododd Katie Gramich, dynoda'r ffaith y penodwyd merch i'r swydd symbolaidd hon fod shiftt sicr wedi bod oddi wrth y grymoedd patriarchaidd yng Nghymru'r mileniwm newydd,³ ac ymhellach, fod hyn yn arwyddo disgwrs newydd y Gymru ddatganoledig am gynhwysedd a chyfleodd cyfartal. Medrir ystyried geiriau Lewis yn y Gymraeg a'r Saesneg fel trothwy testunol ar gyfer archwilio posibiladau creadigol a diwylliannol ar gyfer Cymru'r unfed ganrif ar hugain. Yn hyn o beth, dengys ei gwaith llenyddol fod merched yn rhan hanfodol o adeiladu'r genedl, ac mae ei cherddi yn tystio i'r gofod newydd a gaiff ei greu fel rhan o'r broses honno.

Mewn cyfweiliad â'r cylchygrawn *Barddas*, noda Gwyneth Lewis na roddwyd disgrifiad iddi o ddyletswyddau'r Bardd Cenedlaethol, ac o ganlyniad blaenoriaethau'r bardd apwyntiedig unigol sy'n llywio'r rôl.⁴ Ychwanega mai egwyddorion artistig a fydd yn ei harwain yn y swydd, ac y bydd

² Gwyneth Lewis, *Parables and Faxes* (Newcastle upon Tyne: Bloodaxe, 1995), tt. 50-77.

³ Katie Gramich, *Twentieth-Century Women's Writing in Wales: Land, Gender, Belonging* (Cardiff: University of Wales Press, 2007), t. 186.

⁴ Alan Llwyd, 'Barddas yn holi Gwyneth Lewis' yn *Barddas*, 283 (Mehefin/Gorffennaf 2005), t. 34.

ei gweithgarwch fel bardd cyhoeddus yn bennaf yn deillio o'i gwaith creadigol ei hun, sy'n awgrymu nad gwneud datganiadau ar ran y genedl fydd ei blaenoriaeth. Cydnebydd fod y traddodiad barddol Cymraeg yn un llafar, cyhoeddus, ond na fyddai hi'n dymuno trin cerddi fel 'rhywbeth y gallwch chi eu hordro fel pwys o sosejis'.⁵ Pan fu farw Gwynfor Evans, fe gyfansoddodd Lewis farwnad Gymraeg iddo; pan enillodd tîm rygbi Cymru y Gamp Lawn yn 2005, ysgrifennodd gerdd Saesneg iddynt. Meddai ymhellach am y dyletswyddau'n ymwneud â'r swydd: 'In one way all the poets in Wales together add up to one national poet, in that all the different sensibilities between us are the full reaction to contemporary life. I can't change the kind of poet I am, and I feel that I should be a poet in public, rather than a public poet'.⁶

Mae Gwyneth Lewis, felly, yn bâr creadigol ynddi ei hun, gyda'r bardd Cymraeg a'r bardd Saesneg yn y cyswllt hwn yn un. Archwilir yn y bennod hon y ddeinameg rhwng ei gwaith Cymraeg a'i gwaith Saesneg gan ystyried a oes cydblethu neu gyferbyniadau rhwng y testunau gwahanol. Cwestiynir honiad Geraint Evans fod Lewis, fel bardd sy'n cyfansoddi'n naturiol yn y ddwy iaith, yn arwydd o ganfod hyder mewn hunaniaeth genedlaethol: '[y] cam nesaf mewn aeddfedu ieithyddol, gan ddilyn y patrwm o gyfnewid sy'n ymddangos mewn llenyddiaethau ôl-ymerodrol'.⁷ Disgrifir y defnydd o'r ddwy iaith yn nhermau 'aeddfedu', ond peryglus yw dweud hynny heb archwilio'r berthynas rhwng y Gymraeg a'r Saesneg a amlygir yn ei cherddi a'r canfyddiadau o'r agweddau tuag at y ddwy iaith ei gwaith. Fel y nododd Ruth McElroy, mae peryg o ordefnyddio geiriau fel 'hyder' yn y cyfnod ôl-ddatganoli, 'as if the Assembly was a dose of feel-good-factor-eight, a sign of sunny times ahead'.⁸

Nodwyd y syniad o daith neu deithio sydd i'w gael yng ngwaith Lewis gan Angharad Price mewn ysgrif o'i heiddo – 'Chwarae Geiriau fel Gwyddbwyll: Barddoniaeth Gymraeg Gwyneth Lewis'. Dengys Price sut y mae dwyieithrwydd yn gerbyd ar gyfer archwilio nifer o themâu, gan gynnwys y cysylltiad a wêl y bardd rhwng iaith a'r corff. Sylwa hefyd ar y daith rhwng y bydol a'r ysbrydol yng ngerddi Lewis:

Menter farddonol Gwyneth Lewis yw canfod a theithio llwybrau newydd rhwng y bydol a'r ysbrydol bob tro. Cais aflonyddu'n barhaus ar ein golwg ar y byd fel na welwn y byd 'o ran', ond yn hytrach 'o rannau'. Trwy ddrych ei barddoniaeth a'r 'anadlu dieithr [sy'n] cymylu'r drych', trawsffurfir tair

⁵ *Ibid.*, t. 34.

⁶ Ian Gregson, 'Negotiations: Gwyneth Lewis Interviewed by Ian Gregson', *Planet*, 173 (Hydref/Tachwedd, 2005), tt. 50-1.

⁷ Geraint Evans, 'Gwyneth Lewis a'r Llofrudd Iaith: Llenyddia Mewn Dwy Iaith yn y Ganrif Newydd', *Taliesin*, 126 (Gaeaf 2005), t. 44.

⁸ Ruth McElroy, 'The Rhyming Detective', *Planet*, 141 (Mehefin/Gorffennaf 2000), t. 21.

prif elfen pob llwybreiddio, sef amser, a gofod, ac iaith'.⁹

Tystiodd Richard Poole fod nifer o deithiau llythrennol yn ymddangos yn ei gwaith,¹⁰ a sylwodd Matthew Jarvis sut y mae'r ddelwedd o deithio yn cael ei defnyddio'n fynych ganddi mewn cyfresi i glymu'r deunydd ynghyd.¹¹ Dywed Marged Haycock mewn adolygiad o'r gyfrol *Cyfrif Un ac Un yn Dri* fod y cerddi yn dwyn y darlennydd i symud rhwng gwahanol olygon o'r byd: 'nid am eu bod yn ein harwain yn ddiogel i ben y daith, ond am eu bod yn brawf o'n gallu i ganfod yn wahanol'.¹² Atega'r sylw hwn bwynt Price, sef y cais Lewis symud golygon ei chynulleidfa sy'n gweld y byd 'o ran' i weld y byd 'o rannau' – ac fe wna'r un modd gyda thema'r daith yn benodol, lle y mae am i'w chynulleidfa ymwneud â mwy nag un 'daith' a gweld y 'teithiau' sy'n bosib o fewn yr hunan a thrwy gyfrwng geiriau.

Mae'r mathau o deithiau yr arweinia Lewis ei chynulleidfa tuag atynt ac arnynt yn amrywio ac yn cydblethu. Ceir teithiau daearyddol ar draws cyfandiroedd i Ynys y Philippine yn y gyfres 'Sonedau Redsa', er enghraifft, ynghyd â thaith mewn cwch yn y gyfrol *Two in a Boat*, a theithiau mewn car megis yn achos y gerdd 'Taith gyda Tosca'. Ceir disgrifiadau ganddi o gyfyngiadau iaith pan ddywed na all geiriau helpu i weld y byd yn llawn - mai dim ond hyd hanner ffordd ar y daith honno y gall geiriau hebrwng yr unigolyn - ac o ganlyniad i'r canfyddiad hwn, darlunnir sawl taith rhwng y materol a'r ysbrydol lle'r archwilir y modd y gall geiriau gyfryngu rhwng y corff, yr hunan a'r arall.¹³ Mewn dau waith pwysig, y naill yn y Gymraeg a'r llall yn y Saesneg – *Y Llofrudd Iaith* a'r gyfres gyfatebol Saesneg, 'Keeping Mum' - ymchwilir i'r berthynas rhwng iaith a chorff a rhwng y Gymraeg a'i siaradwyr. Gwelir amlygiad o'i diddordebau gwyddonol yn y teithiau sy'n tramwyo ffiniau gwyddonol mewn cyfrolau fel *Zero Gravity* a *The Meat Tree*. Ymhellach, ceir teithiau corfforol yn y gerdd hir *The Hospital Odyssey* wrth i'r arwres gamu i fyd swrreal ac ymladd yn erbyn afiechyd. Mae cyfrol ddiweddaraf Lewis, *Sparrow Tree*, yn manylu ar y 'daith' o greu, boed yn gyfansoddi cerdd neu yn achos cân yr adar. Yn y bennod hon, defnyddir y teithiau amrywiol hyn sy'n gweu ar draws ei gilydd fel ffordd o archwilio gwaith Lewis ymhellach.

Cyn mynd rhagom i sylwi ar y teithiau dan sylw, y mae'n werth ystyried taith neu deithiau Lewis ei hun tuag at ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn wahanol i lenorion eraill yr astudiaeth hon, nid yw Lewis yn arddel ymrwymiad gwleidyddol amlwg, ond mae ei hymrwymiad i'r Gymraeg a'r

⁹ Angharad Price, 'Chwarae Geiriau fel Gwyddbwyll', *Taliesin*, 110 (Gaeaf 2000), t. 115.

¹⁰ Richard Poole, 'Spiritual Realism', *Planet*, 125 (Hydref/Tachwedd 1997), t. 76.

¹¹ Matthew Jarvis, 'Review: *Two in a Boat: A Marital Rite of Passage*', *New Welsh Review*, 71 (Gwanwyn 2006), t. 86.

¹² Marged Haycock, 'Cyfrif Un ac Un yn Dri', *Barn*, 409 (Chwefror 1997), t. 36.

¹³ Richard Poole, 'Gwyneth Lewis in Conversation', *PN Review*, 113, 23, 3 (Ionawr/Chwefror, 1997), t. 51.

Saesneg fel ieithoedd yn eglur wrth iddi ystyried y dewisiadau y bu'n rhaid iddi eu gwneud – proses boenus ar brydiau – o ran ei hunaniaeth ieithyddol a barddonol. Pan fu'n fyfyrwr yn Rhydychen, dywed Lewis iddi gael ei chythruddo gan agweddau ei chyd-fyfyrwyr tuag at y Gymraeg a'i Chymreictod,¹⁴ ynghyd â chan yr ymdeimlad a oedd ganddi o 'anffyddlondeb diwylliannol' i'r Gymraeg – a'i bod felly wedi dianc o'r 'Welsh/English pole, which I felt was a dead end, a dead argument'.¹⁵ O ganlyniad symudodd i America am dair blynedd. Mewn ysgrif o'r enw 'The Poet I Might Have Been', sy'n sôn am ei chyfnod yn byw yn Unol Daleithiau America yn ystod ei hugeiniau cynnar, myfyria Lewis am ei phenderfyniad i ddychwelyd i Gymru er gwaetha'r rhyddid a'i denodd tuag at y 'melting-pot mentality'.¹⁶ Daw i'r casgliad y byddai wedi colli ei henaid wrth ddiosg ei hualau diwylliannol: 'writing isn't a matter of choosing which club you play for but, if you're lucky, of being picked. It's a question of who or what you represent and that's formed long before your conscious desires'.¹⁷ Galluogodd y cyfnodau hyn iddi ymelwa ar draddodiad llenyddol America¹⁸ yn ogystal â dod i'r penderfyniad y medrai fod yn rhydd i ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mewn cyfweliad â Lewis sy'n ymdrin â'r mater o ddewis cyfrwng ei barddoniaeth, meddai Francesca Rhydderch:

Free from 'anti-Welshness' and 'antiquated attitudes towards things Welsh', Lewis was also therefore temporarily free of a narrowly defined or definable audience, and it seems to be here that far from resolving the Welsh/English debate within her, she found strength in vacillation. 'My decision was to make no decision,' she says.¹⁹

Yn hytrach na cheisio datrysiad terfynol o ran ysgrifennu yn y Gymraeg *neu'r* Saesneg, mae Lewis yn creu gofod amgen fel y gall symud *rhwng* y ddwy iaith, ac o ganlyniad rhwng dau draddodiad llenyddol. Er bod Rhydderch yn nodi bod Lewis yn 'temporarily free of a narrowly defined or definable audience', y mae Lewis yn ymwybodol iawn o'r disgyrsiau diwylliannol sydd ynghlwm â'r ieithoedd yr ysgrifenna ynddynt. Nid mater syml mohono, fel y tystia:

Because a language isn't just a matter of words, being a bilingual poet has been fraught with pressures and contradictions for me. A literary tradition is made from a whole complex of historical and political experiences, and when you're heir to two traditions which could have been at one another's throats for centuries and continue to be, there are interesting clashes of values and loyalties. However, if I wasn't doing the most natural thing in the world to me by writing in both

¹⁴ Francesca Rhydderch, 'Cur dwbl [y] galon', *New Welsh Review*, 41 (Haf 1998), t. 19.

¹⁵ *Ibid.*

¹⁶ Gwyneth Lewis, 'The Poet I Might Have Been', *New Welsh Review*, 91 (Gwanwyn 2011), t. 9.

¹⁷ *Ibid.*, t. 13.

¹⁸ Poole, 'Gwyneth Lewis in Conversation', t. 51.

¹⁹ Rhydderch, 'Cur dwbl [y] galon', t. 19.

languages, there would be something forced, and therefore wrong, about it. I've been bilingual since the age of two and a half and so writing in both languages is the most complete and joyful way I know of praising and describing my world. It's not a political decision, it predates that in my linguistic psyche.

The advantages are those of having access to two literary traditions and of being able to introduce selected elements of each other. The drawback is that one's work gets compartmentalized and a community's political feelings about a language can get mixed up in the attitudes.²⁰

Nid defnyddio'r ieithoedd er mantais lenyddol a wna ychwaith: cred yn gryf y rhagora dwyieithrwydd ar unieithrwydd gan ei fod yn dangos nad oes un bydolwg yn berffaith a hollgynhwysol: 'bilingualism dictates against fascism or ultranationalism because you know the weaknesses as well as strengths of a language'.²¹ Atega'r datganiad uchod gred Lewis fod angen synthesis rhwng y gwyddonol a'r ysbrydol ac nad oes un o'r disgyblaethau yn medru hawlio'r holl wirionedd: 'Dogma is narrowly monoglot', meddai, 'let's be multilingual'.²² Er iddi ddatgan ei bod yn fardd crefyddol ac y gwêl eiriau fel cyfryngau i foli Duw,²³ dywedodd hefyd mewn sgwrs gyhoeddus â'r gwyddonydd Tim Porter a Bethan Jones-Parry ei bod yn dehongli'r cysyniad o'r Drindod yn nhermau sgwrs, ac yn yr un modd fod barddoniaeth hithau yn ddisgyblaeth y gellir meddwl amdani yn nhermau deialog neu sgwrs.²⁴ Ategodd fod modd 'deall mwy heb ddeall y cyfan' a'i bod yn rhan o'r broses o fethu deall pethau,²⁵ ac felly, eto, amlygir thema'r daith yn ôl ac ymlaen rhwng gwahanol lefelau o ddealltwriaeth i ymgyrraedd at ryw realiti uwch.

Rhan greiddiol o'i hysfa i ddeall pethau yw ei diddordeb mewn gwyddoniaeth; gall ei cherddi ymddangos yn oeraidd ar brydiau am ei bod yn amheus o emosiwn; at hynny, gellir disgrifio nifer o'i cherddi fel rhai ymenyddol. Yn y gerdd 'How to Knit a Poem' – cerdd ynghylch y weithred o ysgrifennu barddoniaeth – dywed mai'r arddull realaidd a ddefnyddia: 'Reality, my favourite yarn'.²⁶ Am fod ganddi ymwybyddiaeth ei bod ar daith ddeallusol – taith a gaiff ei mynegi'n greadigol trwy ei cherddi – a hyn i gyd er mwyn meddu ar weledigaeth ddyfnach o'r byd hwn a'r byd na wêl (ac y gŵyr na ellir ei lwyr amgyffred), mae'r bardd yn gyson ac ymchwiliadol aflonydd, heb fodloni'n llwyr ar unrhyw ateb y mae hi ei hun yn ei gynnig. Yn wir, bu i Lewis nodi fod creu

²⁰ Poole, 'Gwyneth Lewis in Conversation', t. 50.

²¹ *Ibid.*, t. 55.

²² Ymatebion yn ystod 'Noson yng nghwmni Gwyneth Lewis a'i gwestai Tim Porter', Galeri Caernarfon, 19 Ionawr 2012.

²³ Richard Poole, 'Gwyneth Lewis Talks to Richard Poole', *Poetry Wales*, 31, 2 (1995), t. 27.

²⁴ Ymatebion yn ystod 'Noson yng nghwmni Gwyneth Lewis a'i gwestai Tim Porter', Galeri Caernarfon, 19 Ionawr 2012.

²⁵ *Ibid.*

²⁶ Gwyneth Lewis, *Sparrow Tree* (Taset: Bloodaxe Books, 2011), t. 52.

‘realaeth ysbrydol’ yn uchelgais farddol iddi,²⁷ term sy’n awgrymu’r posibiladau a wêl mewn iaith i ddadlennu ysbrydolrwydd; ynghyd â chyfyngiadau iaith yn ei methiant i gyfleu realiti.

Symudolrwydd yw un o brif nodweddion gwaith Lewis, ac mae ei disgrifiad o farddoniaeth fel sgwrs barhaus yn dangos sut yr ystyria hynny fel catalydd ar gyfer trawsffurfiad. Defnyddiol yn y fan hon yw cyflwyno theori croesrywedd a gyflwynir gan Homi K. Bhabha yn ei destun dylanwadol, *The Location of Culture*. Dywed Bhabha fod pob datganiad diwylliannol a’r systemau ynghlwm â hwy wedi eu hadeiladu mewn gofod a ddisgrifia fel y ‘Third Space of Enunciation’ - sef y lleoliad amwys rhwng dau ddiwylliant lle cwestiynir hierarchiaeth a ‘phurdeb’ diwylliannol:

It is that Third Space, though unrepresentable in itself, which constitutes the discursive conditions of enunciation that ensure that the meaning and symbols of culture have no primordial unity or fixity; that even the same signs can be appropriated, translated, rehistoricized and read anew.²⁸

Y lleoliad ‘rhwng’ sy’n trosglwyddo disgyrsiau diwylliannol, ac felly mae’n lleoliad ffrwythlon ar gyfer croesrywedd sy’n herio ac yn cwestiynu delweddau ac awdurdod (awdurdod y coloneiddwyr yn achos theori ôl-drefedigaethol) ac yn y pen draw yn tanseilio sefydlogrwydd drwy weld y bwlch rhwng yr hunan a’r arall. Mae theori Bhabha yn ddefnyddiol ar gyfer yr astudiaeth hon, oherwydd bod gan Lewis ymwybyddiaeth o idiom yr amwys. Amwysedd sy’n creu’r gofod amgen er mwyn edrych y tu hwnt i dermau diwylliannol grymus tuag at realiti wahanol – y gofod sy’n ‘ffwrnais awen’ fel y noda ei geiriau ar Ganolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd.

* * *

Ym mhob un o gyfrolau Gwyneth Lewis mae teithiau daearyddol yn eu hamlygu eu hunain dro ar ôl tro. Yn nodweddiadol, nid teithiau unffurf ydynt yn symud o un lle i’r llall, ond modd i ddarganfod mathau eraill o deithio sy’n digwydd yn gyfochrog â’r teithiau daearyddol. O leoli ei cherddi ar ganol taith ddaearyddol, y mae’r bardd yn defnyddio’r teithiau hyn fel trosiad er mwyn cyfrannu at y prosiect o weld y byd ‘o rannau’.

Yn y gyfrol *Cyfrif Un ac Un yn Dri*, ceir cyfres o gerddi dan y teitl ‘Y Daith’ sy’n archwilio’r

²⁷ Poole, ‘Gwyneth Lewis in Conversation’, t. 51.

²⁸ Homi K. Bhabha, *The Location of Culture* (London: Routledge Classics, 2004), t. 55.

syniadau uchod. Mae'r gerdd gyntaf yn cael ei llefaru o safbwynt plentyn chwe blwydd oed sydd, wrth deithio yn y car, yn credu mai'r golygfeydd tu allan i'r car sy'n symud heibio i'r car, yn hytrach na'r car yn symud heibio iddynt hwy. Meddai:

Gwyddwn fod teithio'n gelwydd i gyd,
gan mai fi oedd bogail olwyn y byd,

brenhines y canol.²⁹

Mae Lewis yn siarad am daith ddaearyddol ond ar yr un pryd, am daith y plentyn wrth i'w ymwybyddiaeth ddeffro i'r berthynas rhyngddo a'r byd o'i gwmpas. Cyfeirir yn y fan hon at ffurfiant goddrychedd y plentyn. Wrth ddelweddu'r plentyn fel un o drofannau'r byd ac mewn cysylltiad â'r haul, awgrymir fod gan blentyn amgyffrediad unigryw o'r byd o'i gwmpas cyn i systemau'r byd - a arwyddir yn ei gwaith fel heolydd neu draffyrdd - dorri ar draws hynny. Pwysleisia'r bardd fod gan bob unigolyn ei bersbectif unigryw o bellter gan ei fod yn rhywbeth cyfnewidiol ac yn ddibynnol ar olwg personol dyn ar ei fyd.

Yn yr un modd, mae'r bardd yn ystyried yr agweddau gwahanol sydd gan strwythurau dynol a byd natur tuag at ofod. Mewn cerdd ddiweddarach yn y gyfres mae'r llefarydd yn gyrru ar draffordd ac yn cyferbynnu gormes y ffyrdd â rhyddid y cudyll coch o fesuriadau'r ffyrdd oherwydd gall ddewis ei lwybrau ei hun a phennu eu pellter drwy godi ac esgyn ar ei brae fel y mynn. Cyrraedd o A i B fydd nod y gyrrwr, ond dywed y bardd fod modd i'r cudyll ymwrthod â mesuriadau dyn:

Mae'r aderyn fel olwyn yn teithio hewl
gwaed ei ysglyfaeth. Nid cyrraedd mo'r nod
ond byw tan y gwanwyn. Anghofiwch am hyd

y daith.³⁰

Yn yr un modd, mae syrthio yn fodd o herio disgwyliadau'r byd cyfoes ynghylch yr hyn sy'n dderbyniol neu'n annerbyniol, fel y gwna Louisa Maud Evans, y ferch 14 oed sy'n syrthio o falŵn ac yn profi '[b]raint / y cwmp gorfoleddus'.³¹ Darlunnir y ferch fel offrwm i 'dduw trafndiaeth' wrth iddi gyflawni ei huchelgais i gael gweld y byd o'r awyr, ond profiad yr un mor gyfoethog yw'r

²⁹ Gwyneth Lewis, *Cyfrif Un ac Un yn Dri* (Felindre: Cyhoeddiadau Barddas, 2005), t. 45.

³⁰ *Ibid.*, t. 52.

³¹ *Ibid.*, t. 17.

cwmp . Hynny yw, rhwng dau ben y daith, rhwng y codi a'r syrthio fel y gwna'r cudyll, y gellir trawsffurfio agwedd tuag at syniadau dynol o bellter a gofod.

Yn y gerdd 'Taith gyda *Tosca*' mae gwranddo ar gerddoriaeth yr opera wrth yrru yn dwyn llefarydd y gerdd ar daith aruchel a swrreal, gyda'r car yn gadael y ffordd ac yn codi i'r awyr: 'Anghofiais am fapiau a dilyn ei lais / a godai'n hewl i'r ucheldir'.³² Dychmygir y tir a'r gerddoriaeth yn asio gyda'i gilydd gyda'r naill yn adlewyrchu'r llall: 'galarnad y ferch / yn ffordd i mi deithio, yn alaw o'm blaen / drwy'r tirlun'.³³ Mae'r gerddoriaeth yn galluogi'r daith i gyrraedd lefel arall, yn llythrennol ac yn emosiynol wrth i'r stori glasurol gael ei chyfosod â'r daith ar draws Cymru; y gerddoriaeth ynghyd â'r golygfeydd a rydd iddi'r gallu i weld o'r newydd y tro hwn, ac mae deddfau gwyddoniaeth, deddfau cerddoriaeth a deddfau pellter oll yn gymysg oll i gyd ac yn ymateb i'w gilydd gan ffurfio taith uwchnaturiol i lefarydd y gerdd.

Mae'r gyfres 'Sonedau Redsa', a gyhoeddwyd yng nghyfrol gyntaf y bardd ym 1990, yn deillio o daith Lewis i Ynysoedd y Philippine. Anrheg yw'r gyfres o gerddi i'w merch fedydd ar yr ynysoedd hyn, plentyn a genhedlwyd yng nghyfnod Chwyldro Grym y Bobl.³⁴ Gosodir y gyfres ar Ynys y Philippine ac adroddir hanes y wlad hyd at y chwyldro a fu ym 1986 i ddymchwel cyfundrefn Ferdinand Marcos ac adfer democratiaeth. Sonedau syml, hwiangerddol yw'r rhain gan mai eu nod yw adrodd y stori i'r plentyn, a gwelir ymlyniad Lewis at ffurf yn gynnar yn ei gyrfa. Yn y pymtheg soned Shakespearaid ceir darluniau o hanes yr Ynysoedd, gan gynnwys hanes Ferdinand Magellan a ddarganfu Ynysoedd y Philippine ac a ddienyddiwyd gan yr Indiaid brodorol, a hanes saethu arwr y chwyldroadwyr, Benigno Aquino. Ceir hefyd yma fonolog gwraig arweinydd y chwyldro a ddaethai'n arlywydd ar ôl etholiad 1986, a sonnir sut y ceisiai'r unben Marcos brynu pleidleisiau ei bobl. Yn y gerdd '(XII) Y Milwr', traethir o safbwynt un o filwyr Marcos sy'n gwarchod y goedwig, ond ymdeimlir â'i ansicrwydd ynghylch pwy yw'r gelyn a beth y mae'n ei amddiffyn. Myfyria ar natur ffiniau yng nghyd-destun y natur wyllt o'i gwmpas: 'Nid oes ffiniau mewn coedwig, dim ond cad / ddiwedd y dail yn yr haul di-feth'.³⁵ Portreadir y chwyldro mewn termau deuol, y gyfundrefn a'r bobl gyffredin, ond serch hynny mae Lewis yn defnyddio presenoldeb natur i ymyrryd â'r dehongliad hwn gan awgrymu fod modd edrych ar y sefyllfa o sawl persbectif pellach, gan gynnwys y persbectif trosgynnol a gynrychiolir gan fyd natur ei hun. Golygir wrth 'Rhyfel gwell / ymerodraeth y goedwig' fod yna drefn gyfiawn a theg yn cael ei hadlewyrchu gan natur.

³² *Ibid.*, t. 59.

³³ *Ibid.*, t. 60.

³⁴ Alan Llwyd, 'Enwebiad am y wobor', *Barddas*, Rhif 240 (Ebrill/Mai, 1997), t. 29.

³⁵ Gwyneth Lewis, *Sonedau Redsa a Cherddi Eraill* (Llandysul: Gomer, 1990), t. 26.

Drwy roi llefarydd gwahanol i bob soned, llwydda Lewis i gyfleu bydolwg nifer o bobl o bob haen o gymdeithas yn ystod y chwyldro. Yn y gerdd '(XIII) Cwypm Marcos', mae Pedro a'i ffrind yn mynd i dŷ yr unben wedi iddo gael ei ddisodli ac yn gweld yr holl gyfoeth a gasglwyd ganddo ar ei gyfer ef ei hun tra bu pobl ei wlad yn newynu: 'Wel, yr hen lwynog. Mae'n dipyn o ffau.' / A phocedodd Pedro addurn neu ddau'.³⁶ Mae'r bardd yn defnyddio hiwmor ym monolog y persona - hiwmor a gaiff ei atgyfnerthu gan yr odl. Sylwebydd yw'r bardd yn y wlad hon ond er ei fod yn allanolyn, gall gyflwyno golygfeydd a fydd yn rhoi darlun cyfannol i Redsa o'r chwyldro, a hynny nid o un safbwynt yn unig. Noda'r bardd mewn cyfweliad â Richard Poole yng nghyd-destun 'Sonedau Redsa': 'I had great fun with the sequence, as I knew there was no precedent for it in Welsh'.³⁷ Drwy gyhoeddi'r gwaith yn y Gymraeg, mae Lewis yn ymwybodol ei bod yn cyflwyno hanes a lleisiau newydd i farddoniaeth Gymraeg. Mae nod bellach ar waith yma, felly, sef torri ar draws y safbwyntiau a'r bydolwg disgwylidig mewn barddoniaeth Gymraeg, y metropolitan neu'r canol, a thrafod cenedl arall trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny heb amlygu perthynas uniongyrchol o reidrwydd rhwng Cymru a'r cyd-destun hwnnw. Yma, mae'r bardd yn gosod llenyddiaeth Gymraeg ei hun ar daith drwy ddangos y gall y Gymraeg bortreadu sefyllfaoedd cenedloedd eraill heb fod yn rhaid iddynt ymwneud yn uniongyrchol â phrofiad Cymry neu'r Gymraeg yng Nghymru.

Cerdd estynedig yw un o gerddi eraill y gyfrol gyntaf hon gan Lewis, sef 'Bro Ceridwen', y rhoddwyd fel epigraff iddi ddyfyniad gan y Taliesin chwedlonol: 'Mi gefais awen o bair Ceridwen'. Persona merch sy'n byw ar ymylon ymerodraeth a geir yn y gerdd, a'i hymgais i rwystro datblygiad estron yn ei bro. Egyr y gerdd drwy osod y cefndir:

Fe'm ganed heb wybod beth oedd ystyr ffin
i lwyth a orchfygwyd ganrifoedd yn ôl
a'i adael yn angof i ffermio'r ffridd
ar gwr ymerodraeth. O lygaid fy mam
dysgais fod mwy i ddychymyg y pridd
na chloddiau ac erwau perchnogaeth dyn.³⁸

Awgrymir yma gymdeithas gyntefig yn ffermio'r tir ac yn rhydd o drefn lywodraethol. Fel yn chwedl Taliesin, gall persona'r gerdd newid ei ffurf ddynol, ac ymrithio fel hebog, brithyll a glas y

³⁶ *Ibid.*, t. 27.

³⁷ Poole, 'Gwyneth Lewis Talks to Richard Poole', t. 25.

³⁸ Lewis, *Sonedau Redsa*, t. 49.

dorlan, sy'n awgrymu undod ei enaid â byd natur. Drwy ddefnyddio ffigwr chwedlonol, cyflwynir gwedd shamanistaidd sy'n deillio o'r berthynas agos rhwng y cymeriad a gwedd byd natur a'r byd ysbrydol ynghyd â'i allu i gyfathrebu â hwy. Gwelir y ferch yn rhybuddio'r tri swyddog sy'n ymweld â'r fan ar ran yr awdurdodau na fyddai natur yn derbyn eu hymyrraeth. Defnyddia ei hawen i beri i'r tri ymchwilydd weld drychiolaethau sy'n eu gyrru'n lloerig – ac i'w tranc yn y pen-draw – yng nghanol y fforestydd:

Ac fel merch, yn fy ngwely, ewyllysiais eu ffawd:
ymbiliais ar nerth y mynyddoedd noeth
i'w llenwi â gweledigaethau'r gro
a'u gyrru fel gwartheg dros derfyn eu pwyll
i diriogaeth rhyfeddod a rhandir gwell
na meddiannau brenin, neu fesurau dyn.
Gorfodais hwy i wlad fy rhin.³⁹

Y mae'r daith a wna'r tri swyddog er mwyn mesur y tir yn daith fygythiol o bersbectif y llefarydd, sef Ceridwen, ac yn ddarlun o sut y mae'r byd cyfoes yn defnyddio gofod a thir er ei ddibenion ei hun. Mae Ceridwen yn y gerdd yn creu ei thaith fewnol ei hun ac yn defnyddio grym natur i ateb y trais a wêl wrth i'r swyddogion geisio mesur gwerth y tir yn ôl ei ddaeryddiaeth yn unig, heb ystyried ffactorau megis hanes, a'r gymuned rhwng natur a phobl. Yn ei adolygiad o *Sonedau Redsa*, dywed Gerwyn Williams y gall stori alegoriaidd y gerdd fod yn anodd ei deall, ond cred mai 'llais hyderus un sy'n sicr o'i gweledigaeth' sydd yn y gerdd, ac nid llais yn hyrwyddo unrhyw bropaganda.⁴⁰ Er nad yw'r gerdd yn sôn am Gymru yn benodol, anodd yw osgoi'r dybiaeth fod cymeriadau'r tri ymchwilydd yn adleisio ffigyrau'r tri arolygydd yn achos Brad y Llyfrau Gleision 1847. Y mae'n debyg, er hyn, i Lewis gael ei hysbrydoli yn y cyswllt hwn gan lyfr am lunio ffiniau rhwng taleithiau deheuol America, *A History of the Dividing Line*,⁴¹ felly gall y gerdd fod yn alegori sy'n berthnasol i unrhyw wlad sydd wedi dioddef ymyrraeth a rheolaeth gwlad arall.

Gellir disgrifio'r gerdd fel cerdd ôl-drefedigaethol gan ei bod eto'n cwestiynu safbwynt y canol ac yn rhoi llais i'r bobl ar y ffin. Fel y dywed y bardd: 'It's a poem about the blindness of an imperial centre towards the lands on its edges – areas whose values are, perhaps, in the end more enduring'.⁴² Ymgorffora'r gerdd y ddadl ddeuol rhwng trefn unplyg, resymegol y 'canol' awdurdodol a biwrocraidaidd, a'r 'ffin' sy'n meddu ar weledigaeth amgen yn ôl y bardd ac sy'n nes

³⁹ *Ibid.*, t. 53.

⁴⁰ Gerwyn Williams, adolygiad yn *Llais Llyfrau* (Haf 1990), t. 17.

⁴¹ Poole, 'Gwyneth Lewis in Conversation', t. 54.

⁴² Poole, 'Gwyneth Lewis Talks to Richard Poole', t. 25.

at natur ac at yr ysbrydol. ‘Cwestiynu'r persbectif metropolitan yna rydw i’,⁴³ meddai'r bardd, ac mae'r gerdd hon yn enghraifft dda o'r daith gysyniadol rhwng y ‘canol’ a'r ‘ffin’ ac o'r modd y maent yn medru ymyrryd â'i gilydd mewn gwahanol ffyrdd. Diddorol yw nodi bod Lewis wedi dweud ei bod wedi dymuno addasu chwedl Taliesin ar gyfer llais merch, gan archwilio felly drwy gyfrwng ei benyweidd-dra y cysyniad o leiafrif o fewn lleiafrif. Defnyddia'r bardd guriadau pendant fel mydr i'r gerdd yn hytrach na nifer sillafau pendant a phenodol – dull sy'n rhoi mwy o ryddid i'r bardd ond eto'n cynnig rhythm naturiol i'r gerdd. Fel y dengys y dyfyniad uchod, arbrofa Lewis ag amrywiaeth o odlau gan gynnwys (yn nodweddiadol ohoni) odl broest. Gellir honni fod ‘Bro Ceridwen’ yn enghraifft o gerdd ôl-drefedigaethol ac yn fwy gwleidyddol-amlwg yn y modd hwnnw na nifer o'i cherddi. Fodd bynnag, gellid dadlau bod perygl i'r gerdd ei thanseilio ei hun wrth dynnu ar ystrydebau o'r gymuned lwythol, ymylol, fetaffisegol ar y naill llaw a'r swyddogion corfforaethol, gwyddonol oeraidd ar y llall. Drwy dynnu ar ystrydebau fel hyn am gymunedau lleiafrifol, atgyfnerthir y portreadau deol rhwng y biwrocraidd-gorfforaethol a'r bobl gynhenid-leiafrifol yn hytrach na'u dymchwel, fel sy'n fwy cydnaws â phrosiect llenyddol Lewis.

Ceir ymdriniaeth arall yn ymwneud â thirwedd mapiau yn y gyfrol *Cyfrif Un ac Un yn Dri*, sef ‘Cân y Gwneuthurwr Mapiau’, sy'n sôn am gartograffydd ‘fel rhyw dduw / heb ddawn maddeuant’.⁴⁴ Gwelir yma ymdriniaeth â brwydr gwyddoniaeth a rhesymeg dyn wrth geisio mapio'r tir yn erbyn natur a'i rym, sy'n barhad o thema ‘Bro Ceridwen’. Yn ychwanegol at hyn, mae'r gerdd ‘*Wegomlegging*’ - sy'n golygu ‘dargyfeiriad’ yn yr iaith Fflemeg – yn gerdd chwareus sy'n annog y darllenydd i ddilyn yr arwyddion dargyfeirio er mwyn canfod llwybrau amgen, a dod ‘yn ddieithriaid yn ôl, / yn llawn o'r anwybod sydd yn llygad ei le, / yn ddynion newydd wrth gyrraedd adre’.⁴⁵ Cerdd debyg i ‘*Wegomlegging*’ o ran ei ffuf – sef y rhigwm tair llinell – yw'r ail gerdd yn y gyfrol *Parables and Faxes*, ‘The Hedge’. Alegori yw hon am afiechyd unigolyn sy'n dioddef o alcoholiaeth: mae clawdd yn dechrau tyfu yng ngwallt y llefarydd wedi iddi dreulio gormod o amser yn cuddio poteli yn y cloddiau, a defnyddir y ddelwedd honno o'r clawdd yn tyfu fel trosiad swrreal am anallu'r llefarydd i weld y tu hwnt i'w anghenion ei hun. Ceir naws hwyliog yn y gerdd, ac yn debyg i ‘*Wegomlegging*’, defnyddir strategaeth o gyflwyno syniad a'i ddatblygu i'w lawn dwf (yn llythrennol yn y cyswllt hwn):

I've lost all centre, have become an edge
and though I wear my pearls like dew
I feel that I've paid for my sacrilege

⁴³ Menna Baines, ‘Byd yr Ymylon: Menna Baines yn Holi Gwyneth Lewis’, *Barn*, 389 (Mehefin 1995), t. 40.

⁴⁴ Lewis, *Cyfrif Un ac Un yn Dri*, t. 51.

⁴⁵ *Ibid.*, t. 49

as I wish for my autumn with its broader view.⁴⁶

Yn y cerddi hyn, y syniad yw dechreubwynt y gerdd cyn esgor ar ddelweddau i atgyfnerthu'r syniad hwnnw. Mae dewis ffurf mydr ac odl yn rhoi strwythur i gerddi naratif o'r fath, a'r odl yn cyfrannu at y naws hwyliog ac yn creu llinellau cofiadwy. Yn ôl Lewis, mae'r gerdd 'The Hedge' yn symbol o sefyllfaoedd ffug y mae'r ego yn ein cymell i'w byw,⁴⁷ tra ystyrir yn y gerdd Gymraeg '*Wegomlegging*' fod rhaid i'r hunan ganfod bydolwg amgen drwy ddargyfeirio oddi ar ffyrdd strwythuredig dynol. Mae'r ddwy gerdd yn enghreifftiau o sut y cais y bardd drawsffurfio cysyniadau ynghylch sut, ar y naill law, y mae'r hunan yn ystumio ei sefyllfa a chelu'r gwir, ac ar y llaw arall, sut mae systemau bydol yn ystumio bydolwg drwy ein gorfodi i gyfyngu'r hunan i gonfiensiwn a strwythur.

Mae cerdd gyntaf y gyfrol *Parables and Faxes*, 'Pentecost', yn gerdd chwareus sydd hefyd yn ymdrin â mapiau a'r ymgais i'w goresgyn ar y daith ryngwladol a ddarlunnir. Dathliad yw'r gerdd o luosowgrwydd ieithyddol, a hynny'n basbort er mwyn sicrhau 'perpetual Pentecost'.⁴⁸ Fel yr awgrymir gan deitl y gerdd, darlun o'r Ysbryd Glân a geir yma a deisyfiad am yr hyn a ddigwyddodd ar ddydd y Pentecost, sef galluogi dynion i ddeall ei gilydd wrth iddynt siarad eu ieithoedd eu hunain drwy siarad mewn tafodau. Gellir dehongli llefarydd y gerdd fel merch sydd yn gweddïo am gael ei llenwi â'r Ysbryd Glân a fydd yn ei galluogi i dderbyn y ddawn i ddeall ieithoedd, a gellir awgrymu ymhellach mai'r bardd ei hun yw'r llefarydd. Drwy dderbyn y doniau bydd modd iddi brofi realiti ysbrydol sy'n uwch na'r realiti bresennol, ac a fydd yn ei galluogi i werthfawrogi holl ieithoedd y byd: 'My glossolia / shall be my passport – I shall taste the tang / of travel on the atlas of my tongue – / salt Poland, sour Denmark and sweet Vienna'.⁴⁹ Gweddïa'r ferch am gael ei llenwi â'r Ysbryd Glân er mwyn medru herio ffiniau gwledydd ac er mwyn i'w ddoniau dwyfol drosgynnu ffiniau gwlad ac iaith. Wrth ddweud fod y tafod yn atlas, cyfleir blys y llefarydd am eiriau a chyffro'r siwrneio. Cyfyd llawer o rym y gerdd a'i *panache* o'r cyfuniad o'r haniaethol a'r diriaethol:

My life is your chronicle; O Florida
revived, look forward to your past,
and prepare your perpetual Pentecost

⁴⁶ Lewis, *Parables and Faxes*, t. 12.

⁴⁷ Poole, 'Gwyneth Lewis Talks to Richard Poole', t. 27.

⁴⁸ Lewis, *Parables and Faxes*, t. 9.

⁴⁹ *Ibid.*

of golf course and freeway, shopping mall and car
so the fires that are burning in the orange groves
turn light into sweetness and the huddled graves

are the hives of the future – an America
spelt plainly, translated in the Everglades
where palm fruit hang like hand grenades
ready to rip whole treatises of air.⁵⁰

Awgrymir dyhead y ferch i weld undod glân rhwng gair a gwrthrych, ond ar yr un pryd, mae rhythmiau chwareus y gerdd a'r defnydd o odl i bwysleisio eironi yn dangos fod Lewis yn ceisio creu syniad hwyliog er mwyn amlygu deublygrwydd bydol ac ysbrydol iaith. O'i gymharu â'r gerdd Gymraeg '*Wegomlegging*', mae llawer iawn mwy o hyder yn llais y bardd yn y gerdd hon, hyder sydd ar brydiau yn awgrymu chwant rhywiol ar ran y llefarydd am brofi ieithoedd. Nid taith lythrennol a olygir yma o reidrwydd, ond taith ar 'the atlas of my tongue', symbol corfforol, yn ôl Francesca Rhydderch, sy'n 'physically rooted and multi-faceted negotiation between self and world, complicated by an awareness that the boundaries are always shifting and therefore ultimately beyond the possibilities of cartography'.⁵¹ Gan fod y bardd yn gweld yr Ysbryd Glân fel grym symudol, fe'i defnyddir fel trosiad i awgrymu nad oes un ffin yn statig a bod modd tanseilio grymoedd dynol absoliwt, sydd eto'n amlygu ymwybyddiaeth Lewis ynghylch pwysigrwydd tanseilio strwythurau hierarchaidd; at hyn, pwysleisia'r bardd eto ei awydd i drawsffurfio gofod. Awgrymir y bydd gan lefarydd y gerdd weledigaeth lawnach o'r byd oherwydd y bydd gwybodaeth o'r ieithoedd a'r profiad ysbrydol yn rhoi sythwelediad o realiti y tu hwnt i eiriau. Fel y dywed Nerys Williams am y gerdd: 'Perhaps we could read this pilgrim's quest as an impossible nostalgia for a numinous language, where signifiers and signifieds are melded together'.⁵² Mae'r dehongliad hwn yn cyd-fynd â'r amcan y sylwyd arno eisoes, sef ymgyrraedd y bardd at y byd ysbrydol ac at realiti uwch, dragwyddol, sydd uwchlaw systemau a mapiau dyn. Er mai deisyfiad y llefarydd yw medru siarad mewn tafodau, datgelir yn y gerdd natur imperialaidd y gallu hwn wrth iddi deithio drwy wledydd Dwyrain Ewrop, 'not pausing for long, except to rename / the occasional city'.⁵³

Er hyn, dehongliad y bardd o'r Pentecost yw y gall ddwyn heddwch gan rwystro 'hand grenades' diffyg dealltwriaeth. Gellir awgrymu ymhellach fod Florida yn benodol wedi'i dewis yn y cyswllt hwn oherwydd ei bod yn cynrychioli lleoliad sy'n hybu'r ddiwinyddiaeth ffundamentalaid

⁵⁰ *Ibid.*

⁵¹ Rhydderch, 'Cur dwbl [y] galon', t. 20.

⁵² Nerys Williams, 'Gwyneth Lewis: Taboo and Blasphemy', *Poetry Wales*, 38, 3 (2003), t. 25.

⁵³ Lewis, *Parables and Faxes*, t. 9.

Gristnogol a gysylltir a rhannau o Unol Daleithiau America. Medrir darllen y gerdd hefyd fel dathliad o amrywiaeth sy'n tanseilio unffurfiaeth ieithyddol a diwylliannol, a gweld Florida fel cyrchfan sy'n cynrychioli diwylliant unffurf ac uniaith Eingl-Americanidd ('golf course and freeway, shopping mall').

'Taith' yw thema lywodraethol *Two in a Boat*, sy'n olrhain hanes Lewis a'i gŵr yn ceisio teithio o gwmpas y byd mewn cwch. Gan mai dim ond y ddau ohonynt sydd, mae'r daith forwrol hefyd yn daith ar hyd llwybrau eu perthynas wrth iddynt ddod i adnabod ei gilydd mewn ffyrdd newydd a gwahanol. O fewn y daith forwrol ceir taith emosiynol. Fel y nodwyd eisoes, gellir dadlau fod teitl y gyfrol yn barodi bwriadol ar un o glasuron comedi yr iaith Saesneg, sef *Three Men in a Boat* gan Jérôme K. Jérôme (1889). Gellir ystyried y gyfrol gomedi honno yn ymgorfforiad o imperialaeth yr Ymerodraeth Seisnig; at hyn gellir dadlau, felly, fod Lewis yn chwalu'r syniad hwnnw gan lunio cyfrol sy'n cyhoeddi fod lleisiau ymylon yr Ymerodraeth yn awr yn ysgrifennu naratif newydd. Dyma daith real iawn i'r bardd, ond un sydd hefyd yn dangos sut y mae ei lleoli ei hun ar y ffin yn ei galluogi i drawsnewid *genre* fel y llyfr taith. Mae ei disgrifiad o sut y teithia morwyr o A i B yn drosiad o ddelfryd Lewis ynglŷn â theithio, sef y modd y cyfoethogir bydolwg yr unigolyn drwy ddargyfeirio:

In a sailing boat, you do not travel along the surface of the sea but rather on the winds that blow above it. The wind is your road, and if that disappears or changes direction, you have to go with it.

Imagine you are in a car wanting to travel from Manchester to Falmouth. Suddenly, because of strong winds, the route is closed for three days and you have to spend the time huddled in a motorway service station with other bored travellers. Then comes the news that the wind - and therefore the road - has shifted and that, instead of going south, you have to travel south-west into Wales and wait there for another road to appear.⁵⁴

Y mae'r fordaith ddaearyddol yn strwythur ar gyfer y stori a gwelir prif sail apêl y gyfrol yng ngonestrwydd Lewis wrth iddi ddarlunio mordaith seicolegol ac emosiynol ei gŵr, Leighton, a hithau wrth i amodau caled y môr effeithio ar eu cymeriadau. Crëir drama ddomestig afaelgar sy'n amlygu'r bwlch rhwng bwriadau da a realiti'r ymddygiad o fewn priodas, a darlun o sut y mae amgylchiadau allanol yn gosod straen ar yr hunan a'i berthynas ag eraill. Mae'r tro yng nghynffon y stori – y newyddion am salwch Leighton – yn rhoi pryderon y gorffennol yn y cysgod, a thry'r holl hanes yn brolog ar gyfer taith gythryblus nesaf y pâr wrth geisio goresgyn cancr.

⁵⁴ Gwyneth Lewis, *Two in a Boat: A Marital Voyage* (London: Fourth Estate, 2005), tt. 70-1.

* * *

Un o'r teithiau mwyaf sylfaenol a welir dro ar ôl tro yng ngwaith Gwyneth Lewis yw'r daith rhwng yr ysbrydol a'r bydol. Soniwyd eisoes am gred Lewis mewn realiti y tu hwnt i'r hyn a welir, ac y mae barddoniaeth iddi yn gyfrwng sy'n ei galluogi i fynd ar drywydd y realiti honno a'i dirnad yn well drwy eiriau a delweddau. Gan mai drwy iaith yn unig y gellir canfod mynegiant, rhaid dibynnu ar eiriau er mwyn tywys eraill ar y daith y tu hwnt i eiriau i gael golwg amgen ar y byd. Yn yr ysgrif 'Whose Coat is that Jacket? Whose Hat is that Cap?' disgrifia Lewis ei maniffesto ynghylch gweithio mewn dwy iaith a'i hathroniaeth ynghylch cyfieithu. Dadleua fod gan gyfieithwyr ddealltwriaeth amgenach o natur iaith oherwydd eu hymgais i gyfleu syniadau un iaith mewn iaith arall; deallant fellt natur ffaeledig geiriau i ddarlunio profiad arbennig:

In this, bilingualism helps. You know that one language will only take you so far along the route of your experimental journey. You know that at some time during your journey on the word bus the driver's going to call the last stop and you'll have to walk the rest of the way with your luggage, up the mountain in the growing gloom, towards the one light left on in the farmhouse ahead.⁵⁵

Nid yw iaith yn ddigonol ynnddi'i hun, felly, i fynd â'r bardd i ben y daith. O ganlyniad, er mor ymroddedig yw'r bardd i eiriau, nid yw'n ddull absoliwt ar gyfer disgrifio'r byd 'o rannau' ym mhrofiad y bod dynol.

Ar ddechrau ei gyrfa farddonol, gwelir bod Lewis yn ceisio cymodi rhwng yr ysbrydol a'r bydol. Fel y nododd Angharad Price ynglŷn â'r elfen bellach o daith: 'A hithau'n fardd trosgynnol ar batrwm Rainer Maria Rilke yn y *Duineser Elegian*, tramwyo'r llwybr hwn rhwng y bydol a'r ysbrydol a wna yn ei cherddi'.⁵⁶ Y mae'r ymchwil i ddeublygrwydd bydol ac ysbrydol iaith i'w gweld gliriaf yn y gyfrol Gymraeg *Cyfrif Un ac Un yn Dri* a'r gyfrol Saesneg *Parables and Faxes*.

Ymestyn y tu hwnt i ffyrdd uniongyrchol o weld y byd yw prif thema'r gyfres 'Cyfannu' yn y gyfrol Gymraeg. Mae'r gerdd 'Y Drych' yn sôn am awydd llefarydd y gerdd i bontio rhwng dau

⁵⁵ Gwyneth Lewis, "'Whose Coat is that Jacket? Whose Hat is that Cap?'" *The Art of Deep Translation*, yn W. N. Herbert a Matthew Hollis (goln.), *Strong Words: Modern Poets on Modern Poetry* (Tarsset: Bloodaxe Books, 2000), t. 269.

⁵⁶ Price, 'Chwarae Geiriau fel Gwyddbwyll', t. 115.

fyd, y presennol gwrthrychol a'r byd a wêl y tu hwnt i'r drych, 'lle ni chlywid syrffed y cloc / yn pwnio'r oriau'n ddiwrnodau llac'.⁵⁷ Gall y drych, gwrthrych allanol, adlewyrchu'r llefarydd yn fwy cyflawn nag y'i gwêl ei hun; hiraetha'r llefarydd am y gallu annibynnol mewnol i fedru ei hadnabod ei hun ac eraill. Darlunia'r gerdd ddilynol, 'Bedydd yn Llanbadarn 1843', fedydd trochiad Margaret Ann, ac archwilir yma unwaith eto y daith rhwng y corff a'r ysbrydol. Pan gaiff ei throchi, fe wêl y ferch 'holl bwysau / a hanes y dŵr / yn gyffro / rhyngddi hi a'r pregethwr', gan greu dehongliad swrreal ohoni'n gweld y byd mewn ffordd amgen o dan y dŵr. Disgrifir y dyrfa yn gynulleidfa sidêt i'r weithred, fel pe baent yn anymwybodol o arwyddocâd cosmig y bedydd:

Chwifiodd ei chwaer ei pharasól,
ac yng nghrisial y Rheidol
'roedd y saint fel blodau ar hyd y lan
a llewod Rhagluniaeth
yn crwydro'n eu plith
ac yn rhuo'u bendith
hyd at Aberystwyth,

a hi a'r gweinidog
yn gwisgo'r dŵr
fel sanau hosanna
ac yn gwylio dau fyd –
un plwyfol, un nefol –
yn dyfod ynghyd...⁵⁸

Defnyddir y weithred o fedydd trochiad fel symbol o dramwyo'r ffordd rhwng y bydol a'r nefol. Dethlir yma weithred sy'n galluogi Margaret Ann i brofi'r ffin rhwng y realiti gyffredin o'i chwmpas a'r realiti uwch, a daw'r gerdd i uchafbwynt gyda'r gymhariaeth gynganeddol, 'fel sanau hosanna', lle gwêl y ferch a'r gweinidog y dŵr – nid heb gyffyrddiad o hiwmor hefyd - mewn ffordd amgen – yn rym adnewyddol, ysbrydol, dathliadol.

Yng nghyswllt y defnydd o gynghanedd, noda Lewis mewn cyfweiliad â Richard Poole y bu i Alan Llwyd, wrth olygu'r gyfrol *Cyfrif Un ac Un yn Dri*, ddweud wrth Gwyneth y medrai, wrth wneud ambell fân newid, droi llinell ddigynghanedd yn un gynganeddol. Gwrthododd Lewis yr awgrym. Meddai: 'the sense is always more important than the sound and also I wanted the lines to have the

⁵⁷ Lewis, *Cyfrif Un ac Un yn Dri*, t. 31.

⁵⁸ *Ibid.*, tt. 33-4.

openness of imperfection to them'.⁵⁹ Ac eto, mae Lewis yn hoff o ddefnyddio elfennau arddull a welir mewn barddoniaeth Gymraeg – ‘musicality, precision, wit and the joy of form’⁶⁰ – er mwyn cyflwyno elfen ddieithr i’w barddoniaeth Saesneg. Felly, gwelir nad rhywbeth ymylol yw ffurf a thechnegau barddoniaeth Lewis ond rhan integral o’i phrosiect o feddiannu’r safle amwys hwnnw, chwedl Bhabha, er mwyn creu llais newydd, un sy’n ddieithr ac eto’n gyfarwydd. Nid yw’n torri ar draws confensiynau barddoniaeth; yn hytrach fe’u dethlir fel rhan o’r *milieu* diwylliannol y cyfranogir ohono er mwyn adlewyrchu’r mynegiant newydd.

Yng ngherddi’r gyfres ‘Parables and Faxes’, ymchwilir i’r deuoliaethau sy’n cael eu creu gan bobl a’r ystrydebau sy’n deillio o hynny. Ymestynnir yr ymchwiliad i gynnwys idiomau’r cerddi eu hunain, sy’n cynrychioli dwy ffordd wahanol o ddehongli, ac sydd felly’n ffurfio sgwrs rhwng ei gilydd. Mewn cyfres o bum cerdd ar hugain, labelir rhai cerddi yn ‘fax’ ac eraill yn ‘parable’, a cheir epillog fel y gerdd olaf. Ceir dwy idiom, felly, yn ôl Huw Jones: ‘rhai uniongyrchol, personol, yn defnyddio ‘fi’ y bardd, a rhai mwy anuniongyrchol yn dweud stori’r bardd yn nhermau rhywbeth arall’.⁶¹ Cyfeddyf Lewis mai strategaeth seithug, er hyn, yw’r confensiwn o ddweud ‘fi’ ac mai perfformiad yw’r ddwy idiom mewn gwirionedd: ‘erbyn y diwedd ro’n i fy hun yn methu â dweud y gwahaniaeth rhwng “parable” a “fax” ac yn sylweddoli nad oedd dim un yn well na’r llall, bod y ddwy arddull mor ffaeledig â’i gilydd’.⁶²

‘Fax’ yw cerdd gyntaf y gyfres, ac ynddi cyflwynna Lewis ddarlun yn llais y person cyntaf, o’i mam yn fabi ac yn eistedd ar lin ei chwaer a chwch gwenyn y tu ôl iddynt. Disgrifir y cwch gwenyn fel ‘stanza’ ac mae’r wenyne sy’n glanio yn masnachu’r stamen ym myd geometreg crwybr y cwch: ‘We are all transformers: we change what we see / into sap and succour’.⁶³ Yn y ‘ffacs’ hwn, y dechreubwynt yw llun o fam y persona ond fe’n harweinir gan ffrwythlondeb creadigol y dychymyg ar daith tu hwnt i’r pwynt hwnnw. Defnyddir y cwch gwenyn fel trosiad am fathau o drawsffurfiad – rhwng cenedlaethau, rhwng atomau a neutrionau, rhwng geiriau mewn sgwrs – a fedr newid emosiynau, siapiau ac aflonyddu’r byd. Mae’r ‘hymian’ gan y gwenyn a glyw’r bardd ar ddechrau a diwedd y gerdd yn drosiad am symudiad parhaus y gwyddonol a’r ysbrydol sydd tu hwnt i ddeall dynion gan fod caead y cwch yn ei le. Drwy hyn oll, ymdeimla llefarydd y gerdd â chyfrinachau’r teulu ond ni fedr ddeall yn union beth yw’r gyfrinach.

⁵⁹ Poole, ‘Gwyneth Lewis in Conversation’, t. 51.

⁶⁰ *Ibid.*

⁶¹ Huw Jones, ‘Parabl a Ffacs’, *Taliesin*, 91 (Hydref 1995), t. 70.

⁶² Baines, ‘Byd yr Ymylon’, t. 41.

⁶³ Lewis, *Parables and Faxes*, t. 50.

Mewn amryw gerddi yn y gyfrol *Parables and Faxes*, dengys Lewis ei rhyfeddod ynghylch sut y mae gwrthrych yn medru cael ei drawsffurfio i olygu neu fod yn rhywbeth arall. Gwna hyn mewn dwy ffordd, er enghraifft, yn y gerdd ‘Golf-Course Resurrection’: yn gyntaf, yn y modd y gosodwyd y cwrs golff ar fynydd mewn ardal ôl-ddiwydiannol, ac yn ail, yn y darlun o’r gweithwyr dur sydd yn awr yn chwaraewyr golff. Yn arwyddocaol, disgrifir y trawsffurfiad hwn fel ‘cyfieithiad’:

These men have been translated from the grime
of working the furnace with its sulphur and fire
into primary colours and leisurewear.⁶⁴

Yn ôl y bardd, dyma ‘gyfieithu’ yn ei ystyr o drosi gwrthrych o un cyd-destun i gyd-destun arall. Darlunnir trawsffurfiad o fath arall yn y gerdd ‘Old Statues’ Park in Budapest’, lle mae cerfluniau arweinwyr comiwnyddol yr Hwngari Sofietaidd wedi eu trawsnewid o fod yn wrthrychau i’w clodfori a’u gwasanaethu yn bethau, medd y bardd, sydd wedi eu cywilyddio, eu casglu mewn parc a’u gorfodi i wrando ar ddynion sy’n ysmegu tu ôl iddynt. At hyn, medd y bardd, ‘they’re forced to see / a concrete-mixer decide their history’.⁶⁵ Caiff eu hen arwyddocâd ei drawsffurfio’n llwyr yng nghyd-destun yr oes bresennol i olygu rhywbeth arall; mae gan y bardd ddiddordeb yn y modd y caiff gofodau a symbolau sy’n arwyddo rhywbeth penodol mewn un oes eu hailddechongli gan ddeiliaid y gofod neu’r symbolau mewn cyfnod diweddarach.

Mae’r gerdd ‘V Dark Ages’ yn rhan o’r gyfres ‘Parables and Faxes’ ac ymdrinia’r gerdd â hunaniaeth a chenedl. Cymerir golwg chwareus ar yr ystrydebau ynghylch perthynas yr Eingl-Sacsoniaid a’r Cymry. Defnyddir ieithwedd sy’n gysylltiedig â bywyd yr Oesoedd Canol er mwyn mynd i’r afael â’r thema o gymeriad rhesymol yr Eingl-Sacsoniaid (‘fax’) a dychymyg y Celtiaid (‘parable’). Er y gellid dadlau fod y thema’n un dreuliedig, o fewn fframwaith y gyfres maent yn magu ystyr ehangach:

Saxons are vertical,
circles we,
hence the mutual hostility.
They climb, we spiral;
who shall be
the better in their eternity?

⁶⁴ *Ibid.*, t. 26.

⁶⁵ *Ibid.*, t. 73.

Curls tend to churls
while ladders rise;
they are legs and we the eyes
that watch the progress of the earls
across the skies
over the clods they patronise.⁶⁶

Gresyna'r bardd na ellir siarad am y berthynas rhwng y Cymry a'r Saeson heb syrthio'n bendramwnwgl i hen ddadleuon ystrydebol. Mae'r bardd yn cysylltu'r Celtiaid â chylchoedd a'r gylchfan, a'r Eingl-Sacsoniaid â heol syth y draffordd. Yn y gerdd hon, mae Lewis yn chwarae â'r ystrydebau cenedlaethol cyfarwydd, gan eu tanseilio trwy gyfrwng eironi. Mae'r gerdd yn amlygiad o amcan cyffredinol y gyfres 'Parables and Faxes', sef chwalu ffyrdd deuol o feddwl. Dywed y bardd am y gerdd hon: 'what I was attempting was a calm, clear-eyed look at the reality of the balance of power in both cases. This seems to me to be far more useful than accusation or hysteria'.⁶⁷

Ceisir datrys yr ymgiprys rhwng y ddwy idiom yng ngherdd olaf y gyfres, 'Epilogue'. Disgrifir cyfarfyddiad rhwng 'Parable' a 'Fax' a gaiff eu personoli fel dau sant, y naill yn dod o gyfeiriad y gorllewin a'r llall o'r dwyrain, ac fe'u gwelir yn dadlau ynghylch cyfyngiadau y ddwy idiom:

Said Fax to Parable: 'How can you guess
what all you see can begin to mean?'
And Parable back: 'How can you bless
the chaotic surface that resists the sign?'⁶⁸

Ar ddiwedd deialog idiom y 'parable' a'r 'fax', ni all yr un ohonynt fynegi gweledigaeth gyflawn, a rhaid gwneud yr hyn a fedrant gyda'u 'provisional praise' a'u 'partial vision'.⁶⁹ Mae'r ddwy idiom fel ei gilydd yn gallu mynd â'r bardd ar drywyddau newydd o fynegiant, ond anghyflawn ydynt yn y diwedd, oherwydd fel y cyfeiriodd Price, '*deferred presence*'⁷⁰ yw arwyddion ysgrifenedig iaith dyn yn wyneb realiti y Gair. Er nad yw 'parable' na 'fax' yn ennill, gan y 'parable' y mae'r 'emotional logic', yn ôl y bardd, i fynd ar y daith tuag at yr ysbrydol. Gellir dadlau fod Lewis yn

⁶⁶ *Ibid.*, t. 54.

⁶⁷ Poole, 'Gwyneth Lewis Talks to Richard Poole', t. 26.

⁶⁸ Lewis, *Parables and Faxes*, t. 76.

⁶⁹ *Ibid.*, t. 77.

⁷⁰ Price, 'Chwarae Geiriau fel Gwyddbwyll', t. 117.

adleisio'r beirdd metaffisegol yn y ffordd y ceisia uno neu bontio rhwng yr emosiynol a'r rheswm gwyddonol. Yn ôl un adolygydd o'r gyfrol *Parables and Faxes*, nid yw'r gyfres yn argyhoeddi oherwydd bod y thema'n rhy amlwg a syml, a dywed fod y teitl yn fwy addas i gyfres flaenorol yn y gyfrol sef 'Illinois Idylls'.⁷¹ Yn y gyfres hon, ceir epigraff ar y cyd â phob cerdd. Dadl Keith Silver yw fod yr epigraff hwn yn ymddwyn fel 'parable' a'r gerdd ei hun fel 'fax' ac yn cyflawni amcanion y bardd yn fwy deheuig nag yn achos y gyfres 'Parables and Faxes' ei hun. Mae'r gerdd gyntaf yn dwyn yr epigraff: '*No idyll's reached without the gravest difficulty*',⁷² a chyfosodir â hynny daith a wneir gan ferch ar awyren, er nad yw hi am gyrraedd pen y daith: 'She has drunk the compass, but its north swings home'. Yn y gyfres hon o gerddi, ystyrir grym y cyflwr 'rhwng', ac unwaith eto awgryma'r bardd mai'r daith ei hun yw'r allwedd i ddatguddiad pellach, yn hytrach na chyrraedd pen y daith.

Ymdrinnir â thema'r daith rhwng y bydol a'r ysbrydol yn ail gyfrol o gerddi Lewis yn y Gymraeg, *Cyfrif Un ac Un yn Dri*. Cynnyrch a anfonwyd i gystadleuaeth y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym 1994 yw'r gyfres 'Dolenni'. Dywedodd un o'r beirniaid, Dafydd Johnston, am y bardd: 'Hwn sydd wedi myfyrio helaethaf am destun gosodedig y gystadleuaeth, ac sydd fwyaf dyfeisgar yn datblygu'r posibiladau ynddo'.⁷³ Egyr y dilyniant â cherdd sy'n myfyrio ar llythyren addurnedig mewn llawysgrif hynafol o'r Ysgrythur. Bu i'r bardd gynnwys llun o'r llythyren addurnedig ar ddechrau'r gyfres 'Dolenni', felly gellid dadlau fod y gerdd hon yn un ecffrastig. Cyfeirir at y dolenni a luniwyd gan y mynachod o gwmpas y llythyren ddechreuol ac at y dyn sydd wedi ei glymu ynddynt: 'Dyma ddechrau'r Ysgrythur: gŵr mewn perth / a'i gnawd ar ddrain / dolenni, troeon cain / llythrennau aur mynachod'.⁷⁴ Ailadroddir strwythur y llinellau drwy gydol y gerdd, gan ddechrau pob delwedd â'r gair 'dyma'; dwg hyn i gof y dechneg farddol o 'ddyfalu' wrth iddi ganu mawl i'r gwrthrych delweddol. Mae'r bardd yn pentyrru disgrifiadau o'r llythyren ysgrifenedig sy'n dal Duw ei hun yn gaeth yn nolenni'r geiriau yn y llawysgrif:

dyma ffawd y Gair

mewn drysni geiriau;

dyma Dduw yn ei gau

ei hun mewn brawddeg; dyma friwiau cŵyr [*sic*]

ar groen y memrwn, dyma ben

huodledd – cans yn fras,

⁷¹ Keith Silver, 'Scents', *PN Review*, 106, 22, 2 (Tachwedd/Rhagfyr, 1995), t. 61.

⁷² Lewis, *Parables and Faxes*, t. 14.

⁷³ Dafydd Johnston, 'Cerddi Y Crëyr Glas', *Barddas*, 209/210 (Medi/Hydref 1994), t. 28.

⁷⁴ Lewis, *Cyfrif Un ac Un yn Dri*, t. 13.

mewn gwaed, y mae gramadeg gras
yn llunio'r cymalau yng nghystrawen poen.⁷⁵

Trwy gyfeirio at ddwyfoldeb ac 'alffa dawn', cyfeiria'r bardd at y logos, sef y grym dwyfol y credir i Grist ei ymgorffori sef y 'Gair', ac yma, caiff y Gair ei ymgorffori'n wrthrych mewn llawysgrif, sef arwydd ysgrifenedig. Serch hynny, y mae dolenni'r arwyddion ysgrifenedig yn caethiwo'r dyn yn y llythyren addurnedig ac mae'r Gair ei hun 'mewn drysni geiriau'. Mae'r goblygiadau yn ddeublyg: ar y naill law, cyfyngedig yw grym geiriau i drosglwyddo'r synnwyr o'r tragwyddol y dymunir estyn tuag ato drwy'r geiriau ar y memrwn. Ni all y geiriau ond pwyntio tuag at gyflawnder grym y Gair a'r realiti sy'n fwy nag iaith. Dywed Angharad Price ynglŷn â'r cod ysgrifenedig: 'Cyfrwng "eilradd" a thros dro ydyw cyn cyrraedd yr hyn a alwai George Steiner yn "*real presence*"'.⁷⁶ Ar y llaw arall, mae'r gair ysgrifenedig yn fodd o geisio ymgynraedd at y Gair trwy eiriau; hynny yw, mae grym y geiriau yn medru 'ail-greu'r byd' drosodd a throsodd, ac mae gweithred y mynaich o roi'r geiriau ar femrwn yn golygu y bydd grym yr hyn a gaewyd yn yr ysgrifenedig yn parhau. Ar ddiwedd y gerdd dywedir fod 'gramadeg gras' a'r 'cymalau yng nghystrawen poen' yn arwyddo cydblethiad y tragwyddol a'r gwaith dynol sydd yn y memrwn. Oherwydd hyn, mae cwlwm yr enaid yn gymysg o'r daearol ddynol a'r tragwyddol – y tensiwn parhaus sy'n cael ei amlygu gan y llun o'r dyn wedi ei glymu yn yr addurn.

Mae'r ail a'r drydedd gerdd yn y gyfres 'Dolenni' hefyd yn trafod grym y gair ysgifenedig mewn dau gyd-destun hollol wahanol. Defnyddir y ddelwedd o fynaich yn copïo llawysgrifau yn eu celloedd yn yr ail gerdd er mwyn creu trosiad ynghylch sut y mae DNA yn ei gopïo ei hun drosodd a throsodd, a sut y gallai unrhyw wallau yn y cyswllt hwn arwain at gancr.⁷⁷ Fel yr oedd geiriau yn drosglwyddyddion rhannol o'r ysbrydol yn y gerdd ddiwethaf, mae DNA yn trosglwyddo gwybodaeth fanwl y corff er budd ei iechyd a'i barhad. Yn wahanol i ddeddfau natur a bioleg, mae deddfau iaith yn annibynadwy ac ni ddylid ymddiried yn llwyr ynddynt oherwydd nid yw'n absoliwt.

Darlun o blentyn chweblwydd yn dysgu siâp llythrennau a geir yn nhrydedd gerdd y gyfres, ac yna'r dysgu dolennu rhwng llythrennau:

Chwe blwydd oed ac abwyd yw'r tafod
yn dilyn ysgrifbin ar daith ar hyd 'a'

⁷⁵ *Ibid.*

⁷⁶ Price, 'Chwarae Geiriau fel Gwyddbwyll', t. 117.

⁷⁷ Lewis, *Cyfrif Un ac Un yn Dri*, t. 14.

nes i'r llais ei adnabod, ei yngan a'i fwyta.

Y mae 'g' yn rhes o gynffonnau mwncïod

ar gangen y llinell yn clebran yn braf

â'r llafariaid isod, deiliaid mewn sw

o oglau diddorol.⁷⁸

Unwaith eto, gwelir yma chwarae â'r syniad o'r 'arwydd' a'r 'arwyddydd'; mae pob gair neu llythyren neu arwydd yn golygu rhywbeth gwahanol i bawb, a darlunnir hyn yn ei fodd mwyaf elfennol gan y plentyn yn y gerdd. I'r plentyn, cynrychiola pob llythyren anifail gwahanol, ac wrth iddo wneud y cysylltiadau hyn rhwng llythyren a llun fe'i galluogir i ddysgu llunio'r llythrennau. Y dolenni yn y gerdd hon yw'r dolenni a ffurfia'r plentyn rhwng y llythrennau er mwyn ysgrifennu geiriau; mae 'pob gair yn breswylfa', hynny yw, yn gartref i'r hyn y mae'r gair yn ei gynrychioli iddo. Disgrifir y gallu i ysgrifennu brawddegau ar eu hyd yn nhermau taith – cerbyd yw'r llythrennau bellach yn 'brysio ar hyd / y ffyrdd, at faestrefi anghynefin', yn hytrach na bod yn wrthrychau esthetig er eu diben eu hunain. Yn y cerddi o'r gyfres 'Dolenni', felly, mae'r gwrthrychau dolennol – y Gair addurnedig, y DNA a'r dolenni geiriau – yn lleoliadau ar gyfer trawsffurfiad; nid gofodau llonydd mohonynt ond yn hytrach ddolenni sy'n ymgyrraedd at rywbeth arall.

Mae cyfrol ddiweddaraf Gwyneth Lewis, *Sparrow Tree*, yn ailymweld â'r testun ynghylch perthynas iaith a'r hunan goddrychol. Y dechreubwynt y tro hwn yw cân adar, ac yng nghyswllt ieithwedd adar trafodir pynciau megis dementia:

Words have migrated

I forget their calls.⁷⁹

Cyffelybir adar i eiriau sy'n fodd i'r bardd wrthrychu geiriau fel endidau teithiol nad yw eu "harwyddion" na'u "harwyddydd" fyth yn aros yn llonydd. Dro ar ôl tro, dychwela'r bardd at adar fel dechreubwynt ei cherddi, ac yma crëwyd cerdd yn archwilio i iaith adar a'r modd y cyfathrebant â'i gilydd:

Dusky junco, dusky junco, jay,

Towhee, testy towhee, testy towhe go

⁷⁸ *Ibid.*, t. 15.

⁷⁹ Gwyneth Lewis, *Sparrow Tree*, t. 13.

Swallow, swallow, swallow, swift,
Culture, give me cultured kite. Oh no⁸⁰

Yma ceir datblygiad i'r syniad a drafodir yn y gerdd 'Dechrau'r Anghofio' yn y gyfrol *Y Llofrudd Iaith* sef y berthynas rhwng adar ac iaith (gofynnir yn y gerdd honno a effeithir adar gan farwolaeth yr iaith Gymaeg), sydd yn ei dro yn codi cwestiynau ynghylch ffurfiant iaith a sut y ffurfir synnwyr yn sgil hynny. Adlewyrcha sain y gerdd synau'r adar, ac efallai yr awgrymir bod synau ar eu mwyaf elfennol yn dweud mwy wrthym am ddyheadau'r goddrych na phentyrrau o eiriau. Yn olaf, mae ailymweld â geiriau drwy gyfrwng creaduriaid sy'n medru croesi ffiniau yn adlais o un o obeithion y bardd ynghylch ei phrosiect barddol ei hun:

I think that freedom of travel over the border is crucial in this process...I'm for no passport control and an open road!⁸¹

* * *

Mae rhan nesaf gyrfa Gwyneth Lewis yn cymryd cam tuag at wyddoniaeth. Coledda Lewis wyddoniaeth fel ffordd cyn ddilysed â llenyddiaeth o ddarlunio bywyd. Cred y gall y ddeubeth helpu ei gilydd, nid yn unig yn y ffordd y maent yn trin eu pwnc, ond yn y modd y medr y meddwl gwyddonol gynorthwyo bardd i gyfansoddi cerdd. Mewn ysgrif dan y teitl 'Double Exposure', mae Lewis yn disgrifio sut yr aiff ati i greu delwedd sy'n mynd â'r dychymyg y tu hwnt i'r disgwylidig: 'If simile is a conventional weapon, then metaphor is a nuclear device'.⁸² Y trosiad yw'r grym sydd gan farddoniaeth i wneud darganfyddiadau newydd a dod i gyflawnach ddealltwriaeth o'r byd, fel y mae gwyddoniaeth yn ei wneud. Dengys Lewis fod defnyddio ieithwedd sydd wedi ei chymryd o fyd gwyddoniaeth yn cyfoethogi geirfa ac yn ymestyn posibiliadau'r dychymyg. Dadleuir nad hen theorïau y dylid eu defnyddio ond geiriau newydd o'r labordy, a'u gosod mewn cerddi. Wrth osod geiriau newydd mewn trosiad ar y cyd â syniadau o faes gwahanol, gellir dod o hyd i ddelweddau a fydd â'r gallu i danseilio strwythurau neu ffyrdd strwythuredig o feddwl:

By making unlikely alliances between vastly different objects and freeing them from the space and

⁸⁰ *Ibid.*, t. 12.

⁸¹ Poole, 'Gwyneth Lewis in Conversation', t. 55.

⁸² Gwyneth Lewis, 'Double Exposure', *Poetry Review*, 86, 2 (1996), t. 8.

time which divides them, metaphor totally undermines the importance of both dimensions.⁸³

Nid yn unig y mae gan Lewis ddiddordeb mewn herio ffiniau a disgysiau pobl, ond hefyd y gofod a'r amser lle y defnyddir iaith er mwyn ymestyn golygon barddoniaeth. Mewn ysgrif arall ar farddoniaeth a thechnoleg, honnodd Lewis fod 'gwyddoniaeth a thechnoleg yn rhan o faes llafur y bardd'⁸⁴ gan ddadlau bod angen i'r bardd ymgyfarwyddo â'r darganfyddiadau diweddaraf a'u defnyddio yn ei gwaith er mwyn ysgaru barddoniaeth oddi wrth y gelyn hwnnw, ystrydeb. Pwysleisia mewn ysgrif am berthynas technoleg a barddoniaeth fod angen y gwyddonydd ar y bardd er mwyn i'r meddwl creadigol 'ymwneud â darganfyddiadau diweddaraf y byd dynol. Dyma'r profiadau diwylliannol a gwyddonol sydd bellaf oddi wrth emosiynau ac ieithwedd ystrydebol'.⁸⁵

Dyma un o'r rhesymau paham y bu i Lewis fynd ati i astudio ffiseg ar gyfer llunio'r gyfres 'Zero Gravity' yn y gyfrol o'r un enw, ac amlygir y thema honno o daith wrth i olygfeydd y cerddi symud o'r gofod i'r rhyngwrld, o wely angau i ganolfan NASA. Mae'r bardd yn cyfosod tair golygfa wahanol er mwyn archwilio'r ffiniau rhwng y corff a'r gofod, sef golygfeydd o ofodwr (cefnder i Gwyneth Lewis) yn mynd ar daith i'r gofod, gwyllo'r comed *Hale Bopp* yn gwibio drwy'r awyr ac ymweld â chwaer-yng-nghyfraith a oedd yn marw o gancr ar yr un pryd. Yng ngherdd 'XV' y casgliad 'Zero Gravity', gellir gweld sut y mae Lewis yn defnyddio'r odl broest i roi ffurf a rhythm i gerdd, lle y byddai odl gyflawn, o bosibl, wedi bod yn rhy amlwg a phendant yn y gerdd ar ei hyd. Disgrifia'r bwloch a deimla wedi i'w chwaer-yng-nghyfraith farw tra gwylia'r bardd symudiadau'r sêr yr wythnos honno yr un pryd:

Last sight of the comet. The sky's a screen
riddled with pinpricks, hung in between

me and what happened – a room not quite
hidden from me. Hale-Bopp's light

says something dazzling's taking place beyond,
involving moving. My mind

is silver nitrate, greedy for form

⁸³ *Ibid.*, t. 10.

⁸⁴ Gwyneth Lewis, 'Gair am Eiriau', *Llais Llyfrau*, Haf 1997, t. 4.

⁸⁵ Gwyneth Lewis, 'Barddoniaeth a Thechnoleg', yn Angharad Price (gol.), *Chwileniwm: Technoleg a Llenyddiaeth* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2002), t. 104.

but I fail to grasp it here in this gloom.⁸⁶

Ysa persona'r gerdd am gael gweld beth sy'n digwydd yn y dirgel, y symudiadau cosmig sy'n digwydd wrth i'w chwaer-yng-nghyfraith adael y byd, a'r campau gwyddonol a naturiol sy'n ymwneud â hanfodion ffiseg. Nid ymchwil am yr ysbrydol yn unig yw'r gyfres hon, felly, ond awydd i ddeall yn well y rheswm tu ôl i'r ffiseg sy'n trosglwyddo egni o un peth i'r llall, y tu hwnt i ffiniau bywyd y peth hwnnw. Yn y gyfres hon, mae'r bardd yn gwau'r teithiau drwy ei gilydd wrth iddi ystyried y grymoedd gwyddonol sydd y tu ôl i'r cyfan. Sylwi'n arbennig ar rym trosglwyddol ffiseg a wna, y grym sy'n galluogi ysbryd neu egni ffisegol ei chwaer-yng-nghyfraith i hedfan gyda Hale Bopp:

now she's free

of her rubbish,

explodes on the eye

that perceives faint objects

on an inner sky.⁸⁷

Os bu teithiau rhwng yr hunan a'r ysbrydol – y tu hwnt – yn destun i Lewis, mae'r bardd bellach yn meddiannu'r gofod ac am wybod sut y daw popeth ynghyd yn wyddonol ac yn ysbrydol. Adleisir delweddau'r gyfres hon yn y gerdd 'Cân y Gofotwr' yn y Gymraeg ddwy flynedd ynghynt yn *Cyfrif Un ac Un yn Dri*. Gall y gofod hyd yn oed drawsffurfio emosiynau mamol:

llithrodd diffyg cariad yn heuldro haf

o ongl arall, a phob tynnu'n groes

yn fflach seryddiaeth newydd, cytgord lleddf

cyn ailadnabod yr alaw hynaf –

priodas bydoedd yng nghyffresi'r sêr,

anthem dawns osgeiddig amser.⁸⁸

Gwelir olion dechreuol y gyfres 'Zero Gravity' yn y gerdd hon. Fel bardd sy'n ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg, bydd cerddi ganddi yn aml yn adleisio ei gilydd o ran testunau. Nid trosi profiad y bardd i iaith a geir yn unig felly, ond hefyd aildrosi yn ôl ag ymlaen rhwng y ddwy iaith. Yn y cyswllt hwn, nododd Geraint Evans: 'Mae peth o'i chynnyrch llenyddol mewn dwy iaith

⁸⁶ Gwyneth Lewis, *Chaotic Angels* (Tarset: Bloodaxe, 2005), t. 95.

⁸⁷ *Ibid.*, t. 89.

⁸⁸ Lewis, *Cyfrif Un ac Un yn Dri*, t. 55.

bellach yn ffurfio un cynnyrch plethog, ac ni ellid ystyried yn feirniadol y cerddi mewn un iaith heb fod yn ymwybodol o'r cerddi yn yr iaith arall'.⁸⁹ Comisiynwyd Lewis i ysgrifennu nofel, a gyhoeddwyd yn 2011, sef *The Meat Tree* a oedd yn gofyn am drosiad o fath gwahanol eto – sef trosi un o storïau'r Mabinogi yn nofel gyfoes. Trawsblannwyd y Bedwaredd Gainc i gyfnod yn y dyfodol ac mae'r cymeriadau ar daith arbrofol ar long-ofod. Unwaith eto, gwneir defnydd o wyddoniaeth a'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn dod i ganfyddiadau newydd a all ymestyn y dychymyg. Meddai Lewis yn ôl-nodyn y nofel:

I've heard poets argue that today poetry is a force that opposes technology. I believe that poetry itself is one of the earliest technologies and that the imagination is a form of virtual reality. I wanted to explore the way in which a certain kind of Celtic mythology is used in computer games and to deploy the convention to make a broader point about the imagination. I particularly wanted to look at the shadow side of the creative mind, the way in which it can consume as well as generate. Every writer is a meat tree of sorts'.⁹⁰

* * *

Ym mis Mai 1997, cynhaliwyd cynhadledd ar bwnc cyfieithu llenyddiaeth gan y cylchgrawn *Tu Chwith*. Un o'r prif ddadleuon a gafwyd yn ystod y gynhadledd oedd honno rhwng dau fardd, Gwyneth Lewis a Twm Morys, ynglŷn â gwerth cyfieithu. Datganodd Twm Morys yn groch nad oedd yn bleidiol i gyfieithu llenyddiaeth Gymraeg i iaith arall, fel y mae wedi datgan nifer o droeon eraill wedi hynny, a hynny oherwydd ei gred fod ei farddoniaeth wedi ei throchi yn iaith a diwylliant y Gymraeg, ac felly ofer yw unrhyw ymgais i'w throsi am na fydd cynulleidfa wahanol yn deall cyd-destun y farddoniaeth yn llawn. Ym marn Lewis, ar y llaw arall, mae gwerth aruthrol i gyfieithu barddoniaeth er mwyn cyfoethogi ac ymestyn gorwelion llenyddiaeth yr iaith y cyfieithir iddi. Mewn cyfweliad cyfamserol â'r chylchgrawn *Tu Chwith*, meddai:

Rwy'n credu bod cyfieithu yn hollol allweddol i iechyd unrhyw ddiwylliant, gan ei fod yn ein galluogi ni i gwrdd â meddyliau dieithr iawn yn sŵn ein iaith ein hunain. Fe fydden ni [*sic*] hyd yn oed yn dadlau bod barddoniaeth ei hun yn fodd o gyfieithu'r trydan synhwyrus a ddaw o ryw

⁸⁹ Geraint Evans, 'Gwyneth Lewis a'r *Llofrudd Iaith*', t. 44.

⁹⁰ Gwyneth Lewis, *The Meat Tree* (Bridgend: Seren Books, 2010), t. 252-3.

brofiad arbennig o'r tawelwch i fewn i gyfrwng iaith, felly mae'n rhan o ruddun [*sic*] barddoniaeth ei hun. Byddai'n bywyd bychmygol [*sic*] ni yn dlawd iawn heb gyfieithu.⁹¹

Yn yr un cyfweiliad, amlinella Lewis yr hyn a wêl fel rôl y bardd a'i safbwynt hi fel bardd dwyieithog ynglŷn ag iaith. Yn gyntaf, esbonia ei bod fel bardd sy'n gweithio mewn dwy iaith yn sylweddoli bod mwy nag un gair ar gyfer popeth, sy'n golygu bod mwy nag un ffordd o weld y byd. Cerbyd yw geiriau er mwyn trosglwyddo profiad neu weledigaeth – nid oes iddynt bwysigrwydd ynddynt eu hunain yn nhyb y bardd, ac felly cyfryngau ydynt.⁹² Yn ail, pwysleisir nad gweithred wleidyddol-ddiwylliannol yw ysgrifennu iddi, ond 'r(h)eidrwydd seicolegol'.⁹³ Hynny yw, nid y gallu i siarad Cymraeg sydd wedi ei chymell i farddoni ond ei dymuniad hi ei hun: yn ôl Lewis, cymhelliad yr hunan yn unig i ysgrifennu sy'n mynd i esgor ar gerddi o werth artistig. Yn olaf, cydnebydd fod y tensiwn diwylliannol o ysgrifennu mewn dwy iaith wedi achosi pryder iddi ond ei bod yn teimlo fod hawl ganddi, fel dinesydd ('citizen'), i leisio barn trwy gyfrwng gwleidyddiaeth yn hytrach na defnyddio barddoniaeth i wneud hynny. Atega'r farn honno mewn cyfweiliad arall: 'I've never got over the feeling that writing in two languages is a hazardous activity, culturally and psychologically. But this lack of comfort might be a great asset for a poet'.⁹⁴ Wrth ymgymryd â'r ddadl hon, felly, pryder Lewis yw fod gormod o ddisgwyliad ar farddoniaeth Gymraeg i fynegi gwleidyddiaeth ddiwylliannol benodol. Cais Lewis ysgaru'r disgwyliad i ymostwng i ddisgwrs wleidyddol oddi wrth y weithred o greu barddoniaeth, gan bwysleisio mai cyfrwng yw iaith. Serch hynny, dywed fod y tensiwn o gyfryngu rhwng dychymyg ac iaith, rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn densiwn sy'n gallu bod yn sbardun creadigol i ymchwilio i nifer o feysydd gwahanol.

Dyma agor maes newydd o deithiau, sef ymchwiliad Lewis i gydymdreiddiad iaith a chorff.⁹⁵ Un o gerddi cynharaf Lewis sy'n ymdrin yn benodol â'r berthynas rhwng iaith a chorff yw 'Welsh Espionage', sy'n ymddangos yn y gyfrol *Parables and Faxes*. Ar ddiwedd y gerdd cawn wybod fod y fam a'r tad wedi addo peidio â dysgu Saesneg i'w merch tan ei bod hi'n bedair oed, ond yr olygfa a geir yn ystod y gerdd yw'r tad yn rhoi gwersi Saesneg yn gyfrinachol i'w ferch, heb yn wybod i'r fam lem:

Welsh was the Mother tongue, English was his.
He taught her the body by fetishist quiz,
father and daughter on the bottom stair:

⁹¹ Angharad Price, 'Tu Chwith yn holi Gwyneth Lewis', *Tu Chwith*, 8 (1997), t. 55.

⁹² *Ibid.*, t. 54.

⁹³ *Ibid.*

⁹⁴ Gregson, 'Negotiations', t. 53.

⁹⁵ Price, 'Chwarae Geiriau fel Gwyddbwyll', t. 113.

'Dy benelin yw *elbow*, dy wallt di yw *hair*'...

...'Let's keep it from Mam, as a special surprise.

Lips are *gwefusau*, *llygaid* are eyes.⁹⁶

Awgrymwyd fod y gerdd hon yn rhoi argraff o gam-drin rhywiol oherwydd y pwyslais ar y ffaith fod y tad am gadw'r cyfarfodydd iaith yn gyfrinach oddi wrth y fam, sydd wedi gwahardd dysgu'r Saesneg i'r ferch tan y bydd yn dechrau'r ysgol. Gellir dadlau y cysylltir y syniad o ymwneud â iaith neu ieithoedd eraill gwaharddedig â gweithred rywiol, ond yn sicr man ymrafael y ddwy iaith â'i gilydd yw'r corff. Daw'r ieithoedd yn rhannau o'r corff drwy'r 'fetishist quiz'. Fel y noda Nerys Williams, y mae'r ddwy iaith fel pe baent yn ymryson am bŵer ac amlygrwydd o fewn y gerdd.⁹⁷ Anodd yw peidio ag ystyried y gerdd hon fel un huangofiannol wrth gofio am sylwadau Lewis am gael ei magu yn ddwyieithog: 'I still feel guilty about being Daddy's girl and writing in English'.⁹⁸ Mae beirniadaeth Jane Aaron o'r gerdd yn ddiddorol yn y cyswllt hwn. Pryder Aaron yw y gallai'r gerdd hon gael ei darllen gan gynulleidfa Saesneg fel darlun ystrydebol o ddiwylliant Cymraeg fel un marw sy'n cael ei gynnal gan griw bychan o biwritaniaid ieithyddol. Meddai Aaron: 'For all the evident pain behind this poem, I'm afraid that it will be associated in many readers' minds with anti-Welsh, "Education First" ideas, particularly given that there is little else in the volume to alleviate this impression; it contains no further references to contemporary Welsh-language culture'.⁹⁹ Er mai bwriad Lewis yw dangos perthynas y ddwy iaith â chorff y sawl sy'n meddu arnynt, mae peryg yma wrth bortreadu'r Gymraeg fel iaith sy'n gorthrymu perthynas y plentyn â'i thad, a thrwy hynny, gellid dadlau bod Lewis yn atgyfnerthu'r union ystrydebau y cais eu dymchwel.

Enillodd y gyfrol *Y Llofrudd Iaith* wobwr Llyfr y Flwyddyn yn 2000. Enynnodd y llyfr gryn ddiddordeb oherwydd plot nofel dditectif, *genre* yr *whodunnit*, a addaswyd yn y fan hon yn gyfrol o gerddi er mwyn ymchwilio i ddirgelwch annisgwyl: pwy neu beth a laddodd yr iaith Gymraeg. Cymeriad o gig a gwaed yw'r iaith Gymraeg yn y casgliad – y famiaith – ac mae'r ditectif Carma, sy'n hanner Cymro a hanner Siapanead, yn ymchwilio i'r llofruddiaeth gan ddod i gasgliadau go anarferol. Mae 37 o gerddi yn y casgliad yn olrhain bywyd y famiaith ac yn datgelu cyfrinachau wrth i'r ditectif ymchwilio i'w chefnidir mewn pentref gwledig, cyfweld â'i dwy ferch – y Bardd a'r Archifydd – a'i mab gordderch, sef y ffarmwr lleol, a holi'r pentrefwyr a'r patholegydd er mwyn dod

⁹⁶ Lewis, *Parables and Faxes*, t. 42.

⁹⁷ Williams, 'Gwyneth Lewis: Taboo and Blasphemy', t. 26.

⁹⁸ Lewis, "'Whose Coat Is that Jacket? Whose Hat Is That Cap?'"', t. 59.

⁹⁹ Jane Aaron, 'Review', *Poetry Wales*, 31, 2 (1995), t. 61.

i gasgliadau gwyddonol. Yn 2003, fe gyhoeddodd Gwyneth Lewis addasiad Saesneg o'r casgliad Cymraeg, sef 'The Language Murderer', sy'n rhan o'r gyfrol *Keeping Mum* (2003). Un ar ddeg o gerddi yn unig sydd yn y gyfres hon, a dim ond pump o'r rheini yn gyfieithiadau o'r gwreiddiol, gan gynnwys cyfieithiad Richard Poole o 'Y Munudau Ola'. Mae gweddill y gyfrol, 'Keeping Mum: Memoir of a Psychiatrist' a 'Chaotic Angels', yn archwiliadau newydd o'r pwnc dan sylw, sef iaith a sut y ffurfia ein bodolaeth.

Yn y rhagair i'r gyfrol *Keeping Mum*, esbonia Lewis fod y syniad o golli diwylliant cyfan yn 'existential nightmare' i siaradwr Cymraeg, 'fraught with questions of one's own responsibility in preserving collective values without becoming a parrot for the past. To most English speakers, it can't seem any more important than the loss of Morris dancing'.¹⁰⁰ Penderfynodd y bardd addasu'r casgliad o gerddi Cymraeg i'r Saesneg oherwydd mater ecoleg iaith yn ehangach, gan lunio cymhariaeth â phlanhigion sy'n wynebu difancoll. Y mae'n werth dyfynnu yn y cyswllt hwn yr hyn a ddywed Lewis am y broses o addasu 'Y Llofrudd Iaith' i'r Saesneg:

The first section of *Keeping Mum* represents as much of *The Language Murderer* as I was able to translate in a fairly direct fashion. Only a handful of the poems are literal versions. Richard Poole translated 'Her End' in consultation with me. Revisiting the subject stimulated entirely new poems in English, and I allowed those to take shape. These are translations without an original text – perhaps a useful definition of poetry.¹⁰¹

Buddiol yma fyddai mynd drwy gyfres 'Y Llofrudd Iaith' a 'The Language Murderer' (ynghyd â 'Keeping Mum' lle y mae hynny'n berthnasol) er mwyn ystyried sut yr aiff Lewis ati i ddarlunio'r materion hyn yn ei cherddi Cymraeg a'i cherddi Saesneg.

Egyr y gyfres Gymraeg â'r gerdd 'Cyffes y Bardd', a'r gyfres Saesneg ag 'A Poet's Confession'. Llais y Bardd sydd yma, sef merch y famiaith, ac er y datganiad cychwynnol – 'Fi lofruddiodd yr iaith Gymraeg'¹⁰² / 'I did it. I killed my mother tongue'¹⁰³ – tanseilir hynny gan amwysedd y llinellau dilynol sy'n awgrymu mai euogrwydd sy'n gyrru'r bardd i gymryd cyfrifoldeb am y weithred. Datblyga'r gerdd Saesneg mewn modd rhywfaint yn wahanol i'r gerdd Gymraeg oherwydd fe gywasgwyd y gyfres Saesneg i 11 cerdd; darperir yr wybodaeth yn y gerdd Saesneg ('She was highly strung, / quite possibly jealous'), yn hytrach na'r awgrymu cynnil yn y fersiwn

¹⁰⁰ Gwyneth Lewis, *Keeping Mum* (Tarsset: Bloodaxe, 2003), t. 9.

¹⁰¹ *Ibid.*, t. 10.

¹⁰² Gwyneth Lewis, *Y Llofrudd Iaith* (Llandybïe: Cyhoeddiadau Barddas, 1999), t. 7.

¹⁰³ Lewis, *Keeping Mum*, t. 13.

Gymraeg.

Yn yr ail gerdd yn y gyfres Gymraeg, cyflwynir y prif gymeriad, sef y ditectif Carma, sy'n mynd i archwilio'r dystiolaeth yn lleoliad y llofruddiaeth. Mae 'Lluniau Fforensics' yn enghraifft o'r symud o un olygfa graffig i'r llall a gawn yn y gyfres, sy'n adleisio dull y nofel dditectif yn llwyddiannus. Portreadir Carma fel ditectif craff a chlinigol, ac mae'r asesiad oeraidd hwn o'r dystiolaeth yn cyflawni ymgais Gwyneth Lewis i fwrw golwg gwyddonol ar y ffactorau sy'n cyfrannu at dranc yr iaith Gymraeg. Meddai Lewis:

Ffordd o roi llawer o safbwyntiau gwahanol am iaith at ei gilydd yw'r gerdd hon (nifer o [sic] rheiny'n rhai nad ydw i'n bersonol yn cytuno â nhw) mewn ymdrech i ehangu termau'r drafodaeth. Er enghraifft, mae'n hawdd iawn beio ffactorau allanol am ddirywiad yr iaith. Penderfynais ofyn i ba raddau y mae pob un ohonom yn gyfrifol, gan gynnwys beirdd. Fe synnodd rhai o'r atebion fi. 'Rwy'n teimlo ei bod hi'n bwysig iawn ar ddechrau cyfnod y Cynulliad nad ydyn ni'n ofni gofyn cwestiynau anodd iawn i ni'n hunain am beth yw'n gwerthoedd ni fel cenedl i fod.¹⁰⁴

Yng nghyswllt *genre* yr *whodunnit*, cydymffurfir â'r confensiwn o bortreadu'r ditectif fel mewnllyn ac allanolyn ar yr un pryd: hynny yw, ei fod mewn sefyllfa ddigon cyfarwydd i fedru deall a dehongli'r hyn sy'n digwydd i'r gymuned dan sylw, ond yn ddigon pell ei berthynas er mwyn dadansoddi'n feirniadol. Daw mam Carma o Fae Colwyn, felly medra'r Gymraeg, ond cafodd ei fagu yn Siapan, sef gwlad ei dad, gan dreulio cyfnod fel mynach Zen yn Kyoto. Un o'r cwestiynau rhethregol a ofynna yw 'Beth yw'r corff / ond math o gymdeithas?',¹⁰⁵ cwestiwn sy'n adleisio nod Lewis o archwilio'r berthynas rhwng corff ac iaith a hunaniaeth gymunedol neu genedlaethol. Cred Lewis fod iaith yn rhan annatod o'r corff dynol a noda y byddai colli iaith yn achosi poen corfforol enbyd:¹⁰⁶ dyma, felly, gefndir trafod y Gymraeg yn nhermau corfforol y fam-iaith.

Nid yw'r ditectif yn cael lle blaenllaw yng ngherddi 'The Language Murderer' – yn wir, un o nodweddion y gyfres Saesneg yw aneglurdeb ynghylch pwy yw llefarydd y gerdd a beth yw'r cyd-destun. Nid amcenir yn 'The Language Murderer' i ddilyn y syniad o'r *genre whodunnit* i'r pen fel yn y Gymraeg, ond o ddarllen y ddwy gyfres ochr yn ochr, mae'r gyfres Saesneg yn dioddef oherwydd nad oes naratif glir i'w dilyn, dim ond neidio o un olygfa i'r llall heb y cyd-destun a

¹⁰⁴ Alan Llwyd, 'Holi Gwyneth Lewis ar achlysur cyhoeddi "Y Llofrudd Iaith"', *Barddas*, 255 (Tachwedd/Rhagfyr/Ionawr 1999/2000), t. 18.

¹⁰⁵ Lewis, *Y Llofrudd Iaith*, t. 11.

¹⁰⁶ Gweler ei hysgrif am y drafodaeth gyflawn: Gwyneth Lewis, 'Llawlyfr y Llais', *Taliesin*, 126 (Gaeaf 2005), tt. 26-33.

gynigir yn y cerddi Cymraeg. Dim ond tair cerdd sydd ym mhersona'r ditectif yn 'The Language Murderer', sef 'Farm Visit', 'Aphasia' a 'Brainstorming'. Oherwydd diffyg presenoldeb y ditectif yn y gyfres Saesneg, sy'n golygu diffyg cyd-destun ynghylch y golygfeydd a gyflwynir fel tystiolaeth, mae Lewis yn gadael i'r darllenwyr gamu i mewn i esgidiau'r ditectif ac yn gadael iddyn nhw wneud y dehongli eu hunain. Teg yw gofyn a yw hyn yn strategaeth addas o gofio y bydd mwyafrif darllenwyr 'The Language Murderer' yn anghyfarwydd â chyd-destun y Gymraeg ac yn ddibynnol ar y darluniau o ddiwylliant Cymraeg a gyflwyna Lewis iddynt. Hanner ffordd trwy'r gyfrol Gymraeg cyflwynir cerdd dan yr enw 'Adroddiad y Patholegydd' sy'n crynhoi y tair ffordd bosibl y gellid bod wedi llofruddio'r famiaith:

Dadansoddiad:

Dioddefodd y gwrthrych o leiaf dair
ffordd o drengi. Fel arfer mae dwy
yn ddigon i berswadio corff
i aros yn farw. Anodd coelio nerth
ewyllys hon a'r hunan-werth
a'i cadwodd yn fyw. Sut mae lladd iaith?
A oes ganddi gorff
a all garu, cenhedlu, dewis peidio â bod?¹⁰⁷

Mae cymeriad yr archifydd, merch arall y famiaith a chymeriad llai emosiynol na'r bardd, yn hollol absennol o'r gyfres Saesneg. Pedair cerdd hollol wreiddiol sydd yn 'The Language Murderer' sef 'Home Cooking', 'Small Holding', "'My Father was Distant'" a 'Brainstorming'. Mae'r gerdd 'Home Cooking' yn adrodd profiad cymeriad y bardd o gael ei thwylo gan ei mamiaith yn blentyn ar ôl iddi ddweud celwydd am gael lifft adref o'r mynydd. Dangosir ochr wahanol i gymeriad y famiaith, sef y celwydd yr oedd yn fodlon ei ddweud wrth ei merch:

Her world was folded, she had a gift
for swiftness, sweetness and for telling lies.
My faith in directness was undermined.¹⁰⁸

Yn yr un modd, mae Lewis yn tanseilio'r darlun o'r iaith Gymraeg fel yr iaith ddilychwin a pharchus: hynny yw, ni all iaith feddu ar foesau oherwydd cyfrwng yw hi, felly mae modd ymddwyn yn anfoesol hyd yn oed trwy gyfrwng y Gymraeg. Gwneir yr un pwynt yn y gyfres 'Y

¹⁰⁷ *Ibid.*, t. 21.

¹⁰⁸ Lewis, *Keeping Mum*, t. 17.

Llofrudd iaith' pan ddangosir fod gan y famiaith nifer o gyfrinachau, megis y mab gordderch, y ffermwr, nad oedd hyd yn oed wedi dweud wrtho mai hi oedd ei fam. Y mae'r ffermwr yn ffordd o gyflwyno trafodaeth ynghylch y Gymru wledig a sut y caiff dirywiad amaethyddiaeth gymaint o effaith ar y Gymraeg. Yn y gyfres, mae stoc y ffermwr wedi ei heintio â BSE, a fydd yn ergyd fawr i economi'r gymuned, ac o ganlyniad, i iaith y gymuned.

Pedair cerdd sy'n cyfateb yn union yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg, sef: 'Cyfweliad â'r Bardd' / 'Mother Tongue'; 'Dechrau'r Anghofio' / 'What's in a Name?'; 'Bratiaith' / 'Aphasia'; ac 'Y Munudau Olaf' / 'Her End'. Mae 'Mother Tongue' yn darlunio cymeriad y bardd fel 'language fetishist' a sut y cafodd ei themtio er pan oedd yn ifanc i arbrofi ag ieithoedd – ar wahân i'r Gymraeg – a hynny yn nhermau arbrofi â chyffuriau a rhyw. Dyma ddelwedd drawiadol oherwydd uniaethir dysgu iaith ar wahân i'r Gymraeg â'r ymwneud â deunydd gwaharddedig. Yng ngeiriau'r gerdd Gymraeg gyfatebol, 'Cyfweliad â'r Bardd':

O edrych yn ôl, rwy'n beio'r cyfieithu.
Dechreuais yn un naw saith deg tri
ar iard yr ysgol. Dim ond tipyn o sbri
oedd e i ddechrau – ambell i reg
am y wefr – *fuck off* – a hoffais deimlo mwg
ail iaith yng nghefn fy llwnc a brath
chwerw ei gemeg.¹⁰⁹

Caiff y ddelwedd hon o gysylltu chwant ieithyddol â phleser gwaharddedig ac, yn ddiweddarach, â chwant rhywiol ('For a language fetishist like me / sex is part of the problem'), ei chynnal mewn cerddi eraill yn y gyfres, megis 'Dadl rhwng Carma a'r Bardd': 'Y drwg yw, Ditectif, nad oes modd / cysgu â phob un. Does 'run dyn / nad yw'n apelio yn ei ffordd ein hun'.¹¹⁰ Tynnodd Ruth McElroy hefyd sylw at y cyfod hwn a'r modd y traethir 'stories of language and loyalty in highly sexualised terms'.¹¹¹ Ac fel y nododd Jane Aaron, gallai cerdd fel 'Mother Tongue' yn Saesneg atgyfnerthu ystrydebau ynghylch cynhalwyr piwritanaidd y Gymraeg ac ynghylch siaradwyr yr iaith fel cymuned gaeëdig sydd yn erbyn newid a datblygiad. 'I went Welsh-only but it was bland / and my taste was changing. Before too long / I was back translating',¹¹² meddai'r bardd yn y gerdd, sy'n adleisio geiriau Lewis ei hun:

¹⁰⁹ *Ibid.*, t. 14.

¹¹⁰ *Ibid.*, t. 30.

¹¹¹ Ruth McElroy, 'The Rhyming Detective', t. 22.

¹¹² Lewis, *Keeping Mum*, t. 15.

There are political pressures associated with both English and Welsh. In English it's hard not to feel that 'Welsh' material is boring, or marginal. In Welsh it's easy to feel disloyal to the oppositional element in Welsh-language society. I believe strongly, though, that the only kind of poetry that's going to be valuable to either is one which is most true not to things as I would like them to be, but to things as I see they are, and that being the most open, generous and piercing view possible.¹¹³

Yn y cerddi 'Welsh Espionage' a 'Mother Tongue,' caiff teimladau o euogrwydd ac anffyddlondeb tuag at iaith eu mynegi mewn termau corfforol a rhywiol – naill ai drwy enwi a chyfieithu rhannau o'r corff, sydd ynghlwm wrth awgrym o gamdriniaeth rywiol, neu arbrofi rhywiol. Ystyria'r Bardd y defnydd a wna o ieithoedd eraill yn odineb, ac mae'r Archifydd yn cyfrif y berthynas a gaiff â Meddyg di-Gymraeg fel un o'r ffactorau y tu ôl i lofruddiaeth y fam-iaith. Mae ymdrin â mater o ddewis ymwybodol o iaith ar wahân i'r Gymraeg gan ddefnyddio ieithwedd godineb a themau rhywiol yn dadlennu mater mor bryderus yw'r ymwybyddiaeth o anffyddlondeb diwylliannol i Lewis.

Mae'r cyfieithiad Saesneg o'r gerdd 'Dechrau'r Anghofio' / 'What's in a name?' hefyd yn codi cwestiynau ynghylch sut y bydd cynulleidfa heb ddealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg yn darllen y cerddi hyn. Ystyrir sut na fyddai colli iaith, er colli'r holl enwau ar fyd natur, yn effeithio nemor ddim ar yr adar eu hunain:

Heddiw trodd y sigl-di-gwt
yn *wagtail*.
Gwyliais yn ofalus
wrth i wasg y nant
symud papurau newyddion y dydd
i lawr o'r mynyddoedd
i'w rhwygo'n rhacs
ym mheiriant y pentref.¹¹⁴

Caiiff yr arddull uniongyrchol a welir yn y gerdd Gymraeg ei throsi'n rhigwm yn y fersiwn Saesneg o'r gerdd, a defnyddir yn y modd hwn odl er mwyn tynnu mwy o hiwmor i mewn i'r gerdd:

Lleian Wen is not the same as 'smew'
because it's another point of view,

¹¹³ Poole, 'Gwyneth Lewis in Conversation', t. 50.

¹¹⁴ Lewis, *Y Llofrudd Iaith*, t. 22.

another bird. There's been a cull:
gwylan's gone and we're left with 'gull'

and blunter senses till that day
when 'swallows', like *gwennol*, might stay away.¹¹⁵

Fel yn y gerdd 'Welsh Espionage', mae'r geiriau Cymraeg yn y gerdd yn ymryson am rym gyda'r enwau Saesneg. Pwysleisir pwynt Lewis yma ynghylch y ffaith bod enwau gwahanol ieithoedd am anifeiliaid yn magu ystyron diwylliannol gwahanol ym mhob iaith. Mae ffordd unigryw y Gymraeg o edrych ar y byd yn diflannu wrth i'r enwau ddiffannu yn ogystal. Cyfyd y pwynt ehangach yma hefyd sef bod y gerdd Gymraeg, 'Y Llofrudd Iaith', yn y Gymraeg: er bod yr iaith wedi marw o fewn y stori, Cymraeg yw cyfrwng y cerddi. Fel y dywed Jerry Hunter wrth Gwyneth Lewis: 'Rydych yn eu cyfuno [y Famiaith a'r iaith] drwy gyfrwng y stori ac eto'n gwahaniaethu rhwng y stori a'r sefyllfa gymdeithasol y mae'n drafodaeth arni'.¹¹⁶ Efallai fod y sylw hwn yn help i esbonio'r naws wahanol sydd i'r gyfres Saesneg gyfatebol oherwydd nad yw'r paradocs a oedd yn bodoli ynghylch trafod marwolaeth y Gymraeg yn y Gymraeg yn bosib yn y Saesneg - yr union iaith sy'n bygwth difodiant i'r Gymraeg. Mae 'What's in a Name?' yn defnyddio ffurf y rhigwm er mwyn i'r odlau ychwanegu hiwmor i'r dweud: o ganlyniad mae'r gerdd Saesneg yn llawer mwy digrif ei naws, bron fel petai'n jôc o ryw fath. Serch hynny, dadleua Nerys Williams fod Lewis yn defnyddio hiwmor er mwyn ymdrin â phynciau tensiynus, megis pwnc yr iaith: 'Humour...liberates anxiety, releases pleasure and importantly in Lewis's poetry allows her to celebrate the multiple identities that different models exert'.¹¹⁷ Mater sensitif iawn yw ymdrin â marwolaeth y Gymraeg trwy gyfrwng y Saesneg yn null 'The Language Murderer', a gellid dadlau mai un ffordd o ymdopi â natur anodd y pynciau dan sylw yw'r strategaeth o ddefnyddio ffraethineb.

Dwy gerdd arall sy'n cyfateb i'w gilydd yw 'Y Munudau Olaf' a 'Her End', sy'n disgrifio marwolaeth y famiaith mewn termau graffig iawn, chwedl y gerdd Gymraeg:

Torrodd argae tu mewn
ac roedd gwaed ym mhobman. Allan o'i cheg
daeth rhaeadrau o eiriau *da yw dant*
i atal tafod, gogoniannau'r Tad

¹¹⁵ Lewis, *Keeping Mum*, t. 14.

¹¹⁶ Jerry Hunter, 'Ar Drywydd y Llofrudd Iaith', *Taliesin*, 107 (Hydref 1999), t. 26.

¹¹⁷ Williams, 'Gwyneth Lewis: Taboo and Blasphemy', t. 27.

mewn blodau ysgarlad – yn *Abercuawg*
*yd ganant gogau...*¹¹⁸

Llifa geiriau ac idiomau allan o'r famiaith fel hylifau corfforol. Perthnasol yw cyfeirio yma at y modd y mae Ian Gregson yn cyfeirio at theori Kristeva ynghylch y dirmygedig, a gaiff ei ddefnyddio mewn astudiaethau llenyddol i greu theori am hunaniaeth gorfforol a *gender*. Dywed Gregson: “‘Her End’ diagnoses the Welsh language as being in an abject condition so that it is invaded by the sickness of poisonously alien materials and is moribund, with blood, vomit, pus, saliva and sweat bursting out of her at the same time as italicized Welsh words’.”¹¹⁹ Yn y cyswllt hwn, mae Gregson yn cymharu ymdriniaeth Lewis a'r Gymraeg â gwaith Toni Morrison ‘who is also thoroughly preoccupied with racial identity’.¹²⁰ Cafodd y gymhariaeth hon gan Gregson ei beirniadu gan Daniel Williams, sy'n tynnu sylw at duedd beryglus ymysg gwaith academiaidd yn yr iaith Saesneg i uniaethu materion ieithyddol yn ymwneud ag iaith a materion yn ymwneud â hil:

Those equating the Welsh language with race ultimately deny the possible existence of a multicultural society expressing itself through the medium of Welsh. Language is perceived as being as ‘closed’ a system as race. Once a language dies, it can move from being a mode of communication to becoming a symbolic marker of ethnicity. Symbolic language functions like race – it is a practice or characteristic of past generations which cannot be opened up to new members in the present. A living language, however, in Balibar’s terms, ‘immediately naturalizes new acquisitions’.¹²¹

Ymhellach, mae'r dyfyniad isod gan Gwyneth Lewis yn gwneud cysylltiadau anffodus wrth gyfystyru'r iaith Gymraeg â nodweddion diwylliannol a ystyrir yn geidwadol ac adweithiol, tra ar y llaw arall darlunnir y Saesneg fel cyfrwng sy'n hawdd ei addasu ar gyfer anghenion yr artist modern:

The two literary traditions are of distinctly different characters. The Welsh is like an Asian mother-in-law who thinks things should be done strictly according to tradition. The English to me is the new young wife – pliable, open-minded and very seductive.¹²²

Mae cerddi Cymraeg *Y Llofrudd Iaith* yn llwyddiannus yn y ffordd y cais Lewis annog trafodaeth

¹¹⁸ Lewis, *Y Llofrudd Iaith*, t. 41.

¹¹⁹ Ian Gregson, *The New Poetry in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2007), t. 73.

¹²⁰ *Ibid.*

¹²¹ Daniel G. Williams, ‘Another Lost Cause? Pan-Celticism, “Race” and Language’, papur anghyodeddig, 2009.

¹²² Dafydd Johnston (gol.), *Modern Poetry in Translation: Welsh Issue* (London: King's College, 1995), t. 80.

ynghylch yr iaith Gymraeg. Datblyga'r bardd y thema wyddonol yn ei gwaith wrth ymdrin â sefyllfa'r Gymraeg – a hynny ar ddechrau cyfnod newydd yn hanes Cymru ym 1997 – drwy geisio edrych yn wrthrychol-ddadansoddol ar y ffactorau sy'n lladd iaith. Portread dirmygus a geir o'r famiaith, oherwydd mae ar Lewis eisiau pwysleisio na ddylid monopoleiddio'r iaith Gymraeg â syniadau penodol ynglŷn â'r hyn yw Cymreictod. Dyma ymgais gan y bardd i weld sefyllfa'r iaith Gymraeg 'o rannau'; y mae'n rhan o brosiect ehangach Lewis i osgoi cymell un math o fydolwg yn unig: 'Of course, the refusal of one point of view in language also has a political dimension, because if you're not entrenched in the code which is nearest at hand to you, then you have a chance of taking in more of the world'.¹²³

Wrth addasu *Y Llofrudd Iaith* i'r Saesneg, penderfynodd Lewis fod angen 'radical recasting' o'r fersiwn Gymraeg: cafwyd ganddi hefyd, ar ffurf darlun o driniaeth seiciatryddol mewn ysbyty, y gyfres 'Keeping Mum (Memoirs of a Psychiatrist)', sydd wedi ei chyhoeddi ar y cyd â 'The Language Murderer'. Try'r ditectif yn seicolegydd yn y gyfres newydd ac archwilir sut y mae camdriniaeth o iaith wedi arwain at salwch y cleifion. Y mae 'Keeping Mum' yn cynnwys yn agos at ddwbwl y nifer o gerddi sydd yn 'The Language Murderer', ond mae'n cynnwys dau lais yn unig, sef y seiciatrydd gwrywaidd a'r claf benywaidd. Cynrychiola 'Keeping Mum' driniaeth ddadansoddol (drwy'r tapiau a'r nodiadau sy'n creu naratif feddygol o broses y driniaeth) – proses sy'n wrthrychol ac yn allblygol ar yr un pryd. Yn y cyswllt hwn, meddai Alice Entwistle am y gyfres 'Keeping Mum': 'in the quasi-narrative of the twenty lyrics making up the sequential process of the encounters through which we are obliquely invited to read and/or investigate her (and Wales') problematically dual cultural situation, Lewis emerges as both analysed and analyst, both subjectively bound into and yet freed by her professional objectivity from the abused and abusive nature of language in mediating cultural identity'.¹²⁴ Wrth gofio bod Lewis wedi derbyn triniaeth seiciatryddol ei hun, ceir ymwybyddiaeth fod y bardd yn ymhlyg yn nhaith emosiynol y seiciatrydd drwy'r gyfres yn ogystal ag yn nhaith y claf sy'n marw yn gyfamserol ag ymddeoliad ei ddoctor. Yn ogystal, wrth graffu ar y darlun o drais geiriau a'r modd y'u camdriniwyd, gellir edrych ar 'The Language Murderer' yng ngoleuni 'Keeping Mum' fel ymgais Lewis i ymarfer therapi wrth iddi geisio dadansoddi perthynas gymhleth iaith â'i hunaniaeth bersonol.

Mae Gwyneth Lewis, felly, yn llais newydd yn yr ystyr ei bod yn gosod disgwrs hunaniaethol y dinesydd sydd am gael y rhyddid i ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd wrth galon ei phrosiect barddol. Gellir dadlau fod datblygiad y disgwrs hwn yn gysylltiedig â'r syniadaeth

¹²³ Gregson, 'Negotiations: Gwyneth Lewis Interviewed by Ian Gregson', tt. 55-6.

¹²⁴ Alice Entwistle, "'A Kind of Authentic Lie': Authenticity and the Lyric Sequence in Gwyneth Lewis's English Language Poetry", *Life Writing: Exploring the Contemporary Meanings of Life Narrative*, 6, 1 (Ebrill, 2009), t. 40.

ynghylch cymdeithas sifig sydd wedi dod i rym ers ennill y bleidlais ddatganoli ym 1997, a'r twf o ganlyniad i'r syniad y gall hunaniaeth fod wedi ei hadeiladu ar seiliau'r sifig (yn seiliedig ar ddinasyddiaeth gyffredin cenedl-wladwriaeth) yn hytrach nag yn seiliedig ar hunaniaeth ethnig, sef yr union syniadau diwylliannol am ffyddlondeb ac anffyddlondeb tuag at iaith y cais Lewis ei rhyddhau ei hun oddi wrthynt a'u dadansoddi'n wyddonol yn 'Y Llofrudd Iaith'.

Pennod 6

Y Nam Perffaith: Cyfieithu / Trosi Cerddi Menna Elfyn o'r Gymraeg i'r Saesneg

Caiff hanes cyfieithu ei nodweddu, yn anad dim, gan y tensiwn rhwng dau fotiff cyferbyniol: ffyddlondeb a brad. Y mae'r gair 'translate', *translatio* yn Lladin, yn gyffredinol yn golygu trosglwyddo, cludo ar draws; ystyrir yr hyn a gollir ac a enillir pan drosir testun o un iaith i iaith arall. Awgrymir dadleoliad corfforol gan y termau hyn, ac mae'r un peth yn wir am y term Almaeneg – 'übersetzen'. Cyfyd y weithred o gyfieithu nifer o gwestiynau ynghylch gwerthoedd diwylliannol, anghydraddoldeb gwleidyddol ac economaidd, dewisiadau unigolion, ac arallrwydd neu ddieithrwrch y testun a gyfieithwyd yn ffurfiau llenyddol a diwylliannol yr iaith y cyfieithir iddi.

Dadleuodd Louis Kelly fod tair elfen gyson yn bresennol mewn theori cyfieithu: 'specification of function and goal; description and analysis of operations; and critical comment on relationships between goal and operations'.¹ Yn ystod hanes cyfieithu, dadleua, y mae un o'r egwyddorion hyn wedi tra-arglwyddiaethu ar y lleill mewn gwahanol gyfnodau a chyd-destunau o gyfieithu. Dadleua Lawrence Venuti mai'r egwyddor bwysicaf yw annibyniaeth ('autonomy') y cyfieithiad, hynny yw, nodweddion sy'n gwahaniaethu'r cyfieithiad oddi wrth y testun gwreiddiol yn ogystal â chonfensiynau ieithyddol yr iaith y cyfieithir iddi. Meddai Venuti: 'These complicated features and strategies are what prevent translating from being unmediated or transparent communication; they both enable and set up obstacles to cross-cultural understanding by working over the foreign text'.² Dywed ymhellach y gellir ystyried theori cyfieithu fel '[a] set of changing relationships between the relative autonomy of the translated text, or the translator's actions, and two other

¹ L. G. Kelly, *The True Interpreter: A History of Translation Theory and Practice in the West* (Oxford: Blackwell, 1979), t. 1.

² Lawrence Venuti (gol.), *The Translation Studies Reader* (London: Routledge, 2009: ailargraffiad), t. 5.

categories: equivalence and function'.³ Gellir ystried cywerthedd ('equivalence') fel y gyfatebiaeth rhwng y testun wedi ei gyfieithu â'r testun gwreiddiol, o ran cywirdeb, hunaniaeth, a ffyddlondeb i'r gwreiddiol. Mae'r egwyddor o bwrpas ('function') yn rhoi pwyslais ar nod y cyfieithiad o fewn y diwylliant sy'n darllen y cyfieithiad hwnnw; y mae a wnelo hyn ag effeithiau cymdeithasol cyfieithiadau sy'n ceisio hyrwyddo agenda benodol a lledaenu syniadau mewn iaith wahanol. Dywed Venuti, fel Kelly, fod bri wedi'i roi i un o'r elfennau hyn yn fwy na'r lleill, a bod yr elfen a oedd yn llywodraethu wedi amrywio mewn gwahanol gyfnodau o hanes cyfieithu:

In some periods, such as the 1960s and 1970s, the autonomy of translation is limited by the dominance of thinking about equivalence, and functionalism becomes a solution to a theoretical impasse, the impossibility of fixing relations of equivalence for every text type and every translation situation. In other periods, such as the 1980s and 1990s, autonomy is limited by the dominance of functionalisms, and equivalence is rethought to embrace what were previously treated as shifts or deviations from the foreign text.⁴

At hyn, dywed Kelly fod dwy ragdyb sylfaenol ynghylch iaith yn llywio dull y cyfieithydd: y cyfryngol a'r hermeniwtiaid.⁵ Os gwelir iaith fel cyfrwng yn bennaf, bydd y cyfieithiad yn rhoi pwyslais ar gyfathrebu'n uniongyrchol a chyfatebiaeth â'r gwreiddiol, heb roi sylw i bwrpas y cyfieithiad. Os gwelir iaith mewn termau hermeniwtiaid, bydd y cyfieithiad yn ddehongliad creadigol o'r gwreiddiol gyda'r nod o geisio cyfleu effaith gymdeithasol y gwreiddiol.

Ers trafodaeth Friedrich Schleiermacher ar rôl cyfieithu yn y broses o hyrwyddo cenedligrwydd Almaenig, mae cyfieithu wedi tynnu sylw at faterion diwylliannol – er enghraifft, y lleol, perthynas cenedl â chenedloedd tramor a newidiadau mewn grym rhwng gwahanol ddiwylliannau. Cytuna cyfieithwyr fod rhaid meddu ar ymwybyddiaeth o werthoedd ieithyddol penodol a dealltwriaeth ddiwylliannol er mwyn trosglwyddo un system ieithyddol i mewn i system ieithyddol arall. Dywedodd Schleiermacher yn ei draethawd 'On the Different Methods of Translating' (1813) ei fod o blaid cyfieithu llythrennol, gair am air, oherwydd creu'r strategaeth hon effaith

³ *Ibid.*

⁴ *Ibid.*, t. 6.

⁵ Kelly, *The True Interpreter*, t. 1.

ddieithr yn y testun: iddo ef, nod cyfieithiad oedd creu delwedd a oedd yn cynnwys gwybodaeth ‘a man who is well acquainted with the foreign language, yet to whom it remains nonetheless foreign’.⁶ Yr oedd Schleiermacher ymhlith nifer o gyfieithwyr i’r Almaeneg a oedd yn gweld cyfieithu clasuron Groeg i’r Almaeneg fel ffordd o gyfoethogi’r iaith gan eu dehongli yn ôl agenda’r cyfieithydd. Strategaeth oedd hon er mwyn codi cenedl – drwy’r iaith a llenyddiaeth Almaeneg – a gorchfygu tra-arglwyddiaeth Ffrainc dros diroedd Almaeneg eu hiaith. Mae ei safbwynt yn codi cwestiynau ynghylch y berthynas rhwng yr iaith wreiddiol a’r iaith y cyfieithir iddi: faint o arallrwydd y testun gwreiddiol y dylid ei gyfleu yn y cyfieithiad? A ddylid dileu rhai elfennau o’r testun er mwyn gwneud y cyfieithiad yn fwy hygyrch i’r gynulleidfa darged?

Pwysleisiodd theorïwyr yr ugeinfed ganrif yn gyson amhosibilrwydd ‘cludo’ ystyr, fel yr awgryma’r term *translatio*, o un iaith i’r llall. Ceir haenau o ystyron hanesyddol a chymdeithasol, delweddaeth graffig a chlywedol, o fewn pob iaith. Mae strwythur unigryw iaith yn golygu fod realiti gymdeithasol yn cael ei chreu gan yr iaith honno, fel y dywed Edward Sapir:

No two languages are ever sufficiently similar to be considered as representing the same social reality. The worlds in which different societies live are distinct worlds, not merely the same world with different labels attached.⁷

Sylwodd Roman Jakobson, wrth geisio adnabod mathau gwahanol o gyfieithu, na chyflawnir y nod o ffyddlondeb llawn rhwng y gwreiddiol a’r cyfieithiad, ac felly bod yn rhaid cyfleu’r testun gwreiddiol mewn modd creadigol:

Only creative transposition is possible: either intralingual transposition – from one poetic shape into another, or interlingual transposition – from one system of signs into another, e.g. from verbal art into music, dance, cinema or painting.⁸

Roedd gwaith Saussure yn allweddol wrth ddangos fod pob gair yn symboleiddio rhywbeth gwahanol i bob person a diwylliant.⁹ Os nad yw iaith gyn symled â pheth

⁶ Venuti, *The Translation Studies Reader*, t. 19.

⁷ Dyfynnwyd yn Susan Bassnett, *Translation Studies* (London: Routledge, 1991), t. 13.

⁸ *Ibid.*, t. 15.

sy'n meddu ystyron absoliwt sy'n wybyddus yn fyd-eang, ni all cyfieithu fyth fod yn drosglwyddiad 'glân' o gynnwys semiotig. Yn yr amherffeithrwydd hwn, mae cyfieithu yn darparu ffordd ieithyddol o bontio'n ddiwylliannol ac yn caniatáu cyfnewid deallusol.

Yn y cyswllt hwn, mae Walter Benjamin yn ystyried fod pob iaith yn 'fragments of a greater language, just as fragments are part of a vessel'.¹⁰ Dadl Benjamin yw y dylid gwrthod ystyried ffyddlondeb fel prawf o lwyddiant cyfieithiad: yn hytrach dylid gweld cyfieithu fel ymgais at harmoni rhwng ieithoedd, lle mae gwahaniaethau a *différance*, chwedl Derrida, yn dargyfeirio ystyron yn barhaus. Awgrymir, felly, fod cyfieithu yn rhan o broses greadigol barhaus ac y caiff iaith ddynol uwch ei hamgyffred trwy'r weithred o gyfieithu. Meddai Benjamin:

A real translation is transparent; it does not cover the original, does not black its light, but allows the pure language, as though reinforced by its own medium to shine upon the original all the more fully. This may be achieved, above all, by a literal rendering of the syntax which proves words rather than sentences to be the primary element of the translator. For if the sentence is the wall before the language of the original, literalness is the arcade.¹¹

Yma mae Benjamin yn adfywio syniad Schleiermacher ynghylch rhoi blas dieithr o'r diwylliant mewn cyfieithiadau, lle caiff y darlennydd a'r testun sydd wedi ei gyfieithu eu dwyn mor agos â phosib at y testun gwreiddiol – gweithred sy'n trawsnewid yr iaith y cyfieithir iddi. Yn ôl Sandra Berman, mae'r arallrwydd a grëir gan y testun yn dangos fod cyfieithu yn ymwybodol o'i rôl gymodlon rhwng ieithoedd: 'In attempts to translate, we become most aware of linguistic and cultural differences, of the historical "hauntings," and of experimental responsibilities that make our languages what they are and that directly affect our attitudes toward the world'.¹²

⁹ Angharad Price, 'Cyfoeth Cyfieithu', *Taliesin*, 100 (Haf 1997), t. 13.

¹⁰ Walter Benjamin, 'The Task of the Translator'; gweler Venuti, *The Translations Studies Reader*, t. 81.

¹¹ *Ibid.*

¹² Sandra Berman, Michael Wood (goln.), *Nation, Language and the Ethics of Translation* (Woodstock: Princeton University Press, 2005), t. 6.

Bu i George Steiner yn *After Babel* (1975) wrthwynebu ieithyddiaeth fodern ac edrych ar gyfieithu o safbwynt llenyddol ac athronyddol. Dychwelodd Steiner at Ramantiaeth Almaenig a'r traddodiad hermeniwtiaidd gan ddwysáu argymhelliad Schleiermacher ynghylch dieithrwch y darn cyfieithiedig. Dywed fod yr 'hermeneutic motion', sef y broses o drosglwyddo ystyr, yn cynnwys pedair rhan: yn gyntaf rhaid ymddiried yn y cyfieithydd a'i allu i weld symbolau yn yr un modd â'r awdur, gan gredu bod gwerth mewn cyfieithu'r darn. Yn ail daw ymosodiad neu weithred o drais, pan aiff y cyfieithydd i'r afael â'r gwaith, ei ddadansoddi a'i wladychu: 'The translator invades, extracts and brings home'.¹³ Y trydydd symudiad yw ymgorffori'r testun yn yr iaith y cyfieithir iddi. Gall y diwylliant 'gwreiddiol' wedyn geisio efelychu'r cyfieithiad, a chydag amser fe normaleiddir newydd-deb ac ieithwedd y testun. Dywed Steiner: 'The dialectic of embodiment entails the possibility that we may be consumed'.¹⁴ Y cam olaf sy'n cyflawni'r cylch yw adfer cydbwysedd wrth gymryd oddi wrth yr 'arall' a chyfrannu mewn modd amwys tuag at ddiwylliant y cyfieithiad. Trafoda'r syniad o ffyddlondeb yng nghyd-destun y broses hon o gyfieithu:

Fidelity is ethical, but also, in the full sense, economic. By virtue of tact, and tact intensified is moral vision, the translator-interpretor creates a condition of significant exchange. The arrows of meaning, of cultural, psychological benefaction, move both ways. There is, ideally, exchange without loss. In this respect, translation can be pictured as a negation of entropy; order is preserved at both ends of the cycle, source and receptor.¹⁵

Fodd bynnag, y mae amheuaeth sylfaenol ynghylch gallu cyfieithu i gymodi ieithoedd yn parhau. Yn hytrach, y mae syniad yr Eidalwyr o'r 'traduttore traditore' yn dal ei dir. Mae amhosibilrwydd y dasg yn codi cwestiynau ynghylch cymhellion y 'bradwr-gyfieithydd' yn ôl Angharad Price: 'Mae si ar led fod bryd y bradwr-gyfieithydd naill ai ar dwyllo darllenwyr i dderbyn gwirioneddau ieithoedd eraill, neu yn waeth byth, ar fradychu gwirioneddau ei iaith ei hun'.¹⁶ Dadl Price yw y dylid cyfieithu o'r Gymraeg i nifer o ieithoedd gwahanol a dangos, drwy gyfleu croesaceniion y Gymraeg a

¹³ George Steiner, *After Babel* (Oxford: Oxford University Press, 1975), t. 314.

¹⁴ *Ibid.*, t. 315.

¹⁵ *Ibid.*, tt. 318-19.

¹⁶ Angharad Price, 'Cyfoeth Cyfieithu', t. 14.

gwrthbwynt hunaniaethol mewn iaith arall, fod arwahanrwydd yn perthyn i lenyddiaeth Gymraeg: ‘A defnyddio ymadrodd Gilles Deleuze a Félix Guattari wrth sôn am gyfieithu, defnyddio’r Gymraeg er mwyn dad-dirioegaethu (‘deterritorialize’) iaith arall; gorfodi’r iaith honno, a’r diwylliant a ymgorfforir ganddi, i gydnabod gwirionedd y Gymraeg ac i ail-dirioegaethu (‘reterritorialize’) – un arall o dermau Deleuze a Guattari – ein hunain yn sgil hynny’.¹⁷ O’r gwahaniaethu hwn, tyf ymwybyddiaeth o fewn ieithoedd eraill fod hunaniaeth Gymraeg yn bodoli. Mae cyfathrebu rhwng diwylliannau yn hanfodol nid yn unig er mwyn ymestyn ffiniau ieithyddol, ond er mwyn i awduron wybod eu bod yn rhan o sgwrs gelfyddydol ryngwladol. Mae hyn yn wir o ran codi hyder ieithoedd lleiafrifol sy’n brwydro am eu hunaniaeth ar lwyfan byd-eang, yn ôl Tony Bianchi:

mae gwybod bod ganddynt gynulleidfa eang, amrywiol, amlieithog y mae eu gwaith yn golygu rhywbeth iddynt yn hwb mawr i’w hunanhyder. Y mae hefyd yn ei gwneud yn haws credu bod y profiad Cymreig yn un crwn, canolog a chyffredin – nid rhyw atodiad ymylol i’r profiad Prydeinig nac ychwaith rhyw fyd od a chwbl neilltuedig. Y perygl yw, oni cheisiwn ehangu ein gorwelion yn barhaus, culhau a wnânt yn ddi-ffael, yn arbennig felly pan fo’r gorwelion hynny gymaint dan ddylanwad cymdogion pwerus.¹⁸

Gwna Ned Thomas bwynt tebyg pan ddywed fod angen i Gymru edrych arni ei hun, nid fel ‘ynys ddiwylliannol unigryw gyda thraddodiadau hynafol ar gyrion y byd Saesneg, ond croesffordd ddiwylliannol lle daw dylanwadau o bob cyfeiriad i gyfoethogi’r gwlad’.¹⁹ Pe bai’r Cymry yn gorfodi newid agwedd ynghylch sut y gwelant eu hunaniaeth, ni fyddai cyfieithu o’r Gymraeg i ieithoedd eraill yn ymddangos yn gymaint o fygythiad, meddai.

Yn aml iawn, tuedd theori cyfieithu yw tanbrisiu pryderon gwirioneddol a geir gan ieithoedd lleiafrifol ynghylch cyfieithu eu llenyddiaeth i iaith fwyafrifol. Saesneg, bron yn ddieithriad, yw iaith cyfieithiadau o’r Gymraeg. Un o’r rhesymau (teilwng) am hyn yn hanesyddol oedd er mwyn cyfathrebu rhywfaint o’r traddodiad Cymraeg i Gymry di-Gymraeg fel y gwnaed mewn cylchgronau fel *The Welsh Outlook* a *Planet*.

¹⁷ *Ibid.*, t. 24.

¹⁸ Tony Bianchi, ‘Cyfieithu Ein Cyfoeth Ni’, *Llais Llyfrau* (Hydref 1995), t. 8.

¹⁹ Ned Thomas, ‘Bedd-ladron Diwylliannol’, *Tu Chwith*, 8 (1997), t. 99.

Gellir ystyried ymwneud Mathew Arnold â llenyddiaeth Geltaidd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel ymgais i danseilio'r Gymraeg; er ei fod yn dwyn sylw at orchestion llenyddol y Gymraeg, ni ddymunai fywyd pellach i'r iaith, a chredai fod modd mynegi hunaniaeth Geltaidd trwy gyfrwng yr iaith Saesneg. Deillia ei agwedd o gysyniadau a ddisgrifir gan Edward Said fel 'Orientalism', y cysyniad ynghylch sut y bu i goloneiddwyr reibio diwylliannau o'u trysorau er mwyn grymuso'r ymerodraeth a oedd mewn grym.²⁰ Dyry'r weithred hon o ddwyn gan ddiwylliant arbennig, a chondemnio'r diwylliant a'r iaith honno i farwolaeth, oleuni newydd ar syniad Benjamin ynghylch ôl-fywyd ('afterlife') testun,²¹ sef y modd y gall cyfieithiad ymestyn bywyd y testun gwreiddiol. O roi'r syniad hwn yng nghyd-destun iaith leiafrifol, gellir dweud mai'r pryder yw bod yr ôl-fywyd a gaiff testun mewn iaith fwyafrifol yn dangos fod iaith wreiddiol y testun yn farw. Dygir cyfoeth y testun a'i drawsblannu mewn iaith arall – ac y mae perygl y gall y testun fyw bywyd pellach er bod iaith y testun gwreiddiol wedi marw.

Yn ei ysgrif, 'The Good Thieves? Translating Welsh Literature into English', rhybuddia M. Wynn Thomas fod angen mwy o ymwybyddiaeth ynghylch y tensiynau rhwng yr iaith Gymraeg a'r Saesneg cyn y gellir pontio'n llwyddiannus trwy gyfieithu rhwng y ddwy iaith. Noda Thomas yn y fan hyn y gwahanol agweddau tuag at gyfieithu, a phwrpas y weithred: 'one of the key contemporary issues is whether translation should aim at the hospitable normalization and domestication of the original text, or whether it should register – in the form of conspicuous reformation of the receptor language – resistance on the part of the source text to easy linguistic transfer.'²² Trafoda Thomas hanes cyfieithu yng Nghymru gan ganolbwyntio ar y syniad fod cyfieithu llenyddiaeth Gymraeg i'r Saesneg yn fodd i'r llenor Saesneg ei iaith yng Nghymru feithrin synnwyr cryfach o'i hunaniaeth Gymraeg/Gymreig. Dywed Thomas ymhellach fod cyfieithwyr (fel yn achos Waldo Williams yn dewis cyfieithu *Hen Dy Fferm* D. J. Williams i'r Saesneg) wedi dewis trosi testunau a oedd yn amlygu'r ffaith fod y Gymraeg yn wrthbwynt i'r bydolg Seisnig ac yn cynnig dewis amgen i'r diwylliant modern, torfol.²³ Dyma oedd neges H. Idris Bell, un o'r

²⁰ Gweler *ibid.*, t. 96.

²¹ Walter Benjamin, 'The Task of the Translator', t. 76.

²² M. Wynn Thomas, 'The Good Thieves? Translating Welsh Literature into English', *Corresponding Cultures* (Cardiff: University of Wales Press, 1999), t. 115.

²³ *Ibid.*, t. 125.

cyfieithwyr amlycaf yn ystod yr ugeinfed ganrif, yn ei gyfrol *Poems from the Welsh* (1913). Amcan y gyfrol oedd dangos fod gan y Cymry'r gallu i gynnal llenyddiaeth fodern a gwrth-ddweud honiadau Matthew Arnold a'i agenda ar gyfer Celtigrwydd. Cyfieithydd arall a gyfrannodd lawer at gyfieithu o'r Gymraeg oedd Gwyn Jones, a oedd yn ceisio meithrin gweledigaeth gyfannol newydd am Gymru fel gwlad ddwyieithog a feddai ddau ddiwylliant – gweledigaeth a roddodd ar waith yn ei gyfieithiad llwyddiannus, *The Mabinogion* (1948), ar y cyd â Thomas Jones.²⁴ Y thema a wêl M. Wynn Thomas yng ngwaith y cyfieithwyr yw eu hawydd i ailddarganfod eu hunaniaeth Gymreig drwy fynd i'r afael â llenyddiaeth Gymraeg. Ymhlith yr enghreifftiau a rydd, y mae Glyn Jones, a oedd, yn ôl Thomas, yn gweld cyfieithu fel ffordd o fynegi hunaniaeth y 'buried self': 'And this imperative – of self-completion through self-discovery and self-realization – is one of the most important, and neglected, motives of translating'.²⁵ Gall cyfieithu, felly, fod yn weithred sy'n ymgais ar ran yr unigolyn i ganfod ei wreiddiau hunaniaethol yn ogystal ag esgor ar gymodi diwylliannol ehangach. Gellir dadlau fod hyn yn enghraifft o 'hunaniaeth ddewisol' ar waith gan fod cyfieithwyr yn cyfrannu at y broses o greu hunaniaeth genedlaethol Gymreig trwy gyfrwng y Saesneg, a chan mai un o'r strategaethau o ran Cymreigio eu synnwyr o hunaniaeth a pherthynas oedd cyfieithu testunau o'r Gymraeg i'r Saesneg. Yr egwyddor o gyfieithu i bwrpas oedd tu ôl i nifer o'r cyfieithiadau hyn, felly, yn ogystal â magu synnwyr o arallrwydd o fewn yr iaith Saesneg trwy drosglwyddo testunau Cymraeg i system iaith wahanol, gan greu, o ganlyniad, hunaniaeth newydd o fewn yr iaith honno. Gall cyfieithu fod yn weithred o gymodi nid yn unig rhwng cenedloedd, ond o fewn cenedl hefyd.²⁶

* * *

Wedi refferendwm 1979, bu cyfnod o bontio rhwng llenyddiaeth Gymraeg a llên Cymru yn Saesneg yn ôl M. Wynn Thomas. Dywed fod gwreiddiau prosiect barddol Menna Elfyn, a'r cyfieithiadau o'i gwaith sy'n rhan ganolog o'r prosiect hwnnw, yn

²⁴ *Ibid.*, t. 129.

²⁵ *Ibid.*, t. 137.

²⁶ Gweler Michael Cronin, *Translating Ireland: Translation, Languages and Identity* (Cork: Cork University Press, 1996), t. 200.

deillio o'r cyfnod hwn: 'It is out of this politico-cultural background that Elfyn's translations may be said to have eventually come'.²⁷ Mewn ymateb i'r cwestiwn i ba raddau y bu i refferendwm 1979 effeithio ar ei gyrfa farddonol, dywedodd Menna Elfyn fod Streic y Glowyr wedi ei phoeni yn fwy na'r bleidlais honno:

Oedd e'n gyfnod lle'r oeddwn i'n dal i ymgyrchu am sianel Gymraeg, ac roedd pethau pwysicach ar fy meddwl i na holl gwestiwn y refferendwm – roedd gen i ŵr yn y carchar a babi blwydd oed. Yr hyn wnaeth 1979 oedd dangos diffyg hyder mawr yn ein hunaniaeth, ond o safbwynt barddoniaeth rwy'n sicr i Streic y Glowyr gael mwy o effaith arna' i.

Pan ddaeth y Blaid Doriaidd i rym fe sylwodd y Cymry nad oedd yna ddim llawer o wahaniaeth rhyngddyn nhw a'r Blaid Lafur, ac fe deimlwyd rhyw ddadurthiad llwyr ynglŷn â gwleidyddiaeth gyfundrefnol. Ac o'r 80au ymlaen, ers i mi ddechrau edrych a sgrifennu am bethau sydd yn digwydd o gwmpas y byd, rwy'n gweld Cymru fel rhan o rywbeth mwy, fel gwlad ryngwladol.²⁸

Dywedodd Elfyn mai gweld pobl yn ddi-rym ac yn brwydro i wireddu newid yn wyneb llywodraeth galed, a'r awydd i roi llais i'r di-lais, fu symbyliad ei gweledigaeth farddol yn anad dim arall. Dylid nodi i Gymdeithas yr Iaith, mudiad y bu'r bardd yn ymgyrchydd gweithredol drosto, ddangos cefnogaeth gadarn i'r Glowyr yn ystod y streic.

Daeth canu Menna Elfyn i amlygrwydd yn 1970au, ymhlith eiddo naw o feirdd benywaidd eraill y cyhoeddwyd eu gwaith yn *Cerddi '73* gan R. Geraint Gruffydd. Yng nghyfrolau cynnar Elfyn, cyflwynwyd nifer o themâu a safbwyntiau na welwyd eu mynegi mewn barddoniaeth Gymraeg cyn hynny. Cyhoeddwyd ei chyfrol gyntaf, *Mwyara*, ym 1976, a cherddi confensiynol ar fesurau'r soned a'r wers rydd a geir yn y gyfrol yn bennaf. Bu *Stafelloedd Aros* (1978) yn gyfraniad pwysig iawn am ei bod yn cynnwys cyfres o gerddi ar destun nas trafodwyd mewn barddoniaeth Gymraeg cyn hynny, sef profiad personol y bardd o golli plentyn. Roedd yn gyhoeddiad ffeminyddol ar un wedd oherwydd fod cyd-destun y traddodiad barddol cyfoes yn hanfodol wrywaidd. Bu i'w chyfrol ddilynol, *Tro'r Haul Arno* (1982), ddatblygu ei

²⁷ Thomas, 'The Good Thieves?', t. 144.

²⁸ Karen Owen, 'Cerddi'r Anobaith', *Golwg*, 20 Chwefror 1997, t. 19.

gwaith ymhellach wrth i Elfyn ymchwilio i destunau yn ymwneud â chaethiwed – caethiwed Cymru, y Gymraeg, merched a'r enaid ysbrydol. Bellach, ni ellir ysgaru'r prydyddol-bersonol oddi wrth y gwleidyddol-dorfol, fel y dywed Dafydd Elis-Thomas yn y rhagair i'r gyfrol ac aiff Thomas mor bell â dweud fod gan y cerddi y potensial 'i'n rhyddhau ninnau o'n mathau gwahanol o gaethiwed'.²⁹ Ceir symudiad yn y gyfrol tuag at ymagwedd fwy ymwybodol ffeministaidd: er enghraifft, ceir cerdd sy'n adfer yr 'Anhysbys' – fenywaidd yn 'An Sy'n Hysbys', a cherddi am y teulu a'r cartref o safbwynt menyw. Ymhellach aeth Elfyn ati i greu cymuned o feirdd benywaidd am y tro cyntaf trwy gyhoeddi gwaith 25 bardd yn *Hel Dail Gwyrdd* (1985). Dadleua Robert Rhys y bu i'r gyfrol hon gyfreithloni'r haerid bod gwerth i gerdd unigol am ei bod yn trafod y profiad benywaidd, a hynny heb ystyriaeth ganolog i'r wedd esthetaidd – llwybr peryglus yn ôl Rhys am fod 'yr ideoleg dderbyniol yn gaethiwus ac yn fyr-hoedlog, a gall y sawl sy'n ei throedio esgeuluso materion mwy canolog i rym parhaol barddoniaeth'.³⁰ Yn dilyn *Hel Dail Gwyrdd*, cyhoeddodd Elfyn y cyfrolau *Mynd i Lawr i'r Nefoedd* (1986) ac *Aderyn Bach Mewn Llaw* (1990), yn ogystal â golygu blodeugerdd bellach gan 24 o feirdd benywaidd, *O'r Iawn Ryw* (1991).

Gyda chyhoeddi *Eucalyptus* (1995), ailddyfeisiodd Elfyn ei hun fel bardd dwyieithog. Nid yw'n dechrau ysgrifennu yn y Saesneg ei hun, ond cynulla grŵp o feirdd cydnabyddedig i gyfieithu ei gwaith. Detholiad o gerddi 1978-1994 yw'r hyn a geir yn *Eucalyptus*, a gosodir y gerdd Gymraeg a'r cyfieithiad Saesneg wyneb yn wyneb. Rhoddir rhestr o'r holl gyfieithwyr ar ddechrau'r gyfrol a dynodir llythrennau cyntaf enwau'r cyfieithwyr o dan y cyfieithiadau y buont yn gyfrifol amdanynt. Lle na nodwyd enw ar ddiwedd cerdd, Tony Conran fu'n gyfrifol am ei chyfieithu. Yn y rhagair i'r gyfrol hon, noda Conran fod beirdd Cymraeg yn medru bod yn 'exclusive male club', ac felly bod Elfyn yn torri ei chŵys ei hun wrth gyhoeddi'n ddwyieithog:

Menna Elfyn...was more or less forced to go bilingual. As the first Welsh poet in fifteen hundred years to make a serious attempt to have her work known outside Wales, her readings have been popular in Dublin, Leeds, Edinburgh...So there has

²⁹ Menna Elfyn, *Tro'r Haul Arno* (Llandysul: Gomer, 1982), t. 3.

³⁰ Robert Rhys, 'Menna Elfyn', Robert Rhys (gol.), *Y Patrwam Amrywliw: Cyfrol 2* (Llandybie: Cyhoeddiadau Barddas, 2006), t. 240.

been a practical problem of getting her stuff translated into the common language, English. The difficulty was, who could she get to do it. Translating Welsh poetry is a quite different skill from writing it. She asked several English-language poets with whom she felt affinity, as well as other friends who came to hand, to translate two or three poems a-piece.³¹

Dyma ddechrau naratif am y bardd, Menna Elfyn, a fyddai'n arwain at yrfa lewyrchus iddi a'i throi yn 'fffenomen ddiwylliannol'³² gartref yng Nghymru, gan esgor ar drafodaeth ddifyr ar ei gwaith – yn bennaf ymysg y darllenwyr Cymraeg. Awgryma Conran, gan gyffredinoli yn enbyd, fod barddoniaeth Gymraeg yn gylch caeëdig o feirdd sydd â diddordeb yn eu barddas hwy eu hunain yn unig, tra bo Elfyn ar y llaw arall yn eangfrydig ac yn gwthio barddoniaeth Gymraeg i'r llwyfan rhyngwladol. Yn y gyfrol nesaf o'i heiddo, sef *Cell Angel* (1996), dilynwyd yr un patrwm o gyhoeddi'r cerddi ochr yn ochr – cerddi gwreiddiol Cymraeg a chyfieithiadau neu drosiadau Saesneg – ond y tro hwn fe gyhoeddwyd y gyfrol gan Bloodaxe Books, tŷ cyhoeddi yn Newcastle upon Tyne. Cyhoeddwyd cerddi gwreiddiol Cymraeg ochr yn ochr â'r rhai Saesneg unwaith eto yn *Cusan Dyn Dall / Blind Man's Kiss* (2001), a nodwyd wrth y cyfieithiadau pwy oedd y cyfieithwyr. Ceir sylwadau gan y cyfieithwyr eu hunain ynghylch y broses gyfieithu a nodiadau ar rai o'r cerddi yn esbonio'r symbyliad tu ôl iddynt.

Gall y darlennydd Cymraeg ddarllen y gerdd yn y ddwy iaith, ond i'r darlennydd di-Gymraeg, y gerdd Saesneg, gellir dadlau, yw cerdd Menna Elfyn. Beirniadwyd Elfyn gan nifer o feirniaid Cymraeg am gyhoeddi cerddi gwreiddiol Cymraeg a'r cyfieithiadau yr un pryd, a gwelwyd Dafydd John Pritchard yn 2005 yn canmol penderfyniad Elfyn i gyhoeddi ei chyfrol nesaf o gerddi newydd, *Perfffaith Nam*, yn y Gymraeg yn unig:

Rwyf yn tueddu i gredu y dylai cerddi anadlu am beth amser yn y Gymraeg yn gyntaf cyn iddyn nhw orfod wynebu'r broses ryfedd honno a elwir yn gyfieithu. Mae'n ystrydeb dweud mai'r farddoniaeth a gollir yn y broses o gyfieithu, ond rwyf i'n

³¹ Menna Elfyn, *Eucalyptus: Detholiad o Gerddi 1978-1994* (Llandysul: Gomer, 1995), t. xi.

³² Rhys, 'Menna Elfyn', t. 234.

tueddu i gredu mai hunaniaeth y cerddi a gollir os na roddir y cyfle iddynt fodoli yn eu cyflwr gwreiddiol yn unig – am ryw hyd o leiaf.³³

Yn *Perffaith Nam: Dau Ddetholiad a Cherddi Newydd 1995-2007 / Perfect Blemish: New and Selected Poems 1995-2007* (2007), gosodir y cerddi Cymraeg a'u cyfieithiadau wyneb yn wyneb. Y tro hwn nid yw enw'r cyfieithydd wedi ei nodi ger y gerdd – yn hytrach ceir enw'r cyfieithydd ger teitl y gerdd a gyfieithodd ar dudalen gynnwys y gyfrol. Cafodd enwau'r cyfieithwyr felly eu gwahanu'n llwyr bellach oddi wrth y cerddi Saesneg, ac er y cânt eu cydnabod yn nhudalen gynnwys y gyfrol, cyflwynir corff y gyfrol – yn gerddi Cymraeg a'u cyfieithiadau – fel testunau wedi eu perchnogi gan Elfyn.

Yn y casgliad *Merch Perygl: Cerddi 1976-2011*, trefnwyd y cerddi yn thematig er mwyn dangos sut y dychwel y bardd at yr un pynciau ond ag agwedd wahanol wrth i'w syniadau ddatblygu. Y teitlau i'r themâu yw: “‘Iaith ein Byw o'r Fenyw Fyw’”: Bod yn Ferch’; “‘Adnabod y Gaethiwed yw Dechrau Bod yn Rhydd’”: Gwleidyddiaeth a Hunaniaeth’; “‘Ynot Mae Perllan Orenau’”: Serch a Nwyd’; “‘Eira Mynydd yn Troi’n Iaith Heb Eiriau’”: Byd Natur’; “‘O Darth ein Cnawd, Daw Ein Cragen yn Glir’”: Pobl’; “‘A’n Bathu Drachefn Wrth i'r Ing Droï'n Fedydd’”: Yr Ysbrydol’; “‘Dangosaf Iddynt Adenydd’”: Iaith a'r Broses o Farddoni’.³⁴ Yn y rhagair i'r gyfrol, sonia Elin ap Hywel am ddyfeisgarwch ac asbri yn nefnydd Elfyn o iaith a'r modd y llwydda i greu delweddau grymus sy'n herio ac yn troi profiadau dydd-i-ddydd ar eu pen. I gefnogi ei dadl, dyfynna ap Hywel adolygydd di-Gymraeg, Jan Fortune-Wood, sy'n dweud am ddefnydd Elfyn o iaith: ‘it is a preoccupation with how language makes connections, both within itself and beyond its boundaries, which makes this truly great poetry...there is a huge, questioning, humane intelligence at work in these poems’.³⁵ Tanseilir y ganmoliaeth hon, pa mor wir bynnag ydyw, gan y ffaith mai trwy gyfieithiad y darllenwyd y cerddi.

Yn wahanol i adolygwyr y cerddi mewn cyfieithiad, cymysg yw ymateb adolygwyr y cerddi Cymraeg. Soniodd Robert Rhys yn helaeth am y problemau sy'n wynebu

³³ Dafydd Pritchard, ‘Iaith, Mynegiant a Deall’, *Taliesin*, 126 (Gaeaf 2005), t. 169.

³⁴ Menna Elfyn, *Merch Perygl: Cerddi 1976-2011* (Llandysul: Gomer, 2011), tt. vii-xi.

³⁵ *Ibid.*, t. xv.

darllenwyr wrth ddarllen gwaith Elfyn yn y Gymraeg, yn bennaf problemau'n ymwneud â chystrawen, atalnodi, a diffyg cydlyniant sy'n debygol o beri dryswch. Meddai Rhys: 'Y cyfuniad hwn o ddelweddau cynhyrfus a dweud cloff sy'n rhoi'r argraff anffodus mai bardd galluog yn tangyflawni sydd yma'.³⁶ Rhestrir rhai o'r gwallau ieithyddol gan T. James Jones mewn erthygl-adolygiad yn achos y gyfrol *Cusan Dyn Dall / Blind Man's Kiss*: rhybuddir fod angen golygydd llym ar gyfer y cerddi Cymraeg hyd yn oed os cyhoeddir y gyfrol gan dŷ cyhoeddi yn Lloegr.³⁷ Ymddengys i rai addasiadau gael eu gwneud yn ddiweddarach i'r cerddi y cyfeiria Jones at y camgymeriadau ynddynt: er enghraifft, noda Jones fod angen acen grom yn y llinell 'A fu Cymun erioed a'i mwy o raid?'.³⁸ fe newidiwyd y llinell erbyn cyhoeddi'r gerdd yn y casgliad *Merch Perygl* i 'A fu'r Cymun erioed â mwy o raid?'.³⁹ Newidiodd Elfyn y gerdd ymhellach drwy gael gwared â'r rhagenw; ni wyddys a wnaed hyn mewn ymateb i'r feirniadaeth, a dylid nodi bod nifer helaeth o gywiriadau Jones heb eu hymgorffori o gwbl. Dywed Jones, ymhellach, fod y cyfieithiadau i'r Saesneg yn gynhorthwy i'r darllenydd Cymraeg sy'n cael anhawster deall barddoniaeth Elfyn:

Felly, fel lladmerydd ar y llwyfan rhyng-genedlaethol, y mae hi, o reidrwydd, yn ddibynnol ar ei chyfieithwyr. Ond oherwydd y gwendidau y bu'n rhaid i mi dynnu sylw atynt yng ngherddi gwreiddiol *Cusan Dyn Dall*, ofnaf fod y ddibyniaeth hon yn bod hefyd ar y llwyfan cenedlaethol gartref yng Nghymru. Yn aml iawn, teflir goleuni ar y cerddi Cymraeg gan y cyfieithiadau. O fynd gam ymhellach, y mae rhai o'r cerddi Saesneg yn gryfach o ran eu saerniaeth.⁴⁰

Bu un o ladmeryddion pennaf Elfyn, M. Wynn Thomas, yn dadlau mai strategaeth Elfyn yw ceisio creu barddoneg fenywaidd 'rydd' (hynny yw, mewn cyferbyniad uniongyrchol â'r canu caeth Cymraeg yn benodol) – yr *écriture féminine*. Dywed fod y camgymeriadau o fewn y testun yn rhan o fwriad yr awdur i ddangos fod merched wedi eu hallanoli o systemau cymdeithasol gwrywaidd – fel strwythurau iaith. Gall

³⁶ Rhys, 'Menna Elfyn', t. 238.

³⁷ T. James Jones, 'Cusanau Eironig', *Talieisn*, 112 (Haf 2001), t. 133.

³⁸ Menna Elfyn, *Cusan Dyn Dall / Blind Man's Kiss* (Tarset: Bloodaxe Books 2001), t. 114.

³⁹ Elfyn, *Merch Perygl*, t. 180.

⁴⁰ Jones, 'Cusanau Eironig', t. 137.

yr ymgais farddonol arwain at fethiant, ond mae'r fenter – yn ôl Thomas – yn rhan o'r arbrawf barddonol.⁴¹

Yn ei ysgrif 'When a *Bardd* Meets a Poet: Menna Elfyn and the Displacement of Parallel Facing Texts', ystyria Tudur Hallam ymateb y darllenydd Cymraeg i gyfrolau cyfochrog Elfyn, y gwreiddiol Cymraeg yn baralel â'r cyfieithiad Saesneg. Rhestra Hallam rai o'r rhesymau pam y ceir ymateb amheus gan y darllenydd Cymraeg. Yn gyntaf, ni welir cyfieithu fel gweithred gadarnhaol – yn fwyaf eithafol caiff ei ystyried yn frad; wrth ailfframio'r testunau mewn cyfrolau dwyieithog, gosodir y Gymraeg yng nghysgod y cyfieithiad: 'Thus, when the *darllenydd Cymraeg* confronts the parallel facing texts in Menna Elfyn's four volumes of bilingual poetry, he or she will sense that, while the translating text is evidently "the text produced in transformation of another text", its predecessor, the original, is reduced to act as an external expression of the translating text's pre-text, its trace, its ghostly past.'⁴² Dirymir y testun, cyll ei ystyr, a'r 'deferred presence' sy'n perthyn i destun newydd sy'n barod i'w ddarllen a'i ddehongli. Hola Hallam a yw'r cyfieithiad yn fwy llwyddiannus na'r gwreiddiol: wrth i'r cyfieithydd gynnig dehongliad o'r gwreiddiol, gall ddileu camgymeriadau gramadegol, ac mewn rhai achosion, ddileu unigrywedd y gwreiddiol Cymraeg. Dywed Hallam:

Thus, to those of us who appreciate that Welsh poetry has been Wales' 'primary weapon' against 'the lassitude and passivity imposed by the experience of colonization', and who love it 'precisely because it is not known in American or other European cultures, because it is unique and resists incorporation into another culture', it is perplexing to find ourselves turning to read the translating text in English, displacing ourselves and preferring another's literary tongue.⁴³

Bu i adolygiad Damian Walford Davies gwestiynu a yw Hallam yn ystyried yn y fan hon mai beirdd o Gymru sy'n cyfieithu gwaith Elfyn, nid lleisiau sydd ag amcanion imperialaidd. Meddai:

⁴¹ M. Wynn Thomas, 'The Poetry of Gillian Clarke and Menna Elfyn', *Corresponding Cultures* (Cardiff: University of Wales Press), tt. 206-7.

⁴² Tudur Hallam, 'When a *Bardd* Meets a Poet: Menna Elfyn and the Displacement of Parallel Facing Texts', yn Daniel Williams (gol.) *Slanderous Tongues: Essays on Welsh Poetry in English 1970-2005* (Bridgend: Seren, 2010), t. 93.

⁴³ *Ibid.*, t. 100.

Ar yr un pryd, mae absenoldeb unrhyw drafodaeth [yn ysgrif Hallam] ar *eneteg* y cyfieithiadau o waith Menna Elfyn, a'r diffyg eglurder ynghylch DNA eu 'hawduraeth'...yn ofod sylweddol yn y ddadl. Ni chaiff cerddi Cymraeg eu cyfieithu gan Beiriant Saesneg Imperialaidd, a gellir dadlau nad 'Saesneg' yw iaith y cyfieithiadau hyn, ond 'saesneg' (a defnyddio fformiwla Kirsti Bohata) - disgwrs *hybrid*, dynwaredol lle y mae goslefau (a pholitics) y Gymraeg yn datffurfioli'r Saesneg 'athrodus'.⁴⁴

Hynny yw, gwneir cam â'r cyfieithwyr os gwelir y broses o gyfieithu gwaith Elfyn mewn termau ieithyddol yn unig, a'r ymgiprys testunol ar dudalennau'r cyfrolau rhwng y Gymraeg a'r cyfieithiad. Fel y nododd Daniel Williams, sgwrs rhwng cyd-Gymry sydd yma, ac o'r herwydd dylai llenorion a darllenwyr Cymraeg fod yn fwy parod i gydweithio a rhannu eu gwaddol llenyddol.⁴⁵ Dylid rhoi ystyriaeth i rôl y tîm o gyfieithwyr fel cyfryngwyr a chymodwyr o fewn cenedl, a sut yr effeithia hynny ar brosiect uchelgeisiol, os cymhleth, Elfyn. Ar y llaw arall, dylid bod yn ymwybodol o'r cymhellion o ran dewis bardd neu gerdd arbennig i'w chyfieithu: 'only certain kinds of text, those that will not prove alien to the receiving culture, come to be translated'.⁴⁶

Y parau y byddir yn eu hystyried yn y bennod hon, felly, yw Menna Elfyn a'i thîm o gyfieithwyr: R. S. Thomas, Tony Conran, Gillian Clarke, Elin ap Hywel, Nigel Jenkins, Robert Minhinnick a Joseph Clancy.⁴⁷ Yn y cyswllt hwn bwriedir yma ddatblygu sylw Damian Walford Davies nad 'peiriant Saesneg Imperialaidd' sy'n esgor ar y trosiadau, ond cyfieithwyr unigol a chanddynt eu dulliau, eu hymlyniadau a'u hegwyddorion unigol. Mae'r cyfieithwyr oll yn gyfeillion iddi ac yn feirdd eu hunain, ac mae'r egwyddor o ryddid y cyfieithydd yn allweddol yn ei barn hi. Ar yr un pryd, mae Elfyn yn awyddus i flas y gerdd Gymraeg fod yn bresennol mewn darlenniad o'r gerdd wedi ei chyfieithu: 'a "sense of strangeness, of another world"

⁴⁴ Damian Walford Davies, '*Slanderous Tongues: Essays on Welsh Poetry in English*', *Taliesin*, 140 (Haf 2010), t. 142.

⁴⁵ Daniel Williams, 'Gwledda ar y Glythu', *Taliesin*, 121 (Gwanwyn 2004), t. 113.

⁴⁶ Susan Bassnett, Harish Trivedi, *Post-Colonial Translation* (London: Routledge, 1999), t. 5.

⁴⁷ Dylid nodi hefyd y bu i John Barnie gydweithio â Menna Elfyn a chyfieithu un gerdd a gyhoeddwyd yn *Eucalyptus* sef 'Mae Pethau Wedi Newid, Mr Frost' / 'Things Have Changed, Mr Frost' (tt. 88-9).

must remain in the new version'.⁴⁸ Dywed fod cael tîm talentog o gyfieithwyr o'i chwmpas wedi rhoi rhyddid iddi hi i ysgrifennu barddoniaeth sy'n anodd ac yn drwchus o ran haenau ystyron.⁴⁹

Wrth siarad am broses Menna Elfyn o ddostrannu'r cerddi rhwng y cyfieithwyr, noda Nigel Jenkins mai Elfyn ei hun sy'n dewis pa fardd a fyddai'n gweddu orau yn achos cerdd arbennig, a hynny'n seiliedig i raddau ar ddiddordebau'r troswr:

In general, it has been – as far as I'm concerned – Menna who has selected the poems for her translators, rather than the translator choosing the poems (although I believe this has happened in some cases). In doing so, she has often taken into account the particular interests of her translators (for instance, in view of my CND activities, she gave me several poems to translate for *Eucalyptus* on war-and-peace themes; and because she knew I didn't particularly like dogs, she mischievously gave me Rhydwen Williams's 'Cŵn' to translate for the Bloodaxe anthology!). She has also taken into account the tone, register, ideologies and attitudes of the original work of her translators, as a result of which, for instance, I have probably been given 'more muscular' things to translate than would have gone, say, to Elin ap Hywel, who has sometimes been employed to translate work of a subtler emotional discrimination and finer female sensibility.⁵⁰

Ymhellach, bu i Elfyn mewn cyfweliad â Jon Gower, nodi pa bynciau/ffurfiau a roddir i ba gyfieithydd: 'The poet entrusts particular subjects to particular poets. For some poems, say where the subject is sexual, she turns to Elin ap Hywel "because she knows me so well"; villanelles go to Joseph Clancy, Gillian Clarke is "good on kids"'.⁵¹ Gwelir fod gan Elfyn strategaeth bendant o benodi thema i fardd a bardd i thema. Datgela'r dyfyniad gan Jenkins ymhellach ei bod yn rhoi cerddi'n ymwneud â gwleidyddiaeth i ddynion, tra bo'r cyfieithwyr benywaidd yn derbyn cerddi yn ymwneud â'r cartref a'r fenyw. O gael tîm o gyfieithwyr, gall fanteisio ar yr hyn a welir fel rhagoriaethau unigol y beirdd-gyfieithwyr er mwyn sianelu eu harbenigedd i

⁴⁸ Teleri Williams, 'Found in Translation: Hay Festival Alhambra', *Planet*, 189 (Mehefin/Gorffennaf 2008), t. 121.

⁴⁹ Maria de Cebreiro, 'In Conversation: Maria de Cebreiro and Menna Elfyn', *Poetry Wales*, 44, 2 (Hydref 2008), t. 11.

⁵⁰ Cyfweliad yr awdur presennol â Nigel Jenkins, 14 Mawrth 2010. Gweler Atodiad 3 isod.

⁵¹ Jon Gower, 'A Poet of Industry and Difficulty', *New Welsh Review*, 36 (Gwanwyn 1997), t. 14.

gerdd benodol sy'n unol â'u diddordebau/doniau unigol. Yn ail ran y bennod hon, felly, ymchwilir i ddulliau pob un o'r cyfieithwyr yn unigol yng ngoleuni'r drafodaeth uchod ynghylch theori cyfieithu.

* * *

R. S. Thomas

Cyfieithwyd dwy gerdd yn *Eucalyptus* gan R. S. Thomas (1913-2000). Mae'r gerdd 'Cân y Di-lais i British Telecom' / 'Song of a Voiceless Person to British Telecom' yn trafod profiad Elfyn o geisio cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg â'r Cysylltydd Ffôn, gan dderbyn yn hytrach 'siars / i siarad Saesneg'.⁵² Rhestra'r gerdd Gymraeg yr holl synau na all llefarydd y gerdd eu gwneud: rhoddwyd bellach daw arno. Yn fersiwn Thomas, gwneir mwy o ddefnydd o'r rhagenw personol person cyntaf a defnyddir brawddegau byr yn hytrach na rhestru o fewn brawddeg. Effaith hyn yw fod y gerdd Saesneg yn pwysleisio fod hawliau iaith yn fater personol, sy'n arwyddocaol yn achos R. S. Thomas oherwydd teimlai fod y Gymraeg wedi ei gwadu iddo ef yn bersonol. Cymharer y fersiwn Gymraeg â'r fersiwn Saesneg:

Felly, dedfrydaf fy hun i oes
o anneall, o ddiffyg llefaru,
ynganu, na sain na si
na goslef, heb sôn am ganu,
chwaith fyth goganu, llafarganu,
di-lais wyf, heb i'm grasnodau
na mynegiant na myngial.

Cans nid oes im lais litani'r hwyr,
dim llef gorfoledd boreol
nac egni cryg sy'n cecian yn y cyfnos.
Atal dweud? Na. Dim siarad yn dew,

⁵² Elfyn, *Eucalyptus*, t. 6.

dim byrdwn maleisus, no moliannu.⁵³

I sentence myself to a lifetime
of sentences that make no sense.
No pronounciation, no annunciation,
inflection. I am infected
with dumbness. I can neither lampoon,
sing in tune; much less can I
intone. My grace-notes
are neither music nor mumble.
I am not heard at Evening Prayer
nor at triumphal Matins,
nor am I that voice in the dusk
that is husky but vibrant.⁵⁴

Cyll y llinell olaf hon sain y llinell Gymraeg gyfatebol – ‘egni cryg sy’n cecian yn y cyfnos’ – ond sylwer yma ar yr odl fewnol ‘dusk...husky’. Gellid dadlau bod y gerdd Saesneg ar ei hennill o bwysleisio’r hunan oherwydd cyfleir synnwyr o golli urddas personol; gellir dweud fod hyn yn arwyddocaol iawn o ystyried bod R. S. Thomas yn cynrychioli llenorion llên Cymru yn Saesneg nad oeddent yn medru cyfansoddi yn y Gymraeg, ond a oedd, drwy gyfieithu, yn medru hawlio eu treftadaeth ddiwylliannol yn ôl. Ychwanega Thomas y llinell drawiadol, ‘I am infected / with dumbness’, llinell sy’n arwyddocaol o hystyried y motiffau a welir yn ei waith ef ei hun; ystyrier, er enghraifft, y gerdd ‘I’ (cymwys yn y cyd-destun yw’r teitl), a’r llinellau ‘Years went by; / I escaped, but never outgrew / The initial contagion’;⁵⁵ neu ‘It Hurts Him to Think’, a’r llinellau:

I was
born into the squalor of
their feeding and sucked their speech
in with my mother’s
infected milk, so that whatever

⁵³ *Ibid.*

⁵⁴ *Ibid.*, t. 7.

⁵⁵ R. S. Thomas, *Collected Poems 1945-1990* (London: J. M. Dent, 1993), t. 251.

I throw up now is still theirs.⁵⁶

Awgryma fod y mudandod yn haint neu'n afiechyd – delwedd grotésg sy'n debyg i'r math o ddelweddau a ddefnyddir ganddo yn ei gerddi ei hun i ddynodi'r israddoldeb a deimla fel Cymro a hefyd, efallai, fel bardd na allai farddoni yn y Gymraeg.

Fodd bynnag, mae'r agwedd newydd hon a gyflwynodd Thomas i'r gerdd hefyd yn tansailio'r hyn y cais Elfyn ei wneud yn y Gymraeg. Defnyddia Elfyn yr idiom Feiblaidd (Corinthiaid 13) er mwyn gwneud y pwynt am anghydbwysedd y Gymraeg yn ei bywyd – gall ei siarad gyda'i theulu ond ni all ei defnyddio mewn cyd-destunau swyddogol. Dychwela eto at y gyfeiriadaeth at y bennod o'r Beibl am natur cariad ar ddiwedd y gerdd – 'efydd yn seinio'⁵⁷ – sy'n awgrymu cariad tuag at sŵn iaith a'r anghenraid i iaith gael ei seinio. Ni chyfleir hyn yn y gerdd Saesneg mor effeithiol, a chyfeirir at 'ruglder' – neu ddiffyg rhuglder – 'pobl Cymru' yn y Gymraeg yn hytrach na'i gweld yn nhermau iaith y teulu:

Ac os nad oes llef gennyf i
ofer yw tafodau rhydd fy nheulu,
mudanwyr ŷm, mynachod,
sy'n cyfrina mewn cilfachau.⁵⁸

And if I am without speech
what of the fluency of my people?
We are mutes, Trappists,
conspirators in the corner.⁵⁹

Ymdrinia Thomas â chanfas ehangach na'r teulu yn unig, wrth gwrs, gan droi cerdd Elfyn yn gerdd Thomas; try tŷn dawel a phryfoclyd Elfyn sy'n canolbwyntio ar rwystredigaethau dydd-i-ddydd yn gyffredinoli ynghylch 'my people'. Ymhellach, disgrifia'r gerdd Gymraeg yr iaith Saesneg fel 'tresmaswr' ym 'mhellter ein bod', ond yn y gerdd Saesneg ceir delwedd fwy treisgar: 'The usurper's language pierces / to

⁵⁶ *Ibid.*, t. 262.

⁵⁷ Elfyn, *Eucalyptus*, t. 10.

⁵⁸ *Ibid.*, t. 6.

⁵⁹ *Ibid.*, t. 7.

the very centre of our being'.⁶⁰ Mae effaith coloneiddio'r iaith Saesneg unwaith eto yn gorfforol-boenus i Thomas, ond ymdrinia Elfyn â'r pwnc fel dadleoliad, a phwysleisir y modd y teimla ei bod yn cael ei gwthio i gorneli – 'gyrru'r gwaraidd – ar ffo'. Honnodd Dafydd Johnston wrth adolygu'r gyfrol *Eucalyptus* fod Thomas wedi methu cyfieithu ymadroddion Elfyn yn llwyddiannus, ac o ganlyniad fod y gerdd wedi 'colli'r pwynt'.⁶¹ Gellir dadlau fod y ddwy gerdd yn cynnig dehongliad diddorol o safbwynt y profiad ôl-drefedigaethol: ar y naill law ceir cerdd am frwydr y di-lais (annhegwch dyddiol sy'n digwydd ar draws y byd – 'gwelaf fod yna GYMRAEG rhyngom ni') i weld y Gymraeg yn cael cydnabyddiaeth o ran statws ac i adlewyrchu realiti llawr gwlad; ac ar y llall, mae'r cyfieithiad yn datblygu'n fynegiant o ddadryddfreiniad y Cymry di-Gymraeg sydd am sicrhau statws i'r Gymraeg a hefyd o'r boen (a fynegir mewn termau corfforol) am fod rhwystrau wedi eu rhoi rhyngddynt hwy a'r iaith. Tanlinellir y pwynt hwn gan y modd y cyfieithwyd llinell olaf y gerdd, 'meidrol egwan ein mydrau', sef 'mortally muted our metrics'. Gwan yw llais persona'r gerdd Gymraeg, ond, sylwer, fe ddistawyd y llais yn y gerdd Saesneg yn gyfan gwbl.

Mae'r gerdd arall gan Elfyn a gyfieithodd Thomas yn *Eucalyptus*, sef 'Message', yn amlygu ei lais nodweddiadol ef fel bardd hyd yn oed yn fwy. Gellir dadlau fod cerdd Elfyn yn drwm dan ddylanwad gwaith Thomas oherwydd y delweddau o genedl yn marw – 'Roedd rhywbeth ynom fel pobol / a oedd yn mynnu marw, / cans cenedl oeddem / yn profi'n ail-law / afiaith byw'.⁶² Eironig, felly, yw rhoi'r gerdd hon i Thomas ei chyfieithu: bu iddo ddwysáu'r delweddau hynny, meddiannu'r gerdd a'i thrawsffurfio drwy gyfrwng ei arddull nodweddiadol ei hun. Dywed Elfyn fod angen i'r Cymry roi'r gorau i'r 'igian wylo lliprynnod' sy'n eu nodweddu. Dylent, yn hytrach, wrth 'ddiflannu / o gramen Daear':

lafarganu'n swynol;
sugno'r nos,
nes cysgu
ar fronnau'n hiaith,
yna, diolch,

⁶⁰ *Ibid.*

⁶¹ Dafydd Johnston, 'Eucalyptus', *Taliesin*, 91 (Haf 1995), t. 115.

⁶² Elfyn, *Eucalyptus*, t. 56.

hyd yn oed
am swc olaf deg
ein hanes.⁶³

Meddai Thomas yn ei gyfieithiad:

Let us sing in melody
while holding on to the dark
before falling asleep
pillowed on *Y Gymraeg*
grateful for one last pull
at the teat of history.⁶⁴

Gwelir fod Thomas yn defnyddio ymadroddion sy'n nodweddiadol o'i ganu ei hun, a dylid nodi yma na chyfieithodd 'ar fronnau'n hiaith' – delwedd a gaiff ei datblygu gan Elfyn rai llinellau'n ddiweddarach. Wrth drawsblannu'r gerdd hon a'i hail-greu yn ei arddull nodweddiadol ei hun, gellir dadlau i Thomas ddadfenyweiddio'r gerdd hefyd. Effaith hyn yw y collir ergyd cerdd Elfyn sy'n cyplysu'r ddelwedd o'r fenyw â Chymru. Amlygir tôn fwy herfeiddiol yng ngerdd Thomas pan ddefnyddir 'Y Gymraeg' ar ganol brawddeg, fel rhyw fath o wrthsafiad testunol. Unwaith eto, mae Thomas yn dangos mai ei nod fel cyfieithydd yw ail-greu'r gerdd Gymraeg, ac fe'i haddasir i'w gyd-destun gwleidyddol a llenyddol ef ei hun.

Tony Conran

Noda Tony Conran yn y cyflwyniad i'w gyfrol ddylanwadol o gyfieithiadau, *The Penguin Book of Welsh Verse* (1967), fod tri nod ganddo fel cyfieithydd o'r Gymraeg i'r Saesneg. Yn gyntaf, cyflwyno cyfoeth llenyddol Cymru i'w gyd-Gymry nad ydynt yn meddu'r Gymraeg, ac sydd felly wedi eu dietifeddu o'u hiaith a'u hunaniaeth: 'My English-speaking countrymen in Wales were being treated as if they were immigrants in their own country, potential Englishmen and women'.⁶⁵ Fe'i dyfynnir fan arall yn dweud bod cyfieithiadau o lenyddiaeth Gymraeg ar gyfer Cymry di-Gymraeg yn hwb

⁶³ *Ibid.*

⁶⁴ *Ibid.*, t. 57.

⁶⁵ Anthony Conran, *Welsh Verse* (Bridgend: Poetry Wales Press, 1986), t. 13.

i'w hunaniaeth ac yn rhoi iddynt wreiddiau a synnwyr o berthyn yn sgil cael mynediad (o fath) i 'drysorau' eu cenedl.⁶⁶ Yr ail nod a grybwyllir gan Conran oedd sicrhau bod mwy o destunau Cymraeg ar gael yn y Saesneg: ei obaith oedd y byddai modd efelychu'r hyn a ddigwyddodd yn Iwerddon wrth gyfieithu testunau'r Wyddeleg i'r Saesneg, sef dadeni o fewn barddoniaeth Saesneg yn Iwerddon. Yn drydydd, credai fod gan farddoniaeth Gymraeg yr holl nodweddion sy'n gwneud barddoniaeth yn fenter gyfannol fuddiol: '[Welsh poetry] gives one a criterion of whole speaking, of making poetry as a private person, a social being and an objective observer – all at once'.⁶⁷

Gwelwyd eisoes fod Tony Conran yn gefnogwr brwd o waith Elfyn a'i hymgyrch i hyrwyddo ei gwaith ymysg darllenwyr Saesneg eu hiaith. Conran a gyfieithodd 27 o'r 45 o gerddi yn *Eucalyptus*, ond wedi'r gyfrol honno cyfieithodd lawer llai na'r cyfieithwyr eraill – heblaw am y gyfres nodedig 'Cerddi Er Cof am Gwyn A. Williams'. Noder hefyd mai Conran a gyfieithodd rai o gerddi mwyaf ffeministaidd *Eucalyptus*, megis 'Misglwyf', 'Wnaiff y gwragedd aros ar ôl?', a 'Byw, benywod, byw', ynghyd â cherddi am ymgyrchoedd gwrth-niwclear ffeminyddol. Mewn ysgrif yn trafod ei chydweithio â Conran, dywed Elfyn mai ef a ddarllenodd y gwaith *Eucalyptus* ar ran Cyngor y Celfyddydau pan ymgeisiodd Gomer am gyllid i gyhoeddi'r gyfrol. Cynigiodd Conran ei gymorth pan farnwyd fod gwaith un o'r cyfieithwyr yn ddiffygiol, a datgelwyd mai Elfyn ei hun a gyfieithodd y cerddi hynny.⁶⁸ Dywed Elfyn y byddai'n derbyn galwadau ffôn gan wraig Conran, pan oedd yntau'n gweithio ar gyfieithiad, er mwyn cael eglurhad llawn ynghylch yr hyn y cyfeiriai'r gerdd ato. Ymhellach, sonia Elfyn am anghytundeb rhyngddynt ynghylch un gair yn y gerdd 'Cranberries'; pan oedd angen disgrifio'r ffrwyth yn cochi, dymunai Elfyn ddefnyddio'r gair 'blush' ond ffafriai Conran 'redden'. Gwelai Conran y byddai 'blush' yn addas o ran sain, ond ni roddir esboniad pam y rhagorai 'redden'.⁶⁹ Dyma a ymddangosodd yn *Eucalyptus*:

⁶⁶ Gweler R. Gerallt Jones, 'The Poet as Translator', yn Nigel Jenkins (gol.), *Thirteen Ways of Looking at Tony Conran* (Cardiff: The Welsh Union of Writers, 1995), t. 33.

⁶⁷ Conran, *Welsh Verse*, t. 16.

⁶⁸ Menna Elfyn, 'Working with the Translator', yn Nigel Jenkins (gol.), *Thirteen Ways of Looking at Tony Conran*, t. 73.

⁶⁹ *Ibid.*, t. 75.

Y chwerw felys ffrwyth
a fu unwaith yn gwrido
tu ôl i aelïau'r cloddïau.⁷⁰

the bitter sweet fruit
that once reddened behind
hedgebanks and dykes.⁷¹

Dywed Elfyn hefyd y bu Conran yn dwys ystyried sut i gyfieithu 'clawdd' yn y cyswllt hwn gan fod amwysedd ynghylch pa fath o glawdd y cyfeiriai Elfyn ato. Y canlyniad yw y collir y ddelwedd o 'aelïau'r cloddïau', ond datgela'r stori hon gan Elfyn fod Conran yn fanwl iawn ei sylw i'r union eiriau a ddefnyddir gan y cerddi gwreiddiol. Yn ogystal, mae eglurdeb o ran y dweud yn hollbwysig iddo fel cyfieithydd, a dyna yw'r rheswm pam y mae ei gyfieithiadau ef yn fwy clir eu hystyr na'r gwreiddiol gan Elfyn. Dyma sut y disgrifia Conran arddull Elfyn:

Words and ideas and images churn, flash, spark off one another. Sometimes I think you are only just in control; they run almost out of your grasp...But this sense of words and images struggling – and you struggling with them, or flowing with them, or letting them exist, and still being you when saying things, feeling things in your own particular way – that is where the excitement of your poetry comes from.⁷²

Mae'r gerdd 'Byw, benywod, byw' gyda'r cerddi mwyaf arbrofol yn *Eucalyptus*. Cerdd goffa i ddau fardd benywaidd, Anne Sexton a Sylvia Plath, yw'r gerdd, ac mae hefyd yn ymlawenhau yn ymgyrchoedd llwyddiannus y mudiad ffeministaidd. Neges y gerdd yw y gallai'r beirdd heddiw fwynhau mwy o ryddid i farddoni:

I ti a sawl Sylvia
rhyw nosau salw
oedd ymyrraeth y lleferydd brau,
a'u lluosog arwahaniaith
wrth eich troi'n ddurturiaid cryg

⁷⁰ Elfyn, *Eucalyptus*, t. 10.

⁷¹ *Ibid.*, t. 11.

⁷² Dyfynnir yn Menna Elfyn, *Cell Angel: with English Translations by Gillian Clarke, Elin ap Hywel, Joseph Clancy, Tony Conran* (Newcastle upon Tyne: Bloodaxe, 1996), t. 10.

ar wifrau pigog
gwallgofrwydd.

Heddiw, ymdeimlo a fedrech
heb dwmlo droriau angau –
a'i gymhennu'n awen
ddiymddiheuriad.⁷³

To you – and to how many Sylvias? –
a faint cry's intervention
meant ugly nights.
The manifold divisiveness
impaled you, stuttering doves
on the barbed wire of madness.

Today, you could feel, be conscious
without jumbling the drawers of death
topsy-turvy. Its ordering
could inspire you
without apology.⁷⁴

Gellir cytuno â Conran wrth sylwi ar ddefnydd egnïol Elfyn o eiriau. Cyplysa Elfyn ddelweddau o'r byd domestig a theuluol ag erchylltra gwallgofrwydd y ddau fardd, ac ymdeimlir â thrallod y ddwy o gael eu rhwystro rhag cael y rhyddid y mae beirdd benywaidd yn ei fwynhau heddiw. Nid yw Conran yn mewnosod y llinellau yn yr un modd ag Elfyn; tŷn lawer llonyddach sydd i'r gerdd Saesneg. Yn y gerdd Gymraeg, mae sŵn y geiriau'n clymu delweddau blith-draphlith wrth ei gilydd gan greu cerdd anghonfensiynol o ran ei ffurf. Gwêl M. Wynn Thomas y strategaeth hon fel ffordd fenywaidd o ysgrifennu ac o ymddihatu o strwythurau gwrywaidd, gan gynnwys y dull gwrywaidd o ysgrifennu: 'Unlike men, women are unable to live within a social order already so well adjusted to their several needs that it seems 'naturally' to correspond to them. Instead, they live an experientially dispersed existence and learn constantly to improvise a rough, approximate coherence out of it all – rather like the

⁷³ Elfyn, *Eucalyptus*, t. 80.

⁷⁴ *Ibid.*, t. 81.

broken, unorthodox harmony of ‘Byw, benywod, byw’.⁷⁵ Gwelir yn y cyfieithiad na lwyddir i gyfleu bywiogrwydd y gerdd wreiddiol, ond nid dyna, gellir dadlau, yr amcenir ei wneud. Cais Conran gyfathrebu mor glir â phosib yr hyn a ddywed Elfyn gan gadw’n ffyddlon i’r delweddau. Mae cwpled olaf y gerdd yn fwy eglur yn y gerdd Saesneg, er enghraifft:

iaith ein byw o’r fenyw fyw
ar chwâl yn chwyldro’r gerdd.⁷⁶

From the live woman a live language
is loosed, a revolution of poetry.⁷⁷

Cyll y gerdd wreiddiol ei grym erbyn y diwedd oherwydd y cyffredinoli a geir a chymysgwch y cwpled olaf. Mynega Conran y llinellau olaf hyn yn glir, ac mae’r gair ‘loosed’ yn egluro’r symudiad sydd yn digwydd, sef yr ymrymuso rhyddhaol sy’n galluogi merched i ysgrifennu fel y mynnant.

Yn y gyfres o gerddi sy’n coffáu Gwyn A. Williams, yr hanesydd a’r darlledwr, crea Elfyn olygfeydd sy’n gyforiog o ddelweddau. Mae ymdriniaeth benodol â refferendwm 1979 yn y gyfres a hefyd â dechreuad datganoli yng Nghymru ym 1997. Bu ’79 yn achos chwalfa ym marn Conran, yn enwedig yng nghyswllt gweithgaredd diwylliannol llenorion Eingl-Gymreig: ‘Wales has become much more boring since it happened’, meddai, ‘for it frosted so much that was coming into fruition’.⁷⁸ Mae’n addas, felly, mai Conran a ddewiswyd i gyfieithu’r cerddi hyn oherwydd adleisia ei eiriau ddisgrifiad Gwyn A. Williams o’r naws yng Nghymru yn sgil canlyniad y refferendwm ac etholiad cyffredinol 1979 a roddodd Margaret Thatcher mewn grym: ‘Welsh politics had ceased to exist. Wales had finally disappeared into Britain’.⁷⁹ Cyfres o ddjarhebion tair llinell yw’r ail gerdd ac mae Elfyn yn arbroti â seiniau wrth gyfuno geiriau sydd bron yn cynganeddu:

⁷⁵ Thomas, ‘The Poetry of Gillian Clarke and Menna Elfyn’, t. 205.

⁷⁶ Elfyn, *Eucalyptus*, t. 80.

⁷⁷ *Ibid.*, t. 81.

⁷⁸ Tony Conran, *Frontiers in Anglo-Welsh Poetry* (Cardiff: University of Wales Press, 1997), t. 264.

⁷⁹ G. A. W. Williams, *When Was Wales?* (London: Penguin, 1985), t. 297.

Cynt na'r llychwynt ar lechwedd
y rhed aradr i'w diwedd,
cynt y try 'nawr' yn llynedd.⁸⁰

Quicker than the eddying wind
runs plough to the furrow end,
quicker 'now' to yesteryear.⁸¹

Ceidw Conran at nifer y sillafau ac adlewyrcha'r odl trwy ddefnyddio odl broest. Gwelir ei ddyfeisgarwch yn y modd y cymer ofal i ddewis y gair priodol, fel 'eddyng wind'. Bu i Conran gyfieithu testunau Dafydd ap Gwilym a llawer iawn o farddoniaeth yr Oesoedd Canol i'r Saesneg, ac mae'r hyder sydd ganddo wrth gyfieithu ffurf fwy caeth i'w weld yma. Sylwer hefyd fod Conran yn efelychu amser y ferf a strwythur brawddeg cerdd Elfyn fel bod y geiriau yn cyfateb bron yn llwyr o ran lleoliad. Effaith y strategaeth hon yw creu synnwyr o ddieithrwch yn y testun a chyfleu y math o strwythurau brawddegol sydd yn y Gymraeg; adleisir syniadau Schleiermacher yma ynghylch adlewyrchu hunaniaeth ieithyddol y gerdd er mwyn dangos, drwy gyfrwng yr iaith y cyfieithir iddi, fod iaith y testun gwreiddiol yn meddu ar nodweddion unigryw. Noda Ian Gregson fod Conran yn ychwanegu nodiadau ar ddiwedd rhai o'i gyfieithiadau (nid yn achos cerddi Menna Elfyn) er mwyn esbonio'r gyfeiriadaeth neu'r idiomau a geir mewn cerddi Cymraeg a goleuo'r hyn a olygir mewn cyfieithiad. Dywed Gregson mai bwriad Conran yw dangos sut y mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn wahanol: 'Conran's [translations] draw attention to the cracks as a significant expression of the deterritorializing of Welshness'.⁸² Gellir dadlau mai effaith debyg a geir yn y cyfieithiad dan sylw oherwydd bod Conran, drwy gadw'n ffyddlon i'r testun, yn datgelu ymadroddion a strwythurau ieithyddol y Gymraeg. Mae ei fwriad yn gadarnhaol yng nghyd-destun y nod o gymodi'n ddiwylliannol: cais gyfathrebu arwahanrwydd y Gymraeg i'w gyd-Gymry gan geisio cyfleu union drywydd meddwl y bardd Cymraeg.

⁸⁰ Menna Elfyn, *Perfect Blemish: New & Selected Poems 1995-2007 / Perffaith Nam: Dau Ddetholiad & Cherddi Eraill 1995-2007* (Tarset: Bloodaxe, 2007), t. 76.

⁸¹ *Ibid.*, t. 77.

⁸² Ian Gregson, *The New Poetry in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2007), t. 62.

Cerdd am ymateb Gwyn A. Williams i refferendwm 1979 a'i ddadnasoddiad ysgytwol o gyflwr Cymru fel cenedl yw 'Blwyddyn y Pla: Gwyn A. Williams – Refferendwm 1979'. Egyr y gerdd â'r syniad o golli gobaith, ac ymdeimlir ag unigrwydd yr hanesydd:

ai cenedl yn noethlymuna oedd hi
yn ffaglu ar eurwallt y mynydd-dir,
glaw asid yn tasgu ar ei chroen llosgwyllt;
atblygon y rhewynt yn rhincian gewynnau
wrth droi nwydau yn las mynawyd y bugail.

Do, holaist dy hun yn ddirugaredd
ai deddf disgyrchiant a ddrylliwyd,
swmbwl yn y cnawd ger godre'r graig,
ai llygod bach oeddem a'r gath hunanfodlon
yn gwatwar ein gwingo dan losgwrn a phalf?

Cenedl cnu un ddafad farw oedd ar ein dwylo,
yn ddameg basgedig –
ac yn ystod hyn oll
roedd pyncio cras
nico tynn dy nicotîn
yn canu brud, dy bryder
yn tynnu sêl o'th seler
gwaed ei grawnwin yn gochddu.

Oeddod y ddawns wedyn –
– difiwsig arianbib yn y llaid,
cerddodd yn waglaw i'r anialwch –
troi ymysg Mandans cefn gwlad –

lladinwr unig yn y glaw.⁸³

⁸³ Elfyn, *Perfect Blemish: New & Selected Poems 1995-2007 / Perffaith Nam: Dau Ddetholiad & Cherddi Eraill 1995-2007*, tt. 84, 86.

Was the whole nation, then, stark naked
flaring on the moss of the mountain land,
our wild burnt skin splashed by acid rain,
reflexes of the icy wind our sinews creaking,
our passions frozen blue as cranesbill?

Yes, you mercilessly asked yourself,
is the law of gravity shattered –
at the rock's foot a thorn in the flesh?
Were we little mice, that a self-satisfied cat
mocked writhing beneath tail and paw?

We'd a dead sheep's fleece of a nation on our hands
as a fatted parable...
and all the time you were talking
the dry singing
of the mean finch nicotine
prophesied, as your anxiety
drew the seal from your cellar,
the blood of its grape red, black.

The dance was delayed then? –
a musicless silver flute in the mire,

he walked into the wilderness,
among Mandans at the back of beyond he walked,

a lonely Latin in the rain.⁸⁴

Unwaith eto, gwelir cyfieithu manwl Conran yn adlewyrchu sain a rhythm y llinellau, ac yn creu llinell o gyfatebiaethau cytseiniol yn y Saesneg mewn ymateb i'r fersiwn Gymraeg: 'drew the seal from your cellar'. Os yw cystrawen Elfyn yn aneglur, gall y darlennydd Cymraeg droi at fersiwn Conran o'r gerdd am am eglurhad – yn anaml iawn y bydd ef yn gadael unrhyw amwysedd yn y cyfieithiadau. Os nad yw'r darlennydd yn medru'r Gymraeg, ceir cyfieithiadau manwl a ffyddlon gan Conran;

⁸⁴ *Ibid.*, tt. 83, 85.

mae ei ffyddlondeb yn golygu bod nodweddion barddoniaeth Gymraeg yn canfod eu ffordd i'w 'bywyd nesaf' yn y Saesneg.

Gillian Clarke

Gillian Clarke yw Bardd Cenedlaethol Cymru er 2008. Cyhoeddodd sawl casgliad o'i cherddi ei hun, yn cynnwys *Letter From a Far Country* (1982), *Letting in the Rumour* (1989), *The King of Britain's Daughter* (1993), *Five Fields* (1998), *Nine Green Gardens* (2000), a *Making the Beds for the Dead* (2004). Fel Menna Elfyn, mae Clarke wedi teithio'n helaeth i hyrwyddo ei barddoniaeth a cyfieithwyd ei gwaith i nifer o ieithoedd.

Pan holwyd Clarke ynghylch y broses o ddewis pa gerddi i'w cyfieithu, ategodd mai Elfyn sy'n dewis pa fardd fydd yn trosi cerdd benodol:

Menna asked me to translate for her, and chose the poems she wanted translated. But I do like her poetry. It is very difficult to translate it into English, proof, I think, that she has a highly individual voice, and does not keep to conventions. Formal poetry is easier to translate. She is often ambiguous. When I ask her, 'Is this a noun or a verb?' or 'Do you want this definition of the word, or that one?', she often replies, 'Neither one nor the other. All those meanings are there'. I then try to find a word in English that also has ambiguities - that is often impossible. It works the other way too of course. Menna translated a little poem of mine called 'Aeron'. In it I wrote 'the homing salmon'. There is no word for that in Welsh. Menna found a longer way to say it, but made up for it elsewhere in the verse.⁸⁵

Gwêl Menna Elfyn amwysedd fel rhan greiddiol o'i gwaith, felly – sy'n gwneud tasg y cyfieithydd o ddod o hyd i'r gair neu'r ymadrodd priodol yn anodd iawn. Ar y llaw arall, gorfoda'r cyfieithwyr i feddwl yn greadigol am y cyfieithiad a rhydd gyfle iddynt roi eu lliw neu eu cymeriad eu hunain ar y gerdd newydd. Meddai Clarke ymhellach yn y gyfrol *Cell Angel*:

⁸⁵ Cyfweliad yr awdur presennol â Gillian Clarke, 14 Mawrth 2010. Gweler Atodiad 2 isod.

Translation should not be linguistic or academic work but an act of poem-making... A poet-translator must make a new poem in the shell of another, holding the poet's pen, thinking her thoughts. Where a cadence, a moment of *cynghanedd* – Welsh consonantal patterns – or many-shaded meaning is lost here, I have tried to capture an equivalent in English there. I have tried to balance loss with gain.⁸⁶

Dengys y dyfyniad hwn nad yw Clarke yn ystyried cyfieithiad yn israddol i'r testun gwreiddiol – creadigaeth newydd ydyw. Wrth sôn am yr angen i ddeall meddwl yr awdur, disgrifia broses lawer mwy cymodlon ei naws nag yn achos termau gwrywaidd Steiner am yr 'aggression' y mae ei angen i feddiannu'r testun.

Cyfieithodd Clarke bedair cerdd ar gyfer *Eucalyptus*, gan gynnwys cerdd gyntaf y gyfrol, sef 'Blwyddyn Genedlaethol i'r Ystlum, 1986'. Sonia'r gerdd am gymwynas Elfyn i'r bobl a oedd yn lletya yn y tŷ haf drws nesaf i dŷ'r bardd, sef symud ystlum o'i gartref yn y tŷ. Yn y gerdd, cymherir sefyllfa'r ystlum yn cuddio yn y tŷ â sefyllfa siaradwyr Cymraeg yn cuddio eu hiaith a'u hunaniaeth:

Rhwng gaeafwst a haf,
y digwyddodd
trwst y tresmaswyr,
cychwynnodd gyda chnoc
ar ddrws y tŷ,
gwraig y tŷ gwyliau – a'n gefelldy,
yn chwilio cymorth – rhag ystlumod.⁸⁷

Between virus-weather and summer
there came
the sound of intruders
with a knock-knock
on my door.
A woman from the holiday home – our house's twin –
seeking rescue – from bats.⁸⁸

⁸⁶ Elfyn, *Cell Angel*, t. 8.

⁸⁷ Elfyn, *Eucalyptus*, t. 2.

⁸⁸ *Ibid.*, t. 3.

Gwelir yma fod y cyfieithiad yn ymwybodol fod rhaid atgynhyrchu sain y gerdd wreiddiol; ni ellir efelychu sŵn trwm ‘trwst y tresmaswyr’, ond defnyddir ‘knock-knock’ i gyfleu yr un math o sŵn a’r syniad o ymyrraeth. Ychwanega Clarke elfen o ddirgrifwch wrth ddefnyddio’r gair ‘rescue’ yn hytrach na ‘chymorth’ er mwyn gwneud hwyl am ben yr ymwelwyr a dwysáu’r ymwybyddiaeth mai allanolion ydynt. Ni wêl yr ymwelwyr eu hunain fel tresmaswyr – iddynt hwy, yr ystlum sy’n tresmasu:

Pwy a gredodd fod ystlumod yn ddall?

a pha ddisgwyl i famolyn ddeall

natur tresmasiaith:

ond carwn fod wedi drilio ato,

‘Crogwch yn fy nenfwd i’,

Cans crogi peniwaered a wnafl innau

gan storio’r Gymraeg o’r golwg;

ac weithiau agorir drws arnaf

a’ m drysu, am im fyw

yn ddiniwed ddi-nod

heb berthyn...⁸⁹

Who said bats were blind

and how can a beast know

what it is to trespass?

Yet I wish I had insisted,

‘Come, live in my roof space’

for I too hang upside-down

keeping my Welsh in the dark.

Sometimes a door opens

and I’m caught in the act

of living innocently

where I don’t belong...⁹⁰

Yma, gesyd Elfyn yr iaith Gymraeg yng nghyd-destun ecoleg: gwêl y tebygrwydd rhwng agwedd pobl tuag at yr ystlum a’r driniaeth a gaiff siaradwyr Cymraeg. Dywed fod ymdeimlad o fod yn lleiafrif yn ei chysylltu’n agosach â’r ystlum nag â’r bobl

⁸⁹ *Ibid.*, t. 2.

⁹⁰ *Ibid.*, t. 3.

sy'n aros yn tŷ. Nid yw'n bosib i Clarke gyfieithu'r 'tresmasiaith', ond mae'r ymadrodd 'caught in the act' o leiaf yn cryfhau'r synnwyr o dresmasu. Dywed y gerdd mai mater o bersbectif yw tresmasu – nid yw'r bobl sydd ar eu gwyliau yn eu gweld eu hunain fel 'intruders' – llefarydd y gerdd a'r ystlum sy'n teimlo dan fygythiad, ac mae 'I'm caught in the act' yn cyfleu'r amwysedd ynghylch hunaniaeth yn effeithiol. Diddorol yma yw tynnu sylw at yr hyn a ddywed Carolyn Jones am ei phrofiadau yn dysgu'r gerdd hon mewn ysgol yng Nghanada, ac fel y bu i'r gerdd alluogi disgyblion a oedd yn perthyn i is-ddiwylliant i drafod sut y teimlent ynghylch eu hunaniaeth a'u hiaith: 'Menna Elfyn's poem speaks to many of these students, and her honesty compels them to honesty as well. What does it mean to be different from the dominant group in society? For each of us with that experience, the answer is different'.⁹¹

Cerddi yn ymwneud â'r domestig yw'r rhan fwyaf o'r cerddi a gyfieithwyd gan Clarke yn y gyfrol *Cell Angel*, gan gynnwys rhai o gerddi gorau'r gyfrol megis 'Snowman', 'Cell Angel' ei hun a 'Pomegranates' – cerddi sy'n trafod celloedd o wahanol fathau ac ymryddhau o ffiniau'r celloedd hynny. Cerdd o'r gyfrol *Cusan Dyn Dall / Blind Man's Kiss* yw 'Dannedd yr Haul' / 'Teeth of the Sun'. Archwilia'r gerdd y tensiwn rhwng rheolau moesol-grefyddol a serch nwydus, ac mae'r geiriau'n dra synhwyrus ac yn chwarae â'r syniad o'r ffrwyth gwaharddedig yng ngardd Eden:

Credais unwaith nad oedd modd cael bwyta
o ffrwyth y pren heb deimlo ôl ei flys,
a'r anwes a'ch dal mewn llaw cyn difa
sugn gusanau heb fod arnoch raid na brys.
A ddoe ddiwetha, dywedaist fod i'r ffrwyth
– ryw alwad am ei oeri, mewn du-gell:
bod ffest mor frwd yn mynnu croeni llwyth
i'w noethlymuno lawr i'r bywyn pell.⁹²

I once believed it impossible to eat

⁹¹ Carolyn Jones, 'Letting the Bat Out: Teaching Menna Elfyn's Poetry in Vancouver', *Planet*, 190 (Awst/Medi 2008), t. 63.

⁹² Elfyn, *Perfect Blemish: New & Selected Poems 1995-2007 / Perffraith Nam: Dau Ddetholiad & Cherddi Eraill 1995-2007*, t. 96.

of the fruit of the tree without knowing its fire,
the caress it leaves on your hand before you taste,
its love-bites, its unhurried desire.
Only yesterday you said the fruit at best
wanted a moment cooling in the dark
cell of the ice box – such lusciousness suggests
nakedness skinned to the very heart.⁹³

Gellir dadlau bod Clarke wedi llwyddo i atgynhyrchu'r rhythm yn y cyfieithiad, hyd yn oed yn llyfnach na'r gwreiddiol. Mae'r gair 'fire' yn hytrach na 'blys' yn cyfrannu at y darlun graffig a Beiblaidd o'r ffrwyth, a'r syniadau am nefoedd ac uffern sydd ynghlwm â hynny. Cynilach hefyd yw'r llinell 'its love-bites, its unhurried desire' na'r llinell Gymraeg gyfatebol, sydd yn eiriog o'i chymharu, ac mae 'to the very heart' yn well nag amwysedd 'bywyn pell'. Thema debyg iawn sydd i'r gerdd 'Mai' / 'May' sydd hefyd wedi ei chyfieithu gan Clarke. Ceir darlun yma o ferch yn cael ei mesur ar gyfer ffrog gan wniadyddes, a myfyrir ar y tensiwn rhwng chwant ac ymatal. Mae'r gerdd yn esiampl o sut y cais Clarke osgoi goreirio er mwyn cyfateb i sain a ffurf cerdd Elfyn. Egyr y gerdd â naws ganoloesol, yn arbennig gan fod iddi epigraff o gerdd 'Mis Mai' Dafydd ap Gwilym, a chyfranna Clarke at hyn trwy ddefnyddio hen air Saesneg o'r Oesoedd Canol am ferch ifanc: 'Rhyw ladi croesi'r haf oeddwn i, / yn ffoli ar goesau heb ffiloreg'⁹⁴ – 'And me, the flibbertigibbet, / foolery above bare legs'.⁹⁵ Yn wahanol i Tony Conran, nid yw Clarke yn ceisio arddangos unrhyw ddieithrwch yn y testun, ond yn hytrach y mae'n ail-greu'r gerdd i fod mor naturiol â phosib yn y Saesneg. Cymerer rhan olaf y gerdd:

Ac untro ar wely'r pîn,
taerwn mai pinnau bychain
mewn asen oeddynt, yn cymell
imi ddal fy hunan, yn dynn
ym mharlys parod ei pharlwr
– pin rhwng ei gwefus.

⁹³ *Ibid.*, t. 97.

⁹⁴ *Ibid.*, t. 120.

⁹⁵ *Ibid.*, t. 121.

wrth i'w bysedd oer fy nal
rhag gwriad rhy fregus –
rhag datod amdanaf –
rhag llawenhau gyda'r nwydau
sy'n ddinodwydd wrth gyfannu –
wrth ddiosg ymaith
rywbeth amgenach na chnawd.⁹⁶

And once on a bed of pine needles
I'd swear the little pins
in my ribs were hers, a hint
to make me hold myself in check
paralysed in her parlour,
a pin between her lips
as her cold fingers kept me
from my frail matter
from my own undoing
from passionate celebration
that needles as we unite,
undressing
more than flesh.⁹⁷

Mae'r strategaeth o greu cyfieithiad sydd mor naturiol â phosib yn y Saesneg yn gallu cael ei disgrifio fel un o ad-diriogaethu yn ôl Ian Gregson.⁹⁸ Gellir dweud fod hyn yn ymgais i gymodi rhwng llenyddiaethau ond heb dynnu sylw at y gwahaniaethau rhyngddynt. Pan ofynnwyd i Clarke a oedd yn cytuno y dylid rhoi gwedd o arwahanrwydd mewn cyfieithiadau, ni chytunai â strategaeth o'r fath:

That's an interesting suggestion, but it does not quite express the move between English and Welsh and vice versa, since they are both Welsh languages and many of us experience both languages in our daily lives. They are not from another culture in the way, say, a foreign language would be.⁹⁹

⁹⁶ *Ibid.*, t. 122.

⁹⁷ *Ibid.*, t. 123.

⁹⁸ Gregson, *The New Poetry in Wales*, t. 62.

⁹⁹ Cyfweliad yr awdur presennol â Gillian Clarke, 14 Mawrth 2010.

Awgrymir nad oes angen tynnu sylw at arwahanrwydd yr ieithoedd gan fod yr ieithoedd yn perthyn i ddiwylliant cyffredin, Gymreig, beth bynnag. Byddai tynnu sylw at y ‘craciau’ yn y tirlun yn dieithrio yn hytrach na phwysleisio yr hyn sydd yn gyffredin rhwng hunaniaeth iaith Gymraeg ac iaith Saesneg Cymru.

Elin ap Hywel

Mae Elin ap Hywel yn nodedig am ei gwaith yn ymwneud â llenyddiaeth fenywaidd a ffeministiaeth. Bu’n olygydd i wasg *Honno*, y wasg Gymreig ar gyfer menywod, a chyhoeddodd gyfrolau o farddoniaeth wreiddiol gan gynnwys *Pethau Brau* (1982) a *Ffiniau / Borders* (2002) ar y cyd â Grahame Davies. Mae dwy o’r cerddi a gyfieithodd Elin ap Hywel ar gyfer *Eucalyptus* yn ymwneud â phlentyndod a’r ardegau, a cheir un am Gymru (‘Siapiau o Gymru’) a cherdd (‘Wedi’r achos’) am hiraeth Elfyn am ei gŵr pan fu yng ngharchar dros y Gymraeg. Mae Elfyn yn ‘Dau Gyfnod’ / ‘Different Periods’ yn trafod ei misglwyf cyntaf ac yna fisglwyf cyntaf ei merch. Dathla Elfyn yma ddechrau bywyd ei merch fel menyw aeddfed: ‘Llon a lleddf / dymhorau a ddaw i ruo ar riniog dy gnawd, / yn grych a llyfn odliadau’ – ‘Seasons happy and sad / will come to roar on the threshold of your flesh / in rhymes like the wrinkling and smoothing of a wave’.¹⁰⁰ Fel yr honnodd Nigel Jenkins, clustnodwyd Elin ap Hywel i gyfieithu cerddi penodol ‘of subtler emotional discrimination and finer female sensibility’ – disgrifiad sy’n ystrydebu ac yn cyffredinoli ynghylch gwaith ap Hywel fel bardd. Gellid dadlau bod Elfyn yn penodi grŵp o feirdd er mwyn elwa o’u harbenigeddau unigol, gyda’r canlyniad bod corff o gyfieithiadau amrywiol, safonol ac amlhaenog yn deillio o’r ‘prosiect’. Meddai Elin ap Hywel am y tîm hwn o gyfieithwyr:

Over the past twenty years or so, Menna’s openness to the many possibilities of translation, her long relationship with her translators and the way she has chosen them for their various areas of interest and expertise mean that they, in the process of dismantling and rebuilding, have had an eagle’s eye view of the development of her

¹⁰⁰ Elfyn, *Eucalyptus*, tt. 72, 73.

work. My specialist translating subjects being roughly describable as ‘vestry and boudoir’, my bird’s eye view is a partial one. Partial but privileged.¹⁰¹

Gellid dadlau fod Elin ap Hywel yn dangos mwy o hyder wrth gyfieithu mewn cyfrolau diweddarach, a hynny o ran y modd y cais ddangos ei llais ei hun o fewn y gerdd. Mae ‘Bronnau Ffug / Falsies’, o’r gyfrol *Perffaith Nam*, yn sôn am ŵr yn prynu bronnau ffug ar gyfer ei wraig. Cerdd chwareus yw hi, ond tuedda’r ysbryd hwnnw i gael ei guddio o bryd i’w gilydd yng ngeiriad y gerdd Gymraeg:

‘O dan fy mron’
yw byrdwn barddoniaeth,
ac eto, ni holodd neb
am wn i,
 pa fath fron a gaed
neu a gollwyd.

A rhaid
y gallem gymhwyso
gwireb yr oes:
i rai, mae’r cwpan yn hanner llawn,
i eraill yn hanner gwag.

A gwag sy’n gweddu i wragedd;
ni welant fod yn y nefoedd ‘faith’
le i’r fronglwm leiaf,
cans y mae i sêr y sgrin
rin sy’n sgleinio o noethion¹⁰²

‘Keep abreast’:
we do it all the time
yet no one ever asks
what kind of breast
it is we keep, or nip and tuck.

¹⁰¹ Elin ap Hywel, ‘The Song and Not the Singer’, *Poetry Wales*, 43, 4 (Gwanwyn 2008), t. 48.

¹⁰² Elfyn, *Perfect Blemish: New & Selected Poems 1995-2007 / Perffaith Nam: Dau Ddetholiad & Cherddi Eraill 1995-2007*, t. 188.

Here's a tailor-made truism for our age:
a C-cup, to some is half-full –
to others, it's half empty.

For women love emptiness;
in all the vastness of heaven
there's no room, in their minds,
for the
itsy-bitsiest, teensy-weeniest
little polka dot brassière.
Don't the stars of the screen
shine in their silvery nakedness...¹⁰³

Rhywbeth sydd o fantais i Elin ap Hywel yma yw y gall ddefnyddio termau Saesneg cyfoes poblogaidd; dewisa Menna Elfyn gadw o fewn ffiniau ieithyddol y Gymraeg ffurfiol, ac nid oes ymgais i fathu geiriau neu ddywediadau Cymraeg am 'nip/tuck':

Stori garu yw hon
'O dan fy mron o helbulon',
yn syw, yn sur,
aeth ef ger *bron* ei well,
at *feinciau* eraill,
a'i gwpan e, ni orlifodd
wedi hynny.

This is a love story,
'keeping abreast' with troubles,
splendidly, sourly,
he was brough *abreast* of his betters.
This time he's made a real *boob*,
His cup no longer runneth over.

Unwaith eto, mae elfen ddoniol yn nefnydd Elin ap Hywel o'r gair *boob*, a llwydda i drawsblannu'r ieithwedd Feiblaidd a geir yng ngherdd Elfyn er mwyn dychanu

¹⁰³ *Ibid.*, t. 189.

gwrywdod. Gellid dadlau, er hyn, fod ychwanegiadau Elin ap Hywel yn ddiangen o bryd i'w gilydd, ac yn ogystal mae ei harddull yn fwy rhyddieithol nag arddull Elfyn – gan roi'r argraff bod y cyfieithydd yn goresbonio o bryd i'w gilydd. O ganlyniad i'r ychwanegiadau hyn, tyn y cyfieithydd sylw ato'i hun. Mae ei phresenoldeb 'hi' yn y testun, fodd bynnag, yn un o nodweddion cyfieithu ffeministaidd. Dengys fod y cydweithio rhyngddi hi ac Elfyn yn gywaith sydd ag agenda ffeministaidd, nid o ran pwnc yn unig, ond ar lefel cymuned o ferched yn sgwrsio â'i gilydd.

Bu i Elin ap Hywel hefyd gyfieithu nifer o gerddi gan Elfyn sy'n trafod yr ysbrydol, gan gynnwys pedair o'r pum cerdd yn y gyfres 'Diwinyddiaeth Gwallt'. Defnyddia'r bardd wallt merch fel motiff a dry'n fodd i drafod y gwahaniaeth rhwng crefydd gyfundrefnol a rhyddid ysbrydol. Mae cerdd gyntaf y gyfres yn gofyn pam y mae crefydd yn gofyn iddi, fel merch, dorri ei gwallt yn fyr yn hytrach na dathlu creadigaeth Duw drwy ei gwallt. Alegori yw'r gerdd lle y defnyddir gwallt fel symbol (benywaidd) i gynrychioli amheuon eraill y bardd ynghylch Cristnogaeth. Gresyna'r drydedd gerdd, 'Problem Duwdod', ynghylch agwedd geidwadol yr eglwys tuag at ferched a'r erlid a brofasant, a disgrifia cerdd olaf y gyfres Dduw fel trinydd gwallt Efa, a sut y'i gwnaeth yn atyniadol i Adda. Newidir stori gardd Eden o fod yn un am demtiad Adda gan Efa i fod yn erfyniad gan Adda i Dduw am wallt cystal ag eiddo Efa – ac am hynny fe achosodd Duw i bob dyn foeli. Dengys Elfyn ei gallu i gynnal ac archwilio'n llawn ddelwedd yn ymwneud â gwallt, a defnyddio'r corff fel ffordd o drafod crefydd. Perthnasol yma yw'r hyn a ddywed M. Wynn Thomas – fod Elfyn yn canolbwyntio ar oblygiadau un gymhariaeth ar y tro: 'Yn hynny o beth weithiau mae'n ymdebygu i bregethwr a fydd am ddefnyddio pob chwedl hyd eithaf ei harwyddocâd'.¹⁰⁴

Nigel Jenkins

Ym 1987, cyhoeddwyd antholeg o gerddi heddwch dwyieithog, sef *Glas-Nos: Cerddi Dros Heddwch / Poems for Peace*, a gydolygwyd gan Menna Elfyn a Nigel Jenkins. Nid yw'n syndod, felly, mai cerddi ar themâu rhyfel yw'r rheini y gofynnodd Elfyn i Jenkins eu cyfieithu ar gyfer *Eucalyptus*. Cyhoeddwyd tri o drosiadau Jenkins yn y

¹⁰⁴ M. Wynn Thomas, 'Dwy Yma ar Lun Dameg', *Barddas*, 223 (Mai 1995), t. 22.

gyfrol – un yn fyfyrdod ar gyfarfyddiad â milwyr ifanc, cerdd am esgidiau'r Iddewon a laddwyd yn y siamberi nwy a cherdd am ryfel Bosnia. Mae'r gerdd 'Ar drên / 'On a Train' yn cyferbynnu hwyl huanhyderus y milwyr ar y trên â thawelwch y llefarydd wrth iddo feddwl pa fath o erchyllterau y bydd y milwyr hyn yn eu cyflawni ar faes y gad. Ychwanega Jenkins gyfeiriad i'r gerdd drwy gyfrwng 'My Lais', sef enw'r gyflafan waedlyd yn Fiet-nam. Yn y gerdd 'Dyffrynnoedd Dagrau' / 'Valleys of Tears', am fachgen yn Bosnia, cyfunir y corfforol a'r daearyddol:

A chwsg ni ddaw'n hawdd i lygaid iach
tra bo dyffrynnoedd dagrau
yn llifo pwyll rhaedrau.

Agor byw llygaid sy'n anos na'u cau,
derbyn marweiddio a'i deitheb maddau.¹⁰⁵

And sleep won't come to healthy eyes
while vales of tears disgorge
the sanity of waterfalls:

to open warm eyes is harder than to close them,
is acceptance of mortality
and mortality's passport,
forgiveness.¹⁰⁶

Mae'r gair mwys 'disgorge' – cyfuniad deheuig o fewn y gair unigol o'r corfforol a'r daearyddol ('gorge') – yn awgrymu delwedd o drais nad yw'n bresennol yng ngherdd Elfyn. Try Jenkins ddwy llinell olaf ddwys, ddegsill Elfyn yn llinyn o linellau sydd, sylwer, yn crebachu wrth fynd rhagddynt, ac aildroddir 'mortality' er mwyn cyfleu'r broses emosiynol o geisio dod i delerau â rhyfel. Diddorol yma yw nodi sylw Jenkins fod Elfyn yn annog ei chyfieithwyr i ymyrryd yn hunaniaeth y gerdd wrth gyfieithu: 'I try to adhere closely to her meanings, images and metaphors, but she has always encouraged experimentation, allowing me, for instance, to re-order certain elements, introduce a replacement image, and to tinker with line lengths in order to make a

¹⁰⁵ Elfyn, *Eucalyptus*, tt. 70, 72.

¹⁰⁶ *Ibid.*, tt. 71, 73.

poem that works in English'.¹⁰⁷ Dywed Jenkins nad yw am ddisodli llais Elfyn wrth gyfieithu'r gerdd, ac mai ei rôl ef fel cyfieithydd yw ail-greu 'llais' y gerdd yn yr iaith darged.

Serch hynny, dylid nodi fod Jenkins o'r farn mai pennaf-waith y cyfieithydd yw creu cerdd a all sefyll ar ei thraed ei hun yn annibynnol ar y gwreiddiol. Yn y cyswllt hwnnw, mae gan y cyfieithydd statws cyfartal â'r bardd. Yn wir, y mae gofyn i'r cyfieithydd fabwysiadu'r gwaith a'i berchnogi:

The translation-maker's duty is to the original, yes; but his primary duty is to the new poem which, through the process of translation, 'becomes' the translator's poem and not just a transliteration of the original poet's work. The translator is therefore active, not passive; an originator, not a transporter; a transformer and creator and not just some drudge who, dictionary in hand, roots for and writes down linguistic equivalents.¹⁰⁸

Noda Jenkins nifer o gamau sy'n ganllaw ar gyfer cyfieithu cerdd. Yn gyntaf, dylid dod i adnabod y bardd a manteisio ar y cyfle, os yw hynny'n bosib, i drafod y cyfieithiad â'r awdur. Yn hyn o beth, dylid ymglyfarwyddo â chorff gwaith y bardd, cyd-destun ei ysgrifennu, ei ddiwylliant, a chyfieithiadau llenyddol eraill o'r iaith er mwyn adnabod patrymau. Gellid yn y cyswllt hwn ddefnyddio troednodiadau, meddai, i esbonio manylion am ddiwylliant anghyfarwydd, ond dylid ceisio ymgorffori hynny yn y testun. Yn ail, yn ôl patrwm Jenkins, dylid dod i ddeall y gerdd a'i dadansoddi'n fanwl, ac adnabod y 'naws' y mae angen ei chyfleu yn y cyfieithiad. Yna, yn drydydd, buddiol yw darllen cyfieithiadau eraill, os nad yw hynny'n amharu'n ormodol ar y broses greadigol. Y pedwerydd cam yw gwneud cyfieithiad llythrennol o'r gerdd gan ddefnyddio geiriadur. Bydd y drafft cyntaf wedyn yn canolbwyntio ar gyfleu syniadau'r gerdd heb roi sylw i fanylion technegol. Yna, wrth lunio ail ddrafft, dylid ystyried agweddau megis strwythur y gerdd, y mesur priodol, rhythmau, a mydr. Pwysleisia Jenkins yr angen i gydymffurfio â phatrwm odl ac unrhyw effeithiau sain eraill y mae angen eu trawsblannu i'r cyfieithiad, a dewisir geiriau ac ymadroddion a fydd, ym marn y cyfieithydd, yn darparu'r technegau

¹⁰⁷ Cyfweliad yr awdur presennol â Nigel Jenkins, 14 Mawrth 2010.

¹⁰⁸ *Ibid.*

barddol gorau. Yn olaf, dylid gadael y gerdd am gyfnod o amser a mynd yn ôl ati a gweithio ar fersiynau pellach.

Datgela'r broses hon y sylw manwl a rydd Jenkins i'r broses o gyfieithu. Gwêl y cyfieithiad fel darn o gelfyddyd yn ei hawl ei hun, ac o ganlyniad, mae ganddo ef fel bardd yr hawl i ychwnaegu ei gynhwysion ei hun i rysâit y gerdd.

Ni chyfrannodd Jenkins i *Cell Angel*, ond bu iddo weithio ar ddeg cerdd ar gyfer *Cusan Dyn Dall / Blind Man's Kiss*. Ymdrinia'r cerddi arbennig hynny â themâu rhyfel, teithio, Cymru, cariad dau gymar, a salwch meddwl. Mae dylanwad teithiau Elfyn ar draws y byd yn darllen ei barddoniaeth yn dod i'r amlwg yn y gyfrol hon, ac i Jenkins yn anad yr un cyfieithydd arall y rhoddwyd y cerddi hynny i'w cyfieithu. Cerdd yw 'Cu Chi', er enghraifft, am brofiad Elfyn o ymweld â thwnelau'r Fiet-cong yn Fiet-nam, a'i braw o orfod penglinio ynghanol pryfed a thrychfilod. Egyr y gerdd â'r dyn camera a oedd yn ei ffilmio yn gofyn iddi blygu i lawr a gwenu ar y camera. 'Cwtsha' yw'r cyfarwyddyd yn y gerdd Gymraeg,¹⁰⁹ a defnyddiwyd 'Cwtsh down' yn y cyfieithiad¹¹⁰ gan ei fod yn air cyfarwydd i Gymry di-Gymraeg y De. Manteisia Jenkins ar y gair yn y Saesneg hefyd am ei fod yn cyfleu paradocs yn y cyswllt hwn: y mae iddo gysylltiadau cysurlon, annwyl gan amlaf, ond yma y mae'r amgylchiadau yn dra amhleserus. Wrth ddefnyddio'r gair 'cwtsh', mae Elfyn yn cyplysu Cymru a Fiet-nam ac yn eu cyferbynnu. Bu i Grahame Davies honni fod y llinell 'Eu llygaid yn rhythu tywyllwch' yn well yn y cyfieithiad: 'In Nigel Jenkins's translation, their eyes are "discharging desolation", which is, to my mind at least, rather better'.¹¹¹ Fel yn y gerdd 'Valleys of Tears', mae Jenkins yn achub y cyfle wrth ail-greu'r gerdd i drawsffurfio'r ddelwedd o lygaid du y trychfilod i awgrymu gweithgaredd mwy treisiol a grotésg – 'discharging desolation': darlun graffig o fileindra rhyfel Fiet-nam ac ymosodiadau brawychus y Fiet-cong.

Y mae'n werth tynnu sylw yma hefyd at y gerdd 'Raincoat in Asheville' sy'n gyfieithiad o 'Cot Law yn Asheville', ac sy'n seiliedig ar ymweliad Elfyn â Gogledd Carolina. Ar yr wyneb, cerdd yw hon sy'n gwneud hwyl ynghylch y rheidrwydd

¹⁰⁹ Elfyn, *Cusan Dyn Dall / Blind Man's Kiss*, t. 46.

¹¹⁰ *Ibid.*, t. 47.

¹¹¹ Grahame Davies, 'Blind Man's Kiss', *Poetry Wales*, 37, 1 (Haf 2001), t. 70.

hwnnw a deimlir gan y Cymry i gario côt law, rhag ofn y cânt eu dal mewn storm. Hyd yn oed mewn hinsawdd boeth, ‘daw gwlybanaeth fy nghenedl / a’ m tywallt, yn walltfeydd’.¹¹² Ni lwydda Jenkins i gyfleu ymadroddi tynn a seingar cerdd Elfyn; er hynny, caiff y motiff graffig o gorff noeth / cenedl noeth ei gyfleu’n effeithiol yn y cyfieithiad:

Dadlau oeddwn ger y bar
mor ofnus ddiantur oedd y Cymry.
‘Fyde neb yn mentro gollwng cot law
rhag ofn rhyw ddilyw,
llai fyth bod mewn esgeulus wisg.
Sych genedl yr haenau ydym,
yn dynn at yr edau.’

Eto, pes gallwn,
fe ddadwisgwn fy llwyth,
plisgo fesul pilyn amdanynt
a’u dirwyn at eu crwyn cryno.
Eu gadael yn y glaw i ddawnsio,
arloesi mewn pyllau dŵr,
ysgafnhau mewn monsŵn o siampaen.¹¹³

How timid, I declared at the bar,
how unventuresome the Welsh.
‘No one would dare leave a raincoat behind
for fear of a deluge –
still less neglect a negligée.
We like to keep dry, swaddled against
all outbrakes of flesh.’

I would if I could
undress my tribe,
flay them naked of every last stich
and leave them dancing in the rain,

¹¹² Elfyn, *Cusan Dyn Dall / Blind Man’s Kiss*, t. 92.

¹¹³ *Ibid.*, t. 93.

puddle-struck adventurers
levitating through a champagne monsoon.¹¹⁴

Er nad atgynhyrchwyd gan Jenkins yn ei drosiad y cyfatebiaethau cytseiniol a welir yn yr ymadrodd hwnnw, ‘a’ m tywallt yn walltfeydd’, sylwer ei fod, yn chwareus, yn ddiweddarach, yn cynnig ‘still less neglect a negligée’ fel cyfieithiad o ‘llai fyth bod mewn esgeulus wisg’. Fel y nododd Jenkins wrth esbonio’r broses o gyfieithu, rhydd bwyslais ar y motiffau sydd i’w hamlygu yn y cyfieithiad – y ddelwedd o’r corff yn y gerdd hon. Yn hytrach na dilyn y ddelwedd o’r edau sy’n dal y gôt at ei gilydd, dewisa Jenkins gyfnewid lleoliad dau gymal fel bod ‘outbreaks of flesh’ yn ymddangos ar ddiwedd y trydydd paragraff, ac felly’n denu llawer mwy o bwyslais at y weithred o noethlymuno. Mae’r geiriau ‘undress’, ‘flay’, ‘naked’, ‘stitch’ yn cyfleu synwyrusrwydd gwyllt sy’n wahanol i amwysedd sain-feddal y gerdd Gymraeg. Gellir dweud fod y newid mewn tôn a’r pwyslais a roddir ar y ddelwedd gnawdol hon yn fodd o wneud yn iawn am fethiant y cyfieithydd i gyfleu ymadroddion tynn Elfyn.

Cerdd arall a gyfieithwyd gan Jenkins yw ‘Harlem yn y Nos’ / ‘Harlem, Night’. Cyfyd y gerdd gwestiynau ynghylch safle’r lleiafrif ar yr ymylon ac oblygiadau hynny ar lwyfan rhyngwladol. Dywed Francesca Rhydderch fod y gerdd yn ‘sinister exploration of belonging and alienation’:¹¹⁵

Amdanaf i

’rwy yng nghefn cerbyd sgleiniog
sy’n brolio ei ddüwch. Chicano wrth y llyw,
mwy du na gwyn, lliw sinamon.

Ni ddeall Saesneg ond rhyngom, rhannwn
iaith olau’r materol a’i doleri,
yn wynion a gwyrddion ysgafn.

Rydym hanner ffordd rhwng gadael
a chyrraedd. Hanner ffordd rhwng
myned a dyfod. O’r tu ôl imi

¹¹⁴ *Ibid.* t. 94.

¹¹⁵ Francesca Rhydderch, ‘*Cusan Dyn Dall / Blind Man’s Kiss*’, *Planet*, 149 (Haf 2001), t. 103.

ardal Iddewig.¹¹⁶

Me, I'm reclined
on the back seat of a gleaming saloon that beams
with blackness. The Chicano at the wheel,
more cinnamon-as-black than white,

has scant English, but between us we share
the white-and-light-green lit-up lingo
of materialismo's money.

We're half way between departure
and arrival. Half way between
going and coming. To the rear of us,
a Jewish quarter¹¹⁷

Defnyddia Jenkins ieithwedd Americanaidd – ‘white-and-light-green lit-up lingo / of materialismo's money’ – i bwysleisio'r gyfundrefn gyfalafol y mae'r ddau ffigwr lleiafrifol – y Gyrrwr Tacsï Mecsicanaidd a'r bardd Cymraeg – yn rhan ohoni. Dywed y bardd mai ar daith y maent yn barhaus – i ganfod eu hunaniaeth yng nghyd-destun globaleiddio – ond mae cysur i'w gael yn y cyswllt hwn o weld fod profiad y lleiafrif yn gyffredin dros y byd.

Robert Minhinnick

Cyhoeddwyd pedwar cyfieithiad gan Minhinnick yn *Perfect Blemish / Perffaith Nam*. Ceir un gerdd ryfel ganddo, cerdd Elfyn am ei merch yn prynu gemwaith botwm bol, a dwy gerdd natur. Minhinnick yw'r cyfieithydd mwyaf creadigol o blith tîm Elfyn. Meddai yn achos rhai o'i gyfieithiadau yn y casgliad *The Adulterer's Tongue* (2003):

¹¹⁶ Elfyn, *Cusan Dyn Dall / Blind Man's Kiss*, t. 100.

¹¹⁷ *Ibid.*, t. 101.

Undoubtedly there are terrible accidents in *The Adulterer's Tongue*. There might be fatalities. But that's the excitement of translation. For me it's like driving at night without headlights. Certainly I would never claim to be a 'faithful' translator. I'm not interested in the mimetic, and to this writer, faithfulness has a dogged, indeed doggish, quality. My English versions of the Welsh poems here are not conceived as copies or echoes of the originals. If I was translating them next year they might look very different.¹¹⁸

Fan arall, clodfora Minhinnick Elfyn oherwydd nad yw'n ddeddfol ynglŷn â'i cherddi: 'Translating her is a joy because she is always adaptable, absolutely never dogmatic or precious about her work'.¹¹⁹ Yng ngherdd Elfyn, 'Botwm i'r Botwm Bol', darlunnir y berthynas rhwng mam a'i merch drwy gyfrwng botymau – y botwm bol sy'n eu clymu at ei gilydd a'r tlysau botwm bol a ddewisa ei merch wrth iddi aeddfedu a thorri ei chwys ei hun. Sonia Elfyn am y misglwyf cyntaf ac aeddfedu ei merch yn y llinellau, 'Wrth i ti gyrraedd at ddrws, / a'r daith drwy lawes goch, a'r dyfod seriws / i fyd sy'n llond botymau'.¹²⁰ Diddorol yw gweld y llinell hon yn cael ei hepgor yn gyfan gwbl gan Minhinnick – penderfyniad anffodus oherwydd bod y misglwyf, yr ysgrifennodd Elfyn amdano droeon, yn rhan ddiffiniol o brofiad y fenyw i Elfyn, ac mae ei gydnabod, a'i archwilio, yn rhan o'i chenadwri ffeministaidd. Y mae diweddglo trosiad Minhinnick yn bur wahanol i ddiweddglo'r gerdd wreiddiol. Yma, gwelir Minhinnick yn ennill rhyddid wrth ehangu cwmpas y gerdd (a'r drafodaeth), a thrwy osod y cysyniad o berthynas fageiliol (ac agos-atoch) mewn cyddestun cosmig:

A'r glasliw o dlws ar fogail
yw'r papur carbon sy'n blotio'n glir holl sail

dy fodolaeth. Yn rhannu a thorri bol.
Botwm siâp y byd yw,
nam perffaith, beunyddiol.¹²¹

and now I see in this blue nail in your navel

¹¹⁸ Robert Minhinnick (gol.), *The Adulterer's Tongue* (Manchester: Carcanet, 2003), t. xii.

¹¹⁹ Elfyn, *Perfect Blemish / Perffaith Nam: New and Selected Poems 1995-2007*, t. 299.

¹²⁰ *Ibid.*, t. 208.

¹²¹ *Ibid.*

a tiny screen where I might watch you whole.

And if flesh allows us what the flesh allows
how might we ever know the loneliness,
counting buttons, like stars, between us.¹²²

Gellir gweld o'r gwahaniaethau rhwng y ddwy gerdd yr amrywiaeth o ddelweddau
cyffrous y gellir esgor arnynt o ail-greu cerdd mewn iaith arall.

Mae 'Iâ Cymru' / 'Welsh Ice' ar fesur y filanél, a thrafoda Gymru o fewn cyd-destun
ecolegol. Yn benodol, dywedir fod dyfodol tir Cymru a'r amgylchedd ynghlwm wrth
ei gilydd: wrth i iâ y byd doddi, cyll Cymru ei thir. Y darlun o dirlun Cymru'n toddi
yw'r darlun a archwilir drwy'r gerdd:

Meirioli gwlad? Ai dyma arian cur?
Pob Cantre'r Gwaelod yn ddinas dan do?
Ymddatod wnânt eu beichiau, gadael tir.

O'r Pegwn pell, glasddwr yw'n hanes hir,
Wrth ymryddhau, bydd llithro ach i'r lli;
Eira'r oen a iâ, dau efaill yn wir,
Ymddatod wnânt eu beichiau, gadael tir.¹²³

History thaws. But when has mercury shown
mercy or memory of what it murders?
They're alike as they leave us, how soon they'll be gone.

It starts at the Pole in a kind of unlocking
and soon we're a legend beneath a blue level.
They're becoming the same, Welsh ice and spring frost;
so alike as they leave us, so soon to be lost.¹²⁴

¹²² *Ibid.*, t. 209.

¹²³ *Ibid.*, t. 198.

¹²⁴ *Ibid.*, t. 199.

Gwelir nad yw Minhinnick yn cyfleu'r cyfeiriadau penodol at chwedl Cantre'r Gwaelod ac felly cymedrolir yr ergyd a geir yng ngherdd Elfyn am dynged amgylchedd y byd a thir a diwylliant Cymru yng nghyd-destun hynny.

Joseph Clancy

Americanwr yw Joseph Clancy a symudodd i Gymru ar ôl ei ymddeoliad fel darlithydd yn Efrog Newydd ym 1990, ac fe'i hystyrir, gyda Conran, yn un o brif gyfieithwyr llenyddiaeth Gymraeg i'r Saesneg. Y mae'n werth nodi yma ei sylwadau ynghylch yr apêl i gyfieithydd yng ngwaith Menna Elfyn:

In translating Menna Elfyn I find it helpful that the person in the poems, the voice, comes into English readily – the lively intelligence, the intense response to ordinary as well as extraordinary experiences. Attractive, too, though anything but helpful, properly challenging for a poet-translator, is her constant attempt to find words for nuances of those experiences that seem almost inexpressible. Welsh words, of course, pushing the language at times to extremes that exceed the translator's grasp of either language.¹²⁵

Cytuna Clancy fod cyfieithu'n ffordd i'r Cymry di-Gymraeg ailddarganfod eu llenyddiaeth frodorol, ac y gall hynny yn ei dro godi hunanhyder pobl am eu hunaniaeth.¹²⁶

Cyfieithodd Clancy bedair cerdd ar gyfer *Eucalyptus*; pedair ar gyfer *Cell Angel*; deg ar gyfer *Cusan Dyn Dall / Blind Man's Kiss*; a dwy ychwanegol ar gyfer y casgliad *Perfect Blemish / Perffaith Nam*. Y mae arddull ei gyfieithiadau yn debyg i eiddo Conran oherwydd eu bod yn ceisio cyfateb yn union â thestun y gwreiddiol. Ychwanega Clancy glosau, a'u mewngorffori, yn y testun er mwyn esbonio ymadrodd a gyfieithir yn llythrennol o'r Gymraeg, er enghraifft:

and it's raining (as we say in Welsh)
'old women and sticks',
the ambiguous crinkles of their skins on the windows...¹²⁷

¹²⁵ Elfyn, *Cell Angel*, t. 9.

¹²⁶ Joseph Clancy, 'I Bwy ac i Be?', *Tu Chwith*, 8 (1997), t. 79.

Drwy gyfieithu'r idiom Cymraeg yn llythrennol, amlygir fod y gerdd yn perthyn i iaith wahanol, a thynnir sylw penodol at y gwahaniaethau idiomatig (ac felly hunaniaethol) rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Lle cais nifer o'r cyfieithwyr eraill guddio'r gwahaniaethau, mae Clancy a Conran yn pwyntio tuag atynt. Gellir nodi yma mai'r hyn sydd gan y ddau fardd-gyfieithydd yn gyffredin yw eu profiad o gyfieithu llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol, ac felly maent wedi arfer â chyfathrebu dieithrwch y testun yn eu cyfieithiadau. Hefyd, mae'r ymdeimlad o fod yn allanol yn gyffredin i Clancy a Conran, a hunaniaeth ddewisol (i wahanol raddau) yw bod yn Gymry iddynt. Math o genhadaeth yw cyfieithu iddynt, er mwyn dwyn llenyddiaeth Gymraeg i sylw poblogaeth ddi-Gymraeg Cymru a thu hwnt – ond maent yn awyddus, wrth gyflwyno elfennau dieithr i'r iaith darged, i ddangos ei harwahanrwydd a phwysleisio ei bod yn llenyddiaeth unigryw ac iddi ei hunaniaeth gref ei hun.

*

*

*

Wrth ddiweddu, gellid gofyn tybed a fedrir ystyried cyfieithu fel olew yr Eucalyptus – fel deunydd iachaol a all gymodi rhwng dwy lenyddiaeth Cymru? A ellir pontio rhwng y ddwy iaith er mwyn rhannu llenyddiaeth Cymru, a thrwy hynny, hyrwyddo hunaniaeth genedlaethol sy'n fwy cyfannol a gwerthfawrogol o'n hetifeddiaeth?

Mae'r drafodaeth, y dadlau a'r amheuaeth ynghylch prosiect barddonol Menna Elfyn yn brawf fod cyfieithu yn rhan hanfodol o'r pontio sydd ei angen rhwng dwy lenyddiaeth Cymru ar y naill law, ond hefyd fod gwaith i'w wneud i sicrhau fod maes cyfieithu yng Nghymru yn llawer ehangach ac yn fwy deinamig na mater o gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg yn unig. Ni ellir gweld bai ar y 'darllenydd Cymraeg', chwedl Hallam, yn ei ysgrif Saesneg, am bryderu ynghylch y trosi un-ffordd o'r Gymraeg.

¹²⁷ Elfyn, *Eucalyptus*, t. 29.

Galluogwyd Elfyn i ddatblygu gyrfa farddonol oherwydd iddi benderfynu cyhoeddi yn ddwyieithog, ac mae'n ymwybodol o'r ddyled i'w chyfieithwyr yn hynny o beth: 'She has often enough acknowledged that she has built a formidable international career largely on the strength of her translators' endeavours', meddai Nigel Jenkins.¹²⁸ Bu'r 'prosiect' hwn yn un y bwriwyd amheuaeth agored arno ymhlith darllenwyr Cymraeg a oedd yn feirniadol o'i gwaith, gan gwestiynu'r statws a roddwyd iddi felly gan lenorion llên Cymru yn Saesneg. Ceir enghraifft yma o'r rhyngwladol a ddefnyddir i ddisgrifio ei gwaith a'i statws rhyngwladol:

She is probably, by now, internationally the best-known living poet of Wales (in either language) and this is due quite as much to the fact that she writes in a minority language as to the excellence of her poetry (in translation). Far from 'betraying' the Welsh language and Welsh culture, her activities specifically draw attention to the language and the modern life that is lived through it. And it is not only the translations that people want to hear, as I can attest from having read with her on many platforms in America: they are avid to hear the music of the Welsh, even though few have a direct understanding of the language. I have mixed feelings, however, about the usefulness of translating from English into Welsh.¹²⁹

O gael tîm o gyfieithwyr o'i chwmpas, fe'i galluogwyd i ddefnyddio eu cryfderau fel beirdd a phennu yn sgil hyn gerddi yn arbennig ar eu cyfer. Nododd Joseph Clancy fod perygl yn hyn o beth i fardd gael ei demtio i ysgrifennu cerdd gan wybod y bydd y gerdd yn cael ei chyfieithu; dywedodd Clancy y gallai hyn achosi i'r bardd beidio â thalu sylw i gyfoeth ei iaith ei hun.¹³⁰

Ymhellach, er i nifer o feirniaid Cymraeg ddadlau i'r gwrthwyneb, cafwyd amddiffyniad cryf gan M. Wynn Thomas o ragoriaethau Elfyn fel bardd: 'Er bod y cyfieithiadau yn rhai cymen odiaeth, anaml y llwydda'r cyfieithwyr i atgynhyrchu'r cyfuniadau annisgwyl hynny – o nerfusrwydd ac agosatrwydd, swildod a beiddgarwch – sy'n gosod arbenigrwydd ei gwaith hi yn y Gymraeg'.¹³¹ Yn ddi-os, bu gwrthodiad Elfyn i gydymffurfio â chonfensiynau cynghanedd a'r hyn a eilw Thomas

¹²⁸ Cyfweliad yr awdur presennol â Nigel Jenkins, 14 Mawrth 2010.

¹²⁹ *Ibid.*

¹³⁰ Clancy, 'I Bwy ac i Be?', t. 77.

¹³¹ Thomas, 'Dwy Yma ar Lun Dameg', t. 23.

yn ‘masculine powers in poetry’¹³² yn safiad a apeliai at lenorion llên Cymru yn Saesneg oherwydd delwedd y canu caeth fel canu o statws diwylliannol uwch nag oedd yn hygyrch iddynt.

Dengys y bennod hon fod modd i gyfieithiadau ddatblygu annibyniaeth ar y testun gwreiddiol. Gall astudio cyfieithu hefyd ddatgelu llawer ynghylch hunaniaeth. Fe’i gwêl Menna Elfyn ei hun fel lleiafrif o fewn lleiafrif, a gellir dadlau fod nifer o’r llenorion llên Cymru yn Saesneg hwythau yn eu gweld eu hunain yn y modd hwn, o ystyried eu sefyllfa mewn perthynas â llenyddiaeth Gymraeg a llenyddiaeth Saesneg yn Lloegr. Ni ellir edrych ar y cyfieithwyr a fu dan sylw yn y bennod hon fel ffigyrau bradwrus chwaith, oherwydd mae gan bob un synnwyr o hunaniaeth Gymreig, ac ymwybyddiaeth – a amlygir yn eu hamrywiol strategaethau cyfieithu – o rôl a phwrpas cyfieithu yng Nghymru ar ddechrau’r unfed ganrif ar hugain.

Ystyriai Iwan Llwyd brosiect barddol Menna Elfyn fel rhan o’r ymdrech ar ôl methiant refferendwm 1979 i ailddiffinio Cymru a’r Gymraeg. Aeth Elfyn â barddoniaeth Gymraeg i dafarndai a chlybiau, ac yn ôl Llwyd, ‘openness to new experiences pervades her work’.¹³³ Parhad o’r prosiect barddol hwnnw yw ei chydweithio â beirdd-gyfieithwyr o Gymru, a chyhoeddi’r cyweithiau sy’n deillio o hynny mewn cyfres o gyfrolau dwyieithog.

¹³² Thomas, ‘The Poetry of Gillian Clarke and Menna Elfyn’, t. 205.

¹³³ Iwan Llwyd, ‘*Perfect Blemish*’, *Poetry Wales*, 44, 1 (Haf 2008), t. 66.

Diwedd glo

Y mae'r Diwedd glo hwn yn fodd – yn Ianwsaidd – i fwrw golwg yn ôl ar benodau'r thesis hwn, a hefyd daflu cipdrem ymlaen drwy amlinellu ambell drywydd pellach posibl ar gyfer astudiaethau yn y maes. Yn ogystal â chyflawni'r bwriadau a nodwyd yn achos pob pennod yn y rhagymadrodd, llwyddwyd hefyd, yng nghwrs y gwaith, i ddadlennu agweddau pellach ar y rhyngweithio rhwng y parau dan sylw.

Diddorol yn achos y bennod gyntaf, er enghraifft, yw'r modd y bu i ystyriaeth fanwl o gerddi Cymraeg a cherddi Saesneg cyfres Ianws ddadlennu gwahaniaethau rhwng deunydd dwy ochr y cywaith, a hynny o ran tôn, cyfeiriadaeth ac agwedd at y pwnc, er enghraifft. At hyn, diddorol yw'r pâr arall hwnnw sy'n ymddangos yn annisgwyl a dirybudd – sef dwy fersiwn T. James Jones o gerddi'r gyfres, y naill yn *Cerddi Ianws* ei hun, a'r llall yn ei gyfrol *Eiliadau o Berthyn* (1991) – a'r modd y bu iddo, yn yr olaf, fynd ati i adolygu a newid ambell ymadrodd arwyddocaol yn y gwreiddiol. Dadlennol hefyd yw'r hyn a welwyd yn achos y datblygiad yn hunaniaeth Jon Dressel yn dilyn siom 1979 – yn benodol sut y bu iddo ddychwelyd i America a mynd ati i archwilio'n llawnach ac ymuniaethu o'r newydd â'i hunaniaeth Americanaidd. Canlyniad hyn wrth gwrs yw'r defnydd o ffigur Robert E. Lee, mewn perthynas ag Owain Glyndŵr, yn *Wyneb yn Wyneb*, a sut y ceisiodd Dressel gymharu'r frwydr dros Gymru ag achos y 'Lost Cause' yn dilyn Rhyfel Cartref America, ar sail yr hyn a ystyriai yn dir cyffredin rhyngddynt, sef yr ymgyrch i ddiogelu traddodiadau penodol yn wyneb bygythiadau moderniaeth. Fel y gwelwyd, dyma gymhariaeth ac iddi beryglon amlwg.

Yn achos yr ail bennod, diddorol oedd gweld sut y mabwysiadodd Twm Morys yn ei gyfrol 2 rôl y bardd gwlad, ond gan ei datblygu drwy ei gwleidyddoli. Iddo ef, yr oedd y broses hon o boliticeiddio rôl draddodiadol yn ymateb, yn rhannol, i'r cwmp yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Ngwynedd (o 72.1% yn 1991 i 69% yn 2001; cafwyd gostyngiad o 7% rhwng 1981 a 2001 yn Llanystumdwy, sef cartref Twm

Morys¹) a hyn mewn gwrthgyferbyniad â'r twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn yr un cyfnod, sef cynnydd o 4.4%).² Ymhellach, gosodwyd hyn oll yn erbyn cefndir prosiect barddol Morys a'i ymgais i greu estheteg yn seiliedig ar yr hyn a wêl fel 'y dychymyg Cymreig'. Gwelwyd hefyd sut y rhoddwyd y dychymyg hwn ar waith yn nhrosiadau Twm Morys o weithiau gan Jan Morris – awdures y gellir yn fuddiol, fel yr awgrymwyd, archwilio ei gwaith drwy gyfrwng ystyriaeth o rymoedd 'hunaniaeth ddewisol' ar waith.

Ac y mae 'hunaniaeth ddewisol' wrth gwrs yn nodwedd gref o yrfa Raymond Garlick yntau, fel y gwelwyd. Un o'r agweddau mwyaf diddorol ar waith y bardd a'r beirniad llenyddol hwn yw dylwanwad uniongyrchol methiant refferendwm 1979 arno, a hynny fel rhan o drindod o golledion a brofodd oddeutu'r un cyfnod. Tynnwyd sylw hefyd yn y cyswllt hwn at arwyddocâd pellgyrhaeddol y cysyniad o strwythur, ffurf a threfn ar lefel gorfforol a diwylliannol mewn cyferbyniad â'r ymwybod poenus ag anabledd a cholledion diwylliannol. Ymhellach, trafodwyd ymateb barddonol Garlick i ymgyrchoedd iaith y 1970au – cerddi tra arwyddocaol (nad ydynt wedi cael y sylw beirniadol dyledus, dylid nodi) sy'n fodd o amlygu ei ymwybod ag ef ei hun fel allanolyn ar nifer o wahanol lefelau.

Y mae'r corff hefyd, fel y gwelsom, yn ddelwedd hynod berthnasol yn achos Angharad Tomos. Dyma awdures y mae llawer o'i gwaith gorau yn mynd i'r afael â seicoleg yr ymgyrhydd iaith, a datgelir drwy gyfrwng defnydd o ddelweddau o'r corff y tir cyffredin rhwng argyfwng personol ar y naill law ac argyfwng cenedlaethol ac ieithyddol ar y llall. Un o brif nodweddion yr ail ffigwr yn y pâr dan sylw, Gareth Miles, fel y gwelsom, yw'r modd y dramateiddia'r ymgiprys rhwng gwahanol ideolegau ar ffurf ymwneud gwahanol gymeriadau â'i gilydd, boed mewn nofel neu ddrama. At hyn, ychwanegwyd dimensiwn rhyngwladol i'r drafodaeth yn y bennod hon drwy osod 'Llenorion yr Achos' yng nghyd-destun profiad y llenor a'r academydd o Kenya, Ngugi Wa Thiong'o.

¹ Crynodeb Ardrowiad Ieithyddol Hafan Pwllheli, Cyngor Gwynedd: gweler y llyfryddiaeth ar ddiwedd y traethawd.

² Archif gwefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg:

<http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120306034031/http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/331.doc>; cyrchwyd 24 Medi 2012.

O gymryd y ddwy bennod olaf gyda'i gilydd, gobeithir eu bod yn gyfraniad i'r drafodaeth feirniadol yn y maes yn y modd y maent yn mynd i'r afael â dau fardd benywaidd sydd ill dwy yn llenyddda'n ddwyieithog – er mewn ffyrdd tra gwahanol i'w gilydd. Yn achos Gwyneth Lewis (Bardd y Goron 2012, perthnasol yw nodi), rhoddwyd pwyslais arbennig uchod ar y berthynas ddiddorol rhwng testunau 'cyfatebol', yn benodol y rheini sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Ymhellach, tynnwyd sylw at y posibiladau – a'r peryglon – sydd ynghlwm wrth gyflwyno portread o'r Gymraeg a'i diwylliant i gynulleidfa y mae'r pethau hyn yn ddieithr iddi, a chyfeiriwyd hefyd at ymdriniaeth flaengar y bardd hwn â gwyddoniaeth a thechnoleg. Y mae'r peryglon sydd ynghlwm wrth y weithred o 'drosi' diwylliannol yn ganolog hefyd, fel y gwelwyd, ym mhennod glo'r thesis. Yn y cyswllt hwn, gobeithir bod y sylw a roddwyd yn y fan hon i broffiliau'r beirdd-gyfieithwyr unigol a ddefnyddia Menna Elfyn fel rhan o'i phrosiect barddol wedi bod yn fodd o ehangu'r drafodaeth fuddiol a ddechreuwyd gan Tudur Hallam yn ei erthygl bwysig ar waith y bardd.

* * *

Cyn terfynu, buddiol fyddai awgrymu ambell drywydd beirniadol pellach yn y maes. Un o'r rhain yw ffenomen y llenor dwyieithog. Yn y cyswllt hwn, perthnasol yw cyfeirio at waith Fflur Dafydd, a thynnu sylw at berthynas ei nofel am Ynys Enlli, *Atyniad* (2006), â'r addasiad ohoni, *Twenty Thousand Saints* (2010).³ Er enghraifft, diddorol yw nodi'r ffaith fod Dafydd wedi ychwanegu yn y fersiwn Saesneg gymeriad newydd nas ceir yn y nofel wreiddiol. Vivien yw'r cymeriad hwn, a ddefnyddir er mwyn ymgorffori safbwyntiau cenedlaetholgar yn erbyn cefndir methiant refferendwm 1979. Yn wir, ei siom yn sgil canlyniad '79 oedd yr union reswm paham y bu iddi encilio i'r ynys yn y lle cyntaf, a byw yno fel meudwy.

Trywydd ffrwythlon arall fyddai olrhain gyrfa'r bardd Iwan Llwyd (1957-2010), gan graffu yn benodol ar y modd y bu iddo gydweithio drwy gydol ei yrfa â nifer o

³ Gweler Fflur Dafydd, *Atyniad* (Talybont: Y Lolfa, 2006); Fflur Dafydd, *Twenty Thousand Saints* (Talybont: Alcemi, 2008).

artistiaid a ffotograffwyr, a manteisir yma ar y cyfle hwn i amlinellu rhai agweddau arwyddocaol ar drywydd o'r fath.

Gellir dadlau bod 1979 a'i digwyddiadau wedi ffurfio holl yrfa farddol Iwan Llwyd. Ei lwyddiant cyntaf fel bardd oedd ennill Cadair Eisteddfod Ryng-golegol 1979 â cherdd *vers libre*, 'Y Ffynnon'. Alegori o chwedl Iarlles y Ffynnon ydyw, ac mae'n cael ei hadrodd o safbwynt Owain sy'n mynd at y ffynnon i gael dŵr. Yn y gerdd, ymdeimlir ag awydd y bardd i brofi dadeni yng Nghymru, ac y mae cysgod y refferendwm yn drwm ar y gwaith. Rhybuddir ynghylch marwolaeth cenedl, a'i chaneuon heb unrhyw ystyr a phwrpas mwyach: 'Marwnad fydd eu hanthem / A'u hemynau gwag ar fore'r gêm'.⁴ Cerdd gynnar, berthnasol arall gan Llwyd yw'r gerdd a enillodd iddo Gadair yr Urdd y flwyddyn ganlynol, 1980, ac mae nifer o'r delweddau yn y gwaith hwn yn rhagargoeli 'Gwreichion', a enillodd iddo Goron y Genedlaethol ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Mae cerdd arobryn yr Urdd, 'Ffenestri', yn seiliedig ar linellau gan Waldo Williams, sef 'Pwy yw'r rhain trwy'r cwmwl a'r haul yn hedfan, / Yn dyfod fel colomennod i'w ffenestri?', o'r gerdd 'Yr Heniaith'. Llwydni a dŵch yw'r hyn a wêl bardd 1980 drwy'r ffenestri lle bu'r 'machlud yn hardd', ac mae'r gwyll yn cau amdano. Cynigir darlun o bobl sy'n wynebu difancoll, ac eto sy'n anfodlon gweithredu er mwyn newid y sefyllfa. Gwell ganddynt yn hytrach freuddwydio am 'hafau'r llaeth a'r mêl', chwedl Llwyd, sef cyfnod sydd wedi diflannu bellach, yn ôl y bardd. Mae'r penillion tair llinell ynghyd â llinellau megis 'mor ddiliw ein meddyliau, heno' yn dwyn i gof golled y canu englynol cynnar, a'r gyfres 'Stafell Gynddylan' yn benodol, er mwyn pwysleisio'r sefyllfa argyfyngus a wynebier. Gellir dadlau fod dylwanwad 'Cerddi Ianws' i'w weld yn y gerdd hon yn y modd y darlunnir cenedl sy'n gwrthod neu'n anwybyddu'r ymbiliad arni i'w hachub ei hun. Diwedda 'Ffenestri' drwy ofyn cwestiwn sydd yn ei ddelweddaeth yn cyfuno cyfeiriadau at linellau Waldo ac at hanes Beiblaidd y dilyw: 'a ddaw'r colomennod / â'r gangen werdd yn eu genau / i hudo'r golau'n ôl / i lygaid y ffenestri?'.⁵

⁴ Gweler *Yr Awen* (Eisteddfod Ryng-golegol, 1979), t. 4.

⁵ J. Cyril Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau Llenyddol Buddugol: Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Bae Colwyn 1980* (Aberystwyth: Urdd Gobaith Cymru, 1980), t. 25.

Rhan ganolog, wrth gwrs, o unrhyw ymdriniaeth ag ymateb Llwyd i ddigwyddiadau 1979 yw ei gerdd 'Gwreichion', a enillodd iddo Goron Cwm Rhymni yn 1990. Dyma gerdd sy'n olrhain digwyddiadau'r cyfnod 1979-89, ar lefel bersonol a chenedlaethol. Y gerdd ganolog yn y cyd-destun presennol yw'r ail yn y gyfres, ac iddi'r teitl, 'Golygfa 1: Mawrth 1979 Angladd' – cyfeiriad diamwys at fethiant y refferendwm a'r hyn a welai'r bardd fel claddedigaeth yr hen Gymru. Y mae'n werth ei dyfynnu yn ei chyfanrwydd:

Bûm mewn angladd ddoe:

mewn mynwent wyntog ym Môn a glaw 'Werddon
yn cipio gweddïau o enau'r gweinidog:
y gwylanod yn hwylio'r môr ymbarelog
ar grib y gwynt fel y gwnaethant ganwaith
wrth ganlyn arad y ffarmwr ar y ffridd:

y ffarmwr yn y pridd:

a'r ynyswyr gwargrwm o bobtu'r lôn
yn dystion distaw i siwrne olaf arall
ac yn noethi eu pennau i'r gwynt:

Yno fe'th genhedlwyd
yn ochenaid rhwng y blodau a'r bedd,
ac ymhen naw mis
dy eni'n gryf yn yr oed oedd arnat,
a chenaist dy enw, Rhys...⁶

Cyfosodir yma angau a genedigaeth: cleddir hen ffordd o fyw ond hefyd fe arwyddir yng ngeni Rhys bosibiliadau newydd. Perthnasol yma yw dyfynnu ymateb dadlennol Iwan Llwyd ei hun i gerddi Ianws:

⁶ 'Y Casgliad o Gerddi: Gwreichion', yn W. J. Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Cwm Rhymni 1990* (Llys yr Eisteddfod Genedlaethol: Gwasg Gomer, 1990), tt. 37-8.

Dyma'r man cychwyn. O edrych i waelod y pydew, mae gobaith ailgodi. Gofynnodd Ianws gwestiynau caled ar adeg anodd. Gofynnodd hwy drwy herio rheolau un o brif gystadlaethau'r Brifwyl. Ac o'u gofyn, galluogwyd cenhedlaeth newydd o feirdd i chwilio cyfeiriadau a delweddau newydd er mwyn ymateb i gyfnod o newid a gwrthdaro cymdeithasol a gwleidyddol na welwyd ei debyg er y 30au.⁷

Rhan greiddiol o'r ymateb hwn i gyfnod newydd yn ôl gweledigaeth Llwyd oedd yr angen i esgor ar ddadeni ym maes barddoniaeth a beirniadaeth Gymraeg.⁸ Mewn dwy erthygl nodedig a ysgrifennwyd ar y cyd rhwng Iwan Llwyd a Wiliam Owen Roberts, ceir dadansoddiad llym o sefyllfa barddoniaeth a beirniadaeth yn y Gymraeg ar ddechrau'r wythdegau. Yn eu tyb hwy, yr oedd methiant y refferendwm yn symptom o'r diffyg trafodaeth ar hunaniaeth Gymraeg a Chymreig, a hynny'n rhannol oherwydd y cyflwr o stasis yn niwylliant Cymru. Tynnwyd sylw yn benodol ganddynt at yr hyn a welent fel methiant y diwylliant Cymraeg i ymaddasu a'i ail-greu ei hun ar gyfer anghenion y Gymru fodern. Yn 'Mae'n Bwrw yn Toremolinos' a 'Myth y Traddodiad Dethol',⁹ mae Llwyd a Roberts yn siarad o safbwynt Marcsaidd am yr angen i ddymchwel yr holl syniad a gâi ei gylchredeg mewn barddoniaeth Gymraeg ynghylch beth yn union oedd Cymru a phwy yn union oedd y Cymry. Meddai'r awduron: 'Mae honni y gellir ailddysgu cenhedlaeth ôl-1979 am lenyddiaeth yn ôl safonau syniadau cyn-1979 yn anghyfrifol a dweud y lleiaf'.¹⁰ Er mwyn symud ymlaen, rhaid oedd wrth fynegiant celfyddydol newydd. Y mae'n werth dyfynnu yma sylwadau Llwyd a Roberts yn 'Mae'n Bwrw yn Toremolinos':

Rhaid newid ein hagwedd. Rhaid canfod dull llawer mwy ystwyth, goddefol a gonest, a llai ceidwadol a rhexregol, na dull y 'mil blynnyddoedd'. Yn lle bod ein beirniaid yn ceisio dysgu o'r newydd 'Beth yw Llenyddiaeth?' i'r genhedlaeth wedi 1979, a'u gorfodi i edrych ar lenyddiaeth o safbwynt unllygeidiog a chul, onid yw'n bryd iddyn nhw dderbyn bod pob cyfnod yn galw am *ail-drosi* llên ei gorffennol a'i haddasu i'w

⁷ Iwan Llwyd, 'Rowlio Cerrig', *Barddas*, 252 (Mai/Mehefin, 1999), t. 27.

⁸ Am grynhoed o gyd-destun gwleidyddol a diwylliannol Cymru yn y cyfnod pan ddechreuodd Iwan Llwyd ar ei yrfa farddonol, gweler Geraint Siôn Williams, 'Astudiaeth o Farddoniaeth Iwan Llwyd', Traethawd M.Phil. (Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 2001).

⁹ Wiliam Owen Roberts ac Iwan Llwyd Williams, 'Mae'n Bwrw yn Toremolinos', *Y Faner*, 14 Rhagfyr 1984, tt. 6-7; Wiliam Owen Roberts ac Iwan Llwyd Williams, 'Myth y Traddodiad Dethol', *Llais Llyfrau* (Hydref 1982), tt. 10-11.

¹⁰ Wiliam Owen Roberts ac Iwan Llwyd Williams, 'Mae'n Bwrw yn Toremolinos', t. 6.

dibenion ei hun, a bod i bob cyfnod ei lenyddiaeth ei hun, nad yw'n ofynnol ei labelu yn ôl rhyw 'draddodiad'.¹¹

Agwedd ganolog ar yr ail-greu diwylliannol hwn y gosodai Iwan Llwyd a Wiliam Owen Roberts gymaint o bwyslais arno oedd yr angen i lenyddiaeth Gymraeg fagu perthynas fyw â'r gweledol ar ei amryfal weddau. Mewn erthygl dan y teitl 'Cyfarwyddyd Newydd' yn *Barddas* yn 1985, nododd Llwyd mai un o amodau ffyniant llenyddiaeth Gymraeg oedd bod bardd yn '[t]ynnu ei batrymau a'i ddelweddau o gronfa o syniadaeth ac o wybodaeth gyfoes'. Ac ychwanegodd Llwyd: 'Dyna a wnaeth Beirdd [*sic*] yr Uchelwyr yn feirdd "cymdeithasol"'.¹² Yn yr un ysgrif, gwelir Llwyd yn arddel ymwneud creadigol â chyfryngau eraill:

Efallai ei fod yn wirionedd anodd ei dderbyn, poenus hyd yn oed, ond oni chaiff yr iaith Gymraeg gerddi i'w canu i arwyr camera a chymdeithas, prysurir ei thranc. Magodd y sinema'n arbennig fytholeg newydd. Daeth y teledu a'r fideo â'r chwedlau hyn i'n cartrefi, rhaid i ninnau yn ein tro ddwyn eu delweddau i'n cerddi a'n storïau, fel y bo'r cyfryngau hynny hwythau'n agored i'r gymdeithas gyfan.¹³

Dyma weledigaeth sy'n cyd-daro ag ideoleg Gwyn Thomas, pleidiwr 'llunyddiaeth' yn y diwylliant Cymraeg. Dengys y dyfyniad uchod fod Llwyd ar ddechrau ei yrfa yn meddwl ynghylch sut yr oedd modd ehangu apêl llenyddiaeth Gymraeg, ac yn y cyswllt hwn fe werthfawrogai arwyddocâd a grym y ddelwedd a'i phŵer diymwad yng ngyswllt y cyfryngau torfol. Prawf brawddeg olaf y dyfyniad uchod ei fod yn gweld y berthynas rhwng llenyddiaeth Gymraeg a'r cyfryngau ehangach fel un symbiotig, perthynas a allai ddwyn barddoniaeth Gymraeg yn benodol i sylw cynulleidfâ ehangach. Priodol yma yw dyfynnu sylwadau Llwyd mewn erthygl arwyddocaol arall, sef 'Ceidwadaeth Ystyfnig ein Beirdd "Cyfoes"', a ymddangosodd yn 1984:

Thâl hi ddim i ni gyfyngu barddoniaeth i'r Eisteddfod, i gyhoeddiadau achlysurol nac i gylchgronau'r lleiafrif. Rhaid ceisio llwyfan iddi ar y cyfryngau torfol, mewn

¹¹ Roberts a Llwyd, 'Mae'n Bwrw yn Toremolinos', t. 7.

¹² Iwan Llwyd, 'Cyfarwyddyd Newydd', *Barddas*, 99/100 (Gorffennaf/Awst 1985), t. 24.

¹³ *Ibid.*

sesiynau roc ac mewn cyflwyniadau yn nhafarnau a neuaddau cefn gwlad. O fywiogi barddoniaeth yn y fath fodd efallai y gwelid rhagor o feirdd ifanc yn ymddiddori.¹⁴

Nid bygythiad oedd y cyfryngau newydd hyn i Llwyd, ond cyfle i bontio â chyfryngau mwy traddodiadol, ac ymestyn ffiniau llenyddiaeth Gymraeg. Ymhellach, roedd effeithiau llywodraeth Thatcher wedi gadael eu hól ar Gymru mewn ffordd na allai llenorion ei hanwybyddu, ac roedd Iwan Llwyd yn awyddus i greu sîn gelfyddydol yn y Gymraeg a oedd yn gwneud safiad, drwy ei chelfyddyd, yn erbyn yr hyn a ystyrid yn anghyfiawnder.

Yn erbyn y cefndir hwn, felly, dyma awgrymu trywydd pellach ar gyfer astudiaethau yn y maes, sef ymwneud creadigol Iwan Llwyd ar hyd ei yrfa ag amrywiol artistiaid a ffotograffwyr. Mewn erthygl bwysig ar berthynas beirdd Cymraeg modern â chelf weledol – ysgrif sy'n rhoi sylw i bwysigrwydd yr elfen ecffrastig¹⁵ mewn barddoniaeth gyfoes – tyn Gerwyn Williams sylw at y twf a fu yn yr ugain mlynedd diwethaf yn nifer y cyfrolau barddoniaeth sy'n ffrwyth cydweithio rhwng bardd ac artist, gan nodi sut y bu i'r 'berthynas rhwng celfyddyd weledol a barddoniaeth gael ei hybu'n...rhagweithiol' yn y cyfnod dan sylw.¹⁶ Y mae Iwan Llwyd yn ffigwr dylanwadol a chwbl ganolog yn y cyswllt hwn. Cynhwyswyd yn ei gyfrol gyntaf, *Sonedau Bore Sadwrn* (1983) a oedd yn rhan o gyfres Beirdd Answyddogol Y Lolfa, gartwnau a sgetsys, ac o hynny ymlaen y patrwm naturiol yn ei achos ef – yn wir rhan o weledigaeth ddiwylliannol ehangach Llwyd – oedd cynnwys ym mhob llyfr o'i eiddo enghreifftiau o gelf weledol gan feithrin deialogau trawsgyfryngol ar hyd yr yrfa. Y mae'n werth oedi yma i nodi'r corff o gyfrolau gan Iwan Llwyd, dros gyfnod o ryw ugain mlynedd, sy'n amlygu'r awydd – y prosiect yn wir – i rannu gofod ag amryfal artistiaid gweledol. Cydweithiodd Llwyd â'r artist Iwan Bala yn y gyfrol *Dan Anesthetig* (1987); â'r ffotograffydd Martin Roberts yn *Dan fy Ngwynt* (1992); â'r artist Anthony Evans yn *Dan Ddylanwad* (1997); â'r ffotograffydd Marian Delyth yn y gyfrol i ddathlu ei ben-blwydd yn 50, *Hanner Cant* (2008); â ffotograffydd arall, Aled Rhys Hughes y tro hwn, yn *Rhyw Deid yn Dod Miwn* (2008); â'r artist Catrin Williams yn ei gyfrol olaf, *Sonedau Pnawn Sul* (2009); a chynhwyswyd hefyd rai

¹⁴ Iwan Llwyd, 'Ceidwadaeth Ystyfnig ein Beirdd "Cyfoes"', *Y Faner*, 8 Mehefin 1984, t. 2.

¹⁵ O'r term Groeg, *ekphrasis*, sy'n golygu 'llefaru', 'siarad allan'.

¹⁶ Gerwyn Williams, 'Celfyddyd y Beirdd', *Ysgrifau Beirniadol XXIX*, Gerwyn Williams (gol.), (Dinbych: Gwasg Gee, 2010), t. 102.

delweddau ffotograffig yn y detholiad *Be 'Di Blwyddyn Rhwng Ffrindia: Cerddi 1990-99* (2003). Rhoddir llwyfan amlwg yn achos pob cyfrol unigol i waith yr artist/ffotograffydd, a gaiff ei gydnabod yn eglur ar y clawr.

Perthnasol yma yw tynnu sylw at un o'r cerddi pwysicaf yn y gyfrol gynnar honno, *Dan Anesthetig*. Yn 'Barddoni (yn Gymraeg)', a gyfosodir â darlun awgrymus/aflonyddol gan Iwan Bala, meddai'r bardd:

Ydi o fel bod mewn pub yn Llundan?

Ydi o?

Y siarad unig â thi dy hunan

a neb yn gwrando:

heb yno neb a wybu adnabod,

neb yn perthyn,

a'r geiriau'n cronni cyn suddo

i waelod diod rhywun:

yn ceisio sgwrs, yn creu ystrydebau

ac yn ail-dreulio

y tir, y tywydd, mân ddigwyddiadau

â'r neb sy'n gwrando:

yn osgoi sylwedd wrth geisio sylw

a chadw cwmni,

a channwyll olaf cyfnos gwelw

yn prysur doddi:

Ydi o fel bod mewn pub yn Llundan

a'r nos ar dorri?¹⁷

Dyma godi cwestiynau perthnasol mewn modd dramatig ynghylch safle'r bardd Cymraeg a'i berthynas â'i gynulleidfa. Hydreiddir y gerdd ag ofnau hunaniaethol o wahanol fathau: pryder ynghylch y ffaith fod y bardd yn siarad ag ef ei hun yn unig ('a neb yn gwrando'); pryder ynghylch y perygl o esgor ar ddim ond 'ystrydebau' pan *fo* rhywun yn gwrando; a phryder hefyd, yng nghyd-destun diwylliant sy'n nychu ac yn gwanhau ('a channwyll olaf cyfnos gwelw / yn prysur doddi'), ynghylch gwaith ansafonol ac anarhosol ('osgoi sylwedd wrth geisio sylw / a chadw cwmni'). Y mae'r

¹⁷ Iwan Llwyd ac Iwan Bala, *Dan Anesthetig* (Caerdydd: Gwasg Taf, 1987), t. 2.

gerdd yn fynegiant cofiadwy o'r pwysau y gall bardd mewn diwylliant lleiafrifol ei deimlo – y pwysau i gynhyrchu rhywbeth blaengar a newydd, ynghyd â'r pwysau cyferbyniol i blesio a diddanu cynulleidfa draddodiadol. Yng ngoleuni hyn oll, gellir yn fuddiol synio am 'brosiect' Iwan Llwyd o gyhoeddi cyfrolau ar y cyd ag artistiaid a ffotograffwyr yn nhermau ymgais i wrthweithio'r ofnau a'r pryderon a fynegir yn y gerdd hon, drwy greu cymuned artistig yng Nghymru sydd yn pontio rhwng gwahanol gelfyddydau a chyfryngau, ac a all, yn sgil hyn, ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol. Arwyddocaol, yn hyn o beth felly, yw'r hyn a ddywedodd Iwan Bala am Llwyd mewn cyfweliad â'r awdur presennol: 'Mae ei waith yn eitha hawdd i'w ddarllen, ac yn gyfoes ac eangfrydig. Mae wedi trafaelio ac wedi profi llawer o deimladau a phrofiadau. Fel yntau rwyf hefyd yn ffan o waith T.H. Parry-Williams. Yn fwy na hyn, mae ei waith yn creu delweddau ym meddwl y darlennydd yn ei ffordd o ddisgrifio pethe. Mae rhywbeth "ffilmig" i rai o'r cerddi'.¹⁸ Ac fel y dywedodd Aled Lewis Evans, er enghraifft, mewn adolygiad ar y gyfrol *Dan Anesthetig* yn *Y Faner*: 'Syniad cyffrous yw cyfuno darlun a cherdd, ac ar y cyfan teimlaf fod darluniau Iwan Bala yn cyd-blethu'n effeithiol gan fod ynddynt yr un miniogrwydd a beiddgarwch ag a welir yn y cerddi'.¹⁹

Perthnasol hefyd yng nghyd-destun y cysyniad hwn o ffurfio cymuned artistig yw ymwneud Llwyd â ffurfiau celfyddydol eraill – cerddoriaeth yn arbennig (bu'r bardd yn gitarydd bas mewn grwpiau megis Geraint Lovgreen a'r Enw Da a Steve Eaves a'i Driawd, a diddorol yw nodi mai ar lun y cerddor yr ymddengys Llwyd ar glawr y gyfrol *Hanner Cant*). Priodol yma yw'r ffaith y bu Llwyd yn rhan hefyd o sawl taith farddol, gan gyflwyno barddoniaeth i gynulleidfaoedd mewn tafarndai, clybiau a neuaddau: 'Fel yr Hed y Frân'; 'Cicio Ciwcymbars'; 'Dal Clêr'; 'Bol a Chyfri' Banc'; 'Full Monty Barddol'; 'Syched am Sycharth'; a 'Thaith y Saith Sant'. Portreadwyd rhai o'r rhain ar ffurf rhaglenni teledu, a gwelwn y rhyngweithio hwnnw rhwng gwahanol gyfryngau ar waith mewn modd ffrwythlon yng nghyd-destun prosiect 'Dan Ddylanwad' yn arbennig – prosiect yr oedd iddo dair elfen, sef taith farddol (ryngwladol, dylid nodi), cyfres deledu²⁰ a'r gyfrol ei hun (ar y cyd ag Anthony Evans). Yn yr un modd, bu'r prosiect 'Eldorado' yntau'n un amlgyfryngol: taith,

¹⁸ Cyfweliad yr awdur presennol ag Iwan Bala, 29 Tachwedd 2010.

¹⁹ Aled Lewis Evans, 'Dan Anesthetig', *Y Faner*, 2 Chwefror 1988, t. 15.

²⁰ *Dan Ddylanwad*, Cwmni Telegraffiti, SAC, 1997.

cyfres deledu a chyfrol ar y cyd â'r bardd Twm Morys.²¹ Yn y gyfrol *Eldorado* (1999), diddorol yw sylwi nad eir ati i nodi pa fardd, Llwyd neu Morys, a ysgrifennodd pa gerdd – strategaeth sy'n niwlogi'r ffin rhwng beirdd unigol ac yn cryfhau'r syniad o gymuned artistig gyffredin.

Dyma, felly, bennu trywydd ffrwythlon ar gyfer archwiliadau pellach. Gallai archwiliadau o'r fath fynd i'r afael ag agweddau megis rôl ecffrasis yn *oeuvre* Llwyd, union natur y berthynas rhwng gair a delwedd yng nghyfrolau'r bardd, a bywyd amgen y farddoniaeth mewn perfformiad llafar. Yng nghyswllt yr agwedd gyntaf honno, ecffrasis, byddai'n rhaid rhoi sylw manwl i'r gyfres o gerddi a gynhyrchodd Llwyd mewn ymateb i waith gwahanol artistiaid ym Mhabell Celf a Chreffft yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1997. Y mae'n hynod arwyddocaol mai ef oedd y bardd cyntaf i gael ei wahodd i ymgymryd â'r prosiect hwn, sydd bellach wedi dod yn arfer blynyddol.²² Yng nghyswllt yr ail agwedd a nodwyd uchod – sef y berthynas rhwng gair a delwedd yng nghyfrolau Llwyd – difyr fyddai cyfweld â'r artistiaid dan sylw er mwyn archwilio eu profiad hwy o gydweithio â'r bardd ar brosiectau o'r fath. Meddai Aled Rhys Hughes, er enghraifft, mewn cyfweliad â'r awdur presennol ynghylch y gyfrol *Rhyw Deid yn Dod Miwn*: 'rwy'n meddwl...fod y lluniau yn fwy nag "illustrations" i'r gair a'r geiriau yn fwy na chapsiynau i'r delweddau, a thrwy eu cyfuno bod trydydd peth yn digwydd sy'n fwy na chyfanswm y ddwy ran'.²³ Ac y mae'n werth dyfynnu yma ymateb Siôn Aled mewn adolygiad o *Dan Fy Ngwynt* yn 1992:

Mae ffotograffau Martin Roberts yn adlewyrchiad gweledol perffaith o grefft Iwan â geiriau – golygfeydd y mae rhywun yn mynd heibio iddyn nhw bron bob dydd, heb sylwi, ond mae Martin, fel Iwan, wedi sylwi, ac wedi rhoi iddyn nhw sioc o arwyddocâd. Y peryg gyda chynnwys deunydd gweledol mewn cyfrol o farddoniaeth yw y bydd y lluniau'n ymddangos yn ddim ond addurn y gallech ei hepgor heb golli dim ar werth y gyfrol. Yma, fodd bynnag, er y gallai cerddi Iwan a lluniau Martin sefyll ar eu liwt eu hunain, maen nhw gyda'i gilydd yn ffurfio cyfanwaith grymus. Gobeithio'n wir y gwelwn fwy o arbrofi gyda chyfuno mwy nag un cyfrwng fel hyn,

²¹ Iwan Llwyd a Twm Morys, *Eldorado: Llwybrau Dau i Le Diarth* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1999); *Eldorado*, Cwmni Telegraffiti, S4C, 1999.

²² Gweler Iwan Llwyd, 'Delweddau o Gymru', *Talesin*, 80 (Hydref 1997), tt. 40-9.

²³ Cyfweliad yr awdur presennol ag Aled Rhys Hughes, 2 Hydref 2010.

yn enwedig o gofio cyn lleied o sylw a gafodd y celfyddydau gweledol yng Nghymru yn ddiweddar.²⁴

Agwedd ddiddorol bellach ar y cydweithio rhyng-gyfryngol hwn yw union ddeinameg y berthynas artistig yng nghyswllt cyfrol olaf Iwan Llwyd, *Sonedau Pnawn Sul*. Delweddau gan Catrin Williams a welir ar y cyd â'r cerddi yn y gyfrol hon – delweddau a welodd Llwyd mewn arddangosfa o waith yr artist yn Oriol y Galeri, Caernarfon. Yr hyn sy'n ddiddorol yn y cyswllt hwn yw'r ffaith fod y rhain yn ddarluniau yr oedd yr artist wedi eu llunio fel rhan o brosiect ar y cyd â'r cerddor Huw Warren. Wrth i Warren ganu'r piano, ymatebai Williams i'r hyn a glywai drwy baentio delweddau. Cerddoriaeth jazz oedd y rhan fwyaf o'r miwsig dan sylw, a thystia'r arlunydd fod y cyswllt hwn â cherddoriaeth yn un o'r rhesymau paham y denwyd Llwyd at y darluniau yn y lle cyntaf, a phaham y bu iddo wahodd Williams i fod yn rhan o'r gyfrol *Sonedau Pnawn Sul*.²⁵ Ystyrier yn erbyn y cefndir hwn soned megis 'La Boca':

Tra bod dau yn dawnsio tango ar y stryd
Ac awel o'r Iwerydd yn La Boca,
A rhai yn gweld dros orwel pell o hyd,
A gwin fel haul y bore ym Mhatagonia;
Tra bod cân a cherdd a thra bod iaith
I eirio'r mymryn gwllith o gusan ola',
A thra bod un hen gaucho'n croesi'r paith
A haul y de yn mynd i'w wely'n ara';
Tra bod y du yn wyn, a thra bod darlun
Yn stomp o baent, tra bod morfilod
Yn cadw'r oed ar ochr bella'r penrhyn,
A thra bod dŵr yn wyrdd yn Nant y Pysgod,
Fe fydd yr angylion bychain yn y wal
Yn gweld breuddwydion eto'n cael eu dal.²⁶

²⁴ Siôn Aled, 'Adolygiad o *Dan fy Ngwyni*', *Golwg*, 5, 2 (10 Medi 1992), t. 18.

²⁵ Cyfweliad yr awdur presennol â'r artist Catrin Williams, 18 Rhagfyr 2010.

²⁶ Iwan Llwyd a Catrin Williams, *Sonedau Pnawn Sul* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2009), t. 21.

Dyma gerddoriaeth, celf weledol a barddoniaeth yn dod ynghyd. Ffurfia'r artisitiaid a'r ffotograffwyr y cydweithiodd Iwan Llwyd â hwy ar hyd ei yrfa gyfres o barau diddorol sy'n cynnig trywyddau ffrwythlon ar gyfer astudiaeth bellach.

Cymwys yn y cyd-destun artistig hwn yw terfynu'r astudiaeth hon fel y dechreuasom, a hynny gyda ffigwr Ianws. Mewn cyfweiliad â Damian Walford Davies dan y teitl 'Llenyddiaeth "Ôl-Gynulliad"', a hithau bryd hynny bron yn ddegawd er sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, tynnodd Dafydd Elis-Thomas sylw at arwyddocâd ffigwr Ianws mewn darlun gan Iwan Bala:

Ar fur y swyddfa hon mae un o baentiadau *Baner i'r Cynulliad* o waith Iwan Bala. Mae'r darlun hwn, a ffigwr Ianws yn rhwyfo cwch ar ddŵr dan y brynau a'r cymylau, y wawr a'r machlud haul, yn symbol trawiadol o newid.²⁷

²⁷ Damian Walford Davies a Dafydd Elis-Thomas, 'Llenyddiaeth "Ôl-Gynulliad"', *Taliesin*, 126 (Gaeaf 2005), t. 14.

LLYFRYDDIAETH

(A) CYFROLAU, ERTHYGLAU AC YSGRIFAU

AARON, Jane, 'Gwyneth Lewis: *Parables and Faxes*', *Poetry Wales*, 31, 2 (1995), tt. 59-61.

_____ a THOMAS, M. Wynn, 'Pulling You Through Changes: Welsh Writing in English Before, Between and After Two Referenda', yn THOMAS, M. Wynn, *Welsh Writing in English* (Cardiff: University of Wales Press, 2003), tt. 278-309.

_____ a WILLIAMS, Chris, *Postcolonial Wales* (Cardiff: University of Wales, 2005).

ALED, Siôn, 'Adolygiad o *Dan fy Ngwynt*', *Golwg*, 5, 2 (10 Medi 1992), t. 18.

ANDERSON, Benedict, *Imagined Communities* (London: Verso, 1983).

AP HYWEL, Elin, 'The Song and Not the Singer', *Poetry Wales*, 43, 4 (Gwanwyn 2008), tt. 47-9.

ASHCROFT, Bill, GRIFFITHS, Gareth a TIFFIN, Helen, *The Empire Writes Back: Theory and Practice in Post-Colonial Literatures* (Abingdon: Routledge, 1989).

_____, *Post-Colonial Studies: The Key Concepts – Second Edition* (Oxon: Routledge, 2000).

BAINES, Menna, 'Byd yr Ymylon: Menna Baines yn Holi Gwyneth Lewis', *Barn*, 389 (Mehefin 1995), tt. 40-1.

BALSOM, Denis a JONES, J. Barry (goln.), *The Road to the National Assembly for Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2000).

BASSNETT, Susan, *Translation Studies* (London: Routledge, 1991).

_____, a TRIVEDI, Harish, *Post-Colonial Translation* (London: Routledge, 1999).

BASSETT, T. M. (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau: Caernarfon a'r Cylch 1979* (Llandysul: Gwasg Gomer dros Lys yr Eisteddfod Genedlaethol, 1979).

BERMAN, Sandra, a WOOD, Michael (goln.), *Nation, Language and the Ethics of Translation* (Woodstock: Princeton University Press, 2005).

BHABHA, Homi K., *The Location of Culture* (London: Routledge Classics, 2004).

BIANCHI, Tony, “‘Let the Poem Shout Praise’ – a View of Raymond Garlick’s *Incense*’, *Planet*, 40 (Haf 1977), tt. 22-6.

_____, ‘Cyfieithu Ein Cyfoeth Ni’, *Llais Llyfrau*, 3 (Hydref 1995), tt. 7-8.

BROOKS, Simon, ‘Wynebau ar Dywod’, *Barn*, 397 (Chwefror 1996), tt. 28-9.

_____, ‘Ffantasi Hil-Laddiad a’r Diwylliant Cymraeg: Dirnad Cenedlaetholdeb Ethnig, a Syniadaeth Slavoj Žižek’, yn Gerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXX* (Bethesda: Gwasg Gee, 2011), tt. 133-68.

BOWIE Fiona, a DAVIES, Oliver, *Discovering Welshness* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1992).

CARTER, Harold, *Against the Odds: The Survival of Welsh Identity* (Cardiff: Institute of Welsh Affairs, 2010).

CEBREIRO, Maria de, ‘In Conversation: Maria de Cebreiro and Menna Elfyn’, *Poetry Wales*, 44, 2 (Hydref 2008), tt. 10-14.

CHRISMAN, Laura, a WILLIAMS, Patrick (goln.), *Colonial Discourse and Post-Colonial Theory* (London: Harvester Wheatsheaf, 1993).

CLANCY, Joseph, 'Travel Notes', *Books News from Wales*, Gaeaf 1992, t. 10.

_____, 'I Bwy ac i Be?', *Tu Chwith*, 8 (1997), tt. 77-80.

CLEMENTS, Paul, *Jan Morris (Writers of Wales)* (Cardiff: University of Wales Press, 1998).

CONRAN, Anthony, *Welsh Verse* (Bridgend: Poetry Wales Press, 1986).

_____, 'An Abdication from Time: an Essay on the Collected Poems of Raymond Garlick', *New Welsh Review*, 1, 1 (1988), tt. 49-53.

_____, *Frontiers in Anglo-Welsh Poetry* (Cardiff: University of Wales Press, 1997).

CRONIN, Michael, *Translating Ireland: Translation, Languages and Identity* (Cork: Cork University Press, 1996).

DAFYDD, Fflur, *Atyniad* (Talybont: Y Lolfa, 2006).

_____, *Twenty Thousand Saints* (Talybont: Alcemi, 2008).

DALE-JONES, Don, 'Review: *The Road to Shiloh*: Jon Dressel', *Books in Wales*, 1 (Gwanwyn 1995), tt. 16-17.

_____, *Raymond Garlick* (Cardiff: University of Wales Press, 1996).

DAVIES, Damian Walford, 'Slanderous Tongues: Essays on Welsh Poetry in English', *Taliesin*, 140 (Haf 2010), tt. 140-3.

DAVIES, Grahame, 'Blind Man's Kiss', *Poetry Wales*, 37, 1 (Haf 2001), tt. 69-70.

DAVIES, Jason Walford (gol.), *R. S. Thomas: Letters to Raymond Garlick 1951-1999* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2009).

DAVIES, John, *Hanes Cymru* (Llundain: argraffiad newydd; Penguin Books, 2007).

DRESSEL, Jon, 'Correspondence', *The Anglo-Welsh Review*, 26, 58 (Gwanwyn 1977), tt. 224-30.

_____, 'U.S. Viewpoint', *Poetry Wales* 15, 3 (Hydref 1979), tt. 24-9.

_____, 'A Saloon of my Own', *Planet*, 58 (1986), tt. 51-8.

_____, 'The Road to Shiloh', *New Welsh Review*, 6, 3 (1993/94), tt. 19-24.

_____, 'Looking Both Ways', *New Welsh Review*, 32 (Gwanwyn 1996), tt. 56-64.

_____, a JONES, T. James, *Cerddi Ianws Poems* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1979).

_____, *Wyneb yn Wyneb / Face to Face* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1997).

_____, *Rhubanau Dur / Ribbons of Steel* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000).

EDWARDS, Awel Mehefin, 'Yr Awdures Aflonydd: Astudiaeth o Ffuglen Angharad Tomos (1975-2004)', Traethawd M. Phil. (Prifysgol Cymru, Bangor: 2006).

ELFYN, Menna, *Mwyara* (Llandysul: Gomer, 1976).

_____, *'Stafelloedd Aros* (Llandysul: Gomer, 1978).

_____, *Tro'r Haul Arno* (Llandysul: Gomer, 1982).

_____, *Hel Dail Gwyrdd* (Llandysul: Gomer, 1985).

_____, *Mynd Lawr i'r Nefoedd* (Llandysul: Gomer, 1986).

_____, *Aderyn Bach Mewn Llaw* (Llandysul: Gomer, 1990).

_____, *O'r Iawn Ryw* (Dinas Powys: Honno, 1991).

_____, *Eucalyptus: Detholiad o Gerddi 1978-1994* (Llandysul: Gomer, 1995).

_____, *Cell Angel: with English Translations by Gillian Clarke, Elin ap Hywel, Joseph Clancy, Tony Conran* (Newcastle upon Tyne: Bloodaxe, 1996).

_____, 'Différance Diffaith', *Tu Chwith*, 4 (1996), tt. 107-09.

_____, *Cusan Dyn Dall / Blind Man's Kiss* (Tarsset: Bloodaxe Books, 2001).

_____, *Perffaith Nam* (Llandysul: Gomer, 2005).

_____, *Perfect Blemish: New & Selected Poems 1995-2007 / Perffaith Nam: Dau Ddetholiad & Cherddi Eraill 1995-2007* (Tarsset: Bloodaxe, 2007).

_____, *Merch Perygl: Cerddi 1976-2011* (Llandysul: Gomer, 2011).

ELIS-THOMAS, Dafydd a DAVIES, Damian Walford, 'Llenyddiaeth "Ôl-gynulliad"', *Taliesin*, 126 (Gaeaf 2005), 13-21.

ENTWISTLE, Alice, "'A Kind of Authentic Lie": Authenticity and the Lyric Sequence in Gwyneth Lewis's English Language Poetry', *Life Writing: Exploring the Contemporary Meanings of Life Narrative*, 6, 1 (Ebrill, 2009), tt. 27-43.

EVANS, Aled Lewis, 'Dan Anesthetig', *Y Faner*, 2 Chwefror 1988, t. 15.

EVANS, Dylan Foster (gol.), *Gwaith Hywel Swrdwal a'i Deulu* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, 2000).

EVANS, Geraint, 'Gwyneth Lewis a'r Llofrudd Iaith: Llenyddda Mewn Dwy Iaith yn y Ganrif Newydd', *Taliesin*, 126 (Gaeaf 2005), tt. 40-9.

FANON, Frantz, *The Wretched of the Earth* (London: Penguin Classics, 2001).

FELLMAN, Michael, *The Making of Robert E. Lee* (New York: Random House, 2000).

FENWICK, Gillian, *Traveling Genius: The Writing Life of Jan Morris* (Columbia: University of South Carolina Press, 2008).

FREEMAN, Douglas, *R. E. Lee, A Biography* (New York: Charles Scribner's Sons, 1934).

GARLICK, Raymond, 'Seventy Anglo-Welsh Poets', *The Welsh Anvil*, VI (Rhagfyr 1954), tt.76-84.

_____, 'The Words of my Life: Passages From an Autobiography', *Anglo-Welsh Review*, 13, 31 (Haf 1963), tt. 15-19.

_____, *A Sense of Europe* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1968).

_____, 'A Short Walk in the Desert', *Planet*, 4 (Haf 1971), tt. 28-33.

_____, *A Sense of Time* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1972).

_____, *An Introduction to Anglo-Welsh Literature* (Cardiff: University of Wales Press, 1972).

_____, 'The Shapes of Thoughts', *Poetry Wales*, 9, 2 (1973), tt.

_____, *Incense* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1976).

_____, 'Fourth of May', *Anglo-Welsh Review*, 62 (1978), tt. 85-8.

_____, 'English as a language of Wales', *Quest*, 3 (1981), t. 9.

_____, *Collected Poems 1946-86* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1987).

_____, 'Inspiration and Perspiration', *Poetry Wales*, 24, 1 (Mawrth 1988), tt. 33-7.

_____, 'Vale Aque Ave', *New Welsh Review*, 1, 1 (Haf 1988), tt. 47-9.

_____, 'A Poet Looks Back', *Books in Wales* (Haf 1989), tt. 4-5.

_____, *Travel Notes* (Llandysul: Gomer, 1992).

_____, 'Small Boy in the Thirties I', *Planet*, 102 (Rhagfyr 1993), tt. 68-72.

_____, 'A Small Boy in the Thirties II', *Planet*, 103 (Chwefror 1994), tt. 39-43.

_____, 'A Small Boy in the Thirties III', *Planet*, 104 (Ebrill 1994), tt. 75-80.

_____, 'Dock Leaves and Nettles', *New Welsh Review*, 34 (Haf 1996), tt. 37-45.

_____, 'One Boy's War: 1', *Planet*, 151 (Chwefror/Mawrth 2002), tt. 25-31.

_____, 'One Boy's War: 2', *Planet*, 152 (Ebrill/Mai 2002), tt. 52-7.

_____, 'One Boy's War: 3', *Planet*, 153 (Mehefin/Gorffennaf 2002), tt. 79-85.

_____ a LEROI, Louis Olav, *Poems* (London: 1947).

GOWER, Jon, 'A Poet of Industry and Difficulty', *New Welsh Review*, 36 (Gwanwyn 1997), tt. 14-16.

GRAMICH, Katie, 'Dewr...a Doŵ', *Golwg*, 30 Hydref 1997, tt. 18-19.

_____, *Twentieth-Century Women's Writing in Wales: Land, Gender, Belonging* (Cardiff: University of Wales Press, 2007).

_____, “‘When I came hither, a stranger’”: Women Writers and Elective Welsh Identities’, papur anghyhoeddedig a gyflwynwyd yn WISCA, Prifysgol Bangor, 2008.

_____ a HISCOCK, Andrew (goln.), *Dangerous Diversity* (Cardiff: University of Wales Press, 1998).

GREGSON, Ian, ‘Negotiations: Gwyneth Lewis Interviewed by Ian Gregson’, *Planet*, 173 (Hydref/Tachwedd, 2005) tt. 50-6.

_____, *The New Poetry in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2007).

GRUFFYDD, R. Geraint, *Cerddi '73* (Llandysul: Gomer, 1973).

HALLAM, Tudur, *Canon Ein Llên: Saunders Lewis, R. M. Jones ac Alan Llwyd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2007).

_____, ‘When a *Bardd* Meets a Poet: Menna Elfyn and the Displacement of Parallel Facing Texts’, yn WILLIAMS, Daniel (gol.), *Slanderous Tongues: Essays on Welsh Poetry in English 1970-2005* (Bridgend: Seren, 2010), tt. 89-111.

HAYCOCK, Marged, ‘Cyfrif Un ac Un yn Dri’, *Barn*, 409 (1997), tt. 36-7.

HERBERT, W. N. a HOLLIS, Matthew (goln.), *Strong Words: Modern Poets on Modern Poetry* (Taset: Bloodaxe Books, 2000).

HUGHES, J. Cyril (gol.), *Cyfansoddiadau Llenyddol Buddugol: Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Bae Colwyn 1980* (Aberystwyth: Urdd Gobaith Cymru, 1980).

HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Meifod a'r Cyffiniau 2003* (Llandybie: Gwasg Dinefwr dros Lys yr Eisteddfod Genedlaethol, 2003).

HUNTER, Jerry, 'Maen y Cof a'r Gofeb Fydryddol', *Barn*, 410 (Mawrth 1997), tt. 57-9.

_____, 'Ar Drywydd y Llofrudd Iaith', *Taliesin*, 107 (Hydref 1999), tt. 19-31.

_____ a RHYS, Manon, 'Theatr Cymru Fydd: Taliesin yn cyfweld â Gareth Miles', *Taliesin*, 105/6 (Haf 1999), tt. 43-55.

JAMESON, Frederic, 'Third World Literature in an Era of Multinational Capitalism', *Social Text*, 15 (Hydref 1986), tt. 65-88.

JARVIS, Matthew, 'Review: *Two in a Boat: A Marital Rite of Passage*', *New Welsh Review*, 71 (Gwanwyn 2006), tt. 85-8.

JENKINS, Nigel (gol.), *Thirteen Ways of Looking at Tony Conran* (Cardiff: The Welsh Union of Writers, 1995).

JOHNSTON, Dafydd, 'Yr Ing a'r Angerdd: Awen Gerallt Lloyd Owen', *Barddas*, 118 (Chwefror 1987), tt. 1-3.

_____, 'Moderniaeth a Thraddodiad', *Taliesin*, 80 (1993), tt. 13-24.

_____, 'Cerddi Y Crëyr Glas', *Barddas*, 209/210 (Medi/Hydref 1994), tt. 28-30.

_____ (gol.), *Modern Poetry in Translation: Welsh Issue* (London: King's College, 1995).

_____, 'Eucalyptus', *Taliesin*, 91 (Haf 1995), tt. 115-17.

_____, 'Adolygiad: *Ofn fy Het*', *Taliesin*, 94 (Haf 1996), tt. 119-20.

_____. (gol.), *A Guide to Welsh Literature c. 1900-1996* (Cardiff: University of Wales Press, 1998).

JONES, Alun R. a THOMAS, Gwyn (goln.), *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff: University of Wales Press, 1973).

JONES, Carolyn, 'Letting the Bat Out: Teaching Menna Elfyn's Poetry in Vancouver', *Planet*, 190 (Awst/Medi 2008), tt. 58-63.

JONES, Cyril, 'Ianws a Nest', *Taliesin*, 101 (Gwanwyn 1998), tt. 121-2.

JONES, Enid, *Ffuglen* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2008).

JONES, Huw, 'Parabl a Ffacs', *Taliesin*, 91 (1995), tt. 68-74.

JONES, J. R., *Gwaedd yng Nghymru* (Lerpwl: Cyhoeddiadau Modern Cymreig, 1970).

JONES, Nia Heledd, 'Canu Poblogaidd Diweddar', Traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru, Bangor (1997).

JONES, R. W., *Cerddi Eifionydd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1972).

JONES, Richard Wyn, *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru (Cyfrol 1)* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2007).

_____, 'In the Shadow of 1979', *Planet*, 194 (Gwanwyn, 2009), tt. 6-15.

JONES, Rocet Arwel a LEWIS, Dafydd Morgan (goln.), *Y Byd a'r Betws: Colofnau Angharad Tomos* (Talybont: Y Lolfa, 2003).

JONES, T. James, *Eiliadau o Berthyn* (Llandybie: Cyhoeddiadau Barddas, 1991).

_____, 'Cusanau Eironig', *Taliesin*, 112 (Haf 2001), tt. 125-38.

_____, 'Fy Ngherdd Bwysicaf a Pham', *Barddas*, 285 (Tachwedd/Rhagfyr 2005/2006), tt. 30-3.

_____, *Nawr* (Llandybie: Cyhoeddiadau Barddas, 2008).

JONES, Tom Bowen a JONES, Tecwyn, *O Windy a Gweithdy'r Gân* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 1981).

JONES, W. J. (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Cwm Rhymni 1990* (Llys yr Eisteddfod Genedlaethol: Gwasg Gomer, 1990).

KELLY, L. G., *The True Interpreter: A History of Translation Theory and Practice in the West* (Oxford: Blackwell, 1979).

KILLAM, G. D., *An Introduction to the Writings of Ngugi wa Thiong'o* (London: Heinemann, 1980).

KNIGHT, Stephen, *A Hundred Years of Fiction: Writing Wales in English* (Cardiff: University of Wales Press, 2004).

LEITCH, Vincent B. (gol. cyff.), *The Norton Anthology of Theory and Criticism* (London: W. W. Norton & Company, 2001).

LEWIS, Gwyneth, *Sonedau Redsa a Cherddi Eraill* (Llandysul: Gomer, 1990).

_____, *Parables and Faxes* (Newcastle upon Tyne: Bloodaxe, 1995).

_____, *Cyfrif Un ac Un yn Dri* (Felindre: Cyhoeddiadau Barddas, 1996).

_____, 'Double Exposure', *Poetry Review*, 86, 2, (1996), tt. 8-10.

- _____, 'Gair am Eiriau', *Llais Llyfrau*, Haf 1997, t. 4.
- _____, "'Whose Coat is that Jacket? Whose Hat is that Cap?'" The Art of Deep Translation', yn HERBERT, W. N. a HOLLIS, Matthew (goln.), *Strong Words: Modern Poets on Modern Poetry* (Tarsset: Bloodaxe Books, 2000).
- _____, *Zero Gravity* (Tarsset: Bloodaxe, 1998).
- _____, *Y Llofrudd Iaith* (Llandybïe: Cyhoeddiadau Barddas, 1999).
- _____, 'Barddoniaeth a Thechnoleg', yn Price, Angharad, Chwileniwm: Technoleg a Llenyddiaeth (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2002), tt. 101-7.
- _____, *Sunbathing in the Rain: A Cheerful Book About Depression* (London: Flamingo, 2002).
- _____, *Keeping Mum* (Tarsset: Bloodaxe, 2003).
- _____, *Chaotic Angels: Poems in English* (Tarsset: Bloodaxe, 2005).
- _____, 'Llawlyfr y Llais', *Taliesin*, 126 (Gaeaf 2005), tt. 26-33.
- _____, *Tair Mewn Un* (Abertawe: Cyhoeddiadau Barddas, 2005).
- _____, *Two in a Boat: A Marital Voyage* (London: Fourth Estate, 2005).
- _____, 'Y Gyhoeddus Arswydus Swydd', *Golwg*, 17, 35 (12 Mai 2005), t. 19.
- _____, *A Hospital Odyssey* (Tarsset: Bloodaxe, 2010).
- _____, *The Meat Tree* (Bridgend: Seren Books, 2010).
- _____, 'The Poet I Might Have Been', *New Welsh Review*, 91 (Gwanwyn 2011), tt. 9-13.

_____, *Sparrow Tree* (Tarsset: Bloodaxe Books, 2011).

LEWIS, Saunders, *Is there an Anglo-Welsh Literature?* (Cardiff: University of Wales Guild of Graduates, 1939).

_____, *Tynged yr Iaith: gyda Rhagymadrodd gan Ned Thomas* (Llandysul: Gwasg Gomer, argraffiad 2012).

LLOYD, David, 'An Interview with Raymond Garlick', *Poetry Wales*, 26, 3 (Ionawr 1991), tt. 37-42.

LLWYD, Alan, 'Enwebiad am y Wobor', *Barddas*, 240 (Ebrill/Mai 1997), tt. 29-31.

_____, 'Holi Gwyneth Lewis ar Achlysur Cyhoeddi "Y Llofrudd Iaith"', *Barddas*, 255 (Tachwedd/Rhagfyr/Ionawr 1999/2000), tt. 18-21.

_____, 'Barddas yn Holi Gwyneth Lewis', *Barddas*, 283 (Mehefin/Gorffennaf 2005), tt. 34-5.

LLWYD, Iwan, *Sonedau Pnawn Sadwrn* (Talybont: Y Lolfa, 1983).

_____, 'Ceidwadaeth Ystyfnig ein Beirdd "Cyfoes"', *Y Ffanner*, 8 Mehefin 1984, t. 2.

_____, 'Cyfarwyddyd Newydd', *Barddas*, 99/100 (Gorffennaf/Awst 1985), t. 24.

_____, 'Delweddau o Gymru', *Talesin*, 80 (Hydref 1997), tt. 40-9.

_____, 'Rowlio Cerrig', *Barddas*, 252 (Mai/Mehefin, 1999), tt. 26-7.

_____, *Be 'Di Blwyddyn Rhwng Ffrindia?: Cerddi 1990-99* (Bodedern: Gwasg Taf, 2003).

_____, 'Perfect Blemish', *Poetry Wales*, 44, 1 (Haf 2008), tt. 65-6.

_____ a BALA, Iwan, *Dan Anesthetig* (Caerdydd: Gwasg Taf, 1987).

_____ a ROBERTS, Martin, *Dan Fy Ngwynt* (Caerdydd: Gwasg Taf, 1992).

_____ ac EVANS, Anthony, *Dan Ddylanwad* (Bodedern: Gwasg Taf, 1997).

_____ a MORYS, Twm, *Eldorado: Llwybrau Dau i Le Diarth* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1999).

_____ a DELYTH, Marian, *Hanner Cant* (Bodedern: Gwasg Taf, 2007).

_____ a HUGHES, Aled Rhys, *Rhyw Deid yn Dod Miwn* (Llandysul: Gomer, 2008).

_____ a WILLIAMS, Catrin, *Sonedau Pnawn Sul* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2009).

LOOMBA, Ania, *Colonialism / Postcolonialism* (Llundain: Routledge, 1998).

LYNCH, Peredur, 'Refferendwm 1979, Cerddi Ianws a Thopos y "Y Cymry Taeog"', yn Williams, Gerwyn (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXX* (Dinbych: Gwasg Gee, 2011), tt. 78-109.

McAFEE, Noëlle, *Julia Kristeva* (Oxon: Routledge, 2004).

McELROY, Ruth, 'The Rhyming Detective', *Planet*, 141 (2000), tt. 103-5.

McLEOAD, John, *Beginning Postcolonialism* (Manchester: Manchester University Press: 2000).

MALPAS, Simon, *The Postmodern* (London: Routledge, 2005).

MEILS, Gareth, *Cymru Rydd, Cymru Gymraeg, Cymru Sosialaidd* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, 1972).

_____, ac IOAN, Elwyn, *Pelydr-Ll* (Talybont: Y Lolfa, 1970).

MILES, Gareth, *Cymru ar Wasgar: Chwe Stori* (Talybont: Y Lolfa, 1974).

_____, *Treffin* (Talybont: Y Lolfa, 1979).

_____, *Diwedd y Saithdegau* (Penygroes: Cyhoeddiadau Mei, 1983).

_____, 'Unwaith Eto 'Nghymru Annwyl', *A2*, 2 (Haf 1986), tt. 37-71.

_____, *Trefaelog* (Caernarfon: Annwn, 1989).

_____, *Llafur Cariad* (Llanishen: Hughes a'i Fab, 2001).

_____, *Cwmtec* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2002).

_____, *Ffatri Serch* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2003).

_____, *Lleidr Da* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2005).

_____ (gol.), *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel: Atgofion Newyddiadurwr am Ddiwygiad 1904-05 gan W. T. Davies* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2007).

_____, 'Islwyn a Saunders', papur anghyhoeddedig, trwy garedigrwydd Cymdeithas Niclas y Glais, 2010.

_____, *Teleduwiol* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2010).

_____, *Y Gosb Ddiddial*, heb ei chyhoeddi; trwy garedigrwydd yr awdur.

_____, *Y Cadeiriau*, heb ei chyhoeddi; trwy garedigrwydd yr awdur.

_____, *Lludw'r Garreg*, heb ei chyhoeddi; trwy garedigrwydd yr awdur.

_____ a GRIFFITHS, Robert, *Socialism for the Welsh People* (Caerdydd: Cyhoeddiadau Clegan, 1979).

MINHINNICK, Robert, 'Problem Class: Raymond Garlick and the Welsh', *Poetry Wales*, 23, 2, 3 (1988), tt. 25-8.

_____, 'Confessions of a Formal Man', *Planet*, 24, 1 (Gwanwyn 1988), tt. 37-40.

_____ (gol.), *The Adulterer's Tongue* (Manchester: Carcanet, 2003).

MORYS, Twm, 'Gweledigaethau Dydd y Farn: Twm Morys a'r Iaith yn Llydaw', *Golwg* 3, 39 (13 Mehefin 1991), t. 8.

_____, 'Codi Sgwarnogod', *Taliesin*, 80 (1993), tt. 7-12.

_____, 'Codi Sgwarnogod', *Taliesin*, 84 (1994), tt. 6-9.

_____, 'Codi Sgwarnogod', *Taliesin*, 85 (1994), tt. 5-6.

_____, *Ofn fy Het* (Llandybie: Cyhoeddiadau Barddas, 1995).

_____, 'Môr Mari', *Taliesin*, 91 (1995), tt. 75-84.

_____, 'Codi Sgwarnogod', *Taliesin*, 95 (1996), tt. 5-8.

_____, *Ein Llyw Cyntaf* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2001).

_____, 'Dawn Dweud y Brython', *Llafar Gwlad*, 75 (Ionawr 2002), t. 21.

_____, 2 (Llandybie: Cyhoeddiadau Barddas, 2002).

_____, 'Dawn Dweud y Brython', *Llafar Gwlad*, 79 (Chwefror/Ebrill 2003), t. 7.

_____, 'Dawn Dweud y Brython', *Llafar Gwlad*, 82 (Hydref 2003), t. 7.

MORRIS, Jan, *The Matter of Wales* (Harmondsworth: Penguin, 1986).

_____, *Our First Leader* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000).

_____, *Conundrum* (London: Faber and Faber, 1974: argraffiad newydd, 2002).

_____, *A Writer's House in Wales* (Washington D.C.: National Geographic Society, 2002).

_____, *A Writer's World: Travels 1950-2000* (Llundain: Faber and Faber, 2003).

_____, *Hav* (London: Faber, 2006).

_____ a MORYS, Twm, *A Machynlleth Triad / Triawd Machynlleth* (London: Viking, 1993).

MUNRO, Ian a SANDLER, Reinhard, 'Tolstoy in Africa', *Ba Shiru*, 5 (1973), tt. 10-29.

NAIRN, Tom, *The Break-up of Britain: Crisis and Neo-nationalism*, (London: NLB, 1977).

NICHOLAS, W. Rhys, *The Folk Poets* (Cardiff: University of Wales Press, 1978).

NORRIS, Leslie, 'Raymond Garlick, *Collected Poems 1946-1986*', *The New Welsh Review*, 1, 1 (Haf 1988), tt. 54-5.

OSMOND, John, 'Mr. Morris and the Elephant: The Referendum, The Election, and The Future of Welsh Politics', *Planet*, 48 (Mai 1979), tt. 3-8.

_____, 'The Modernisation of Wales', yn Neil Evans (gol.), *National Identity in the British Isles*, 3 (Coleg Harlech Occasional Papers in Welsh Studies, 1989), tt. 73-90.

_____, *Accelerating History: the 1979, 1997 and 2001 Referendums in Wales* (Cardiff: Institute of Welsh Affairs, 2011).

OWEN, Karen, 'Cerddi'r Anobaith', *Golwg*, 20, Chwefror 1997, tt. 18-19.

PHILLIPS, Dylan, *Trwy Ddulliau Chwyldro...?: Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1962-1992* (Llandysul: Gomer, 1998).

POOLE, Richard, 'Gwyneth Lewis Talks to Richard Poole', *Poetry Wales*, 31, 2 (1995), tt. 24-9.

_____, 'Spiritual Realism', *Planet*, 125 (Hydref/Tachwedd 1997), tt. 67-77.

_____, 'Gwyneth Lewis in Conversation', *PN Review*, 113, 23, 3 (Ionawr/Chwefror, 1997), tt. 50-5.

PRICE, Angharad, 'Cyfoeth Cyfieithu', *Taliesin*, 100 (Haf 1997), tt. 11-39.

_____, 'Tu Chwith yn holi Gwyneth Lewis', *Tu Chwith*, 8 (1997), tt. 53-6.

_____, 'Chwarae Geiriau fel Gwyddbwyll', *Taliesin*, 110 (Gaeaf 2000), tt. 113-25.

_____ (gol.), *Chwileniwm: Technoleg a Llenyddiaeth* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2002).

_____, *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2002).

PRITCHARD, Dafydd, 'Iaith, Mynegiant a Deall', *Taliesin*, 126 (Gaeaf 2005), tt. 162-79.

ROBERTS, Harri Garrod, *Embodying Identity: Representations of the Body in Welsh Literature* (Cardiff: University of Wales Press, 2009).

ROBERTS, Wiliam Owen Roberts a WILLIAMS, Iwan Llwyd, 'Myth y Traddodiad Dethol', *Llais Llyfrau* (Hydref 1982), tt. 10-1.

_____, 'Mae'n Bwrw yn Toremolinos', *Y Faner*, 14 Rhagfyr 1984, tt. 6-7.

ROWLANDS, John, 'Adolygiad: *Trefaelog*', *Llais Llyfrau* (Gaeaf 1989), tt. 9-10.

_____ (gol.), *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1992).

_____ (gol.), *Y Sêr yn eu Graddau* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000)

ROWLANDS, Sioned Puw, *Hwyaid, Cwningod a Sgwarnogod: Estheteg Radical Twm Morys, Vaclav Havel a Bohumil Hrabal* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006).

ROYLES, Elin, *Revitalizing Democracy?* (Cardiff: University of Wales Press, 2007).

RHYDDERCH, Francesca, 'Cur dwbl [y] galon', *New Welsh Review*, 41 (Haf 1998), tt. 18-20.

_____, 'Cusan Dyn Dall / Blind Man's Kiss', *Planet*, 149 (Haf 2001), tt. 103-4.

RHYS, Robert (gol.), *Y Patrwm Amryliw: Cyfrol 2* (Llandybïe: Cyhoeddiadau Barddas, 2006).

SAID, Edward, *Orientalism* (Harmondsworth: Penguin, 1985).

SAVAGE, Mike *et al.*, *Globalization and Belonging* (London: Sage Publications, 2005).

SILVER, Keith, 'Scents', *PN Review*, 106, 22, 2 (Tachwedd/Rhagfyr 1995), tt. 61-2.

STALLYBRAS, Peter a WHITE, Allon, *The Politics and Poetics of Transgression* (New York: Cornell University Press, 1986).

STEINER, George, *After Babel* (Oxford: Oxford University Press, 1975).

STEPHENS, Meic (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997).

TAYLOR, Bridget a THOMSON, Katarina (goln.), *Scotland and Wales: Nations Again?* (Cardiff: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999).

TOMOS, Angharad, *Hen Fyd Hurt* (Urdd Gobaith Cymru, 1982).

_____, *Yma o Hyd* (Talybont: Y Lolfa, 1985).

_____, *Si Hei Lwli* (Talybont: Y Lolfa, 1991).

_____, *Titrwm* (Talybont: Y Lolfa, 1993).

_____, *Wele 'n Gwawrio* (Talybont: Y Lolfa, 1997).

_____, *Cnonyn Aflonydd: Cyfres y Cewri 23* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 2001).

_____, *Hiraeth am Yfory: David Thomas a Mudiad Llafur Gogledd Cymru* (Llandysul: Gomer, 2002).

_____, *Rhagom* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2004).

_____, *Wrth fy Nagrau i* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2007).

THIONG'O, Ngugi Wa, *Homecoming* (London: Heinemann Educational Books, 1972).

_____, *Decolonising the Mind: The Politics of Language in African Literature* (Oxford: James Currey, 1986).

THOMAS, M. Wynn, *Internal Difference* (Cardiff: University of Wales Press, 1992).

_____, 'Dwy Yma ar Lun Dameg',

_____, *Corresponding Cultures* (Cardiff: University of Wales Press, 1999).

_____ (gol.), *Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America* (Caerdydd: University of Wales Press, 2001).

_____ (gol.), *Welsh Writing in English* (Cardiff: Gwasg Prifysgol Cymru, 2003).

THOMAS, Ned, 'Bedd-ladron Diwylliannol', *Tu Chwith*, 8 (1997), tt. 95-9.

THOMAS, Owen (gol.), *Llenyddiaeth mewn Theori* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006).

THOMAS, R. S., *Collected Poems 1945-1990* (London: J. M. Dent, 1993).

VENUTI, Lawrence (gol.), *The Translation Studies Reader* (London: Routledge, 2009: ailargraffiad).

WAKEFIELD, Paul a MORRIS, Jan, *Wales: The First Place* (London: Aurum, 1982).

WILIAMS, Gerwyn, 'Adolygiad: Cyfrif Un ac Un yn Dri', *Llais Llyfrau*, Haf 1990, tt. 15-17.

_____, (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999).

_____, 'Celfyddyd y Beirdd', *Ysgrifau Beirniadol XXIX*, gol. Gerwyn Wiliams (Dinbych: Gwasg Gee, 2010), tt. 100-12.

WILLIAMS, Daniel G., 'Gwledda ar y Glythu', *Taliesin*, 121 (Gwanwyn 2004), tt. 113-19.

_____, 'Another Lost Cause? Pan-Celticism, "Race" and Language', papur anghyhoeddedig, 2009.

_____, *Aneurin Bevan a Paul Robeson: Sosialaeth, Dosbarth a Hunaniaeth (Darlith Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy y Sefydliad Materion Cymreig)* (Caerdydd: Sefydliad Materion Cymreig, 2010).

_____ (gol.), *Slandorous Tongues: Essays on Welsh Poetry in English 1970-2005* (Bridgend: Seren, 2010).

WILLIAMS, Geraint Siôn, 'Astudiaeth o Farddoniaeth Iwan Llwyd', Traethawd M.Phil. (Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 2001).

WILLIAMS, G. A., *When Was Wales?* (London: Penguin, 1985).

WILLIAMS, Nerys, 'Gwyneth Lewis: Taboo and Blasphemy', *Poetry Wales*, 38, 3 (Gaeaf 2003), tt. 23-8.

WILLIAMS, Raymond, *Keywords: A Vocabulary of Culture and Society* (London: Croom Helm, 1976).

WILLIAMS, Teleri, 'Found in Translation: Hay Festival Alhambra', *Planet*, 189 (Mehefin/Gorffennaf 2008), tt. 121-2.

(B) DEUNYDD YCHWANEGOL

(i) Cyfweiliadau / Sgyrsiau

Cyfweiliad yr awdur presennol â T. James Jones, 13 Mawrth 2009.

Ymatebion yn ystod ‘Noson yng Nghwmni Gwyneth Lewis a’i Gwestai Tim Porter’, Galeri Caernarfon, 19 Ionawr 2012.

Cyfweiliad yr awdur presennol â Nigel Jenkins, 14 Mawrth 2010.

Cyfweiliad yr awdur presennol â Gillian Clarke, 14 Mawrth 2010.

Cyfweiliad yr awdur presennol ag Aled Rhys Hughes, 2 Hydref 2010.

Cyfweiliad yr awdur presennol â Catrin Williams, 18 Rhagfyr 2010.

Cyfweiliad yr awdur presennol ag Iwan Bala, 29 Tachwedd 2010.

(ii) Gwefannau

Cyfrifiad 2001: Prif Ystadegau am y Gymraeg:

<http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120306034031/http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/331.doc>

Crynodeb Ardrawiad Ieithyddol Hafan Pwllheli:

<http://www.google.com/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=2&ved=0CC EQfjAB&url=http%3A%2F%2Fhttp://www.gwynedd.gov.uk%2Fupload%2Fpublic%2Fattachments%2F777%2FATODIAD_4CRYNODEB_ARDRAWIAD_IEITHYD DOL.doc&ei=yCdiULXINYWn0AXuxoCwAg&usg=AFQjCNERZkvSU4AG__TaWrAXrguOznEeOQ>

(iii) Ffilmiau / Rhaglenni Teledu

‘Gwyneth Lewis: Writing Poetry’:

www.youtube.com/watch?v=vvimCUTIDkE

Dan Ddylanwad, Cwmni Telegraffiti, S4C, 1997.

Eldorado, Cwmni Telegraffiti, S4C, 1999.

(iv) Arall

Rhaglen: Eisteddfod Genedlaethol Cymru Eryri a'r Cyffiniau 30 Gorffennaf - 6 Awst 2005 (Caernarfon: Llys yr Eisteddfod, 2005)

Yr Awen (Eisteddfod Ryng-golegol, 1979)

ATODIADAU

Atodiad 1

Cyfweliad yr awdur presennol â'r bardd T. James Jones ynghylch *Cerddi Ianws Poems* ac *Wyneb yn Wyneb / Face to Face*, 13 Mawrth 2009.

MM: Mae Jon Dressel yn nodi yn y rhagair i'r gyfrol *Cerddi Ianws* mai ef oedd pensaer y casgliad, ond nad cyfieithiadau yw eich cerddi chi i'r Gymraeg. Beth yn union oedd y broses o gydweithio rhyngoch? Ai'r un broses a ddigwyddodd wrth gyfansoddi *Wyneb yn Wyneb*?

TJJ: Erbyn canol mis Chwefror 1979 roedd Jon a minnau, gyda gofid, wedi rhagweld canlyniad y Refferendwm. Gan ein bod, ar y pryd, yn byw o fewn chwarter milltir i'n gilydd ym mhentre Llansteffan ynghyd â bod yn ddarlithwyr yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, gallem gwrdd yn feunyddiol. Sylwasom hefyd mai 'Serch' neu 'Siom' oedd testun cystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Caernarfon. Wedi darllen amodau'r gystadleuaeth gwelem, yn ôl ein dehongliad ni o'r rheolau, na waherddid cywaith. Geiriad yr amod berthnasol oedd hyn: 'Rhaid i'r ymgeiswyr roi eu henwau priodol mewn amlen dan sêl . . .' (Yn dilyn Eisteddfod Caernarfon fe newidiwyd y geiriad, a byth oddi ar hynny fe sonnir am 'ymgeisydd' ac 'enw priodol' er mwyn gwahardd cywaith!) Felly, gan gydnabod fod elfen heriol yn perthyn i'n bwriad, fe benderfynon ni fynd ati i sgrifennu cyfres o gerddi dan y teitl 'Siom' a chynnwys ein henwau ni'n dau yn yr amlen dan sêl. Gan mai'r cyntaf o Ebrill oedd y dyddiad cau, bu'n rhaid i ni ymroi i weithio, fwy neu lai, yn feunyddiol ar y dilyniant. Ar ôl cyd-drafod y thema gyffredinol a chytuno ar y strwythur o ddyddiadur wythnos yn cynnwys diwrnod y Refferendwm (y cyntaf o Fawrth) fe sgrifennodd Jon ddrafft yn Saesneg o'r gerdd gyntaf. **Ar ôl ei thrafod a'i golygu, a thra roedd Jon yn cyfansoddi drafft o'r ail gerdd, fe es innau ati i gynnig fersiwn Cymraeg o'r gerdd gyntaf. Ac yn y modd yna y cyfansoddwyd y dilyniant. Roedd gan Jon ddigon o Gymraeg i ddeall drafftiau o'm fersiynau innau. Ambell dro fe effeithid y fersiwn Saesneg gan yr un Cymraeg.** Yn fy rhagair i'r argraffiad cyntaf o 'Gerddi Ianws Poems' Gomer, Rhagfyr 1979, tynnaf sylw at fy mhrofiad o weld y drafft cyntaf Saesneg o'r gerdd

sy'n cloi'r dilyniant a'm hymateb gwreiddiol iddo. Rwy'n gobeithio fod y sylw arbennig hwnnw yn fodd i egluro natur ein cydweithio. Roedd cydweithio ar 'Wyneb yn Wyneb' yn brofiad tebyg, ond wrth reswm, nid yn union yr un math fel yr eglurir yn y rhagair i'r argraffiad cyntaf (Gomer, 1997). Y gwahaniaeth pennaf oedd mai cymeriadu dau berson oedd yn digwydd yn 'Wyneb yn Wyneb'. Creadigaeth Jon yn bennaf yw'r Robert E. Lee a glywn yn y dilyniant. Roedd Jon hefyd wedi ymdrwytho yn hanes Glyndŵr. **Felly, y mae'n wir dweud mai trosiadau o'r Saesneg gwreiddiol yw cerddi 'Wyneb yn Wyneb'**. Roedd mwy a gyfnewid syniadau wedi digwydd yng ngherddi 'Ianws'. **Erbyn hyn rwy'n ymwybodol o feirniadaeth Jerry Hunter ac eraill ynglŷn â'r priodoldeb o 'ddyrchafu' cymeriad fel Lee oherwydd ei gysylltiad â chwaethwasiaeth yn America. Ond ar y llaw arall fe ddylid cofio'r creulonderau a ddiodefwyd yn sgil goresgyniad Glyndŵr. Onid plant eu gwahanol gyfnodau oedd y ddau fel ei gilydd? Eu safiad fel cenedlaetholwyr, eu methiannau ynghyd â goroesiad eu breuddwydion am annibyniaeth wleidyddol â'u gwna'n debyg.**

MM: Beth yn union oedd natur yr elfennau crefyddol/ysbrydol sydd yn y cerddi ac sydd wrth wraidd eich cysyniad chi o genedlaetholdeb?

TJJ: Cyn gadael y weinidogaeth dechreuaswn gwestiynu fy naliadau crefyddol ac fe sylweddolais fy mod yn dechrau 'pregethu' fy amheuon o'r pulpud. Roeddwn i'n teimlo'n gynyddol anesmwyth ynglŷn â hynny ac ers rhai blynyddoedd bellach yr wyf wedi ymwrthod yn llwyr â phregethu. Deongliadau'r eglwys o berson Iesu ac o arwyddocâd y croeshoelio ac ystyr y gred yn ei 'atgyfodiad' sy'n fy mlino. **Nid oes gennyf amheuaeth o gwbl ynglŷn ag egwyddorion sylfaenol Cristnogaeth. Mae cyfiawnder a chydaddoldeb rhwng pobloedd, rhwng unigolion, rhwng gwryw a benyw a rhwng cenedloedd yn werthoedd i'w diogelu. Rwy'n genedlaetholwr oherwydd fy mod yn credu yn y gwerthoedd hynny. Ac mae fy nehongliad i o'r Efengyl Gristnogol wedi fy ngwneud yn heddychwr. Felly roedd hi'n siom ofnadwy i mi pan gollwyd Refferendwm 79 gan fod y Cymry yn gwrthod y siawns o gael hunanlywodraeth mewn dull heddychlon.**

MM: Pam y bu ichi benderfynu cynnwys nodyn gobeithiol ar ddiwedd *Cerddi Ianws*?

TJJ: Dydw i ddim yn siŵr ai nodyn gobeithiol sydd yno! Fel y soniais uchod (a chyfeirio at y rhagair - rwy'n hyderu i chi weld hwnnw) roedd y cysyniad o gymathu yn un anodd ei dderbyn. **Fe ddywedwn i mai nodyn amwys yn hytrach nag un gobeithiol sydd yma. Wn i ddim sut y bydd hi ar Gymru mewn can mlynedd. A fyddwn ni wedi ein cymathu i'r fath raddau fel na fydd Cymru yn bod fel gwlad? Awgrym y clo i mi pan sgrifennwyd y dilyniant yn ystod siom Refferendwm 79 yw y gall hynny ddigwydd oni ddewiswn ni yn wahanol. Y gobaith yw bod Refferendwm 97 wedi rhoi cyfle i ni sicrhau y bydd Cymru yn goroesi. Dyna pam yr oedd hi'n bwysig i ni sgrifennu 'Wyneb yn wyneb' oherwydd clo diamwys gobeithiol sydd i'r dilyniant hwnnw.**

MM: Yr oeddech yn ymwybodol o reolau'r Eisteddfod Genedlaethol, felly pam y bu ichi gyflwyno'r cerddi i gystadleuaeth y Goron?

TJJ: Yr wyf wedi ateb hwn yn rhannol – nid oeddem o'r farn ein bod yn torri rheol. Ond rwy'n barod i gyfaddef ei bod hi'n weithred anghonfensiynol! Mewn gwirionedd doeddem ni ddim wedi disgwyl dod i'r brig. Ond yr oeddem yn edrych ymlaen at gael beirniadaeth. Ac o'r dechrau'n deg yr oedd hi'n fwriad gennym gyhoeddi. Ac yn sgil y storom eisteddfodol fe gafodd y cerddi gyhoeddusrwydd mawr! Roedd Gomer yn awchus i'w cyhoeddi!

MM: Mae agwedd hollol wahanol tuag at y refferendwm yn *Wyneb yn Wyneb*. Pam dewis lleisiau Owain Glyndŵr a Robert E. Lee i gyfleu hynny?

TJJ: Dewis Jon oedd y ddau gymeriad ac y mae'r rhagair i 'Wyneb yn wyneb' (Gomer 1997) yn esbonio'r rheswm. (Rwy'n gobeithio y gellwch weld yr argraffiad hwnnw – mae'n siŵr fod argraffiadau cyntaf Cerddi Ianws a Wyneb yn Wyneb i'w cael drwy'ch llyfrgell. Os cewch ffwdan gallaf hala copi o'r ddau ragair atoch. Nid ydynt ar ddisg gennyf ond gallaf eu llungopïo).

MM: Beth sydd wrth wraidd (fel y gwelaf i bethau) y gwahaniaeth rhwng moelni arddull *Wyneb yn Wyneb* o'i gymharu ag arddull fwy blodeuog *Cerddi Ianws*?

TJJ: Mae'r arddull o bosib yn ymddangos yn foelach am mai dialog rhwng y cymeriadau yw'r cerddi ac eithrio rhif 1 a 10. Roedd y llefaru uniongyrchol yn gofyn am arddull lafar. Hefyd cofier fod deunaw mlynedd rhwng y ddau. Ddeng mlynedd cyn 'Cerddi Ianws' yr oeddwn wedi trosi 'Under Milk Wood' a mwy na thebyg fod dylanwad arddull flodeuog Dylan Thomas yn drwm arnaf. Rwy'n sôn am y chwedegau. Rwy'n cydnabod fod fy arddull wedi moeli ers hynny. Credaf fod fy mhryddestau coronog 'Llwch'(1986) a 'Ffin'(1988) yn brawf o hynny. Ac rwyf wedi ceisio cynnal yr un moelni hyd yn oed yn fy ngwaith cynganeddol diweddar (gweler fy awdl 'Ffin' 2007). I mi y mae uniongyrchedd ymadrodd yn hanfodol wrth farddoni.

MM: Yn eich cyfrol *Eiliadau o Berthyn* a gyhoeddwyd ym 1991, fe wnaethoch chi ailymweld â cherddi Ianws. Beth oedd wrth wraidd hyn?

TJJ: Am fod 'Cerddi Ianws Poems' mas o brint. Ni newidiwyd yr un gair.

Atodiad 2

Cyfweliad yr awdur presennol â'r bardd a'r cyfieithydd Gillian Clarke, 14 Mawrth 2010.

MM: What are your main concerns and principles when translating? What are the main problems faced by a translator?

GC: A huge question that I haven't time to answer as fully as it deserves. Above all there are balances to be struck, between literal meaning and the cadences of English, between the losses and gains of poetry's music as it moves from one language to the other. Sometimes you have to take liberties in order to create a new poem that stands in its own right next to the original. I think I have been too cautious sometimes, and too bold at others. Once or twice I've got it right, I think, especially in some of the translations of several other poets that I translated for the Bloodaxe Book of Welsh Poetry in English.

MM: Do you agree that the translated poem needs to suggest, as Tony Conran has claimed, a sense of otherness that suggests that the text was derived from a different culture which is untranslatable?

GC: That's an interesting suggestion, but it does not quite express the move between English and Welsh and vice versa, since they are both Welsh languages and many of us experience both languages in our daily lives. They are not from another culture in the way, say, a foreign language would be.

MM: Why did you choose to translate Menna Elfyn's work? What appealed to you about her as a poet and how did you choose which of her poems you would translate?

GC: Menna asked me to translate for her, and chose the poems she wanted translated. But I do like her poetry. It is very difficult to translate it into English, proof, I think, that she has a highly individual voice, and does not keep to conventions. Formal poetry is easier to translate. She is often ambiguous. When I ask her, 'Is this a noun or a verb?' or 'Do you want this definition of the word, or that one?' She often replies, 'Neither one nor the other. All those meanings are there.' I then try to find a work in English that also has ambiguities - that is often impossible. It works the other way too of course. Menna translated a little poem of mine called 'Aeron'. In it I wrote 'the homing salmon'. There is no word for that in Welsh. Menna found a longer way to say it, but made up for it elsewhere in the verse.

MM: What is the significance of the act of translation in contemporary Wales? Is it a bridging project between two literatures or, at times, should translation be rejected to ensure original work is only available in the Welsh language (or English language)?

GC: I believe passionately in the value of translation. No first language Welsh speaker or monoglot English speaker is obliged to read in translation, but translation allows us to talk to each other. We can only gain by talking to each other, by listening to each other, learning from each other. Without translation we would not have the Bible, Chekhov, Dostoevsky, etc, etc, etc. It is a bridge between cultures, and can only enrich us all.

MM: Should the translator receive more recognition when the original poet is performing/publishing the translated work?

GC: I don't know. I think you are probably referring to the status of the average translator - much more of a linguistic job in the case of prose, where we hardly note the translator's name. Poetry is not for the jobbing translator. Only a poet can translate a poet, and the translation should aim at creating a new poem, a poem in its own right.

Atodiad 3

Cyfweliad yr awdur presennol â'r bardd a'r cyfieithydd Nigel Jenkins, 14 Mawrth 2010.

MM: What are your main concerns and principles when translating? What are the main problems faced by a translator?

NJ: My chief difficulty is that I am not a fluent Welsh speaker (*dysgwr tragwyddol ydw i*), and therefore a considerable amount of effort has to be devoted at an early stage to ensuring that I have properly understood the meaning of a poem, and that I am alert to the possibly occluded significances and resonances of certain words and phrases. So, I produce initially a crude literal translation of the poem, in so far as that is possible in the work of a poet as complex and multi-layered as Menna's is – with notes alongside or in brackets in the text as to additional alternative meanings, and questions. Sometimes I will send this crude version to Menna and we will bat the thing between us until I feel I am ready to start making a poem out of it. These days the communication is generally by email and, to a lesser extent, by phone (although I have translated very little of hers since Cusan Dyn Dall). But when I first started translating her poetry, for Eucalyptus, we would often meet in person, in addition to posting versions between us. A convenient meeting place, roughly half way between our homes, was the White Hart in Llanddarog, where I'm sure the locals were amused to observe this man and this woman, who had driven to the pub in separate cars, getting into a regular, intimate huddle in a quiet corner of the bar. Surely (they could have been forgiven for thinking) these two people were engaged in a discreet affair. In a way, I suppose, we were. Translating is like walking around in someone else's head, getting quite intimate with that person's intellectual, emotional and spiritual life, the better to position oneself for the adventure of attempting to mediate that life in another language. So, on top of trying to develop a deep understanding of each poem, there is in addition – if you are fortunate enough to be working on the poetry of a living author, and one to whom you have access – the job of getting to know something of the workings of the poet's mind. I have translated the work of several other Welsh-language poets (among them Iwan Llwyd, Ifor ap Glyn, Iorwerth Peate,

Rhydwen Williams), but none approaches Menna in terms of complexity, inventiveness and linguistic caprice. She is the most difficult to translate, pushing the language to the edge of meaning and beyond, and it is often a struggle to ‘do the archaeology’ on her words that will unearth their often multifarious meanings. She stretches my linguistic and prosodic resources to the limits (and I learn new things from the experience, which then feed into my own poetry). Having her readily available for consultation during the translation process is a considerable boon. Although she rarely produces whole poems in fully realized cynghanedd, she uses many incidental harmonic and consonantal effects to craft a notably musical poetry; the challenge for the translator is to find corresponding musical effects. Welsh, like other languages, has its share of more or less untranslatable words: the wonderfully numinous ‘glas’, for instance, which can mean so many things (blue, green, raw, fresh, white, dazzling, even death), depending on the temporal and literary contexts. Additionally, there are important words in Welsh which can still ring true, but which, translated into English – words such as valour, honour, integrity – are inclined to echo hollowly (such words, as Hugh MacDiarmid lamented, having been shot to pieces in the First World War). I have noticed that there are certain words and expressions in Welsh which Menna can ‘get away with’ using but which, if translated directly into English, sound unpersuasively sentimental – and so I have sometimes had to go a long way round the houses to communicate something of her meaning. I try to adhere closely to her meanings, images and metaphors, but she has always encouraged experimentation, allowing me, for instance, to re-order certain elements, introduce a replacement image, and to tinker with line lengths in order to make a poem that works in English. If, as has sometimes happened, I have found a word in English that deepens or in some way usefully amends what has been said in the Welsh original, she will invariably welcome such interventions, perhaps even going so far as to amend the original poem to take account of what has developed in the English version. It is invariably a process of good-hearted negotiation and I always feel that if Menna has accepted any ‘liberty’ I may have taken in the translation, she has felt positive about it, even if, on occasion, it has led to a word, phrase or image in the English that is simply not reflected in the Welsh at all.

MM: Do you agree that the translated poem needs to suggest, as Tony Conran has claimed, a sense of otherness that suggests that the text was derived from a different culture which is untranslatable?

NJ: I do tend to agree with this, although quite how to achieve such a sense of otherness is another matter. I may enjoy the work of certain translators – such as, for instance, Robert Bly – but I don't necessarily always approve of what such translators are doing: in his case, rendering everything Bly-like. I certainly do not see it as my macho, commandeering job to make Menna Elfyn (or anyone else) sound like Nigel Jenkins (not least because although I think I have an identifiable style in prose, I do not think I have one identifiable voice in poetry). I am interested in voices, plural, and am inclined to see it as my job, as translator, to recreate the distinct voice of each poem (which may not be the one and only voice of a particular poet in all her poems at all times) in the target language. I rather take to what Patrick McGuinness has said about translation being 'the art of finding new forms through which to remain the same.' I am not interested in trying to convey the impression that the poem feels as if it was written in English; it wasn't written in English, and the translation shouldn't try to sound as if it was. I can relate to what the American poet Tess Gallagher says when she writes of translating the work of a Hungarian poet:

... we work on our translations
of each other's poems, trying to convert
one heart's currency to another
without spiritual loss.

MM: Why did you choose to translate Menna Elfyn's work? What appealed to you about her as a poet and how did you choose which of her poems you would translate?

NJ: It's difficult to recall exactly how our translating relationship began, but it probably had its roots in our joint editorship, for *CND Cymru*, of the bilingual anthology *Glas-Nos: Cerddi Dros Heddwch/Poems for Peace* (1987). Soon after its publication, Menna invited me to translate her contribution to that volume, 'Chwarae Plant', perhaps because she wanted an English version for peace rallies and other

readings. At that time, she was generally making her own translations, but she was to find out, in the words of Tony Conran, who was asked by the Arts Council to produce a reader's report on the bilingual collection that would become *Eucalyptus* (1995), that her translations were 'unworthy of the poet'. It was at that juncture, therefore, that she first assembled her 'team' of translators, and I was glad to be numbered among them (although it was Conran's version of 'Chwarae Plant' rather than mine which appeared in *Eucalyptus*). In general, it has been – as far as I'm concerned – Menna who has selected the poems for her translators, rather than the translator choosing the poems (although I believe this has happened in some cases). In doing so, she has often taken into account the particular interests of her translators (for instance, in view of my CND activities, she gave me several poems to translate for *Eucalyptus* on war-and-peace themes; and because she knew I didn't particularly like dogs, she mischievously gave me Rhydwen Williams's 'Cŵn' to translate for the *Bloodaxe* anthology!). She has also taken into account the tone, register, ideologies and attitudes of the original work of her translators, as a result of which, for instance, I have probably been given 'more muscular' things to translate than would have gone, say, to Elin ap Hywel, who has sometimes been employed to translate work of a subtler emotional discrimination and finer female sensibility. Additionally, she probably saves particularly demanding and difficult poems for a translator, such as Elin, who is a native speaker of Welsh. As for what appeals to me about her poetry, I think I have touched on that in my answer to question 1. Additionally, you might like to refer to the first two paragraphs of the blurb on the back cover of *Cusan Dyn Dall*, which I wrote, at the request of *Bloodaxe*'s Neil Astley.

MM: What is the significance of the act of translation in contemporary Wales? Is it a bridging project between two literatures or, at times, should translation be rejected to ensure original work is only available in the Welsh language (or English language)?

NJ: It has often been argued that traduttore equals traditore, the translator of a work is its betrayer; and one can have some sympathy with this outlook, particularly in a Welsh context, where it is more or less impossible to translate *cynghanedd* poetry and to communicate to outsiders what Twm Morys calls 'the comet-tail of reference and nuance'. The often prosy, literal translations of many a medieval (and modern)

cywydd lose all the glorious music of the original, and must have non-Welsh-speakers thinking, ‘Well, if this is one of the most venerable literary traditions of Europe, I just don’t see what all the fuss is about.’ One can understand Twm’s refusal to associate with a process which he would see as representing an impoverishment of his poetry. But can it really be the case that it would be better for Wales and Welsh culture for the poetry of, say, Dafydd ap Gwilym never to have been translated? I don’t think so. The extent to which the enterprise is bound to fail is, I think, the point. The content-faithful, flat and academic versions of, say, Rachel Bromwich, no doubt have their academic uses, but as poetry the degree of failure is unacceptable; I would rather the much livelier and less faithful versions of Rolfe Humphries; but they still fall short as poetry, in comparison with those of Tony Conran, who does his best to replicate aspects of the cywydd. Conran’s versions, I would argue, are acceptable, useful failures, and it’s better to have them than not, particularly as he provides them with a context – the indispensable introduction to his renowned Penguin anthology, and its equally necessary appendix on Welsh prosody – which is at pains to explain to the reader that there is an awful lot more to traditional Welsh poetry than can be delivered by even the most ambitious English translation. The reader with little or no Welsh cannot enjoy a Dafydd ap Gwilym cywydd ‘whole’ in the same way that a Welsh-speaker can; he or she is condemned to approach it in a fragmented way, listening if possible to the original, reading various translations and wandering around in the contextualising paraphernalia provided by the Penguin anthology and by various works of criticism and history. It’s far from perfect, but it is surely preferable for Wales and the world that such an approach is possible than that it is denied. That the attempt should be made to share some of the best Welsh-language literature with non-Welsh-speakers – both within Wales (where, let us face the shocking fact, the majority have never even heard of Dafydd ap Gwilym) and throughout the world – seems to me unarguably a good thing, as long as it is made clear on such occasions that in some branches of our literature there are severe limitations as to what translation can deliver. There are, of course, fewer such difficulties when it comes to translating free verse, which is Menna’s chief medium. She is probably, by now, internationally the best-known living poet of Wales (in either language) and this is due quite as much to the fact that she writes in a minority language as to the excellence of her poetry (in translation). Far from ‘betraying’ the Welsh language and Welsh culture, her activities specifically draw attention to the language and the

modern life that is lived through it. And it is not only the translations that people want to hear, as I can attest from having read with her on many platforms in America: they are avid to hear the music of the Welsh, even though few have a direct understanding of the language. I have mixed feelings, however, about the usefulness of translating from English into Welsh. Menna has translated some of my poetry into Welsh, for instance the six cosmic gnomes inscribed in slate on the walls of the astronomical observatory on the Swansea seafront. As this was ‘public art’, and there had been up to this point next to no public art in Swansea involving words, I didn’t want the poems to appear in English only, and I was delighted with her versions of the poems. Later, she, David Hughes and I were involved in a trilingual poetry project intended as a celebration – in Welsh, English and Swansea dialect – of Swansea. Our principle with this project was that there would be no translation at all, but simply poems in these languages placed around the city centre, for whoever stumbled upon them. Some were indeed set in place, and remained in place for many years, but the project as a whole collapsed when the local press and certain councillors objected strongly to our use of Swansea dialect: we were, declared the local advertising freesheet, ‘taking the mickey out of the local patois’ (which, of course, was the reverse of our intentions). So, here was a situation – as we embarked on the project as a whole – in which we felt it was not only acceptable but desirable for there to be no element of translation. As far as my own poetry is concerned, I am happy for it to be translated into many languages, but in Wales I don’t generally see the point in translating it into Welsh, for the simple reason that all Welsh people can speak English and therefore they can get as close as it possible to get to what I am trying to communicate, English being the only language in which I can write poetry. Translating my poetry into another language involves, necessarily, some compromise of its ‘essence’, but that is a price worth paying in order to communicate with, say, Russians or Italians who have no English. But all Welsh readers of poetry have a sophisticated command of English; it seems to me, therefore, somewhat perverse to translate my poetry into Welsh and thereby offer it to readers, as it were, at one remove. I feel that if Welsh readers (or listeners) want to ‘get me whole’ they had best get me in English (much as I would love to be able to write in Welsh).

MM: Should the translator receive more recognition when the original poet is performing/publishing the translated work?

NJ: In general, translators are under-acknowledged. All too rarely in reviews of new books in translation does one find the translator mentioned, let alone commented on as the person whose skills have enabled an author to have an extended life in a new language. Advertisements and publishers' puffs for translated books often ignore not only the translators' names but even the fact that the book is a translation. Menna, however, diligently acknowledges her translators, scrupulously including the translator's name when a poem is published, and, similarly, ensuring that the translator is given credit when she is performing a poem. When I have read poetry with her, she has often selected for performance one or two poems which I have translated – and then invited me to deliver the translation, before or after she has read the poem in the original Welsh. She has often enough acknowledged that she has built a formidable international career largely on the strength of her translators' endeavours.

APPENDIX

This may be far more than you want to know, but I'm adding here some notes which I have made for my students to help them with a translating exercise I sometimes do with them. They more or less reflect my own practice.

THE PROCESS OF TRANSLATION

There are computer programmes designed for translation + dictionaries and phrase books, but they are not a substitute for the footwork that the translator must do. They may help you get to the bones of the poem, but your job is to put the flesh of live language on those bones.

There are various theories too that some translators subscribe to. The 'Western' approach, for instance, tends to favour fidelity to content over form, while the 'Eastern', originating in Russia, tends to favour structure and patterning over content, often in the interest of an 'improved' version. Best to forget about predetermining theories and to be open and sensitive to each new poem as it arises. What is important

is the necessary organic unfolding of each translation and the search for ‘literal equivalents’ if possible or, if they are not, ‘affective equivalents’. Translations evolve organically.

The translator’s voice is as important as the voice of the original point. The translation-maker’s duty is to the original, yes; but his primary duty is to the new poem which, through the process of translation, ‘becomes’ the translator’s poem and not just a transliteration of the original poet’s work. The translator is therefore active, not passive; an originator, not a transporter; a transformer and creator and not just some drudge who, dictionary in hand, roots for and writes down linguistic equivalents. Not all translators think of themselves as poets, but if they are successful in their translations then, in the act of translation, they deserve to be called poets.

1. Know the poet. The ideal relationship with the poet is having direct access to him or her, being able therefore to ask questions and to ‘negotiate’ the translation. Know the poet’s context: read everything else you can of the poet’s work, read criticism on the poet, read literary and cultural history pertinent to the poet’s country and the times through which s/he lived. Read anthologies of translations from the poet’s language to see how others have tackled translating that poet – and what might be said in the introductions to such books about the problems of translating from that particular language. It may be necessary to convey information to the reader in footnotes about an unfamiliar country – but it’s better if such information can somehow be embodied in the translation itself.

2. Know the poem. Live with it. Analyze it for meaning and to understand the theme, symbols, metaphors, messages and underlying ideas. Read the poem again and again (out loud too), to thoroughly familiarize yourself with its tone, moods, sounds and rhythms – the pace, the pauses, the beats, the swirls of energy. Identify and define any unfamiliar words. Identify the type of poem, the time period, the patterning (rhyme scheme, etc.) Write it out in longhand and maybe stick copies around the place – to familiarize you with the shape of the poem on the page, the grammatical structure, where the adjectives are, where there are tense changes, and so forth. If the poem is smooth, musical and melodious, or if, conversely, it’s rough, full of slang, jerky and unpredictable – so your translation must be all these things.

3. Other translations of the poem, if it's a well-known one, may be useful to you – but you might well decide not to risk being 'contaminated' or 'intimidated' by them, and to start from scratch without referring to them.

4. Make a literal translation of the poem – with the aid of dictionaries, thesaurus and, possibly, native speakers – to establish the literal meaning of the text. But bare in mind that the meaning of a poem is not just down to syntax – it's shared by the sounds of the poem, the music.

5. First draft Make a first draft of the translation, concentrating only on the ideas of the poem. Do not concern yourself at this stage with specifics such as metre, structure, poetic effects. Simply draft the message of the poem within the general framework of the poem.

6. Second and subsequent drafts Consider the poem's structure; determine the best metre to use in the translation, or other structural devices (syllable count, etc.), taking into account the rhythms in the original poem – and put the draft into verse (or free verse, if applicable). Choose the sounds that will rhyme, if need be, and remain faithful to the original rhyme scheme. Next choose the words and phrases that will provide the poetic effects of the poem. Determine the best way to render such devices as internal rhymes, repetition of sounds, onomatopoeia.

7. Take a deep breath When the job's finished, sit tight on it for a few days, if not weeks – as you would, probably, with any poem – and then go over it again